

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Agweddau ar brofiad merch yn oes Fictoria: Dwy nofel hanesyddol

Jones, Eiddwen

Award date:
2014

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 02. Apr. 2025

Agweddau ar brofiad merch yn Oes Fictoria:

Dwy nofel hanesyddol

Eiddwen Jones

Traethawd ar gyfer gradd PhD, Prifysgol Bangor
Cyflwynwyd ym mis Mawrth 2014

Cynnwys

Crynodeb 3

Ddoe a Heddiw'n Un 4

Cwlwm Creulon

Trafodaeth ar y gwaith o lunio'r ddwy nofel

Llyfryddiaeth

CRYNODEB

Ceir yn y portffolio creadigol hwn ddwy nofel hanesyddol sydd yn edrych ar agweddau ar brofiadau merch yn Oes Fictoria. Dilynir y ddwy nofel gan drafodaeth feirniadol sydd yn olrhain cefndir y ddwy nofel, yr elfennau canolog ynddynt a'r hyn a fu'n sbardun iddynt. Mae profiadau merch yn ganolog i'r ddwy nofel.

Mae'r nofel gyntaf, *Ddoe a Heddiw'n Un*, yn sôn am foddi Dyffryn Efyrynwy ym Maldwyn er mwyn darparu cyflenwad ychwanegol o ddŵr i ddinas Lerpwl ar derfyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n stori sydd wedi ei hen anghofio gan bobl Cymru, fel y trafodir yn y drafodaeth ddilynol. Hyd yn oed yn y cyfnod pan foddwyd y dyffryn, anwybyddwyd trigolion yr hen Lanwddyn i bob pwrpas gan gyfryngau newyddion yr oes.

Yn y nofel ceir hanes un teulu arbennig yng nghanol y chwalfa – eu trallod, a'u profedigaethau teuluol, a'r rheiny'n digwydd yn erbyn cefndir boddi'r dyffryn. Gan mai'r un yw profiadau pobl o bob oes, plethir i mewn i'r stori hanes teulu cyfoes a chanddynt gysylltiad â Llanwddyn a Lerpwl. *Ddoe a Heddiw'n Un* sydd yn ffurfio cnewyllyn y portffolio. Hon yw'r nofel fwyaf swmpus o'r ddwy a gyflwynir, a hon hefyd yw'r fwyaf soffistigedig ei gwedd a'i themateg. O ganlyniad, mae'r drafodaeth feirniadol yn canolbwyntio'n helaeth ar y broses o lunio'r nofel hon.

Teitl yr ail nofel yw *Cwlwm Creulon*. Mae hon yn nofel fyrrach a luniwyd yn yr un cyfnod â *Ddoe a Heddiw'n Un*, ac sydd yn arddangos elfennau tebyg o ran dull ymadrodd, ymchwil a themâu. Oherwydd hyn, nid aethpwyd i'r un manylder wrth drafod ei llunio, gan osgoi dyblygu'r drafodaeth. Pwysleisir mai nofel a luniwyd yn Saesneg yn wreiddiol oedd hon, ac iddi gael ei haddasu gennyf i'r Gymraeg.

Mae hon yn nofel sydd wedi ei lleoli ym Mostyn, Sir y Fflint, a hefyd yn Kirkby in Furness, Cumbria. Cawn yma hanes Phoebe Hughes, morwyn yn y Caeau Gwylltion, fferm fawr yn ardal Mostyn, yn beichiogi o ganlyniad i'w pherthynas rywiol ag Ifan Lloyd, gwas yn y Coed Isaf, fferm gyfagos. Dangosir sut y mae'r ferch yn gorfod ysgwyddo'r cyfrifoldeb pan fo'r beichiogi'n digwydd, a darlunnir sut y mae cymdeithas y cyfnod yn ymateb i ddigwyddiad o'r fath.

Mae'r drafodaeth sy'n dilyn y ddwy nofel yn olrhain proses ysgrifennu'r gwaith dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2011 a 2014, gan drafod yr ymchwil cefndirol, ffurfiant y cymeriadau a'r dylanwadau a fu arnynt.

Ddoe a Heddiw'n Un

CYFLWYNIAD

**Er cof am Tecwyn, fy mhriod annwyl
am bron i 48 o flynyddoedd, a'i deulu
fu'n byw yn yr hen Lanwddyn cyn
y boddi.**

RHAGAIR

Nofel yw hon sy'n sôn am foddi Dyffryn Efyrynwy ym Maldwyn er mwyn darparu cyflenwad ychwanegol o ddŵr i ddinas Lerpwl ar derfyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau fod hanesion am foddi Llanwddyn ac adeiladu'r argae yn ffeithiol gywir, ond y mae'r cymeriadau yn ddychmygol.

*

Briw hen y Cwm a brynwyd,- yr erwau

Er arian a werthwyd;

Y brau feddau a faeddwyd,

A'r Llan yn y dyfnder llwyd.

A llwyd fel cen y llediaith – a dorrodd

Ar gwm dewr ac uniaith;

Rhy drwm fu gorthrwm 'Y Gwaith'

A chost yr oer orchestwaith.

(O awdl fuddugol John Evans, 'Yr Argae', Eisteddfod Genedlaethol 1954)

Pennod 1

Torrodd sŵn y cloc larwm fel seiren chwarel ar draws breuddwydion hyfryd Meira.

“Tro’r hen beth yna i ffwrdd, Wil. Ydi hi erioed yn hanner awr wedi chwech?” mwmiodd rhwng cwsg ac effro.

Rholiodd ar ei bol yn y gwely mawr cyfforddus yr oedd yn ei rannu gyda’i gŵr. Ateb Wil oedd rhoi ei fraich amdani, ei thynnu yn nes ato, ei chofleidio’n dyner a’i chusanu. Roeddent yn mwynhau’r agosatrwydd er iddynt fod yn briod ers deng mlynedd bellach.

Roedd y noson gynt wedi bod yn hyfryd gyda’r cusanu, y cofleidio a’r dod ynghyd wedi bod yn berffaith. Dyna a ddaeth i feddwl Meira wrth i Wil ei chofleidio unwaith eto am hanner awr wedi chwech y bore.

“Drycha Wil, rhaid i ni gallio. Dydd Mercher ydi hi ac mae gwaith yn galw. Fedrwn ni ddim gwagysmera fel rydan ni ar fore Sadwrn a Sul.”

“Rwyt ti’n eitha reit, Ond tyrd, un gusan fach arall cyn i mi ddechrau meddwl am yr hen swyddfa ’na,” temtiodd Wil Meira yn ei acen ‘Ganolbarth’ gref.

Suddodd Meira yn ôl i’w freichiau a bu cusanu a chofleidio tanbaid eto am rai eiliadau cyn iddi ymryddhau, neidio o’r gwely a rasio Wil i’r stafell molchi. Dyna pryd y cafodd sioc ei bywyd. Ar sil y ffenest gwelai ei thabledi atal-cenhedlu a sylweddolodd nad oedd wedi cymryd un y noson gynt cyn mynd i’r gwely!

Dechreuodd gyfri’n wyllt a daeth i’r canlyniad ei bod yn amser o’r mis pan fyddai’n fwyaf ffrwythlon. Be ar wyneb y ddaear oedd wedi digwydd iddi? Pam y bu iddi anghofio? Be oedd hi’n mynd i wneud? Tybed oedd hi wedi cenhedlu, wedi’r caru gwyllt y noson gynt? Cododd cyfog yng ngwddw Meira. Doedd hi’n bendant ddim eisiau plant. Roedd gorfod gofalu am blant yn yr ysgol o naw hyd at dri yn fwy na digon.

Nid oedd ganddi deimladau mamol o gwbl. Ar y llaw arall roedd Wil eisiau cychwyn teulu. Fedrai o ddim deall ei theimladau hi ac roedd hyn wedi bod yn achos dadlau rhyngddynt dros y blynyddoedd. Dim ond yn ddiweddar yr oeddynt wedi dod i ryw fath o gytundeb fod eu gyrfaedd yn bwysig i’r ddau ohonynt ac mai gohirio cychwyn teulu yn amhenodol fyddai orau.

Felly, bob nos yn ddeddfol roedd Meira yn cymryd y bilsen fach cyn neidio i’r gwely i freichiau Wil.

*

Camodd allan o'r gawod gan felltithio'i blerwch a'i hanghofrwydd. Tybed ddylai hi alw yn y fferyllfa amser cinio er mwyn cael y bilsen *morning after*? Sychodd ei hun yn ofalus cyn rhoi hylif *Repairwear laser focus* dros ei hwyneb a'i gwddf a chan rwbio'r hylif i mewn yn drwyadl i ambell grych a oedd yn cychwyn ffurfio o gwmpas ei llygaid a'i cheg. Er ei bod yn gwario ffortiwn ar *Clinique* i geisio cadw'i chroen yn ifanc ac iach, heneiddio roedd hi. Edrychodd yn fwy manwl y tro yma. Roedd hi'n llawer rhy hen i gael babi, a hi newydd gael ei phen-blwydd yn dri deg chwech. Doedd hi ddim am fod fel Buddug Ty'n Caeau yn cael ei babi cyntaf yn ddeugain oed. Aeth ias sydyn i lawr ei chefn. Tybed oedd hi'n cario babi Wil?

“Wil, mae'r gawod yn wag. Dwi wedi gorffen,” gwaeddodd.

Roedd Wil yn ei byjamas yn y gegin yn gosod y bwrdd ar gyfer brecwest. Ei orchwyl cyntaf bob dydd oedd paratoi brecwest. Roedd yn ofynnol i bopeth fod yn iawn ac yn drefnus. Dau gwpan a soser (dim mygiau), powlenni ar gyfer grawnfwyd a grawnffrwyth, dau blât bach, dwy gyllell, marmalêd, menyn mewn potyn del a fu gan ei fam ers talwm, napcyn bob un i fynd efo'r lliain bwrdd... Weithiau byddai'n berwi wy iddynt, felly rhaid oedd cael cwpan wy, llwy fach, a phupur a halen.

Fel arfer, byddai Meira yn dod i lawr yn edrych yn rhyfeddol o ddel ac yn barod am ei diwrnod fel pennaeth ysgol. Yna, tro Wil fyddai mynd am gawod, gwisgo yn sydyn - crys gwyn, siwt lwyd a thei coch - cyn cael brecwest a'i throi hi am fanc yr HSBC lle'r oedd yn ddirprwy reolwr.

Brasgamodd i fyny'r grisiau gan ddisgwyl gweld Meira yn dod allan o'r llofft wedi gwisgo ac ymbincio fel arfer.

“Rwy'ti'n araf iawn y bore 'ma. Be wyt ti'n wneud yn dal yn y stafell molchi? Rhaid imi fynd i'r gawod rwan. Tyrdd, brysia, mae brecwest wedi ei osod,” meddai Wil, gan fachu tywel mawr gwyn o'r cwprdd.

Roedd Meira'n dal i syllu arni ei hun yn y drych bach o dan y golau uwchben y basn. Roedd y drych hwn yn chwyddo'r ddelwedd ac yn dangos bob amherffeithrwydd. A hithau'n dal wedi ei lapio ei hun mewn tywel mawr gwyn, dywedodd wrth Wil:

“Wyt ti’n meddwl fy mod i’n heneiddio? Drycha, mae gen i sawl crych ar fy ngwddw ac wrth ochr fy llygaid. Traed brain. Hefyd, mae ’na un neu ddau yn ymyl fy ngwefus,’ aeth yn ei blaen. “Wyt ti’n eu gweld nhw?”

“Be ar wyneb y ddaear sy arnat ti, lodes? Dim ond newydd droi tri deg chwech wyt ti a dwi ond tri deg saith. Dan ni’n dal yn ifanc,” oedd ateb swta Wil wrth iddo gamu i mewn i’r gawod.

Trodd Meira i edrych arno. Roedd o’n lluniaidd ac yn dal. Ond roedd ei wallt cyrliog tywyll yn dangos ambell i flewyn gwyn erbyn hyn. Llygaid treiddgar glas yn union fel ei dad. Fo oedd ei chariad hi. A fo fyddai ei chariad hi am byth: ei lygaid glas a’r modd yr oedd yn ei ddal ei hun ac yn cerdded yn unionsyth gyda swae arbennig fu mor ddeniadol iddi ers blynyddoedd - ers dyddiau Bangor.

“Faswn i’n dweud ei fod yn dipyn o fi fawr, y ffordd mae o’n cerdded,” yr oedd Menna, ei ffrind, wedi ei ddweud ar y pryd. Ond roedd Meira’n gwybod yn wahanol, hyd yn oed bryd hynny. Roedd digon o fwynder Maldwyn yn Wil i olygu fod ganddo bersonoliaeth hyfryd.

“Be’ sy’ bore ’ma? Wyt ti’n sâl, Meira?” holodd Wil, wrth iddynt fwyta brecwest.

Edrychodd Meira i fyny’n sydyn a dagrau’n cronni. Agorodd y llifddorau a dechreuodd feichio crïo.

“Na, dwi ddim yn sâl... ddim eto, beth bynnag. Hwyrach y byddai’i cyn bo hir - ar ôl neithiwr. Ti’n gweld... ’nes i anghofio cymryd y bilsen...”

Edrychodd Wil yn syn arni.

“Falle ’mod i’n disgwyl!” aeth yn ei blaen. “Ti’n gwybod fel dwi’n teimlo am hynny.”

Yn dawel bach, roedd Wil wrth ei fodd. Roedd o wedi teimlo ers talwm fod eu bywyd yn hunanol a mewnblyg ac y byddai cychwyn teulu’n grêt. Meira oedd wedi penderfynu ers blynyddoedd y dylid gohirio cychwyn teulu yn amhenodol, ac roedd o - yn groes i’r graen - wedi cydfynd â hynny ac er mwyn heddwch wedi cydsynio.

Gafaelodd yn ei llaw yn dyner, a chan ei hanwesu meddai: “Meira fach, fyddai hynny ddim yn ddiwedd y byd. Plentyn wedi ei greu o’n cariad ni fyddai’r un bach...”

Torrodd Meira ar ei draws.

“Ddim yn ddiwedd y byd! Wrth gwrs y byddai’n ddiwedd y byd! Fy myd i beth bynnag. Fi fyddai’n sâl bob bore. Fi fyddai’n mynd yn dew a di-siâp. Fi fyddai’n rhoi fyny fy ngwaith. Fi fyddai’n codi at y babi yn oriau mân y bore...” dechreuodd

golli rheolaeth arni'i hun. "Dwi ddim yn credu y byddet ti yn ei glywed. Na, chwyrnu'n braf fyddet ti. A be pe bawn i'n cael efeilliaid? Fe gafodd dy nain ddwy set o efeilliaid ca maen nhw'n rhedeg mewn teulu fel arfer."

Roedd Wil yn edrych yn syn arni.

"Yn waeth na dim, beth petai rhyw nam ar y plentyn? Wedi'r cyfan, dwi'n dri deg chwech a mae bod yn feichiog dros dri deg pump yn gallu bod yn beryg. Fi fyddai'n gorfod cael yr hen brofion yna i weld ydi'r babi'n iawn. Be wyt ti'n feddwl o hynny? Ddim yn ddiwedd y byd, wir! Dach chi ddynion i gyd yr un peth. Mwynhau'r hwyl o greu ac wedyn cario ymlaen fel arfer."

Roedd golwg wedi'i frifo ar Wil, ond ni sylwodd Meira. Yn hytrach, gorffwysodd ei phen ar ei breichiau gan bwysu ar y bwrdd a chrïo a chrïo - yn rhannol o ofn, ac yn rhannol o ddieter.

*

Yn sydyn clywodd glec ar ddrws y ffrynt. Cododd ei phen. Roedd Wil wedi mynd. Wedi gadael am ei waith heb ffarwelio a heb gusan! Nid oedd hyn wedi digwydd erioed o'r blaen. Neidiodd Meira ar ei thraed a rhedeg at y drws. Ond rhy hwyr. Roedd Wil yn diflannu yn ei gar i lawr y ffordd.

Daeth ton o gywilydd dros Meira. Sylweddolodd ei bod wedi mynd yn rhy bell ac wedi ymddwyn yn hollol afresymol. Wedi'r cyfan, doedd dim posib dweud ei bod yn feichiog, efallai mai ffrwyth dychymyg oedd y cyfan. Ac os byddai amser a phrofion yn dangos ei bod yn feichiog, byddai'n rhaid iddi gyfaddef mai hunanoldeb a balchder oedd wedi ei meddiannu.

Wrth roi ei cholur a gwisgo ffrog ysgafn liwgar a siaced binc, penderfynodd fod rhaid iddi wneud ymdrech i gyfaddawdu a cheisio maddeuant gan Wil. Roedd o wrth ei fodd efo steccsen, felly steccsen amdani i swper heno, meddyliodd. Ychydig o salad, tatws newydd ac, ie, potel o'r gwin coch gorau. Roedd gwin coch bob amser yn help i anghofio tramgwydd.

*

Wrth deithio i'r ysgol yn ei BMW Z4 y bore hwnnw daeth atgofion yn ôl i feddwl Meira o sut y bu i Wil a hi gyfarfod. Yn ystod blwyddyn olaf ei gradd yn y brifysgol

ym Mangor y digwyddodd hynny. Roedd criw ohonynt wedi mynd draw i'r Antelope am ddiod un Sadwrn braf ym mis Medi 1991. Yno roedd Wil yn dathlu ei ben-blwydd gydag un neu ddau o'i ffrindiau.

“Dewch, genod, mae Wil 'ma'n cael ei ben-blwydd heddiw,” meddai Ifan, ffrind gorau Wil. “Pawb sy isio diod, rhoi eu llaw fyny, fo sy'n talu.”

Aeth Ifan yn ei flaen:

“Hefyd dan ni'n dathlu ein bod ni wedi cwblhau ein blwyddyn hyfforddiant fel athrawon. Dan ni am fynd i Gaerdydd i ddysgu - mwy o hwyl i gael yno. Mynd i wylïo'r rygbi yn gyson, a mynd ar nos Sadwrn i Glwb Ifor Bach!”

Fel yr aeth y noson ymlaen, a'r cwrw a'r gwin yn dechrau mynd i'w pennau, sylwodd Meira fod Wil yn closio ati, a'i fod yn amlwg yn awyddus i sgwrsio. Roedd o wedi bod yn llygadu a ffansio'r ferch wallt cyrliog du, gyda'r llygaid gwyrddlas, llawn direidi a'r wên hudolus ers iddi gerdded i mewn i'r bar.

“Rwy'ti'n lwcus o dy wallt, dim angen perm na tongs, mae o mor naturiol. Dwi'n gwario ffortiwn ar f'un i,” oedd cwyn ei ffrind, Menna cyn iddynt fynd allan bob nos Sadwrn.

Roedd Meira'n ymwybodol ei bod yn lwcus. Gwyddai ei bod yn ffortunos hefyd yn y ffaith nad oedd hi'n gorfod gwylïo ei phwysau. Fel arfer pwysai tua wyth stôn ac fel canlyniad gallai fwyta popeth.

“Tyrd, gad i ni chwilio am gornel dawel,” awgrymodd Wil.

“Un o ble wyt ti?” holodd wedyn, gan eistedd wrth ei hochr yng nghornel bella'r bar.

“O lannau Dyfrdwy. Pentre o'r enw Maesglas rhyw bymtheng milltir o Gaer.”

“Erioed wedi clywed am y lle!”

“Wel, mae 'na weddillion abaty yno. Mi wnaeth Harri'r VIII ddwyn llawer o drysorau Abaty Dinas Basing,” eglurodd Meira i ddangos ei gwybodaeth, cyn dechrau ei holi yntau. “Ble mae dy gartre di?”

Rhoddodd ei glasier gwin coch i lawr ar y bwrdd a chlosio'n agosach ato.

“O Lanwddyn, sir Drefaldwyn.”

“Llanwddyn? Wel, dydw i erioed wedi clywed am Llanwddyn,” meddai hithau.

“Do, debyg iawn,” mynnodd Wil. “Dyna lle mae'r gronfa ddŵr enfawr a'r argae adeiladwyd y ganrif ddwytha i roi dŵr i Lerpwl. Y diawled! Boddi pentre a lladd cymuned. Y cyfan yn mynd o dan y dŵr...”

Wedi saib o dawelwch rhyngddynt dyma Wil yn nesu at Meira a rhoi ei fraich yn ysgafn dros ei hysgwydd. Dyna deimlad braf. Aeth gwefr drwy ei chorff wrth i Wil ei chyffwrdd. Roedd y boi yma'n wahanol i unrhyw un arall oedd wedi closio ati yn ystod ei dyddiau coleg.

Cyn diwedd y noson, roeddent wedi mynd allan i gefn y dafarn a threulio cryn amser yn cusanu'n frwd.

*

Byth er hynny, prin iddynt fod ar wahân. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, priodwyd y ddau yng nghapel y Presbyteriaid ym Maesglas, a hynny mewn dipyn o steil. Roedd deng mlynedd bellach wedi mynd heibio ac roeddent wedi mwynhau eu bywyd priodasol, ond bob hyn a hyn roedd cwestiwn cychwyn teulu wedi cynhyrfu'r dyfroedd, yn union fel y gwnaeth heddiw.

Ond roedd heddiw'n wahanol. Doedd Wil erioed wedi colli ei dymer a cherdded allan o'r blaen. Byddai rhaid dweud sori, sori, sori - go iawn.

Pennod 2

Wrth deithio i'r ysgol y bore hwnnw, dechreuodd Meira ei holi ei hun o ddifrif pam yr oedd ei gyrfa mor bwysig iddi. Ers ei phlentyndod roedd bod yn athrawes ar blant bach wedi bod yn uchelgais ganddi. Roedd hi wyth mlynedd yn iau na'i chwaer, a golygai hynny y bu'n rhaid iddi ei diddanu ei hun y rhan fwyaf o'r amser pan oedd yn ferch fach. Am rai blynyddoedd chwarae ysgol oedd ei hoff weithgarwch.

Deunaw o blant dychmygol oedd ganddi yn ei dosbarth, a hynny - mae'n bur debyg - am mai deunaw oedd yn ei dosbarth yn yr ysgol go iawn. Yn ystod y chwarae byddai'n galw'r cofrestr, yn dweud storïau wrth y plant, yn rhoi papur a phensil mewn cylch ar lawr ei hystafell wely (deunaw pensil a deunaw darn o bapur!). Fel arfer, pan oedd y chwarae dychmygol ar ei anterth, byddai ei thaid, a oedd yn byw gyda nhw, yn clustfeinio wrth y drws. Roedd o wrth ei fodd yn ei chlywed yn ei byd bach hud a lledrith ei hun.

Un diwrnod, mentrodd i mewn i'r ystafell. Edrychodd Meira fach arno'n flin gan ddweud yn ei llais athrawes: "Taid, rwyt ti newydd sefyll ar y plant!" Aethai yntau allan i'r gegin dan ymddiheuro a phwffian chwerthin.

"Dwi'n sicr o un peth," meddai wrth ei rhieni. "Athrawes fydd Meira, heb os nac oni bai."

Wedi iddi hyfforddi fel athrawes bu'n dysgu am flwyddyn yn un o ysgolion cynradd Cymraeg Glannau Dyfrdwy. Yna, symudodd i Lerpwl wedi i Wil gael swydd ym manc yr HSBC yn y ddinas.

Fel yr aeth y blynyddoedd heibio, sylweddolodd Meira ei bod yn croesawu cyfrifoldeb, a buan y daeth yn bennaeth adran, cyn ei dyrchafu'n Ddirpwy Bennaeth yr ysgol. Wedi dwy flynedd yn y swydd honno gwelodd hysbyseb yn y *Times Educational Supplement* am swydd Pennaeth yn un o ysgolion cynradd mwyaf Lerpwl. Roedd Wil yn gefnogol.

"Rho dy gais i mewn. Mi fydd o'n brofiad i ti fynd am gyfweliad," meddai.

O'r diwedd perswadiwyd hi i lenwi'r ffurflen gais.

"Cha' i ddim clywed 'chwaneg o'r cyfeiriad yna, mae'n sicr," meddai wrth roi'r llythyr yn y blwch post ar ben y stryd.

Bu'r cyfweliad yn erchyll, neu o leiaf felly y teimlai Meira. Cyflwyniad i lywodraethwyr yr ysgol yn gyntaf, a hwnnw i barhau am o leiaf ugain munud. Yna, cael ei holi'n dwll gan sawl aelod o'r Bwrdd Llywodraethol. Llwyddodd yn

rhyfeddol. Ond daeth un cwestiwn a gynhyrfodd Meira, a hwnnw'n dod gan gynrychiolydd y rhieni.

“Do you have any children, lovey? And if so, what are your arrangements for looking after them when they're ill and you need to be in school?”

Roedd swyddog addysg yn bresennol, ac meddai yntau'n syth:

“Mrs Owen, you do not have to answer that question; that's a taboo subject.”

Roedd Meira wedi cynhyrfu'n lân, a gwridodd at ei chlustiau. Pam oedd rhaid i'r hen gwestiwn yna ynglŷn â theulu godi ei ben o hyd?

Cafodd Wil a hi noson i'w chofio wrth ddatlu ei llwyddiant gyda ffrindiau pan benodwyd hi'n Bennaeth.

“Mae Pennaeth yn swnio'n grandiach na Dirprwy,” meddai Wil, wrth gynnig llwnc destun ac ymfalchïo yn ei llwyddiant.

“Wel, mae hon yn ysgol fawr ac ynddi adran babanod ac adran iau. Gobeithio y medra'i wneud y gwaith. Rhyw flys mynd trwy ac ofn yr ydw i, ar hyn o bryd,” oedd ateb pryderus Meira wrth sipian ei thrydydd glasier o win coch.

Ond bu'r ysgol yn llwyddiant mawr dan ei harweiniad. Roedd gair da amdani, a phawb yn ei hoffi, y staff, y plant, a hefyd y rhieni, heblaw am ambell un trafferthus.

“She's very approachable, and you know where you stand with her,” oedd barn Mrs Pugh, athrawes y dosbarth meithrin.

Bob min nos wedi swper roedd Meira'n gweithio ar gynlluniau gwaith a pholisïau newydd i'r ysgol, a disgrifiadau swydd i bob aelod o'r staff. Yn yr ysgol roedd hi'n cynnal cyfarfodydd staff yn gyson am hanner awr wedi tri, gan ddirprwyo cyfrifoldebau cwricwlwm i unigolion ac annog rhai i fynychu cyrsiau a oedd ar gael i ddatblygu sgiliau ac ymestyn gwybodaeth am y pwnc.

Roedd hi o ddifrif ac wrth ei bodd. Wrth gwrs, roedd rhai yn ei beirniadu. Un oriog oedd ysgrifenyddes yr ysgol, Mrs Brown. Roedd hi'n sobr o gegog a chwynfanllyd.

“She's a new broom. She'll soon get fed up and slow down. Really, I can't keep up with all the work she keeps giving me,” oedd ei chwyn barhaus.

Ond i'r gwrthwyneb, fel roedd pethau'n gwella yn yr ysgol, cynyddu a wnâi brwdfrydedd Meira. Roedd rhaid iddi gydnabod hefyd ei bod yn lwcus iawn yn ei staff, y rhan fwyaf ohonynt yn falch o gael Pennaeth newydd a oedd mor barod i fentro ailstrwythuro'r ysgol gan ymdrechu i godi safonau.

Flwyddyn wedi iddi gychwyn ar ei swydd newydd cafodd ymweliad gan un o swyddogion yr Awdurdod Addysg. Roedd honno wedi ei chanmol i'r cymylau:

“You are well on the way towards turning this school around, Mrs Owen.”

Cododd y ganmoliaeth galon Meira, ac o ganlyniad aeth yn fwy ymroddedig fyth, gan ymateb i'r sialens a oedd o'i blaen. Ac roedd heddiw'n ddiwrnod arall.

Saint Mary's County Primary School, Toxteth.

Llywiodd Meira'r *BMW* i mewn i faes parcio'r staff. Neidiodd allan, a chan fachu ei bag lledr du, cychwynnodd tua'r fynedfa. Wedi'r holl helynt efo Wil y bore hwnnw teimlai'n syndod o eiddgar i fynd i'w gwaith. Fe fyddai pethau'n normal yn yr ysgol. Dim sôn am fabis! A byddai bwrlwm y diwrnod yn help iddi anghofio problemau personol. Roedd hi'n barod wedi bod yn blaenoriaethu tasgau. Darllen y post. Cael gair gydag athrawes Blwyddyn 1B am y cwrs oedd ar gael ar sut i ddatblygu sgiliau darllen plant. Wedi'r cyfan, dyma'r dosbarth ble roedd rhai yn cael trafferthion. Ai ar y disgyblion ynteu'r athrawes oedd y bai, tybed? Yn sicr, byddai peth arweiniad yn sicr o helpu, meddyliodd Meira. Cofiodd wedyn fod angen iddi gael sgwrs gyda'r Dirprwy ynglŷn â dyletswyddau'r staff, ac roedd rhaid ffonio Cadeirydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol i drefnu cyfarfod i gynllunio gweithgareddau a stondinau'r ffair haf. Roedd y rhestr yn faith, a Meira, rhywsut, yn falch o hynny.

Wrth iddi groesi'r buarth a chyn iddi allu cyrraedd y fynedfa, suddodd ei chalon o weld Mrs Butterworth, un o'r mamau, yn dod tuag ati.

“Mrs Owen, I'd like a word about our Billy, chuck. You see, he's started wetting the bed again.”

Gwenodd Meira, gan ffugio diddordeb ym mhroblemau Billy. Pwysig iawn oedd dangos diddordeb ac amynedd.

“Oh! I am sorry, Mrs Butterworth. When did this problem start again?”

“Last night was the fourth night for him to wet the bed and I really can't keep up with the washing.”

Cochodd Billy at ei glustiau. Pump oed oedd o, a chuddiodd y tu ôl i'w fam.

“Well, well, maybe he's worried about something at school. Have those unkind boys from year two been teasing you again?” holodd Meira gan gwrcwd i lawr ac edrych yn syth i lygaid glas Billy.

Druan ohono. Roedd o bob amser yn edrych yn ddi-raen. Pawb yn yr ysgol erbyn hyn yn gwisgo'r wisg ysgol. Pawb ond Billy. Ei fam yn cyhoeddi'n uchel wrth

iât yr ysgol nad oedd hi ddim yn gallu fforddio'r iwniform. Fel canlyniad roedd Billy fel rhyw frân wen, yn wahanol i bawb.

Na, doedd bechgyn yr ail flwyddyn ddim wedi bod yn ei herian. Felly, beth yn union oedd y broblem? Cyn troi am y fynedfa, gofynnodd Meira i Mrs Butterworth:

“Is everything alright at home?”

Roedd hi'n amlwg ei bod wedi cyffwrdd â nerf, ac meddai Mrs Butterworth a'i hwyneb yn goch a'i llygaid yn fflachio:

“Hm! Of course everything is OK at home – no problems there, the problem is at school, but I can see it's no use talking to you!”

I ffwrdd â hi gan dynnu Billy yn anfoddog tua drws yr ysgol, a chan fygwth mynd i gael gair gydag athrawes Billy er mwyn mynd at wraidd y broblem, yn ei thyb hi. Dilynodd Meira'r ddau i'r coridor, yna gwelodd nhw'n diflannu i mewn i ystafell Dosbarth Un. Nid oedd hi wedi'i darbwyllo gan or-ymateb Mrs Butterworth. Roedd yn bur debyg mai'r ffraeo a'r gweiddi oedd yn mynd ymlaen yn y tŷ pan fyddai Mr Butterworth yn dychwelyd o'r dafarn oedd wrth wraidd problem Billy.

“You do look nice today love, that pink colour suits you,” oedd y cyfarchiad a gafodd wrth fynd drwy swyddfa Mrs Brown, yr ysgrifenyddes, i swyddfa'r Pennaeth.

Mae hi mewn hwyliau da, eisiau ffafr mae'n debyg, meddylodd Meira. ‘Love’, yn wir! Doedd dim parch yn Lerpwl i unigolion na swydd!

“I need to ask you a favour,” meddai'r ysgrifenyddes wedyn. “Can I have tomorrow afternoon off? It's our Tom, you see, he's in court for shoplifting and I need to be there for him.”

Dyna pam ei bod mor serchus.

“Oh! yes I forgot to mention, Miss Wainwright phoned. Not coming in today, she's got that bug that's going round. Won't be in tomorrow either. Do you want me to phone the supply, chuck?”

Edrychodd Meira arni'n syn. O! roedd hi'n gwybod sut i ffalsio.

“Yes, you can have tomorrow afternoon off, but I'll have to inform the Chair of Governors. And yes, phone the supply as soon as possible.”

Heb oedi rhagor aeth Meira i mewn i'w swyddfa gan gau'r drws. Roedd yn stafell braf gyda golygfa ar draws afon Merswy: digon o le i gadw llyfrau, desg anferth hen ffasiwn ac arni wyneb lledr gwyrdd, cadair ddu o ledr, un o'r rheini oedd yn troi a throi. Ac yn y gornel bellaf roedd dwy gadair esmwyth, eto o ledr du, ar gyfer ymwelwyr.

“Mae hon cystal â swyddfa Rheolwr Banc,” oedd sylw Wil pan welodd o mor grand oedd ei hystafell yn yr ysgol.

Roedd Meira wedi ceisio’i gwneud yn gartrefol gan ddod â chlustogau lliwgar a’u rhoi ar y cadeiriau esmwyth. Ar y wal roedd hi wedi hongian dau lun i’w hatgoffa o’i gwreiddiau, un o Foel Famau ac un o gastell Normanaidd y Fflint.

Agorodd y ffenest i gael ychydig o awyr. Roedd hi’n amlwg fod Mrs Brown wedi’i phlesio, meddyliodd. Mi fyddai’n bosib gwneud hebddi am brynhawn. Fel arfer malu awyr efo Eleanor, un o’r cynorthwywyr dosbarth fyddai hi am hanner awr diwethaf pob diwrnod, er bod honno, yr hen glep, i fod yn tacluso’r dosbarth yn ystod amser stori’r plant.

Cymerodd Meira gipolwg ar ei desg. Roedd yna fwndel o llythyrau’n disgwyl amdani...

Roedd wedi meddwl y byddai’r hyn a ddigwyddodd rhyngddi hi a Wil y bore hwnnw wedi ei hen anghofio ym mhrysurdeb yr ysgol. Ond roedd yr atgof yn dal i gorddi yng nghefn ei meddwl. Wrth edrych ar y bwndel llythyrau gwelodd Meira yn eu mysg amlen frown. Rhoddodd ei chalon lam. Tybed ai ‘yr amlen frown’ oedd hi? Yr amlen frown honno fyddai’n cyfleu’r neges fod Arolwg ar y gorwel!

Penderfynodd Meira beidio â chynhyrfu; doedd dim pwrpas mynd o flaen gofid. Llythyrau o’r Awdurdod Addysg yn sôn am iechyd a diogelwch. Llythyr yn hysbysebu cynllun mathemateg newydd. Cynigion am fargeinion os oedd rhywun yn archebu cyfrifiaduron newydd i’r ysgol (dim arian ar gael, meddyliodd Meira). Gwybodaeth am Hyfforddiant Mewn Swydd i’r staff.

Gwibiodd Meira drwy’r llythyrau gan eu didoli i’w pasio ymlaen i’r Dirprwy Bennaeth. Yna daeth at y llythyr olaf. O diar! Yr amlen frown!

Agorodd yr amlen yn ofalus. Fel yr oedd hi wedi ofni, roedd y tîm arolygu am ymweld â’r ysgol ymhen rhai misoedd! Dyna beth oedd sioc. Ond roedd wedi hanner disgwyl y newyddion ers mis bellach. Cafodd y teimlad nad oedd y diwrnod hwn yn mynd i droi allan yn rhy dda. Ffrae efo Wil, yna cael ar ddeall fod yr arolygwyr ar eu ffordd. Rhaid oedd cael gair sydyn gyda’r Dirprwy er mwyn iddi hi alw cyfarfod ddiwedd y prynhawn canlynol.

Cymraes oedd Olwen Fraser ac roedd hynny’n fendith fawr gan fod y ddwy yn gallu trafod popeth yn Gymraeg. Roeddent yn ymwybodol fod Mrs Brown yn glustiau i gyd ac yn gwrandio y tu ôl i’r drws pan fyddai Meira ac Olwen gyda’i gilydd yn trafod materion ynglŷn â’r ysgol, neu unrhyw beth arall, petai’n dod i hynny. Os oedd

yna rywbeth yr oedd y ddwy'n awyddus i'r ysgrifennyddes ei wybod, yna roeddent yn trafod yn uchel yn yr iaith fain! Ymhen hanner awr fe fyddai'r newyddion hynny ar led o amgylch yr ysgol. Ond pan oedd yna faterion pwysig, wel, Cymraeg bob tro.

“They are in there having a chat, but I can't understand a word – it's that gobbledegooch again,” oedd ei chwyn wrth Eleanor, ei ffrind pennaf ar y staff.

“Be sy?” holodd Olwen. “Rwy'ti'n edrych fel petaet ti wedi gweld drychiolaeth.”

Chwifiodd Meira'r amlen frown.

“Mae nhw wedi'n rhybuddio ni, fe fyddan nhw yma ymhen ychydig fisoedd. Mi fydd pawb wedyn ar bigau'r drain ac yn cynhyrchu tomennydd o bapur – allwn i neud heb y newyddion yma!”

“Wel, paid â phoeni, mae 'na gynllun ar gyfer pob agwedd o'r cwricwlwm. Dan ni'n cyrraedd y targedau angenrheidiol bob blwyddyn. Mae'r disgyblion yn cael canlyniadau da yn y profion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Mae gennym system gofnodi dda ac mae gan bob un ohonom ddisgrifiad swydd. Ar ben hynny, mae gennym berthynas dda efo'r rhieni, heblaw ambell un fel Mrs Butterworth, wrth gwrs,” cysurodd Olwen.

“Ia,ia, mae hyn i gyd yn wir, ond rhaid adnewyddu rhai o'r cynlluniau gwaith a thalu mwy o sylw i'r modd rydan ni'n arddangos gwaith y disgyblion yn y stafelloedd dosbarth, y coridorau a'r neuadd. Rhaid i mi gael cyfarfod efo'r staff fory. Mi fydd pawb mewn panic llwyr! Mae'n rhaid i mi hefyd gael gair gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr,” aeth Meira yn ei blaen, gan ysgwyd ei phen yn hunandosturiol.

Pam oedd hi'n adweithio fel hyn? Ai tensiwn y ffrae efo Wil oedd wedi effeithio arni? meddyliodd.

“Tyrd, mi wna i ofyn i hon drws nesa neud paned o goffi i ni ein dwy; mae hi bron yn amser chwarae.”

Dyna oedd ateb Olwen i bob problem – amser i feddwl dros baned o goffi. Eisteddodd y ddwy yn y cadeiriau esmwyth yn sipian y coffi poeth.

“Mae gen i *digestive* yn rhywle yn fy nesg. Wyt ti isio un?” cynigiodd Meira.

“Wel, ddylwn i ddim, dwi'n rhoi pwysau ymlaen fel mae hi – ond mi ga i un y bore 'ma,” oedd ateb Olwen.

Bu tawelwch am eiliad neu ddwy tra'r oeddent yn mwynhau eu diod ac yn bwyta'r fisgeden. Yna meddai Olwen:

“Dydi cael Arolwg ddim yn ddrwg i gyd, mi fydd raid i un neu ddwy ddechrau tynnu eu pwysau, ac os cawn ni adroddiad da mi fydd erthygl yn y papur lleol, ac mi fydd hynny’n hysbyseb i’r ysgol.”

“Hm, hwyrach dy fod ti’n iawn. Gawn ni weld be fydd yr ymateb. Rhaid i ni ein dwy beidio dangos unrhyw arwydd o banic – cymryd pethau gan bwyll bach,” atebodd Meira.

Yna cododd o’i chadair, a chan droi at Olwen meddai, “A dweud y gwir, dwi braidd yn edrych ymlaen at y sialens, mi wnawn ni ddangos iddyn nhw be’ allwn ni wneud fel ysgol!”

“Ia! mi wnawn ni’n gorau beth bynnag,” oedd ateb Olwen.

Pennod 3

Wedi i'r ddwy orffen yfed eu coffi dyma benderfynu y dylai Olwen fynd draw i ystafell y staff i dynnu sylw at y ffaith fod cyfarfod i'w gynnal am hanner awr wedi tri y prynhawn canlynol.

“Cofia, paid â chreu unrhyw banig, dim ond awgrymu ei bod hi'n bosib y bydd yna Arolwg cyn hir ac nad oes neb i boeni. Ti'n gweld, mae'n ofynnol i mi fel Pennaeth dorri'r newyddion,” siarsiodd Meira.

Tra oedd y ddwy yn trafod, dyma gnoc sydyn ac awdurdodol ar ddrws y swyddfa a llais Mrs Brown i'w glywed yn groch:

“Excuse me, you can't barge in like that, the Head is in a very important meeting.”

Roedd hi'n amlwg ei bod wedi deall fod rhyw fusnes pwysig rhwng y ddwy. Daeth llais dyn ar ei thraws.

“Sorry love, this can't wait. We do need an urgent word with Mrs Owen.”

O glywed beth oedd yn mynd ymlaen agorodd Meira ddrws ei swyddfa i weld pwy oedd yno. Yn sefyll o'i blaen roedd plismon a phlismones.

“Mrs Meira Owen, I'm PC Ratcliffe, and this is my colleague, WPC Shorey, may we come in please?”

Roedd Meira wedi dychryn, ac agorodd y drws led y pen i'w gadael i mewn i'r swyddfa.

“Do sit down,” meddai.

“Wyt ti eisiau i mi fynd?” holodd Olwen.

“Na, na, aros, gawn ni'n dwy glywed pam maen nhw yma,” atebodd Meira a'i chalon yn curo yn gyflymach bob munud. Beth bynnag oedd o, roedd yn well iddi gael cwmni Olwen. O weld yr olwg ar wyneb y plismon, y peth cyntaf a ddaeth i'w meddwl oedd Wil. Oedd Wil yn iawn tybed?

Aeth y Plismon yn ei flaen:

“ We think you should sit down. I'm afraid we have bad news concerning your husband, William Elfyn Owen, who has met with a serious car accident. He was driving to work this morning in rather a hurry. He attempted to overtake another vehicle and ended up going through the central reservation. He has been taken to the A&E department at the University Hospital with severe head injuries. We've come to take you there.”

Syrthiodd Meira yn ôl i'w chadair a dechreuodd grynu drwyddi. Ni allai yngan gair am rai eiliadau. Rhedodd Olwen am lasiad o ddŵr a'i gynnig iddi. Ond doedd hi ddim yn gallu llyncu.

Cododd yn sydyn.

“Rhaid imi fynd efo'r ddau yma, mae Wil fy angen i.”

“Wyt ti isio i fi ddod efo ti?” cynigiodd Olwen.

Dros ei hysgwydd, wrth ddiflannu drwy'r drws, dywedodd Meira:

“Na, rhaid iti redeg y lle yma.”

*

Wrth eistedd yn sedd gefn car y plismyn roedd calon Meira'n curo mor gyflym nes iddi feddwl y byddai'r blismones a oedd yn eistedd agosaf ati yn ei chlywed. Roedd ei meddwl allan o reolaeth yn llwyr. Arnaf i mae'r bai am hyn. Y fi oedd wedi ei wylltio fo a'i ddigio fo. Plis, plis Wil, paid â 'ngadael i. Os wyt ti isio plant, dwi'n barod i gael hanner dwsin. Plis, Wil, paid â 'ngadael i, alla'i ddim byw hebot ti. O Dduw Mawr, os wyt ti'n gwrando, plis, plis wnei di achub Wil, fy unig gariad...”

Yn y man, clywodd lais:

“Here we are, I'll show you the way to the A&E Department.”

Roedd yr ysbyty'n anferth a Meira druan mewn cyflwr o sioc yn meddwl na fyddai byth yn cyrraedd yr adran ddamweiniau. Roedd ei thraed yn teimlo fel plwm, a sŵn ei sodlau yn uchel ar y llawr wrth iddi hi â'r blismones gerdded ar hyd y coridor a deimlai fel petai'n filltir o hyd. Wedi iddynt gyrraedd y dderbynfa, dyma'r blismones yn dweud:

“This is Mrs Owen, she's here to see her husband. He was admitted this morning following an accident.”

“Oh! yes, I'll call the Sister now. I know they were hoping you'd get here soon.”

Roedd yna rywbeth ofnadwy yn bod. Teimlodd Meira'r panig yn ymledu trwy ei chorff. Beth oedd wedi digwydd? Oedd Wil yn mynd i fod yn iawn? Oedd o'n mynd i farw? Doedd bosib ei fod o yn mynd i farw! Roedd Wil yn gryf. Bob amser yn iach fel cneuen. Na, doedd Wil ddim yn mynd i farw! Allai hynny ddim digwydd!

*

Galwyd arni i mewn i ofod tawel, a'r llenni wedi eu tynnu o amgylch un o droliâu'r ysbyty. Dyna lle'r oedd o yn edrych yn welw a chlwyfedig, ei lygaid wedi cau a chleisiau mawr ar ei wyneb. Roedd o'n hollol, hollol dawel.

Roedd y tîm argyfwng, un meddyg a dwy nyrs, yn paratoi i roi y peiriant adnewyddu curiad calon arno. Dyma naid sydyn artiffisial, unwaith, ddwywaith, deirgwaith.

Roedd pob naid yn loes calon i Meira ond eto cafodd ei hun yn dweud yn dawel yn ei meddwl gan ddal ei gwynt - plis, plis rhaid i hyn weithio. Roedd wedi ei hurtio. Aeth ei cheg yn hollol sych. Roedd ei hymateb yn union fel cwningen fach ar ganol cae pan oedd carlwm yn ei dilyn ac yn rhythu arni.

Yr hyn oedd yn ei brawychu fwyaf oedd yr olwg bryderus ar wynebau'r meddyg a'r nyrsys.

Galwodd pennaeth y tîm arni i ddod yn nes, a synnodd ei hun ei bod yn gallu cerdded yn araf a chrynedig tuag ato. Roeddent wedi trio popeth i gael calon Wil i ailgychwyn. Ond wedi methu. Trodd y pennaeth ati:

“I'm sorry Mrs Owen we have tried everything but we have failed.”

Yna mewn llais oeraidd a chan edrych ar ei wats datganodd:

“Time of death 10.58 a.m.”

*

Teimlodd Meira'r llawr yn dod i'w chyfarfod. Aeth pobman yn ddu, a phan agorodd ei llygaid, sylweddolodd ei bod yn gorwedd ar wely cul yn un o'r baeau, a'r llenni wedi eu cau o'i hamgylch.

“Now sit up very slowly, lovey. You've had a terrible shock.”

Llais un o'r nyrsys.

Ceisiodd Meira godi'n araf a rhoi ei thraed dros erchwyn y gwely. Ond roedd hyn yn ormod, ac fe syrthiodd yn ôl.

“Now take your time, steady, there's no hurry.”

Roedd hon yn gefnogol a charedig, meddyliodd Meira. Yna'n sydyn, heb ddim arwydd, cofiodd Meira pam yr oedd hi yn yr ysbyty. Teimlodd gyfog yn codi yn ei gwddw a thafloodd i fyny dros y gwely a thros y nyrs druan.

Dechreuodd feichio crïo wrth i'r ffaith erchyll wawrio arni fod Wil wedi

marw. Teimlai hefyd gywilydd ei bod wedi creu'r fath lanast.

“Nurse Evans speaks Welsh, I'll call her, she'll help you and don't worry about the mess we'll soon clear it all up.”

*

“Wel, wel, Mrs Owen bach, peidiwch â gofidio, dach chi wedi cael sioc ofnadwy. Pwy alla i ffonio i fynd adre hefo chi?”

Roedd ei chwaer yn byw yn Bridlington, swydd Efrog. Roedd hi wyth mlynedd yn hŷn na Meira a doedd fawr o Gymraeg wedi bod rhwng y ddwy ers y ffræ a gododd ynglŷn ag ewyllys eu mam. Ac eto, eisiau gweld ei theulu yr oedd Meira yn awr.

“Wnewch chi ffonio fy chwaer i ddweud wrthi be' sy' wedi digwydd?”

Dechreuodd chwilota yn ei bag llaw am rif ffôn Margied, yna ailfeddyliodd:

“Ond efallai y dylech chi ffonio Olwen Fraser yn yr ysgol gynta...”

Yn sydyn, dechreuodd Meira grŷo a mwmblan drosodd a throsodd, “Fo oedd 'y nghariad i. Be dwi'n mynd i wneud? Fo oedd fy ffrind gorau i. Sut alla' i ymdopi hebdo?”

Ceisiodd godi ar ei thraed. Roedd hi'n sobr o sigledig.

“Ga' i weld o eto, imi gael dweud ffarwel yn iawn?”

Roedd corff Wil yn gorwedd mewn bae arbennig, a'i wyneb o dan orchudd.

“Ydych chi'n siŵr eich bod isio ei weld o eto? Mae o wedi ei anafu'n ddrwg, fel y gwelsoch chi,” holodd Nyrs Evans yn garedig.

Pan agorwyd y llenni, a phan welodd Meira'r gorchudd, sylweddolodd fod y nyrs yn iawn. Doedd hi ddim yn gallu edrych arno'r eilwaith. Roedd hi am ei gofio fel yr oedd rai oriau ynghynt, yn lluniaidd a golygus. Nid ei Wil hi oedd o bellach. Nid y corff hardd yr oedd hi wedi mwynhau ei anwesu oedd yn gorwedd ar y gwely.

Roedd hi angen meddwl, anadlu, ffoi. Aeth oddi yno, ond doedd hi ddim yn gwybod ble i fynd. I lawr â hi ar hyd y coridor hir. Ffoi o'r sefyllfa erchyll.

Gwelodd yr arwydd *CHAPEL* ac i mewn â hi i dawelwch y capel bach.

Penlinoedd a dechreuodd weddio:

“O Dduw Mawr, maddau i mi am fod mor hunanol. Derbyn Wil, fy nghariad, i dy freichiau di. Fo oedd fy nghariad i, fy ffrind gorau. Cadw fo'n saff.”

Roedd hi'n crŷo, ochneidio ac yn crynu drwyddi. Doedd hi ddim wedi

gweddio ers blynyddoedd. Wedi bod yn llawer rhy brysur. Ni fu dim amser i bethau fel yna ym mywydau Wil a hi, er ei bod wedi arfer mynd i'r capel pan yn fach. Ond roedd hynny'n bell, bell yn ôl.

Sut oedd hi'n mynd i adael corff Wil annwyl yn yr hen ysbyty mawr yna? Ie, yr ysbyty a fethodd achub ei fywyd. Roedd pawb o bwys yn ei bywyd wedi marw. Ei rhieni, rhieni Wil, ac yn awr Wil ei hun.

Yna, cofiodd yn sydyn am yr hyn oedd wedi rhoi cychwyn i'r gadwyn drychinebus. Y ffræ ynglŷn â'r posibilrwydd ei bod wedi beichiogi.

“O, Dduw trugarog, bendithia fi â phlentyn bach – fy mhlentyn i a Wil. Ga'i fachgen bach fydd mor hardd â'i dad?”

*

Nid oedd Meira'n siŵr am ba hyd y bu yn y Capel. Yno'r oedd hi pan ddaeth Olwen i'w hebrwng adre. Roedd staeniau dagrau ar ei hwyneb, y masgara wedi rhedeg a'i gwallt cyrliog du yn damp gan chwys emosiwn a gofid. Eisteddodd fel delw wrth ochr Olwen yn y car ar hyd y ffordd i'w chartref.

“Ga i wneud paned i ti ac aros gyda thi heno?” cynigiodd Olwen wedi iddynt gau y drws ar y byd. Dyna'n union yr oedd Meira eisiau ei wneud – cau drws ar y byd.

“Na, mi fydda i'n iawn, diolch i ti. Dwi isio bod fy hun, i mi gael amser i feddwl. Diolch, Olwen, am dy gefnogaeth heddiw ac am ddod â mi adre.”

Ysai Meira am fod ei hun yn y tŷ.

“Peth bach iawn oedd hynny, cofia ffonio ac mi ddof yma'n syth,” meddai Olwen wrth fynd tua'r drws.

Wedi i'r drws gau, safodd Meira yn y cyntedd a gwaeddodd yn uchel:

“Wil, ble'r wyt ti?”

Aeth i'r lolfa, roedd popeth yn edrych yn union yr un fath. Papur ddoe ar y bwrdd coffi fel roedd Wil wedi ei adael neithiwr. Dau gwpan wedi ei staenio gan goffi ar y bwrdd bach yn ymyl y soffâ. Dyna lle'r oeddent wedi eistedd yn gysurus y noson gynt i ddarllen y papur, gwyllo *Pobol y Cwm* ac wedyn yr *Apprentice*. Bob min nos wedi swper roeddent yn eistedd ochr yn ochr i wyllo'r teledu mawr y mynnodd Wil ei brynu er mwyn gwyllo rygbi a *Formula 1*.

Teimlodd Meira gyffyrddiad ysgafn ar ei braich. Trodd yn sydyn, ond na, doedd o ddim yno. Dringodd y grisiau ac i mewn â hi i'r ystafell ymolchi. Safodd yng nghanol yr ystafell. Yn hogian ar y bachyn tu ôl i'r drws yr oedd y tywel y bu Wil yn

ei ddefnyddio y bore hwnnw wedi iddo gael ei gawod. Roedd y tamprwydd yn dal ar y tywel a dychmygodd Meira fod arogl *aftershave* Wil yn dal yn yr ystafell.

Croesodd i'r ystafell gyferbyn. Hon oedd yr ystafell yr oedd hi wedi ei rhannu efo Wil am ddeng mlynedd. Dyna lle'r oeddent wedi mwynhau caru tanbaid y noson gynt.

Gorweddodd ar y gwely. Pwysodd ei phen ar glustog Wil. Roedd ei ddillad nos wedi eu plygu'n daclus o dan y clustog. Rhedodd ei bysedd drostynt a gafael ynddynt yn dynn. Cododd, agorodd y cwpwrdd dillad enfawr oedd ar draws un wal i'r ystafell. Dyna lle'r oedd siwtiau, crysau, trowsusau a siwmperi Wil wedi eu cadw'n daclus. Byseddodd y dillad, yn enwedig ambell ffefryn. Roedd hi'n gallu teimlo Wil ynddynt, ac roedd ei arogl arnynt. Ymlwybrodd Meira i'r bedwaredd stafell wely a oedd wedi ei throi yn stydi iddi hi a Wil. Dwy ddesg, llwyth o bapurau a'i gliniadur hi. Desg daclus a chyfrifiadur arni i Wil. Roedd y silffoedd yn y stafell yn llawn o lyfrau. Roedd hi'n hoffi nofelau hanesyddol, Wil yn hoffi llyfrau teithio.

Roedd lluniau yma ac acw ar wal y stydi gan fod Wil yn un da efo'r camera. Hi a Wil yn Awstralia; hi a Wil yn Efrog Newydd; hi a Wil ym Mharis; hi a Wil yn sgio yn Vermont. Roeddent wedi mwynhau teithio.

Ymlaen â hi i'r gegin fodern braf. Wrth y tegell trydan roedd y tebot, y pot coffi... Ac yna gwelodd ddau fyg, un glas ac un gwyn efo blodau pinc arno. Pam oedd popeth yn ymddangos mor normal?

Y gwir plaen oedd nad oedd dim byd yn normal. Aeth yn ôl i'r lolfa. Eisteddodd ar y sofa a bwriodd ei phen i'r clustog Laura Ashley.

Teimlodd ei chorff yn malu'n dipiau mân. Dychmygodd glywed llais Wil yn dweud:

“Dydi hi ddim yn ddiwedd byd.”

Ond roedd hi *yn* ddiwedd y byd. Diwedd ei byd hi!

“Wil, ble rwy'ti rwân? Wyt ti'n fy ngweld i'n torri fy nghalon neu wyt ti mewn rhyw fyd arall?”

*

Daeth tawelwch a llonyddwch rhyfedd dros Meira. Wedi'r crïo, y crynu, a'r cyfog, eisteddodd yno ar y sofffa yn y lolfa yn ei chartref tawel. Roedd Wil ymhobman, eto roedd hi'n unig, yn hollol ar ei phen ei hun. Syllodd fel delw ar un peth, sef y darlun

ohoni hi a Wil mor hapus gyda'i gilydd ar ddydd eu priodas ddeng mlynedd ynghynt, yn llawn gobaith am flynyddoedd maith gyda'i gilydd.

Pan symudodd hi, rywbryd yn oriau mân y bore, llusgodd ei hun i fyny'r grisiau. Gorweddodd ar ochr Wil i'r gwely ar ben y dillad, heb dynnu amdani. Doedd hi ddim yn mynd i allu gorwedd byth eto ar ei hochr hi ac edrych ar y gofod gwag ar ochr Wil.

Pennod 4

Daeth sŵn cloch yn diasbedain drwy'r tŷ. Neidiodd Meira allan o'i chroen. Ble yn y byd oedd hi? Beth oedd hi'n ei wneud heb dynnu amdani ar ben y gwely? Be oedd hi yn ei wneud yn gorwedd ar ochr Wil i'r gwely?

Canodd cloch y drws eto. Ac eto. Y trydydd tro, ymddangosai fod pwy bynnag oedd yno yn benderfynol o ddod i mewn.

Safodd Meira'n sigledig a lluddedig wrth erchwyn y gwely. Yn sydyn, syrthiodd yn ôl ar y gwely gan bendro sydyn. Wrth orwedd yno'n llipa, cofiodd gyda dychryn beth oedd wedi digwydd. Y ddamwain! Wil wedi marw ...

Wedi marw! Y gair dychrynlyd, terfynol hwnnw. Wil ddim yn dod yn ôl!

O! diar, dyna'r hen gloch yna eto, dro ar ôl tro. Cododd a llusgodd ei hun i lawr y grisiau. Pwy oedd yno tybed?

Cofiodd yn sydyn: ei chwaer, Margied. Ie siŵr.

Clywodd guro trwm ar y drws, a gwelodd Meira bâr o lygaid yn syllu arni drwy dwll y blwch llythyrau.

Daeth llais Margied i'w chlyw.

“Ble'r oeddet ti ? Dwi wedi bod yn canu'r gloch yma ac yn curo'r drws ers hydoedd. Tyrdd, agor! Mae hi bron yn ddau y prynhawn.”

Agorodd Meira'r drws yn araf ac am y tro cyntaf yn ei bywyd, syrthiodd i freichiau ei chwaer gan feichio crïo. Cofleidiodd y ddwy'n dynn. Gwasgodd Margied hi'n agos ati.

Roedd golwg ofnadwy ar Meira, meddyliodd ei chwaer. Ei hwyneb yn wyn, a'i gwallt cyrliog du yn damp ac aflêr. Roedd ei dillad, hyd yn oed, yn edrych yn ddi-raen, fel be pai hi wedi ei thynnu drwy'r drain, ac olion colur wedi ei olchi i ffwrdd gan ddagrau.

Am unwaith daeth ton o dosturi am Meira dros Margied.

Gwahanol iawn i'w pherthynas hi a Bob oedd perthynas Meira a Wil. Ers y cychwyn roedd Meira a Wil wedi bod yn gariadon go iawn, yn meddwl y byd o'i gilydd, tra bo Margied a Bob wedi ysgaru ers tair blynedd - diolch am ei le fo! Priodas anaddas ac anghynnes. Eto, trwy'r cwbl, roedd ganddi ddau o blant hyfryd, diolchodd Margied, tra bo Meira druan heb blant, er ei phriodas hapus a'u perthynas glos.

Dyna annhegwch bywyd.

Ar ben y cyfan, roedd Wil yn awr wedi marw. Wedi ymadael cyn ei amser. Tra bo Bob yn dal i hel merched a slotian yn y dafarn.

Ble'r oedd y tegwch yn hynny?

Wedi gollwng Meira o'i gafael safodd Margied yn y gegin gan ddisgwyl i'r tegell trydan ferwi.

“Rhaid i ti wneud y coffi, fedra i wneud dim. Mae popeth yn y cwpwrdd ar y chwith,” meddai Meira, gan eistedd yn swp ar un o'r cadeiriau wrth y bwrdd bach crwn ym mhen pella'r gegin.

O'r diwedd roedd y coffi'n barod. Estynnodd Margied am ddwy gwpan Portmeirion o'r cwpwrdd uwchben y sinc ac eisteddodd i wynebu Meira wrth y bwrdd bach crwn.

“Wel, wel, Meira fach, dwed wrtha'i be ddigwyddodd. Fedra i ddim credu ei fod wedi'n gadael ni.”

Ond bu distawrwydd llethol rhwng y ddwy. Y naill na'r llall ddim yn gwybod beth i'w ddweud. Doedd yna ddim i'w ddweud yn y fath sefyllfa.

Yr unig sŵn i darfu ar y tawelwch oedd sipian y coffi.

Yn y man, mentrodd Margied holi eto am yr hyn oedd wedi digwydd.

“Dwi mewn sioc. Fedra i ddim cofio'r manylion. Mae fy ymennydd i wedi rhewi. Yr unig beth alla i gofio ydi mynd i'r ysbyty a'i weld o yno. Y tîm yn gweithio arno fo, a'i gorff o'n neidio wrth iddyn nhw ddefnyddio'r peiriant. Wedyn, y meddyg yn dweud heb flewyn ar ei dafod fod Wil wedi marw!”

Trodd at ei chwaer.

“O! Margied, roedd golwg ofnadwy arno. Cleisiau a chwyddiadau mawr dros ei wyneb. Fyddet ti byth yn i nabod o. Mi ges i andros o waith edrych arno fo.”

Ychwanegodd, gan feichio crïo:

“Fedra i ddim byw hebdo fo!”

Teimlai Margied dosturi mawr dros ei chwaer er nad oedden nhw erioed wedi bod yn agos. Gormod o flynyddoedd rhyngddyn nhw. Rhyw dipyn o boendod fu Meira i Margied erioed. Pan oedd Meira'n fach, a hithau tua naw neu ddeg oed, digwyddodd rhywbeth na allai Margied byth ei anghofio. Roedd rhaid iddi edrych ar ôl Meira'n aml, a mynd â hi am dro yn y goets. Cofiai ei ffrindiau yn chwerthin ac yn dweud fel hyn:

“Gad i'r goets yna fynd lawr yr allt. Fydd hi'n sgrechian wedyn ac fe gawn ni hwyl!”

Yn y diwedd, ildiodd Margied i'r demtasiwn. Yn ymyl y tŷ roedd yna allt fach serth. Un diwrnod braf ym mis Mai gollyngodd afael ar y goets. Aeth Meira fach yn bendramwnwgl i lawr y llethr ac yn syth i mewn i'r gwrych. Roedd ffrindiau Margied i gyd yn gwylio, ac yn gweiddi chwerthin. Ond braw mawr a gafodd Margied. Credai'n sicr fod Meira wedi marw. Rhedodd ati, a cheisio ei thynnu allan o'r goets. Methodd, gan fod oherwydd fod y goets yn sownd yn y gwrych. Roedd wedi apelio ar ei ffrindiau am help:

“Triwch fy helpu fi! Dowch genod!”

Ond roedd pob un ohonynt wedi diflannu erbyn hynny, a bu'n rhaid i Margied redeg â'i gwynt yn ei dwrn at ei mam. Roedd honno uwchben y twb golchi ac yn anodd ei gweld drwy'r stêm.

“Mam! Mam! Mae brêc y goets wedi methu, ac mae hi wedi rhowlio i lawr yr allt a Meira ynnddi!”

Aeth ei mam allan fel bollten, a rhedodd y ddwy i gyfeiriad y gwrych. Erbyn hyn, roedd sgrechiadau Meira i'w clywed dros y lle i gyd. Wedi iddynt lwyddo i ryddhau'r goets, fe waeddodd ei mam mewn braw, gan fod y crafiadau ar wyneb a breichiau Meira'n ddigon i ddychryn unrhyw un.

Wedi cyrraedd y tŷ glanhwyd y crafiadau a rhoi eli *Savlon* ar ei breichiau bach. Ond dal i sgrechian crïo yr oedd Meira.

Anfonwyd Margied i'w gwely heb ei the, yn gosb am beidio â gofalu am ei chwaer fach. Yno y bu am rai oriau yn crïo ac ochneidio. Roedd hi'n teimlo cywilydd, wrth gwrs. Ond roedd yna deimlad o genfigen hefyd tuag at Meira. Wedi'r cyfan, roedd bywyd llawer brafiach cyn iddi hi gael ei geni. Bryd hynny, hi, Margied, oedd kannwyll llygad ei rhieni.

Ond efallai mai'r rheswm pennaf am y dieithrwch rhwng y ddwy dros nifer o flynyddoedd oedd y ffrae a ddigwyddodd o ganlyniad i ewyllys eu mam. Y gwir oedd fod Margied yn dal i deimlo'n ddig oherwydd mai dim ond chwarter gwerth tŷ ei rhieni oedd wedi dod iddi hi. Meira oedd wedi etifeddu'r gweddill, a hithau mewn swydd sefydlog ac yn ennill cyflog mawr. Ac roedd Wil hefyd mewn swydd uchel yn y banc - a dim plant i wario arnynt, ar ben pob dim!

Cafodd y ddwy Andros o ffrae. Roedd Margied wedi ei hargyhoeddi ar y pryd fod Meira – a lwyddai bob amser i gael ei ffordd ei hun – wedi dylanwadu ar eu mam.

Dŵr dan y bont oedd hynny rŵan, meddyliodd Margied. Rhaid oedd maddau.

Roedd Meira mewn helynt ac roedd angen ei chwaer arni.

*

I dorri ar y distawrwydd mentrodd Margied awgrymu bod rhaid dechrau meddwl am wneud trefniadau ar gyfer angladd Wil.

“Trefniadau, pa drefniadau?”

Edrychodd Meira gyda syndod ar Margied.

“Wel, Meira, rhaid dechrau meddwl am drefnu. Fedri di ddim gadael ei gorff yn yr ysbyty am ddyddiau,” atebodd Margied yn garedig.

“Dwi ddim yn gwybod be i neud nac at bwy i droi. Dwi ddim yn gwybod am ymgwymerwr. Dwi ddim yn gwybod am weinidog chwaith. Doedd Wil a fi ddim yn aelodau o unrhyw gapel.”

Roedd hi'n amlwg i Margied fod ei chwaer yn methu delio efo'r sefyllfa. Rhyfedd hefyd, a hi wedi bod yn geffyl blaen ar hyd ei hoes, ac wedi gallu delio'n iawn efo argyfyngau bywyd. Meira, wedi'r cyfan, oedd wedi trefnu angladdau eu rhieni ac roedd popeth wedi mynd yn berffaith. Ond mae'n debyg bod colli Wil mor sydyn a thrwy ddamwain yn ddigon i daflu'r gorau oddi ar ei echel.

Sylweddolodd Margied y byddai'n rhaid iddi hi wneud y penderfyniadau. Doedd hi ddim yn siŵr iawn o'i phethau, ond fe fyddai'n gwneud ei gorau i fod yn gadarn er mwyn Meira.

“Drycha Meira, dos di am gawod. Golcha dy wallt a rho ddillad glân amdanat. Mi wnei di deimlo'n fwy ffres wedyn. Tra wyt ti yn y gawod, mi ro' i ganiad i fy ffrind Ann. Fe gollodd ei gŵr i ganser flwyddyn yn ôl. Mi fydd hi yn siŵr o wybod am ymgwymerwr.”

Profodd Margied yn un â'i gair. Ffoniodd ei ffrind a oedd wedi bod yn weddw ers blwyddyn bellach.

“Wel, wel,” meddai honno. “Fedra I ddim dod i delerau efo newyddion mor ddrwg. Meira druan, dim rhybudd o gwbl. Mi roeddwn i yn rhyw amau na fyddai Ted yn cael gwella o'r canser yna. Felly, roeddwn i wedi dechrau trio paratoi fy hun yn feddyliol. Ond wedi dweud hynny, mae hi'n anodd iawn colli un rwyd ti yn ei garu.”

Wedi trafod y sefyllfa drist, a holi sut oedd Meira yn ymdopi, dyma Ann yn cymeradwyo ymgwymerwr o'r enw Brian Edwards.

“Dydi o ddim yn Gymro, ond mae o wedi hen arfer â threfnu angladdau Cymraeg ac fe fydd o hefyd yn gallu galw am wasanaeth gweinidog. Mae o’n nabod pawb. Fo ddaru drefnu popeth ar gyfer angladd Ted.”

Daeth Meira’n ôl i’r ystafell fyw.

“Rwyt ti’n edrych yn well rŵan,” meddai Margied gan wneud ei gorau i ysgafnhau ychydig ar yr awyrgylch.

“Dwi ddim yn teimlo’n well. Dwi’n meddwl na fydd bywyd dim gwerth byw imi byth eto,” oedd ymateb Meira.

Chymerodd Margied fawr o sylw ohoni, ac aeth ymlaen i adrodd beth oedd gan Ann i’w ddweud am yr ymgymwrwr.

“Ga’ i roi caniad iddo fo?” holodd Margied.

“Os oes rhaid,” oedd ateb difater Meira.

Unwaith eto, anwybyddodd Margied ei chwaer. Roedd angen llawer o amynedd ac roedd hi’n amlwg fod rhaid trin Meira’n ofalus iawn. Ffoniodd yr ymgymwrwr, ac fe drefnwyd ei fod yn galw tua phump y noson honno i drafod trefniadau angladd Wil.

“Bydd rhaid iti feddwl sut fath o angladd wyt ti’n ei ddymuno. Wyt ti eisiau ei gladdu o neu wyt ti eisiau gwasanaeth yn yr Amlogsgfa?”

O’r pellter yn rhywle clywodd Meira ei chwaer yn holi. Be’ oedd y gwahaniaeth? Roedd Wil wedi marw! Doedd hi ddim yn gwybod beth fyddai ei ddymuniad. Roeddent wedi meddwl fod ganddyn nhw flynyddoedd eto efo’i gilydd.

Torrodd Margied ar draws ei synfyfyrion.

“Yn anffodus, rhaid iti wneud dy feddwl i fyny cyn i’r dyn yna alw.”

Dyna hi eto. Penderfyniadau, penderfyniadau. Heddwch oedd hi angen.

Gorweddodd Meira ar y sofffa gan godi ei choesau fel pe bai’n fabi yn y groth. Doedd hi ddim eisiau siarad efo neb, ddim hyd yn oed ei chwaer. Dim ond galaru am Wil a gofidio hefyd am y ffaith eu bod wedi ffraeo y bore hwnnw, a’i fod o wedi gadael heb ddweud ta-ta.

Mae’n rhaid ei bod hi wedi syrthio i gysgu am ryw hanner awr. Deffrôdd yn sydyn, gyda Margied yn ei chyffwrdd yn dyner ar ei braich.

“Mae Brian Edwards yma, rhaid iti siarad efo fo.”

Brian Edwards! Siarad efo fo? I be? Yna daeth yr hunllef yn ôl iddi.

Dyn caredig a phroffesiynol iawn wrth ei waith oedd Brian Edwards, yr ymgymerwr. Margied oedd yn trafod y manylion, ac yn troi at Meira bob hyn ac hyn i gadarnhau ei bod yn fodlon gyda'r trefniadau.

Roedd o wedi hen arfer trefnu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

“Dwi'n rhyw feddwl mai mynd i'r Amlogfa fyddai orau,” sibrydodd Meira.

Sicrhaodd yr ymgymerwr na fyddai dim problem trefnu hynny. Byddai'vgef yn gofalu bod gweinidog o un o gapeli Cymraeg Lerpwl yn cymryd y gwasanaeth, a byddai hwnnw yn dewis emynau priodol. Dwy dorch fyddai ar yr arch, un gan Meira ac un gan Margied. Hefyd byddai hysbyseb yn y *Daily Post*, yn argraffiad Lerpwl ac yn argraffiad Gogledd Cymru.

Wedi i Brian Edwards ymadael ochneiodd Margied, a throi at Meira.

“Dyna ni, rhaid oedd mynd drwy'r broses yna. Mae popeth yn ei law o rŵan, fedrwn i wneud dim mwy.”

Ond doedd Meira ddim yn gwranddo. Roedd hi'n ôl ar y sofffa, yn syllu tuag at un gornel o'r ystafell. Dim awydd siarad, dim ond syllu a synfyfrio.

Roedd Margied yn poeni yn ofnadwy am Meira, doedd hi ddim yn siŵr beth i'w wneud am y gorau. Aeth Meira i fyny i'w hystafell wely yn fuan, ond dagreuol iawn fu hi y rhan fwyaf o'r nos. Drwy'r wal roedd Margied yn ei chlywed yn torri ei chalon.

*

Buan aeth y newyddion ar led ymysg perthnasau, ffrindiau a chydweithwyr. Roedd y ffôn yn canu yn barhaus. Roedd cloch y tŷ'n canu'n barhaus hefyd. Blodau, geiriau caredig o gydymdeimlad, cofleidio.

“I know how you feel, lovey, don't despair, life has to go on.”

Dyna oedd gan Mrs Brown, ysgrifenyddes Meira, i'w ddweud. Na, doedd Mrs Brown ddim yn gwybod sut oedd hi'n teimlo. Doedd neb yn y byd yn gwybod. Pan ddaeth Mrs Brown i ymweld â hi, a'i chofleidio, cafodd Meira waith peidio â chyfogi gan arogl chwys a phersawr rhad. Ych! Doedd hi ddim eisiau cael ei chofleidio gan Mrs Brown byth eto.

“Plis Margied, ga i fynd i fy ystafell wely? Mi fyddai'n well i ti gael gair efo pawb sy'n galw,” erfyniodd Meira.

“Na, na, dwi’n bendant am un peth, chei di ddim cuddio. Mae nhw’n galw i dy weld ti. Dwi’n barod i ateb y drws, gwneud te a rhoi’r blodau mewn dŵr. Ond mae’n rhaid iti drïo wynebu’r bobl yma.”

Aeth yr ymweliadau gan lu o ffrindiau, cydweithwyr a chydnabod Wil a Meira ymlaen am ddyddiau. Yn ystod y cyfnod hwn, sylweddolodd Margied fod cyflwr meddwl Meira’n gwaethygu. Er iddi allu sgwrsio am gyfnod byr gydag ambell un o’r ymwelwyr, ei hystafell wely oedd y ddihangfa, yn aml. Heb yn wybod iddi, rhyw dri diwrnod cyn yr angladd, cafodd Margied air ar y ffôn gyda meddyg Meira, ac addawodd alw i’w gweld.

Y prynhawn hwnnw canodd cloch y drws. Roedd Meira’n gorwedd ar ei gwely. O diar, rhywun arall yn dod i gydymdeimlo, meddyliodd yn ddigalon.

“Where is she?” holodd Dr Jarvis.

“She’s upstairs in bed,” atebodd Margied.

I ffwrdd â fo i fyny’r grisïau. Dyna lle’r oedd Meira yn gorwedd ar y gwely heb dynnu amdani a’i llygaid ar gau. Dechreuodd y meddyg ei holi. Sut oedd hi’n teimlo? Oedd ganddi boen o gwbl? Chafodd o fawr o ymateb heblaw’r ail adrodd dro ar ôl tro:

“I can’t take it in. I can’t believe it. I feel responsible. You see we had a row before he left for work. He wanted a family I didn’t. Now I think I may be pregnant and he’ll never be a father. You see, I forgot to take the pill the other night. What am I going to do?”

Roedd Margied yn sefyll wrth ddrws yr ystafell wely. Syfrdanwyd hi. Nid oedd Meira wedi sôn fod yna bosibilrwydd ei bod yn feichiog. Felly, dyna oedd gwraidd y drwg. Dyna pam nad oedden nhw ddim wedi cael plant. Y hi, Meira, oedd ddim eisïau cychwyn teulu, Wel, wel, un hunanol fu hi erioed, meddyliodd Margied.

“We’ll take a proper pregnancy test in a few days’ time and then you can have a scan. I can’t give you anything as far as tablets are concerned, just in case you are pregnant. I know it’s difficult, but try very hard to calm yourself. I’ll see you next week after the funeral.”

Aeth y meddyg i lawr y grisïau. Wrth agor y drws iddo, dywedodd Margied:

“I knew nothing about this possible pregnancy, Doctor.”

“We’ll have to confirm this. I certainly can’t give her anything for her state of mind. In the meantime, watch her carefully,” atebodd yntau.

Aeth Margied yn syth i'r ystafell wely. Roedd Meira erbyn hynny yn y gawod. Pan ddaeth hi'n ôl i'r ystafell, teimlai ychydig yn well ei hysbryd.

“Pam yn y byd na fyddde ti wedi dweud am y posibilrwydd dy fod yn feichiog?” holodd Margied.

Eisteddodd Meira ar erchwyn y gwely a thorrodd y llifddorau. Daeth popeth allan bendramwnwgl. Y ffaith bod Wil eisiau plenty, a hithau ynerbyn hynny. Eisiau bwrw ymlaen efo'i gyrfa. Dim amser i fabis a newid cewynnau. Arni hi, a hi'n unig, yr oedd y bai am y ddamwain.

Er ei bod hi'n teimlo rhyddhad o gydnabod beth oedd wedi digwydd, sut oedd hi'n mynd i fyw am weddill ei hoes gyda hyn i gyd ar ei chydwybod?

“Dydi hi ddim yn deg; fi sy'n gyfrifol am ladd y dyn roeddwn ni'n ei garu. Hwyrach fy mod i'n disgwyl babi. Fydd Wil byth yn cael magu'r plenty roedd o'n dyheu am ei gael – mae'r euogrwydd yn fy lladd i.”

Gyda dagrau yn powlio i lawr bochau tenau Meira, allai Margied ddim peidio â thosturio wrthi.

“Drycha Meira, paid â beio dy hun. Os wyt ti'n feichiog cymer o fel rhodd gan Dduw.”

Torrodd Meira ar ei thraws:

“Rhodd gan Dduw yn wir! Be mae Duw wedi ei neud i mi erioed? Mae o wedi cymryd bywyd yr un roeddwn i yn ei garu fwya'n y byd. Alla i ddim credu yn y syniad o drefn rhagluniaeth a nefoedd. Ble mae 'nghariad i rŵan? Ble mae Wil?”

*

Pan ddaeth diwrnod yr angladd roedd Margied yn benderfynol o sicrhau bod Meira'n ymddwyn yn briodol.

“Rhaid iti fod yn gryf er mwyn Wil. Rhaid iti ymddwyn yn urddasol, sut bynnag rwyf ti'n teimlo,” siarsiodd.

“Dwi ddim am wisgo du, fe fyddai hynny'n hollol anaddas”.

Felly, penderfynodd wisgo ffrog gyda chefnidir gwyn a blodau glas tywyll arni, cardigan a sandalau glas tywyll. Fe fethodd fwyta brewest, er i Margied wneud ei gorau i'w chael i fwyta darn o dôst.

Pan gyrhaeddodd yr amlogfa cafodd fraw wrth weld cymaint o ffrindiau, perthnasau a chydweithwyr yn disgwyl amdani. Wrth gerdded i mewn, a gweld y

gynulleidfa fawr, teimlai fod hyn yn un o dreialon mwyaf ei bywyd. Cydiodd Margied yn dynn yn ei llaw, ac er iddi addo ceisio bod yn urddasol, roedd y dagrau'n mynnu rhedeg i lawr ei gruddiau, yn enwedig pan gododd y gynulleidfa i ganu'r emyn, "Arglwydd, dyma fi".

Roedd yna rywbeth arbennig am ganu emynau Cymraeg. Canu yn llawn hiraeth – dyna beth oedd o, meddyliodd Meira. Yna, pan welodd yr arch yn diflannu y tu ôl i'r llenni yn yr amlogfa, aeth popeth yn ormod iddi. Llosgi corff hardd Wil! Y corff roedd hi wedi ei anwesu a'i gofleidio. Ei losgi yn llwch mân!

Roedd hyn yn gyrru amheuan mawr drwy ei meddwl. Roedd y gweinidog wedi sôn am yr enaid yn dychwelyd at Dduw. Enaid? Beth yw enaid? Ble roedd enaid Wil rŵan? I ble roedd yr enaid yn mynd? Oedd yna ran o Wil yn rhywle, yn ymwybodol o'i dioddefaint hi? Oedd o'n gwybod pa mor ddirdynnol oedd pethau iddi?

Wedi'r gwasanaeth, rhaid oedd cael paned a scon mewn bwyty bach gerllaw. Pan awgrymwyd wrth Meira ei bod yn ofynnol paratoi paned ar gyfer y rhai a oedd wedi teithio ymhell, fe brotestiodd.

"Dwi ddim eisiau jambori. Dwi'n galaru am fy ngŵr. Dwi ddim eisiau parti."

Pwysleisiodd Margied mai cyfle iddi gael dweud diolch oedd y te. A dyna'n union wnaeth hi. Roedd hi fel robot yn dweud dro ar ôl tro:

"Diolch i chi am ddod, rydw i'n gwerthfawrogi hyn yn fawr."

"Dan ni'n gwybod sut rwy'ti'n teimlo. Dan ni'n cydymdeimlo. Cofia godi'r ffôn os wyt ti angen rhywbeth."

Cofleidio mawr. Ond roedd Meira yn dal ei hun yn stiff fel procer, heb allu rhoi i mewn i'r cofleidio caredig.

Wedi rhyw awr o gyfarfod llu o berthnasau a ffrindiau, sibrydodd Meira wrth Margied nad oedd hi'n gallu wynebu neb arall a'u clywed yn dweud eu bod yn gwybod sut roedd hi yn teimlo.

"Rhaid imi gael mynd adref. Fedra i ddim dal ymlaen. Does neb yn gwybod sut ydw i yn teimlo mewn gwirionedd. Mae hyn yn ormod i mi."

Wedi cyrraedd gartref aeth Meira i eistedd ar y fainc bren oedd o dan y goeden helyg yng nghornel bella'r ardd. Roedd hi'n ddiwrnod arbennig o braf. Awyr las ac awel gynnes. Diwrnod llawer rhy braf i fod yn ddiwrnod angladd, yn enwedig angladd Wil!

Ar benwythnosau yn yr haf, dyma lle'r oedd Wil a hi wedi arfer cael eu coffi ganol bore. Y ddau yn eistedd ochr wrth ochr ar y fainc bren.

Amser gorau'r flwyddyn oedd yr haf i Wil. Roedd o wrth ei fodd yn gwneud ychydig o arddio. Torri'r gwrychoedd a thorri'r lawnt. Meira fel arfer oedd yn plannu'r blodau. Gardd fach daclus oedd hi, a phleser mwyaf y ddau oedd treulio amser yno yn ystod y gwanwyn a'r haf.

Eisteddodd Meira fel delw, gan gofio am yr amser hapus. O! roedd hi'n unig. Trodd i edrych ar y gwagle wrth ei hochr ar y fainc. Fyddai ei bywyd byth yr un fath eto, byth!

*

Y noson honno yn ei gwely sylodd Meira i'r tywyllwch. Roedd tywyllwch o'i chwmpas ymhobman, yn ddwfn, ddwfn - ie, yn ei henaid hi hefyd. Y rhan yna ohoni nad oedd yn gallu ei disgrifio yn iawn. Eisteddodd i fyny yn y gwely. Noson ddi-gwsg arall o'i blaen.

Yna daeth syniad i'w meddwl.

Rhaid oedd iddi drefnu taith iddi ei hun i Lanwddyn, pentref genedigol Wil. Ei syniad oedd mynd yno ei hun, er mwyn gallu cerdded yr hen lwybrau ac ail fyw peth o'r amser hapus roedd Wil a hi wedi ei dreulio yn ei gartref wrth lan llyn Efyrynwy. Yno, un noson leuad braf, a Wil wedi parcio'r car ger y llyn sawl blwyddyn yn ôl bellach, roedd o wedi dweud wrthi am y tro cyntaf ei fod yn ei charu.

Ardal hynod o braf oedd ardal Llanwddyn ac fe gafodd Meira ysfa i droedio'r hen lwybrau ac atgoffa ei hun am yr hyn roedd Wil wedi ei ddweud wrthi am y pentref a'r dyffryn a foddwyd.

A pham? Er mwyn sicrhau cyflenwad o ddwr i Leprwl. Dyna ryfedd! Achos roedd hi a Wil wedi dibynnu ar y cyflenwad hwnnw ers iddyn nhw symud i Lerpwl. Doedd y syniad erioed wedi croesi meddwl Meira o'r blaen.

Roedd ei gefndir yn bwysig iawn i Wil ac roedd ganddo le cynnes yn ei galon i Lanwddyn. Hwyrach y byddai'n syniad gwneud trefniadau i chwalu ei lwch yno. Byddai ei ysbryd yn cael tangnefedd ym Maldwyn.

Dyna'r penderfyniad wedi'i wneud. Dylai Wil orffwys gyda'i gyndadau. Roedd y mwynder ym mêr ei esgyrn. Rhaid oedd ei cyflwyno Wil yn ôl i fwynder ei fro.

Pennod 5

Roedd hi'n fis Medi a dau fis wedi mynd heibio ers i Wil farw. Erbyn hyn, roedd Meira wedi gwneud ei gorau i ddod i ddygymod â'r hyn a oedd wedi digwydd, ac i ddygymod â bod yn y tŷ ar ei phen ei hun. Ond roedd hi'n anodd iawn.

Wrth weld llun o Wil, neu geisio didoli ei ddillad, neu hyd yn oed gael sgwrs gyda chyfaill neu gydnabod, roedd dagrau yn dal yn agos iawn.

“Mae o fel troi swits ymlaen, mae'r dagrau yno yn barod i lifo o hyd. Dwi'n ei golli o yn ofnadwy,” cyfaddefodd wrth Margied ar y ffôn.

Yr ofn mwyaf oedd misoedd y gaeaf. Gwyddai y byddai'r dydd yn byrhau a phob drws wedi ei gau'n dynn erbyn pump o'r gloch y prynhawn a noswaith hir, unig a thywyll yn ymestyn o'i blaen.

Methodd Meira dychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau'r haf, ond roedd hi'n ffyddiog y byddai'n gwneud hynny wedi'r gwyliau hanner tymor ym mis Hydref. Fodd bynnag, roedd yna broblem arall yn poeni Meira, un na allai ei hanwybyddu. Bob bore ers ryw dair wythnos, roedd hi wedi deffro gan deimlo'n sâl. Codai wedyn i wneud cwpanaid o de, a methu cadw hwnnw i lawr. Ras i'r tŷ bach, taflu i fyny a theimlo fel cadach llestri wedyn.

Roedd Margied, ei chwaer, wedi dychwelyd i'w chartref yn Bridlington ers chwe wythnos bellach. Wrth edrych yn ôl, teimlai Meira ei bod wedi bod yn garedig iawn dros y cyfnod anodd y bu hi drwyddo. Roeddent fel chwirydd wedi agosáu at ei gilydd, ac ers hynny wedi galw ei gilydd ar y ffôn o leiaf ddwy waith yr wythnos, yn ogystal ag anfon ambell i neges destun. Cyn dychwelyd adref roedd Margied wedi siarsio Meira:

“Cofia, mi ddo'i yn ôl yn syth bin os y byddi fy angen. Mi fydda' i yn dy ddisgwyl acw hefyd am benwythnos. Bydd croeso mawr iti. Rhaid i ni beidio â bod yn ddiarth rŵan.”

“Fedra i byth ddiolch digon i ti, rwy'ti wedi bod yn gefn mawr i mi,” oedd ateb Meira gyda'r dagrau yn cronni wrth iddi dychmygu ceisio byw ar ei phen ei hun.

“Dwi'n chwaer i ti cofia. Be mae chwirydd yn dda, dywed?” meddai Margied hithau, gan gofleidio Meira. Rhaid oedd cyfaddef fod eu hagosatrwydd newydd yn braf.

Roedd ffrindiau Meira wedi closio ati hefyd, yn enwedig Olwen, ei dirprwy yn yr ysgol. Hi, wrth gwrs, oedd yn rhedeg y sioe yn absenoldeb Meira. Cafodd ei channol gan y Llywodraethwyr am ei hymroddiad i'r gwaith ac roedd Meira yn ddiolchgar iddi am beidio â'i thrafferthu gyda rhai o fân broblemau'r ysgol.

“Paid â sôn, a phaid â holi am yr ysgol. Mae popeth yn iawn yno. Mi fydda' i yn falch pan fyddi'n ôl wrth y llyw. Ond ar hyn o bryd, canolbwyntia ar gryfhau. Dan ni'n dod i ben â phethau,” sicrhaodd hi.

Roedd y ddwy yn cael sgwrs ar y ffôn bob yn ail ddiwrnod, ac Olwen yn trefnu rhywbeth arbennig iddi bob hyn a hyn.

“Da ni'n mynd i siopa dydd Sadwrn nesa. Dipyn o *retail therapy*. Mi godith hynny dy galon di,” meddai wrthi dros y ffôn un nos Iau.

“Dwi'n iawn. Dwi ddim angen dim,” oedd ateb Meira.

Ond doedd dim dadlau. Rhaid oedd ufuddhau. Galwodd Olwen amdani tua deg y bore, ac i mewn â nhw i Lerpwl ac i ganol y siopau newydd. Coffi cyn cychwyn gwario, yna tamaid bach o ginio ysgafn tuag un o'r gloch. Prynodd Olwen sgert goch a siwmpwr, ac i'w phlesio prynodd Meira gôt ddu gynnes ar gyfer y gaeaf. Ar ôl paned diwedd y prynhawn, dyma orffen y diwrnod yn nhŷ Olwen, gyda Ffred, ei gŵr, yn paratoi pryd min nos i'r ddwy.

Rhyw nos Wener arall dyma ganiad ar y ffôn gan Olwen.

“Dwi'n galw amdanat tua deg bore fory. Mi awn i'r dre i siopa. Yna, be am fynd i'r sinema tua hanner awr wedi tri? Mae nhw'n dweud fod yna ffilm dda o'r enw *Victoria and Albert* a'i bod hi'n werth ei gweld. Rwyt ti'n hoffi ffilm dda, yn dwyt?”

Ond dyna'r lle diwethaf roedd Meira eisiau mynd iddo. Eistedd am ddwy awr I wylio stori garu. Ond i blesio Olwen fe gytunodd. Crïo yn dawel wnaeth hi bron iawn drwy'r ffilm i gyd.

Tueddu i aros i mewn fyddai hi yn ystod yr wythnos, heblaw am bicio i'r archfarchnad i brynu pethau angenrheidiol. Y drwg oedd, wrth gerdded i mewn i'r tŷ, roedd hi bob tro yn ail agor y briw, ac roedd y teimlad o bresenoldeb Wil ymhobman yn gryf iawn. Yn aml, wrth yfed ei choffi a darllen y *Daily Post*, byddai'r dagrau'n treiglo i lawr ei gruddiau ac yn sblasio ar dudalenau'r papur. Yn ystod y tywydd braf, ac yn enwedig ar fin nos gynnes, byddai'n eistedd ar y fainc yn yr ardd. Yno hefyd roedd hiraeth yn llenwi ei chalon.

Tua chanol mis Medi oedd hi pan sylweddolodd ei bod wedi methu ei misglwyf ddwy waith. Roedd y teimlad o gyfog yn y bore hefyd yn gwneud iddi amau'n gryf ei bod yn feichiog. Roedd wedi gwrthod gwneud prawf gyda'r meddyg, Dr Jarvis. Allai hi ddim ei wynebu. Ond bellach, nid oedd dewis. Aeth i siop y fferyllydd i brynu'r prawf beichiogrwydd. Yna, fe'i cuddiodd yn y cwpwrdd bach yn yr ystafell molchi am rai dyddiau.

Doedd hi ddim eisiau wynebu'r gwir.

Roedd hi eisiau cael babi Wil, ond nid oedd hi'n siŵr ei bod eisiau bod yn fam sengl.

O'r diwedd, dyma benderfynu defnyddio'r prawf. Wel, doedd dim dwywaith amdani. Roedd llinell las wedi ymddangos yn y ffenest prawf yn cadarnhau y byddai hi'n fam.

Rhyw saith mis oedd i fynd.

Ffoniodd ei chawaer ar unwaith, a chafodd gyngor gan Margied i fynd i weld Dr Jarvis yn syth.

“Mae'n bwysig dy fod yn edrych ar ôl dy hun. Dwyt ti ddim yn ifanc yn cael dy fabi cyntaf. Oherwydd yr hyn wyt ti wedi ei ddiode'n feddylol ac yn emosiynol, rhaid i ti weld y meddyg. Dwyt ti ddim isio colli'r babi, nac oes?”

“Ydw, rydw i'n falch. Ond dwi ofn y cyfrifoldeb o fagu plentyn ar fy mhen fy hun. Dwi'n gobeithio mai bachgen fydd o ac y bydd o'n debyg i'w dad.”

Oedodd. Roedd geiriau Margied wedi codi ofn arni.

“Tydw i ddim yn andros o hen. Mae yna rai yn hŷn na fi yn cael ei babi cyntaf,” meddai wedyn.

“Oes,oes,” meddai Margied yn gysurlon. “Dim ond dweud be mae'r gwybodusion yn ei ddweud rydw i!”

*

“I know you are not young to be having your first baby, but you should be fine,” oedd ymateb call y meddyg, heb ddannod iddi na fu ato ynghynt, er iddo ei chymell i wneud hynny. “I am, however, concerned about you, due to your sudden bereavement. You must be careful, very careful. We will monitor you closely. I'll arrange for your first scan.”

Ond wedi iddi gael sgwrs gyda'r meddyg, roedd y syniad o fynd draw i Lanwddyn yn pwyso'n drymach ar Meira.

“Rhaid i mi ymweld â Llanwddyn cyn imi fynd yn rhy fawr i deithio, a chyn y gaeaf hefyd. Hwyrach y ca' i gyfle i wasgaru llwch Wil yn rhywle,” meddyliodd, a sylweddoli'n sydyn mor braf oedd y tywydd. Lwcus bod plant yr ysgol yn gallu mynd allan i chwarae. Doedd dim byd mwy annifyr nag amser chwarae gwlyb i'r disgyblion a'r athrawon.

Na! doedd hi ddim yn colli bod yn bresennol yn ystod amser chwarae gwlyb. Yn wir, doedd hi ddim yn colli bod yn yr ysgol o gwbl, ac fe fyddai'n anodd dychwelyd yno.

*

Llywiodd Meira y BMW i fyny'r dreif oedd yn arwain at y *Lake Hotel*. Roedd yn westy Fictoraidd hyfryd wedi ei adeiladu pan foddwyd dyffryn Efyrynwy rhyw gant a phump o flynyddoedd ynghynt. Ymwelwyr dros y ffin oedd yn aros yno y rhan fynychaf, ond yn y dyddiau cynnar helwyr a physgotwyr oedd y gwesteion. Roedd yna sôn hefyd fod y brenin George V wedi galw heibio unwaith, ac roedd yna lun ohono ar y wal fel tystiolaeth i'w ymweliad. Roedd Meira a Wil wedi aros yno sawl gwaith yn y gorffennol, a chymryd mantais o'r sba a'r cyfleusterau harddwch er mwyn ymlacio'n llwyr.

Wrth weld y gwesty yn edrych mor ryfeddol ar ben y bryn, roedd Meira'n ansicr iawn o'i theimladau. Sut beth fyddai aros yno ar ei phen ei hun,? Gwely mawr cyfforddus, a dim Wil i'w gydfwynhau.

Ond er ei theimladau trist, roedd rhaid cyfaddef fod y lle yn arbennig o braf. Safodd i fwynhau'r olygfa. Roedd dail y coed yn dechrau troi eu lliw, ac roedd yna ryw brydferthwch arbennig yn perthyn iddynt a hithau'n ddiwedd Medi.

Llyn Efyrynwy ar ei orau! Am olygfa ryfeddol! Y dŵr mor dawel ac adlewyrchiad y Tŵr Hidlo yn debyg i un o gestyll y Rhein yn edrych yn hynod o ramantus.

Cofiodd Meira am y tro hwnnw wrth iddynt ddychwelyd o'u gwyliau yn Sbaen, a'r awyren yn hedfan dros y llyn cyn glanio yn Lerpwl. Wrth edrych ar Efyrynwy o'r awyr, roedd yn olygfa berffaith ac roedd Wil wedi cynhyrfu'n lân. Fo oedd yn eistedd agosaf at y ffenest bob tro pan fyddent yn hedfan, a hynny am nad

oedd Meira'n mwynhau hedfan a doedd byth eisiau edrych allan a gweld y ddaear islaw.

“Drycha, drycha, dan ni'n hedfan dros Lanwddyn. Dacw'r Tŵr a dacw hi'r wal. Am olygfa ryfeddol!”

Mentrodd Meira bwyso ar draws Wil ac edrych i lawr ar llyn Efyrynwy. Roedd yn olygfa ryfeddol - yn un na fyddai byth yn ei anghofio.

A dyna lle roedd hi rŵan yn syllu ar y llyn hardd, a hithau'n unig, heb Wil i rannu'r profiad. Roedd rhaid cyfaddef fod Llanwddyn ym mêr esgyrn Wil, er iddo ymadael flynyddoedd ynghynt. Yn ystod eu priodas roeddynt wedi mwynhau sawl encil o'u bywydau prysur yn y gwesty uwchben y llyn. Cerdded hen lwybrau, hel atgofion, adrodd hen storïau, beicio o amgylch y llyn a mwynhau'r awyr iach. Wedyn, pryd ardderchog fin nos ac ambell botel o win coch i'w olchi i lawr.

Torrwyd ar ei synfyfyrion gan lais caredig yn ei chyfarch:

“Good afternoon, Mrs Owen. Welcome to the Lake Vyrnwy. Mr Owen not with you this time?”

Dyna'r math o beth a oedd yn llorio Meira. Rhai yn eu hanwybodaeth yn disgwyl gweld y ddau ohonynt gyda'i gilydd. Eglurodd yn ddagreuol beth oedd wedi digwydd gan ofyn am gael ystafell yn wynebu'r olygfa, fel arfer.

Eisteddodd i lawr ar y gadair esmwyth wrth y ffenest i sipian ei phaned o goffi. Rhyfedd, meddylodd. Ers pan oedd hi'n feichiog doedd hi ddim yn gallu yfed te, yn enwedig te gwan; roedd o'n codi cyfog arni. Dŵr, sudd oren neu goffi fyddai'n mynd â hi bob tro.

Roedd ei thraed wedi chwyddo rhyw gymaint ar ôl y daith yn y car, felly penderfynodd orwedd ar y gwely i gynllunio ble yn union y byddai'n mynd am dro. Yn sicr, byddai'n rhaid iddi fynd dros y wal a cherdded i lawr i'r pentref. Edrych ar yr *Island* fel y gelwid o gan y pentrefwyr. Llain o dir oedd hwnnw y tu isaf i'r wal fawr oedd yn debyg i ynys pan oedd llif cryf yn dod dros yr argae yn y gaeaf. Roedd llwybr yn arwain o'r pentref i'r *Island*. Byddai Wil bob amser yn adrodd y storïau a glywodd gan ei dad am y cyfnod pan oedd o yn fachgen yn tyfu i fyny yn y pentref adeg yr Ail Ryfel Byd.

Byddai Wil yn ei hatgoffa o'r hyn a ddigwyddodd adeg yr Ail Ryfel Byd. Oherwydd pryder am gyflenwad dŵr dinas Lerpwl, codwyd gwerysll gan y Royal Engineers oedd yn ymledu o'r pentref i lawr at yr afon ac i gyfeiriad yr *Island*.

“Ti’n gweld, ddaru nhw mwy neu lai gymryd drosodd y pentref er mwyn achub Lerpwl. Wrth gwrs, roedd bechgyn bach, fel fy nhad, yn meddwl ei bod hi’n grêt cael soldiwrs ymhobman. Roedden nhw yn mynd lawr at y gwersyll, ac roedd y milwyr yn rhoi siocled a fferins iddyn nhw. Weithiau, yn amser sbâr y milwyr, fe fyddai gêm bêl droed rhwng cogie’r pentref a’r milwyr.”

Yna, byddai Wil yn mynd ymlaen i adrodd yr hanes amdano fo a’i ffrind, yr efaciwî, yn chwythu chwisl o un pen i’r pentref i’r llall, ac fel y bu heddlu’r Fyddin ar eu holau, gan feddwl eu bod yn rhoi rhyw arwyddion cudd. Roedd Wil yn rholio chwerthin wrth feddwl am gampau’r bechgyn.

Ar un o’u hymweliadau â Llanwddyn roedd Wil wedi adrodd hanes ei daid a’r cipar. Mae’n debyg, fel sawl gwraig tŷ arall yn y pentref, fod ei nain yn rhoi llety i rai o bobl bwysig y fyddin. Roedd ffrind taid Wil yn dipyn o botsiwr. Un tro, rhoddodd bedwar o ffesantod tew i Henri Jones i’w mwynhau gan ei siarsio i gadw’r peth yn ddistaw.

Y noson honno, fe goginiodd nain Wil y ffesantod ar gyfer swper i un o’r capteniaid, a bu canmoliaeth fawr. Y diwrnod canlynol, gwelodd y capten y cipar lleol, a dywedodd wrth hwnnw mor flasus oedd y pryd o ffesant a gafodd y noson gynt. Taid Wil gafodd flas tafod y cipar. Er iddo, fel blaenor parchus yng Nghapel y Gwaith, brotestio ei fod yn ddieuog roedd yr amheuaeth yn eglur ar wyneb y cipar.

Oedd, roedd yna ddwsinau o storïau am Lanwddyn, a byddai Wil wrth ei fodd yn eu hadrodd.

Wrth orwedd yno ar y gwely, meddyliodd Meira mor wahanol fu ei bywyd hi a Wil o’i gymharu â bywyd ei daid a’i nain yn y gornel fach dawel hon o Gymru.

Yr hyn oedd yn gyffredin iddynt oedd eu cysylltiad â dinas fawr Lerpwl.

Tyddynwr oedd ei taid Wil, wrth gwrs, yn rhentu rhyw ddwy acer o dir gan Gorfforaeth Lerpwl. Yn ogystal â godro dwy fuwch bob bore a min nos, cadw mochyn ac ychydig o ieir, roedd yn gweithio rhwng wyth a hanner awr wedi pump i’r *Corporation*. Adeg y Rhyfel byddai nain Wil yn gwneud menynd ac yn pobi bara. Ar ddiwrnod corddi yn yr haf, er mwyn cadw’r menynd yn ffres, byddai Henri Jones yn cerdded draw i Ffynnon Lluest, ryw filltir a hanner o’r pentref, i nôl dau lond bwced o ddŵr oer. Erbyn cyrraedd y tŷ, roedd y creadur bach bron ar ei liniau.

Wrth droi storïau am deulu Wil yn ei meddwl, syrthiodd Meira i gysgu a rhyw hanner breuddwydio. Dechreuodd rhai o’r cymeriadau ddod yn fyw iddi...

Dihunodd yn sydyn, a sylwi ar y cloc larwm wrth ymyl ei gwely. Roedd

hi bron yn chwarter i chwech!

Roedd hi'n dechrau tywyllu, ac wrth edrych allan dros y llyn sylwodd Meira ar harddwch lliwiau'r machlud i gyfeiriad Bwlch y Groes yn y pellter. Tybed a fu cyndeidiau Wil yn hapusach yn byw eu bywyd syml nag oedd hi heddiw? O gofio am foddi yr hen Lan, roedd hi'n amau hynny'n gryf.

Wedi iddi gael cawod a gwisgo blows lân, aeth draw tua'r sba i drefnu ychydig o faldod iddi'i hun y diwrnod canlynol.

Yfory, mi fyddai'n crwydro ac yn hel atgofion. Roedd angen hefyd cael gair â rhywun ynglŷn â chwalu llwch Wil.

*

Wrth gynllunio ei hymweliad â Llanwddyn roedd Meira wedi meddwl llogi beic o'r gwesty am ddiwrnod, er mwyn cael crwydro'r fro a chael tro o amgylch y llyn. Fe soniodd am hyn wrth ei chwaer a'r ymateb a gafodd oedd:

“Wyt ti eisiau cadw'r babi yna?”

“Wrth gwrs fy mod i!”

“Wel, paid â gwneud dim byd gwirion a mentrus. Be fyddai'n digwydd pe baet ti'n syrthio oddi ar dy feic? Allet ti golli'r babi!” oedd ateb swta Margied.

Felly, y car ac ychydig o gerdded amdani!

Aeth draw i'r pentref, dros yr argae a throi i'r chwith. Heibio i Gapel Bethel, neu 'Gapel y Gwaith', fel roedd y pentrefwyr yn ei alw. Roedd yna olwg druenus ar y capel rŵan, wedi ei droi yn ganolfan natur. Ymlaen â hi at res tai Glyndu yng ngwaelod isaf y pentref. Y tu ôl i'r tai, ar lethr serth, gwelodd y caeau a fu unwaith o dan ofal Henri Jones, taid Wil. Meddyliodd am ei thad-yng-nghyfraith yn dweud y byddai fel plentyn yn ofynnol iddo godi cerrig o'r cae cyn plannu tatws a moron. Wedi i'r moron dyfu i faint arbennig, roedd rhaid chwynnu rhwng y rhesi. Dyna beth oedd gwaith diflas, meddyliodd Meira.

“I'm bored, Miss.”

Dyna'n aml oedd rhai o'i disgyblion yn yr ysgol yn ei ddweud. *Bored!* Doedden nhw ddim yn gwybod ystyr *Bored!* Codi cerrig a chwynnu moron oedd bod yn *Bored!*

Wrth sefyll yno o flaen cartref taid a nain Wil, cofiodd fod pentref Llanwddyn wedi ei ynysu gan eira yn ystod gaeaf garw 1947. Roedd tad Wil wedi bod gartref o'r ysgol am wythnosau, ac roedd dynion a bechgyn y pentref, sawl gwaith yr wythnos,

wedi pasio bara a sachau o flawd o ris i ris ar y ffordd rhwng Llanfyllin a Llanwddyn cyn eu cludo ar dractor i'r pentref. Roedd hynny, yn ôl pob sôn, yn llawer mwy o hwyl na mynychu Ysgol Uwchradd Llanfyllin.

Rhyw bum mlynedd cyn y ddamwain roedd y ddau wedi treulio'r Nadolig yn y gwesty yn Llanwddyn. Roedd hi'n hynod o braf, ac oer a rhew ar y coed ymhobman. Roedd yn ddarlun na fyddai Meira byth yn ei anghofio. Dyna pryd y cofiodd Wil am yr hanes a glywodd gan ei dad am yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y gaeaf bythgofiadwy hwnnw bron i drigain mlynedd ynghynt.

“Roedd y llyn wedi rhewi'n gorn yn 1947, ac yn ôl fy nhad, fe feiciodd Ned Glan Rhyd ar ei draws heb unwaith glywed y rhew yn dadmer. Dyna be oedd gaeaf hen ffasiwn.”

Ymlaen â hi at y Tŵr Hidlo wrth lan y llyn. Roedd yn edrych yn hudolus yn yr heulwen hydrefol. Sylwodd ar y gadwyn fawr oedd i'w gweld ar ochr bella'r tŵr yn disgyn o'i ben uchaf i lawr i'r dŵr islaw. Roedd Wil wedi dweud wrthi ei fod, yn ddeg oed, wedi dringo'r gadwyn fawr.

“Paid â'u malu nhw, alla' i ddim dy goelio di. Be fyddai wedi digwydd pe bai dy droed di wedi methu? Be yn y byd wnaeth iti wneud y fath beth?”

“Bob Tŷ Ucha ddaru fy herio i. Yr adeg honno roedden ni yn gallu sleifio i mewn i'r tŵr heb i neb ein gweld. I mewn â ni. Bachais yn y ddolen gyntaf, ac fe es i fyny'r gadwyn o fewn ugain munud. Cyn i Bob wneud yr un peth, dyma lais fel taran. Ted bach, y fforman, oedd yno yn disgwyl i mi gyrraedd y gwaelod. I'r swyddfa â ni I wynebu'r bosys. Yna, i lawr i'n tŷ ni i ddweud wrth fy rhieni ac wrth Taid a Nain. Roedden ni'n byw efo Taid a Nain yr adeg honno. Cefais fy ngyrru i fy stafell wely am weddill y diwrnod i edifarhau.”

Cyn gyrru ymlaen o amgylch y llyn penderfynodd Meira alw i weld y person. Gŵr annwyl a theimladwy iawn oedd o, a chydymdeimlodd yn ddwys a hi.

“Mi roedd Wil yn arfer chwarae yn y caeau y tu draw i Glyndu pan oedd o'n fachgen bach. Dwi'n credu y caiff ei ysbryd ryddid a thangnefedd yno,” awgrymodd Meira.

“Debyg iawn. Mi fyddai'n fraint imi gael dod efo chi, ac fe ddarllenwn ni ryw Salm fach a chynnig gair o weddi,” cynigiodd y person.

Cytunwyd mai dyna fyddai'r lle priodol i chwalu llwch Wil, ac y byddent yn cyfarfod am un o'r gloch y diwrnod canlynol, a hynny cyn i Meira droi yn ôl am Lerpwl.

Wedi cael gair efo'r person, gyrodd Meira ei char yn araf o amgylch y llyn. Roedd gwres yr haul yn danbaid, a phenderfynodd blygu to y BMW i lawr iddi gael mwynhau yr olygfa a'r awel gynnes. Sylwodd ar enwau rhai o'r ffermydd.:Tŷ Ucha, Llechwedd Ddu, Allt Forgan, ac yna yr arwyddbost yn dangos lle y bu yr hen Lan. Llywiodd y car i'r man parcio ac eisteddodd yn ôl.

Tybed ble roedd *Fishing Street*? Dyna ble, yn ôl yr hanes, roedd teulu hen daid a nain Wil wedi byw. Rŵan, roedd yr hen bentref o dan saith deg troedfedd o ddŵr.

Eisteddodd Meira yn hir yn syllu i ddyfnderoedd y llyn. Roedd yna rywbeth hudolus iawn am y lle. Atgoffwyd hi am yr hyn roedd Wil wedi ei ddweud wrthi am hanes yr hen Lan ac fel y boddwyd yr holl ddyffryn er mwyn sicrhau digon o ddŵr glân i Lerpwl. Y tai wedi eu dymchwel, adfeilion wedi eu rhoi ar dân, yna ffrwydro popeth i ebargofiant gyda deinameit.

Tybed sut roedd y pentrefwyr yn teimlo? Colli pentref, cartref, eglwys, capel, tafarndai a ffermydd. Oedden nhw wedi protestio fel yng Nghapel Celyn flynyddoedd yn ddiweddarach? Os nad oedden, pam tybed? Oedd pobl Cymru yn gwybod beth oedd yn digwydd ar y pryd? Oedd hi'n oes hollol wahanol, a'r werin o dan orthrwm y meistr tir?

Dyna oedd y meddyliau a oedd yn llifo drwy feddwl Meira wrth iddi syllu yn hir ar y dŵr llonydd tawel. Y rhyfeddod oedd fod rhai yn derbyn bod sicrhau dŵr glân i Lerpwl yn holl bwysig. Ond yn sicr, roedd yna rai ymysg y pentrefwyr wedi bod yn hollol anhapus am yr hyn oedd yn digwydd. Ac eto, pam yn y byd nad oedd helynt fel ag yng Nghapel Celyn?

Syllodd Meira tuag at y fan lle bu Plas Eunant. Cofiodd sut oedd Wil wedi egluro'r sefyllfa iddi sawl blwyddyn yn ôl.

“Ti'n gweld, Meira, roedd pobl ers talwm yn plygu i'r drefn – yn derbyn bod angen dŵr ar bobl Lerpwl, ac yn barod hefyd i dderbyn y byddent yn cael pentref newydd, tai, ysgol, eglwys, capel. Dyna'r 'drefn', fel y clywais Nain yn dweud.”

Yna roedd wedi ychwanegu:

“Pe bai o wedi digwydd heddiw, mi fydden ni ar flaen y gad yn protestio. Annheg iawn oedd dwyn cynefin a bro y bobl. Eto, rydan ni wedi dibynnu ar y dŵr glân yma ers pan ydan ni yn byw yn Lerpwl. Mi allwn ni gael teimladau cryf am yr hyn a ddigwyddodd, ond rydan ni'n dau yn ddyledus i ddŵr glân Efyrynwy.”

Dyna'n union fel y teimlai Meira. Yng ngoleuni heddiw roedd yna annhegwch a chreulondeb wedi digwydd - tramgwydd mawr gan ddinas Lerpwl yn y cyfnod rhwng 1880 a 1891. Ac eto, fel Wil, roedd rhaid cydnabod bod angen mawr am ddŵr glan ar Lerpwl yn y gorffennol fel yr oedd heddiw. Ond pam dewis Llanwddyn o bobman?

Roedd hi'n gymysg ei meddyliau. Wrth syllu ar yr haul yn machlud dros Fwllch y Groes, teimlai ei hun yn suddo i lawr i ddyfnderoedd y Llyn. Boddi mewn galar am Wil, ac mewn cydymdeimlad â'i hen gyn-dadau.

Pennod 6

“Ble ti’n mynd i weithio heddiw? Wyt ti isio brechdan yn dy dun bwyd ar gyfer canol dydd?” gofynnodd Ann Elis i’w gŵr, Twm.

Oedodd Twm, ac yntau ar fin mynd i’r cwt yn y cefn i nôl basgedaid o goed tân ar gyfer tanio’r boiler yn y tŷ golchi. Roedd yna olchi dillad bron bob dydd yng nghartref Ann a Twm, ond bore Llun fyddai’r diwrnod pan fyddai Twm yn llenwi’r boiler efo dŵr ac yna’n goleuo’r tân yn barod i Ann roi’r dillad gwyn i’w berwi.

“Wel, mi gymra’ i gog o fara ffres, tamaid o gaws a photeled o de efo digon o siwgr ynddo,” atebodd Twm.

Trodd ar ei union i gyfeiriad y cwt. Beth oedden nhw’n mynd i’w wneud? Chwech o gegau ifanc i’w bwydo’n barod, ac rŵan roedd yna un arall ar y ffordd. Nid oedd yr un o’r chwech yn ddigon hen i adael yr ysgol a mynd allan i ennill ei damaid.

Dyna Joseff, neu ‘Jo’ fel roedd pawb yn ei alw, a oedd yn un ar ddeg oed. Bachgen tal ac eiddil yr olwg, ond hwyrach, ymhen rhyw flwyddyn, y gallai ddysgu bod yn saer maen fel Twm ei hun. Eto, mi fyddai’n rhaid iddo fagu dipyn o floneg i allu codi’r cerrig a’r meini trymion. Roedd Tomos bach, a oedd yn wyth oed, wedi dechrau dangos diddordeb mewn bod yn saer coed fel ei ewyrth Ned. Roedd hwnnw wedi addo ei hyfforddi pan fyddai’r bachgen yn ddigon hen. Wyth oed oedd Bob, ac mae’n debyg mai mynd i weithio fel gwas ar stad Plas Eunant fyddai o pan fyddai’n gadael yr ysgol.

Ond wedyn, roedd yna dair o enethod. Y pethau bach deliaf a welsoch chi erioed. Olwen, a oedd yn saith, ac yna’r efeilliaid, Meri a Jini, a oedd yn bedair a hanner. Morynion fydden nhw ymhen amser, ond roedd yna sawl blwyddyn cyn y byddai hynny’n digwydd.

Whiw! Doedd fiw iddo edrych ar Ann ei wraig. Dyna beth oedd pawb yn ei ddweud! Roedd hi’n beichiogi bron bob tro roedden nhw’n cael cyfathrach rywiol. Ond dyna fo, dyna’r natur ddynol. Beth arall oedd yna i’w wneud yn ystod nosweithiau hir ac oer y gaeaf yn Llanwddyn ond caru yn y gwely?

Un da am garu fu Ann, ei wraig, erioed. Roedd hi’n ferch arbennig o ddel pan wnaethon nhw gyfarfod ddeuddeg mlynedd ynghynt. Ffrydiodd yr atgofion am eu

cyfarfyddiad cyntaf yn ôl i'w feddwl wrth iddo lenwi'r faseded efo cogiau mawr ar gyfer y tân. Roedd chwech ohonynt, llanciau Llanwddyn, wedi mynd ar gefn tair merlen dros y mynydd i ffair y Bala. Druan o'r merlod yn ceisio pigo eu ffordd ar hyd y llwybr caregog ac anwastad wrth gario dau lanc yr un i lawr trwy Gwm Hirnant, heibio i Rosygwaliau ac i'r Bala.

Ar y ffordd yn ôl, roedd y merlod yn bustachu mynd ar hyd y cwm unig, ac i wneud pethau'n waeth, roedd y rhai a oedd yn eu marchogaeth wedi cael llond bol o gwrw ac yn dibynnu ar y merlod i'w cario adref yn ddiogel.

Roeddwn i reit gall, meddylodd Twm. Doedd o ddim wedi llymeitian gormod o gwrw, a hynny am iddo dreulio'r rhan fwyaf o'r noson yn caru efo'r ferch dlysaf a welodd o erioed. Y ddau yn llechu o dan goeden ar lan Llyn Tegid. Roedd hi'n noson oer, felly teimlai Twm ei fod yn gwneud cymwynas â hi yn ei gwasgu, ei chofleidio a'i chusanu er mwyn ei chadw'n gynnes, wrth gwrs.

“Ann Jones ydw i a dwi'n byw yn Llety'r Cripil, Llanuwchllyn. Ar hyn o bryd dwi'n forwyn ym Mhlas Hirnant. Mi fyddi di'n mynd heibio Plas Hirnant ar dy ffordd yn ôl i Lanwddyn. Fyddet ti'n hoffi fy hebrwng i yno?”

Wel, am eneth bowld, meddylodd Twm. Ond roedd o wrth ei fodd yn cael y fath wahoddiad. Ac felly y bu. Wedi iddynt gyrraedd llidiart y Plas, gofynnodd Twm a fyddai hi'n caniatáu iddo ddod i gnocio rhyw noson.

“Wrth gwrs, yng nghefn y tŷ mae fy stafell fach i. Felly, bydd raid i ni fod yn dawel rhag deffro'r teulu,” oedd ei hateb parod.

Yn ystod gaeaf 1867 fe fu Twm yn cnocio'n aml gan daflu cerrig mân at ffenest Ann Jones sawl gwaith. Ar y gwely haearn cul yn llofft y forwyn roedd y caru'n boeth a thanbaid.

Tua chanol mis Mawrth 1868, wedi iddo gael mynediad yn hwyr un min nos arbennig o oer, eisteddodd Ann ar erchwyn ei gwely, ei bysedd main yn plethu ochr ei ffedog ddu.

“Be sy' arnat ti? Wyt ti'n sâl? holodd Twm, braidd yn ddiamynedd.

“Gwaeth na sâl, llawer gwaeth na sâl,” oedd ateb swta Ann.

Beth oedd ar y ferch? Fel arfer roedd hi'n lled orwedd ar y gwely gyda gwên ogleisiol awgrymog yn chwarae ar ei gwefusau. Ond dechreuodd Ann grïo, a chrïo'n hidl hefyd. Tosturiodd Twm ac aeth ar ei liniau o'i blaen gan afael yn ei dwylo'n dyner a syllu'n gariadus i'w llygaid glas.

“Wyt ti'n fy ngharu i Twm?” oedd cwestiwn syfrdanol Ann.

“Dy garu di ? Be ydi cwestiwn fel yna? Dwi erioed wedi meddwl o ddfri am garu. Ond dwi’n gwybod un peth, dwi’n caru be’ dan ni’n wneud ar y gwely yma,” atebodd Twm gan roi glamp o winc iddi.

Doedd yr ateb yna ddim yn plesio Ann o gwbl. Beichiodd grïo, gan dynnu ei dwylo o afael Twm.

“Ann, wnei di ddweud yn iawn be’ sydd arnat ti? Dwi wir ddim yn dy ddeall di yn dechrau holi am garu,” plediodd Twm.

“Mi ddyweda i be’ sy’n bod. Bydd yn barod am fraw go iawn. Dwi’n mynd i gael babi. Dy fabi di. Ein babi ni! Rwyt ti’n mynd i fod yn dad!”

“Brensiach, wyt ti’n siŵr?”

Dyna’r unig beth roedd Twm yn gallu ei ddweud. Neidiodd ar ei draed a chychwyn cerdded yn ôl ac ymlaen i fyny ac i lawr yr ystafell fach gul. Crafodd ei ben. Eisteddodd ar y gwely am eiliad neu ddwy. Yna, cododd gan syllu drwy’r ffenest fach ar ddim byd yn arbennig ond y tywyllwch a’r awyr ddi-sêr. Roedd hi’n dywyllwch ar Twm hefyd. Beth oedd o am ei wneud? Dwy ar hugain oedd o, a deunaw oedd Ann.

Yna, daeth ato’i hun a cheisio wynebu realiti. Eisteddodd wrth ymyl Ann ar erchwyn y gwely gan roi ei fraich yn dyner dros ei hysgwyddau eiddil.

Roedd hi’n andros o ddel. Gwallt cyrliog du. Llygaid glas treiddgar. Gwasg fain, yr oedd o wrth ei fodd yn ei gwasgu. Roedd llanciau ifanc Llanwddyn wedi dotio arni ac wedi dweud wrtho sawl gwaith ei fod yn andros o lwcus yn cael mynd i gnocio at ferch mor dlws.

Tynnodd hi ato gan ei anwesu a sibrwd yn ei chlust:

“Be wyt ti am i ni ei wneud, Ann?”

“Wn i ddim,” oedd ei hateb tawel.

Sythodd Twm. Cliriodd ei wddw ac meddai mewn llais cadarn a phendant:

“Ann Jones, dwi’n gwybod fy mod yn dy garu di ddigon i ofyn i ti fy mhriodi i mor fuan ag sy’ bosib?”

Daeth gwên fach slei ar wyneb Ann, ac atebodd yn dawel:

“Gwnaf, wrth gwrs fe wnafe dy briodi.”

Priodwyd y ddau gyda thrwydded arbennig fis Ebrill 1868, ac fe gafodd Joseff, eu babi cyntaf, ei eni fis Tachwedd yr un flwyddyn.

Profodd Ann i fod yn wraig dda, er braidd yn flêr o gwmpas y tŷ ar adegau. Roedd hi wedi cadw ei hoed yn dda ac roedd ei phrydfferthwch wedi parhau dros y blynyddoedd.

Roedd hi hefyd yn fam annwyl a chariadus ac yn ymhyfrydu yn ei theulu o dri mab a thair merch fach. Ond o weld llestri heb eu golchi, dillad yn sypiau yma ac acw yn disgwyl am gael eu smwddio, roedd Twm o'r farn nad oedd ychwanegiad at y teulu yn syniad arbennig o dda. Ond rhaid oedd cyfaddef nad oedd o byth yn ystyried y canlyniadau pan yn caru'n frwd efo Ann cyn noswyllo yn eu hystafell fach gul yn eu cartref clyd.

“Dwi wedi gofyn unwaith, wyt ti angen mynd â brechdanau efo ti i Eunant heddiw?”

Torrodd llais Ann ar draws synfyfyrion Twm.

“Ydw, ydw, fel dudes i, mi wnaiff clwff o fara, cog o gaws a photel o de efo digon o sigwr yn iawn i mi. Diolch, cariad,” atebodd Twm gan roi pinsiad chwareus ar ei phen ôl.

Wnaiff o byth dyfu i fyny, na gadael llonydd i mi, meddyliodd Ann. Beichiog fydda' i, mae'n debyg, o flwyddyn i flwyddyn. Dyna fo, rydw i cyn waethed â fo bob blewyn, wrth fy modd yn cofleidio a charu, ac mae un peth yn arwain i'r llall. Mae'n arwydd ei fod o'n dal i fy ffansio i.'

Tynnodd swp o ddillad isaf oddi ar y ffon felen uwchben y tân. Tŷ bach ar rent yn Fishing Street, Llanwddyn oedd cartre Twm ac Ann Elis a'u teulu. Roedd yn fwthyn digon cyfforddus, ond fel roedd y teulu'n tyfu ymddangosai'n llai ac yn llai. Cegin, parlwr bach, dwy lofft, un fawr uwchben y gegin ac un llai uwchben y parlwr, a hefyd siambr. Nid oedd gan Twm ac Ann ddimai goch rhyngddynt i dalu rhent am dŷ, nac i ddodrefnu eu cartref, pan fu iddynt orfod priodi mor sydyn. Oherwydd yr amgylchiadau, daeth Mam weddw Twm, a'i frawd Ned, i'r adwy i gynnig help llaw.

Saer coed oedd Ned, un da iawn hefyd. Ar wâhan i weithio ar stad yr Arglwydd Powys yn adeiladu cloddiau pren, llidiardau a thrawstiau ar gyfer adeiladau'r stad, fo oedd ymgymerwr y pentref hefyd. Yn ei amser sbâr byddai'n gwneud dodrefn.

Hen lanc oedd Ned ac roedd o ddwy flynedd yn hŷn na Twm. Roedd o a'i fam hefyd yn byw yn Fishing Street. Gŵr tal golygus. Llygaid tywyll treiddgar, a gwên gellweirus yn chwarae ar ei wefusau. Roedd y ddau frawd yn debyg iawn o ran pryd a gwedd, cymaint felly, nes bod rhai wedi cymryd eu bod yn efeilliaid. Ond roedd

gwallt Twm yn felynach na Ned, ac yn yr haf byddai ganddo lyfiad llo golau yn ymestyn o'i dalcen i ganol ei gorun. Roedd gwallt Ned o liw brown tywyll, ac roedd o fodfedd neu ddwy'n dalach na Twm.

Roedden nhw'n mwynhau treulio ambell i brynhawn Sadwrn yn casglu coed o'r goedwig yn ymyl y pentref. Yna, treulio awr neu ddwy yn llifio'r coed yn gogiau ar gyfer yr wythnos oedd i ddod. Hefyd, roeddynt wrth eu bodd yn treulio ambell i fin nos yng nghwmni ei gilydd yn sgwrsio a chellwair.

Roedd Ann yn methu'n glir â deall pam nad oedd gan Ned gariad. Roedd hi'n ymwybodol o'r ffaith fod merched ifanc y pentref yn ei edmygu.

“Wnest ti fynd â rhywun arbennig am dro heddiw Ned?” fyddai hi yn ei holi ambell i nos Sul.

Fel arfer fe fyddai'n dweud, “Na, dim amser. Gwneud dipyn o arddio” neu “Mae yna sawl marwolaeth wedi bod yn y pentref, felly dwi wrthi'n brysur iawn yn gwneud eirch.”

Dim ond weithiau y byddai'n cyfaddef iddo fynd â Miriam, un o forynion Plas Eunant, am dro ambell i brynhawn Sul.

“Wyt ti yn hoffi cwmni merched felly?” fyddai sylw Ann.

“Ydw, debyg iawn, ond dwi ddim wedi cyfarfod yr un iawn eto,” fyddai ateb Ned gan roi winc slei iddi.

Ar adegau fel yna byddai Ann yn coch i at ei chlustiau ac yn troi i roi proc i'r tân neu ruthro allan i'r gegin gan esgus prysuro.

Oherwydd diffyg arian a diffyg dodrefn bu'r ddau yn byw gyda Ned a'i fam am bron i flwyddyn. Yno'r oeddynt pan anwyd Joseff. Wrth gwrs, roedd yna siarad mawr yn y pentref am fod Twm Elis wedi gorfod priodi morwyn Plas Hirnant. Pawb o'r clepwyr yn cyfri'r misoedd.

“Roedd hi'n siŵr o fod yn disgwyl pan ddaru nhw briodi. Priodi trwy drwydded arbennig ac yn y swyddfa yn Llanfyllin ac nid yn y capel! Deunaw oed ydi hi. Mae'n rhaid ei fod o wedi colli ei ben yn lân arni”, meddai un, wrth ddisgwyl i'r bara grasu yn y popty mawr.

“Dwi wedi clywed ei fod o'n mynd i gnocio byth a beunydd i Blas Hirnant a bod y perchennog wedi eu dal wrthi un noson yn yn gwely a hithau'n hwyr iawn,” meddai un arall.

Dyna oedd y sgwrs beunydd yn ystod haf 1868 pan sylwodd rhai o wragedd y pentref fod gwasg Ann yn ymledu.

“Ann fach, peidiwch â chymryd sylw ohonynt. Bu’n rhaid i’r rhan fwyaf o’r clepwyr yna briodi yn sydyn. Mae ‘ogla blodau’ ar y rhan fwyaf o blant yr ardal yma,” cysurodd Sinah Elis, mam-yng-nghyfraith Ann

“Ogla blodau? Be dach chi’n ei feddwl, Sinah Elis?” holodd Ann gan bwffian chwerthin.

“Dyna be’ mae rhai yn ei ddweud pan fydd plentyn wedi ei genhedlu yn nhin y gwrych neu yn y das wair,” oedd ateb parod Sinah gan chwerthin yn uchel.

Ddechrau mis Rhagfyr y flwyddyn honno sicrhaodd Twm dŷ bach ar rent iddo ef a’i deulu yn Fishing Street, felly, dyma Ned yn ymroi ati o ddifri i ddodrefnu’r tŷ.

Roedd Twm yn fwy na pharod i helpu ei frawd gan fesur, plaenio a staenio pob dodrefnyn. Fel arfer byddent yn gweithio’n ddiwyd fin nos wedi iddynt gael swper a hefyd ar brynhawn Sadwrn.

Canlyniad yr holl weithgarwch oedd cadair ddwyfraich, setl, bwrdd mawr cadarn wedi ei wneud o dderw Llanwddyn gyda chwe chadair gref i’w gosod o amgylch y bwrdd, a hefyd gwpwrdd llestri a chwprdd cornel. I’r ystafell wely gwnaed cwpwrdd mawr i ddal dillad, ffrâm bren i’r gwely a chrud ar gyfer y newydd ddyfodiad. Yn fuan wedi hynny, bu’n ofynnol i Ned wneud tri gwely pren ychwanegol ar gyfer y teulu oedd yn cynyddu bob blwyddyn.

Ni fu Ann yn segur chwaith. Gwnaeth dri mat racs, un i’w osod o flaen y tân, a dau lai ei faint i’w osod bob ochr i’r gwely. Bu’n gwnïo llenni hefyd ar gyfer y parlwr bach a’r ystafell wely.

Un garedig iawn oedd Sinah Elis. Roedd hi wrth ei bodd efo’i merch-yng-nghyfraith annwyl. Cyn i Twm ac Ann symud i’w bwthyn bach, gwnaeth Sinah’n sicr bod gwely plu wedi ei baratoi ar eu cyfer fel anrheg priodas. Yn ogystal â’r gwely plu, aeth Sinah i’w chist bren lle roedd hi’n cadw cyfnasau ac wedi chwilio’n ddwfn i berfeddion y gist dyma hi’n rhoi dau wrthban tew a dau gwilt patrymog i Ann.

“Mae’r rhain wedi dod trwy law fy mam ac wedi eu gwneud yn Ffestiniog o’r gwllân Cymreig gorau. Fyddwch chi byth yn oer yn yn gaeaf efo’r rhain ar y gwely.”

Wrth hel atgofion plygodd Ann y dillad yn ofalus gan eu rhoi ar fwrdd y gegin. Roedd 1868 yn teimlo’n bell iawn i ffwrdd. Hithau erbyn hyn yn fam i chwech o blant ac wrth iddi ymestyn at y ffon felen uwchben y grât, atgoffwyd hi fod yna un arall ar y ffordd wrth iddi deimlo’r plentyn bach yn aflonyddu y tu mewn iddi. Roedd y dodrefn roedd Ned wedi eu gwneud iddynt yn dal i edrych yn rhyfeddol o dda o

ystyried yr holl firi aoedd yn mynd ymlaen yn y tŷ o bryd i'w gilydd. Roedd yna ambell i grafiad go ddwfn ar fwrdd y gegin, a'r unig ffordd y gallai Ann ei guddio oedd rhoi digon o wêr gwenyn arno. Anfynych y byddai'n gwneud hynny oherwydd yr holl brysurdeb gyda'r teulu, ond meddyliodd, hyd yn oed os oedd y tŷ yn tueddu i fynd a'i ben iddo ar adegau, roedd y plant bob amser yn lân ac roeddynt yn cael digon yn eu boliau. Dyna, wedi'r cyfan, oedd yn bwysig.

Bob bore Sadwrn byddai'n rhoi'r merched ar waith i dacluso'r ystafell wely fawr. Roedd yna dipyn o waith tacluso hefyd. Cadw dillad isaf yn y droriau a chadw esgidiau o dan y gwely. Tynnu'r llwch o dan y gwelyau gydag adenydd yr ŵydd a oedd wedi eu cadw ers y Nadolig. Tynnu'r llwch a oedd wedi casglu ar y dodrefn hefyd a brwsio i lawr y grisiau yn ofalus.

Olwen oedd yr hynaf o'r genethod ac roedd hi'n barod iawn i ddangos i'w chwirydd sut i lanhau yn iawn.

“Mi rwyt ti'n un dda am lanhau ac mi wnei di wraig dda i rywun rhywbryd,” meddai Twm wrth gael ei wahodd i weld ffrwyth ei llafur wedi iddo ddod o'r gwaith un prynhawn Sadwrn.

Roedd hi wedi rhwbio gwêr gwenyn ar y gist ddillad yn yr ystafell wely fawr a hefyd wedi sgleinio bwrdd y gegin.

“Wn i ddim be' fyddwn i yn ei wneud heb dy help di, Olwen fach, rwyt ti'n werth y byd,” ategodd Ann gan ei chofleidio.

Doedd Ann ddim yn hoffi cysgu yn y stafell wely fach, yn enwedig pan oedd hi'n feichiog. Oherwydd maint yr ystafell doedd y gwely ond pedair troedfedd o led. Yn ystod beichiogrwydd doedd dim posibil bod yn gyfforddus mewn lle mor gyfyng. Ond doedd dim dewis. Roedd Twm a hi yn hoffi preifatrwydd ac roedd yna ddigon o le i'r plant yn y stafell wely arall. A dweud y gwir, roedd digon o le i un gwely bach ychwanegol, meddyliodd. Byddai'n rhaid gofyn i Ned wneud gwely arall ar gyfer y teulu.

“Oes rhaid i mi wneud ffrâm gwely arall? Pryd ydych chi yn mynd i roi diwedd ar y planta yma?” holodd Ned yn gellweirus wrth iddo fynd am beint efo'i frawd wedi swper un min nos.

“Fedri di ddim gadael llonydd iddi, yn na fedri?” ychwanegodd gyda winc.

“Fyddet ti'n gadael llonydd iddi pe bai hi'n wraig iti?” holodd Twm yr un mor gellweirus.

Nid atebodd Ned, dim ond troi at Jo Boncyn Celyn ac esgus codi sgwrs efo fo. Yna, trodd yn ôl at ei frawd gan gytuno gwneud un gwely arall, ond gan awgrymu hefyd y byddai'n rhaid i rai o'r plant gysgu ar ben ac ar draed y gwelyâu os byddai'r teulu yn mynd yn fwy eto.

“Does dim lle i fwy na phedwar o welyâu bach yn yr ystafell yna. Dyna ydi'r arferiad mewn sawl cartref yn y pentref yma,” ychwanegodd.

*

Hydref 1879 oedd hi. Edrychodd Ann allan drwy ffenest y gegin. Roedd hi'n ddiwrnod od o ran tywydd, diwrnod digon i godi'r felan ar unrhyw un. Byddai ei mam bob amser yn disgrifio diwrnod tebyg fel 'diwrnod cau tu ôl' - rhyw ddiwrnod pan nad oedd hi'n dyddio'n iawn. Cymylau trwm, glaw mân a tharth yn gorchuddio'r dyffryn a phen y bryniau. Nid oedd Ann erioed wedi clywed neb arall yn defnyddio'r fath ymadrodd ond roedd o'n ddisgrifiad da. Roedd hi'n deall yn union beth oedd ei mam yn ei olygu.

Wedi bod yn ceisio tacluso ychydig yr oedd hi yn ystod y dydd, ond doedd fawr o siâp arni. Roedd hi'n gwneud ei gorau i gael trefn ar y tŷ oherwydd roedd hi'n gwybod bod Twm yn hoffi trefn, er nad oedd o byth yn cwyno. Ond roedd ganddo ffordd ryfedd o edrych o'i amgylch a chodi ei drwyn pan fyddai'r lle â'i ben iddo.

Eisteddodd Ann yn swp yn y gadair siglo. Beichiogrwydd annifyr oedd y beichiogrwydd yma. Tybed a oedd yna rywbeth yn bod ar y plentyn? Eto, roedd o neu hi yn ddigon bywus. Rhaid oedd cyfaddef ei bod byth a beunydd wedi blino, ac roedd ganddi boen yn ei chefn yn barhaus.

Wedi hanner awr o orffwys a synfyfyr, aeth ati i geisio paratoi swper i'r teulu. Roedd Ned wedi taro i mewn y noson gynt gyda chwningen fawr dew, wedi ei dal mewn magl yng ngwaelod ei ardd oedd o. Aeth Twm ati i'w blingo a'i glanhau, yna ei hongian yn y tŷ golchi.

“Mae yna un amod, mi gei di'r wningen yma os ga i ddod i swper nos yfory, a chofia roi crystyn iawn ar ben y cig. Un da wyt ti am wneud pastai gwningen, Ann,” meddai Ned.

Cochodd Ann at ei chlustiau. Roedd yna rywbeth o gwmpas Ned oedd yn ddeniadol iawn, meddylodd.

Daeth atgofion yn ôl iddi am yr hyn yr oedd Ned wedi ei ddweud, wrth iddi dorri'r cig yn ddarnau mân. Ychwanegodd winiwns, darnau o feipen a thatws, a phupur a halen i flasau. Yna, i mewn i'r popty am oddeutu ddwy awr. Prysurodd i baratoi'r crwst. Un dda oedd hi am wneud crwst. Roedd yna ganmol mawr bob amser. Wedi i'r cig a'r llysiâu goginio'n iawn a chael cyfle i oeri, dyma daro'r crwst ar ben y cyfan, a'i roi'n ôl yn y popty nes y byddai wedi crasu a melynu.

“Mam, dwi bron â llwgu.”

Dyna lais Joseff, newydd gyrraedd adref o'r ysgol. Wrth ei sodlau daeth gweddill y plant, pob un bron â llwgu. Torrodd Ann glyffiau mawr o fara ffres, bara newydd ei grasu ym mhopty mawr y pentref y bore hwnnw. Taenodd ychydig o fenyn ar bob un. Roedd menyng yn brin yn ystod y gaeaf.

“Mam, dwi'n isio mwy o fenyn ar fy mara,” cwynodd Olwen.

“Wel, dyma be' sy' ar gael yr adeg yma o'r flwyddyn. Mae yna gaws a digon o'r jam cyrents duon wnes i yn ystod yr haf,” atebodd Ann.

Yna ychwanegodd:

“Pawb i lenwi ei fol efo bara, jam a chaws, a chymrwch gwpaned o laeth enwyn i olchi'r cwbl i lawr.”

“Mae yna rywbeth da yn y ffwrn ac mae'n gwyntio dros y tŷ. Fedra i ddim aros tan amser swper,” meddai Tomos bach gan rwbio ei fol.

Edrychodd Ann gyda balchder ar ei theulu yn eistedd yn hapus o amgylch y bwrdd. Roedd golwg iach arnynt, bob un yn sgloffio'r bara ffres ac yn lloccio'r llaeth enwyn.

“Tamaid i aros pryd ydi hwn,” meddai gyda gwên.

Yna, wedi i bawb orffen bwyta, dechreuodd eu rhoi ar waith. Jo i nôl pedair bwced o ddŵr o'r pwmp dŵr yng nghanol y pentref. Tomos bach i gario llond bwced o datws o'r cwt yn y cefn ar gyfer swper y diwrnod dilynol. Bob i lenwi'r fasedd gyda phriciau ar gyfer cychwyn y tân y bore wedyn. Olwen i smwddio crys gorau Twm a chrysau bob un o'r bechgyn ar gyfer y Sul. Jini a Meri i lanhau'r canhwylau pres a hefyd y ffendar o flaen y tân.

“Iawn, Mam,” meddai pawb yn un côr ac i ffwrdd â nhw at eu gwaith fel mellt er mwyn cael eu cwblhau mor fuan ag oedd modd. Roedd y bechgyn yn awyddus iawn i ymuno â'u ffrindiau a oedd wedi trefnu i gyfarfod yn y cae bach tu ôl i'r ysgol i chwarae pêl droed.

“Mam, mae gan Wil Bryndu bledren mochyn newydd. Fe ddaru nhw ladd mochyn yno ddoe. Felly, rhaid i ni fynd i gael gêm cyn i’r bledren hollti,” eglurodd Jo.

“Dwi’n amau’n fawr y gwelwch chi’r bledren, mae hi bron yn dywyll,” atebodd Ann.

Ond roedd y tri wedi diflannu cyn iddi orffen siarad. Araf iawn oedd Olwen efo’r smwddio.

“Rhaid i mi ddangos i ti sut i baratoi’r haearn ar gyfer smwddio,” esboniodd Ann. “Wyt ti’n gweld, mae’n rhaid i’r tân gochi’n iawn cyn rhoi’r haearn arno i boethi. Wedyn rhaid tynnu’r haearn i ffwrdd, poeri arno ac os ydi’r poer yn neidio oddi ar yr haearn yn syth bin mae hynny’n arwydd fod yr haearn wedi poethi’n iawn ac yn barod i’w ddefnyddio.”

Wrth ddangos i Olwen sut i baratoi’r haearn, pwysleisiodd Ann fod gofal yn bwysig iawn ac estynnodd glwtyn trwchus iddi ddefnyddio wrth afael yn yr haearn.

“Rŵan Olwen, mi wna i ddangos i ti sut i smwddio crys. Mae o’n ddilledyn anodd iawn i’w smwddio. Maen nhw’n dweud os medri di smwddio crys fe elli di smwddio unrhyw ddilledyn,” oedd y cyngor.

Ond er y cynghorion, dipyn o ymdrech oedd hi i Olwen i smwddio crys ei thad.

Roedd dwylo’r efeilliaid, Jini a Meri, yn ddu wedi iddynt orffen glanhau’r brasys a’r ffendar. Roedd yna farciau du ar eu hwynebau hefyd, ond er iddynt edrych yn ddoniol iawn roedd rhaid i Ann eu canmol am eu hymdrech.

“Pam ydach chi wedi rhoi’r stwff glanhau ar eich dwylo a’ch wynebau a’ch bratiau?” holodd gan chwerthin.

Y pethau bach, dysgu roedden nhw, wedi’r cwbl, meddyliodd.

Tua chwech yr hwyr dychwelodd Twm o’r gwaith. Roedd ei ddillad yn wlyb diferol. Roedd wedi bod wrthi yn codi wal gerrig i greu corlan ar gyfer wŷn y gwanwyn ar stad Eunant. Sylwodd Ann ei fod yn dawedog iawn wrth iddo ymolchi a newid o’i ddillad gwlyb. Oherwydd ei bod wedi tywyllu roedd y gêm gyda’r bledren mochyn wedi dod i ben. Daeth y bechgyn yn ôl i’r tŷ yn chwys ac yn fwd i gyd.

“Ewch ar unwaith i olchi eich dwylo budr,” gorchmynodd Ann.

Ymhen rhyw chwarter awr daeth cnoc ar y drws ac i mewn â Ned, yntau hefyd â golwg bryderus ar ei wyneb.

“Swper yn barod ! Pawb at y bwrdd,” cyhoeddodd Ann.

Rhuthrodd y chwe phlentyn i lawr o'r llofft uwchben, eu traed fel taranau ar y grisiau pren. Roedd pawb yn awchus am eu swper ac yn gwthio yn erbyn ei gilydd er mwyn cael at y bwrdd. Llyncwyd y pastai gwningen mewn distawrwydd. Crafai pawb eu platiau.

Am hanner awr wedi saith, dyma Twm yn cyhoeddi ei bod yn amser iddynt fynd i glwydo. Anfodlon iawn oedd y bechgyn i fynd am y gwely. Ond doedd dim dadlau i fod. Rhaid oedd golchi dwylo, wyneb, gwddw ac ambell i benglin. Hefyd, roedd yn ofynnol rhwbio dannedd efo ychydig o halen a rhinsio'r geg efo dŵr glân, a brwsio gwallt cyn gwisgo dillad nos. Atgoffwyd Bob mai fo oedd i lanhau esgidiau pawb erbyn y bore.

“Rwyd ti'n awdurdodol iawn efo'r hen blant, Ann,” meddai Ned gan chwerthin.

“Awdurdodol fyddet ti hefyd efo'r fath griw,” oedd ei hateb parod.

Wedi i'r dyletswyddau gael eu cwblhau ac i bawb ddiplannu i fyny'r grisiau, dyma do'r gegin yn dechrau crynu yn union fel daeargryn. Roedd yna chwerthin a neidio mawr yn mynd ymlaen i fyny yn y llofft.

“Mae nhw'n ymladd efo'r clustogau plu yna, Twm. Dos i fyny i ddweud y drefn,” plediodd Ann.

“Mae golwg lwyd arnat ti, Ann. Wyt ti wedi blino?” holodd Ned yn bryderus. Cyfaddefodd Ann nad oedd hi erioed wedi bod mor flinedig yn ystod beichiogrwydd a'i bod yn poeni am y plentyn.

Daeth tawelwch rhyfedd dros y tŷ wedi i Twm fod yn rhoi'r ddeddf i lawr. Cymerodd Twm ei le o flaen y tân efo'i frawd a'i wraig. Wrth eistedd ochneidiodd yn uchel ac meddai wrth Ned:

“Wyt ti wedi clywed y sibrydion?”

“Do,” atebodd Ned, “Mae nhw'n mynd trwy'r fro fel tân gwyllt. Dwi'n siŵr mai celwydd ydi'r cyfan. Does dim synnwyr o gwbl yn y stori. Mae yna rai yn dweud y dylem ni wneud petisiwn a'i gyflwyno i Charles Watkin Williams Wynn.”

“Be' yn y byd mawr ydach chi'n sôn amdano? Pa sibrydion? Be' sy ddim yn gwneud synnwyr?” holodd Ann wedi cynhyrfu.

“Dwed ti,” meddai Ned.

“Na, dwed ti. Rwyd ti'n amlwg wedi clywed mwy na fi,” atebodd Twm. Aeth Ned yn ei flaen i adrodd yr hyn oedd o wedi ei glywed gan ffermwyr a thyddynwyr y fro.

“Mae’n nhw’n deud fod poblogaeth dinas Lerpwl wedi cynyddu ac mae angen gwell system ddŵr er mwyn gwella iechyd y bobl. Y si ydi, fod cynlluniau ar y gweill i adeiladu argae fawr ar draws un o ddyffrynnoedd gogledd Cymru a sianelu’r dŵr o afonydd lleol i greu anferth o lyn a gyrru’r dŵr trwy bibellau mawr yr holl ffordd i Lerpwl.

Ochneidiodd Twm. Aeth Ned yn ei flaen:

“Mae yna ryw bobl bwysig wedi bod yn sbecian o gwmpas ein dyffryn ni oherwydd, medden nhw, fod yna olion rhewlyn o oes yr iâ i’w weld yn y gors - pryd bynnag fu oes yr iâ. Mae afonydd Conwy a’r Machnant yn rhedeg i mewn i’r Afon Efyrynwy, felly mae yna ddigon o ddŵr ar gael. Ac mae pawb yn dweud rŵan y byddan nhw’n boddi’r dyffryn yma er mwyn cael digon o ddŵr ar gyfer pobl Lerpwl. Maen nhw hefyd wedi bod yn siarad efo’r Arglwydd Powys.

Torrodd Twm ar ei draws:

“Oes yna sôn i bod nhw wedi sbecian yn rhywle arall?”

“Oes, lle o’r enw Haweswater, yng ngogledd Lloegr, lle bynnag mae hwnnw a hefyd o gwmpas Llyn y Bala,” atebodd Ned.

“Paid, paid â dweud dim mwy; be ydwi i eisiau’i wybod ydi, ble mae Lerpwl, a pha mor bell o’r fan yma ydi o?” holodd Ann gyda dychryn mawr ar ei hwyneb.

“Wel, mae’n nhw’n dweud ei fod o i’r gogledd o’r fan yma. Yn Lloegr wrth gwrs. Wyt ti’n gwybod ble mae o Twm?” gofynnodd Ned.

“Na, dwi ddim yn sicr ble mae o, rhywle tu draw i Suswallt mi dybiwn i,” oedd ateb Twm.

Roedd Ann wedi mynd yn hollol welw a bron iddi lewygu pan aeth Ned yn ei flaen:

“Y si ydi eu bod nhw am foddi pentref Llanwddyn a symud pawb allan i bentref newydd fydd yn ymyl yr argae ymhen y dyffryn. Wedyn llenwi’r dyffryn efo dŵr o afonydd Efyrynwy, Cowny a Machnant, a chreu anferth o lyn, un o’r rhai mwyaf yng Nghymru.”

“Dwi ddim yn credu gair o hyn. Na, na, fedra nhw ddim boddi ein pentref bach ni. Mae yna ormod ohonom ni yn byw yma.”

Cododd Ann ei ffedog ddu dros ei hwyneb a dechreuodd grïo.

“Wel, Ann fach, dyna ydi’r stori a mae pawb yn dweud yr un peth. Soniodd William Jones amdano fore Sul wedi’r oedfa. Hefyd, mi wnes i gyfarfod Rich Glyndu

ar y ffordd adref o fy ngwaith heno, ac roedd o'n sôn am yr un peth. Allwn i ddim dweud dim wrthyt ti. Meddwl y byddet ti'n cynhyrfu'n lân a thi yn dy gyflwr presennol," cysurodd Twm hi, gan roi ei fraich yn annwyl am Ann.

Peidiodd y glaw y diwrnod canlynol a daeth ambell lewyrch o haul gwan hydrefol dros ddyffryn Efyrynwy a phentref Llanwddyn. Ar ôl y sgwrs y noson gynt efo Ned, troi a throsi fu hanes Twm ac Ann y rhan fwyaf o'r nos yn eu gwely bach cul. Oherwydd beichiogrwydd Ann, anodd iawn oedd gorffwys yn esmwyth.

"Rwy'ti'n anesmwyth iawn heno Ann. Wyt ti'n teimlo'n sâl?" holodd Twm gan droi i'w hwynebu a thaflu ei fraich yn ysgafn amdani.

"Ydw, mae'r babi yma'n anniddig hefyd, yn union fel pe bai o neu hi yn ymwybodol o'r sibrydion am y pentref a'r dyffryn yma. Oes bosib i ni sefyll yn gadarn a gwneud stŵr? Gwrthod symud oddi yma?" gofynnodd Ann mewn llais tawel pryderus.

"Wel, dwi ddim yn siŵr. Y drwg ydi mai tenantiaid ydan ni. Yr Arglwydd Powys sy'n berchen ar y rhan fwyaf o'r dyffryn. Fo fydd â'r gair olaf."

*

Dydd Mawrth oedd diwrnod pobi bara i Ann. Roedd merched y pentref yn defnyddio'r popty mawr yn eu tro. Alys Huws, Poli Williams ac Ann a oedd fel arfer yn defnyddio'r ffwrn fawr ar ddydd Mawrth. Roedd pobi ar gyfer teulu o chwech o blant, tri oedolyn, yn cynnwys Ned, digon am gyfnod o wythnos, yn cymryd amser. Fel arfer roedd Ann yn paratoi chwe thorth a dwy ar gyfer ei brawd yng-nghyfraith. Ar brynhawn Llun byddai hi'n paratoi'r toes ac yn ei adael i weithio mewn padell anferth wedi ei gorchuddio â lliain gwyn glân dros nos. Bore Mawrth roedd rhaid tylino'r toes, ei rannu'n ofalus a'i roi yn y tuniau pwys ar gyfer mynd draw i'r tŷ popty a oedd y drws nesaf i efail y pentref. Roedd y dynion hefyd yn chwarae eu rhan yn y broses: pob un yn cymryd tro i gynnu'r tân i gynhesu'r popty. Roedd yn ofynnol cael y tymheredd yn iawn er mwyn i'r torthau godi a hel crystyn blasus. Felly, roedd rhaid cynnu'r tân am hanner awr wedi chwech y bore.

Cyrhaeddodd y tair gyda'i gilydd i'r tŷ popty. Wedi iddynt roi'r torthau i'w pobi, dyma Alys yn troi at Ann ac yn dweud:

“Rwyt ti’n edrych yn drist heddiw Ann. Popeth yn iawn efo’r babi? Faint sy’ gen ti i fynd eto?”

“Mae gen i ryw saith wythnos i fynd. Mae o’n fabi aflonydd iawn. Pan dwi yn y gwely mae o’n cicio’n ofnadwy. Dwi’n hollol anesmwyth. Ond nid dyna sy’n fy mhoeni i. Ydach chi wedi clywed y si sy’n mynd o gwmpas am foddî’r pentref yma?”

Pan adroddodd Ann y stori am gynlluniau Lerpwl i greu llyn enfawr yn y dyffryn ac am symud pawb i bentref newydd, am unwaith roedd Alys a Poli yn fud gan syndod.

Poli ddaeth at ei hun gyntaf, ac meddai gyda’i llygaid yn fflachio:

“Dydi hyn ddim yn bosib. Mae’n nhw’n dweud fod yna tua phum cant ohonom

yn byw yn yr ardal. A be am Blas Eunant? Fedran nhw ddim symud pawb.”

“Yn hollol,” cytunodd Poli.

“Beth am y tafarndai, y capeli, yr eglwys a’r ysgol? Dim ond wyth mlynedd sy’ ers pan adeiladwyd capel newydd Bethel ac fe gostiodd hwnna £900.”

Ochneidiodd Poli ac meddai, “Wn i ddim be fyddai pobl fel Ann Griffiths a’i ffrindiau yn ei ddweud pe baen nhw’n fyw heddiw. Ydw i’n iawn yn dweud ei bod hi arfer â galw yma yn Llanwddyn pan ar ei ffordd i’r Bala?”

“Mae hynny’n hollol wir. Fe ddwedodd fy nhaid un tro iddo fod yn un o’r tafarndai - dwi ddim yn cofio pa un - pan alwodd Ann a’i ffrindiau i mewn am damaid o fwyd. Tra roedden nhw yno dyma nhw’n dechrau canu a gorfoleddu, ac fe anfonodd y dafarnwraig nhw allan am eu bod nhw’n cadw cymaint o sŵn. Roedd Taid yn dweud fod pawb wedi mwynhau’r canu, ond fod y dafarnwraig mewn hwyliau drwg y noson honno,” ategodd Alys gyda gwên.

“Wel,” atebodd Ann, “Mae yna sôn bod y dyffryn yma wedi bod yn lle crefyddol iawn ar un adeg.”

“Wel, gobeithio y bydd rhai o ysbrydion y lle yma’n codi dychryn ar y diawled yna o Lerpwl. Mi fyddai’n braf pe bai ysbryd yr hen gawr Wddyn yn creu storm o fellt a tharanau bob tro y bydd unrhyw un ohonyn nhw yn dod yn agos i’r dyffryn. Neu beth am ysbryd Cynon? Hwyrach mai o fyddai’n llwyddo i’w dychryn a’u hel yn ôl i Lerpwl,” ychwanegodd Alys.

Chwerthin a wnaeth y tair yn uchel, ond yn fuan trodd y chwerthin yn dristwch wrth iddynt ystyried o ddifrif beth oedd ar fin digwydd i’w paradwys bach.

*

Deffrowyd trigolion y bwthyn bach yn Fishing Street gan grïo a gruddfan ganol nos. “

“Mam, Mam, mae gen i ddannodd dychrynlyd.”

Bob oedd yn cwyno. Cododd Ann yn araf gan ymlwybro i stafell wely'r plant.

“Agor dy geg i mi gael gweld.”

Cododd y gannwyll i edrych i mewn i geg Bob. Yn bendant roedd twll yn un o'i ddannedd blaen.

“Yfory, mi fydd rhaid i ti fynd weld Huw Dannedd. Mae o yng nghertws capel Bethel am un o'r gloch”.

“O na, dwi ddim am fynd,” swniodd Bob.

Roedd pawb yn ofni Huw oherwydd mi fyddai'n tynnu dannedd heb ddim i leddfu poen, a gwaed y dioddefwyr yn ffrydio o'u cegau ar ei ffedog fras. Ond felly y bu. Aeth Ann â Bob at Huw y diwrnod canlynol. Roedd rhes o bobl a phlant yn y certws yn disgwyl am driniaeth. Pan ddaeth tro Bob dyma orchymyn iddo agor ei geg yn fawr.

“Reit allan a fo.”

Cydiodd Huw mewn pinsier fawr, ei gloi ar y dant a thynnu. Sgrechiodd Bob gan boen, a phan welodd y gwaed fe sgrechiodd fwy byth.

“Be' sy arnat ti rhen gog? Mae o allan rŵan, chei ddim chwaneg o helynt efo hwnna,” meddai Huw gan chwerthin yn uchel.

Bore drannoeth, fodd bynnag, roedd Bob mewn mwy o boen. Ei wyneb wedi chwyddo a'i foch yn goch.

“Does dim amdani ond mynd â ti i weld Hen Wraig Eifionydd. Un dda ydi hi am wneud fffisig i leddfu poen,” awgrymodd Twm.

Roedd hi'n fore rhewllyd ym mis Rhagfyr. Rhoddodd Ann fyfflar trwchus ar geg Bob wrth iddynt fynd tuag at gartref yr Hen Wraig a oedd yn byw rhyw ganllath tu allan i'r pentref yng nghesail un o fryniau uchaf y dyffryn. Cafwyd potel o fffisig drwg iawn yr olwg ganddi gyda'r gorchymyn fod rhaid i Bob gymryd llond llwy bwdin bedwar gwaith y dydd. Pan roddodd Ann y llwyaid gyntaf iddo dyma fo'n pesychu a phoeri'r cyfan allan.

Gwylltiodd Ann, gafaelodd yn ei drwyn a stwffiodd lwyriad arall i lawr ei gorn gwddw.

“Mae hwn yn ffisig arbennig, dwi wedi talu amdano. Mae'r Hen Wraig wedi ei wneud o risêt a gafodd gan ei mam. Felly, mae'n rhaid i ti ei gymryd, drwg neu beidio. Mi gei di ddiod o ddŵr a lwmp o daffi os wnei di ei gymryd yn dawel.”

Ac felly y bu. Cymerodd Bob y ffisig drwg yn dawel wedi hynny, ar yr amod fod y dŵr a'r taffi gerllaw.

Tua chwech bob nos roedd hi'n ofynnol i Jo, y bachgen hynaf, fynd i fuarth y cefn i fwydo'r mochyn a'r ieir ac i gasglu wyau. Roedd y rhan fwyaf o drigolion y pentref yn cadw mochyn a rhyw hanner dwsin o ieir.

Roedd y ffermwyr a'r tyddynwyr hefyd yn cadw moch, ieir, gwartheg a defaid, yn ogystal â thyfu ychydig o wenith. Roedd diwrnod lladd mochyn yn ddiwrnod mawr, ac roedd yn ofynnol gwneud yn siŵr fod Ted o Ben y Bont ar gael i ymarfer ei sgiliau o ladd a thorri'r mochyn i fyny. Dyna pryd fyddai'r merched yn brysur yn halltu ar gyfer yr hamiau i'w rhoi mewn mwslin a'u hongian am fisoedd o nenfwd y gegin. Roedd rhaid dal gwaed y mochyn hefyd, ei gymysgu gyda pherlysiau, a'i goginio yn ofalus yn y popty mawr i wneud y pwdin gwaed gorau yn y byd.

“Mae nhw'n ymladd ceiliogod ar fuarth y Pant prynhawn Sadwrn. Plis mam ga' i fynd i wyllo?” plediodd Jo, a oedd erbyn hyn yn meddwl ei hun yn dipyn o lanc.

“Na, yn bendant, na,” oedd ateb Ann.

Ond cael ei ddenu gan y bechgyn hŷn a wnaeth Jo. Wedi iddynt gyrraedd y Pant cawsant fraw mawr. Roedd y buarth yn llawn o ddynion o bob oed wedi ymgasglu mewn cylch. Un dyn yn y gornel, ei het yn llawn o arian a phawb arall yn gweiddi'n groch ar y ddau geiliog yn y canol a oedd yn eu pigo ei gilydd i farwolaeth. Gwthiodd Jo i flaen y cylch i gael gwell golwg fel roedd y ceiliog mwyaf yn rhoi'r pigiad marwol olaf i'r llall. Gorweddodd y lleiaf yn gelain ar y buarth a'i draed i fyny. Daeth bonllefau mawr gan y dynion a churo dwylo.

Wrth weld y gwaed a'r plu ymhobman teimlodd Jo fel cyfogi. Trodd ar ei sawdl a gwthiodd yn ôl trwy'r dyrfa. Rhedodd a'i wynt yn ei ddwrn am y pentref gyda'r bechgyn eraill yn gweiddi ar ei ôl:

“Dwyt ti ddim mor ddewr ag roeddet ti'n ei feddwl, Jo Elis.”

Baglodd dros y rhiniog wrth iddo agor drws y cefn a'i wyneb yn goch.

“Ble yn y byd wyt ti wedi bod?” holodd Ann yn flin.

“I'r Pant” atebodd Jo gan deimlo cywilydd.

“I’r Pant! Mi ddeudes i wrthyt ti am beidio â mynd yn agos i’r lle. Dwi’n meddwl y dylet ti fynd i fyny i’r llofft i weddio a gofyn i Dduw faddau i ti am fod mor anufudd,” gwaeddodd Ann.

*

Erbyn Nadolig 1879 roedd pawb yn y pentref wedi cynhyrfu’n lân. Roedd pob math o storïau ar led, ac er syndod roedd gwahaniaeth barn ar gael yn y dyffryn.

“Wyt ti am ddod am ddiod bach i’r Crossguns?” gofynnodd Ned i Twm ddeuddydd cyn y Nadolig.

Roedd yna dri thafarn yn y pentre, Y Crossguns, Y Red Lion a’r Powys Arms. Fel arfer i’r Crossguns y byddai Twm a Ned yn mynd am beint. Cyn ateb edrychodd Twm i gyfeiriad Ann am ganiatâd.

Roedd hi wrthi yn y gegin yn glanhau yr ŵydd. Wil Bryngwyn oedd wedi galw y noson gynt gyda glamp o ŵydd dew ar gyfer cinio Nadolig y teulu. Un doniol a chlên oedd Wil. Bob tro yn galw’n hwyr ar fin nos. Cnoc ar y drws, a dyna lle’r oedd o. Hen het boler a oedd ar fin troi’n wyrdd gan henaint ar ei ben. Braf hir wen, trowsus ffustion budr a sach dros ei ysgwyddau. Byddai’n agor y drws ac yn gweiddi:

“Oes yna bobl yma?”

“Oes,” fyddai’r ateb pendant.

Yna, wrth weld y teulu’n eistedd o gwmpas tanllwyth o dân, byddai’n llusgo’r stôl fach dair coes at y tân, a heb dynnu ei het na sychu ei gloesiau mawr, yno y byddai’n sgwrsio efo Twm ac Ann hyd at berfeddion nos.

Adeg Nadolig 1879 roedd hwyliau gwael iawn ar Wil Bryngwyn. Roedd o mewn tymer ddrwg oherwydd y sibrydion am foddi’r dyffryn.

“Dyma chdi, Ann, mae hon yn ŵydd go dew. Dwi’n gwybod bod angen ei phluo hi a’i glanhau, ond fyddi di ddim yn hir yn gwneud hynny. Mae yna gig da arni ac fe fydd y saim yn ardderchog tuag at yr annwyd yn ystod y gaeaf yma.”

Roedd Ann yn hynod o ddiolchgar ond cyn iddi gael amser i ddiolch, dyma Wil yn dechrau taranu o ddifrif yn erbyn pobl Lerpwl, yr Arglwydd Powys a phob Sais arall yn y byd.

“Be dan ni’n mynd i wneud? Oes yna ddigon o asgwrn cefn ynom ni i sefyll yn erbyn y cythreuliaid yna o Lerpwl? A beth am yr Arglwydd Powys yna, yn barod i werthu ei enedigaeth fraint? Mi glywais i faledwr yn sôn am foddi yr hen

ddyffryn yma pan es i am dro i ffair Llanfyllin y dydd o'r blaen. Twll din i bob Sais ddyweda' i. Petisiwn amdani. Rhaid gwrthwynebu. Rhaid gwneud rhywbeth."

Roedd y plant yn eistedd erbyn hyn ar y grisiau pren yn eu dillad nos ac yn clustfeinio. Pan glywsant Wil yn dweud, 'Twll din i bob Sais,' dyma nhw'n dechrau pwffian chwerthin.

Edrychodd Twm i fyny'n sydyn. Cododd ar ei draed gan ddweud yn awdurdodol: "I'r gwely â chi ar unwaith. Dim mwy o wrando ar y grisiau."

Doedd dim angen dweud yr ail waith. Neidiodd Jo i fyny gan ddweud wrth y lleill:

"Fi fydd y cyntaf i'r gwely."

Roedd sŵn chwe phâr o draed ar y llawr pren uwchben y gegin yn ddychrynlyd.

"Brensiach! Be' sy'n bod? Ydi Wddyn y Cawr wedi deffro ac wrthi'n creu un o'i stormydd i ddial ar y diawled yna o Lerpwl?" holodd Wil.

Yna edrychodd i fyw llygaid Twm gan ddweud:

"O ddifri rŵan, fedrwn ni ddim gadael i hyn ddigwydd. Dwi yn mynd i sôn wrth bawb yn y Crossguns cyn y Nadolig yma i weld os oes yna barodrwydd gan rai i godi twrw,"

Pan alwodd Ned i wahodd Twm i'r Crossguns edrychodd Ann i fyny gan wgu ar Ned. "Oes wir raid i chi fynd i lymeitiam heno? Mae gen i gant a mil o bethau i wneud."

"Fyddwn i ddim yn hir, dwi'n addo. Dim ond peint bach cyn y Nadolig. Mi wnaiff y plant yma dynnu eu pwysau, dwi'n siŵr. Jo, Bob, Twm ac Olwen, rhowch help llaw i'ch mam. Bydd Ned a fi yn ôl ymhen llai nag awr," addawodd Twm gan roi clep ar y drws.

Wrth iddynt gerdded tuag at y Crossguns, meddai Ned:

"Dim lleud heno ac mae yna leithder yn codi o'r gors yna."

"Dwi'n teimlo rhyw oerni rhyfedd wedi dod dros y dyffryn. Teimlad o dristwch llwm ers i'r sibrydion ddechrau lledu," atebodd Twm gan rwymo'i fyfflar yn dynnach am ei wddw a chodi coler ei gôt.

Roedd golau ffenestri bach y Crossguns yn taro llwybr gwyn ar draws y ffordd ac roedd sŵn dadlau'r yfwyr yn mynd yn gryfach wrth iddynt nesau.

"Mae yna lond tŷ yna heno. Digon o ddadlau hefyd," meddai Ned.

Agorodd Twm ddrws y dafarn ac i mewn â nhw. Roedd y lle yn orlawn o ddynton yn dadlau a chwerthin yng nghanol mwg baco o’u catiau clai, a’r mwg o’r tân mawn a oedd yn budr losgi. Fel yr oeddynt yn gwthio at y bâr i brynu bob un ei beint, dyma lais cyfarwydd yn gweiddi’n uchel:

“Ga’ i eich sylw chi am funud. Be’ dan ni am ei wneud yn wyneb y bygythiad ofnadwy sy’n dod ar ein gwarthe? Boddi’n dyffryn a’n pentre annwyl gan y Saeson yma o Lerpwl. Sut dan ni yn mynd i ddweud na?”

Llais yr hen Wil oedd i’w glywed yn uwch na neb. Aeth pawb yn dawel. Yn sydyn, roedd hi’n bosib clywed pin yn disgyn. Yna, dyma lais Ifan y crydd:

“Dwi efo Wil, rhaid i ni wneud rhywbeth i wrthwynebu hyn. Taflu nhw allan, y diawled. Codi gwarchae efo troliau a’u rhwystro nhw i wneud eu gwaith. Dewch, rhaid i ni sefyll fel un gŵr.”

Cafodd Ifan gymeradwyaeth gan nifer fawr o’r dynion. Ond fel yr oedd y gymeradwyaeth yn tawelu dyma Ben Tŷ’n Shetin yn gweiddi:

“Rŵan, rŵan, rhaid i ni beidio â bod yn fyrbwyll. Mae’r pethau Lerpwl yna’n addo gwelliannau. Mae’n nhw’n addo tai, ysgol, capel ac eglwys newydd, a hynny am ddim!”

“Am ddim! Paid â bod yn wirion fachgen. Bydd Lerpwl yn gwneud i ni dalu yn ddrud am y rhain i gyd. Dymchwel ein cartrefi, yr ysgol, ein capeli, yr eglwys, ein tafarndai, a gorlifo’r dyffryn hardd,” atebodd Ifan y crydd ar dop ei lais.

Eto, dyna gymeradwyaeth gan nifer o’r dynion gan ddyrnu’r byrddau. Ond ymysg y rhai ieuengaf codwyd lleisiau bod angen edrych i’r dyfodol, camu ymlaen, derbyn a mwynhau cynigion Corfforaeth Lerpwl.

Doedd Ifan y crydd ddim yn barod i ildio. Safodd ar un o’r byrddau a dadlau’n uchel:

“Pam yn y byd na fydden nhw’n defnyddio Llyn y Bala? Mae yna ddigonedd o ddŵr yno.”

“Clywch, clywch, dyna oedd y syniad gwreiddiol, medden nhw,” oedd ymateb Jo Tŷ Ucha.

“Gwell i ni ei hel hi am gartre, mae pethau’n dechrau poethi yma,” awgrymodd Twm gan edrych ar ei frawd.

Yna ychwanegodd gan edrych ar y cloc mawr yng nghornel bella’r dafarn:

“Bobl Annwyl! Mae’n ddeg munud i ddeg, bydd Ann o’i cho.”

Sleifiodd y ddau allan o sŵn y dadlau, ond wrth iddynt gyrraedd y drws galwodd un neu ddau ar eu holau gan hawlio eu bod yn gachgwn, heb fod yn barod i leisio barn.

Wrth gwrs, doedd hynny ddim yn wir. Roedd y ddau frawd yn sicr yn erbyn boddi'r dyffryn ac roeddynt yn sylweddoli'r effaith y byddai hynny yn gael ar eu cymdogaeth.

“Ble yn y byd ydach chi wedi bod?”

Roedd Ann yn flin ac yn flinedig. Roedd hi'n amharod iawn i wrando ar unryw eglurhad gan Twm na Ned. Wrth ddringo'r grisiau pren i'r ystafell wely fach gobeithiodd Twm y byddai gwell hwyliau arni fore Nadolig.

Fe aeth Nadolig 1879 heibio yn union fel pob Nadolig o'i flaen. Roedd yr ŵydd yn flasus iawn a phwddin Ann yn arbennig. Oren, afal, cnau a pheccyn bach o gyflewth gafodd y plant yn eu sannau, ac fe ddiflannodd y rheiny cyn diwedd y dydd. Fel arfer, roedd pawb yn gwisgo eu dillad dydd Sul ar ddydd Nadolig. Syniad Ann oedd hynny, oherwydd yn ei thyb hi roedd yn ofynnol i bawb fod ar ei orau ar benblwydd Iesu Grist.

“Mae dydd Sul a dydd Nadolig yn ddyddiau sanctaidd. Dyddiau i'r teulu, dyddiau i ddangos parch,” meddai.

Aeth Twm, Ned a'r bechgyn hynaf i'r gwasanaeth ym Methel erbyn naw o'r gloch y bore. Cafwyd cynulleidfa dda, y rhan fwyaf yn ddyddion a bechgyn. Roedd y gwragedd a'r genethod fel arfer yn paratoi cinio.

Wrth iddynt gerdded tua'r capel y bore Nadolig rhewllyd hwn, roedd cloch fach yr eglwys i'w chlywed yn canu dros y dyffryn.

“Fydd y gloch fach ddim i'w chlywed dros yr hen ddyffryn ma cyn bo hir os caiff pobl Lerpwl eu ffordd. Mae'n debyg y bydd yr hen Lan fel y bedd,” sibrydodd Ned wrth ei frawd.

Yn wir roedd yna ryw deimlad o ddigalondid dros y gynulleidfa ym Methel hefyd. Ond wedi'r gwasanaeth torrodd dadl boeth allan wrth lidiart y capel. Ifan y crydd oedd wrthi eto'n anghytuno'n llwyr â Ted, fferm Allt Forgan.

Y tro hwn methodd Ned â chadw allan o'r dadl. Brasgamodd at y llencyn nad oedd ond rhyw bymtheg oed a gofynnodd yn chwyrn:

“Wyt ti'n hapus i weld y pentref, y dyffryn, y capel yma a'n cartrefi yn diflannu o dan lyn mawr o ddŵr? Os felly, bradwr wyt ti.”

Casglodd tua dwsin o ddynion o amgylch y ddau. Roedd rhai yn cytuno â Ted ifanc Allt Forgan, tra bo raill ymysg y capelwyr yn cefnogi Ned. Aeth yn ffrae ymhlith y dynion a'r lleisiau'n codi'n uwch ac yn uwch.

Daeth y Gweinidog allan trwy ddrws y festri pan glywodd y dadlau ffyrnig ac apeliodd am dawelwch.

“Ble mae ysbryd heddychlon y Nadolig wedi mynd? Ewch gartre at eich teuluoedd da chi i fwynhau'r hyn sy wedi cael ei baratoi ar eich cyfer,” cynghorodd mewn llais awdurdodol.

*

“Tyrd efo mi i'r siop i helpu cario'r neges. Dwi'n ei ffendio hi'n anodd i gario basged lawn ar hyn o bryd.”

Trodd Ann at ei merch hynaf, Olwen, un bore Sadwrn oer ym mis Ionawr 1880. Roedd hi wedi bwrw eira yn ystod y nos, ac wrth edrych allan ar ddyffryn Efyrynwy roedd yn gweld lluwchfeydd ar y caeau cyfagos. Roeddynt wedi cael sawl noson o eira ers y Nadolig a chyn hynny nosweithiau o rew hefyd. I gyfeiriad Bwlch y Groes roedd yr awyr yn drwm. Lle garw am eira oedd Llanwddyn ac ynghanol gaeaf byddai sôn fod sawl

fferm wedi colli defaid o dan flanced o eira. Roedd hyd yn oed y gors yn rhewi. Yn ystod cyfnodau fel hyn roedd y dyffryn fel petai yng nghraffangau oer ysbryd dialgar.

Mentrodd y ddwy allan. Roedd Ann yn gwisgo het, sgarff ddu, menyg gwlan du a siôl amryliw dros ei hysgwyddau. Am ei thraed gwisgai sanau o wlan du trwchus a phâr o gloisiau cryfion. Roedd Olwen wedi gwisgo yn debyg iawn i'w mam, heblaw fod ganddi fonet am ei phen, sgarff a menyg o wlan coch, siôl dros ei hysgwyddau main ac am ei thraed sanau trwchus du a chloisiau cryf.

Un dda am wau oedd Ann a phob min nos yn y gaeaf byddai hi a'r merched yn brysur yn gwau sanau, sgarffiau a menyg neu myffatis i'r holl deulu.

“Mam, oes raid i ni ddysgu gwau sanau, mae'n andros o anodd,” meddai Jini fach mewn llais cwynfanllyd un min nos.

“Wel oes, dyma ti y ffordd i wneud hynny. Pedair o weill, yna, efo un weillen sbâr rwy'ti'n gwau mewn cylch er mwyn gwneud yn siwr nad oes sêm galed ag anghyfforddus yn yr hosan.”

“Bore da Ann Elis. Mae’n arbennig o aeafol heddiw. Be ga’i ei estyn i chi?”
holodd Gwen y siop.

Gofynnodd Ann am hanner pwys o de, pwys o siwgr gwyn a bloc o halen. Estynnodd Gwen am y neges ac fel roedd Ann yn llenwi ei basged, pwy a ddaeth i mewn i’r siop ond dwy o gymeriadau mwyaf cegog y pentref. Roedd y ddwy yn edrych yn ffyrnig ar ei gilydd ac yn amlwg yng nghanol dadl boeth. Sali Coed Duon oedd un: dynes ganol oed fochgoch lond ei chroen gyda gwallt cyrliog cochlyd yn dangos o dan ei bonet. Miriam Llechwedd oedd y llall. Roedd Sali yn uchel ei chloch ac wrth ddod i mewn i’r siop dyma hi’n troi at Miriam ac yn dechrau bwgwth pethau mawr.

“Dwi wedi dweud wrth bawb, a dwi’n dweud wrthyt ti yn dy wyneb, fydda’ i ddim yn symud o’r tŷ acw. Mi gawn nhw fy moddi i yn fy nhŷ. Dwi ddim am gael fy symud i unrhyw bentref newydd. Yma ges i fy ngeni. Yma dwi’n mynd i farw. Dwi’n barod am y diawled yna o Lerpwl. Ble mae Lerpwl, dwed?”

“Paid â bod mor wirion Sali. Bydd pawb yn manteisio o gael tai newydd, ysgol newydd i’r plant, eglwys, tafarn a chapel. Mae’r tai yn y pentref yma’n llaith ac yn afiach i fyw ynddyn nhw,” atebodd Miriam, yn amlwg wedi cynhyrfu.

Merch ifanc ddeniadol oedd Miriam. Roedd hi newydd briodi Wmffra ac yn disgwyl eu babi cyntaf. Trodd Sali arni fel teigres:

“Tafarn ddeudest ti? Mae gennym dri yma ond mi glywais i nad oedden nhw ddim am adeiladu tafarn newydd ond ‘hotel’ grand crand i’r byddigions gyda ‘tap room’ bach yn y cefn i ni y werin fynd I gael llymaid! Be mae dy Wmffra di yn ei feddwl o hynny, tybed? Mae o’n leicio ei beint, fel rydw i yn hoffi glasied o stowt bob dydd. Dim lleyn y llety i’n siort ni !”

Yna, yn ei thymer ddrwg, gwthiodd Miriam yn erbyn cownter y siop. Sgrechiodd honno dros y lle, ac wrth iddi faglu syrthiodd yn erbyn Olwen. Syrthiodd honno fel doli glwt ar lawr y siop.

Roedd hi erbyn hyn yn dal basgied siopa Ann ac ynddo roedd hanner pwys o de. Holltodd y pecyn te a chwalodd i bob man ar hyd llawr y siop.

“Allan, allan, ar unwaith.! Drychwch be’ dach chi wedi’i wneud, Sali. Peidiwch byth â dod yma eto,” bloeddiodd Gwen.

Erbyn hyn roedd Olwen yn eistedd ar lawr y siop yn beichio crïo. Roedd Ann wedi cynhyrfu cymaint nes iddi orfod eistedd ar yr unig gadair oedd ar gael yn y siop

a bu'n rhaid i Gwen ruthro i'r gegin gefn i nôl cwpanaid o ddŵr iddi a chlwytyn gwlyb oherwydd fod talcen Olwen yn pistyllio gwaedu.

“Dyna ti, fy ngeneth i. Mi fyddi di a Mam yn iawn. Hen dacle drwg ydi'r ddwy yna, yn enwedig y Sali yna. Hen geg fawr ydi hi,” cysurodd Gwen.

Teimlodd Ann ei bod ar fin llewygu a bu rhaid i Gwen ruthro yn ôl i'r gegin i chwilio am 'sal volate' i'w thawelu. Roedd popeth o chwith yn y siop pan ddaeth Elin Bwlch Sych i mewn.

“Bobl y Bala! Be' sy wedi digwydd?” gofynnodd gyda syndod wrth weld y llanast.

Adroddodd Gwen yr hanes iddi a melltithiwyd Sali gan y ddwy.

“Ann Elis, dach chi mewn sioc. Mi wna i eich hebrwng adre,” meddai Elin yn garedig.

Cafodd Olwen becyn arall o de i roi yn ei basged gyda'r siwgr a'r blocyn halen. I ffwrdd â'r tair fraich yn fraich yn araf iawn i gyfeiriad Fishing Street.

“Fe all y sioc fod yn ddigon i chi gychwyn ar y geni, Ann Elis,” mentrodd Elin wrth iddynt fynd dow-dow drwy'r eira.

Roedd Twm yn gynddeiriog ac yn barod i siarad yn blaen efo'r Sali yna.

“Na, na, hen un am dynnu helynt ydi hi. Gwneud pethau'n waeth wnei di. Paid â mentro mynd yn agos ati,” siarsiodd Ann ef.

Wrth iddi orffwys yn y gadair siglo o flaen y tân y prynhawn Sadwrn hwnnw, dyma Ann yn troi at Twm ac yn dweud:

“Blwyddyn Newydd Dda yn wir! Dynion yn dadlau yn y dafarn a thu allan i'r Capel cyn y Nadolig. Merched yn ffraeo ac ymladd yn y siop ar droad y flwyddyn. Wn i ddim be' sy'n digwydd yn y lle yma. Sut flwyddyn newydd fydd hi, tybed?”

Pennod 7

Eisteddodd Mr Hamilton yn ei swyddfa ym mhencadlys Cyngor Dinas Lerpwl. Fel peiriannydd Pwyllgor Dŵr y ddinas, roedd o wedi bod wrthi'n ceisio datrys y broblem o gael cyflenwad ychwanegol o ddŵr am fod poblogaeth y ddinas yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Roedd hynny wedi digwydd oherwydd datblygiad diwydiant a hefyd brysurdeb cynyddol y porthladd. Roedd Mr Hamilton o'r farn nad oedd neb yn barod i

wrando ar ei argymhellion, heb sôn am eu gweithredu, ac roedd dod o hyd i gyflenwad ychwanegol erbyn hyn yn wirioneddol angenrheidiol.

Roedd hi bron yn ddeuddeng mlynedd ers iddo gymeradwyo Llyn y Bala fel ffynhonnell, ond dadlau yn erbyn a wnaeth y mwyafrif o'r Pwyllgor Dŵr. Pam oedd rhaid mynd i sir Feirionnydd i chwilio am ddŵr? Roedd yna fwy na digon yn ardal y Llynnoedd yng ngogledd Lloegr. Roedd y maer yn ffafrio cynllun Haweswater ac roedd sôn hefyd am gynllun Bleasdale a Wyredale a fyddai'n cael ei leoli rhwng Preston a Lancaster ac o fudd i Lerpwl a Manceinion fel ei gilydd.

“Are you going to the meeting, Mr Hamilton?”

Mary Jones, yr ysgrifenyddes, oedd yno. Roedd Mary yn ferch ifanc ddel iawn ac fel un o Gymry'r ddinas roedd hi'n gallu siarad Cymraeg. Roedd ganddi ddidiordeb mawr yn y syniad o fynd i Feirionnydd er sicrhau cyflenwad o ddŵr i'r ddinas.

“Are you still recommending Bala Lake as a source? My mother's family is from Bala. I don't know if the locals would welcome anyone working near the lake. Would this mean a lot of drilling and digging? It's such a beautiful area,” meddai Mary'n bryderus.

“Well Mary, I still believe that would be the best plan,” atebodd Hamilton, gan godi a cherdded tuag at ddrws ei swyddfa. Roedd aelodau'r Pwyllgor Dŵr i gyd yn bresennol o amgylch y bwrdd mawr derw, pob un ohonynt a golwg ddigon sarrug ar ei wyneb.

“Gentlemen, you all know that I recommended Bala Lake as a source for our new water scheme back in 1866 and that remains my opinion,” meddai Mr Hamilton.

Fel o'r blaen, dyma'r aelodau yn dechrau dadlau ymysg ei gilydd. Curodd y maer y bwrdd a gofynnodd am dawelwch. Yna dywedodd:

“Now, am I right in saying that in 1866, the engineer recommended Bala Lake as a possible source, but many were against this recommendation.”

Rhodddwyd syniadau eraill o flaen y pwyllgor, megis cynllun Bleasedale a Wyredale, yn ogystal â chynllun Haweswater ac Efyrynwy. Roedd sawl un yn anhapus, ac wedi hir drafod penderfynwyd y dylid ystyried cynllun Haweswater ac Efyrynwy yn unig.

Er ei fod yn dal i gefnogi'r syniad o ddefnyddio Llyn y Bala, roedd Hamilton yn ystyried y byddai cynllun Efyrynwy yn bosibl. Ym mis Tachwedd 1877, cyflwynodd adroddiad arall i'r Cyngor ar gynllun Efyrynwy. Roedd o'n teimlo ei bod yn hen bryd bellach i'r pwyllgor ddod i benderfyniad, ond anghytundeb a gafwyd eto gyda rhai yn dadlau y byddai'r dŵr o ddyffryn Efyrynwy yn iachus, ac eraill o'r farn y byddai'r dŵr yn fawnog ac hwyrach yn wenwynig. Roedd Hamilton yn colli amynedd a gwnaeth ei orau i'w darbwyllo ei bod yn unfed awr ar ddeg arnynt. Cododd un o'r enw William Baines ar ei draed gan weiddi'n uchel a dyrnu'r bwrdd mawr derw:

“This is rubbish, we can't go to Wales for our water, it's too far and I'm sure too costly. How much will it cost to build this dam and pipe the water all the way to Liverpool?”

Chwiliodd Hamilton yn wyllt ymysg ei bapurau. O'r diwedd, daeth o hyd i'r wybodaeth. Safodd ar ei draed, cliriodd ei wddw a chyda golwg letchwith ar ei wyneb a chan chwifio y papur yn ei law dde, dyma adrodd yr wybodaeth angenrheidiol am hyd a lled y llyn, maint yr argae a chostau'r cynllun.

“Gentlemen, the original proposal is to build a 75 foot high earthen dam. The lake, when the whole valley is flooded, will contain about 10,000 million gallons of water. There will be an eleven mile road built around the lake, and of course, we will have to re-house the inhabitants of the present village. As far as we can estimate, the approximate cost is £1,559.996.”

Aeth pawb yn fud; doedd ganddyn nhw ddim syniad o'r gost. Roedd sôn am filiwn a hanner o bunnoedd wedi dychryn y pwyllgor ac yn ymddangos yn frawychus o uchel.

Yna, cododd un o'r enw Jim Parry ar ei draed. Doedd dim angen holi o ble roedd o'n hanu, oherwydd ei acen Gymraeg gref:

“Gentlemen, gentlemen, has anyone thought about the impact this will have on the locals? There are nearly four hundred people living in the valley, housed in ten farms and thirty seven dwelling houses. Futhermore, I have heard that they are

organising a petition, and that well over 300 are willing to add their names to it. I have also learnt that some landowners object to the scheme, as it could affect the flow of the Vyrnwy and Severn rivers.”

O glywed hyn, dyma chwerthin mawr a churo byrddau yn torri allan drwy'r siambr gyda rhai yn gweiddi'n uchel:

“Sit down Taffy, we don't need to listen to them!”

Wedi'r tawelwch, dyma rai o'r pwyllgor yn atgyfodi'r syniad o fynd i Ardal y Llynnoedd. Fyddai hi'n rhatach defnyddio dŵr Ullswater neu Windermere. Ond yn ôl y peiriannydd, roedd yna lawer o garthffosiaeth yn llifo i Windermere ac fe fyddai'n costio ffortiwn i buro dŵr y llyn.

Penderfynwyd mai cyfarfod eto yr wythnos ganlynol fyddai orau, am nad oedd neb yn barod i wneud penderfyniad yn y fan ar lle. Fodd bynnag, wythnos yn ddiweddarach doedd y Pwyllgor Dŵr fawr nes i'r lan. Pawb yn ofni cymryd cam ymlaen. Oherwydd yr oedi, cododd Hamilton ar ei draed, ac meddai:

“Gentlemen, may I suggest that representatives of this committee visit the Vyrnwy valley during the next few weeks. This is an urgent matter and decisions have to be taken. I have been there, and am certain that a visit to examine the feasibility of the project would help things along considerably.”

Cytunwyd ar hyn, a dewiswyd nifer o'r pwyllgor, ynghyd â'r maer a Hamilton ei hun, i deithio i ddyffryn Efyrnwy yr wythnos dilynol.

Teithiwyd ar y trê'n i Lanfyllin ac fe dreuliwyd dwy noson yn The Old New Inn, Llanfyllin.

“Gentlemen, as we have travelled so far, I think we should enjoy ourselves. I've ordered six bottles of champagne for us to consume before dinner tonight, and six for tomorrow night,” cyhoeddodd y maer, wedi iddynt ymgynnull yn y bar am hanner awr wedi saith y noson honno.

Bu gwledda ac yfed mawr tan hanner nos, ac erbyn hynny roedd sawl aelod o'r Pwyllgor Dŵr a'i ben yn troi a'i fol yn llawn o gig oen a tharten afal orau'r wlad.

“By Jove, they know how to feed visitors in this part of the country. O dear, my head is spinning,” meddai un o'r cynghorwyr parchus wrth ymbalfalu am y grisiau i fynd tua'r gwely.

Ond doedd gan Hamilton fawr o amynedd gyda gweddill y criw, ac ar ôl bwyta ei swper aeth yn syth am y gwely i ddarllen y papurau unwaith eto, er mwyn gwneud yn sicr fod y ffeithiau ar flaenau ei fysedd

Am naw y bore wedyn dyma gychwyn i ddyffryn Efyrynwy. Roedd hi'n ddiwrnod glawog, gyda niwlen ysgafn wedi ymledu dros y tir. Erbyn cyrraedd y dyffryn tua hanner awr wedi deg, roedd yr aelodau oedd yn cael eu cario mewn tri thrap a merlen, yn oer a gwlyb.

“Do you usually get such terrible weather in this valley?” holodd Mr Brown a oedd yn eistedd agosaf at y gyrrwr yn yr ail drap.

Cymerodd yn ganiataol nad oedd y gyrrwr, Wil Trap, yn ei glywed oherwydd sŵn carnau'r ceffyl. Ceisiodd eto dynnu sgwrs efo Wil, ond i ddim pwrpas.

“Is he deaf or daft?” gofynnodd, gan droi at Parry, y Cymro.

“No, he doesn't understand you. He can't speak English,” eglurodd hwnnw, gan geisio cyfieithu i Wil beth oedd cwestiwn Brown.

“Can't speak English! I thought everybody spoke English,” atebodd hwnnw.

Ar draws ebychiadau Brown, dyma Wil yn troi at Parry ac yn gofyn:

“Be mae'r cythraul yna'n trio'i ddeud?”

Tywalltodd y glaw yn ddi-baid y diwrnod hwnnw wrth i'r criw gerdded trwy'r pentref at y gors ac at Blas Eunant. Doedd dim posib gweld Bwlch y Groes gan y niwl. Roedd dau neu dri o'r pentrefwyr wedi ymgasglu wrth yr efail, gan rythu ar y cynghorwyr.

“Good morning to all of you,” cyfarchodd Brown nhw, gyda gwên ffug ar ei wyneb mwstashlyd.

Mewn ymateb i'r cyfarchiad, trodd pob un o'r pentrefwyr eu cefnau yn fwriadol ar yr ymwelwyr.

“Well I never, what a rude lot! I thought that the people of Montgomeryshire were well known for their hospitality. I was only trying to be friendly,” grwgnachodd Brown.

Eglurodd Hamilton i'r cynghorwyr fod syrfeiwyr y Gorfforaeth wedi darganfod olion rhewlyn ar safle'r gors. Y syniad oedd gorchuddio'r pentref gan ddŵr wedi ei grynhoi o afonydd Conwy, a Machnant a oedd yn rhedeg i mewn i afon Efyrynwy. Yna, codi argae o bridd ar ben y dyffryn.

Yn sicr byddai'r pentrefwyr yn manteisio o gael tai, ysgol, capel, eglwys a gwesty hardd, yn lle'r pentref llaith roeddynt wedi byw ynddo ers blynyddoedd.

Erbyn cyrraedd pen draw y dyffryn, roedd gŵr bonheddig yr olwg yn eu disgwyl.

“We are very pleased to meet you, Lord Powys,” cyfarchodd y maer ef, gan estyn ei law tuag ato.

Cyflwynodd y maer Hamilton i’r Iarll, gan ddweud:

“This is the person who knows all about the plan.”

Cafodd Hamilton hi’n anodd ysgwyd llaw gyda’r Iarll, oherwydd ei fod ef ei hun yn hanu o gefndir gwledig yng ngogledd swydd Efrog, lle roedd y meistr tir yn gor-lywodraethu. Fodd bynnag, dan yr amgylchiadau ceisiodd ei berswadio ei hun mai gwas cyflogedig Corfforaeth Lerpwl oedd o, ac roedd yn ofynnol iddo wneud ei waith.

“We are certain that the Vyrnwy project will be an ideal source of water for Liverpool,” meddai’r maer, a gwên ffals ar ei wyneb.

“Yes, I’m certain everyone will benefit from this proposed scheme: both you in Liverpool and the villagers. The valley is a no-good place and the village is damp. The houses and all the buildings are old, and many in a ruined state,” atebodd yr Iarll.

Ni ddywedodd mai ef ei hun fyddai’n elwa fwyaf o’r cynllun.

Y noson honno yn yr Old New Inn bu dathlu mawr. Roedd pob un o hynrychiolwyr y Pwyllgor Dŵr yn cytuno na fyddai colled i neb o greu llyn mawr yn nyffryn Efyrynwy, ond y byddai, yn eu barn hwy, o fantais enfawr i bawb.

“The water will be pure and safe to drink. I shall be recommending that we go ahead with the project. I wasn’t sure at first, but this visit has clarified the situation for me,” cyhoeddodd y maer.

“Let’s have some more champagne and drink to the new venture,” awgrymodd y Cynghorydd Baines a oedd bob amser yn barod am unrhyw gyfle i lymeitiant.

Ni sylwodd neb ar Hamilton yn sleifio allan o’r ystafell heb godi gwyrdr. Roedd ei feddwl yn fwrlwm o amheuan, ac ni allai ddathlu gyda phawb arall.

Fodd bynnag, aeth y gweddill o’r criw yn ôl i Lerpwl yn argyhoeddedig eu bod wedi gwneud y penderfyniad iawn, ac nad oedd dim yn mynd i rwystro’r ddinas fawr rhag gwireddu ei chynlluniau. Doedd dim angen ystyried pentrefwyr Llanwddyn. Dŵr i ddinasyddion Lerpwl oedd yn bwysig.

*

Roedd hi’n ddiwedd Ionawr 1878, ac erbyn hynny roedd yr eira’n dal yn drwchus ymhobman yn nyffryn Efyrynwy. Roedd pentrefwyr Llanwddyn wedi cynhyrfu’n lân

oherwydd y sôn a'r siarad am foddi'r dyffryn. Roedd pethau'n mynd o ddrwg i waeth oherwydd fod rhai wedi gweld y criw Saeson o Lerpwl yn sbecian o gwmpas y pentref a'r dyffryn.

“Roeddwn i wrth yr efail ddiwedd Hydref pan glywais i'r iaith ddieithr yna,” meddai Bob y Dafarn. “Rhyw chwech neu saith ohonom ni'n cael sgwrs ddifyr, a dyma ni'n troi, yn methu deall pwy oedd yno. Mi fuaswn ni'n dweud bod yna o leiaf ddwsin ohonyn nhw yn prowla a sbecian o gwmpas y lle. Roedd yna un yn uchel iawn ei gloch, a dyma fo a'r mwstach mawr yn deud rhywbeth yn yr iaith fain. Roedd ryw hen olwg slei arno.”

“Troi cefnau arnyn nhw oedd cyngor Zeb i ni. Dyna'n union be wnaethom ni, bob un wan Jac,” ategodd Ifan Tŷ Ucha gan chwerthin. “Ddown nhw byth ar gyfyl y lle eto gewch chi weld. Dwi'n credu eu bod nhw wedi cael y neges.”

Chwerthin a wnaeth pawb wrth yfed eu peint yn y Powys Arms y noson honno gan feddwl eu bod wedi rhoi tro yng nghynffonnau'r Saeson.

“Mae hi'n dywydd garw. Mi ges i helynt mawr ddoe wrth geisio dod o hyd i'r defaid o dan yr holl eira. Dwi'n credu fy mod wedi colli tair o famogiaid. Colled fawr,” meddai Zebedeus Jones.

Prynhawn Llun oedd hi a doedd hi ddim yn dywydd mynd allan i weithio. Felly, roedd y criw arferol yn y Powys Arms yn gynnwys yn y prynhawn yn sgwrsio, cyn ceisio ymladd eu ffordd adref drwy'r eira.

“Oes yna rywun wedi gweld Twm ni o gwbl?” holodd Ned Elis.

Edrychodd pawb yn syn, doedd neb wedi ei weld.

“Mi welais i Ann yn cerdded draw at y siop ryw hanner awr yn ôl ac roedd hi yn holi amdano,” atebodd Ifan Llwyd.

Roedd Ned yn dechrau mynd yn anesmwyth. Roedd hi bron yn dri o'r gloch ac yn dechrau tywyllu. Camodd allan i storm o eira. Cododd goler ei gôt, a rhwymodd ei sgarff yn dynnach am ei wddw. Doedd dim rheswm i neb fod allan yn y fath dywydd.

Cyrhaeddodd y tŷ yn Fishing Street a sylwodd wrth fynd at garreg y drws nad oedd yna olion traed diweddar arni. Doedd neb felly wedi cyrraedd adref yn ystod y chwarter awr ddiwetha. Roedd yr eira yn chwipio'n lluwchfeydd dan wynt y dwyrain.

Cododd y glicied heb guro, ac i mewn â fo. Roedd Ann yn eistedd wrth y tân yn crïo, ac Olwen a Jo yn gwneud eu gorau i'w chysuro.

“Dewyrth Ned, dan ni’n meddwl fod Dad ar goll,” meddai Jo yn bryderus.
 “Mae o wedi mynd i Blas Eunant i drwsio wal un o’r corlannau a dydi o ddim wedi dod yn ôl, ac mae o wedi mynd ers y bore!”

“Pa gorlan?” gofynnodd Ned.

“Yr un wrth y cae agosaf at y plas,” atebodd Ann trwy ei dagrau.

“Peidiwch â phoeni, mi wna’ i ofyn i griw o ddynion ddod efo fi i chwilio amdano, ond rwy’n sicr y bydd o wedi mynd i gysgodi yn rhywle,” meddai Ned yn fwy ansicr nag oedd o’n ymddangos.

Aeth yn ôl i’r dafarn, a chafwyd chwech neu saith o ddynion yn barod i helpu yn ddiymdroi. Roedd pob un â’i lantern, sach am ei ysgwydd, het galed am ei ben, clocsiau am ei draed ac roedd ambell un yn cario rhaw hefyd.

Roedd hi’n anodd iawn cerdded yn y storm. Syrthiodd Ifan i fyny at ei ganol i luwchfa ddofn. Wrth gwrs, roedd y lluwchfeydd yn waeth wrth fôn y clawdd. Rhannodd y criw, rhai yn mynd i un cyfeiriad a’u lanternau yn chwifio yn y gwynt.

“Twm, Twm, ble rwyt ti?” gwaeddodd Ned.

“Dacw’r gorlan. Ym mhen pella’r cae. Wyt ti’n clywed y defaid yn anadlu’n drwm o dan yr eira?” holodd Wil, un o gyfeillion Ned.

I mewn â nhw drwy’r agoriad. Ceisiodd rhai o’r praidd symud. Roeddynt o dan drwch o eira a’u llygaid yn disgleirio yng ngolau’r lanternau.

“Dyna fo, dyna lle bu i’r wal ddymchwel dan bwysau’r eira. Ond drycha, mae’r cerrig yn eu lle,” gwaeddodd Ned.

Fel yr oedd o’n dweud hyn, baglodd dros rhywbeth called, a syrthiodd i ganol yr eira.

“Na! Na!” gwaeddodd Ned.

Yno, o dan yr eira trwchus, roedd corff Twm, ac ar ei frest roedd un o gerrig tryma’r wal.

“O’r Arglwydd Mawr, mae hon wedi syrthio ar ei frest o. Dydi o ddim wedi gallu codi, ac mae o wedi rhewi i farwolaeth,” crïodd.

Penliniodd wrth ochr corff ei frawd, a cheisio glanhau’r eira o’i ffroenau a’i geg. Cododd Wil ac yntau’r maen oddi ar frest Twm, a gwelsant staen mawr coch wedi ymledu trwy ei ddillad. Roedd ei gorff yn stiff a’i wallt wedi rhewi.

Wrth glywed y dolefain, rhedodd y dynion eraill orau y gallent drwy’r eira. Gwelsant olygfa na fyddai yr un ohonynt yn ei hanghofio. Roedd Ned Elis ar ei liniau yn yr eira yn dal corff marw ei frawd, ac yn beichio crio.

Rhedodd dau ohonynt i'r Plas a daethant yn ôl â hen ddrws mawr llydan. Yn araf a gofalus, dyma bump o'r ffrindiau yn codi corff Twm ar y drws ac yn ei orchuddio â dwy sach fawr.

Cerddodd Ned a Wil tu ôl i'r dynion yn araf, bob un yn ymladd yn erbyn yr elfennau.

*

Roedd y newydd wedi cyrraedd y pentref ac yn barod roedd amryw yn sefyll yn y storm a'u pennau i lawr mewn parch tuag at Twm. Roedd Ned mewn cyflwr drylliog. Pryderai am Ann a'r plant.

“Ewch â'r corff i fy nhŷ i, mae yno ddigon o le rŵan, mae mam druan wedi'n gadael ni,” meddai.

Agorodd y drws a rhoddwyd Twm i orwedd ar y bwrdd mawr yn y parlwr. Roedd y drws ar agor yng nghartref Ann a golau'r gannwyll yn taflu llwybr gwyn ar yr eira. Wrth i Ned nesu at y tŷ, clywodd Ann a'r plantos bach yn beichio crïo. Aeth i mewn i'r gegin fach, a dyna lle'r oedden nhw.

“Wyt ti wedi clywed y gwaethaf?” meddai Ned.

Ddywedodd hi ddim ond ei thafu ei hun i'w freichiau. Rhedodd y plant ato, ac yno y buont yn glynu'n hir wrth ei gilydd.

*

Er bod Ned wedi hen arfer â gwneud eirch, crïo'n hidl a wnaeth o wrth weithio ar arch ei frawd. Gwnaeth yn sicr ei fod yn dewis y derw gorau, derw a oedd wedi tyfu yn Llanwddyn. Daeth Nanw Rhiwargor i ddiwarthu'r corff. Am ryw reswm, hi yn unig oedd bob amser yn ymgymryd â'r gwaith hwnnw yn y pentref, ac roedd sôn amdani fel un ofalus a sensitif.

Y noson cyn yr angladd, neu'r 'gligeth' fel roedd pobl yr ardal yn ei ddweud, cynhaliwyd gŵylnos gyda'r Parch D. R. Jones, gweinidog Capel Bethel, yn cymryd yr awenau. Goleuwyd dwy gannwyll frwyn wrth ymyl yr arch ac roedd y goleuni yn taflu cysgodion ar gorff Twm. Roedd yn ymddangos yn hollol dawl, a'i ddwylo wedi plethu a'i lygaid ar gau.

Safodd Ann wrth droed yr arch a breichiau Ned wedi eu lapio amdani. Roedd ei llygaid mawr hardd yn syllu ar y corff. Allai hi ddim crïo rhagor, roedd y crïo wedi para am dri diwrnod a thair noson. Ochneidio'r oedd hi bellach, ac roedd golwg arni fel pe bai wedi ei llethu'n llwyr. Eisteddai'r chwe plentyn ar y grisiau gan edrych ar yr olygfa drwy'r rheiliau. Roedd pob un ohonynt yn wyn fel y galchen. Roedd y crïo wedi peidio am ychydig, a'u cegau'n sych.

“Ble mae Dad yn mynd pan fyddwn ni wedi ei roi yn y twll mawr?” holodd Jini.

“At Iesu Grist yn y nefoedd,” atebodd y gweinidog.

“Ond pam nad ydi o ddim yn dweud tata wrthym ni, a pham mae o mor llonydd?” holodd Meri, ei gefeilles.

Anodd iawn oedd ateb eu cwestiynau, ond roedd rhaid ceisio gwneud synnwyr o'r sefyllfa.

“Cyn mynd at Iesu Grist, mae'n rhaid iddo fo gysgu. Cysgu mae o rwan, a phan fydd o'n deffro mi fydd o efo Iesu Grist yn y nefoedd,” eglurodd Ned yn chwys oer gan emosiwn.

Daeth diwrnod yr angladd, ac roedd holl bentrefwyr Llanwddyn yn bresennol yng nghapel Bethel y Sadwrn oer hwnnw. Roedd rhai o'r ffermwyr wedi cerdded ddwy neu dair milltir drwy'r eira. Fel rheol, byddent wedi cyrraedd mewn trap a merlen. Ond doedd dim posib mynd mewn trap oherwydd yr eira mawr.

“Be wnawn ni, mentro cerdded i gligeth Twm Elis? Mae hi'n dywydd mawr,” meddai Wmffra Rhiwargor.

“Ie, dyna'r ffordd orau, dwi ddim yn credu y gallai Dol y ferlen fynd mwy na llathen o'r tŷ oherwydd y lluwchfeydd ymhobman,” atebodd Nanw ei wraig.

Roedd y canu yn y capel yn ardderchog, ac wrth lan y bedd fe ganwyd ‘Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd’, un o emynau Ann o Ddolwar Fach. Bu Twm yn hoff iawn o emynau Ann ac roedd o bob amser yn brolio ei fod yn perthyn iddi o bell ar ochr ei dad.

Aeth y dyrfa o'r fynwent i festri fach Bethel am gwpaned o de, bara brith a sgonsen, wedi eu paratoi gan ferched y capel. Roedd Ann yn hynod o ddiolchgar iddynt am fynd i'r fath drafferth. Fel canlyniad, roedd pawb yn awyddus i gydymdeimlo â hi ac i ysgwyd ei llaw, ond wedi rhyw awr o sgwrsio efo hwn a'r llall, dechreuodd Ann deimlo'n benysgafn.

“Rhaid imi ei throi hi am adref, dwi’n teimlo braidd yn sigledig,” sibrydodd wrth Ned.

Hebryngwyd hi adref trwy’r eira gan Sera Jane ac fe arhosodd Ned a’r plant yn y festri. Cerdded yn araf iawn a wnaeth y ddwy drwy’r eira, ond fel roedd Ann yn camu dros riniog ei chartref yn Fishing Street dyma hi’n plygu ymlaen ac yn gweiddi:

“O Sera, Sera, be alla’ i wneud, mae’r dŵr wedi torri. Mae o’n rhy fuan. Mae gen i bump wythnos i fynd eto!”

Ymbalfalodd Ann i fyny’r grisiau gyda’r poenau esgor yn gwaethygu. Rhedodd Sera Jane nerth ei thraed drwy’r eira yn ôl i’r festri. Edrychodd yn wyllt o’i chwmpas. Roedd hi’n anodd gweld yn eglur iawn oherwydd roedd hi’n dechrau tywyllu. Ble yn y byd oedd Ned?

O’r diwedd, gwelodd o’n sgwrsio yng nghornel bella’r ystafell efo criw o’I ffrindiau. Amneidiodd arno gan redeg i’w gyfarfod.

“Brysia Ned, mae yna helynt yn y tŷ. Tyrd ar frys, mae’r babi ar y ffordd.”

Aeth Ned yn wyn. Rhedodd Olwen ato, gan afael yn ei law.

“Be sy, Dewyrth Ned, ydi Mam yn iawn?” holodd gyda golwg bryderus ar ei hwyneb ifanc.

“Ydi, mi fydd hi’n iawn, ond rhaid i ni fynd yn ôl ati reit sydyn, mae’r babi bach ar ei ffordd ac mae’n ofynnol i bawb helpu. Gofyn i Jo ddod adref efo ni. Mi wna’ i drefnu bod y pedwar arall yn mynd i aros efo Dodo Lisi, chwaer dy fam,” atebodd Sera Jane.

“Rŵan Jo, rhaid iti fynd draw i nôl Hen Wraig Eifionydd. Hi sy’n helpu bob tro pan mae babi yn cael ei eni. Mae hi’n gwybod yn union beth i’w wneud. Dwed wrthi fod y babi ar y ffordd a bod Mam angen help ar unwaith,” meddai Ned yn awdurdodol.

Rhedodd Jo ar hyd y llwybr a oedd yn arwain at Eifionydd, gan syrthio ambell waith i fyny at ei ysgwyddau mewn lluwch o eira. Curodd yn drwm ar ddrws Eifionydd. Agorwyd y drws gan yr hen wraig a oedd yn dal i wisgo’i chôt a’i het ddu wedi iddi fod yn yr angladd.

“N’eno’r tad, be sy arnat ti, fachgen? Dydy’r byd ddim ar ben gobeithio,” meddai gan edrych yn flin ar Jo.

“Plis, plis, brysiwch i’n tŷ ni. Mae Mam yn sâl. Mae’r babi ar ei ffordd. Mae o’n dod rhy fuan,” meddai Jo wedi colli ei wynt yn lân.

“Wyt ti’n siŵr? Roeddwn ni’n credu fod ganddi bum wythnos arall i fynd,” atebodd yr hen wraig.

“Ydw, mae Dewyrth Ned a Sera Jane wedi fy anfon i yma. Peidiwch ag oedi,” oedd ateb diamynedd Jo gan afael yn llaw yr hen wraig.

“Ara deg, yr hen gog. Rhaid i mi hel fy mhethau.”

Aeth i mewn i’w chegin a dychwelodd gyda’i basged bach yn llawn o eli cyfriniol a ffisig na wyddai neb beth oedd ynddo, ac i ffwrdd â’r ddau i gyfeiriad Fishing Street.

“Tyrd yma, wnei di afael yn fy llaw I, neu mi fyddai ar fy hyd ar lawr? Mae’n ofnadwy o lithrig,” meddai Lusa Lewis.

Wedi cyrraedd y tŷ, i mewn â nhw yn ddiymdroi. Aeth Lusa Lewis yn syth am y grisiau, heibio i Ned a oedd yn cerdded i fyny ac i lawr y landin rhwng y ddwy ystafell wely fel dyn o’i go, ac yn amlwg ddim yn gwybod ble i droi. Roedd Sera Jane, ar y llaw arall, yn ceisio tawelu Ann yn yr ystafell wely, ond i ddim pwrpas.

“Ned Elis, brawd yng nghyfraith wyt ti. Dwi’n gwybod mai nid ti ydi tad y peth bach yma sy’n ceisio ar yr un diwrnod ag y mae ei dad wedi mynd i’r byd arall o flaen ei amser, ond oherwydd dy fod ti yma, waeth i mi dy roi di ar waith,” meddai Lusa yn ddiamynedd. “Mae angen tywelion glân a digon o ddŵr poeth. Dos i’w nôl nhw y funud yma.”

Erbyn hyn, roedd Ann yn gweiddi dros y tŷ.

“Dwi isio gwthio. O be wna’ i? Fedra’ i ddim dal y boen yma fawr mwy. Dwi isio Twm. Ble rwyt ti, Twm?”

“Rŵan, rŵan, Ann paid â gwthio, dydi hi ddim yn amser eto. Anadl fawr. Mi ro’ i ychydig o eli dros dy fol, mi fydd yn siŵr o esmwythau’r boen,” cynghorodd Lusa, gan dynnu potel fach o olew ewcalyptws allan.

Taenodd yr olew’n dyner dros fol chwyddedig Ann, a honno’n dal i riddfan a gwingo nes bod y tŷ yn atseinio. Roedd Ned, Jo ac Olwen yn swatio wrth y tân fel llygod bach ac yn brathu eu hewinedd mewn ofn a phryder.

Aeth pump, chwech a saith awr heibio, ac fel roedd y gwewyr yn parhau roedd Ann yn gwanychu. Roedd ei gwallt hardd yn chwyslyd a blêr ar draws y gobennydd, a’i gallu i wthio yn gwanhau. Tuag unarddeg y noson honno teimlodd Ned nad oedd o’n gallu cadw i ffwrdd ddim mwy, a mentrodd i fyny’r grisiau cul i’r stafell wely. Fel gŵr di-briod, doedd o erioed yn ei fywyd wedi gweld y fath olygfa. Roedd Ann yn

edrych fel drychiolaeth ac yn amlwg yn gwano. Meddyliodd am funud ei bod ar fin marw.

“Rhaid iti wthio rŵan, un ymdrech fawr. Mae pen y babi yn y golwg. Tyrd, anadl fawr. Allan â fo,” meddai Lusa Lewis yn gefnogol.

Fel yr oedd hi'n dweud y geiriau trodd Lusa a chafodd gip ar Ned yn sefyll wrth ddrws y stafell a gwaeddodd yn uchel:

“Dos o' ma, does gen ti ddim hawl i fod yma o gwbl. Nid dy wraig di ydi hi. Rhag dy gywilydd di'n sefyll yna, a dy geg ar agor.”

Llwyddodd Ann i wneud un ymdrech fawr arall a ganwyd y babi. Anwybyddodd Ned Lusa, a chamodd ar draws y stafell gan benlinio wrth ochr Ann. Cydiodd yn ei llaw a sychodd ei thalcen gyda'i gadach poced.

“Dyna ti, Ann fach, mae o drosodd rŵan. Mae'r babi wedi ei eni. Tyrd i mi gael sychu'r dagrau efo fy hanshar boced,” sibrydodd yn ei chlust.

Bu distawrwydd mawr drwy'r tŷ ac aeth sawl eiliad heibio cyn iddynt glywed crïo gwan y bychan.

“Bachgen bach sy gen ti Ann, ond mae o'n fychan ac eiddil iawn. Oes yna ddrôr hanner maint yma? Rhaid iddo fod mewn lle bach iddo gael teimlo'n ddiogel. Mi wna' i'n siŵr ei fod yn gorwedd ar glustog meddal, meddal.”

Roedd Lusa Lewis yn goblyn o dda pan oedd genedigaeth yn drafferthus, meddyliodd Sera Jane.

“Wyt ti isio gafael yn y babi? Mi fydd o angen y fron gennyt ti ymhen ychydig,” holodd Lusa.

Cafwyd ymateb pendant a diymdroi gan Ann:

“Na, na, dos â fo o fy ngolwg i. Fedra i ddim edrych arno fo. Mae o wedi achosi llawer o boen a phryder i mi ers pan wnes i feichiogi. Dwi wedi colli fy nghariad. Does dim dyfodol i'r babi yma,” meddai gan droi ei hwyneb tua'r wal a dechrau crïo.

Edrychodd Ned, Sera Jane a Lusa ar ei gilydd mewn braw.

“Mi wnaiff o farw os na chaiff o lefrith,” oedd yr unig beth a allai Sera Jane ei ddweud.

“Dydi hyn ddim yn normal siŵr,” oedd ateb Ned.

“O mi ddaw, gewch chi weld,” meddai Lusa yn rhyw hanner obeithiol.

Tynnodd Ned un o ddroriau bach y gist ddillad a oedd yn y llofft. Gwagiodd y cynnwys ar y gadair o dan y ffenest. Wedi iddynt roi clustog meddal a lliain gwyn

drosto, rhwymwyd y bychan yn dynn mewn sawl tywel cynnes a'i roi i orwedd yn y drôr. Ar ôl estyn a gwagio'r drôr dychwelodd Ned at erchwyn y gwely a gafaelodd Ann yn dynn, dynn yn ei law. Sylwodd Lusa Lewis ar hyn ac aeth rhai amheuon drwy ei meddwl. Edrychodd ar Sera Jane a oedd hefyd wedi sylwi, a rhoddodd Lusa winc fach slei iddi heb yn wybod i'r ddau arall. Yna trodd Lusa at Sera Jane ac awgrymodd gyda thristwch yn ei llais:

“Os na fydd hi'n barod i roi'r fron iddo fo cyn bo hir bydd rhaid iti fynd gynted ag y medri di efo Jo i chwilio am laeth y fuwch frech. Y peth bach! Mae gen i biti drosto fo. Mae o mor fach ac eiddil, a'i fam yn ei wrthod o. Druan ohono!” oedd ymateb Lusa.

Bu Lusa, gyda help Sera Jane, yn brysur yn glanhau Ann wedi'r geni. Ei hymolchi, cribo'i gwallt, rhoi dillad glân ar y gwely a choban lân amdani. Tra oedd hyn yn mynd ymlaen arhosodd Ned wrth ochr y gwely gan ddal i afael yn ei llaw.

“Pam wyt ti'n dal yma, Ned Elis ?” holodd Lusa'n bigog.

“Mae hi angen rhywun yn gefn iddi,” oedd ei ateb di-flewyn ar dafod.

*

Roedd hi'n argyfwng mawr yn y tŷ bach yn Fishing Street. Gwael iawn oedd Ann o hyd, ac yn troi ei hwyneb tua'r wal bob tro y byddai Sera Jane yn ceisio rhoi yr un bach yn ei breichiau er mwyn cael ei fwydo.

“Na, alla'i ddim i fwydo fo. Dwi ddim isio ei weld o. Dwi isio llonydd,” y byddai'n crefu'n barhaus.

Penderfynwyd bod rhaid bwydo'r bychan o'r botel ac roedd rhaid benthyc botel lân gan Elin y drws nesaf. Yn y gorffennol, roedd Ann wedi bwydo ei babis yn llwyddiannus iawn o'r fron, ond nid y tro hwn. Daeth Ned hefyd i gysgu gyda'r teulu er mwyn cadw llygad ar y plant. Bob nos, byddai'n ceisio cysgu ar y setl yng nghornel y gegin. Byddai'n huddo'r tân gyda mawn er mwyn iddo fudlosgi drwy'r nos a chadw'r ystafell yn gynnes. Yna byddai'n estyn dwy glustog gyfforddus i'w rhoi o dan ei ben, a dau gwilt trwchus patrymog. Ond nid setl oedd y lle mwyaf cyfforddus i dreulio noson.

Tasg Sera Jane oedd ceisio codi Ann o'r felan, bwydo'r babi a gofalu am swper maethlon i'r teulu. Gwanychu yr oedd y babi o ddydd i ddydd, ac roedd hyn yn peri gofid mawr i Sera Jane ac i Lusa Lewis.

“Rŵan, Ann, rhaid iti drïo gwasgu ychydig o laeth o dy fronnau neu mi fyddi mewn helynt mawr ac mi fydd na gasgl yn hel,” cynghorodd Lusa wrth roi eli comffri i daenu ar ei bronnau i geisio lliniaru’r tynerwch.

Llwyddodd Ann, o dan gyfarwyddyd Lusa, i wasgu peth llaeth o’i bronnau ar y trydydd diwrnod wedi’r geni poenus, ond dim hanner digon i fodloni’r bychan.

“Rhaid inni eu rhwymo nhw’n dynn, dyna’r unig ateb,” oedd cyngor Lusa.

“Petai hi ond yn bwydo’r babi yma fel y dylai hi mi fyddai popeth yn normal,” oedd sylw Sera Jane.

“Rhaid i ni beidio â’i ymolchi o, dim ond taenu olew yn dyner dros ei gorff bach, a hynny bob dydd,” cynghorodd Lusa .

Ac felly y bu. Tasg gyntaf Sera Jane oedd ymgeleddu’r bychan a dangos hefyd i Olwen sut i drin ei brawd bach.

“Dwi ofn gafael ynndo fo. Tua faint mae o’n bwysu?” holodd Olwen.

Pan oedd o’n bedwar diwrnod oed dyma benderfynu pwysu’r un bach gan ddefnyddio clorian y gegin. Roedd rhaid i un ohonynt afael ynndo wrth ei roi ar y glorian, ac roedd yn ofynnol cymryd hynny i ystyriaeth. Ond roedd Sera Jane yn credu mai tua tri phwys oedd ei bwysau. Fel roedd y dyddiau’n mynd ymlaen, roedd hi’n amlwg i bawb ei fod yn colli pwysau. Roedd o’n edrych fel hen ddyn bach, ei groen wedi crebachu a’i grïo’n mynd yn wannach bob dydd.

Penderfynwyd fod Ned i geisio perswadio Ann i roi’r fron i’r bychan. Fodd bynnag, ateb siarp a gafodd yntau hefyd.

“Dos â fo o fy ngolwg i. Fedra’ i ddim edrych arno. Fedra’ i mo’i garu fo,” atebodd yn chwyn.

Erbyn y chweched diwrnod roedd y bychan yn edrych mor wael nes i Sera Jane a Ned benderfynu galw ar Jones, y gweinidog, i’r tŷ i’w fedyddio.

“Be wyt ti isio ei alw fo?” holodd Ned gan obeithio cael rhyw ymateb gan Ann.

“Does dim ots gen i. Elis oedd enw fy nhad,” meddai’n ddi-hid.

Ac felly y bu. Bedyddiwyd seithfed plentyn Ann yn Elis. Roedd gweddill y teulu i gyd yn bresennol yn y parlwr bach ar gyfer y seremoni. Hynny yw, pawb ond ei fam. Roedd hi’n rhy wan i godi.

Gwanychu fu hanes Elis hefyd. Roedd bellach mor wan nes y penderfynwyd peidio â’i godi i freichiau’r gweinidog ar gyfer ei fedyddio, ond yn hytrach ei adael yn y drôr bach a gwneud arwydd y groes ar ei dalcen efo diferyn o ddŵr.

Dridiau'n ddiweddarach colodd Elis y dydd. Doedd neb yn sicr pryd yn union y bu farw, ond bore dydd Iau oedd hi pan sleifiodd Ned i fyny i'r llofft fach i gael gair efo Ann. Roedd hi'n cysgu'n drwm a thaflodd Ned olwg sydyn yng ngolau'r gannwyll frwyn ar y drôr bach wrth ochr y gwely. Penliniodd, cododd y gannwyll yn uwch i weld y bychan. Roedd ei lygaid ar gau. Roedd o ar wastad ei gefn. Rhoddodd Ned ei law yn dyner ar y corff bach henaidd yr olwg. Roedd o'n oer, andros o oer. Teimlodd i weld a oedd curiad calon. Na, roedd honno wedi peidio. Roedd yr olwg gystuddiol wedi diflannu o wyneb Elis bach.

Diolch am hynny, meddyliodd Ned.

Cododd, safodd yn syth, ond plygodd ei ben wrth wneud hynny. Sylwodd fod Ann wedi deffro.

“Mae o wedi mynd,” sibrydodd Ned.

“Mi roeddwn i'n amau,” atebodd hithau heb golli deigrin.

*

Roedd dagrau yn llygaid y plant a'r oedolion. Ned oedd yn edrych waethaf, ac fe dorrodd ei galon wrth weithio'r arch fach. Claddwyd Elis Elis yn yr un bedd â'i Dad, bythefnos yn union wedi angladd Twm. Roedd Bethel yn llawn i'r ymylon eto, gyda llawer yn y gynulleidfa o dan deimlad wrth iddynt ganu yr emyn 'Bugail Israel sydd ofalus'.

Arhosodd Sera Jane efo Ann yn hytrach na mynd i'r angladd.

Eisteddodd Ann i fyny'n syth yn ei chadair heb ddweud gair wrth neb na holi ble roedd Ned a'r plant wedi mynd rhwng dau a thri y prynhawn hwnnw. Pan ddychwelodd y teulu o'r angladd, rhedodd y plant i'r parlwr ati a'i chofleidio.

“Mam, mae Elis wedi mynd at Iesu Grist heddiw,” meddai Jini gan gofleidio ei mam a'i chusanu'n gynnes.

“Dwi'n gwybod, cariad. Mi fydd o'n saff yno efo Dad,” oedd ei hunig ymateb.

Y noson honno wedi i Sera Jane fynd adref, a phob un o'r plant wedi mynd i glwydo, aeth Ned i fyny i'r llofft fach i weld Ann.

Roedd hi'n eistedd i fyny yn y gwely a'i llygaid hardd yn edrych yn rhyfeddol o fawr. Eisteddodd Ned ar erchwyn y gwely ac estynnodd Ann ei llaw tuag ato ac meddai:

“Ned, dwi isio diolch iti am fod yma imi ac am aros i warchod y plant. Mi roeddwn i'n gwybod o'r dechrau fo rhywbeth o'i le ar Elis bach. Hen feichiogrwydd gwahanol i bob un arall ges i, ac roedd yr enedigaeth yn ofnadwy o boenus. Dwi ddim yn gwybod sut i fagu'r plant yma heb Twm, ond bydd raid imi wneud fy ngorau a thorchi fy llewys rŵan.”

Edrychodd Ned arni gan wenu'n dyner:

“Ann fach, mi fydda' i yma wrth law o hyd i dy helpu. Dyna fyddai Twm yn ei ddymuno. Mi gysga' i ar y setl bob nos nes y byddi o gwmpas dy bethau. Wedyn mi fydda' i'n mynd adref. Dim ond rhyw lathen neu ddwy ar draws y ffordd fydda' i Wedyn, ac fe elli alw arna'i unrhyw bryd.”

Gwenodd Ann am y tro cyntaf ers marwolaeth Twm ac Elis.

Pennod 8

Syllodd Meira'n hir i gyfeiriad yr hen Lanwddyn. Roedd yna oleuni rhyfedd i'w weld ar lyn Efyrrwy, bron na ellid dweud ei bod yn bosib gweld drwy'r dyfnderoedd i lawr i'r hen Lan.

Beth oedd wedi digwydd iddi hi? Oedd Twm, Ned ac Ann yn bobl go iawn? Oedden nhw wedi byw yn yr hen Lanwddyn? Oedd yna elfen, trwy Wil, o hilatgof? Doedd hynny ddim yn bosib, yn siŵr, a hithau heb unrhyw gysylltiad â'r ardal cyn iddi gyfarfod Wil. Ynteu a oedd ei gariad ef at y fro wedi treiddio i'w chyfansoddiad hi fel ei bod hithau, yn ei dychymyg, yn ail-fyw bywyd yn y pentref o dan y dŵr? Safodd ar ei thraed gan ymestyn yn ddioglyd. Roedd hi wedi bod yn eistedd yno'n hir a'i chorff wedi cyffio. Ysgwydodd laswellt oddi ar ei throwsus lliw hufen a cherddodd at y car. Roedd un peth yn bendant, er mwyn Wil a'i deulu annwyl, roedd hi am ddychwelyd i Lerpwl i chwilio o ddifrif i hanes boddi dyffryn Efyrrwy.

Dychwelodd i'r gwesty ac wedi cael cawod a newid i ddillad mwy ffurfiol, aeth i lawr i'r bar am ddiod o sudd oren, cyn mynd ymlaen i'r ystafell fwyta am ei phryd nos. Eisteddodd mewn cadair ddwyfraich ledr yn sipian ei diod ac yn astudio'r fwydlen.

“Oes yna rywun am ymuno â chi?” clywodd lais gwrywaidd dwfn yn ei chyfarch.

Edrychodd Meira i fyny. Gwelodd o'i blaen ŵr tua deugain oed a gwên ar ei wyneb. Sylwodd ar unwaith ei fod wedi gwisgo'n daclus ond yn anffurfiol. Trowsus brown golau, crys gwyn gyda streipiau lliw eirin coch, a siwmpwr yr un lliw wedi ei daflu dros ei ysgwydd. Roedd yna rywbeth eithaf deniadol o'i gwmpas. Llygaid glas treiddgar (fel oedd gan Wil, meddyliodd), a gwallt golau cyrliog. Roedd o tua chwe troedfedd o daldra a'i osgo'n gwneud iddo ymddangos yn hunan hyderus.

Oherwydd nad oedd Meira wedi ymateb i'w gwestiwn, gofynnodd eto:

“Esgusodwch fi, ond ydach chi'n fodlon i mi ymuno â chi?”

“Na, dwi ddim yn disgwyl neb arall. Steddwch,” atebodd Meira, heb ddangos ei bod wedi codi ei phen i edrych arno.

Bu tawelwch rhyngddynt am ryw funud neu ddau. Roedd Meira'n dal i astudio'r fwydlen a'r un oedd wedi ymuno â hi yn eistedd yn ôl yn hamddenol yn y gadair ddwyfraich gyferbyn yn sipian peint o gwrw.

“Dwi ddim wedi eich gweld chi yma o'r blaen.”

Cododd Meira ei phen. Pwy oedd hwn oedd yn trïo codi sgwrs efo hi, meddylodd.

“Dwi wedi bod yma sawl gwaith o’r blaen efo fy ngŵr. Roedd o’n dod o Lanwddyn ac wrth ei fodd yn treulio penwythnos yma yn hel atgofion,” atebodd Meira gyda chysgod o wên.

Yna aeth ymlaen i egluro fod Wil wedi ei ladd fel canlyniad i ddamwain car yn Lerpwl ac mai yno roedd hi’n byw ac yn gweithio.

“Dafydd ap Huw ydw i ac rydw i’n byw yng Nghaerdydd. Dwi’n ymchwilydd, yn gweithio i’r brifysgol ar brosiect sy’n edrych i mewn i hanes boddi dyffryn Efyrnwy gan ddinas Lerpwl rhyw gant ac ugain o flynyddoedd yn ôl. Os oedd eich gŵr wedi ei eni a’i fagu yn Llanwddyn, mae’n debyg eich bod yn gwybod rhywfaint o hanes y boddi,” atebodd Dafydd, gan estyn ei law i Meira.

“Meira Owen ydw i. Na, dwi ddim yn gwybod rhyw lawer o fanylion am fodd i’r dyffryn, ond mi ges i brofiad od iawn heddiw wrth eistedd yn ymyl y llyn,” synod Meira ati ei hun yn siarad mor agored gyda’r dieithryn hwn.” Dwi’n credu y gellid ei ddisgrifio fel profiad arallfydol. Hwyrach fy mod wedi breuddwydio, eto roeddwn i’n teimlo fy mod i’n effro. Falle mai fy nychymyg oedd yn chwarae triciau arna’ i. Mi ges i deimlad fy mod i yn yr hen Lan: wedi fy nghludo yno gan fy synfyfyrion, a hynny yn ystod y cyfnod pan glywodd y pentrefwyr y sibrydion cyntaf am yr hyn oedd ar fin digwydd i’w dyffryn.”

“Yn ôl pob sôn, roedd yno tua 400 o drigolion yn y dyffryn, 37 o dai a 10 o ffermydd yn ogystal ag ysgol, tri chapel a thair tafarn. Llawer mwy na Chapel Celyn cyn ffurfio Llyn Tryweryn,” meddai Dafydd.

“Dwi’n cael y teimlad fod yna raniadau yn y pentref. Y rhai ifanc isio edrych ymlaen i’r dyfodol. Gwell tai, ysgol newydd, capel ac eglwys newydd yn ogystal â’r gwesty yma. Ar y llaw arall, roedd y rhai hŷn a’r canol oed yn wrthwynebus iawn ac yn ofni’r dyfodol. Ond roedden nhw yn sylweddoli mai gan yr Arglwydd Powys oedd y gair olaf,” eglurodd Meira.

Torrwyd ar y sgwrs pan ddaeth y weinyddes i ofyn i Meira a oedd hi’n barod i archebu ei bwyd.

“Ydach chi’n meddwl y byddai’n bosib i ni rannu bwrdd? Mae’r sgwrs yma mor ddiddorol,” gofynnodd Dafydd.

Nid yn aml yr oedd o’n dod ar draws dynes mor dlws a hunan hyderus yr olwg. Roedd hi hefyd yn amlwg yn ddynes alluog, ac i Dafydd roedd ei Chymraeg yn

raenus ac yn naturiol. Ers llawer dydd bellach, roedd Dafydd wedi addo iddo'i hun, os oedd o am syrthio mewn cariad am yr ail dro, roedd raid iddo syrthio mewn cariad â meddwl y person. Tybed ai hon fydd yr un?

Petrusodd Meira am eiliad yn sgil ei gwestiwn gan deimlo ei fod o'n mynd braidd yn bowld. Eto, roedd hi'n braf cael sgwrsio gydag un oedd a diddordeb yn y boddi. Felly, gyda hanner gwên, cytunodd i rannu bwrdd gyda Dafydd. Wedi i'r ddau archebu eu pryd, aethant i eistedd wrth fwrdd bach yng nghornel bella'r ystafell fwyta. Aeth y drafodaeth am yr hen Lanwddyn ymlaen ac ymlaen ac yn ddwysach bob munud, gyda Dafydd yn holi Meira am gyndeidiau Wil a fu'n byw yn y Llan cyn y boddi.

“Wnewch chi rannu potel o win efo fi?” holodd Dafydd.

“Na, dim diolch, dwi ddim yn yfed gwin,” atebodd Meira gan gochi at ei chlustiau. Doedd hi ddim yn barod i gyfaddef wrth unrhyw wŷr dieithr ei bod yn feichiog.

Erbyn iddyn nhw orffen mwynhau'r bwyd a chael cwpanaid o goffi, sylwodd Meira ei bod yn hanner awr wedi deg.

“Gwell i mi fynd i fyd y breuddwydion,” meddai gan ei hesgusodi ei hun.

“Ga' i eich gweld chi fory?” holodd Dafydd. “Dwi yma am dri diwrnod yn gwneud fy ngwaith ymchwil ar gyfer y prosiect.”

Eglurodd Meira ei bod yn troi am Lerpwl y diwrnod canlynol.

“Wel, mae gen i ychydig o wybodaeth fydd yn ffurfio rhan gyntaf yr adroddiad. Y syndod ydi bod yr hyn yr ydach i wedi ei ddweud wrthyf am agwedd y pentrefwyr yn cyd-fynd yn hollol â'r wybodaeth rydw i wedi ei gasglu hyd yn hyn. Fe wna' i gopi i chi erbyn bore fory. Mae ein sgwrs wedi bod yn hynod o ddifyr ac fe fyddwn yn hoffi cael eich barn ar yr hyn dwi wedi ei gasglu cyn belled. Mi rof fy nghyfeiriad e-bost i chi hefyd,” meddai Dafydd.

Roedd Meira yn falch o dderbyn ei gynnig ac aeth i'r gwely i freuddwydio am yr hen Lanwddyn.

Cododd yn weddol fuan drannoeth. Roedd ei chalon yn drwm. Roedd hi wedi bod wrth ei bodd yn Llanwddyn. O feddwl am y storïau roedd Wil wedi eu hadrodd yn ystod sawl ymweliad yn y gorffennol roedd hi wedi teimlo'n agos iawn ato. I Meira roedd Llanwddyn yn fan cysegredig. Yn ogystal â hyn roedd y profiad a gafodd wrth y llyn a'r sgwrs gyda Dafydd wedi ysgogi ei diddordeb yn hanes y boddi.

Hanner awr wedi saith oedd hi y bore hwnnw pan gerddodd i mewn i'r

ystafell fwyta am ei brecwest. Gwelodd fod Dafydd yn eistedd wrth y bwrdd bach a oedd wedi ei osod ar gyfer dau ym mhen pella'r ystafell. Amneidiodd arni ac wedi iddi eistedd gwthiodd ddogfen drwchus tuag ati. Sylwodd mai'r teitl oedd 'Boddi Dyffryn Tlawd'.

“Dwi wedi gwneud copi o hwn ichi. Mae yna ail ran i'r adroddiad, wrth gwrs. Mi fydda' i yma eto ymhen rhyw bum wythnos i sawru'r awyrgylch yn fwy na chasglu gwybodaeth. Rhaid bod yma i gael teimlad y lle yn iawn,” ychwanegodd.

“Diolch yn fawr. Dwi'n credu mai tua'r un amser yr ydw i wedi trefnu efo'r offeiriad lleol i chwalu llwch Wil ar lan y llyn gyferbyn yr hen Lan. Ond rhaid i mi gadarnhau hyn yn y dyddiadur, cyn bod yn hollol sicr,” atebodd Meira.

“Iawn, os digwydd i chi fod yma, fe gawn i sgwrs y pryd hynny.”

Cododd Dafydd gan ddymuno siwrnai ddiogel iddi a chan ddweud ei fod yn edrych ymlaen yn fawr at ei chyfarfod eto.

*

Parciodd Meira ei char yn y dreif o flaen ei thŷ. Roedd hi wedi cyrraedd adref. Ar hyd y daith, roedd y profiadau rhyfeddol roedd hi wedi eu cael yn Llanwddyn yn fyw yn ei meddwl. Twm, Ann a Ned, dyna driawd diddorol. Rhyw *ménage à trois*. Tybed a oedd Ann yn ymwybodol fod Ned yn ei ffansio hi ers blynyddoedd ac mai dyna pam nad oedd byth yn sôn am gariad.

Gwnaeth gwpanaid o goffi iddi ei hyn. Tebotaid o de fyddai hi wedi ei wneud fel arfer am hanner awr wedi tri y prynhawn, ond ers iddi feichiogi roedd hyd yn oed cegaid o de yn codi cyflog arni. Wrth eistedd yn hoff gadair Wil yn y lolfa, daeth pwl o hiraeth drosti a threiglodd sawl deigryn i lawr ei hwyneb. Pam oedd hi'n eistedd yng ngadair Wil, tybed? Roedd yn gorfod cyfaddef nad oedd hi'n gallu dioddef eistedd yn ei chadair arferol a gweld cadair Wil yn wag.

Aeth y ffôn. Margied ei chwaer oedd yno yn holi am ei hymweliad â Llanwddyn. Disgrifiodd Meira'r gwesty, y bwyd, harddwch yr ardal a soniodd hefyd ei bod am ddychwelyd yno i chwalu llwch Wil. Wedi iddi orffen sgwrsio efo Margied, sylwedolodd nad oedd hi wedi sôn am ei phrofiad wrth y llyn, nac ychwaith am Dafydd. Pam tybed, nad oedd hi ddim wedi mentro sôn wrth ei chwaer am Dafydd?

Wrth iddi eistedd yn ôl yn ei chadair daeth yr atgof am Twm, Ann a Ned yn fyw iddi eto. Tybed a oedd Ann wedi teimlo yn union yr un fath â hi wedi iddi golli Twm? Oedd ei gadair yntau'n wag? Oedd ochr y gwely lle roedd Twm arfer â chysgu yr un mor boenus o wag? Oedd Ann wedi trio llenwi'r gwacter wrth eistedd yng nghadair Twm a chysgu ar ei ochr o o'r gwely? A beth am Elis bach, a oedd wedi colli ei fywyd wedi ychydig ddyddiau? Fyddai ei babi hi yn cael ei achub pe bai'n cael ei eni'n gynnar?

Roedd hi'n byw mewn ofn. Ofn colli'r babi fyddai'n ei chlymu hi â Wil am byth. Rhoddodd ei llaw ar ei stumog. Roedd rhaid i'r babi yma fod yn berffaith.

Neidiodd wrth glywed cloch y drws y ffrynt. Olwen, ei dirprwy yn yr ysgol, oedd yno.

“Sut hwyl? Gest ti amser braf? Oedd y tywydd yn garedig? Fuost ti yn y sba?”

Cwestiynau, cwestiynau, meddyliodd Meira.

Wedi i Olwen adael, sylweddolodd unwaith eto nad oedd hi wedi sôn am ei phrofiadau nac am Dafydd. Pam tybed? gofynnodd iddi ei hun. Oedd hi'n swil o gyfaddef ei bod wedi mwynhau sgwrsio efo dyn arall mor fuan wedi marwolaeth Wil?

Am hanner awr wedi naw cymerodd fath cynnes. Roedd hi wedi bod yn dadbacio a theimlai'n flinedig. Pan agorodd y cêr gwelodd adroddiad Dafydd ar ben y dillad, ‘Boddi Dyffryn Tlawd’. Trawodd y ffeil ar y bwrdd bach wrth ochr y gwely. Byddai'n cael cip olwg arno yn nes ymlaen.

Braf oedd cael mwydo yn y dŵr cynnes. Bybls i fyny at ei hysgwyddau. Roedd o'n help iddi ymlacio.

Fe'i trawodd nad oedd ystafell ymolchi na bath i'w cael yn yr hen Lan. Pan oedd Ann yn flinedig, sut yn y byd allai hi ymlacio efo chwech o blant yn rhedeg o gwmpas? Fedrai hi ddim cael Ann o'i meddwl. Beth oedd y gair? *Reincarnation*. Beth oedd hwnnw yn Gymraeg? Ie, dyna fo. Ailymgnawdoliad. Oedd hi, Meira, yn ailymgnawdoliad o Ann? Roedd hi wedi darllen am sawl un enwog fel Wordsworth, Tennyson a Dickens, a oedd yn credu bod enaid yn teithio o berson i berson ac yn byw am byth. Roedd rhai crefyddau, megis Hindwaeth a Bwdaeth, yn credu yr un fath. O ganlyniad, credent fod tebygrwydd rhwng personau, a gallent fod yn debyg yn eu hymateb i sefyllfaedd bywyd.

Wrth orwedd yn ei gwely y noson honno teimlai Meira ei bod yn adnabod Ann, er nad oedd wedi ei chyfarfod erioed. Roedd yna empathi pendant rhyngddynt.

Trodd at y bwrdd bach wrth ochr y gwely. Estynnodd am adroddiad Dafydd. Roedd yr hanes yno i gyd. Yr Arglwydd Powys yn rhoi'r tir i Lerpwl. Anniddigrwydd y pentrefwyr. Ofn, braw, dychryn. A dyna fo: y '1880 Liverpool Corporation Waterworks Act,' yn sicrhau hawl i ddinas Lerpwl foddi'r dyffryn tlawd.

Doedd dim posib rhoi yr adroddiad i lawr. Edrychodd Meira ar y cloc larwm. Roedd hi'n hanner nos. Ymlaen ac ymlaen â hi, darllen a darllen. Troi tudalen ar ôl tudalen. Doedd hi ddim yn teimlo'n flinedig o gwbl, er iddi cyn mynd i'r gwely a chyn cael bath deimlo ei bod yn flinedig ac y byddai ei llygaid yn cau yn syth bin. Roedd yr hanes yn rhyfeddol ac roedd anghrediniaeth ar wyneb Meira wrth iddi fynd yn ôl i'r 1880au trwy gyfrwng yr adroddiad.

Allai Meira ddim anwybyddu'r ffaith fod anghenion dinas Lerpwl am ffynhonnell ychwanegol o ddŵr wedi cyrraedd pwynt argyfyngus tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wrth loetran mewn rhai o amgueddfeydd y ddinas, roedd hi wedi darllen llawer am y cyfnod o ddatblygiad mawr fu yn y boblogaeth. Wrth iddi ddarllen yn awchus yr adroddiad am foddi dyffryn Efyrynwy atgoffwyd hi eto am y sefyllfa.

Ond beth yn union oedd Deddf 1880 yn ei ddweud? Oedd yna wybodaeth fanwl yn adroddiad Dafydd am y Ddeddf? Y Ddeddf honno a roddodd hawl i ddinas Lerpwl foddi dyffryn a difetha hen gymuned.

Byseddodd y ddogfen yn gyflym ac yno ar dudalen 10 o dan y teitl '1880 Liverpool Corporation Waterworks Act', daeth o hyd i'r wybodaeth roedd hi'n chwilio amdano.

Roedd hi'n amlwg fod y dyffryn wedi dod i feddiant Lerpwl drwy bryniant gorfodol. Y syniad cyntaf a aeth o flaen y llywodraeth oedd adeiladu clawdd o bridd a cherrig ar draws y dyffryn i Gronni dŵr afonydd Efyrynwy, Machnant a Chonwy. Amcangyfrifwyd mai'r gost fyddai tua miliwn a hanner o bunnoedd. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod angen adeiladu eglwys ac ysgol newydd. Roedd trigolion y pentref, y cyfeiriwyd atynt fel 'the labouring classes,' i gael gwybodaeth o fewn wyth wythnos fod eu tai i'w dymchwel a'i bod yn ofynnol i'r Gorfforaeth ofalu am 'sufficient accommodation' ar eu cyfer. Doedd dim cyfeiriad at y capeli.

'Labouring classes', yn wir! Teimlai Meira ei gwaed yn berwi. Am ryfygus! Sôn yr oedden nhw am bobl gyffredin fel Twm, Ned ac Ann a oedd, erbyn hyn, mor real â phobl go iawn i Meira.

Dechreuodd grïo wrth iddi ddarllen am yr orfodaeth i godi'r meirw a'u hail-gladdu mewn mynwent newydd. Beth fyddai wedi mynd drwy feddwl Ann druan? Am greulondeb!

Atgoffwyd hi am yr hyn a ddywedodd Wil wrthi am ail-gladdu'r meirw. Yr adeg honno credai rhai y byddai cyrff y meirw yn debygol o lygru'r dŵr. Nonsens llwyr oedd hynny wrth gwrs, ond roedd syniadau pobl yn wahanol iawn yr oes honno.

* * *

“It's been given the Royal Ascent. The 1880 Liverpool Corporation Waterworks Act is now law. We can now make a start.”

Eisteddodd Hamilton y syrfeiwyr yn ei swyddfa ym mhencadlys Cyngor Dinas Lerpwl. Cadeirydd y Pwyllgor Dŵr oedd wrth ddrws y swyddfa yn wên o glust i glust ac yn gorfoleddu.

“I'm pleased,” oedd unig ymateb Hamilton.

“Pleased! Pleased! Is that all you can say after the hard work over the last few years. You should be overjoyed, man! Anyhow, here's a copy of the Act for you to read.”

A chan daflu y ddogfen ar ddesg Hamilton aeth cadeirydd y Pwyllgor Dŵr allan gan gau drws y swyddfa gydag anferth o glec.

Cododd Hamilton a cherddodd at y ffenest. O'i flaen roedd dinas fawr Lerpwl. Y strydoedd culion, y tai teras, y ffatrïoedd, ac yn y pellter, yr afon Merswy fudr. Sylwodd fod muriau rhai o adeiladau pwysicaf y ddinas yn ddu gan fwg diwydiant. Wrth edrych i gyfeiriad yr afon, er mai canol mis Awst oedd hi, roedd gwres y dydd wedi creu gwrthban fudr, afiach dros y Merswy. Rhaid oedd cyfaddef, roedd angen ffynhonnell ychwanegol o ddŵr ar gyfer dinas mor fawr gan ei bod yn cynyddu o ran poblogaeth, nid yn unig o flwyddyn i flwyddyn, ond o fis i fis. Roedd pobl yn llifo i mewn o Iwerddon, gogledd Cymru a gogledd Lloegr, ac roedd y diwydiant adeiladu yn brysur yn codi tai i'r gweithwyr. Tai teras oedd y rhan fwyaf ohonynt ac roedd rhain yn gartrefi i deuluoedd mawr y ddinas.

Anniddig iawn oedd Hamilton. Roedd o'n cydnabod bod angen ffynhonnell ychwanegol o ddŵr ar gyfer pobl Lerpwl, ond roedd o wedi bod yng ngogledd Cymru. Roedd o wedi ymweld â Llanwddyn a hefyd yn nyffryn hyfryd Efyrynwy.

Roedd harddwch a thawelwch y lle yn gyfareddol. Pam na fydden nhw wedi mynd ymlaen efo prosiect Llyn y Bala? Yno roedd digonedd o ddŵr ar gael heb foddi unrhyw gwm na dyffryn.

Rai blynyddoedd ynghynt roedd o wedi cymeradwyo cynllun Llyn y Bala. Ond dyna fo, doedd neb yn barod i wrando ac roedd yn rhaid iddo gofio mai gwas y cyngor oedd o wedi'r cwbl.

*

“Mae'n ddiwrnod mawr heddiw, medden nhw.”

Safodd Ann wrth ddrws y siop, gan glustfeinio ar ddwy o glepwyr y pentref yn trafod y digwyddiadau diweddaraf ynglŷn â boddi dyffryn Efyrnwy. Roedd hi'n ddiwrnod hynod o braf ym mis Gorffennaf 1881. A dweud y gwir, roedd hi'n boeth, yn rhyfeddol felly, o ystyried ei bod wedi glawio'n drwm y diwrnod cynt.

“Be wyt ti'n feddwl ei bod yn ddiwrnod mawr?” holodd Ann yn awyddus I roi ei phig i mewn.

“Wyt ti ddim wedi clywed? Mae Lerpwl am fynd ymlaen i foddi'r dyffryn yma. All neb eu rhwystro nhw rŵan. Mae Llundain wedi rhoi sêl bendith ar y fenter. Mae'r Arglwydd Powys, yr hen genau, yn gosod rhyw garreg fawr ym mhen pella'r dyffryn yma i gofnodi ei bod nhw'n dechrau ar y gwaith cyn bo hir,” eglurodd Sara Jane, yn ymfalchio yn y ffaith ei bod hi'n ymwybodol o'r hyn oedd yn digwydd.

“Roedd Sam ni yn mynd heibio tua awr yn ôl ar y ferlen ac roedd o'n dweud bod pawb pwysig yno. Yr Arglwydd Powys a'i wraig, a phobl fawr dinas Lerpwl,” ategodd Elin Allt Forgan.

Teimlai Ann y gwrid yn codi yn ei hwyneb. Roedd hi'n gandryll. Sut allai hyn fod? Sut oedd hi'n bosib i ddinas fel Lerpwl gymryd dyffryn bach yng Nghymru yn eiddo iddi hi ei hun a'i foddi heb ganiatad y bobl a oedd yn byw yno? Ei lordio hi dros bobl gyffredin oedd hynny.

“Dydi hyn ddim yn iawn nac yn deg, rhag eu cywilydd nhw,” oedd yr unig beth a allai Ann ei ddweud wrth y ddwy arall oedd wedi dechrau clebran am ffasiynau marchod Lerpwl.

Roedd basged siopa Ann yn teimlo'n drymach nag arfer wrth iddi wneud ei ffordd tua Fishing Street. Rhaid oedd prynu halen, te, siwgr a blawd. Wedi cyrraedd y

tŷ, trawodd ei basged drom ar fwrdd y gegin. Edrychodd allan i'r ardd trwy'r ffenest, a dyna lle roedd Ned yn brysur yn codi tatws cynnar.

Ers i Twm farw roedd Ned wedi bod yn hynod o glên wrthi hi a'r plant. Yn ystod y gaeaf roedd o wedi gofalu fod ganddi ddigon o goed tân a mawn i gynhesu'r tŷ. Yn ystod y gwanwyn a'r haf, gyda help Jo a Bob, roedd o wedi gofalu am ei ardd ei hun yn ogystal â gardd Ann. Palu, a hau tatws, pys, moron a ffa. Roedd y gerddi yn werth eu gweld. Yn ogystal â'r llysiau, roedd dwy goeden afal, llwyn o gyrens duon ac eirin mair yng ngardd Ann. Dyna pam roedd rhaid cael blawd a siwgr i wneud ambell i deisen efo'r ffrwythau.

O weld Ann yn cyrraedd yn ôl o'r siop, daeth Ned i mewn i'r gegin gan sychu ei dalcen chwyslyd gyda hanshar boced fudr.

“Ann fach, oes gen ti lymed o ddiod dail? Dwi syched ofnadwy ac mae'n boeth yn yr ardd yna.”

Estynnodd Ann am botelaid o ddiod dail a oedd yn cadw'n oer ar lechen las yng nghornel bella'r gegin a thywalltodd lasied i Ned.

“Diolch iti am fod mor brysur yn yr ardd. Mae'r tatws a'r pys yn flasus dros ben. Dwi wir yn gwerthfawrogi dy help di. Fyddwn i byth wedi dod i ben heb dy gefnogaeth,” meddai gan wenu ar Ned.

Edrychodd Ned arni gan syllu yn syth i'w llygaid. Cymerodd y gwydraid o ddiod dail yn ei law dde ac efo'i law chwith estynnodd ar draws y bwrdd, gan gyffwrdd yn ysgafn â bysedd Ann.

“Rwy'ti'n gwybod y gwnawn i unrhyw beth i ti a'r plant. Mae'n bleser mawr i mi. Dyna fyddai Twm yn ei ddisgwyl ohona' i.”

A chan syllu'n ddwfn i'w llygaid, winciodd yn slei arni. Cochodd Ann at ei chlustiau a throdd at y ffenest. Roedd Ned wedi ymateb sawl gwaith yn y modd yna, a chyfaddefodd wrth ei hun ei bod yn mwynhau'r sylw yn fawr iawn.

Er mwyn newid y pwnc holodd a oedd o wedi clywed am yr hyn oedd yn digwydd ym mhen pella'r dyffryn y diwrnod hwnnw.

“Ann fach, be' all pobl gyffredin fel ni ei wneud i wrthwynebu Lerpwl, heb sôn am y llywodraeth yn Llundain? Dwi wedi clywed am seremoni gosod y garreg heddiw. Mae gen i ofn bod ein dwylo ni wedi eu rhwymo.”

Wrth iddo sefyll yn ei hymyl roedd Ann yn ymwybodol o'i agosrwydd, ac wrth iddo fynd heibio iddi yn ôl am yr ardd teimlodd ei anadl ar gefn ei gwddf. Braf oedd cael dyn o gwmpas y tŷ ac yn enwedig un mor ddeniadol, meddyliodd.

*

Roedden nhw i gyd yn bwysigion Lerpwl. Y dynion yn chwysu bob un yn ei ffroc-côt a'i het silc uchel. Roedd yr Arglwydd Powys yno gyda'i wraig. Roedd hi yn gwisgo het fawr, flodeuog, las golau, gwisg silc o'r un lliw a oedd, wrth gwrs, yn y ffasiwn diweddaraf. Yn ogystal, roedd yr arglwydd faer a'i faeres, aelodau'r Pwyllgor Dŵr a dau o'r peirianwyr fyddai'n gysylltiedig â'r gwaith yno. Yn bresennol hefyd roedd Hamilton, y syrfeiw'r, o dan orfodaeth ac nid o ddewis.

“This is a wonderful day for Liverpool and a wonderful day for the Vyrnwy Valley,” meddai'r arglwydd faer yn ei araith. “Liverpool, in future, will enjoy clean water, which we all need badly. The villagers of the valley (roedd o'n methu ynganu Llanwddyn) will have alternative housing, a new school and a new church. Everyone will gain from this venture.”

“No! It's not true. All lies. You are going to drown our village. We don't want your new houses or your new church and school. We are quite happy with the ones we've got.”

Clywodd pawb y llais bachgennaidd yn dod o gyfeiriad y goeden dderw agosaf.

“Who's that? Bring him here at once PC Jones,” gwaeddodd yr Arglwydd Powys.

Neidiodd Jo i lawr o'r gangen.

“My name is Jo Elis, I hate all of you and I hate what you are going to do to my valley.”

Cyn iddo ddweud dim mwy, gafaelwyd yng ngoler Jo gan law fawr PC Jones ac meddai hwnnw'n uchel:

“Dyna ddigon Jo Elis, rhaid i ti ymddiheuro i'r bobl bwysig yma.”

“Na, dwi ddim am ymddiheuro. Mae'n gas gen i bob un ohonyn nhw ac mae'n gas gen i be mae nhw am wneud i'r dyffryn yma,” atebodd Jo gan ei ryddhau ei hun o afael y plismon a'i heglu hi oddi yno.

“Tyrd yma'r cnaf bach. Mi wna' i iti ymddiheuro,” gwaeddodd PC Jones.

Ond roedd coesau ifanc Jo yn llawer cyflymach na rhai yr heddwas boliog ac i ffwrdd â fo fel milgi i gyfeiriad yr hen Lan.

“Don't worry PC Jones, he's a young scoundrel. We don't take any notice of

scoundrels. He can't do anything," meddai'r maer gan ffugio gwenu.

Gwenu hefyd a wnaeth Hamilton. Roedd o'n sefyll y tu ôl i'r Maer yn ystod y seremoni ac yn dyst i'r hyn oedd wedi digwydd. Ond gwenu o edmygedd tawel a wnaeth o. Roedd digon o gwmpas y bachgen, chwarae teg iddo, meddyliodd. Roedd o'n ddewrach na rhai o oedolion yr ardal er mae'n debyg mai lleisio barn y pentrefwyr yr oedd o yn y bôn.

Rhedodd Jo a'i wynt yn ei ddwrn bob cam adref. Doedd dim posib i'r PC ei ddal. I mewn â fo i'r gegin gan faglu dros y mat sychu traed.

"Be ar wyneb y ddaear sy'n bod arnat ti?" holodd Ann mewn syndod.

Doedd o ddim yn gallu dweud dim am rai munudau, a chan eistedd wrth ymyl bwrdd y gegin gwnaeth arwydd ei fod angen diod. Llyncodd lasied o ddiadail bron heb gymryd anadl a sychodd ei dalcen a oedd yn wlyb o chwys.

"Ned, Ned, tyrd i mewn mae yna rywbeth wedi digwydd," gwaeddodd Ann o stepen y drws.

Erbyn i Ned ymlwybro am yr ail waith y bore hwnnw o'r ardd roedd Jo wedi llwyddo i ymdawelu a chael ei wynt ato.

"Rwan, roeddet ti'n ymddangos imi fel pe bai rhywun yn rhedeg ar dy ôl di – dengid oeddet, dwi'n meddwl," meddai Ann yn edrych yn bryderus.

Daeth y stori allan yn bendramwnwgl. Roedd o, Jo, yn teimlo nad oedd pobl y pentref wedi lleisio eu barn. Roedd pawb yn dweud y drefn ac yn ddigon dewr yn y dafarn, y siop a'r tŷ popty, ond pwy fyddai'n ddigon parod i ddweud wrth y 'pethau Lerpwl' yna sut oedd pawb yn teimlo.

"Felly, dwi wedi dweud wrth bob un be' rydw i'n feddwl o'u cynllun nhw a hefyd nad ydan ni ddim isio eu tai newydd nhw na'u heglwys, na'u hysgol newydd chwaith. Dwi'n hapus fy mod i wedi dweud yn iawn wrth y crachach yna", eglurodd Jo.

Roedd Ann wedi ei syfrdanu. Roedd hi'n edmygu dewrder Jo, ei mab, ond eto, ofni roedd hi y byddai'r plismon yn curo ar y drws ymhen yr awr.

"O diar be' wnawn i? Dan ni mewn helynt, a dan ni erioed wedi bod mewn helynt efo'r awdurdodau o'r blaen. Mi fydd yna siarad mawr o gwmpas y lle yma. Pam wnest ti y fath beth?"

"Roedd rhaid dweud y gwir wrth y diawled," atebodd Jo.

"Paid a rhegi," torrodd Ann ar ei draws.

Wedi i Jo orffen dweud ei stori, ymateb Ned, gyda gwên lydan ar ei wyneb, oedd:

“Da fachgen, rwyf ti'n hen gog dewr iawn. Oedd, roedd angen dweud wrthyn nhw ac mi fyddai dy dad yn frôd iawn ohonot ti.”

Cododd a chan ysgwyd llaw yn gynnes â Jo aeth yn ôl allan i'r ardd. Trodd Ann ei llygaid tua'r nenfwd, cododd ei ysgwyddau a dweud:

“Be yn y byd alla' i wneud efo chi eich dau?”

* * *

Deffrodd Meira, roedd hi'n hanner awr wedi naw y bore. Tybed oedd hi wedi bod yn breuddwydio am yr hyn a oedd wedi digwydd yn nyffryn Efyrynwy eto? Roedd hi wedi darllen am y seremoni yn adroddiad Dafydd. Ond beth am Ned ac Ann? Oedd Jo tybed wedi lleisio barn o ddifri? Neu hwyrach mai dychymyg neu freuddwyd oedd y cyfan?

Gorweddodd Meira yn ei gwely gan syllu ar yr adroddiad a oedd yn dal ar agor ar y bwrdd bach wrth ochr y gwely. Beth oedd yn digwydd iddi hi? Roedd ei phrofiadau'n real iawn ond eto'n gymysglyd. Ambell waith teimlai ei bod yn profi'r gorffennol tra'n byw yn presennol. Oedd hyn yn normal tybed? Oedd hi'n fwy sensitif nawr a hithau'n feichiog?

Roedd ei mam wedi sôn lawer gwaith bod gan ferched chweched synnwyr, yn enwedig pan oedden nhw'n disgwyl.

Pennod 9

Roedd hi bron yn Nadolig, ac roedd Meira wedi dychwelyd i'r ysgol ers dechrau mis Tachwedd. Erbyn hyn roedd hi wedi datgelu i aelodau'r staff ei bod yn feichiog efo babi Wil. Roedd hi hefyd wedi rhoi gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr y byddai'n cymryd cyfnod mamolaeth estynedig o fis Ebrill ymlaen. Yna, pan fyddai'r cyfnod mamolaeth yn dirwyn i ben, dyna pryd y byddai'n gwneud ei phenderfyniad terfynol, p'run ai dychwelyd i'r ysgol neu fod yn fam sengl yn cadw tŷ a gofalu am ei phlentyn.

Doedd hi ddim yn brin o arian oherwydd roedd ewyllys Wil wedi ei gadael yn ddigon cyfforddus. Er mai gŵr yn ei dridegau oedd Wil, roedd wedi mynnu eu bod yn gwneud ewyllys.

“Rhaid i ni wneud ewyllys bob un,” oedd ei eiriau. “Mae o'n beth rhesymol i'w wneud, o ystyried fod gennym forgais ar ein tŷ. Mi wna' i'n siŵr fy mod yn gadael popeth i ti; fy yswiriant bywyd, bondiau a phob buddsoddiad sy' gen i. Gwna di yr un modd i mi.”

“Dan ni'n llawer rhy ifanc i feddwl am ewyllys,” protestiodd Meira.

Yn y diwedd, aeth y ddau i weld cyfreithiwr ac fe setlwyd popeth unwaith ac am byth. Roedd y tŷ, wrth gwrs, yn enw'r ddau, ond roedd gwahanol yswiriant a bondiau ar wahân.

“Wyddost ti be? Dwi'n falch ein bod wedi cymryd y cam mawr yna. Does neb yn gwybod be' sy rownd y gornel,” oedd geiriau Wil, wedi iddynt fod yn swyddfa'r cyfreithiwr.

“Rwyd ti'n hen dderyn drycin; be' wyt ti'n feddwl all ddigwydd?” holodd Meira gan chwerthin.

Fodd bynnag, rhaid oedd iddi gyfaddef mai Wil oedd yn iawn. Tybed a oedd ganddo deimlad anghynnes ym mêr ei esgyrn?

Roedd yna fwrlwm o weithgaredd yn yr ysgol cyn y Nadolig. Ffair yr ysgol er mwyn codi arian ddiwedd mis Tachwedd. Yna sioe Nadolig y plant cyn diwedd y tymor. “Joseff a'i Gôt Amryliw” oedd y dewis ar gyfer y sioe. Roedd Olwen, y Dirprwy Bennaeth, yn dda iawn am gynhyrchu sioe. Eleanor, athrawes blwyddyn 4, oedd y pianydd a hi hefyd oedd yn dysgu'r côr.

Fel roedd y dyddiau'n byrhau a'r Nadolig yn nesáu, penderfynodd Meira gysylltu â pherson Llanwddyn i drefnu chwalu llwch Wil ar lan Llyn Efyrynwy.

Roedden nhw wedi cael sgwrs o'r blaen, wedi anfon sawl e-bost, ac wedi cytuno ei bod yn bwysig cyflawni'r weithred cyn y Nadolig. Wrth gynllunio ei hail ymweliad â Llanwddyn cofiodd Meira ei bod wedi addo gadael i Dafydd wybod am ei chynlluniau.

Ysgrifennodd mewn neges e-bost:

Annwyl Dafydd,

Sut hwyl erbyn hyn? Dwi'n mynd draw i Lanwddyn y penwythnos cyntaf yn Rhagfyr ac am aros yn y gwesty. Wedi mwynhau darllen eich adroddiad am y boddi. Methu ei roi i lawr. Angen sgwrs ac atebion i rai cwestiynau.

Cofion, Meira.

Daeth ateb yn ôl bron yn syth.

Annwyl Meira,

Byddaf yn sicr o fod yn y gwesty ar y penwythnos cyntaf yn Rhagfyr. Edrych ymlaen yn fawr am sgwrs. Beth am gyfarfod i gael pryd ysgafn am 12.30?

Cofion cynnes, Dafydd.

Hm! Beth oedd ystyr hynny tybed? Roedd rhaid i Meira gyfaddef bod ei chalon wedi cyflymu rhywfaint o ddarllen yr e-bost. Roedd hi hefyd yn edrych ymlaen am gael sgwrs, hollol broffesiynol ac o hyd braich, wrth gwrs, gyda Dafydd.

Fel roedd yr amser ymweld â Llanwddyn yn nesáu, roedd Meira'n edrych ymlaen fwy a mwy at ei hymweliad. Roedd hi'n ceisio holi ei hun pam? Ar berwyl trist ac emosiynol yr oedd hi'n mynd yno, sef chwalu llwch Wil. Eto, roedd o'n fwy na hynny, roedd hi'n edrych ymlaen at fod yng nghwmni Dafydd unwaith eto. Dyna oedd y gwir.

Penderfynodd Meira gychwyn yn gynnar ar ei thaith i Ddyffryn Efyrnwy. Fel y digwyddodd hi, er ei bod yn fore o Ragfyr, roedd hi'n fore rhewllyd braf. Wrth olau'r stryd gwelodd fod tARTH ysgafn ar afon Merswy. Penderfynodd fynd â digon o ddillad cynnes gyda hi. Roedd hi'n ymwybodol bod ei chanol yn dechrau ymledu, felly i guddio hynny roedd rhaid i bob dilledyn fod yn llac.

Cychwynnodd ar ei thaith cyn iddi ddyddio, ac felly cafodd gyfle i fwynhau harddwch y wawr wrth yrru i ganolbarth Cymru. Yn ddiogel yng nghist y car roedd

llwch Wil a'r trefniant oedd ei bod yn cyfarfod y person am 10.30 tu allan i'r Eglwys, yna mynd gyda'r parchedig i chwalu'r llwch yn y fan benodedig.

Wrth yrru heibio i'r Dafarn Newydd a'r siop, i gyfeiriad yr Eglwys, agorodd ffenest y car am eiliad neu ddwy. Daeth chwa o wynt oer y gaeaf i mewn a chyda'r oerni daeth sŵn dŵr fel rhaeadr. Oedd, roedd y dŵr yn dod dros y wal. Fe fyddai hynny'n werth ei weld, meddyliondd Meira.

Parciodd y car tu allan i'r eglwys fach a daeth y Parch William Owen allan o'r eglwys i'w chyfarfod. Dyn canol oed, ei wallt yn britho a golwg 'mwynder Maldwyn' ar ei wyneb bochgoch. Gafaelodd yn llaw Meira yn dynn wrth ei chroesawu.

Estynnodd Meira am y blwch o gŷst y car, ac i ffwrdd â'r ddau yng nghar y ficer gan ddilyn y ffordd oedd yn arwain i gyfeiriad y Bala.

“Dwi isio chwalu'r llwch ar gyfer lle roedd yr hen Lan. Dwi'n gwneud hyn, nid yn unig er cof am Wil, ond er cof am ei deulu oedd yn byw yn y pentref amser yr helynt mawr.”

“Ga i ddweud gweddi fer a hwyrach gawn ni adrodd Salm gyda'n gilydd?” awgrymodd William Owen.

“Wel, doedd Wil a fi fawr o gapelwrs, er ein bod wedi ein magu i fynd i'r capel. Ond dwi'n credu y byddai'n hyfryd pe baem ni'n gwneud hynny,” cytunodd Meira.

Roeddynt wedi cyrraedd yr arwyddbost ar gyfer yr hen bentref ac erbyn hynny roedd hi'n ganol bore. Sylwodd Meira fod brigau'r coed yn dal yn wyn gan rew trwm y noson gynt ac roedd y llyn yn dangnefeddus o dawel.

“Dyma ni. Awn ni lawr y boncyn at lan y llyn,” meddai William Owen.

Safodd Meira ar fin y llyn, ac wedi ysbaid o ddistawrwydd a chael arwydd gan y person, chwalodd y llwch ar y glaswellt rhewllyd. Cipiwyd peth ohono gan awel ysgafn i mewn i'r llyn. Bendithiodd y person y weithred, a gyda'i gilydd adroddodd y ddau y drydedd salm ar hugain. Llifodd y dagrau i lawr gruddiau Meira. Roedd hi'n foment arbennig o emosiynol.

“Dyna fo, mae o wedi mynd at ei gyndadau,” meddai Meira.

“Ydi, mi gaiff ei enaid heddwch yno,” atebodd William Owen.

Yna trodd y ddau i fyny'r llwybr cul at y car.

Roedd Dafydd yn eistedd yn y lolfa yn disgwyl am Meira. Wrth gerdded tuag ato, synnodd Meira at ei hadwaith. Roedd o'n yn edrych yn ddeniadol iawn yn ei siaced ledr ddu, crys coch, trowsys llwyd, ond heb wisgo tei. Pam, tybed, yr oedd hi'n credu ei fod yn edrych mor ddeniadol?

“Dach chi'n edrych yn drist,” oedd ei sylw wrth godi i'w chyfarch.

“Dwi yn drist, newydd chwalu llwch Wil ar gyfer lle roedd yr hen bentref. Roedd o'n achlysur drist ac emosiynol. Ac am eiliad, tra oeddwn i yno, cefais y teimlad fod ei gyndadau yno i'w groesawu. Ond dwi'n gwybod mai nonsens ydi dychmygion fel'na, oherwydd gwn yn union beth ddigwyddodd i'r pentref ac i'r pentrefwyr. Mae o i gyd yn eich adroddiad,” meddai Meira.

“Ydi, ydi, ond wrth ymweld â'r ardal mae rhywun yn gallu ymdeimlo â'r hyn a ddigwyddodd,” atebodd Dafydd.

Yna ychwanegodd:

“Dwi am beidio dweud 'chi'. 'Ti' fydd hi rhyngom ni o hyn ymlaen.”

Cytunodd Meira i hyn gyda gwên.

Cawsant bryd bach ysgafn ganol dydd a thrwy'r amser roedd y sgwrsio rhyngddynt yn rhwydd ac yn hyfryd.

“Cyn iddi nosi, beth am i ni'n dau fynd am dro bach o amgylch y llyn a chael cyfle i aros yma ac acw i fwynhau'r olygfa?” awgrymodd Dafydd.

Mercedes coupe glas golau oedd car Dafydd. Suddodd Meira i'r sedd flaen a synnu at y ffaith fod y gwregys yn clicio'n awtomatig amdani unwaith roedd Dafydd yn tanio'r injan.

Gyrrodd Dafydd yn araf i fyny ochr dde y llyn i gyfeiriad y Bala.

“Aros am funud, mae gen i stori i'w dweud am y tŵr yna,” meddai Meira.

A dyma hi'n adrodd y stori am Wil a'i ffrindiau yn dringo'r gadwyn fawr oedd yn hongian o ben ucha'r tŵr i lawr at y llyn.

“Deuddeg oed oedden nhw y pryd hynny. Doedd Wil ddim yn gallu nofio ac mi fyddai'i fam wedi cael trawiad pe bai hi'n gwybod. Pam wyt ti'n meddwl eu bod nhw mor ddwl?”

“Am ei fod o yno, mi dybiwn i ,” atebodd Dafydd gan ail danio'r injan.

Ymlaen â nhw yn araf gan ryfeddu at harddwch y dyffryn oedd yn dal yn wyn gan rew trwm y noson gynt. Trodd Meira at Dafydd ac meddai:

“Mae o'n lle hyfryd ac mi alla'i ddychmygu pa mor ddig oedd y pentrefwyr pan glywsant am gynlluniau mileinig Lerpwl.”

Edrychodd Dafydd arni'n syn:

“Wel ie. Ond wnaethon nhw ddim lleisio’u dicter. Ac yn ôl y dystiolaeth sy’ gen I fu yna fawr o sôn ym mhapurau newydd y cyfnod, chwaith. Dwi wedi chwilio llawer i weld oedd yna unrhyw un wedi gwneud stŵr. Mi welais un adroddiad yn *Y Fanner* a oedd yn adrodd fod hen ŵr o’r Tŷ Ucha yn barod i farw yn hytrach na gadael ei gartref.”

Aethant ymlaen heibio i’r fan lle roedd yr hen bentref. Yna, ymlaen at yr ynys fach ymhen uchaf y llyn lle, yn ôl yr hanes, roedd Plas Eunant. Ymlaen wedi hynny heibio i’r rhaeadr – ‘rhaeadr y trysor a’r cawg aur’. Wedyn cylchdro cyfan dros yr argae cyn dringo’r dreif hir i fyny at y gwesty eto.

“Wal bridd oedd ar y cynlluniau cyntaf, ac wrth gwrs mi fyddai hynny wedi bod yn llai costus o lawer na’r wal fawr gerrig. Mae honno fel caer fawreddog ac fe fydd hi yma am ganrifoedd,” sylwodd Dafydd.

Wedi cyrraedd y gwesty roedd Meira’n teimlo’n flinedig. Roedd gwaelod ei chefn yn brifo a’i thraed wedi chwyddo. Teimlodd ei bod yn bryd iddi orffwys am ychydig.

“Dwi am fynd i orwedd am ychydig os nad wyt ti’n meindio,” meddai wrth Dafydd.

Wrth iddi ddweud hyn sylwodd ar y syndod ar wyneb Dafydd. Prin yr oedd o’n ei choelio hi.

“Iawn, mi gawn ni gyfarfod am saith o’r gloch. Mae hi wedi bod yn brynhawn difyr. Dwi wedi mwynhau dy gwmni di,” oedd ei ymateb.

*

Cymerodd Meira ofal arbennig gyda’i cholur wrth baratoi i fynd lawr i gael pryd o fwyd gyda Dafydd. Gwisgodd drowsus du a blows wen oedd yn dod dros y trowsus ac yn llac am ei chanol er mwyn cuddio’i bol. Trawodd gardigan ysgafn ddu dros ei hysgwyddau a gwisgodd gadwyn aur hardd a chlustdlysau Clogau, anrheg ddiwethaf Wil iddi.

Edrychodd ar ei modrwy ddyweddio a’i diemwntau hardd. Roedd hi bob amser yn falch o’i gwisgo ar ei bys. Ond cyn mynd i gyfarfod â Dafydd, daeth pwl o euogrwydd drosti. Pam roedd hi’n mynd i gymaint o drafferth wrth ymbincio, a hi yn

mynd i gyfarfod dyn arall ? Roedd hi'n gwisgo anrhegion hardd Wil. Oedd hi'n dechrau ei anghofio yn barod, meddyliodd?

Teimlodd ias oer i lawr ei chefn. Doedd hynny ddim yn bosib, siawns?

“Wyt ti wedi gorffwys? Rwyt ti'n edrych yn arbennig o hardd heno,” meddai Dafydd gan ei chofleidio.

Cochodd Meira at ei chlustiau.

“Ga i brynu G&Ti ti?” holodd Dafydd.

“Na, ddim i mi diolch. Bydd sudd oren yn iawn,” atebodd Meira, gan wrido am yr ail waith.

“Wyt ti'n erbyn y ddiod gadarn?” holodd Dafydd yn chwareus.

“Fedra i ddim yfed. Dwi'n feichiog ti'n gweld,” meddai Meira yn ei chwithdod, a pharablu yn ei blaen. “Roeddwn ni newydd fynd ar fabi pan laddwyd Wil. Doedd o ddim yn gwybod...”

Syllodd Dafydd arni'n syn. Edrychodd i fyw ei llygaid a gafaelodd yn dyner yn ei llaw dde. Teimlodd Meira'n hynod o swil. Doedd hi ddim yn gwybod ble i edrych. Ond roedd yna hyfrydwch yng nghyffyrddiad Dafydd, a doedd hi ddim eisiau i'r foment fynd heibio.

“Dwi'n falch iawn drostat ti Meira. Fe fydd rhan o Wil gennyti pan fydd y bychan wedi ei eni. Ond mae'n rhaid i mi gyfaddef ers y tro cyntaf inni gyfarfod fod gen i obeithion amdanom ni'n dau. Gobeithio nad ydi hyn yn mynd i newid y sefyllfa. Ti'n gweld, dwi ar ben fy hun hefyd. Mae fy ngwraig wedi fy ngadael i am un o'i chydweithwyr. Mi gawsom ysgariad ddwy flynedd yn ôl.”

Roedd yna ddieter a thristwch yn amlwg ar ei wyneb. Daeth teimlad cynnes dros Meira, a chan adael i Dafydd ddal i gydio yn ei llaw, atebodd yn emosiynol:

“Wel, does dim o'i le ar inni fod yn ffrindiau, nac oes?”

Dechreuodd Dafydd egluro:

“Mi ddaeth Jill adre o'r gwaith un min nos, a thros swper mi ddywedodd ei bod am fy ngadael. Roedd hi wedi symud i Lundain i bencadlys y BBC i weithio erbyn hynny ac roedd wedi cyfarfod â'r dyn arall yna.”

Bu'n dawel am ychydig.

“Roeddwn ni mewn sioc achos roeddwn ni yn ei charu hi. Does yna neb arall wedi bod yn bwysig yn fy mywyd i ers hynny.”

Wedi iddo orffen siarad sylweddolodd Meira fod Dafydd yn dal i afael yn dynn yn ei llaw.

“Beth am inni fynd am ein pryd bwyd?”

Cytunodd Dafydd a bu'r ddau yn sgwrsio'n hapus dros y cig oen blasus a'r pwdin paflofa.

“Dwi wedi bod digon ffodus i gael un o'r stafelloedd yn rhan newydd y gwesty. Fyddet ti'n hoffi dod draw i fy stafell am baned o goffi?” cynigiodd Meira.

Wedi iddi awgrymu hyn synnodd, gan feddwl beth oedd arni? Y fath hyfdra, meddyliodd.

Roedd ganddi ystafell braf. Gwely mawr dwbl, dwy gadair esmwyth o ledr brown wrth y ffenest, a bwrdd coffi crwn rhyngddynt. Teledu mawr deugain modfedd ym mhen draw'r ystafell. Roedd yr ystafell ymolchi hefyd yn hynod o foethus, gyda phopeth yno megis hylif cawod, siampw a hylif swigod i'r bath. Roedd yno dywelion trwchus gwyn, slipars gwyn, a thu ôl i ddrws yr ystafell ymolchi hongiai gŵn wisgo gwyn.

Pe bai hi wedi bod yn olau dydd byddai golygfa wych o'r llyn i'w mwynhau o'r ystafell. Cyn cau'r llenni trwchus brocêd coch sylwodd Meira ar oleuni'r lleuad yn creu llwybr arian ar wyneb y llyn. Oeddod, gan fwynhau'r olygfa hyfryd.

“Be wyt ti'n ei weld sy mor ddiddorol?” holodd Dafydd, gan sefyll yn agos ati, mor agos nes y teimlodd Meira ei anadl ar ei gwar a'i fraich yn cyffwrdd ei hysgwyddau'n ysgafn.

Safodd y ddau gan syllu ar yr olygfa. Roedd hi'n eiliad hudolus.

“Dydi o'n hardd,” mentrodd Meira.

“Ddim mor hardd â thi,” atebodd Dafydd.

Trodd Meira gan edrych arno. Taflodd golau'r lleuad gysgod dros ei wyneb.

“Wyt ti'n sylweddoli be wyt ti newydd ei ddweud, Dafydd? Dwi'n gobeithio nad wyt ti'n trïo chwarae ar fy nheimladau, a minnau mewn stad emosiynol fregus iawn ac yn disgwyl plentyn,” holodd Meira gyda hanner gwên.

Gafaelodd Dafydd yn ei dwy law. Roedd y ddau'n wynebu ei gilydd wrth y ffenest.

“Drycha Meira, nid ar chware bach fyddwn ni'n dweud y fath beth. Rwyd ti'n ferch brydferth. Mae beichiogrwydd yn gweddu iti,” ychwanegodd.

Teimlodd Meira'n anghyfforddus. Tynnodd ei dwylo o afael Dafydd. Caeodd y llenni. Goleuodd y lampau bwrdd a oedd wrth y gwely ac ar y bwrdd coffi. Lliffodd goleuni i mewn i'r ystafell. Llanwodd Meira'r tegell, a rhoddodd goffi yn y jwg coffi. Eisteddodd Dafydd yn un o'r cadeiriau esmwyth yn ei gwylio gyda diddordeb.

O'r diwedd, roedd y coffi'n barod. Tywalltodd Meira gwpaned yr un iddynt ac yna eisteddodd yn y gadair esmwyth arall yn wynebu Dafydd. Buont yn sgwrsio am eu cyfrifoldebau gwaith yn bennaf. Eglurodd Meira beth oedd ei dyletswyddau fel Pennaeth ysgol gynradd yn Lerpwl ac aeth Dafydd ymlaen i sôn am ei waith ymchwil a oedd yn ymwneud â boddi Dyffryn Efyrynwy.

Roedd hi'n hanner awr wedi deg cyn i'r ddau sylweddoli hynny. Cododd Dafydd ac meddai:

“Gwell iti gael dy orffwys. Diolch am y coffi a diolch am y sgwrs. Ga' i dy weld ti bore fory amser brewest?”

Cytunodd Meira y byddai hi'n cael brewest efo Dafydd am hanner awr wedi wyth. Cofleidiodd y ddau'n gynnes a thrawodd Dafydd gusan ysgafn ar ei boch.

“Nos da, mi wela'i di yn y bore.”

Aeth Meira trwy ei defodau arferol cyn gwisgo'i phyjamas. Glanhau ei dannedd. Golchi ei hwyneb. Taenu hylif nos dros ei hwyneb. Brwsio ei gwallt. Yna, dringodd i mewn i'r gwely mawr dwbl ar ei phen ei hun. Gorweddodd ar ei chefn heb symud cymal gan syllu i'r tywyllwch. Beth yn y byd oedd yn digwydd iddi?

Roedd hi wedi colli Wil. Roedd hi'n disgwyl ei blentyn. A dyna hi'n wraig weddw ifanc yn mwynhau cwmni dyn arall ac yn barod i gyfaddef ei fod yn hynod o ddeniadol ymhob ffordd, yn mwynhau ei gwmni ac yn mwynhau sgwrsio efo fo.

Teimlodd y babi'n symud y tu mewn iddi. Dychrynodd. Oedd hi'n amharchus o goffadwriaeth Wil?

*

Nadolig go od a gafodd Meira. Daeth ei chwaer, Margied, ati dros yr ŵyl, ond oedd fawr o hwyl ar yr un o'r ddwy.

“Fedra i ddim anfon cardiau i neb eleni. Sut yn y byd alla' i ddymuno ‘Nadolig Llawen’ a finnau heb Wil. Dydi hi ddim yn amser llawen arna' i mae hynny'n sicr,” meddai wrth Margied rai wythnosau cyn y Nadolig.

Yna, ychwanegodd:

“Mae'r sioe Nadolig yn yr ysgol a'r partion Nadolig yn mynd ar fy nerfau i hefyd. Ond rhaid imi ddal ymlaen er mwyn y disgyblion.”

Erbyn diwrnod y Nadolig roedd hi wedi ymlâdd, felly trefnodd Margied fod y ddwy yn mynd allan i dŷ bwyta lleol ar gyfer eu cinio Nadolig.

“Rwyt ti’n amlwg yn bwyta i ddau neu ddwy. Rwyt ti wedi claddu pryd da,” meddai Margied gan chwerthin.

Yna holodd:

“Wyt ti’n gwybod be wyt ti’n ei gael?”

“Na, dwi ddim isio gwybod, chwaith, dwi’n gobeithio mai hogyn ydi o ac y bydd o’n debyg i Wil,” atebodd Meira.

Bu’r ddwy’n eistedd am amser maith yn sipian eu coffi ac yn sôn am y geni.

“Mi fyddwn i wrth fy modd, er mwyn yr un bach, allu ei eni gartre. Ond dydi hynny ddim yn realistig a finnau’n byw fy hun.”

“Na, na, paid â meddwl am hynny. Mi fyddwn i yn cael hunllefau wrth feddwl amdanat tua thri y bore ac ar ben dy hun bach. Mi gymerith dipyn o amser imi gyrraedd dy dŷ di, hyd yn oed gyda’r traffig yn ysgafn yn oriau’r bore,” plediodd Margied.

Fodd bynnag, cytunwyd mai Margied fyddai gyda hi yn ystod yn geni, ac roedd rhaid iddi addo y byddai’n ffonio’r ambiwlans, a Margied wedi iddi deimlo’r poen cyntaf.

Fel yr oeddynt yn sgwrsio, canodd ffôn symudol Meira.

“Jyst eisiau dymuno’r gorau iti heddiw. Dwi ddim am ddweud ‘Nadolig Llawen’, oherwydd fydd o ddim yn llawen iawn iti.”

Dafydd oedd yno!

“Dwi’n meddwl amdanat o hyd ac am yr amser hyfryd gawsom yn Llanwddyn. Dwi yn nhŷ fy rhieni dros yr ŵyl, ond mi fyddai’n well gen i fod yn y gwesty yn Llanwddyn efo ti,” heriodd wedyn, gan awgrymu eu bod yn cyfarfod yno nos galan.

Gwridodd Meira ac meddai:

“Diolch, Dafydd, mi wna’ i dy ffonio di’n ôl wedi Gŵyl San Steffan. Ydi hynny’n iawn?”

“Wedi iddi gau’r ffôn, dyma Margied yn holi’n eiddgar:

“Pwy oedd hwnna, dwed? Roeddwn i’n clywed llais dyn. Paid â dweud dy fod ti wedi ‘clicio’ yn barod? Roedd o’n eitha ‘desperate’ yn ôl tôn ei lais!”

“Fyddet ti ddim yn ei nabod o! Rhywun wnes i gyfarfod yn Llanwddyn, ac fe gawsom sgwrs dros swper. Ond dydan ni’n bendant ddim wedi ‘clicio’, fel rwyt ti’n awgrymu,” oedd ateb swta Meira.

* * *

“Mae yna wahoddiad iti i swper efo ni, Ned,” meddai Ann un prynhawn Sadwrn wrth i Ned a’r hogiau lifio coed yn gogiau bach.

“Wn ni ddim. Mi ges i swper gen ti neithiwr. Ond dwi wrth fy modd, rhaid imi gyfaddef. Ydw’n wir,” oedd ateb Ned gan wenu’n slei ar Ann.

Roedd hi’n ddiwedd mis Medi, a bron i naw mis wedi mynd heibio ers y ddamwain a laddodd Twm ei frawd, ac ers y bu farw Elis bach, babi Twm ac Ann. Yn ystod Gwanwyn a haf y flwyddyn honno roedd Ann wedi dod yn ddibynnol iawn ar ei brawd-yng-nghyfraith, ac wrth ei fwydo roedd hi’n teimlo ei bod yn talu’n ôl am ei garedigrwydd. Roedd o wedi bod yn brysur yn garddio ac yn dysgu Jo a Bob sut i blannu tatws, a hau pys a ffa, yn ogystal â’u dysgu sut i dorri a llifio coed yn briciau i gychwyn tân ac ar gyfer y gaeaf. Roedd yna stoc dda o goed ym muarth Ann wedi eu rhoi yn daclus ac o fewn cyrraedd pan fyddai’r eira’n drwchus.

Ambell i ddydd Sadwrn byddai’r tri yn mynd i gyfeiriad Bwlch y Groes i dorri mawn. Roedd yn waith anodd. Roedd rhaid cael celfi arbennig at y gwaith, yn ogystal â benthg trol a mul Allt Forgan i gludo’r mawn oddi ar y mynydd.

“Cofiwch, ’rhen gogiau, rhaid gadael i’r mawn sychu’n iawn cyn ei roi ar y tân, neu chewch chi ddim ond mwg du,” siarsiodd Ned.

Cyn belled ag oedd bywyd dyddiol y pentrefwyr yn bod, dim ond un neu ddau ohonynt oedd yn cymryd sylw o’r gwaith oedd yn mynd ymlaen yn y dyffryn. Ysgwyd pen roedd y rhan fwyaf o hen drigolion y pentref, gan deimlo fod pethau allan o’u dwylo nhw a’i bod yn well ganddynt farw na symud o’u cartrefi.

Stori wahanol oedd agwedd yr ifanc. Roedd ambell un i’w glywed yn y Three Pigeons yn canmol y datblygiadau newydd, ond anfodlon iawn oedd Jo. Roedd o’n teimlo bod rhaid iddo gadw llygad ar y sefyllfa, doed a ddelo.

“Roeddwn ni’n meddwl mai wal bridd fawr oedd hi am fod. Rŵan, medden nhw, maen nhw’n chwarelu cerrig mawr o’r chwarel.”

Rich Glyndu oedd yn llawn o’r wybodaeth ddiweddaraf un bore wrth gydderdded i’r gwaith efo Ned. Wedi cyrraedd y gweithdy, cyn mynd draw i osod trawstiau newydd ar un o adeiladau allanol Plas Eunant, meddai Ned:

“Wn ni ddim pam ydan ni wrthi’n atgyweirio’r adeiladau yma. Mi fyddan nhw i gyd o dan ddŵr cyn hir.”

“Wel,” meddai Rich, “Mae yna bob siort yn gweithio yno - Gwyddelod, Albanwyr a Saeson, a does dim gair o Gymraeg i’w glywed yn unman. Maen nhw i gyd yn byw mewn cytiau mawr ac mae yna sôn eu bod ar fin codi rhagor o gytaiau i roi llety i’w gwragedd a’u plant.”

“Dwi wedi clywed hefyd eu bod nhw am ddod ag arbenigwyr mewn ffrwydron i mewn o rywle,” torrodd Ted y prentis ar draws y sgwrs.

“Bobl y Bala! I be’?” holodd Rich.

“I chwythu tyllau mawr yn y mynyddoedd er mwyn gwneud twneli i gario dŵr i Lerpwl,” atebodd Ted.

“Dwi’n gwybod hyn oherwydd mae Nhad wedi cytuno i ddysgu sut i ddefnyddio’r ffrwydron. Mae’r cyflog yn well o lawer na gweithio i bobl y Plas.”

“O ddifri rŵan, dydi o ddim am weithio i’r hen bobl Lerpwl yna, does bosib,” torrodd Ned ar draws Ted.

“Ydi, pam lai? Fe gawn ni gynnig cyntaf am un o’r tai yn y pentref newydd wedyn,” atebodd Ted gyda balchder.

Roedd Jo wedi sleifio i mewn i’r gweithdy ac wedi dychryn o glywed y sgwrs.

“Bradwyr, bradwyr, ydi bob un ohonoch. Dwi’n synnu at dy dad, a nhw’n mynd i foddie ein pentref a’n dyffryn ni,” gwaeddodd ar dop ei lais.

“Rŵan fechgyn, ymdawelwch. Mae pawb isio byw,” gosododd Ned ei hun yn strategol rhwng Ted a Jo.

Daeth yr haul allan dros y dyffryn ac aeth pawb ymlaen efo’i waith. Cadwodd Ted a Jo ddigon pell oddi wrth ei gilydd a chadwodd Ned lygaid barcud ar y ddau.

*

“Dyna swper ardderchog. Rwyd ti’n un da am fwydo dyn,” meddai Ned gan roi winc i Ann pan nad oedd neb arall yn edrych.

Roedd y plant ieuengaf wedi mynd i fyny i’r ystafell wely, ond yn ôl pob sŵn, doedd dim llawer o siâp cysgu ar yr un ohonynt. Doedd dim sôn bod Jo a Bob am fynd i’r gwely, er bod Ann a Ned yn ysu am eu gweld yn mynd i glwydo.

O’r diwedd, awgrymodd Bob ei bod yn mynd yn hwyr, ac y byddai’n rhaid codi i fwydo’r moch a’r ieir cyn ei gwneud hi am y capel y bore trannoeth. Wedi i’r ddau ddringo’r grisiau pren, edrychodd Ann a Ned ar ei gilydd.

“Diolch byth, mae gennym y lle i ni’n hunain rŵan,” ochneidiodd Ned.

Aeth draw i'r gegin at Ann oedd yn brysur yn sychu'r plât cinio olaf. Trawodd Ned ei fraich yn ysgafn dros ei hysgwydd. Roedd ei gwallt hir du yn un blethen hir y tu ôl i'w phen ac yn disgyn yn daclus i lawr ei chefn.

Plygodd Ned, gan roi cusan ysgafn iddi ar ei gwar. Teimlodd Ann y gusan a synnodd at y teimlad braf aeth i lawr ei hasgwrn cefn. Trodd a gwenodd yn gariadus ar Ned.

“Tyrd, gad i ni fynd at y setl ac eistedd a sibrwd i glustiau'n gilydd!” awgrymodd Ned.

Oeddod Ann gan daflu golwg pryderus i gyfeiriad y grisiau. Gobeithio bod pawb wedi mynd i gysgu'n drwm, meddylodd. Dyma'r ail waith iddi ymuno â Ned ar y setl. Oedd hynny yn beth drwg? Oedd hi'n anffyddlon i Twm ac i'r plant?

Estynnodd Ned ei law iddi a'i thywys at ddrws y gegin bach.

“Tyrd, mae gen i lawer i ddweud wrthyf,” meddai, gyda golwg gynnes yn ei lygaid glas.

Roedd hyn yn ormod i Ann ac aeth y ddau i eistedd ar y setl o flaen tanllwyth o dân coed. Er bod y setl yn galed, doedd hyn ddim yn broblem. Closiodd y ddau at ei gilydd a chofleidio a chusanu am rai munudau. Roedd Ned wrth ei fodd efo'r ffordd roedd Ann yn ymateb iddo, a mwyaf tanbaid fu'r ymateb, hiraf y bu'r caru.

“Ti'n gwybod fy mod i wedi dy garu di erioed, ond y drwg oedd fod Twm wedi cael gafael arnat ymhell cyn i mi gael cyfle i ennill dy galon,” sibrydodd wrthi.

“Ar hyd y blynyddoedd, fe wnes i synnu pam nad oedd gan ddyn mor olygus â thi gariad. Dwi'n credu bod ambell lodes wedi gobeithio dal dy lygad,” sibrydodd Ann yn ôl, gan chwerthin yn ysgafn fel geneth ifanc.

“Wel, arnat ti roedd y bai. Dwi wedi mwydro efo ti ers pan ddoist ti dros y mynydd i weini ym Mhlas Hirnant. Allwn ni byth garu neb arall.”

Wedi dweud hyn cusanodd y ddau am funudau hyfryd a phleserus. Dau enaid a dau gorff wedi plethu ynghyd ac yn suddo i'w gilydd.

*

Doedd dim posibil i neb weld Jo yn eistedd ar gangen y goeden dderw uwchben y garreg sylfaen a oedd wedi ei gosod gan bwysigion Lerpwl ym mis Gorffennaf 1881. Dyna'r fan a'r lle y gwnaeth ei brotest. Er bod dail y goeden bellach yn disgyn, roedd y canghennau wedi eu plethu mor drwchus nes bod cuddfan Jo yn berffaith. Roedd o

o'r farn ei bod yn bwysig iawn i rywun gadw golwg ar y datblygiadau yn y gwaith. Roedd o am adrodd yn ôl bob wythnos i bawb o'r pentrefwyr a oedd yn fodlon gwrandao beth oedd y "pethau Lerpwl yna" yn ei wneud. Y fo, Jo, oedd y prif ysbïwr, ac fe deimlai'r cyfrifoldeb yn drwm ar ei ysgwyddau. Felly, pan oedd cyfle'n codi a'i ddyletswyddau yn siop saer Ned, ei ewyrth, wedi dod i ben, dyna lle roedd Jo ar ei gangen yn sbïo, yn pwyso ac yn mesur er mwyn adrodd yn ôl.

Roedd poblogaeth Dyffryn Efyrynwy wedi cynyddu ers mis Gorffennaf, ac roedd Corfforaeth Lerpwl wedi codi cytiau fel cartrefi dros dro i'r gweithwyr. Roedd nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi cynyddu hefyd. Plant y gweithwyr oedd y rhan helaethaf ohonynt.

Nid oedd Cymry bach y pentref yn deall acenion y Gwyddelod a'r Albanwyr. Bob dydd, bron, yn ystod amser egwyl roedd yna ffraeo ac ymladd ar fuarth yr ysgol. Y Cymry fel arfer fyddai'n cychwyn yr helynt gan floeddio'n uchel yn eu Saesneg bratiog nad oedd croeso i'r dieithriaid. Roedd Now Glyndu wedi cyfansoddi rhigwm, a buan iawn fu i'r Cymry ei fabwysiadu i'w chanu bob amser chwarae:

Go, go, go away,
We don't like you
You can't play.

Go, go, go away,
We don't like you
You can't stay.

Fel arfer, roedd yna ddwsin o Gymry bach drygiog yn cerdded fraich yn fraich o amgylch y buarth yn llafarganu'r rhigwm. Unwaith y byddai hynny'n digwydd, byddai ymladd yn torri allan ymysg y bechgyn a'r merched yn ymosod ar y dieithriaid gan dynnu eu gwalltiau hir. Roedd y Gwyddelod druan yn ei chael hi'n ofnadwy oherwydd lliw eu gwallt. Yn aml, roedd Jones y Sgŵl allan ar y buarth gyda'i gansen a byddai'n barod i'w defnyddio ar unrhyw rai fyddai'n codi helynt.

Fel ysbïwr roedd Jo yn cymryd ei ddyletswyddau o ddifrif. Ydydd Sadwrn hwnnw roedd pethau'n edrych yn wahanol iawn o gwmpas y 'gwaith'. Roedd yna o leiaf dri anghenfil anferth yn codi pethau trymion heb unrhyw drafferth. Doedd o

erioed wedi gweld y fath bethau. Wrth gwrs, roedd o'n gwybod beth oedd caib a rhaw, ond be' yn y byd oedd y pethau enfawr yna?

Meddylodd. Synnodd o weld fframiau pren mawr yn cael eu hadeiladu ar draws y dyffryn. Allai Jo ddim dirnad beth oedd rheiny. Clywodd sŵn ffrwydron yn dod o gyfeiriad y chwarel. Ffrwydron fel taranau oedd ddigon â dychryn unrhyw un, yn enwedig un oedd yn eistedd ar gangen fregus. Ond beth yn y byd oedd y pethau hyll yna a oedd yn gallu codi pwysau yn well na chant o ddynion? Roeddynt yn symud ymlaen ar reiliau ac ymhob un ohonynt roedd yna ddyn yn eistedd mewn caban bach. Daeth dychryn mawr dros Jo, roedd ei galon yn curo fel gordd. Roedd yna bethau'n digwydd o'i gwmpas a oedd yn gwbl ddieithr iddo. Doedd o ddim yn eu deall o gwbl. Ymhobman roedd yna ddynion yn cloddio. Roedd o'n meddwl eu bod yn debyg i forgrug, bob un â'i gaib a'i raw wrthi'n chwysu i godi'r wal enfawr! Sleifiodd oddi ar y gangen a'i chychwyn hi am adre. Tybed a oedd Ned yn gwybod beth oedd y peiriannau mawr dieithr?

*

Erbyn i Jo gyrraedd adref roedd hi'n nosi. Wrth iddo redeg heibio'r siop gwelodd rai o'i ffrindiau oedd yn stelcian o gwmpas, dwy law yn eu pocedi a heb wybod beth i'w wneud ar fin nos Sadwrn.

“Hei Jo, ble ti wedi bod? Canlyn wyt ti? Pwy ydi hi?” holodd Dei Tŷ Llwyd.

“Cer o'ma. ‘Does gen i yr un lodes. Wedi bod yn sbecian ar yr hyn sy'n mynd ymlaen tua'r gwaith yna rydw i. Rhaid i un ohonom gadw golwg. Wyddoch chi fod yna anghenfil o beth sy'n codi pwysau'n well na chant o ddynion. Oes rhywun yn gwybod be ydi o?’” holodd Jo.

Doedd neb yn gallu cynnig enw ac roedd pawb wedi synnu.

“Y tro nesa fyddi di'n mynd draw yna, mi ddo i hefo ti,” addawodd Dei.

Cerddodd Jo tuag adref gan addo iddo'i hun na fyddai byth yn dweud wrth Dei pryd y byddai'n mynd i olwg y gwaith. Y fo'n unig oedd y sbiwr go iawn wedi'r cyfan. Gwell fyddai cadw pethau'n dawel neu mi ffyddai cogiau'r fro yno i gyd yn sbio.

Agorodd y drws cefn. Clywai'r plant ieuengaf yn rhedeg o gwmpas y ddwy lofft fach i fyny'r grisiau. Ond ble oedd ei fam? Ble oedd Ned ei ewyrth? Gwaeddodd yn uchel:

“Lle da chi i gyd?”

Ymddangosodd Olwen ar ben y staer yn wên o glust i glust.

“Dan ni i gyd yma. Mae Mam a Ned wedi picied i dŷ Ned am funud.”

Gwylltiodd Jo. Un byr ei dymer oedd o. Un tro fe gollodd ei dymer yn siop y saer pan oedd Benji Tŷ Llwyd yn disgwy i Jo gwblhau gwaith iddo. Meddai Benji, “Ara deg Jo bach, rwyd ti yn union fel dy daid yr hen dei Elis. Roedd hwnnw’n un sobr o wyllt, yn un handi efo’i ddyrnau ac y barod i ymladd unrhyw adeg. Dwi’n i gofio fo’n iawn yn ymladd ers talwm yn ymladd yn y ffeiriau.”

Chafodd Jo ddim ei demtio i ddefnyddio ei ddyrnau erioed, ond mi roedd ganddo dymer wyllt ac yn y tymer hwnnw aeth yn ei flaen i dŷ Ned. Beth oedd ym meddwl y ddau yn gadael pump o blant ar ben ei hunain yn y tŷ yn ymladd clustogau nes bod plu yn hedfan drwy’r awyr i bobman?

Curodd ar y drws. Dim ateb. Curodd yr ail waith. Dim ateb. Cododd y glicied ac i mewn â fo. Clywodd leisiau isel yn dod o gyfeiriad y siambr.

Lleisiau Ned a’i fam!

Roedd drws y siambr yn gil agored. Clustfeiniodd a chymerodd gipolwg i mewn. Ni fyddai Jo byth yn anghofio’r olygfa a welodd. Roedd y ddau yn gorwedd ar y gwely. Ei fam yn cael ei chofleidio, ei hanwes a’i chusanu gan Ned. Roedd o’n rhedeg ei fyseidd drwy ei gwallt du a oedd wedi ei ryddhau o’r cwlwm tyn ar dop ei phen.

Safodd Jo wedi ei syfrdanu. Clywodd Ned yn sibrwd yn gariadus:

“Ann, dwi wedi breuddwydio ers blynyddoedd am y foment hon. Dwi wedi dweud o’r blaen fy mod i wedi dy garu di ac yn dal i dy garu di es amser maith.”

Yna, clywodd Ann yn sibrwd yn ôl gydag ochenaid ddofn:

“Dwi’n credu fy mod i’n dy garu di hefyd Ned.”

Roedd Jo wedi clywed mwy na digon. Yn sydyn, ond ar flaenau ei draed, aeth allan o’r tŷ gan adael y drws yn llydan ar agor. Doedd gan y ddau ar y gwely ddim syniad eu bod wedi cael ymwelydd, oherwydd eu bod wedi ymgolli’n llwyr yn ei gilydd. Carlamodd Jo â’i wynt yn ei ddwrn. Doedd o ddim yn siŵr i ble. Yn y diwedd cyfeiriodd ei gamau tuag at hen weithdy ei dad. Doedd y drws byth ar glo. Er bod Twm wedi ei ladd yn y ddamwain ers bron i ddeng mis bellach, a Wil Tŷ’n Shetin wedi cymryd ei le fel y saer maen, roedd y gweithdy yn edrych yn union yr un fath. Gwelodd offer Twm yn dal yno, yn union fel pe bai newydd adael. I goroni’r cyfan, roedd ei ffedog fawr ledr a’i gap yn dal yn llwyd efo llwch y garreg ar y bachyn.

Syrthiodd Jo ar ei liniau a dechreuodd feichio crïo. Doedd o ddim wedi crïo'n iawn er pan laddwyd ei dad. Trio bod yn ddyn y teulu er mwyn ei fam a'r lleill.

Ond roedd profiadau heno wedi ei lethu. Ned mewn cariad efo'i fam! Ei fam yn meddwl ei bod mewn cariad efo Ned ei brawd yng nghyfraith! Ewyrth iddo fo, Bob, Tomos bach, Olwen, Jini a Meri! Sut yn y byd all hynny fod ac yntau'n perthyn?

Anghofiodd Jo am yr amser. Eisteddodd ar fainc lychlyd y saer maen. Beth oedd yn mynd i ddigwydd? Tybed ddylai o ddweud wrth Bob ac Olwen. Roedden nhw'n ddigon hen i wybod am gariadon. Doedd dim rhyfedd yn y byd bod Ned yn byw ac yn bod cymaint yn nhŷ Ann a'i fod o mor barod i helpu bob dydd Sadwrn.

Fel aeth yr amser ymlaen, sylweddolodd Jo fod yna leuad lawn yn goleuo'r gweithdy. Roedd ei feddwl yn un bwrlwm cynhyrfus. Cododd a chychwynnodd tuag adref yn araf bach. Wrth fynd heibio i dŷ Ned sylwodd nad oedd yna olau kannwyll i'w weld yn y siambr ond bod yna olau gwan yn dod o'r gegin. Aeth heibio'n dawel, dawel. Tybed a oedden nhw'n dal ar y gwely yn y siambr yn sibrawd pethau neis wrth ei gilydd?

Agorodd ddrws ei gartref yn Fishing Street. Roedd hi bron yn un ar ddeg y nos. Gwelodd olau gwan kannwyll yn y gegin fach ac fel yr oedd yn rhoi ei droed ar ris isaf y grisiau daeth Ann allan o'r gegin a golwg bryderus ar ei hwyneb.

“Ble yn y byd mawr wyt ti wedi bod? Dwi wedi meddwl pob math o bethau. Meddwl dy fod wedi colli dy ffordd yn y goedwig 'na neu wedi cwmpo i'r afon,” meddai.

Edrychodd Jo gyda dirmyg ar ei fam a holodd:

“Ble dach chi wedi bod, Mam?”

Y bore canlynol aeth y teulu i'r capel yn ôl eu harfer. Wedi'r gwasanaeth ymunodd Ned â nhw ar y ffordd adref a chlywodd Jo ei fam yn ei wahodd i ginio.

“Wyt ti'n siŵr? Fydd hi'n iawn imi ddod acw?” holodd.

“Dwi isio sgwrs. Mae gen i rywbeth i ddweud am be' ddigwyddodd wedi i mi gyrraedd adre neithiwr,” sibrydodd Ann.

Eisteddodd pawb o amgylch y bwrdd cinio yn sgwrsio'n braf. Un teulu hapus, heblaw Jo, a oedd yn edrych yn bwdlyd iawn. Edrychodd Ann ar Tomos bach ac meddai:

“Tomos, rhaid iti ddysgu adnod newydd erbyn yr wythnos nesaf. Rwyd ti wedi dweud ‘Gwyn eu byd y rhai pur o galon’ sawl tro bellach.”

“Ond Mam, roeddwn ni’n chwilio amdanoch chi neithiwr er mwyn cael gwybod pa adnod i’w dysgu. Allwn i ddim eich ffeindio chi yn unman. Ble oeddech chi, Mam?”

Cochodd Ann at ei chlustiau a dechreuodd gasglu platiau cinio.

“Wedi picied i dŷ dy ewyrth Ned i roi help llaw iddo efo rhywbeth,” oedd ei hateb brysiog.

Cyn iddi gyrraedd y bowlen olchi llestri, safodd Jo ar ei draed, ei wyneb yn fflamgoch a golwg gynhyrfus arno. Ni allai gymryd dim mwy, rhaid oedd bod yn onest.

“Mam, deudwch y gwir. Nid helpu Dewyrth Ned oeddech chi. Na, deudwch y gwir eich dau. Caru ar y gwely yn y siambr oeddech chi!”

Yna, gan edrych i gyfeiriad Ned aeth yn ei flaen:

“Dewyrth, mi gerddais i mewn i’ch tŷ chi. Roeddwn o fy ngho’. Wedi mynd adre a gweld fod pawb yn hollol wyllt yno’n neidio o gwmpas y lle ac yn cael hwyl. Roedd hi fel ffair Llanfyllin! Roeddwn i hefyd eisiau dweud wrthy ch be’ oeddwn ni wedi ei weld wrth y ‘gwaith’. Mi wnes i guro ar y drws. Dim ateb. Mi gerddais i mewn. Roedd drws y siambr yn agored. Dyna lle roeddech chi eich dau yn caru a chusanu’n wyllt ar y gwely yn y siambr!”

Aeth pawb yn fud am eiliad neu ddwy. Dechreuodd Olwen feichio crïo.

“Be’ fydde Dad yn ei ddweud? Dach chi’ch dau wedi anghofio am Dad.”

Yna, gan droi at Ned, meddai gyda llymder yn ei llais:

“Dewyrth, dach chi wedi ei fradychu a chithau’n frawd iddo.”

Roedd pawb mewn syndod. Rhedodd Meri at ei mam a chuddio ym mhlygion ei ffedog. Methodd Ann yngan gair. Safodd Ned ar ei draed ac meddai’n bwylllog:

“Rŵan, rŵan, blant, rhaid i ni beidio â chwmp’ allan efo’n gilydd.

Flynyddoedd yn ôl, mi wnes i gyffesu wrth Twm, eich tad, fy mod i’n meddwl y byd o’ch mam. Ddaru o ddim digio efo fi. Roeddem yn deall ein gilyddi’r dim, ond gofynnodd i mi un peth: a fyddwn ni yn edrych ar ei hôl hi, a chi fel teulu, pe bai rhywbeth yn digwydd iddo fo. Roedd Twm yn gwybod fod ei waith fel saer maen yn beryglus.”

Holodd Bob:

“Be’ mae hyn i gyd yn ei feddwl Dewyrth?”

“Wel, mi wnes i addewid i fy mrawd flynyddoedd lawer yn ôl, mai dyna'n union fyddwn ni'n ei wneud. Gwarchod pob un ohonoch, a hwyrach un diwrnod gofyn i'ch mam fy mhriodi i!” atebodd Ned gan edrych yn gariadus ar Ann.

Ymateb Meri a Jini oedd rhedeg at eu hewyrth a thaflu eu breichiau bach amdano.

“Dewyrth, dan ni'n falch. Chi fydd ein tad ni felly, ynte?” meddai Jini.

“Na, na ddim tad ond llys-dad,” eglurodd Ned.

Safodd Ann fel delw. Roedd hi wedi synnu at yr ymateb gwahanol gan bob un o'i phlant. Roedd y rhai ieuengaf, Tomos, Meri a Jini, yn falch iawn. Ond ymateb gwahanol a gafwyd gan Jo, Bob ac Olwen.

“Fedra i ddim dygymod â'r syniad o gwbl,” meddai Jo.

“Na fi, chwaith,” ategodd Bob ac Olwen fel un.

Cododd Jo a Bob, ac allan â nhw drwy ddrws y cefn heb gael y pwdin reis a oedd wedi ei baratoi. Ond i'r ffwrn i nôl y fasin fawr o bwddin yr aeth Olwen. Rhoddodd lwyaid da i bawb. Yna cododd ac meddai:

“Dwi'n mynd ar ôl Jo a Bob er mwyn cael sgwrs.”

Wrth iddi ddiplannu trwy ddrws y cefn meddai'n uchel:

“Gormod o bwddin dagith gi.”

A chaeodd y drws yn glep nes bod y tŷ yn ysgwyd. Roedd cyfrinach Ann a Ned allan.

Ymhen awr, pan oedd Ann yn golchi'r llestri, aeth Ned i fyny ati'n dawel a rhoi ei fraich o amgylch ei chanol a rhoi cusan ysgafn ar ei boch, sibrydodd yn ei chlust dde:

“Paid â phoeni, cariad. Mi ddaw Jo, Bob ac Olwen at eu coed. Dan ni'n dipyn o ffrindiau, wyddost ti. Dwi o ddifri, mi hoffwn feddwl y cawn ni fod yn wŷr a gwraig ymhen blwyddyn neu ddwy.”

Edrychodd Ann arno'n syn a phlygodd ei phen i sibrwd yn ei glust:

“Dwi'n credu y bydd rhaid i hynny ddigwydd ynghynt nag wyt ti'n ei feddwl.”

Pennod 10

Roedd Meira wedi bod ar ei chyfnod mamolaeth ers mis bellach. Roedd hi bron yn ddiwedd y mis bach, ac am ei bod mor fawr yn ei beichiogrwydd, roedd hi'n falch nad oedd y babi i'w eni yn ystod yr haf. Syllodd arni ei hun yn y drych wedi iddi ddod allan o'r gawod. Hm! Roedd hi'n anferth! Tybed a fyddai'n mynd yn ôl i'w siâp a'i phwysau arferol wedi i'r babi gael ei eni? Rywsut roedd hi'n amau hynny.

“Dwi wedi bod yn reit iach, heblaw am dipyn o boen yn fy nghefn ac ychydig o chwydd o gwmpas fy nhraed,” meddylodd. “Ymhen mis mi fydd y cwbl drosodd. Babi mis Mawrth fydd fy mhlentyn i, a gyda lwc mi fydd yn cael ei eni ar y diwrnod cyntaf o wanwyn.”

Erbyn hyn roedd hi a Dafydd wedi dod yn ffrindiau agos. Bob dydd byddai'r ffôn yn canu. Dafydd fyddai yno, yn holi sut oedd hi. A bob yn ail wythnos mi fyddai'n gyrru i fyny i Lerpwl o Gaerdydd i fwrw'r Sul efo hi.

Roedd hi'n gorfod cyfaddef ei bod yn hoff iawn ohono, ac roedd o hefyd wedi dweud wrthi ei fod yn teimlo bod eu cyfeillgarwch yn tyfu ac yn cynhesu. Nos Wener oedd hi, a thua naw o'r gloch byddai Dafydd yn cyrraedd. Rhaid oedd paratoi swper arbennig iddo. Un o'i hoff brydau oedd *chilli con carne*, a dyna fyddai hi'n ei baratoi ar ei gyfer. Ac wrth gwrs, roedd Dafydd yn hoffi glasied neu ddau o win coch i'w olchi i lawr. Er ei hoffter o win, ymatal er mwyn y babi fyddai Meira bob tro.

Am naw ar ei ben clywodd gar Dafydd yn troi i mewn i'r dreif. Roedd hi wedi gwneud ei gorau i edrych yn ddel, ac wedi cymryd trafferth arbennig wrth roi y colur ymlaen gan ofalu bod ei llygaid mawr yn edrych yn arbennig o ddeniadol. Pensil du o dan y llygaid, a chysgod o wyrdd ysgafn ar ei hamrantau. Dewisodd drowsus du llac a thiwnic lliwgar drosto i geisio cuddio'r bol anferth!

Wedi iddynt fwynhau swper a chlirio'r llestri, eisteddodd y ddau ar y sofffa ledr i gyfnewid newyddion a rhannu cusanau a chofleidio. Braidd yn swil oedd Meira ar y cychwyn, ond buan y daeth hi i fwynhau'r cyfnodau preifat hynny o eistedd yn glos a sibrwd cyfrinachau wrth ei gilydd.

“Rwyd ti'n edrych yn arbennig o ddel heno,” meddai Dafydd, gan ei hanwesu'n dyner.

“Dwi ddim yn teimlo'n ddel o gwbl. Dwi'n ofni na fydda'i byth yn 9'4 eto,” atebodd Meira.

“I mi, rwyt ti bob amser yn ddel ac mae yna rywbeth deniadol iawn o gwmpas merch feichiog. Natur ar ei gorau,” meddai Dafydd gan wasgu ei llaw.

Fel yr aeth y noson yn ei blaen, teimlodd Meira'n flinedig. Roedd hi'n un ar ddeg o'r gloch, felly penderfynodd fynd tua'r gwely.

“Dwi'n sori, Dafydd, dwi wedi blino, felly dwi am ei throi hi tua'r gwely. Gobeithio nad oes ots gennyt ti.”

Er eu bod mor agos a hapus yn eu perthynas, nid oedden nhw eto wedi rhannu gwely oherwydd maint beichiogrwydd Meira.

Dringodd y grisiau yn araf a llafurus ac wedi newid i'w dillad nos, glanhau ei dannedd a thynnu'r colur, teimlad o ryddhad pur oedd gorwedd yn esmwyth ar ei chefn o dan y *duvet*. Meddylodd am ei pherthynas â Dafydd. Teimlai fod pethau yn datblygu'n hyfryd. Y rhyfeddod oedd ei bod yn dechrau sylweddoli ei bod yn ei garu! Awr ynghynt, wrth iddynt eistedd ar y sofffa, roedd o wedi sibrawd yn ei chlust:

“Meira, dwi'n hollol sicr fy mod yn dy garu di.”

“Wyt ti'n siŵr, Dafydd? Mae dweud hynna yn gam mawr i'w gymryd,” oedd ei hymateb i'w gyfaddefiad.

“Ydw, rydw i'n berffaith siŵr,” oedd ei ateb pendant.

Er ei bod wedi cael teimladau tebyg tuag ato fo, roedd rhywbeth yn ei rhwystro rhag mynegi hynny: amheuan ynglŷn â'r ffaith ei bod yn dal i garu Wil. Oedd hi'n bosib iddi garu dyn arall mor fuan ar ôl colli Wil? Oedd hi'n bradychu Wil? Beth fyddai pobl yn ei ddweud amdani? Oedd o'n deg i'r babi ei bod yn syrthio mewn cariad efo dyn arall nad oedd dim yn dad iddo? Oedd hi'n bosib iddi garu dau ddyn?

Dyna'r meddyliau oedd yn troi a throi yn ei meddwl, ac er ei bod wedi blino'n lân, doedd hi ddim yn gallu cysgu. Tua hanner nos, cododd o'r gwely a dechrau cerdded o amgylch yr *en-suite* oedd yn ymyl ei hystafell wely. Roedd hi'n andros o anghyfforddus - yn boeth ac yn chwyslyd. Golchodd ei hwyneb gyda dŵr oer, a chymerodd lasied o ddiod oer o'r tap. Wrth sipian y diod, dyna pryd y digwyddodd! Poen sydyn, annioddefol, ac yna torrodd y dŵr.

Gwaeddodd am Dafydd, a chododd hwnnw mewn braw a dryswch.

“Be sy? Be sy?” holodd.

“Dwi'n teimlo'n sâl, rhaid i ti fy helpu. Mae'r babi yn dwad! Mae o ar fin cael ei eni a hynny fis yn fuan!” meddai Meira, gan weiddi'n uchel wrth i boen arall ei tharo.

Doedd Dafydd ddim yn gwybod ble i droi na beth i'w wneud. Roedd hyn yn sefyllfa anisgwyl ac anghyfarwydd. Roedd hi'n argyfwng mawr a hynny'n ystod oriau mân y bore pan oedd dyn rhwng cwsg ac effro.

Rhedodd i mewn i ystafell wely Meira. Doedd hi ddim yno!

“Ble wyt ti?” galwodd.

“Brysia, gwna rywbeth, dwi yma yn yr ystafell molchi fach,” meddai Meira, gan gychwyn colli amynedd efo arafwch Dafydd.

“Be dwi fod i wneud?” holodd Dafydd yn hurt.

“Ffonia'r fydwraig, mae ei rhif hi wrth y ffon. O! mam bach,” plygodd Meira drosodd mewn poen.

Rhwng y pyliau griddfan meddai:

“Dwi wedi dewis geni gartref, ac mae gen i gynllun geni. Ond dwi'n amheus fydd hyn yn cael ei ganiatau rŵan.”

Cydiodd Meira'n dynn wrth y basn molchi wrth i boen arall ei tharo. Roedd Dafydd wedi cynhyrfu trwyddo a bron mewn. Wrth siarad gyda'r fydwraig, clywodd ei hun yn dweud:

“She's in terrible pain, please come quickly.”

“Well, the baby isn't due for another four weeks. Are you sure she's started?” holodd honno.

“Yes, yes, the water's broken,” atebodd Dafydd (wrth geisio bod yn cŵl.)

Cyrhaeddodd y fydwraig o fewn chwarter awr, ac wedi asesu'r sefyllfa penderfynodd mai mynd i'r ysbyty fyddai orau .

Ymhen dim., roedd Meira, Dafydd a'r fydwraig ar eu ffordd i'r Liverpool Womens Crown Street Hospital. Oedd Dafydd pan gyrhaeddodd yr ambiwlans, heb wybod yn iawn beth i'w wneud, ond mynnodd Meira ei fod yn mynd hefo hi.

“Plis, Dafydd, tyrd gyda mi, fedra' i ddim wynebu hyn ar fy mhen fy hun,” plediodd.

“Wel, dwi ddim yn siŵr. Dwi ddim yn dad i'r un bach,” atebodd yntau, gan ddal i oedi.

Ond roedd Meira'n benderfynol.

“Rhaid i ti ddod efo fi. Does neb yn gwybod nad ti yw'r tad. Plis, plis,” erfyniodd Meira.

Doedd dim amser i'w golli, ac i mewn â nhw i'r ystafell eni, ac er gollyngdod i Meira hebryngwyd Dafydd, er yn ansicr, i mewn gyda hi.

“Sit near her and hold her hand,” meddai’r nyrs.

Ufuddhaodd Dafydd gan afael yn dynn yn llaw Meira, yn enwedig pan oedd y poenau ar eu gwaethaf. Sychodd dalcen Meira’n dyner wrth i’r chwys lifo i lawr ei hwyneb.

“Dwed wrthi na fedra i ddim gwthio ddim rhagor, dwi’n rhy wan,” llefodd Meira, ac aeth sawl awr heibio gyda Meira’n teimlo nad oedd hi’n bosib iddi ymdrechu mwy.

“One more push Mrs Owen. I can see the head. Here we are,” meddai’r nyrs o’r diwedd.

A dyna ni - daeth gollyngdod mawr!

“You have a beautiful baby boy and he’s got masses of hair,” meddai’r nyrs wedyn.

Roedd Meira wedi breuddwydio am glywed y newyddion yna. Bachgen bach! Tebyg i’w Dad gobeithio. Trosglwyddwyd y bychan i freichiau ei fam, wedi ei lapio mewn siôl gotwm wen. Syllodd arno gyda’r dagrau yn llifo i lawr ei bochau. Edrychodd ar Dafydd, a sylwodd fod dagrau yn ei lygaid yntau hefyd.

“Your turn now,” meddai’r nyrs gan roi’r bychan ym mreichiau Dafydd.

Roedd o’n gegrwth. Doedd o erioed wedi gafael mewn babi o’r blaen yn ei fywyd, ac roedd ei emosiynau ar chwâl ym mhobman.

“Beth fydd ei enw?” holodd, gan edrych ar Meira.

“William Geraint Owen, ac fe fydd yn cael ei nabod fel Wil,” atebodd Meira.

“Addas iawn a hyfryd,” meddai Dafydd gan syllu ar yr un bach yn ei freichiau.

*

Wedi pum niwrnod yn yr ysbyty cafodd Meira a William Geraint Owen fynd adref. Addawodd Dafydd y byddai’n aros gyda Meira a Wil bach hyd nes y byddai Margied, chwaer Meira, yn cyrraedd i roi help llaw iddi.

Diwrnod mawr oedd y diwrnod hwnnw. Roedd Meira wedi rhoi gwybod i Dafydd beth oedd angen ei gael ar gyfer Wil. Dros y misoedd roedd hi wedi prynu rhai pethau angenrheidiol, fel clytiau, *baby-gros* a sawl dilledyn arall. Ond roedd rhaid dweud wrth Dafydd ble yn y tŷ i ddod o hyd iddynt. Rhaid oedd cael un neu ddau o eitemau ychwanegol hefyd, megis cadair babi ar gyfer y car, clytiau sychu, ac eli pen ôl, yn ogystal â dwy botel fwydo. Roedd angen cant a mil o bethau ac roedd Dafydd yn rhyfeddu bod eisiau cymaint ar gyfer babi mor fach.

“Ymhle ga’ i brynu’r holl stwff yma, ac ymhlega’ i’r gadair?”

Roedd Dafydd wrth ei fodd pan alwodd yn yr ysbyty am Meira a Wil bach. Y nyrsus yn ei longyfarch ac yn ffarwelio â’r tri wrth iddynt adael y ward. Roedd un o’r nyrsus yn Gymraes o Sir Fôn, ac meddai wrth Dafydd:

“Cofia edrych ar ôl y ddau.”

“Dwi’n siŵr o wneud hynny,” atebodd Dafydd gyda gwên.

Wrth yrru adref yn ofalus, holodd Dafydd:

“Wnest ti ddim eu goleuo nhw ynglŷn â’n sefyllfa ni felly?”

“Na, roedd pethe’n rhy gymhleth. Dwi’n gobeithio nad ydw i ddim wedi dy ddigio di. Fydd yr un ohonyn nhw ddim callach,” atebodd Meira.

“Dwi’n hapus i helpu mewn unrhyw ffordd,” meddai Dafydd, gan daflu cipolwg ar Wil bach a oedd yn cysgu’n braf yn ei gadair.

Yn ystod y dyddiau canlynol roedd Dafydd fel tad i Wil bach. Dysgodd sut i’w fwydo efo’r botel a sut i’w ddal i godi gwynt. Roedd o’n rhyfeddu ato ac yn magu perthynas glos iawn efo’r un bychan. Roedd Meira, wrth gwrs, yn ei gwendid ac yn mwynhau’r gofal roedd Dafydd yn ei ddangos tuag ati hi a Wil bach. Yn wir, wyddai hi ddim sut y byddai wedi ymdopi heb Dafydd. Er syndod iddi, yn ei llawenydd, roedd yn teimlo’n isel iawn. Tybed a oedd hyn oherwydd nad oedd Wil yn bresennol i gyd-lawenhau â hi? Dyna yn union oedd gobaith Wil, ac roedd hi wedi ei siomi. Yn raddol, trwy ofal Dafydd a’i gefnogaeth, daeth pethau’n well ac yn fuan daeth i deimlo’n hapusach ac yn fwy llawen.

Os oedd yna nefoedd, tybed a oedd Wil yn gwybod am fodolaeth Wil bach?

Dafydd oedd yn coginio iddo fo a Meira, ac yn cadw llygad ar Wil pan fyddai Meira yn gorffwys yn ystod y prynhawn.

“Wel, mi fyddi’n falch o glywed fod Margied yn dod fory. Cei fynd yn ôl i Gaerdydd ac i dy waith. Mi fydda’i yn ddyledus i ti am byth. Dwi’n siŵr y byddi’n

falch o gael gorffwys ar ôl yr holl halabalw yma,” meddai Meira wrth eistedd ar y gadair siglo yn y gegin i fwydo Wil.

Sythodd Dafydd, ac edrych arni gyda golwg siomedig ar ei wyneb. Ar y pryd, roedd o’n llwytho’r peiriant golchi llestri. Croesodd y gegin gan sefyll o flaen Meira.

“Dwi ddim eisiau eich gadael chi. Dwi wrth fy modd yma. Dwi’n sicr ddim eisiau mynd yn ôl at y bywyd unig sydd gen i yng Nghaedydd,” meddai gydag ochenaid.

Yna aeth yn ei flaen:

“Dwi’n dy garu di Meira, a dwi wedi dod i feddwl y byd o Wil bach. Wnei di fy mhriodi i, fel y gallwn fyw gyda’n gilydd ac y gallaf dy helpu i fagu Wil? Mi rof fy ngwaith i fyny. Dwi’n sicr o gael gwaith arall efo fy nghymwysterau i.”

Roedd Meira wedi ei syfrdanu, a’r unig beth yr oedd hi’n gallu ei ddweud oedd:

“Wyt ti o ddifri?”

“Ydw, fues i erioed yn fwy sicr o fy meddwl.”

Fe gytunwyd y byddai Meira’n cael amser i ystyried cynnig Dafydd ac y byddai ef yn dychwelyd atynt i dreulio’r penwythnos canlynol.

“Ble wyt ti wedi bod Dafydd? Dwi ddim wedi dy weld ti ers achau.”

Ieuan Puw, un o gydweithwyr Dafydd yng Nghaerdydd, oedd yn holi. Eisteddodd y ddau i fwynhau paned o goffi ganol bore yn y Brifysgol. Edrychodd Dafydd arno’n syn.

“Na, dwi’n gwybod. Dwi wedi bod i fyny yn Lerpwl yn gweld fy nghariad. Mae’n stori hir. Fyddai’n iawn imi ddod draw i’r fflat am sgwrs heno? Dwi angen dipyn o gyngor,” atebodd Dafydd.

Wrth deithio’n y car yn ôl i Gaerdydd roedd Dafydd wedi dechrau troi pethau yn ei feddwl. Oedd o wedi gwneud y peth iawn yn gofyn i Meira ei briodi, a chynnig ei hun yn llys-dad i Wil Bach? Ymddiswyddo o’i swydd dda yn y coleg? Roedd hi’n swydd yr oedd o yn ei mwynhau.

Roedd pethau’n mynd rownd a rownd yn ei feddwl. Wedi mynd i’r gwely, methodd gael noson dda o gwsg. Troi a throsi a chael dychmygion hunllefus. Tybed a fyddai Meira’n newid ei theimlad tuag ato wrth weld Wil yn tyfu i fyny’n debyg i’w Dad? Fyddai Wil ymhen amser yn dweud:

“Ddim chi ydi fy nhad i”?

Fyddai o a Meira yn gallu cael plant eu hunain?

Yn ystod y nos roedd pethau'n troi'n lobsgows yn ei feddwl. Penderfynodd yn oriau'r bore bod rhaid iddo rannu ei bryderon gydag un o'i ffrindiau gorau.

“Gwydriad o win?” gofynnodd Ieuan.

“Diolch, mi wnaiff les imi,” atebodd Dafydd.

Fflat hen lanc go iawn oedd gan Ieuan. Pethau ymhobman. Roedd rhaid clirio papurau oddi ar y sofffa cyn i Dafydd fedru eistedd i lawr.

“Ti'n gwybod be i ddisgwyl yma,” oedd sylw Ieuan, gan chwerthin wrth daflu'r papurau oddi ar y sofffa ar y bwrdd coffi ac ar ben papurau arholiad rhai o'i fyfyrwyr. “Rŵan, be ydi dy broblem di?”

Daeth y stori allan yn bendramwnwgl. Hanes y cyfarfyddiad yn Llanwddyn. Disgrifiad o Meira'n ferch hardd a gosgeiddig. Y syndod o ddeall ei bod yn feichiog. Y ffaith ei fod o wedi syrthio mewn cariad â hi bron yn syth.

Yna, hanes geni Wil bach ac fel y bu yn rhan o hynny. Ac yn fwy pwysig na dim, y teimlad ei fod eisiau gwarchod Meira, eisiau ei phriodi hi, eisiau hefyd bod yn lys-dad i Wil bach.

Yna, yr amheuon mawr. Tybed oedd o'n gwneud y peth iawn?

Syllodd Ieuan arno'n syn. Doedd o ddim yn sicr beth i'w ddweud, heblaw gofyn:

“Wyt ti wir yn ei charu hi? Sut fyddet ti'n teimlo pe bai ti'n dweud: ‘fe wna i anghofio am Meira ac am Wil bach’? Dyna ydi'r prawf wedi'r cwbl.”

“Dwi'n gwybod yr ateb i'r cwestiwn yna. Mi fyddwn yn torri fy nghalon,” meddai Dafydd gydag ochenaid.

“Yr unig beth alla' i ddweud wrthyti, Dafydd, ydi, bydd ofalus, paid â rhuthro i mewn i bethau, rhag ofn iti gymryd cam gwag,” cynghorodd Ieuan.

Wedi mynd adref y noson honno ar ôl cael sgwrs efo Ieuan, roedd Dafydd yn dawlach ei feddwl. Roedd o'n gwbl siŵr ei fod yn caru Meira ac yn meddwl y byd o Wil bach. Roedd y dyfodol, felly, yn edrych yn fwy sicr ac yn fwy addawol o lawer.

*

Roedd hi'n fore Iau, ac roedd Meira a Margied yn mwynhau cwpanaid o goffi, a Wil bach yn cysgu'n braf wedi cael llond ei fol o lefrith.

“Mae Dafydd yn dod nos yfory am y penwythnos,” cyhoeddodd Meira.

“Da iawn, mi fydd hynny’n iawn efo mi. Caf gyfle i fynd adref am ddiwrnod neu ddau,” atebodd Margied yn swta.

Gyda hyn, cododd Meira ac aeth i olchi ei chwpan o dan y tap. Roedd ei chefn at Margied ac meddai:

“Gyda llaw, mae o wedi gofyn i mi ei briodi.”

“Rargien fawr, be wyt ti am wneud? Does dim blwyddyn ers i Wil farw.”

“Dwi’n ymwybodol o hynny. Dyna sy’n fy mhoeni. Ydw i’n bradychu Wil? Ydw i’n rhuthro pethau?”

Aeth yn ei blaen gan droi i wynebu ei chwaer.

“Dwi’n andros o hoff ohono. Dwi’n credu fy mod yn ei garu, ac a dweud y gwir, mae o fel angel gwarcheidiol.”

“Bydd di’n ofalus. Paid â neidio o’r badell ffrïo i’r tân,” rhybuddiodd Margied.

Rhywfodd doedd Meira ddim yn credu mai dyna fyddai hi’n ei wneud wrth briodi Dafydd, a mentrodd ddweud hynny wrth ei chwaer fawr:

“Dwi wedi bod trwy lot, a dwi’n gwybod yn union be dwi’n ei wneud. Dyma gyfle imi gychwyn pennod newydd yn fy hanes. Fyddet ti’n hoffi i mi fod yn fam sengl, heb ddim cefnogaeth gan neb?”

“Ti sy’n gwybod sut ti’n teimlo. Mi wna innau dy helpu gymaint ag y medraf hefyd, a does ond angen iti godi’r ffôn ac mi fydda’i yma’n syth.”

Gwenodd y ddwy ar ei gilydd am y tro cyntaf ers blynyddoedd.

* * *

Edrychodd Ned i fyny’n sydyn a syllodd ar Ann gyda golwg syn ar ei wyneb.

“Be wyt ti’n feddwl, Ann? Pam wnest ti ddweud y byddai hynny’n digwydd ynghynt nag ydan ni’n ei feddwl? Mae amser ar ein hochr, does dim rhaid i ni frysio.”

Gwridodd Ann at ei chlustiau ac ymledodd y gwrid i lawr ei gwddw hefyd.

“Wel, dwi’n credu fy mod i’n disgwyl. Dwi wedi mynd rhyw chwech wythnos. Gobeithio nad wyt ti’n fecsio! Dan ni wedi mentro braidd yn rhy bell ers rhai wythnosau bellach.”

Aeth ceg Ned yn hollol sych. Na, doedd o ddim yn flin. A dweud y gwir, roedd o’n hapus iawn. Roedd o am fod yn dad am y tro cyntaf yn ei fywyd. Ond yr hyn oedd yn ei flino oedd beth fyddai pawb yn ei ddweud amdanynt. Beth hefyd fyddai Jo, Bob ac Olwen yn ei ddweud? Sut fydden nhw yn derbyn y newyddion?

Tynnodd Ann tuag ato a’i chofleidio’n gynnes. Cusanodd hi ar ei boch, ei gwddw a’i gwefusau llawn.

“Na, dwi ddim yn flin o gwbl. Dwi wrth fy modd. Ond bydd rhaid i ni briodi mor fuan ag sy modd cyn i neb ddechrau amau a siarad tu ôl i’n cefnau ni. Mi af i Lanfyllin i’r sêl dydd Gwener ac mi af i setlo pethau gyda’r cofrestrydd yr un pryd. Allwn ni byth â mentro priodi yn y capel.”

Y bore canlynol aeth Ann i siop y pentre i brynu un neu ddau o nwyddau ar gyfer y teulu. Pwy oedd yno ond Alys Lloyd, ei ffrind gorau ers dyddiau Llanuwchllyn.

“Wyt ti ar hast? Tyrd i gael paned a sgwrs acw ar dy ffordd adref. Mi wnawn ni roi’r byd yn ei le,” awgrymodd Alys gan chwerthin.

Roedd y baned yn dda ar sgwrs yn gyfeillgar a hyfryd.

“Sut wyt ti’n ymdopi wedi colli Twm? Dwi’n clywed dy fod yn dipyn o ffrindiau efo’i frawd o, yr hen lanc. Mae o’n dal i fod yn dipyn o bishyn.”

Roedd Alys ac Ann wedi hen arfer rhannu cyfrinachau ers dyddiau ysgol yn Llanuwchllyn. Am ei bod yn ymddiried yn llwyr yn ei ffrind, dywedodd Ann heb feddwl:

“Paid â dweud gair wrth yr un enaid byw, ond y gwir ydi fod Ned a fi yn mynd i briodi ymhen pythefnos.”

“Gwarchod y byd! Pam cymaint o hast? Wyt ti’n disgwyl dwed?”

“Dwi wedi mynd tua chwech wythnos. Cofia, dim gair wrth neb – ddim wrth yr un enaid byw.”

“Na, ddweda’ i ddim gair. Ti’n gwybod fy mod i’n gallu cadw cyfrinach,” addawodd Alys.

Min nos Sadwrn oedd hi, a phawb yn mwynhau eu swper o gwmpas y bwrdd mawr yn y gegin. Doedd dim llawer o hwyliau ar yr un ohonynt. Dim o'r bwrlwm arferol o bawb yn siarad ar draws ei gilydd. Doedd Jo ddim wedi bod yn fo ei hun ers pan ddaliodd o Ned ac Ann yn caru ar y gwely yn nhŷ Ned. Ar y llaw arall, roedd Olwen wedi maddau i'w mam a'i hewyrth.

“Mae mam yn dal yn ifanc ac yn ddel ac mae dewyrth yn olygus iawn hefyd. Dwi ddim yn synnu eu bod nhw wedi syrthio mewn cariad â'i gilydd.”

“Cariad yn wir! Roeddwn ni'n meddwl ei bod yn caru'n 'Nhad. Sut fedrai rhywun anghofio'i gŵr mor sydyn,” atebodd Jo wedi colli ei amynedd yn lân.

“Dwi'n meddwl ei bod mewn cariad gyda'r ddau, 'Nhad a Dewyrth,” oedd ateb Olwen.

Er hynny, nid oedd caru dau ddyn ddim yn gwneud synnwyr i'r un ohonynt. Eisteddodd Ann yn ei chadair wrth ben y bwrdd. Edrychai yn anghyfforddus ac roedd gwên nerfus yn chwarae ar ei gwefus.

“Ble mae Dewyrth heno?” holodd Jini.

Roedd Jini yn meddwl y byd o Ned ac yn ei ystyried yn ail dad.

“Dwi wedi dweud wrth eich Dewyrth 'mod i eisiau sgwrs breifat gyda chi i gyd,” meddai Ann; aeth yn ei blaen i egluro. “Dach chi'n cofio i Ned a fi ddweud ein bod am briodi rhyw ddiwrnod? Wel, dan ni wedi trefnu i briodi ymhen pythefnos yn y swyddfa yn Llanfyllin. Dan ni ddim eisiau priodas fawr, dim ond seremoni dawl. Dyna pam dan ni ddim am briodi yn y capel,” eglurodd.

Yna, gyda gwên, meddai:

“Dach chi'n gweld, rydan ni'n hoff iawn o'n gilydd. Dan ni'n hapus pan dan ni efo'n gilydd ac mae Ned yn meddwl y byd o bob un ohonoch chi. Mi fydd o'n dod yma i fyw unwaith dan ni wedi priodi.”

Trawodd Jo y bwrdd yn ei dymer:

“Pam y brys, Mam? Ychydig fisoedd mae 'Nhad wedi bod yn ei fedd. Dwi'n credu eich bod wedi ei anghofio fo yn barod.”

“Nac ydw, Jo, dwi'n bendant ddim wedi anghofio eich tad. Fydda' i byth, byth, yn ei anghofio. Fo oedd 'fy enaid hoff cytûn' ac roedd eich tad a fi yn caru'n gilydd yn fawr iawn. Pennod newydd ydi hon i Ned a fi, ac i ni fel teulu. Rhyw ddiwrnod fe wnewch chi ddeall y sefyllfa.”

“Na, fydda'i byth yn deall y sefyllfa,” oedd ateb Jo.

Ac allan â fo i'r ardd gefn gan rwgnach yn fygythiol o dan ei wynt.

*

Daeth cnoc sydyn ar y drws. Roedd hi'n nos Fawrth; noson seiat yn y capel. Roedd Ann a Ned wedi bod yn briod ers mis. Dim ond y ddau ohonynt a dau dyst oedd yn eu priodas yn Swyddfa'r Cofrestrydd ar y bore oer hwnnw ym mis Tachwedd. Wedi iddynt wneud eu haddunedau a thorri eu henwau ar y tystysgrif, heb oedi dim, adref â nhw yn nhrap Elis y Foel. Symudodd Ned i mewn at Ann a'r teulu y diwrnod hwnnw gan gludo ambell ddodrefnyn, megis y cwpwrdd cornel hyfryd roedd ei dad wedi ei weithio o bren hen dderwen a syrthiodd yn ystod storm fawr 1859. Roedd Ann wedi edmygu'r cwpwrdd cornel erioed. Ond yn fwy na dim, roedd hi bob amser wedi edmygu'r llestri hardd oedd ar y silffoedd.

“Ti fydd perchennog y cwpwrdd cornel pan fyddwn ni wedi priodi,” addawodd Ned.

Cadwodd ei addewid, ac roedd Ann wrth ei bodd. Erbyn i Ned gario cynfasau, llestri ac ambell i gadair a chwpwrdd yno, roedd tŷ Ann yn orlawn, ond roedd hi'n falch iawn ohonynt.

“Pwy wyt ti'n meddwl sy' yna?” holodd Ann gan edrych i fyny o'i gwau.

Agorodd Ned y drws yn araf. Pwy oedd yno ond y gweinidog, y Parchedig Samuel Puw.

“Dewch i mewn o'r glaw, Mr Puw. Dan ni'n falch o'ch gweld,” meddai Ned yn serchus gan estyn ei law i'r Parchedig. Ond nid ysgwydodd y gweinidog law Ned. Roedd Puw yn edrych braidd yn gynhyrfus a'i wep blin yn dangos cryn anfodlonrwydd.

Mae o'n edrych fel deryn drycin, meddyliodd Ann.

Roedd o wedi ei wisgo mewn du o'i gorun i'w sawdl. Het bowler ddu gyda'r cantal yn dechrau dangos ei oed am fod awgrym o liw gwyrdd arni. Gladstone cape am ei ysgwyddau, a'i wddw main yn edrych yn anghyfforddus yn ei goler gron oedd yn dechrau melynau gan ei bod yn cael ei gwisgo bob dydd. Ni fyddai Samuel Puw byth yn ei thynnu, ond i fynd i'r gwely, wrth gwrs, er mwyn dangos parch i'w swydd fel Gweinidog yr Efengyl.

“Steddwch. Gymrwch chi baned o de?” cynigiodd Ann.

“Na, dydw i ddim eisiau paned. Wedi dod yma ar fater pwysig iawn yr ydw i heno. Mater sy’ wedi codi yn y seiat, ac mae’r brodyr wedi gofyn i mi ddod ar unwaith i gael gair efo chi.”

Roedd Puw yn amlwg yn teimlo’n annifyr iawn. Cliriodd ei wddw o boer nerfus dychmygol a rhwbiodd ei ddwylo gyda’i gilydd. Aeth yn ei flaen.

“Dwi wedi clywed, a dwi’n gobeithio’n fawr nad ydi o’n wir.....”

Torrodd Ned ar ei draws:

“Dewch ddyn, be dach chi wedi ei glywed?”

Teimlai Ned ei wrychyn yn codi. Beth oedd ar y dyn gwirion?

“Peidiwch â bod mor ddiamynedd, Ned Elis. Mae yna ddau beth sy’n peri gofid mawr i’r brodyr ac i minnau fel eich gweinidog. Y peth cyntaf ydi eich bod chi eich dau wedi priodi yn y dirgel. Y ddau ohonoch yn aelodau o’r capel, a heb ddymuno cael bendith Duw ar eich ymrwymiad.”

Erbyn hyn roedd wyneb Ann yn welw ac roedd hi’n eistedd yn hollol lonydd fel delw farmor ac yn edrych ar Ned. Ar y llaw arall, roedd wyneb Ned fel fflam dân a’i lygaid glas yn fflachio.

Aeth y gweinidog ymlaen i gyhuddo, gan droi at Ned a dweud:

“Dach chi, Ned Elis, wedi priodi gwraig eich brawd. Ydach chi ddim yn gwybod fod y Beibl yn gwahardd hyn? Mae’n dweud yn glir yn yr Hen Destament, yn yr ugeinfed bennod o Lefiticus, adnod 21: ‘Os bydd dyn yn priodi gwraig ei frawd y mae hynny’n aflan; amharchodd ei frawd, a byddant yn ddi-blant.’ ”

Edrychodd Ned ar Ann. Doedd o erioed wedi clywed y fath beth. Roedd y geiriau’n ddieithr iddi hi hefyd. Teimlai faich euogrwydd yn drwm ar ei hysgwyddau a dechreuodd ochneidio a chrïo. Aeth Puw yn ei flaen yn ddirugaredd gan anwybyddu effaith ei eiriau hallt ar Ann a Ned.

“Dwi’n deall, yn groes i’r hyn a ddywed y Llyfr Sanctaidd, eich bod chi, Ann, yn feichiog!”

“Sut gawsoch chi wybod hynny?” gofynnodd Ned yn wyllt ei dymer.

“Ydach chi’n gwadu hyn?” holodd Samuel Puw.

Plygodd Ann ei phen gan godi ei ffedog i guddio ei hwyneb a’i dagrau.

“Nac ydach, mae’n amlwg. Wel, dach chi eich dau wedi pechu yng ngolwg Duw. Dach chi wedi godinebu ac wedi dangos amarch i Twm Elis. Mae’r brodyr o’r farn, felly, y dylech gael eich torri allan o’r seiat ac o’r capel, Ann Elis, hynny yw, nes y byddwch yn dod i’r seiat i gyffesu eich bai ac i edifarhau, wedi i’r babi

gael ei eni.”

Neidiodd Ned ar ei draed. Agorodd y drws led y pen er bod gwynt traed y meirw'n chwythu'n gryf o'r dwyrain.

“Allan â chi, ddyn! Peidiwch byth â mentro dod yn agos at y tŷ yma eto. Galw eich hun yn Weinidog yr Efengyl. Dach chi a brodyr y capel yn warthus. Ni fyddwch byth yn gweld yr un ohonom ni yn eich capel eto. Mi wnawn ni droi at yr eglwys ac yno bydd ein babi bach newydd yn cael ei fedyddio.”

Oedodd Samuel Puw gan daflu golwg fygythiol ar Ann. Yna, trawodd ei bowler yn ôl ar ei ben moel ac meddai:

“Nos Fawrth nesaf, mi fyddai'n eich disgwyl yn y seiat, Ann Elis.”

O glywed hyn, bron i Ned roi dyrnaid iddo ar ei drwyn. Cydiodd yn ei fraich.

“Ydach chi ddim wedi clywed na deall be wnes i ddweud? Fyddwn ni byth yn dod yn agos i'r lle eto. Oes raid i mi eich taflu allan? Ewch o'ma,” meddai'n chwyrn.

Doedd dim cysuro ar Ann. Bu'n torri ei chalon am funudau lawer wedi i Samuel Puw eu gadael.

“Pam rhaid i fy enw i gael ei bardduo? Dan ni'n dau wedi pechu, yn ôl yr hyn y mae o yn ei ddweud. A phwy sy wedi dweud wrtho mod i'n feichiog?”

Roedd Ned yn gandryll. Yn gyntaf, oherwydd yr hyn roedd y gweinidog wedi ei ddweud a'r cyhuddiadau a wnaeth yn eu herbyn. Yn ail, oherwydd ei bod yn amlwg fod rhywun wedi bradychu Ann. Cerddai i fyny ac i lawr y gegin. Dyrnodd y bwrdd a diawliodd y gweinidog.

Yna, safodd o flaen Ann a gofynnodd:

“Rŵan, fy nghariad i, wyt ti wedi sôn wrth unrhyw un o dy ffrindiau dy fod yn feichiog?”

Ysgydodd Ann ei phen:

“Na, fedra' i ddim meddwl mod i wedi dweud gair wrth neb.”

Ond yn sydyn, cofiodd am y sgwrs a'r paned yn nhŷ Alys ei ffrind gorau un. Pan fentrodd grybwyll hyn wrth Ned, dyrnodd y bwrdd nes bod Ann yn neidio.

“Hi sy wedi dy fradychu. Rhag ei chywilydd hi. Mi rof i bryd o dafod iddi pan wela' i hi,” oedd ymateb Ned.

“Paid â dweud dim. Erbyn hyn mae pawb yn y fro yn gwybod am ein cyfrinach. Dwi ddim am fynd yn agos i'r seiat nac am dderbyn y ddedfryd o gael fy nhorri allan”.

Cofleidiodd Ned ei wraig yn dyner a chynnes.

“Fe ddown ni drwy hyn, fy nghariad i,” sibrydodd gan gusanu ei gwallt prydfferth.

*

Ni bu erioed y fath gynulleidfa yn festri'r capel ar gyfer y seiat ag a fu ar nos Fawrth gyntaf mis Rhagfyr. Cododd y Parchedig Samuel Puw ar ei draed i groesawu pawb, ac yna lediodd yr emyn 572, ‘Myfi'r pechadur pennaf fel yr wyf’. Darllenodd ran o'r ugeinfed bennod o Lefiticus gan bwysleisio adnod 21. Yna, wedi gair o weddi a oedd yn erfyn ar i'r Bod Mawr faddau pechodau bob un oedd yn bresennol, dywedodd:

“Dwi wedi dewis emyn 572 ac wedi darllen o'r ugeinfed bennod o Lefiticus yn fwriadol. Dach chi'n gweld, mae yna rai o'n mysg wedi cyflawni pechod mawr. Fel y gŵyr llawer ohonoch erbyn hyn, dwi'n cyfeirio at Ann Elis. Dwi wedi ei gwahodd yma heno i gyfaddef ei phechod ac i edifarhau. Ond fel y gwelwch, does dim sôn amdani. Felly, frodyr a chwiorydd, er iddi gael y cyfle i gyffesu ac i ofyn am faddeuant, dwi wedi ymgynghori â'r brodyr yn y sêd fawr, ac wedi dod i'r casgliad, oherwydd natur ei phechod, bod rhaid ei thorri allan o'r seiat.”

Yn sydyn, fel roedd Samuel Puw ar ganol ei arai, dyma ddrws y festri yn agor. Safodd Ned Elis yn y drws agored, gan adael i wynt y dwyrain lifo i mewn.

“Caewch y drws, ddyn,” gwaeddodd Twm Williams y pen blaenor.

“Na wna' i, wir. Dach chi i gyd yn haeddu rhynnu nes eich bod yn dal y bronceitus. Twyllwyr ydach chi i gyd. Y pen twyllwr yn eich mysg ydi'r gweinidog, Samuel Puw. Pa hawl sy ganddoch chi i bardduo enw da Ann?”

Yna, trodd at Alys oedd yn swatio gan geisio cuddio ei hwyneb, a chan bwyntio ati, meddai'n llym, "Ti, Alys Lloyd, nid yn unig rwyf ti'n rhagrithiol, ond rwyf ti wedi bradychu dy ffrind gorau. Fy ngwraig i, Ann Elis."

Edrychodd ar y gynulleidfa.

"Ydi, mae hi'n disgwyl fy mhlentyn i. Os ydach chi'n galw hynny'n bechod wel, dach chi i gyd yn golledig."

Yna, trodd at y gweinidog, a chan bwyntio bys ato:

"Rwyf ti 'n edrych ar y brycheuyn yn llygad dy frawd heb weld y trawst yn dy lygad dy hun, barchus weinidog."

Edrychodd o'i gwmpas ar y seiadwyr ac aeth yn ei flaen:

"Dach chi'n galw eich hunain yn Gristnogion? Faint ohonoch chi, tybed, sy heb bechu erioed? Dach chi'n cofio'r hanes am Iesu yn dweud wrth ragrithwyr ei ddydd a oedd am labuddio'r ferch a gyhuddwyd o odineb: 'Boed i'r rhai ohonoch sy'n ddi-bechod daflu'r garreg gyntaf'? Pa hawl sy gan unrhyw un ohonoch i gondemnio Ann?"

Gan droi at Samuel Puw, meddai'n wawdlyd:

"Mr Gweinidog, dach chi ddim yn gwybod eich Beibl!"

Wedi iddo gael dweud ei ddweud, aeth Ned allan o'r seiat gan gau drws y festri gyda'r fath glep nes bod yr adeilad yn crynu. Roedd pob un o'r gynulleidfa, gan gynnwys Puw, yn welw ac yn gegrwith. Cododd Twm Williams ar ei draed.

"Dwi'n meddwl, frodyr a chwiorydd, y dylem adael pethau heno a mynd bob un i'w gartref. Rydan ni i gyd wedi cynhyrfu gormod."

Aeth pawb adref gan sibrwd yn isel ymysg ei gilydd. Ond roedd rhaniad pendant ym marn aelodau'r seiat yn y capel bach y noson honno.

*

Am hanner awr wedi pump y bore, ar y trydydd ar hugain o Fawrth, ganwyd Lisa Annie, merch fach Ned ac Ann. Roedd hi'n pwyso saith pwys a hanner. Er y trafferthion a'r anghydfod a oedd wedi bodoli rhwng aelodau teulu Ann, a hefyd yn y gymdogaeth wedi'r helynt yn y seiat, roedd llawenydd mawr pan ddaeth Lisa Annie i'r byd.

Deffrôdd Ann am hanner awr wedi un y bore hwnnw gyda phoen sydyn yn ei bol. Pwniodd Ned i'w ddeffro.

“Dwi wedi dechrau, rhaid mynd i nôl Hen Wraig Eifionydd i fy helpu i yn ystod y geni.”

Neidiodd Ned allan o'r gwely, ei wallt ymhobman a'i grys nos bron o gwmpas ei wddw. Roedd golwg gwyllt arno. Dechreuodd gerdded yn ôl ac ymlaen o gwmpas y llofft.

“Hen Wraig Eifionydd,” gwaeddodd Ann o'i phoen.

“Mi wna i ofyn i Jo. Mae o'n ddigon hen i redeg i dŷ'r hen wraig. Mi wna' i aros yma efo ti a'r plant.”

Am unwaith yn ei fywyd, er bod Jo wedi bod mor annifyr ei agwedd tuag at briodas Ned ac Ann, ac yn fwy annifyr fyth pan ddeallodd fod yna fabi ar y ffordd, roedd hi'n amlwg ei fod yn fwy na pharod i helpu ei fam. I ffwrdd â fo ar unwaith i nôl yr hen wraig. Grwgnach a wnaeth honno o gael ei deffro am ddau y bore. Roedd golwg ryfedd arni pan ddaeth allan o'i bwthyn. Bonet ddu am ei phen, siôl lwyd am ei hysgwyddau a blows a sgert o wllan trwm amdani.

“Dewch, brysiwch, mae Mam mewn poen mawr ac mae'r babi ar ei ffordd,” ymbiliodd Jo.

“Paid â bod mor ddiamynedd. Ddaw'r babi ddim am awr neu ddwy. Mae raid i mi roi fy nannedd i mewn a chael fy mag sbesial wrth law i helpu dy fam,” oedd ei hateb.

Fel roedden nhw'n nesu at gartre Jo, dyma nhw'n clywed Ann yn gweiddi'n uchelmewn poen. Roedd Ned yn eu disgwyl wrth y drws mewn stad o nerfusrwydd llwyr.

“Ewch o'ma Ned Elis. Dan ni'r merchaid ddim eisiau dynion yn eich stad chi o gwmpas y lle. Fe wnawn ni'n iawn, diolch yn fawr.”

Gwthiodd Ned druan o'i ffordd ac aeth yn syth at Ann a oedd erbyn hyn bron ag esgor.

Ymhen rhyw awr, fe glywodd Ned grïo gwan ei blentyn cyntaf. Aeth at ddrws y llofft a gwahoddwyd ef i mewn gan yr hen wraig.

“Dewch i mewn, Ned Elis, dach chi’n dad i ferch fach hardd.”

Ni fyddai Ned byth yn anghofio’r olygfa welodd o y bore hwnnw. Roedd Ann yn eistedd i fyny yn y gwely, ei gwallt hir cyrliog yn damp gan ymdrech yr oriau mân. Roedd gwên hapus ar ei hwyneb ac yn ei breichiau y babi delaf a welodd Ned erioed. Roedd ganddi wallt du ac roedd hi’n edrych yn hynod o glyd ym mreichiau ei mam.

“Dyma ti. Gafael yn dy ferch, Ned. Gawn ni ei galw hi yn Lisa Annie?”

Trosglwyddodd Ann y fechan i freichiau ei thad.

“Mae Lisa Annie yn enw del. Does dim rhyfedd dy fod wedi dioddef o ddŵr poeth pan oeddet yn ei disgwyl o weld yr holl wallt du yma!” atebodd Ned gyda gwên lydan hapus ar ei wyneb.

Pennod 11

Roedd hi'n nos Wener, a Dafydd ar ei ffordd o Gaerdydd i Lerpwl i dreulio'r penwythnos gyda Meira a Wil bach. Er ei fod wedi gofyn i Meira ei briodi, a hithau wedi addo rhoi ystyriaeth ddwys i'w gynnig, wythnos ddigon rhyfedd, lawn amheuan, a gafodd Dafydd. Roedd o a Meira wedi siarad bob dydd ar y ffôn ac ambell waith yn amlach na hynny, ond doedd yr un ohonynt wedi mentro sôn am y cwestiwn mawr. Wrth deithio i fyny i Lerpwl, roedd yr un hen feddyliau negyddol yn mynnu gwthio eu hunain i'w feddwl, er ei fod yn ddigon sicr o'i obeithion ei hun am y dyfodol.

Tybed oedd o'n symud ymlaen yn rhy gyflym? Oedd Meira yn meddwl amdano fel ffrind yn unig yn y bôn? Oedd hi'n dal mewn cariad efo Wil ac yn teimlo rhywfaint o euogrwydd am eu bod wedi ffraeo y bore hwnnw cyn y ddamwain?

Fodd bynnag, er hyn i gyd, siawns nad oedd yr hyn a ddigwyddodd amser geni Wil bach yn ddigon i'w glymu o a Meira gyda'i gilydd. Pan oedd o'n cael ei boeni gan yr amheuan hyn, y peth pennaf yn ei feddwl oedd ei fod yn caru Meira'n gwbl ddiatomodol, a'i fod yn meddwl y byd o Wil bach. Wrth yrru heibio i Groesoswallt y noson honno, penderfynodd na fyddai unrhyw droi'n ôl yn eu perthynas.

Wedi iddo gyrraedd cartref Meira, ac wedi iddi weld ei gar yn gyrru i mewn i'r dreif, agorodd hi'r drws led y pen i'w groesawu. Safai gyda gwên lydan ar ei hwyneb, ac yn ei breichiau roedd Wil bach yn edrych yn glyd a dedwydd, gan ei fod newydd gael ei fwydo.

Bobl! Roedd hi'n hynod o ddel yn ei thiwnic amryliw a'i throwsus gwyn, meddyliodd Dafydd. Sut fyddai o'n gallu troi ei gefn ar ddynes mor hardd?

"Helo cariad, mae Wil bach wedi bod yn edrych ymlaen drwy'r dydd am dy weld," meddai Meira gan estyn ei boch er mwyn i Dafydd ei chusanu.

"Gad dy gelwydd, dwi'n tybied mai mami Wil bach sy wedi bod yn edrych ymlaen am y foment hon," atebodd Dafydd yn bryfoclyd.

Yna, trodd Dafydd i wynebu Meira a'i chusanu ar ei gwefus yn hir. Dilynodd hynny gyda chusan fach ysgafn ar ben Wil bach. Chwarddodd Meira gan gyffesu braidd yn swil ei bod wedi bod yn cyfri'r dyddiau a'r oriau hyd nes y byddai Dafydd yn dychwelyd.

"Dach chi wedi dod i ben heb fy help i felly," meddai Dafydd.

“Do, ond dwi’n meddwl bod Margied yn gwneud gormod o Wil bach. Dwi’n ofni nad ydi o’n gwybod pwy ydi ei fam o,” atebodd Meira.

Eog gyda salad a thatws bach, yn cael eu dilyn efo treiffl mafon cochion oedd i swper y noson honno.

“Sori, ond o’r siop mae’r treiffl, gobeithio ei fod o’n iawn,” eglurodd Meira.

Gorwedddai Wil bach yn ei got symudol ymhen draw’ry stafell fyw, ond am ddeg o’r gloch, dyma waedd. Roedd eisiau ei fwydo eto.

“O diar! Fel hyn mae o, eisiau ei fwydo y munud mae o’n deffro. Wyt ti’n meddwl ei fod o wedi prifio ers yr wythnos ddiwetha?” holodd Meira.

Doedd Dafydd ddim yn gweld cymaint â hynny o wahaniaeth yn y bychan ers y bore Llun cynt, ond i blesio Meira cytunodd ei fod yn tyfu’n gyflym.

Wedi’r bwydo rhoddwyd Wil bach yn y cot yn ystafell Meira. Roedd hi’n ystafell braf gyda digon o le i’r cot yn y pen draw, yn ymyl y cwpwrdd dillad mawr. Cafodd ei haddurno’n ofalus gan Wil tua thair blyned ynghynt: waliau pinc golau, carped trwchus hufennog, llenni a *duvet* patrymog gydag awgrym o binc yn y cefndir; dodrefn gosod lliw hufen yn golygu bod digon o le i gadw dillad. Roedd y gwely yn chwe troedfedd o led ac yn cymryd ei le ynghanol yr ystafell gyda digon o ofod o’i gwmpas.

“Dwi am gael peintiwr i mewn i beintio’r ystafell ganol a’i gwneud yn ystafell wely a meithrinfa i Wil bach,” eglurodd Meira wrth iddynt fynd i fyny’r grisiau.

Roedd Dafydd yn hynod falch o glywed hyn. Teimlai rywsut fod cael trydydd person yn yr ystafell pan fyddai Meira a fo yn caru yn y gwely, braidd yn anghysurus, a dweud y lleiaf. Er, roedd o’n ymwybodol nad oedd gan fabi bach mis oed fawr o syniad yn y byd beth oedd y mynd ymlaen rhyngddynt!

Ddywedodd o yr un gair wrth Meira, ond roedd y newyddion yn dipyn o ryddhad iddo.

Trwy gydol y penwythnos ni fentrodd Dafydd na Meira sôn am y posibilrwydd o briodi, nac am wneud cynlluniau i’r dyfodol. Teimlai Meira y dylai feddwl mwy cyn rhoi ei gair, er yn dawel fach, o fod yng nghwmni Dafydd, ac o’i weld efo Wil bach, roedd hi’n ddigon sicr ei bod am dreulio gweddill ei hoes yn ei gwmi. Roedd y ffaith iddo fod yn bresennol pan ddaeth Wil bach i’r byd wedi eu clymu’n glos iawn i’w gilydd.

Roedd Dafydd ar y llaw arall ofn mentro codi'r cwestiwn rhag i Meira ei wrthod, ac er bod cwestiynau rif y gwllith wedi codi yn ei feddwl yn ystod yr wythnos, o weld Meira a Wil bach eto roedd o'n dawel ei feddwl ac wedi dod i'w benderfyniad.

Roedd Dafydd yn fwy na pharod i dderbyn gwahoddiad Meira i rannu'r gwely mawr efo hi.

“Wyt ti am ddod mewn ataf i heno?” gofynnodd gyda gwên ddeniadol. “Cofia, dim ond cwtsho, fedrwn ni ddim mynd ymhellach ar hyn o bryd.”

Sut allai Dafydd wrthod y fath gynnig? Doedd dim rhaid gofyn ddwywaith. Cofleidio a chusanu am oddetu hanner awr a mwy, hyd nes i Meira ymryddhau o'i freichiau a dweud:

“Dwi isio trafod rhywbeth pwysig iawn efo ti.”

O glywed hyn, cododd gobeithion Dafydd. Ond aeth Meira yn ei blaen:

“Dwi wedi penderfynu cael bedyddio Wil bach yn Llanwddyn oherwydd cysylltiadau teulu a hefyd am mai yno ddaru ni'n dau gyfarfod. Be' wyt ti'n ei feddwl?”

Cytunodd Dafydd fod hynny'n syniad ardderchog a chafodd deimlad braf o feddwl ei fod yn rhan o'r darlun. Penderfynwyd bod Meira'n cysylltu â'r person plwyf i wneud trefniadau ar gyfer bedyddio Wil bach ym mis Mehefin.

Fe gawson nhw benwythnos braf yng nghwmni ei gilydd ac roedden nhw'n hapus yn magu Wil bach. Bore Llun, wedi i Dafydd godi 'cyn cŵn caer' a'i chychwyn hi am Gaerdydd, ffoniodd Meira berson Llanwddyn.

“Pryd da chi am i fedyddio fo?” holodd y person.

“Wel, criw bach fyddwn ni, y fi, Dafydd fy narpar wŕ (synnodd Meira pa mor rwydd oedd ei disgrifiad o Dafydd), fy chwaer, a hefyd ffrind i Dafydd. Maen nhw ill dau yn barod i fod yn rhieni bedydd. Beth am yr ail Sul ym Mehefin?” ychwanegodd.

“Iawn, mae'r dyddiad yn gyfleus. Rydw i'n ei daro i lawr rŵan yn y llyfr bach. Dewch i'r eglwys erbyn dau o'r gloch y prynhawn hwnnw. O, be ydi enw yr un bach?”

“William Geraint,” atebodd Meira gyda balchder.

*

Roedd hi'n un o'r Suliau bendigedig hynny ym mis Mehefin. Edrychai Llyn Efyrynwy fel drych yn adlewyrchu'n berffaith y coed a'r llwyni oedd yn tyfu o'i gwmpas. Wrth edrych ar yr olygfa drwy ffenestr yr ystafell, meddai Meira:

“Drycha Dafydd, dyma olygfa hyfryd; dim awel, ambell i bysgotwr allan ar ganol y llyn ac adlewyrchiad perffaith o'r coed ar wyneb y dŵr. Mae'r tŵr yn debyg i'r rhai sydd i'w gweld yr afon Rhein yn yr Almaen. Ac mae'r haul yn tywynnu mor braf.”

Roedd y noson gynt yn y gwesty wedi bod yn ddymunol iawn hefyd yng nghwmni Margied a Ieuan, cyfaill Dafydd. Gorweddodd Wil bach yn ddedwydd yn ei gadair arbennig wrth y bwrdd. Nid cadair roedd Meira yn ei galw ond 'bwced,' a hynny, yn ei thyb hi, am ei bod yn debyg i fwced efo handlen arno. Roedd yn sobr o gyfleus iddi gludo Wil bach ynddi i bobman.

Cafwyd pryd bwyd arbennig o dda. Cig oen Cymreig a ddewisodd Meira a Margied, ac fe ddewisodd y ddau ddyn steesen bob un.

“Pam mae dynion bob amser yn glafoerio uwchben glamp o steesen?” holodd Margied. “Mi fyddan yn siŵr o ddiode diffyg traul yn yr oriau mân.”

“Mwy na thebyg mai chwyrnu dros y lle fydd y rhai dwi'n eu nabod, ar ôl steesen a gwin,” meddai Meira gan roi pwriad chwareus i Dafydd.

Bu'n noson hwyliog. Tueddu i chwerthin yn uchel a wnâi Margied wedi iddi yfed glasied neu ddau o win, ac roedd Ieuan wrth ei fodd yn adrodd storïau digrif a digon amheus ar adegau. Fel yr aeth y noson ymlaen, roedd storïau Ieuan yn gwaethygu a Margied yn rhowlio chwerthin bob tro.

Tua hanner awr wedi deg, cododd Dafydd oddi wrth y bwrdd a dweud:

“Gwell i ni fynd i glwydo. Mae hi'n amser rhoi Wil bach yn ei wely. Be wyt ti'n feddwl, Meira?”

Cytunodd Meira a gafaelodd yn handlen 'bwced' Wil bach a chychwyn am y grisiau.

“The night is young! Be sy' arnat ti? Dwyt ti ddim mor eiddgar i fynd i dy wely fel arfer,” meddai Ieuan wrth Dafydd, gan roi chwincied slei i Margied.

“Wel, mae pethau wedi newid yn fy hanes i bellach. Arhoswch chi'ch dau i chwerthin a mwynhau mwy o storïau amheus Ieuan,” meddai Dafydd yn benderfynol.

“Wyt ti'n meddwl fod y ddau yna wedi clicio?” gofynnodd Meira, wrth iddi hi a Dafydd ddringo'r grisiau i'w hystafell.

“Na, fe fydd o’n prynu wisgi iddi cyn diwedd y noson. Ond diod a storïau amheus ydi’i bethau o. Hen lanc go iawn ydi Ieuan yn y bôn. Fyddai o ddim yn gwybod beth i’w wneud efo merch yn y gwely,” atebodd Dafydd gan chwerthin.

Bu caru dwys a thyner rhwng Meira a Dafydd y noson honno. Roedd y ddau erbyn hyn yn golygu cymaint i’w gilydd. Aethant i gysgu’n drwm ym mreichiau ei gilydd, nes i Wil bach eu deffro am hanner awr wedi chwech y bore wedyn.

Cododd Meira i’w fwydo ac i newid ei gewyn, yna wedi iddo setlo, aeth yn ôl i’r gwely. Yn y cyfamser, roedd Dafydd wedi gwneud paned o de iddynt ill dau.

Roeddent yn eistedd i fyny yn y gwely yn sipian eu te ac yn mwynhau’r olygfa hyfryd drwy’r ffenestr. Cofiodd Meira iddi gael breuddwyd ryfedd yn ystod y nos. Gwelai Wil, ei gŵr, yn sefyll wrth erchwyn y gwely. Yna, aeth draw at got Wil bach gan blygu drosto a gwenu. Yn y freuddwyd, roedd Wil wedi troi at Meira a dweud:

“Meira, dwi’n iawn, dos di ymlaen efo dy fywyd dy hun, er mwyn y bychan yma.”

Fe setlodd y freuddwyd bopeth ym meddwl Meira. Wrth eistedd yn y gwely y bore hwnnw yn Llanwddyn, trodd at Dafydd a dweud:

“Ti’n cofio i ti ofyn i mi dy briodi di rai wythnosau’n ôl? Wel, dwi’n barod i roi ateb i ti rŵan. Mi fyddwn i wrth fy modd dy briodi ac fe fyddwn yn hoffi gwneud hynny yn yr eglwys fach yma yn Llanwddyn. Mae’r lle ei hun mor sbesial i ni. Felly, ga’ i ofyn i’r person, ar ôl bedydd Wil bach, wnaiff o’n priodi ni ar y dydd Sadwrn cyntaf ym mis Awst? Beth am i ni wedyn gael parti bach i’n ffrindiau a’n perthnasau agosaf yma yn y gwesty ar ôl y seremoni?”

Roedd Dafydd ar ben ei ddigon. Trawodd y cwpan oedd yn hanner llawn o de ar y bwrdd bach yn ymyl y gwely. Trodd at Meira ac meddai gyda dagrau o lawenydd yn ei lygaid:

“Fy nghariad bach i, dyna’r newyddion gorau dwi wedi ei glywed erioed. Brysied y dydd.”

Dros frecwast dyma rannu’r newyddion gyda Margied ac Ieuan.

“Dan ni’n cynllunio i briodi yma yn Llanwddyn yn yr eglwys, gan obeithio y bydd popeth yn gyfleus i’r person, ar y Sadwrn cyntaf ym mis Awst,” meddai Meira’n eiddgar.

“Wel, llongyfarchiadau! Newyddion ardderchog,” oedd ymateb Ieuan.

“Ie, ardderchog yn wir! Ond dwi ddim yn siŵr ’mod i eisiau llusgo yma eto i ben draw’r byd a chael noson arall fel neithiwr. Mae gen i andros o gur yn fy mhen,” grwgnachodd Margied, gan gilwenu.

“Mae hi’n gwybod yn iawn sut i daflu dŵr oer ar bethau. Fel yna y buodd hi erioed,” cwynodd Meira wrth i Dafydd, Wil bach a hi fynd am dro yn y car o amgylch y llyn ar ôl brechwast.

“Cariad, be ydi’r ots amdani? Dan ni’n tri yn ogoneddus o hapus. Felly, dwbl wfft i bawb. Mae’n hyfryd o braf heddiw ac mae hi’n ddiwrnod arbennig i Wil bach,” oedd ymateb Dafydd.

Roedd y ddau arall wedi aros yn y gwesty, un i nyrsio’i phen a chymryd *paracetamol*, a’r llall i ddarllen y papurau Sul.

Wrth aros ar gyfer yr hen bentref, dyma godi Wil bach o’i ‘fwced’ a’i gario i lan y llyn. Safodd Meira a Dafydd yn dawel a syn wrth yr union fan lle y buon nhw’n gwasgaru llwch Wil. Dafydd oedd â Wil bach yn ei freichiau. Syllodd y ddau ymhell i ganol y llyn.

“Dyna lle’r oedden nhw’n byw. Draw fan acw. Dyna lle’r oedd Fishing Street. Dwi’n mynd i wneud yn hollol sicr fod Wil bach yn dod i wybod am yr hyn a ddigwyddodd yma,” meddai Meira. Yna, ychwanegodd gan wenu ar Dafydd a Wil bach, “Dwi’n hollol sicr rŵan fod Wil yn hapus i ni’n dau briodi. Chi ydi’r hogiau pwysicaf yn fy mywyd i.”

Ni fentrodd sôn am y freuddwyd a gafodd y noson gynt, rhag ofn i Dafydd feddwl ei bod wedi bod yn disgwyl am arwydd cyn mentro addo ei briodi.

*

“William Geraint Owen, rwyf yn dy fedyddio di yn enw’r Tad a’r Mab a’r Ysbryd Glân.”

Wrth i’r diferion dŵr ddisgyn ar ei dalcen, dechreuodd Wil bach grïo ac am rai eiliadau doedd dim cysuro arno. Eto, roedd yna awyrgylch hyfryd yn yr eglwys fach ar ben y bryn.

Safodd y pedwar o amgylch y fedyddfaen gan blygu pen mewn gweddi. Roedd meddwl Meira fodd bynnag, ar Wil, ei gŵr annwyl a’i gyn-dadau. Roedd hi mor falch ei bod wedi dewis bedyddio Wil bach yn Llanwddyn, ac er ei bod yn meddwl y byd o Dafydd, roedd gofid lond ei chalon oherwydd nad oedd Wil yn

gwybod dim am ddyfodiad Wil bach, a hefyd ei bod hi a Wil wedi cweryla y bore y cafodd ei ladd. Roedd hynny'n dal i bwysu'n drwm ar ei chydwybod.

Wedi'r gwasanaeth bedydd ysgydwodd y person law efo Meira a Dafydd gan ddweud fod gan Wil bach lais cryf ac ysgyfaint hynod o iach.

“Dwi isio gofyn ffafr. A fydddech chi cystal â phriodi Dafydd a mi yma yn yr eglwys ar y dydd Sadwrn cyntaf ym mis Awst?” gofynnodd Meira braidd yn swil wrth y person.

Yn y fan a'r lle cytunwyd ar y dyddiad a'r amser, ac yna aeth y cwmni bach i'r fynwent a oedd gyferbyn â'r eglwys i weld beddau rhai o gyn-dadau Wil bach. Treuliwyd hanner awr dda yn edrych o amgylch y fynwent.

“Maen nhw i gyd yma: Twm, Elis bach ac Ann Elis wedi eu claddu gyda'i gilydd, a Ned yn y bedd agosaf atyn nhw. Ac mae rhai o'u plant yma hefyd. Roedd Ann wedi dweud ers blynyddoedd mai efo Twm yr oedd hi i gael ei chladdu er iddi fod yn briod â Ned am bymtheg mlynedd,” meddai Meira.

Wrth weld enw Elis bach - a fu farw pan nad oedd ond ychydig wythnosau oed - wedi ei naddu ar fedd Twm ac Ann, aeth ias rhyfedd i lawr ei hasgwrn cefn: ‘hanes yn ei ail adrodd ei hun’, meddylodd.

Wrth deithio'n ôl i Lerpwl, bu Meira a Dafydd yn cynllunio eu diwrnod priodas.

“Dwi isio iddo fod yn ddiwrnod sbesial. Seremoni briodas dawel ac wedyn parti preifat yng ngwesty Llanwddyn i berthnasau a ffrindiau agos,” meddai Meira.

“Iawn, dwi'n hapus efo hynny, ond mae gen i rywbeth i'w ddweud. Dwi wedi gweld hysbyseb yn y *Cymro* am swydd ym Mhrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam. Meddwl y y gwna' i roi mewn amdani,” meddai Dafydd.

“Ardderchog, mi fyddai Wrecsam yn llawer iawn nes na Chaerdydd,” cytunodd Meira.

Yna, ychwanegodd:

“Mi rydw i am ddychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd fy nghyfnod mamolaeth a chael nani, a honno'n Gymraes, i warchod Wil bach. Ymhen amser, daw swydd i fy siwtio yng ngogledd Cymru, mi rof i mewn amdani. Mae Cymru'n galw rŵan. Mi fydd eisiau i Wil bach gael addysg Gymraeg.”

“Rhaid i ni gynllunio'n fanwl. Os ydan ni'n tri gyda'n gilydd, mi fyddwn ni'n iawn,” meddai Dafydd, gan lywio'r car yn ofalus i mewn i ddreif Meira.

* * *

“Mae gen i rywbeth i’w ddweud fydd yn rhoi braw a syndod i bob un ohonoch,” meddai Jo un nos Sadwrn pan oedd Lisa Annie tua mis oed.

Roedd y teulu i gyd yn eistedd o amgylch y bwrdd yn y gegin yn mwynhau eu swper o bastai cwningen. Edrychodd Ann i fyny yn bryderus.

“Tyrd, dwed nawr be sy ar dy feddwl di,” oedd ei hymateb, gan ofni fod rhyw ddrwg yn y caws.

“Tua mis yn ôl mi ddois i ar draws llythyr o gydymdeimlad i chi, Mam, oddi wrth Dewyrth Dei o’r America. Edrych roeddwn i yn y cwpwrdd cornel acw am bapur sgwennu, i mi gael anfon gair at fy ffrind, Gron Jones, sy’n byw yng Nghroesoswallt. Dach chi’n cofio ei deulu ers talwm yn byw yn y bwthyn bach yna yn ymyl Glyndu?”

“Doedd gen ti ddim hawl i ddarllen fy llythyrau i,” torrodd Ann ar ei draws.

“Roedd gen i bob hawl, oherwydd y cyfeiriad ar yr amlen oedd ‘Mrs Ann Elis a’r Teulu’”, atebodd Jo a’i wrychyn wedi codi.

Aeth yn ei flaen:

“Dwi wedi bod yn anhapus iawn ers i Nhad gael ei ladd. Yna chi, Mam, yn colli’r babi ac yn priodi Dewyrth Ned. Yn ogystal â hyn, rydw i’n anhapus iawn efo ymateb pobl y pentre yma i’r ffaith fod Lerpwl am foddi ein dyffryn hardd. Does neb efo digon o asgwrn cefn i godi stŵr.”

Wrth ddweud hyn, edrychodd trwy gil ei lygaid ar Ned a oedd yn syllu arno’n syn heb symud amrant.

“Dach chi’n gweld, Mam, dwi’n methu deall pam dach chi wedi priodi Dewyrth. Mae hi’n sefyllfa na fedra’ i mo’i derbyn, a hynny mor fuan wedi i Nhad fynd.”

Trodd at Ned, gan edrych i fyw ei lygaid:

“Peidiwch â fy nghamddeall i, Dewyrth, dwi’n meddwl y byd ohonoch fel ewythr ac fel ffrind. Pan ddaru chi briodi Mam fe ddigwyddodd rhywbeth i mi. Roeddwn ni’n teimlo eich bod wedi amharchu Nhad.”

Eglurodd wedyn:

“Mi wnes i sgwennu cyfeiriad Dewyrth Dei i lawr a phenderfynu anfon ato i holi os oedd yna waith i bobl fel fi yn y Merica, a gofynnais iddo sgwennu’n ôl i

gyfeiriad Gron. Fe gefais ateb ddechrau'r wythnos yma yn dweud bod yna ddigon o waith i bobl ifanc yn ardal dinas Minneapolis yng ngogledd America. Dyna lle mae Dei a'i deulu'n byw. Mae ei wraig, Siân, yn dweud bod digon o le i mi aros yn eu cartref nhw sy'n glamp o dŷ. Maen nhw'n dweud y byddai croeso mawr yn fy nisgwyl i. Felly, dwi am ei mentro hi, a mynd draw yno mor fuan ag sy bosib."

Doedd neb yn gallu dweud gair. Edrychai Ann fel pe bai wedi gweld drychiolaeth, ei cheg fel bricsen o sych, ac nid oedd yn gallu symud o'i chadair. Roedd gweddill y teulu wedi stiffio gan fraw a syndod, ac roedd Ned yn welw a'i wefusau main yn llinyn tyn. Methai'n lân ag yngan gair.

"Wel, deudwch rywbeth. Nid y fi ydi'r cyntaf o'r teulu i fentro i'r Merica fawr. Fe aeth Dewyrth Dei yno ddeugain mlynedd yn ôl, a dwi'n siŵr nad y fi fydd yr olaf, chwaith," oedd ymateb Jo i'r distawrwydd llethol.

Yr unig sŵn i darfu ar y tawelwch oedd ochneidio a chrïo Ann, Jini a Meri. Pwysodd Ann ei phen ar ei dwy fraich ar fwrdd y gegin. Aeth y dagrau tawel yn wylo uchel. Cododd y gweddill o'r teulu oddi wrth y bwrdd, a dringo'r grisiau yn araf bach. Yr unig rai oedd ar ôl o amgylch bwrdd y gegin oedd Jo, Ann a Ned.

Syllodd Ned a Jo ar ei gilydd, ac o'r diwedd meddai Ned:

"Drycha be wyt ti wedi ei wneud i dy Fam. Ddaw hi byth dros hyn. Ti ydi ei mab hynaf hi. Roeddwn i'n arfer meddwl dy fod ti'n hen gog clên. Os ei di i'r Merica hwyrach na welwch chi byth mo'ch gilydd eto. Fyddai waeth iti fod wedi marw ddim."

Gwyltiodd Jo, a chan sefyll uwchben Ned yn fygythiol, meddai:

"Dewyrth, chi sy wedi gwneud hyn i Mam. Ei charu hi ar y slei heb iddi hi na Nhad wybod. Dach chi wedi gwneud hyn i'ch brawd eich hun! Chi sy wedi cynhyrfu'r dyfroedd!"

Ac wedi dweud hynny aeth tua'r grisiau. Yna trodd, a chyda phenderfyniad yn ei lais, dywedodd:

"Dydi ots yn y byd be fydd neb yn ei ddweud. Dwi'n mynd i'r Merica o'r hen le yma, a hynny am byth!

Roedd Ann wedi ei chlwyfo'n arw iawn. Methodd gysgu winc y noson honno, dim ond crïo ac ochneidio.

"Wna i byth ei weld o eto, mae hynny'n ddigon siŵr. Beth pe bae yna storm ar y môr a'r llong yn suddo a fynte'n boddi? Dyma ddiwedd popeth. Twm yn cael ei

ladd, Elis bach yn marw cyn iddo gael siawns i fyw, a rŵan Jo yn mynd gannoedd ar filoedd o filltiroedd i ffwrdd a'r bobl Lerpwl yna'n mynd i foddi'r dyffryn yma!"

Doedd dim cysuro arni, ond roedd gwaeth i ddod - llawer gwaeth!

*

Aeth y gair am yr epidemig drwy'r pentref fel tân gwyllt. Roedd yna blant yn marw. Roedd ofn a dychryn ar bawb. Aeth pethau mor ddrwg nes i Gorfforaeth Lerpwl adeiladu Cwt fel rhyw fath o ysbyty pren ymhen draw'r dyffryn, er mwyn gwahanu'r cleifion oddi wrth eu teuluoedd.

"We must isolate these children. They must be taken from their families as soon as possible, that is, as soon as they develop the symptoms of diphtheria," awgrymodd y meddyg a oedd wedi teithio o Lerpwl i roi cyngor i'r rhai a oedd yn byw yn yr ardal.

Doedd Ann fawr callach am yr hyn a elwid yn diphtheria. Doedd hi erioed wedi clywed amdano. Yn ystod y gaeaf, cafodd hi yr annwyd mwyaf annifyr, fel sawl un arall yn y cwm, ac fe drodd hwnnw'n fronceitus. Yr oerfel a'r lleithder ym mhen ucha'r cwm oedd yn cael y bai am yr annwyd a hefyd am y ffaith fod cymaint o drigolion Llanwddyn yn dioddef o'r crydcymalau a stumog ddrwg.

Bu galw mawr am wasanaeth Hen Wraig Eifionydd yn ystod y gaeaf hwnnw, a phan fu rhaid iddi ymweld ag Ann tua chanol mis Ionawr, ei chyngor oedd am iddi aros yn gynnes gan fod y gwynt o'r dwyrain, a bod gwraig Llechwedd Ddu wedi marw rhyw fis ynghynt o gasgliad ar ei brest a oedd wedi troi'n niwmonia!

"Fedra i ddim peidio â rhedeg yn ôl ac ymlaen i'r cefn yna," cwynodd Ned ddechrau mis Chwefror.

"Wel, mi gymrais i ffishig yr Hen Wraig pan ges i'r bronceitus y mis diwethaf, a dwi'n falch o ddweud fy mod i'n well. Dos am dro i'w gweld hi y pnawn 'ma, a gofyn am botelaid," awgrymodd Ann.

"Fedra i ddim cyrraedd tŷ'r Hen Wraig fel dwi'n teimlo rŵan, rhaid i un o'r plant fynd i holi yn fy lle," atebodd Ned yn llawn hunan dosturi.

"Dwn ni ddim be' sy' ar bawb, dolur rhydd, bronceitus, crydcymalau. Mae pawb yn afiach yn y lle yma," meddai'r Hen Wraig, pan aeth Olwen at ei drws i holi am botelaid i Ned i wella'i anhwylder. Estynnodd yr hen Wraig am botelaid o'r

gymysgedd fwyaf hyll yr olwg oddi ar silff yn y pantri. Yno roedd hi'n cadw sawl potel o ffisig ac eli yn barod ar gyfer amrywiol anhwylderau'r pentrefwyr.

“Mae yna goesgoch yn hwn. Y peth gorau un ar gyfer stumog ddrwg. Mi fydd o fel newydd ymhen deuddydd,” oedd ei chyngor.

“Be ar wyneb y ddaear ydi hwn? Fedra' i ddim cymryd hwn,” protestiodd Ned.

“Wedi i Olwen fynd yr holl ffordd i'w nôl, mi wna' i'n siŵr dy fod ti'n ei gymryd o. Y botel gyfan!” gorchmynnodd Ann. A'i gymryd o fu raid, gyda Ned yn tynnu wynebaw difrifol ac yn holi'n syth am lwmp o daffi trïag Ann i dynnu'r blas drwg o'i geg. Y rhyfeddod oedd ei fod, fel y proffwydodd yr Hen Wraig, wedi gwella'n llwyr ymhen deuddydd.

Ond tynged llawer gwaeth oedd yn disgwyl Tomos bach. Daeth adref un prynhawn Sadwrn wedi bod yn chwarae 'hela llwynog' yn y goedwig gyfagos gyda nifer o'i ffrindiau, gan gwyno ei fod yn teimlo'n sâl, yn sâl iawn.

“Be sy arnat ti?” holodd Ann yn bryderus.

“Dwi wedi blino, ac mae gen i ddolur gwddw a dwi'n methu llyncu'n iawn. Dwi'n rhyngu o oer,” atebodd Tomos gan led orwedd ar y setl.

“Wel, wrth gwrs dy fod ti wedi blino os wyt ti wedi bod yn chwarae hela yn y coed trwy'r bore. Dydi o'n syndod yn y byd gen i dy fod ti'n oer, chwaith. Mae dy ddillad di'n wlyb am dy fod ti wedi bachu yn y brigau isel yna wrth redeg yn ôl ac ymlaen,” meddai Ann.

“Ond Mam, dwi isio mynd i'r gwely, dwi wedi blino'n ofnadwy.”

“Wel, cymer ddiod cynnes a golcha dy wyneb a dy ddwylo. Gad i mi gael y dillad gwlyb yna,” oedd ateb Ann.

Gwrthod y diod cynnes gan ddweud nad oedd o'n gallu llyncu a wnaeth Tomos. Llusgodd ei hun i fyny i'r ystafell wely gan orwedd ar ben y dillad. Roedd hyn yn annhebyg iawn iddo fo, ac aeth Ann i fyny ar ei ôl. Cyffyrddodd yn ei dalcen. Roedd ganddo wres! Ceisiodd ei wneud mor gyfforddus â phosib gan ei helpu i mewn i'w grys nos.

Wedi berwi'r tegell mawr haearn aeth â jâr bridd yn llawn o ddŵr cynnes a'i tharo o dan y gyfnas i gynhesu ei draed.

“Trïa gysgu, 'mach i, mi deimli yn well ar ôl ychydig o gwsg. Wedi cael oerfel rwy'ti yn yr hen goedwig yna,” cysurodd Ann ei mab, gan gau drws yr ystafell yn dawel.

Ond doedd Tomos ddim yn well wedi iddo gael ychydig o gwsg. Roedd o'n teimlo'n waeth. Bu Ann a Ned ar eu traed y rhan fwyaf o'r nos. Crïo oedd o am nad oedd o'n gallu llyncu na siarad yn iawn oherwydd y dolur yn ei wddw. Roedd o hefyd yn crynu gan yr iasau oer trwy ei gorff, ac erbyn y bore roedd Ann yn sicr fod ei wyneb wedi chwyddo.

“Clwy'r pennau sy arno fo. Gwell iti ofyn i'r Hen Wraig ddod draw i gael golwg ar yr hen gog,” awgrymodd Ned.

Aeth Bob draw ar ei union i gael gair efo'r Hen Wraig a gofyn a fyddai hi cystal â dod i olwg Tomos. “Mae Ned yn meddwl mai clwy'r pennau sy arno fo, ond dwi'n siŵr eich bod chi yn gwybod mwy am y pethau yma na Ned,” awgrymodd Bob.

“O! mae Ned yn ddoctor rŵan ydi o. Rwyt ti'n iawn, dwi yn gwybod mwy o lawer na fo am y pethau yma,” atebodd yr Hen Wraig gan rwgnach.

Pan gyrrhaeddodd y tŷ aeth yn syth i fyny i weld y claf.

“Na, nid clwy'r pennau sy arno fo, dwi'n meddwl ei fod o'n dioddef o'r diphtheria. Mae plant y fro yma'n dioddef oddi wrtho ac mae rhai mor wael nes bod raid iddyn nhw fynd i'r ysbyty pren, yn ddigon pell oddi wrth eu teuluoedd. Y bobl Lerpwl yna sy wedi adeiladu'r ysbyty ac mae yna rai yno, medden nhw, yn edrych ar ôl y cleifion,” meddai'r yr Hen Wraig yn llawn gwybodaeth.

“Diphtheria! Dwi erioed wedi clywed am y fath beth. Ydach chi'n meddwl mai'r pethau Lerpwl yna sydd wedi dod â fo i'r dyffryn yma?” holodd Ned.

“Pwy a wŷr,” atebodd yr Hen Wraig yn bwysig. Yna ychwanegodd: “Mi ro' i ffisig fydd yn cynnwys cwmffri iddo fo. Fe fydd hwnnw yn help i dynnu'r gwres i lawr.”

Aeth ar ei hunion i'w hen fag o groen gafr gan dynnu potelaid o foddion erchyll yr olwg allan a'i roi i Ann.

“Llond llwy bwdin bob tair awr. Mi ddo' i draw fory i gael golwg arno.”

Ac allan â hi, gan adael y teulu yn dal i ryfeddu at yr hyn oedd ganddi i'w ddweud.

“Un glyfar ydi'r Hen Wraig, rhaid i mi ddweud. Mae hi'n gwybod ei phethau, ydi'n wir,” meddai Ned, gan ysgwyd ei ben yn ddoeth.

Ond gwaethygu a wnaeth cyflwr Tomos bach. Daeth yr Hen Wraig draw i'w weld bob dydd am bedwar diwrnod. Roedd y claf yn rhy wael i lyncu ffisig ac er iddynt geisio cael y gwres i lawr trwy roi gwlanen wlyb ar ei dalcen, doedd dim arwyddion o wella i'w gweld. Ceisiwyd hefyd roi te lafant iddo i helpu'r anadlu, ond

dim ond gwlychu ei wefusau a wnaeth Ann oherwydd fod ei wddw wedi chwyddo cymaint. Fel yr aeth yr oriau ymlaen nid oedd Tomos yn gallu siarad oherwydd y chwydd yn ei geg. Gorweddai ar ei wely bach gyda dagrau tawel yn powlio i lawr ei fochau. Ar y pedwerydd diwrnod deallwyd ei fod yn rhy wael i ddeall unrhyw gyfarwyddiadau.

“Da ni wedi gwneud ein gorau, gwell i chi alw’r meddyg o Lanfyllin,” cynghorodd yr Hen Wraig.

Anfonwyd neges frys efo Wil y Carter a oedd yn digwydd mynd i Lanfyllin i’r farchnad y diwrnod hwnnw.

“Dwed wrtho fod Tomos yn wael iawn a bod rhaid iddo ddod i’w weld gynted â phosib,” plediodd Ned.

“Dwi ofn i’r meddyg ei anfon i’r ysbyty pren yna. Dwi isio iddo fod yma efo ni,” meddai Ann yn ofidus.

Tua dau o’r gloch y prynhawn gwaethygodd Tomos. Gorweddai yno ar ei wely plu, ei galon yn curo’n gyflym a’i anadl yn fyr. Roedd chwys oer yn rhedeg i lawr ei dalcen. Roedd Ned yn slwbran cysgu yn y gadair siglo ym mhen draw’r ystafell pan glywodd Ann yn sgrechian dros y lle.

“Mae o wedi mynd! Dydi o ddim yn anadlu rŵan!”

Neidiodd Ned ar ei draed.

“Mynd? Mynd i le?”

Gyda’i phen ar ei braich ac yn gafael yn llaw lipa Tomos, sibrydodd Ann:

“Mae o wedi’n gadael ni. Mae o wedi marw, Ned!”

Ar y gair fe glywyd cnoc ar y drws a cherddodd y meddyg i mewn, gan frasgamu i fyny’r grisiau pren. Wrth iddo gerdded i mewn i’r llofft fach, deallodd yn syth beth oedd wedi digwydd.

“Dach chi’n rhy hwyr, Doctor, mae o wedi mynd,” meddai Ned.

Croesodd y meddyg at Tomos bach. Yn dyner, rhyddhaodd ei law o afael Ann.

“Rhaid imi wneud yn siŵr o hyn,” a theimlodd am byls.

Nodiodd ei ben:

“Ydi, yn anffodus mae o wedi colli’r dydd. Mae’r hen afiechyd yma yn mynd fel tân gwyllt drwy bobman. Byddwch chi’n ofalus rŵan. Pawb i garglo efo dŵr cynnes a halen dair gwaith bob dydd, ac os bydd un ohonoch yn dechrau teimlo’n sâl anfonwch yn syth amdanaf i.”

“Mae’r Hen Wraig wedi trio’i wella fo,” meddai Olwen a oedd newydd gerdded i mewn i’r ystafell.

“Hen Wraig yn wir! Hen wrach ydi honno,” oedd ateb y meddyg wrth iddo fynd i lawr y grisiau pren yn araf.

Roedd byd Ann yn deilchion! Pa ddigwyddiad torcalonnus arall a oedd yn mynd i ddigwydd yn ei bywyd? Twm, Elis bach a rŵan Tomos, i gyd wedi marw!

“Mae pawb o fy nheulu i’n marw ar draws ei gilydd. Be wnawn ni Ned?” holodd trwy ei dagrau.

Fel ymgymwrwr y pentref, roedd hi bron yn amhosib i Ned weithio arch i’r trydydd aelod o’r teulu, a bu raid iddo ofyn i John Huws, ei gydweithiwr, orffen y gwaith. Doedd o ddim yn gallu canolbwyntio trwy ei ddagrau. Roedd gweddill y teulu hefyd yn byw mewn gofid dros golli Tomos bach ac yn ofni pwy fyddai’r nesaf i ddal y clefyd.

Dioddefodd Jo nosweithiau o hunllefau erchyll. Roedd marwolaeth ei frawd bach wedi chwarae’n drwm ar ei feddwl. Ac er iddo gael ei dentio i beidio â mynd draw i America oherwydd y sefyllfa gartref, penderfynu mynd draw i Lanfyllin a wnaeth o, i weld yr asiant, er mwyn cael gwybodaeth am longau yn teithio o Lerpwl draw i’r byd newydd.

“Rhaid imi fynd o’r twll lle yma. Mae pobl a phlant yn marw, ac mi fydd y dyffryn yma wedi marw hefyd pan fydd pobl Lerpwl wedi ei foddi,” meddai wrtho’i hun.

*

“Mi ga’ i air efo’r person. Dan ni ddim am gael gwasanaeth yn y capel wedi i’r gweinidog a’r blaenoriaid dy drin di fel y gwnaethon nhw, Ann fach. Galw eu hunain yn Gristnogion, wir. Awn ni byth yn agos i’r lle eto,” dwrdiodd Ned yn llawn dicter.

Ni fu erioed y fath ‘gligeth’. Llanwyd yr eglwys fach newydd ar y bryn gan deulu a ffrindiau. Doedd neb wedi eu claddu yn yr Hen Lan ers 1880 a bu raid symud y cyrff o’r hen fynwent i’r fynwent newydd oherwydd fod pobl Lerpwl yn credu, o’u gadael yno, y byddai’r dŵr yn cael ei wenwyno. Ned druan, oedd wedi gorfod ymgymryd â’r gwaith o wneud yr eirch newydd ar gyfer gweddillion y rhai a gafodd eu symud. Cafodd sawl hunllef wrth wneud y gwaith hwnnw, ac amharod iawn oedd o i sôn am y profiad erchyll.

Angladd Tomos bach oedd y chweched i'w gynnal yn yr eglwys ers pan ddaeth y diphtheria i'r fro yn 1886. Pob un ohonynt yn blant ifanc. Pan roddwyd ei gorff i orffwys yn yr un bedd â'i Dad a'i frawd bach, ni allai Ann golli deigryn. Roedd y ffynnon wedi sychu.

Syllodd yn hir i mewn i'r bedd. Roedd ei llygaid yn fawr, ei cheg yn sych a'i hwyneb tlws yn wyn fel y galchen. Sylwodd sawl un nad oedd hi'n crïo ond ei bod yn syllu a syllu ac yn siglo'n annaturiol yn ôl ac ymlaen gan afael yn dynn ym mraich Ned a chan sibrawd rhywbeth annealladwy.

“Welest ti Ann? Beth oedd arni, dwed?” holodd Bet Nantcoedwr.

“Sioc, siŵr, mae o'n gallu gwneud pethau rhyfedd i feddyliau pobl,” atebodd Sera Jên ei ffrind.

*

Erbyn y flwyddyn 1888 roedd Jo wedi gwneud ei benderfyniad ac wedi casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer mudo i'r America. Un bore Sul, meddai wrth Ned:

“Dwi am fynd i'r Merica a does neb yn mynd fy rhwystro i.”

“Be? Wyt ti wir am fynd ar ôl yr hyn sy wedi digwydd?” holodd Ned gydag anghrediniaeth yn ei wyneb. “Rwyd ti yn sobr o hunanol. Meddwl oeddwn ni y byddet ti wedi ystyried teimladau dy fam.”

Bu dadlau a ffraeo mawr rhwng y ddau. Roedd hi mor ddrwg ar adaegau nes i Ned gychwyn aros yn hwyr yn y gweithdy, a dim ond dod yn ôl am brydau bwyd, yna'n ôl i'r gwaith neu'n syth i'w wely. Roedd Jo yn teimlo ei fod wedi ystyried teimladau ei fam a gweddill y teulu wedi marwolaeth Tomos bach bron i dwy flynedd ynghynt. Roedd o wedi oedi digon. Roedd hi'n amser mynd a chychwyn ar ei fywyd newydd.

Roedd hi'n fore oer a rhewllyd ym mis Chwefror. Deffrôdd Ann yn sydyn. Eisteddodd i fyny yn y gwely. Yn bendant roedd rhywun yn symud o amgylch y tŷ yn llechwraidd.

“Ned, Ned, deffra mae un o'r plant ar eu traed.”

“Paid â bod yn wirion. Dwi'n clywed dim. Dos yn ôl i gysgu,” meddai hwnnw'n swrth.

Ar y gair, dyma ddrws yr ystafell wely'n agor yn araf. Jo oedd yno, wedi gwisgo ei gôt ucha, cap a myfflar. Roedd o'n cydio mewn hen fag lledr yn ei law chwith.

“Mam, Ned, dwi'n mynd rŵan. Dwi ddim isio ffys a ffwdan. Dwi ar fy ffordd i Lerpwl. Mi wna' i ysgrifennu pan fydda' i wedi cyrraedd y Merica.”

Cyn i neb ddweud gair, diflannodd gan gau'r drws yn dawel.

“Na, Na, tyrd yn ôl. Paid â mynd. Tyrd yn ôl,” llefodd Ann, gan neidio allan o'r gwely.

“Gad iddo fo. Mae o wedi gwneud ei benderfyniad, Ann fach,” cynghorodd Ned hi, gan ei thynnu'n ôl i'r gwely i'w freichiau lle bu'n crïo'n hidl am hydoedd.

Teimlodd Ned elfen o ryddhad fod Jo wedi mynd o'r diwedd. Roedd pethau wedi bod yn ddiflas iawn yn y cartref ers iddo sôn am ymfudo. Ond dyna fo, hen gog hunanol oedd o. Ond ym meddwl Ann, roedd Jo yn berffaith, wrth gwrs, meddyliodd.

Cafodd Jo reid yn nhrap Eunant i Lanfyllin ac oddi yno daliodd y tren i Gobowen ac o Gobowen i Lerpwl. Roedd yr asiant wedi dweud wrtho y byddai'r cwmni llongau, yr “Allan Line,” yn gofalu am lety iddo yn ymyl y porthladd. Yno y bu am dridiau yn aros mewn tŷ lojin digon blêr yn disgwyl i'r llong fod yn barod i hwylio. Eto, roedd y bwyd yn ddigon blasus a'r lletywraig yn hanu o Sir Fôn ac yn gallu Cymraeg.

Bore oer a niwlog oedd hi pan hwyliodd Jo ar y “City of Rome” allan o borthladd Lerpwl. Llong haearn yn cael ei gyrru gan ager oedd hi. Roedd yn rhaid iddo rannu caban gyda sawl un arall ym mherfeddion y llong, ac roedd y bync yn edrych yn sobr o anghyfforddus. Eto, roeddynt i gyd yn ddigon hwyliog yn y caban bach: pawb â'i fryd ar fywyd gwell yn America.

Peidiodd Jo ag edrych ar arfordir gogledd Cymru yn diflannu wrth i'r llong deithio trwy Fae Lerpwl i gyfeiriad y môr mawr. Roedd y byd newydd yn galw a bywyd anturus o'i flaen.

Pennod 12

Briw y Cwm a brynwyd,- yr erwau

Er arian a werthwyd;

Y brau feddau a faeddwyd,

A'r Llan yn y dyfnder llwyd.

John Evans, 'Yr Argae' (Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1954)

*

Roedd 1888 yn flwyddyn ansicr a chythryblus, ac erbyn ei diwedd roedd pawb yn Nyffryn Efyrynwy wedi cynhyrfu o ddeall beth oedd o'u blaen. Rhyfeddod i'r pentrefwyr hynny a oedd wedi mentro i ben ucha'r cwm, oedd gweld cymaint o weithwyr o bellafoedd y wlad yno'n brysur yn adeiladu'r argae fawr. Cafwyd gweithlu o beirianwyr, chwarelwyr (er mwyn cael cyflenwad o feini mawr o'r chwarel cyfagos i adeiladu'r argae), seiri maen a seiri coed, yn ogystal â llu o rai yn labro ac yn gwneud y gwaith caled. Adeiladwyd cytiau pren i gartrefu'r llu o fewnddyfodiaid. Deuai'r mwyafrif o Loegr a'r Iwerddon, ac ambell Gymro o siroedd cyfagos, ac ni fu ysgol y pentref erioed mor llawn, gyda dros gant o blant yn bresennol, y rhan fwyaf ohonynt yn siarad yr iaith fain. Roedd popeth yn un gymysgfa fawr yn Nyffryn Efyrynwy: cymysgfa fyddai'n gadael ei chysgod am byth ar y cwm.

Ond roedd rhai o drigolion yr hen Lan wedi cael digon, a chyn diwedd 1888 roeddynt wedi penderfynu gadael y cwm cyn i bethau fynd yn waeth. Aeth rhai teuluoedd i'r Foel a Llangadfan, eraill i Lanrhaedr ym Mochnant, a phenderfynodd y gofaint a'i deulu symud i Benybontfawr.

“Mae'r dyffryn yma'n gwagio. Pawb wedi cael braw ac yn hel eu traed o'ma. Fydd yna fawr iawn ohonom ni ar ôl. Be sy mynd i ddigwydd, dwed?” holodd Ned yn ddigalon dros ei frecwest un bore.

“Mi wn ni un peth, mae'r pethau Lerpwl yna wrth eu boddau,” atebodd Ann.

“Sut hynny?”

“Wel, llai o dai iddyn nhw orfod eu hadeiladu ar gyfer criw bach ohonom. Roedd rhai yn dweud bod yna dros bedwar cant yn byw yma ar un adeg. Mae yna dipyn yn llai rŵan. Rwyf ti’n iawn, mae pawb wedi dychryn ac mae ein cymdeithas wedi chwalu. Fydd hi byth yr un fath yma eto.”

Yn ogystal â’r cartrefi dros dro i’r gweithwyr a’u teuluoedd, bu’r ysbyty bach pren yn fendith pan dorrodd y diphtheria allan ymysg plant y fro. Fodd bynnag, anhapus iawn oedd y Cymry i ganiatáu i ddieithriaid o Saeson ofalu am eu plant gan nad oedd rhai ohonyn nhw yn deall acen gref Lerpwl.

Yr amgylchedd llaith oedd yn cael y bai fod nifer fawr yn dioddef o anhwylderau ar y frest a hefyd y crydcymalau. Ond anhwylder gwahanol, sef y felan, a oedd yn teyrnasu yng nghartref Ned ac Ann yn yr hen Lan, yn bennaf oherwydd marwolaeth Tomos bach, y ffaith fod wedi mynd draw i’r America, ac ar ben popeth roedd hi’n amlwg y byddai’r dyffryn yn cael ei foddi ymhen ychydig o fisoedd.

“Mae yna rybudd yn y siop wedi ei ysgrifennu yn Saesneg bod rhaid i bob un ohonom fod allan o’n tai cyn canol mis Tachwedd,” cyhoeddodd Olwen wedi iddi fod yn y siop yn hel neges i’r teulu.

“Be ddeuddest ti? Allan o’r tŷ ymhen pump wythnos! Dydi hynny ddim yn bosib. Ble’r awn ni? Dan ni ddim yn sicr fod y tai newydd y mae cymaint o sôn amdanynt yn mynd i fod yn barod,” oedd ymateb anghrediniol Ann.

Ar y gair, daeth Ned i mewn a’i wynt yn ei ddwrn a golwg arbennig o wyllt arno.

“Mae hi’n hollol iawn. Rhaid i ni symud allan o’r tŷ o fewn rhai wythnosau. Mae yna gyfarfod yn y capel nos Lun, ac yno medden nhw, y cawn ni wybod ymhle y byddwn yn byw yn y pentre newydd.” Yna ychwanegodd, “Mae hyn yn hollol afresymol ac annynol. Boddi’r dyffryn a boddi’n cartrefi ni. Mae rhai teuluoedd wedi byw yn y dyffryn yma ers 1690. Does dim diwedd ar greulondeb pobl Lerpwl. Bwlis go iawn ydyn nhw. Mae nhw’n dweud y bydden nhw’n cau’r falfiau ar yr 28ain o Dachwedd ac y cymerith flwyddyn gron i’r dŵr gronni.”

Erbyn iddo ddweud ei ddweud a dwrdio’n iawn roedd Ned allan o wynt ac eisteddodd i lawr yn swp ar y gadair siglo wedi ymlâdd yn llwyr a chan siglo’n ôl ac ymlaen. Aeth Ann yn syth i’r spensh. Roedd hi fel y fagddu yn y twll dan y grisiau ac yno y bu hi am beth amser yn chwilio ymysg hen bapurau.

“Be wyt ti’n ei wneud ymhen draw’r spensh yna?” holodd Ned.

“Dyma fo, dyma be dwi’n chwilio amdano. Mi roddodd y person gopi i mi o *Faner ac Amserau Cymru* beth amser yn ôl. Deud fod yna rywbeth am Lanwddyn ynddo ac y byddet ti yn hoffi ei ddarllen. Mi anghofiais ei roi i ti. Ac wrth gwrs, dwi ddim yn ei ddeall o.”

Doedd Ann byth yn darllen, felly rhoddodd y papur i Olwen.

“Mae gen ti well crap ar y geiriau na fi.”

Darllenodd Olwen yr erthygl oedd ar dudalen un ar ddeg *Baner ac Amserau Cymru*, rhifyn o ddechrau Chwefror 1888, o dan y teitl ‘Pryder y bobl’.

“Fe gostia’r dwfr yma gryn lawer mewn arian i Gorphoraeth Liverpool, ond nid oes ond Un a wŷr faint o bryder a thristwch y mae wedi ei achosi i ddynion...”
sarllenodd Olwen.

“Digon reit hefyd,” meddai Ned gan ysgwyd ei ben.

Syllodd Ann am hydoedd drwy’r ffenestr ac meddai, a’r dagrau yn llifo:

“Doedd gennym ni yr un syniad beth fyddai’r gwaith yma yn ei gostio i ni, bentrefwyr Llanwddyn.”

*

Daeth nifer fawr o drigolion Llanwddyn i’r cyfarfod yn y capel y nos Lun ddilynol. Roedd pawb wedi cynhyrfu’n lân ac yn condemnio Corfforaeth Lerpwl am ddiffyg sensitifrwydd yn rhoi ond ychydig wythnosau o rybudd iddynt cyn y byddai’n ofynnol i bawb fudo o’r hen Lan.

Distawodd pawb pan ddaeth dau ddyn yn gwisgo hetiau bowler i mewn i’r capel drwy ddrws ochr y festri a brasgamu i’r set fawr.

“Quiet please, we believe you all understand English,” meddai’r un mwyaf pwysig yr olwg.

“Be wyt ti’n drïo ei ddweud, y diawl?” gwaeddodd un o’r bechgyn ifanc a oedd yn sefyll ym mhen ucha’r capel. Chwarddodd pawb yn uchel gydag un neu ddau yn gweiddi:

“Tynna dy fowler, rwyt ti mewn lle o addoliad.”

Yna, safodd yr ail wŷr ar ei draed a chan ddyrnu’r astell meddai’n chwyrn:

“Silence. You must concentrate. We will give you some information as to where you will reside,” cyhoeddodd hwnnw’n dorrog.

“Be mae’r cythraul yna’n drïo’i ddweud Ned?” holodd gŵr Nantycodwr.

Cyn i Ned ei ateb dyma hisian bygythiol i'w glywed ymysg y dorf.

“Go back to Liverpool where you belong. We don't want you here,”

gwaeddodd gwraig ifanc a oedd yn eistedd yn y sêd flaen ac yn edrych yn hynod o fygythiol gyda'i gwallt cyrliog coch blêr yn gwneud iddi edrych fel pe bai wedi ei thynnu drwy'r gwrych.

“Hear! Hear! Go home and leave us alone,” oedd ymateb un arall.

“Well, well, I'm astonished at your attitude. If you don't listen the valley will be flooded. We have Parliament on our side. You would all then be homeless,” oedd ateb gwas hunan bwysig Corfforaeth Lerpwl.

Distawodd pawb, er eu bod yn dal i edrych yn fygythiol ar y ddau swyddog. Eto, roeddynt yn deall yn iawn ei bod yn bwysig fod pob un ohonynt yn gwrando'n astud i wybod i ble roeddynt am gael eu hailgartrefu neu mi fyddent ar y clwt. Mynegwyd anfodlonrwydd mawr pan gawsant ddeall fod rhaid dechrau pacio a hel eu dodrefn a'u dillad a symud i'r pentref newydd ymhen ychydig wythnosau. Er yr anfodlonrwydd, doedd neb yn gwybod at bwy i droi am arweiniad.

“Wel, hogie, mae'n rhy hwyr arnom ni. Mae gen i ofn fod rhaid i ni roi i mewn i'r drefn a cheisio codi pac neu mi fyddwn yn sicr o foddi yn y dyffryn yma,” meddai Ned o dan deimlad.

Wrth iddo roi ei law ar glicied y drws y noson honno, trwm iawn oedd ei galon a chalon pawb arall o'r pentrefwyr a oedd yn bresennol yn y cyfarfod tyngedfennol hwnnw yn y chapel.

“Ned, lle fyddwn i'n byw?” holodd Ann a'r plant.

“Dwn ni ddim wir. Dwi'n ei ffeindio hi'n anodd i sôn am yr hyn sy'n digwydd. Dwi'n mynd i'r gwely. Wna' i siarad fory hwyrach. Mae pethau'n edrych yn well yn y bore. Mae hi ar ben arnom ni,” oedd ei ateb.

Aeth i'w wely, ond wrth orwedd yno gydag Ann wrth ei ochr, roedd cwsg ymhell iawn oddi wrth y ddau.

*

Erbyn yr ail ddydd Sadwrn ym mis Tachwedd 1888 roedd y rhan fwyaf o'r pentrefwyr wedi llwytho eu troliau'n uchel gyda dodrefn, gwelyau, dillad a bwyd. Roeddent wedi penderfynu gadael yr hen Lan gyda'i gilydd oherwydd bod llawer wedi symud o'r pentref i ardaloedd cyfagos rai misoedd ynghynt. Deuddeg teulu trist

a phenisel. Clodd Ned y drws wedi i Ann a gweddill o teulu gerdded dros y trothwy am y tro olaf. Roedd dagrau yn llygaid pawb a distawrwydd llethol i'w glywed a'i deimlo fel cwmwl isel o ddigalondid dros y fro i gyd.

“Mae'n union fel mynd i gligeth,” oedd sylw Jini wrth iddi gyd-gerdded gyda'i mam.

“Mi awn ni ar ein taith tuag at Glyndu, ein cartref newydd yn y pentref newydd,” meddai Ned.

Cydiodd ym mhhen y ferlen ddu yr oedd o wedi ei benthyg, ynghyd a'r drol, i gludo eu holl eiddo i'r Llanwddyn newydd. Ond roedden nhw a'r teuluoedd eraill a oedd yn gadael yr hen Lan y diwrnod hwnnw yn edrych i gyfeiriad dyfodol newydd a ffordd newydd o fyw. Roedd pob un o'r teuluoedd yn deall y byddai'r tai yn rhwymedig wrth waith y penteulu ac y byddai'r dynion yn gweithio o hynny ymlaen i Gorfforaeth Lerpwl. Byddai Ned yn cychwyn ar swydd yn y felin goed fel saer ac ymgymerwr y pentref. Yn eu sefyllfa newydd, swyddogion y *Corporation* oedd y meistri.

Wrth i'r teuluoedd deithio'n araf a phenisel ar hyd y llwybr tuag at eu cartrefi newydd, edrychodd Ann yn ôl ar y naw trol a oedd yn eu dilyn. Y plant yn dechrau sioncio, ac edrych ymlaen at newid byd. Syllodd Ann ar yr hen Lan. Roedd y tai i gyd yn wag a difwyd. Yr ysbryd wedi diflannu ohonynt. Y ffenestri heb lenni ac yn edrych yn debyg i socedi llygaid gwag.

“Paid, paid ag edrych yn ôl. Rwyt ti'n gwybod be ddigwyddodd i wraig Lot pan edrychodd hi'n ôl ar Sodom a Gomora yn llosgi. Dyna'r hanes yn y Beibl. Mae popeth wedi gorffen rŵan. Rhaid i ni drïo edrych ymlaen i'r dyfodol a gwneud y gorau o'r gwaethaf,” meddai Ned.

Yna ychwanegodd, gan geisio codi calon Ann:

“Un peth sy'n sicr, mi fydd ein cartref yn Glyndu yn fwy, ac oherwydd ei fod yn adeilad newydd fydd o ddim yn llaith.”

Ond doedd dim gwenu na chwerthin i fod ymysg yr oedolion wrth i'r orymdaith drist deithio'r pum milltir o un pen i ddyffryn Efyrynwy i'r llall. Wedi iddynt gyrraedd yr argae fawr gerrig a oedd wedi ei hadeiladu ar draws y dyffryn ac yn edrych fel anghenfil mawr, cawsant fraw, doedd neb wedi disgwyl y byddai'r wal mor enfawr.

“Mae’n hyll, myn coblyn i. Mae hi fel castell. Dwi’n meddwl eu bod nhw’n trio’n cau ni i mewn. Tybed be fyddai Wddyn y cawr yn ei ddweud am hyn?” gwaeddodd Dic Jones gyda dychryn.

“Pwy oedd Wddyn y cawr, Mr Jones?” holodd Meri a oedd wedi bod yn clustfeinio.

“Hen hen stori sy gan yr hen bobl am y cawr Wddyn oedd yn byw yn y dyffryn. Ar ei ôl o roedd yr hen bentref wedi ei enwi. Fydd y Llanwddyn newydd ddim yr un fath â’r hen un,” ychwanegodd.

Synnu a rhyfeddu a wnaeth sawl un ohonynt o weld yr argae. Dim ond un neu ddau a oedd wedi trafferthu mynd cyn belled i weld y gwaith yn datblygu. Ers rhai blynyddoedd bellach agwedd y pentrefwyr oedd nad oedden nhw ddim eisiau gweld beth oedd yn mynd ymlaen. Doedden nhw ddim eisiau i bobl Lerpwl feddwl bod ganddyn nhw unrhyw ddiddordeb o gwbl yn yr hyn a oedd yn digwydd yn nyffryn Efyrnwy.

“Welais i erioed y fath beth. Doeddwn ni ddim isio mynd draw i’w weld o. Mae Jo wedi gwneud y peth iawn, dengid oddi yma. Mae’r cythreuliaid Saeson nid yn unig wedi’n troi ni allan o’n cartrefi, ond mae nhw wedi hagra a hyllio’r dyffryn hardd yma,” oedd ymateb Wil Lewis.

Yn ôl yr ymateb a gafwyd wrth i’r fintai gyrraedd y wal fawr roedd hi’n amlwg fod y pentrefwyr wedi bod yn ddigon hapus i fyw eu bywyd syml cefn gwlad yn yr hen Lan, ac o dan y croen roedd sawl un ohonynt yn gynddeiriog ac yn casau pobl Lerpwl a phob Sais arall o ran hynny.

“Dewch yn eich blaenau, mae gennym ni i gyd waith dadbacio cyn iddi dywyllu,” oedd awgrym Ned.

Wedi iddo ddatgloi drws cefn rhif 6, Glyndu, ac er mwyn ysgafnhau ychydig ar y sefyllfa, cododd Ann yn ei freichiau a’i chario dros y trothwy.

“Tyrd Ann fach, rhaid i ni geisio codi calon a wynebu’r dyfodol fel teulu. Mi gei di weld, fe fydd pethau’n well nag wyt ti’n ei feddwl. Mae un peth yn sicr, fe fydd gen i gyflog rheolaidd yn dod mewn rŵan y bydda’ i’n gweithio i’r *Corporation*,” sibrydodd yn ei chlust gan ei rhoi i lawr yn ofalus. “Maen nhw wedi cynnig y ddwy acer yna, sef cae Holland a’r un agosaf ato, imi i’w trin. Mae yna gwt mochyn yn y cefn a lle yn uwch i fyny i gadw dwy fuwch ac ychydig o ieir. Mi ddaw haul ar fryn eto fe gei di weld.”

“Hwyrach, ond dwi’n synnu atat ti’n derbyn unrhyw beth gan y bobl Lerpwl yna,” atebodd Ann yn dawel.

*

Wythnos wedi i bawb fudo o’r hen Lan deffrowyd y trigolion yn gynnar un bore gan sŵn fel taranu yn dod o gyfeiriad yr hen bentref. Cododd Ned, ac wedi gwisgo amdano’n sydyn, rhedodd allan o’r tŷ. Roedd hi’n dechrau gwawrio, ond o gyfeiriad Bwlch y Groes roedd yr awyr yn goch gan fflamau a chwmwl du o fwg yn dod o’r un cyfeiriad. Aeth criw o’r cymdogion i ben y wal fawr i gael gweld beth oedd yn digwydd.

“Mae’n nhw’n llosgi’r hen bentref. Roedd un o’r gweithwyr yn deud wrtha i ddoe eu bod wedi cael ordors i ddeinameitio’r tai, yr ysgol, y capel, y siop a’r tafarndai,” oedd eglurhad Benjamin Jones.

“Deinameitio? Pam mae angen deinameitio?” holodd Ned.

“Maen nhw am wneud yn ddigon siŵr fod yr hen Lan yn diflannu oddi ar wyneb y ddaear am byth, y cachgwn. Dan ni wedi bod yn rhy wan a llwfr i’w gwrthwynebu. Mi oedd Jo yn iawn, mae diffyg asgwrn cefn ar bob un ohonom.”

Daeth llais llanc ifanc yn llawn angerdd o ganol y criw oedd wedi ymgasglu. Trodd Ned a gwelodd Bob yn sefyll yno a’i wyneb bachgennaidd yn gandryll o weld yr hyn a oedd yn digwydd.

“Na, Bob Elis, dan ni’n teimlo’r un mor gas â ti, ond be allem ni fod wedi ei wneud, o ystyried mai criw bach o gefn gwlad ydan ni, a Lerpwl yn ddinas mor fawr,” meddai Rich Bryndu.

“Mi fyddech wedi gallu gwneud mwy o lawer, a pheidio â rhoi mewn mor barod. Dan ni rŵan o dan eu bawd nhw. Yn gweithio iddyn nhw ac yn cael tai ganddyn nhw. Mae hi ar ben arnom ni rŵan. A be am ein dyfodol ni, y to ifanc?” atebodd Bob, a oedd erbyn hyn yn ei ardegau.

“Mae o’n ddigon reit, ydi’n wir. Mae fel ei frawd, Jo. Gobeithio wnaiff o ddim cymryd yn ei ben a’i heglu hi o’ma,” cytunodd Dei y Crydd.

Ar hyn, clywsant lais awdurdodol un o swyddogion y gwaith.

“We’ve had orders to level the place in readiness for the valves to be closed next week. You might as well all go home. There’s nothing to be gained from you standing here in the cold.”

Trodd Bob gan weiddi ar dop ei lais:

“You are the one who should go home. You and your type have sent us out of our homes.”

“Dos i’r tŷ, yr hen gog. Waeth i ni heb â dadlau hefo hwn,” cynghorodd Ned.

Cyn i’r criw ddychwelyd i’w tai, rhedodd Ann yn wyllt i ben y wal. Roedd hi wedi taro hen gôt ar ben ei choban ac roedd ei gwallt yn hongian ar ei hysgwyddau.

“Be ydi’r sŵn yma? Be sy’n digwydd? Ble mae’r tân?”

“Dos i’r tŷ, mae’n well i ti beidio â gweld,” meddai Ned.

Ond chymerodd Ann ddim sylw. Rhedodd heibio i’r cymdogion ac ymlaen at ganol y wal. Edrychodd i gyfeiriad yr hen Lan. Llanwyd ei chalon â gofid. Roedd yr awyr yn goch gyda fflamau tân, ac roedd arogl mwg yn llenwi’r dyffryn. Plygodd drosodd a chyfogodd surni ar gerrig llwyd yr argae newydd.

Cerddodd yn benisel yn ôl ar hyd y wal tuag at Glyndu, ei thŷ newydd. Roedd Ned erbyn hyn yn disgwyl amdani wrth y drws.

“Be welaist ti ?” holodd.

“Tân uffern,” oedd ei hateb.

*

Ar 28 Tachwedd 1888 caewyd falfiau yr argae er mwyn i’r dŵr o afonydd Conwy a Machnant, sy’n llifo i mewn i’r afon Efyrynwy, gronni yn y dyffryn i ffurfio llyn anferth. Adeiladwyd ffordd ddeuddeg milltir o hyd o amgylch y llyn. Y bwriad gan y cynllunwyr oedd ffurfio llyn pedair milltir a hanner o hyd a rhyw chwarter milltir o led. Byddai llyn o’r fath yn rhoi i ddinas Lerpwl dros deuddeg miliwn o alwyni o ddŵr y dydd. Adeiladwyd Tŵr Rhidyllio heb fod ymhell o’r argae, ac roedd cynllun a ffurf y tŵr yn ryfeddod i bawb.

Araf iawn fu’r teuluoedd yn ymgartrefu yn y pentref newydd, ond fe aeth misoedd y gaeaf heibio o dipyn i beth ac yn araf bach dechreuodd pethau wella rhyw gymaint. Roedd rhaid i Ann gyfaddef fod ei thŷ newydd yn hwylusach ac yn haws i’w gadw’n lân na’r bwythyn bach yn Fishing Street. Ond doedd hi ddim yn barod i ddweud hynny’n gyhoeddus.

Un o res o chwech o dai oedd rhif 6 Glyndu, pob un â’i barlwr, ystafell fyw, cegin a phantri. Yn y pantri roedd slab o lechen yn ffurfio silff oer i gadw menyn, llefrith a chaws. Ymhen draw’r cegin roedd popty mawr ar gyfer pobi bara. Doedd

hyn, wrth gwrs, ddim yn plesio pawb, oherwydd roedd y merched wedi hoffi cyfarfod ar ddiwrnod pobi bara unwaith yr wythnos i sgwrsio a chyfnewid ambell i stori am hwn a'r llall. Am nad oedd raid iddynt gyfarfod yn y tŷ popty pentrefol, roedd ambell un yn cwyno nad oeddent byth yn gweld ei gilydd.

Roedd yna dair ystafell i fyny'r grisiau troellog, gydag un ohonynt, y brif ystafell, yn wynebu'r argae fawr. Y tu allan yn y buarth roedd cwt glo, neu gwt i gadw cogiau ar gyfer y tân, a thŷ golchi gyda boiler mawr yn y gornel bellaf er mwyn berwi'r dillad ar fore dydd Llun fel arfer. Prynwyd mangl newydd hefyd a oedd o fudd mawr i Ann. Gwaith Ned ar nos Sul oedd gosod tân oer o dan y boiler, yna ei danio y peth cyntaf ar fore Llun.

Yn y buarth hefyd roedd cwt mochyn ac ymhen ucha'r ardd gefn cododd Ned gwt ieir, a phrynodd chwech o ieir ym marchnad Llanfyllin.

“Oherwydd fod y *Corporation* am rentu'r ddau gae imi, mi alla' i dyfu rhesi o foron a thatws yng ngae Holland a throi y llall yn gae gwair,” meddai Ned yn llawn brwdfrydedd. “Mi fydd rhaid i ti, Bob, fy helpu i gasglu cerrig cyn i ni hau y tatws a'r moron.”

“O diar, oes wir rhaid imi?” oedd ateb hwnnw.

“Bobl y Bala! Wyt ti am droi'n ffermwr?” holodd Ann a oedd, erbyn 1889, mewn gwell hwyliau'n gyffredinol.

“Na, saer fydda' i am byth, ac fel y gwyddost. Rhyw ddiddordeb bach ychwanegol fydd y fferm fach yma ac fe fydd yn rhoi llaeth, wyau, cig moch a llysiau i ni fel teulu,” sicrhaodd Ned hi.

O'r diwedd, roedd Ann wedi dechrau cymryd diddordeb yn ei thŷ newydd ac yn meddwl amdano fel cartref y teulu. Fin nos, fe fyddai hi, Olwen, Jimi a Meri yn gwnïo llenni ar gyfer y parlwr, y gegin fyw a'r ystafelloedd cysgu. Rhaid hefyd oedd gwneud dau fat rags mawr i'w rhoi o flaen y tân yn y parlwr a'r gegin fyw, yn ogystal â matiau llai bob ochr i'r gwelyau yn y stafelloedd cysgu i fyny'r grisiau.

“Dwi'n meddwl y dylem gael matiau newydd ar gyfer tŷ newydd. Dwi wedi taflu'r hen rai oherwydd bod hogle llaith arnyn nhw,” meddai Ann yn frwd.

Dysgodd y merched sut i fynd o'i chwmpas hi, a sut i wthio'r striped rags amryliw i mewn ac allan o'r sachliain er mwyn creu patrwm del.

Roedd yna fusnes mawr y tu mewn a'r tu allan i 6, Glyndu bob dydd a phob min nos. Yr un modd, pan brynwyd yr ieir, y mochyn a'r ddwy fuwch, bu Ned yn cyfarwyddo Bob ynghylch sut i lanhau o dan yr anifeiliaid a sut i odro'r ddwy fuwch.

*

Roedd blwyddyn wedi mynd heibio ers iddynt fudo o'r hen Lan, ac erbyn Tachwedd 1889 roedd Llyn Efyrynwy wedi'i ffurfio.

“Tyrd gyda mi, Ann, iti gael gweld y gronfa ddŵr, fel maen nhw'n ei galw hi,” meddai Ned un prynhawn Sadwrn braf ar ddiwedd Tachwedd.

Disgleiriai'r llyn yng ngolau gwan yr haul, ac o dan draed roedd dail yr hydref fel carped lliwgar gwlyb. Aethant law yn llaw a sefyll ar y wal, gan edrych i gyfeiriad Bwlch y Groes.

“Mae'n edrych yn naturiol iawn. Yn union fel pe bai wedi bod yno erioed,” sylwodd Ann.

“Ydi'n wir, a does dim sôn am yr hen Lan. Mae o dan tua deg a thrigain o droedfeddi erbyn hyn,” atebodd Ned.

Trodd Ann gan edrych i fyw llygaid Ned ac meddai:

“Mae gen i newyddion i ti, dwi'n disgwyl babi eto.”

Daeth gwên o ryddhad a llawenydd dros wyneb Ned. Cofleidiodd ei wraig gan ei chusanu'n dyner a hir ar ei gwefus.

“Tŷ newydd, bywyd ifanc newydd, a ffordd newydd o fyw. Rhaid i ni edrych i'r dyfodol yn ffyddiog rŵan. Ond mi ddylem wneud yn sicr fod ein babi bach newydd yn clywed am hanes yr hen Lan,” meddai Ned gan ryddhau Ann a tharo'i fraich yn amddiffynol dros ei hysgwydd.

Cytunodd Ann, gan nodio'i phen a dweud:

“Ydi, mae'r hen Lan yn ddwfn ym mêr ein hesgym ni. Mae'r hen ffordd o fyw wedi mynd ond rhaid i ni gofio am bopeth.”

“Mi rydw i'n fwy ffyddiog rŵan, ond rhaid i ni beidio ag anghofio mai cael ein twyllo a'n bradychu fu'n hanes fel pentrefwyr. Wna' i byth anghofio hynny ac mae'n ddyletswydd arnom ni i ddweud yr hanes hefyd,” atebodd Ned.

Cerddodd y ddau fraich yn fraich yn ôl i'w cartref newydd heb sgwrsio mwy. Roedd y tawelwch yn hyfryd. Braf oedd cael agor y drws a gweld tanllwyth o dân yn y grât, ac Olwen yn gofyn:

“Dach chi eich dau eisiau paned?”

* * *

Roedd deunaw mis wedi mynd heibio ers i Wil gael y ddamwain. Gorweddai Meira'n ddioglyd yn y gwely mawr yng ngwesty'r 'Lake Vyrnwy'. Clywodd sŵn y gawod yn hishan yn yr *en-suite* lle roedd Dafydd yn paratoi am y diwrnod. Dal i gysgu yr oedd Wil bach yn y cot symudol wrth draed y gwely.

“Rhaid i mi godi er mwyn paratoi ar gyfer fy niwrnod mawr,” meddyliodd Meira, ond anodd iawn oedd symud o foethusrwydd y gwely cynnes.

“Mae yna gymaint o bethau'n mynd rownd a rownd yn fy meddwl,” meddai wrthi ei hun eto.

Torrwyd ar ei synfyfyrion pan agorwyd drŵs yr ystafell ymolchi bach, ac allan â Dafydd gyda thywel mawr gwyn wedi ei lapio'n dynn am ei ganol.

“Tyrd, y diogyn, dan ni'n priodi heddiw. Wyt ti wedi anghofio hynny?” gofynnodd yn bryfoclyd, gan esgus ei thaflu allan o'r gwely.

Deffrôdd eu chwerthin afreolus y bychan a oedd erbyn hyn yn gallu ei dynnu ei hun yn sigledig i fyny yn y cot. Roedd yr olwg ar ei wyneb bach yn awgrymu nad oedd o'n sicr ai chwerthin ynteu crïo oedd yr ymateb iawn.

“Drycha, dan ni wedi ei ddeffro fo rŵan. Paid â fy ngoglais i,” plediodd Meira gan rowlio chwerthin.

Tynnodd Dafydd hi i fyny o'r gwely gan afael yn ei dwy law ac edrych yn ddwfn i'w llygaid.

“Hwn fydd diwrnod hapusaf fy mywyd. Dy gael di yn wraig i mi. Dwi'n gwybod ein bod wedi byw fel pâr priod ers rhai misoedd bellach, ond mi fydd hi'n braf cael y tamaid papur i gadarnhau hynny.”

“Dwi'n hapus hefyd, cariad. Dwi'n gwybod ein bod yn caru'n gilydd, a dan ni'n caru Wil bach hefyd. Dan ni'n deulu rŵan,” atebodd Meira gan gofleidio Dafydd a'i ddal yn agos ati. Roedd yn deimlad arbennig, cofleidio corff cynnes dyn a oedd newydd ddod allan o'r gawod.

*

Priodas anghonfensiynol oedd hi yn eglwys fach Llanwddyn yng ngolwg y Llyn. Roedd hi'n ddiwrnod hyfryd o braf, a Llanwddyn yn edrych ar ei orau yn yr heulwen.

Dim ond pedwar, heblaw Wil bach, y person a'r cofrestrydd, a oedd yn bresennol. Ieuan, ffrind Dafydd, a Margied, chwaer Meira oedd y ddau dyst. Nhw

hefyd a oedd yn gofalu am Wil. Am chwarter i ddau aethant draw i'r Eglwys i ddisgwyl am Dafydd a Meira, ac am ddau o'r gloch ar ei ben cyrhaeddodd y ddau law yn llaw.

Doedd dim gwahaniaeth beth oedd Meira yn ei wisgo, roedd hi bob amser yn edrych yn smart, ond ar y diwrnod hwnnw edrychai'n arbennig o hardd. Ei dewis oedd ffrog silc o liw ceirios, esgidiau sgleiniog du, bag llaw bach du i gydfynd â'r esgidiau gyda rhosyn lliw hufen wedi ei rwymo ar y bag. Gwisgai glustdlysau o aur Clogau ac am ei gwddw gadwyn aur. Anrhegion Nadolig yr oedd hi wedi eu derbyn gan Dafydd y flwyddyn gynt oedd y tlysau, ac ar ddiwrnod ei phriodas roedd yn briodol iawn ei bod yn eu gwisgo.

Penderfynodd Dafydd wisgo siwt dywyll, crys gwyn a thei lliw ceirios i gydfynd â gwisg Meira. Roedd hefyd yn gwisgo rhosyn lliw hufen yn nhwll botwm ei siaced.

Cafwyd gwasanaeth syml. Darlleniad o'r Beibl, yna, yr addunedau priodasol. Gweddi fer gan y person, llofnodi'r dystysgrif, ac yna mentro allan i'r haul cynnes.

Heb yn wybod i Meira na Dafydd, roedd Ieuan, gyda help Margied, wedi cysylltu gyda thua tri deg o ffrindiau a pherthnasau agos i'r ddau. Trefniant Meira a Dafydd oedd eu bod yn dychwelyd i'r gwesty i gael glasied o siampaen ac yna bryd bach tawel i'r pedwar ohonynt fin nos, gyda digon o win coch, wrth gwrs.

Fel yr oeddynt yn dod allan o'r eglwys trodd Dafydd at Meira gan ei chofleidio a'i chusanu'n frwd.

"Hyfryd iawn a rhamantus," meddai llais o gyfeiriad y llwyn bythol wyrdd gyferbyn â phrif fynedfa'r eglwys.

Neidiodd Dafydd, a chan droi gwelodd Dic, un o'i ffrindiau ysgol, yn ymddangos o'i guddfan. Yn ei law roedd camera i gofnodi'r achlysur. Tynnwyd sawl llun o'r ddau a lluniau o Ieuan, Margied a Wil hefyd, cyn iddynt fynd ymlaen i'r gwesty.

"Dwi'n dechrau amau pethau. Pam wyt ti yma? Sut gest ti wybod?" holodd Dafydd wrth iddynt ymlwybro tua'r gwesty.

"Mae Ieuan yn gwybod fy mod yn hoffi tynnu lluniau, ac allwn ni ddim gadael i'r achlysur fynd heibio heb gofnod," atebodd Dic, gan roi winc slei i Ieuan. Ond roedd mwy i ddod. Wrth iddynt agor y drws a oedd yn arwain i fynedfa'r gwesty cafodd Dafydd a Meira syndod o weld y dderbynfa yn llawn o berthnasau a ffrindiau. Pawb yn disgwyl yn eiddgar am y pâr priod er mwyn cael dymuno'n dda iddynt.

Cafodd Wil hefyd ei siâr o gofleidio a mwythau. Y rhyfeddod oedd ei fod mor hapus ynghanol y miri.

Wedi i bawb fwynhau'r siampaen a Ieuan yn gweiddi am dawelwch iddo gael cyhoeddi, "I Meira a Dafydd", hebryngwyd y ddau hapus a'r gwahoddedigion i ystafell fwyta'r gwesty lle roedd gwledd yn eu disgwyl. Roedd Ieuan a Margied wedi trefnu bwffe hyfryd ar eu cyfer. Cafwyd dewis o win gwyn neu goch, ac i goroni'r cyfan, roedd teisen wedi ei haddurno ag eisin gwyn ar ganol y bwrdd crwn yng nghornel yr ystafell. Margied a oedd wedi ei phobi, a'r unig addurn arni mewn eisin lliw ceirios oedd 'Meira a Dafydd'.

Wrth ochr un o'r byrddau roedd cadair uchel ar gyfer Wil bach. Roedd y bwrdd wedi ei osod ar gyfer pedwar, sef Meira, Dafydd, Ieuan a Margied.

"Fedra' i ddim credu hyn. Sut wnaethoch chi lwyddo i gadw pethau mor dawel? Ond rhaid i mi gyfaddef rydw i wrth fy modd cael cyfarfod â'r hen gang. Dwi ddim yn gwybod sut i ddiolch i chi eich dau," meddai Meira, gan gofleidio Margied a Ieuan yn eu tro.

"Steady on, cool head, rwyt ti'n briod rŵan," oedd ymateb Ieuan wrth iddi blannu cusan o ddiolchgarwch ar ei foch.

"Ie wir, da ni'n hynod ddiolchgar. Mae hyn i gyd wedi gwneud y diwrnod yn gofiadwy iawn i ni'n dau. Fy nhro i ydi cusanu Margied rŵan," meddai Dafydd, gan godi i gofleidio ei chwaer yng nghyfraith newydd.

"Cofia, dim ond un fach ar fy moch," atebodd Margied gan wenu.

*

Teimlad rhyfedd iawn oedd mynd â Wil am y tro cyntaf i ofal gwarchodwraig. Diwrnod cyntaf tymor yr hydref oedd hi, a Meira a Dafydd wedi bod yn briod am rai misoedd bellach. Cafodd Dafydd lwyddiant yn ei gais am swydd ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam. Er nad oedd y tymor yno'n cychwyn yr un wythnos â thymor Meira, penderfynwyd mynd â Wil at Mrs Cameron a oedd am ei warchod y diwrnod roedd Meira'n ail gychwyn yn yr ysgol.

"Rhaid i mi fod yn sicr fod yr un sy'n gofalu am Wil yn ticio'r bocsys i gyd. Mi fydd raid i mi ymweld â sawl un yn yr ardal yma cyn i mi wneud fy mhenderfyniad. Y drwg ydi, yma yn Lerpwl, mi fydd yn amhosib cael neb sy'n siarad Cymraeg, mae'n bur debyg," meddai Meira â golwg drwblus ar ei hwyneb.

Treuliwyd y rhan fwyaf o fisoedd yr haf yn ymweld â gwarchodwyr a oedd â'u henwau ar restr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ond roedd Meira yn anodd i'w phlesio. Y tai'n rhy fach, dim digon o ofod i'r plant bach chwarae. Y tegannau yn edrych fel pe baent angen eu golchi. Dim rhaglen ddatblygedig a fyddai'n rhoi profiadau amrywiol a gwahaniaethol ar gyfer rhai bach.

Eisteddodd Meira i fyny yn y gwely un bore Sadwrn tua tair wythnos cyn i'r tymor gychwyn a dechreuodd grïo.

“Fedra i mo'i adael o. Dwi ddim wedi gweld un lle fyddai'n fy mhlesio. Be dwi'n mynd i wneud?”

O'i gweld wedi cynhyrfu, rhoddodd Dafydd ei fraich amdani ac awgrymu Mrs Cameron a oedd yn byw yn y stryd nesaf. Roedd yn cael ei chanmol. Roedd ganddi glamp o dŷ a chlamp o ardd.

“Mi ges i air efo Mrs Clark y drŵs nesaf echdoe ac roedd hi yn dweud bod ei wyres hi yn mynd yno ac wrth ei bodd,” meddai Dafydd.

“Pam yn y byd mawr wnes i ddim meddwl amdani. Mae'n rhaid nad oeddwn wedi gweld ei henw hi ar y rhestr,” atebodd Meira wedi sirioli drwyddi. Cytunwyd, wedi rhoi galwad ffôn i Mrs Cameron, y byddai Meira, Dafydd a Wil yn ymweld â hi y prynhawn hwnnw.

“Dwi'n amau'n fawr, er fod ganddi gyfenw Albanaidd, ei bod yn Gymraes. Mae ganddi acen Gogledd Cymru,” oedd ymateb Meira wedi iddi roi'r ffôn i lawr.

Doedd dim dwywaith amdani, roedd Mrs Cameron ei hun, ei thŷ a'i gardd, yn berffaith. Cymraes o ochrau Pen Llŷn oedd hi, wedi priodi Albanwr, ac yn byw yn Lerpwl ers rhai blynyddoedd. Roedd ganddi'r cymwysterau priodol oedd yn ei galluogi i warchod plant bach, a dangosodd i Meira y rhaglen ddyddiol yr oedd hi yn ei dilyn hyd yn oed gyda phlentyn mor ifanc â Wil. Yn fwy na dim, cymerodd Wil ati. Anti Lys oedd hi'n mynnu cael ei galw.

“Dim ond tri dwi'n gallu eu gwarchod ar y tro, dach chi'n lwcus, mae un yn fy ngadael i yr haf yma. Mae o ddigon hen i fynd i feithrinfa'r ysgol. Dwi'n addo siarad Cymraeg efo Wil. Hwyrach y gwnaiff y ddau arall ddysgu ychydig o'r iaith hefyd,” meddai gan chwerthin.

Er mwyn arfer cafodd Wil gyfle i ymweld am ryw hanner awr ar y tro gyda Meira yn aros gyda fo cyn i'r tymor ddechrau. Roedd digon o hwyl i'w gael efo Anti Lys.

Fodd bynnag, fel pob mam, teimlad o bryder ac euogrwydd a oedd gan Meira ar ddiwrnod cyntaf tymor yr hydref. ‘Beth fyddai Wil, ei dad, wedi ei ddweud amdani? Gadael y cyntaf anedig efo dynes ddiarth,’ meddylodd.

Amser cinio yn yr ysgol cerddodd Olwen, y dirprwy, i mewn i swyddfa Meira. Dyna lle roedd hi, ffôn yn ei llaw a dagrau yn llifo i lawr ei hwyneb.

“Be wna i? Dwi isio ffonio i weld a ydi o’n iawn.”

“Paid â bod yn wirion. Wrth gwrs ei fod o’n iawn neu mi fyddai Anti Lys wedi dy ffonio di. Rwyt ti’n waeth na rhai o’r mamau ffyslyd sy yn yr ysgol yma. Tyrd yn dy flaen, paned a brechdanau ac fe fyddi’n well,” chwaddodd Olwen.

Setlodd Dafydd yn ei swydd newydd yn Wrecsam. Eto, o bryd i’w gilydd, roedd yn ofynnol iddo ddarlithio’n hwyr a cholli amser gwely Wil. Roedd yn gas gan Dafydd y nosweithiau hynny oherwydd roedd wrth ei fodd yn cael cyfnod yn chwarae efo Wil bach. Cyn belled ag yr oedd Meira’n y cwestiwn, aeth y tymor heibio’n gyflym gyda’i holl helbulon, gwasanaeth Diolchgarwch a chyngerdd a phartion Nadolig i’r disgyblion. Teimlai nad oedd hi erioed wedi bod yn absennol o’i swydd.

Fe gafodd y teulu bach, fodd bynnag, Nadolig i’w gofio. Coeden Nadolig fawr yn yr ystafell fyw, ond roedd gan Wil fwy o ddiddordeb yn yr addurniadau, y goleuadau ar y goeden a’r anrhegion mewn papur lliwgar na dim arall.

Gweiddi crïo mewn braw a wnaeth o pan aeth Meira a Dafydd ag o i weld Sion Corn yn un o siopau mawr Lerpwl wythnos cyn y Nadolig.

“So what would you like to have this Christmas little man?” gofynnodd y Sion Corn Saesneg yn garedig. Doedd Wil ddim yn hoffi ei olwg nac yn deall ei iaith, felly dyma weiddi a sgrechian mewn braw dros y lle nes bod Meira yn gwrido ac yn hollol ffwdrus.

Buan y daeth nos Galan, a Dafydd a Meira’n eistedd yn dawel yn gwyllo’r teledu ac yn disgwyl am y flwyddyn newydd, 2005.

“Ers talwm, roeddwn i bob amser mewn parti gwyllt ar nos Galan. Wil a fi yn mynd i dŷ ffrindiau ac yn yfed llawer gormod,” meddai Meira.

“Dyna’n union oedd fy hanes i hefyd,” sibrydodd Dafydd, gan afael yn ei llaw ac anwesu ei boch.

“Wyt ti wir yn hapus Meira?” holodd yn sydyn gan edrych i fyw ei llygaid.

“Ydw, yn hapus iawn. Yn dangnefeddus o hapus. Wyt ti’n hapus Dafydd?”

“Yn hapus dros ben. Does yna ddim geiriau i ddisgrifio sut rydw i’n teimlo, cariad,” oedd ei ateb.

“Fyddet ti’n hoffi clywed newyddion da ar drothwy’r flwyddyn newydd?” holodd Meira gan droi at Dafydd gyda gwên ar ei hwyneb a dagrau’n cronni yn ei llygaid.

“Wel, byddwn debyg iawn. Be ydi’r sypreis? Dwi’n gwybod! Rwyt ti wedi setlo i ni fynd nôl i Lanwddyn am benwythnos cyn bo hir. Dyna’r man mwyaf rhamantus i ni, ynte?”

“Na, nid dyna ydi’r newyddion. Fe gawn ni fynd yno i ddathlu pen-blwydd ein priodas yn y gwanwyn,” oedd ei hateb, gan wneud iddo geisio dyfalu ymhellach beth oedd y newyddion da.

“Mi fyddai hynny’n amgylchiad i edrych ymlaen ato. Llanwddyn sy’ mor bwysig i ni ein dau ac yn rhan o wreiddiau Wil bach hefyd,” meddai Dafydd.

“Dwi’n dy ddeall di’n iawn, Dafydd, rwyt ti bron â byrstio isio gwybod, on’d wyt ti?”

“Ydw, tyrd yma’r hogan bryfoclyd,” atebodd gyda gwên.

“Dwi bron yn sicr mod i’n disgwyl eto. Dwi wedi cymryd y prawf y bore ’ma. Disgwyl ein babi bach ni, Dafydd. Mae Cymru’n galw. Mae’n rhaid i’r babi yma gael ei eni yng Nghymru. Dwi wedi hen flino ar fyw yn Lerpwl.”

Wrth iddi dorri’r newyddion iddo cofleidiodd a chusanodd Dafydd hi dro ar ôl tro.

“Dyna newyddion ardderchog ar ddechrau blwyddyn newydd. Mi awn ni cyn y gwanwyn i Lanwddyn i ddathlu ac i gynllunio’r dyfodol.”

“Dyna’n union fyddwn ni’n hoffi ei wneud,” cytunodd Meira, a golwg ddedwydd ar ei hwyneb.

* * *

Llanwddyn yn llyn, heddiw - dinodedd

Ei anheddau chwilfriw;

Tan genlli tonnog unlliw

Allorau bro’n y llawr briw.

(John Evans, ‘Yr Argae’)

CWLWM

CREULON

'Bwytaodd y tadau rawnwin surion, ac ar ddannedd y plant y mae dincod'

Jeremia 31: 29

*

'Dim ond dau sydd yn f'adnabod,

Fi fy hunan a'm cydwybod.'

Iolo Wyn Williams

*

'Cwlwm yw nad oes cilio – o'i afael

Nes cyrraedd i'r amdo...'

Anhysbys

RHAGAIR

Y mae'r ffermydd, y tai, y caeau a'r lleoedd eraill y cyfeirir atynt yn y stori hon i gyd yn bodoli unai ym Mostyn, sir y Fflint neu yn Cumbria (ar wahân i Gaeau Gwylltion, sy'n enw, nid ar fferm, ond ar lain o dir yn ardal Mostyn).

Mae'r stori ei hun, a phob un o'r cymeriadau, yn ddychmygol.

Rwy'n ddyledus am wybodaeth gefndirol i'r gweithiau canlynol:

- Anthony Lewis Jones, *Mostyn in Bygone Days* (Mostyn History Preservation Society, d.d.)
- R. Stanley Geddes, *Burlington Blue-Grey: A History of the Slate Quarries of Kirkby-in-Furness*, (Geddes, 1976)
- [amrywiol awduron], *Kirkby Fragments, vols 1-4*, (The History of Kirkby Group, 2005)

Rwyf hefyd yn ddyledus i'm tad a'm hen fodryb am eu hatgofion o fywyd pobl gyffredin yng ngogledd ddwyrain Cymru yn y cyfnod a ddarlunnir yn y nofel hon.

Pennod 1

Safai Phoebe Hughes wrth fwrdd mawr cegin y ffermdy â golwg bell ar ei hwyneb. Roedd ar ganol paratoi pastai afal i'w coginio ar gyfer y rhai oedd wedi dod i helpu yn y cynhaeaf gwair ar fferm Caeau Gwylltion.

Haf 1875 oedd hi, a phawb yn brysur yn y caeau yn lladd gwair gyda'u pladuriau. Edrychai drwy ffenestr y gegin. Gwelai aber yr afon Ddyfrdwy ac yn y pellter adeiladau uchel dinas Lerpwl. Gwyddai Phoebe fod Lerpwl yn Lloegr, ond doedd hi erioed wedi teithio ymhellach na Threffynnon.

Teimlai yn y felan braidd y bore hwnnw, a doedd hi'n malio dim na âi ymhellach na Threffynnon byth. Roedd fanno'n ddigon pell, yn ei meddwl hi.

Hogan cefn gwlad go iawn oedd Phoebe. Cafodd ei geni a'i magu ym mhentref Rhewl Mostyn, rhwng Ffynnongroyw i'r gorllewin, a Maesglas a'i ddyffryn diwydiannol cul i'r dwyrain. Tua phum milltir a hanner i'r wlad roedd pentref bach hynafol Chwitfordd. Yn y Rhewl, yn ysgol y pentref, y cafodd ei hychydig addysg.

Wedi iddi gyrraedd ei deuddeg oed, penderfynodd ei thad ei thynnu o'r ysgol er mwyn iddi ddechrau ennill ei thamaid. Roedd y teulu'n dlawd a phob ceiniog o help. Glöwr ym mhwl lleol Pwll-y-traeth oedd ei thad. Gweithiai oriau hirion a deuai adref â llwch glo drosto o'i gorun i'w sawdl. Yn anffodus i'r teulu, byddai'n mynnu galw ar y ffordd o'i waith bob dydd yn Nhafarn y Feathers ar yr esgus fod angen peint arno i olchi llwch y glo o'i gorn gwddw. Gyda'r blynyddoedd cynyddodd nifer y peintiau cwrw ac aeth arian y teulu'n brinnach, brinnach. Ceisiai mam Phoebe chwyddo mymryn ar eu cyllid prin trwy olchi a smwddio i bobl eraill. Felly, pan gafodd Phoebe waith ar fferm Caeau Gwylltion, roedd ei mam wrth ei bodd.

'Mae Mrs Evans Caeau Gwylltion yn ddynes ffeind. Rwy'ti wedi bod yn ffodus iawn yn cael lle yno, felly gwna dy orau a gweithia'n galed. A chofia, mae'r teulu'n bobl capel ffyddlon, felly bydd disgwyl iti fyhafio dy hun,' rhybuddiodd Ann Hughes, ei mam.

Roedd ei mam yn iawn. Roedd Phoebe wedi bod yn ffodus. Er nad oedd yn fferm fawr, roedd Caeau Gwylltion yn ddigon mawr i gynnal dwy forwyn a phedwar gwas. Roedd y tŷ fferm o faint sylweddol, gyda chegin fawr, llaethdy, ystafell fwyta, parlwr ac ystafell lai a ddefnyddiai Mr Evans, y meistr, fel math o swyddfa. I fyny'r grisiau ar y llawr cyntaf yr oedd pedair ystafell wely nobl, ac ar yr ail lawr, yn y nenfwd, dwy lofft fach. Cysgai'r gweision yn y llofft stabl.

Bob bore roedd yn ofynnol i Phoebe godi am bump o'r gloch. Roedd ei dyletswyddau'n cynnwys cynnau tân yn y gegin, fel y byddai'n barod i goginio brecwast i'r teulu erbyn saith o'r gloch. Byddai codi'r tegell haearn trwm pan oedd ei lond o ddŵr yn gofyn am dipyn o fôn braich. Ond roedd Phoebe'n ferch gref a buan y dysgodd sut i drin y tegell.

Tra oedd y tegell yn berwi byddai'n paratoi brecwast. Yr arferiad oedd iddi hi, Gwen a'r gweision fwyta eu brecwast wrth fwrdd y gegin, tra byddai Mr a Mrs Evans a'u mab bychan, Edward, yn yr ystafell fwyta.

Pryd syml oedd brecwast yng Nghaeau Gwylltion, heb newid yn yr haf na'r gaeaf. Uwd a thafelli o fara cartref efo menyn a jam cyrens duon, a digonedd o de poeth. Byddai'r teulu'n mwynhau'r un fwydlen bob bore, ond yn achlysurol byddai Mr Evans ac Edward yn gofyn am wy wedi'i ferwi.

Wedi golchi'r llestri brecwast, byddai Gwen a Phoebe'n rhannu'r dyletswyddau glanhau rhyngddynt. Mrs Evans oedd yn dweud beth oedd angen ei wneud bob dydd. Gwen oedd cogydd y tŷ ac fe ystyrid bwrdd Caeau Gwylltion y gorau yn y fro.

Byddai ganddynt lond tŷ o westeion dros y Nadolig a thros gyfnodau cneifio a chynaeafu. Ym mhob mis Mehefin cynhelid cyfarfod pregethu yng Nghapel Bethel. Mr Evans oedd y pen blaenor, ac fe'i hystyriai yn un o'i ddyletswyddau i roi llety i'r pregethwyr ac i wahodd y gweinidog a'i chwe chyd-flaenor i ginio am hanner awr wedi hanner dydd, ac yna i de am bedwar a swper am wyth y nos.

Roedd y sgwrs yn ystod y prydau hyn yn troi o gwmpas y pregethau a glywid yn ystod y dydd a materion yn ymwneud â'r capel a drygau'r oes.

Y dyletswyddau glanhau mwyaf di-nod a roddid i Phoebe fel arfer, sef y tasgau a ystyriai Gwen islaw ei statws hi fel yr uwch-forwyn – tasg fel cario dŵr o'r pwmp yn y buarth, oedd yn waith caled ar ddiwrnod golchi, a hithau'n gorfod llenwi'r boiler yn y tŷ golchi, a chynnau a bwydo'r tân yn barod i ferwi'r dillad gwyn. Yna, roedd y gwaith smwddio. Golygai hynny fod rhaid twymo'r haearn smwddio trwm ar grât y gegin, gan gymryd gofal mawr nad oedd yn rhy boeth i ddillad gorau'r teulu. Cas beth Phoebe oedd smwddio, a hithau'n gorfod sefyll o flaen bwrdd mawr y gegin a hwnnw wedi ei orchuddio â hen flancedi i'w arbed rhag gwres yr haearn smwddio.

Pan ddaeth gyntaf i Gaeau Gwylltion doedd gan Phoebe ddim syniad sut i smwddio a startsio crys. Roedd Mrs Evans yn wraig amyneddgar a charedig, a dangosodd iddi'n union sut yr oedd gwneud y gwaith.

‘Dylet dynnu’r haearn smwddio oddi ar y grât wedi iddo boethi ddigon. Gwna’n siŵr dy fod yn dal yr haearn efo clwtyn trwchus, poera arno, ac os bydd dy boer yn rholio i ffwrdd oddi ar yr haearn ar unwaith, yna y mae’n barod ac yn ddigon poeth i’w ddefnyddio. Os gelli smwddio crys dyn, byddi wedyn yn medru smwddio unrhyw ddilledyn,’ meddai gyda gwên gefnogol. Dros y misoedd gwellhaodd sgiliau smwddio Phoebe, yn gymaint felly fel i Gwen ei chanmol am ei gwaith o bryd i’w gilydd.

Un arall o’i thasgau oedd glanhau’r canhwylbrennau ac offer pres a’r llestri arian. Yng Nghaeau Gwylltion yr oedd sawl darn o bres, megis ffender, dwy badell twymo gwely, canhwylbrennau, proceri a dynau ar bob drws drwy’r tŷ. Unwaith y mis byddai angen glanhau’r cytleri arian, eu sgleinio ac yna eu golchi mewn dŵr a sebon cynnes.

Un o ddyletswyddau misol Phoebe oedd sgleinio’r dresel a’r cloc mawr a safai yn y cyntedd â chŵyr gwenyn. Byddai’n rhaid rhoi’r un driniaeth ofalus i’r bwrdd cinio a’r cadeiriau derw hardd, ac i fyny’r grisiau, y cwpwrdd dillad, y bwrdd sioraidd gyda’r drych crwn a’r comôd o gyfnod y Frenhines Anne a oedd yn ystafell wely Mr a Mrs Evans.

Er mor drwm oedd y gwaith, ac er bod yn gas gan Phoebe rai o’i thasgau, gwyddai fod Caeau Gwylltion yn un o’r lleoedd gorau yn yr ardal i weithio ynddo ac yr oedd Mrs Evans, ei meistres, yn dynes garedig, agos-i’w-lle, na fyddai Phoebe am ei brifo mewn unrhyw fodd am bris yn y byd.

‘Tyrd yn dy flaen, ferch! Be sy’n bod arnat ti? Dydi dy feddwl di ddim ar dy waith heddiw. Rhaid i’r bastai yna fod yn y popty erbyn un o’r gloch. Wyt ti’n iawn, dwed? Rwyd ti’n edrych yn ddigon symol,’ meddai Gwen, y forwyn hŷn, wrth iddi stryffaglio i roi mwy o danwydd ar dân y gegin i gynhesu’r popty ar gyfer y bastai.

Roedd yn berffaith wir. Doedd sylw Phoebe ddim ar y gwaith mewn llaw. Yn lle hynny, roedd ei meddwl ar Ifan Lloyd, gwas ar fferm gyfagos Coed Isaf. Roedd Ifan yn fachgen golygus, tal, gyda gwallt du cyrliog. Bu am rai misoedd yn canlyn Meg Plas Uchaf, ac fe aeth si drwy’r ardal fod Meg yn feichiog. Ond doedd dim gwir yn y stori. Ychydig wythnosau ynghynt roedd Ifan wedi llygadu Phoebe yn y Ffair Ffyliaid.

Roedd y Ffair Ffyliaid yn lle da i gael hyd i gariad. Cynhelid y Ffair ar y Sadwrn olaf ym mis Awst. Ond doedd fawr ddim yn digwydd: dim stondinau, na chystadlaethau, na sioeau pleser. Yn lle hynny, byddai pobl ifanc yr ardal yn

ymsgasglu o flaen tafarn y Swan, ac yna'n cerdded o amgylch y *green* yn sgwrsio a chwerthin. Gobaith y genethod oedd y byddai rhyw fachgen yn eu ffansio ac yn cynnig eu hebrwng adre ar ddiwedd y noson.

Doedd Phoebe erioed wedi mynychu'r Ffair Ffyliaid o'r blaen, cyn y dydd Sadwrn tyngedfennol hwnnw ar ddiwedd Awst 1874. Ei ffrind gorau, Catrin, a'i perswadiodd y byddai'n hwyl crwydro'r *green* yn eu dillad gorau i weld pa 'dalent' fyddai ar gael.

Roedd nos Sadwrn yn amser rhydd i Phoebe yn y Caeau Gwylltion, ac ar ben chwech o'r gloch rhedodd i fyny i'w hystafell wely fechan yn y nenfwd i baratoi ar gyfer y noson fawr. Dewisodd ei dillad yn ofalus, gan benderfynu ar wisg gotwm werdd a gwyn, gyda choler uchel wedi'i thrimio â *broderie anglaise* a chydag awgrym o dimpan yn y cefn, a oedd yn y ffasiwn ar y pryd. Gwnaeth Phoebe'r wisg ei hun, ac yr oedd yn falch o'i gwaith. Brwshiodd ei gwallt nes ei fod yn sgleinio, a'i rwymo'n ôl gyda rhuban. Roedd gwyrdd yn gweddu iddi ac yn tynnu sylw at ei gwallt cringoch, trwchus.

'A ble'r wyt ti'n mynd yn grandrwydd i gyd?' gofynnodd Gwen wrth i Phoebe geisio sleifio allan drwy ddrws cefn y gweision.

'Rydw i'n mynd am dro efo fy ffrind, Catrin Jones,' atebodd yn frysio wrth iddi gau'r drws.

Ond clywodd lais Gwen yn galw ar ei hôl o'r gegin fawr:

'Gobeithio nad wyt ti'n meddwl mynd i'r Ffair Ffyliaid yna. Ddaw dim ond drwg o fynd i le fel yna! Coelia di fi!'

'Wnei di fy nghyfarfod i y tu ôl i'r Swan? Hoffwn i gael gair efo ti,' sibrydodd Ifan Lloyd wrth i'w hysgwyddau led gyffwrdd yn y cwmni a oedd yn cerdded o amgylch y *green*.

'O! glywaist ti hynna? Be ddylwn i neud? Ddylwn i ei gyfarfod o?' gofynnodd Phoebe i Catrin, wedi cynhyrfu drwyddi. 'Roeddwn i dan yr argraff ei fod o'n canlyn Meg Plas Uchaf, ond tydw i ddim wedi'i gweld hi yma heno.'

'O! Ydi, mae hi yma, yn siŵr ddigon. Mae hi'n dawnsio hyd y lle ac yn gwneud llygaid ar bob un mewn trowsus! Wrth gwrs, rhaid iti ei gyfarfod o. Mae Ifan yn dipyn o *catch*, a mae'n nhw'n deud nad ydi o ddim yn un i adael i'r borfa dyfu dan ei draed, os wyt ti'n dallt be sy gen i,' atebodd Catrin yn chwareus.

'Helo, rwyt ti wedi dwad. Roeddwn i'n meddwl y baset ti.'

Teimlodd Phoebe law gynnes Ifan yn cydio ynddi ac yn ei harwain i'r llecyn tywyllaf yng nghefn yr hen dafarn. Yno y buon nhw am y gweddill o'r noson yn cofleidio a chusanu.

Roedd Phoebe wrth ei bodd, yn mwynhau'r sylw a gâi gan Ifan. Yn ei diniweidrwydd, teimlai'n ansicr iawn ar y dechrau wrth iddo ei gwthio yn erbyn drws y certws. Wedi'r cyfan, roedd hi dan yr argraff mai Meg oedd ffrind arbennig Ifan.

'Ymlacia a mwynha dy hun,' sibrydodd Ifan yn ei chlust.

Buan iawn yr anghofiodd Phoebe am Meg Plas Uchaf.

'Ga'i ddod i gnocio'n hwyrach heno?' gofynnodd Ifan, wrth i'w ddwylo anwesu ei chorff siapus.

'Roeddwn i'n meddwl dy fod ti'n canlyn Meg Plas Uchaf,' atebodd Phoebe.

Ond sicrhaodd Ifan hi fod ei garwriaeth â Meg wedi dod i ben ers amser. A ph'run bynnag, roedd o'r farn ei bod hi, Phoebe, yn ddelach o lawer na Meg.

'Mae gen ti wallt harddach a chorff mwy siapus o lawer na hi,' meddai mewn llais melfedaidd, tawel.

'O! dydw i ddim yn hoff o liw fy ngwallt. Mae'n rhy goch o lawer.'

'Na, na, mae'n felyn-goch, ac mae nhw'n dweud fod merched ifanc â lliw gwallt yr un fath â thi yn rhai arbennig o gariadus,' meddai Ifan yn awgrymog.

Methai Phoebe wneud pen na chynffon o'r sefyllfa. Dyma lle'r oedd hi, efo'r dyn mwyaf golygus yn yr ardal yn dweud cymaint o bethau hyfryd wrthi ac yn gofyn am gael ei gweld hi eto y noson honno. Doedd dim dwywaith nad oedd hi'n dechrau gwirioni arno'n barod.

Wrth iddyn nhw ymwahanu, sibrydodd Ifan:

'Wela'i di tuag un-ar-ddeg. Mi dafla' i gerrig mân at ffenest dy lofft a tyrd di i lawr i agor y drws imi.'

Cytunodd hi i wneud hynny, heb feddwl am eiliad beth allai canlyniadau'r fath antur fod. Roedd hi'n benysgafn hapus. Chafodd hi erioed o'r blaen fwynhau'r fath sylw ac edmygedd.

Wrth iddi ddringo'r grisiau ar flaenau'i thraed i'w hystafell fach yn y nenfwd, diolchai fod ganddi ystafell iddi ei hun. Nid peth anghyffredin y dyddiau hynny oedd i forynion orfod rhannu ystafelloedd gyda dwy neu dair yn yr un lloft. Ond roedd Gwen yn llawer rhy sydêt a hen-ffasiwn i gytuno i rannu ystafell â hogan ifanc fel Phoebe.

Roedd yr ystafell yn fach, yn gynnes iawn yn yr haf, ac yn glyd ym misoedd oer y gaeaf. Braidd yn gul oedd ei ffrâm wely haearn, a gwichiai'n uchel bob tro y

byddai'n dringo iddo. Ar y gwely roedd cwilt clytiau a ddaeth gyda hi o'i chartref a wniwyd gan ei mam yn arbennig ar ei chyfer. Teimlai Phoebe'n gynnes gartrefol bob tro y cerddai i mewn i'w lloft fach a gweld y cwilt lliwgar.

Yng nghornel yr ystafell safai cist bren; yn honno y cadwai ei dillad. Ar gadair wrth erchwyn y gwely roedd canhwylbren bres, ac wrth ei hochr gopi o'r Testament Newydd a gafodd gan ei gweinidog pan gafodd ei derbyn yn gyflawn aelod yng Nghapel Bethel. Gyferbyn â'i gwely roedd bwrdd bychan a ddaliai jwg a basn ymolchi glas a gwyn. Ar y wal uwchben y basn ymolchi hongiai drych bychan gyda'r crac ar ei draws yn arwyddo ei fod wedi gweld gwell dyddiau. Drwy'r ffenestr gul gallai Phoebe edrych allan dros fuarth y fferm ar yr adeiladau.

Roedd Phoebe wrth ei bodd â'r ystafell. Doedd hi erioed o'r blaen wedi cael ystafell wely iddi ei hun.

Y noson honno, a hithau'n disgwyl Ifan Lloyd, ei hunig bryder oedd fod ystafell Gwen ar draws y landin. Byddai'n embaras enbyd petai Gwen yn digwydd clywed Ifan yn sleifio i mewn yn hwyr y nos.

Wrth iddi ddisgwyl am sŵn cerrig mân ar wydr ei ffenest, roedd ei meddwl ym mhobman. Cafodd ei siarsio gan Gwen sawl gwaith rhag gwneud dim â'r arfer o gnocio, a oedd yn ei barn hi yn arferiad peryglus a phechadurus.

'Byddai Mr a Mrs Evans yn dy hel di o 'ma ar dy ben pe baet yn caniatâu i ryw fachgen diarth ddod i gnocio wrth dy ffenest,' rhybuddiodd.

Ond anghofiodd Phoebe holl rhybuddion Gwen yn ei hawydd i weld Ifan Lloyd unwaith eto y noson honno. Datododd y rhuban yn ei gwallt a'i adael i ddisgyn yn rhydd dros ei hysgwyddau. Brwsiodd ei gwallt nes ei fod yn sgleinio, ac edmygodd ei hun yn y drych bychan uwch ben y basn ymolchi. Goleuodd y gannwyll wrth ochr ei gwely ac eisteddodd i ddisgwyl.

Oedd Ifan am ddod fel yr addawodd?

Pefriai ei llygaid gleision wrth edrych ymlaen at ei ymweliad ac yr oedd gwridd ar ei bochau o gofio am ei gusanau poeth y tu ôl i'r Swan. A hithau'n dechrau anobeithio, fe glywodd dinc cerrig mân ar wydr y ffenestr. Cymerodd gip o'r tu ôl i'r llenni. Dyna lle'r oedd o ar y buarth yn edrych i fyny ac yn codi'i law yn frwd.

Sleifiodd Phoebe i lawr y grisiau mor dawel ag y gallai, yn ymwybodol fod ambell ris yn dueddol o wichian o dan ei phwysau. Cyrhaeddodd waelod y grisiau ac oeddoddi i wrando. Na, doedd dim siw na miw i'w glywed yn y tŷ. Agorodd y drws cefn yn ofalus a rhoi bys ar draws ei gwefusau i siarsio Ifan i fod yn dawel wrth iddi

ei adael i mewn i'r gegin. Dilynodd hi fel cysgod i fyny'r grisiau heb yr un smic. Ond bu bron iddo neidio o'i groen pan ddechreuodd y cloc mawr yn y cyntedd daro un-arddeg.

Wedi cyrraedd y llawr uchaf llithrodd y ddau yn ddistaw i mewn i'r lloft fach a chaeodd Phoebe'r drws yn dawel Cyn iddi gael cyfle i ddweud dim, roedd Ifan wedi ei gwthio ar ei chefn ar y gwely a theimlai ei law i fyny ei sgert yn tynnu'n wyllt ar ei dillad isaf a'i law arall yn ceisio datod botymau ei falog.

'Be yn y byd wyt ti'n neud? Be sy'n digwydd?' gofynnodd Phoebe mewn braw, yn ofalus i beidio â chodi ei llais yn uchel.

Yn ei diniweidrwydd dibrofiad doedd hi ddim wedi disgwyl y byddai dim byd tebyg i hyn yn digwydd. A dweud y gwir, wyddai hi ddim beth oedd *yn* digwydd.

'Jest gorwedda'n ôl a mwynha dy hun. Mi ddysgai i ti be ydi caru go iawn.'

Plannodd Ifan ei wefusau poeth dros ei cheg rhag iddi fedru protestio na gofyn mwy o gwestiynau.

Mewn dim amser roedd popeth drosodd. Cododd Ifan oddi ar y gwely, a chan gau botymau ei falog, meddai, a gwên foddhaus ar ei wyneb:

'Mi ddwedes y byddwn i'n dangos iti sut i garu'n iawn. Ddaru ti fwynhau dy hun?'

Roedd Phoebe wedi cael y fath ysgytwad fel na fedrai ddweud dim. Gorweddodd yn ôl ar y gwely a'i sgert i fyny at ei gwddf. Yna, cododd yn araf a dechrau tacluso'i dillad.

Meddai'n dawel:

'Mi fwynheais i'r cusanu y tu ôl i'r Swan yn fwy o lawer.'

'Paid â phoeni, byddi'n mwynhau'n well y tro nesa.'

Gyda hynny o eiriau aeth Ifan allan o'r lloft fach ac i lawr y grisiau'n dawel ar flaenau'i draed. Dilynodd Phoebe ef er mwyn cloi drws y gegin ar ei ôl.

'Wela'i di nos fory,' meddai, cyn diflannu i'r nos ddi-sêr.

*

Ni fyddai Ifan byth yn aros yn hir. Roedd hanner awr o garu tanbaid ar y gwely bach haearn gwichlyd yn ei fodloni. Yna, fel cysgod tywyll, byddai'n gadael drwy ddrws y cefn heb fod neb yn y tŷ fferm yn gwybod dim am ei ymweliadau nosweithiol. Dechreuodd Phoebe fwynhau'r caru garw, ffwrdd-â-hi, a byddai'n edrych ymlaen at

nos Fercher, nos Wener a nos Sadwrn, ac yn clustfeinio am sŵn y cerrig mân ar wydr ei ffenestr tuag un-ar-ddeg o'r gloch. Ond er iddynt fwynhau eu hamser gyda'i gilydd, ni allai Phoebe anghofio rhybuddion Gwen, y forwyn hŷn, am beryglon cnocio. Ond gwthiodd ei hamheuon i gefn ei meddwl.

Yna'n sydyn, un bore Sul, tua deufis ers cychwyn ymweliadau hwyrol Ifan, cafodd Phoebe fraw pan gyhoeddodd Gwen yn ei llais awdurdodol wrth iddi baratoi'r cinio Sul:

'Mi hoffwn i gael gair efo ti, Phoebe Hughes. Mi glywais i sŵn od iawn yn dod o d'ystaffell di neithiwr.'

Cochodd Phoebe at wreiddiau ei gwallt cringoch. Ond heb godi ei phen wrth iddi grafu'r tatws, gofynnodd mor ddidaro ag y medrai:

'Sut fath o sŵn glywsoch chi, felly?'

Gallai glywed ei chalon yn curo fel injan ddyrnu.

'Wel, mi allwn dyngu dy fod yn neidio i fyny ac i lawr ar dy wely. Beth yn y byd mawr oeddet ti'n ei neud?'

'Mae'n rhaid fy mod yn cael rhyw fath o hunllef,' atebodd Phoebe, gan droi ei chefn ar Gwen rhag ofn i honno weld ei hwyneb coch.

'Roedd yn swnio fel hunllef brawychus iawn. Bu bron imi godi i groesi'r landin i weld oeddet ti'n iawn.'

Bu bron i Phoebe lewygu. Beth petai Gwen wedi cerdded i mewn i'w hystafell a gweld beth oedd yn digwydd. Byddai'n rhaid iddi anfon neges i rybuddio Ifan cyn nos Fercher.

Roedd yr haul yn gwenu a chymylau bychain yn sgrialu ar draws yr awyr. Bu'n glawio'n drwm yn ystod y nos a gyda gwynt yn codi o'r gogledd orllewin teimlai'n hydrefol oer. Roedd y dyddiau'n byrhau a'r nosweithiau'n ymestyn. Teimlai Phoebe'n llawn pryder wrth feddwl am sylwadau Gwen y diwrnod cynt. Sut yn y byd y gallai gael neges at Ifan? Penderfynodd mai'r ffordd orau fyddai iddi sleifio allan yn dawel a mynd i chwilio amdano ar fferm Coed Isaf.

Ymhen rhai dyddiau, ganol y bore, daeth ei chyfle. Cerddodd Mrs Evans i mewn i'r gegin a gofyn iddi:

'Phoebe, oes gen ti ffansi mynd am dro? Rydw i eisiau iti fynd i Goed Isaf. Mae gen i nodyn i'w ddanfon i Mrs Jones, gwraig y fferm.'

Fedrai Phoebe ddim credu ei lwc. Rhedodd i fyny'r grisiau i nôl ei chlogyn cynnes gan fod y tywydd yn oer ac yn wyntog.

‘Paid ti â din-droi yng Nghoed Isaf,’ rhybuddiodd Gwen, ‘mae’n ganol dydd yn barod, ac mi fydda’i angen dy help di i hwylio swper.’

Ar y gair daeth Mrs Evans i mewn i’r gegin a’r nodyn yn ei llaw i’w ddanfon i Mrs Jones. Ychwanegodd hithau:

‘Brysia’n ôl, Phoebe. Mae’n tywyllu ynghynt y nosweithiau yma, a dydan ni ddim eisiau i ti fod yn cerdded drwy Nant Ffynnon Lwyd ar dy ben dy hun a hithau’n nosi.’

Unwaith y cafodd Phoebe ei thraed yn rhydd, cerddodd mor gyflym ag y gallai. Aeth heibio i’r ffynnon yn Nant Ffynnon Lwyd lle’r arferai trigolion pentref Rhewl dynnu dŵr. Yna, i fyny’r cwm, nes cyrraedd y ffordd a cherdded wedyn ar draws Cae Cocsydd. Yn y pellter gallai weld mwg yn codi o simdde bythynnod Bychton a Phlas Bychton. Aeth trwy Goed Bychton ac allan â hi i olwg fferm Coed Isaf.

Curodd wrth ddrws y ffermdy ac agorwyd y drws gan Mrs Jones.

‘Wel, dyma syrpreis; tyrd i mewn Phoebe, roeddwn i ar fin rhoi’r tegell ar y tân. Gymri di baned?’

‘Na, dim diolch, rydw i wedi cael fy siarsio i gyrraedd yn ôl cyn iddi dywyllu,’ atebodd Phoebe gan estyn y nodyn i Mrs Jones.

Cymerodd hithau’r nodyn, ei ddarllen, a dweud wrth Phoebe am roi ei hateb i Mrs Evans, sef y byddai’n barod iawn i ddod i’r cyfarfod.

O’r diwedd, roedd Phoebe’n rhydd i chwilio am Ifan Lloyd. Clywodd sŵn yn dod o gyfeiriad yr ysgubor a chafodd fod Ned, un arall o’r gweision, yno’n gweithio. Gofynnodd iddo’n dawel a wyddai ble’r oedd Ifan?

‘Ond roeddwn i’n meddwl mai wedi dod â neges i Mrs Jones oeddet ti,’ atebodd Ned gyda gwên ddiereidus.

Cochodd Phoebe drosti a cheisiodd egluro fod Gwen, y forwyn hŷn wedi gofyn iddi gael gair ag Ifan ar ei rhan.

‘O, felly wir! Tyn y goes arall tra wyt ti wrthi! Ond mi ddweda’ i lle gei di hyd i Ifan. Mae o ar y cae top yn ffensio,’ atebodd Ned.

I ffwrdd â hi ar garlam i gyfeiriad cae top. Pan gyrhaeddodd y giât gwelai Ifan yn dyrnu pyst ffensio i’r pridd caled. Cerddodd ar draws y cae tuag ato. Edrychodd yntau arni’n syn.

‘Be yn y byd mawr wyt ti’n neud yma? Oes awydd dipyn mwy o garu poeth arnat ti?’

‘Paid â siarad yn wirion, Ifan. Rydw i wedi dod i dy rybuddio di. Mi fu bron inni gael ein dal ychydig nosweithiau’n ôl gan Gwen. Fedri di ddim dod i fyny’r grisiau i fy stafell wely eto,’ meddai’n bendant. ‘Fe fyddai ar ben arna’i pe baen ni’n cael ein dal.’

Gollyngodd Ifan y morthwyl trwm a thynnodd Phoebe i’w freichiau.

‘Paid â chrïo. Mae yna ffordd o ddod dros y broblem. Pan fydda’ i’n dod heibio Caeau Gwylltion ar nos Fercher, nos Wener a nos Sadwrn, ac yn taflu cerrig mân at ffenest dy lofft fel arfer, tyrd di i lawr ata’ i ac fe redwn ar draws y buarth i’r sgubor a gwneud ein hunain yn gyfforddus yn y gwair. Fydd neb yn aflonyddu arnom ni’n y fan honno ac fe allwn garu cyhyd ag y mynnwn ni. Bydd Gwen yn rhochian cysgu pan fyddi di’n dringo’r grisiau yn ôl. Fydd hi ddim mymryn callach.’

Rhoddodd Ifan chwerthiniad bach direidus wrth egluro’i gynllun i Phoebe. Cytunodd hithau’n frwd â’i awgrym.

Y canlyniad oedd i’r ddau fwynhau nosweithiau o gusanu a charu tanbaid. Roedd Phoebe yn ei seithfed nef, yn rhydd o lygaid bysneslyd a chlustiau amheus Gwen. A doedd fawr o siawns y byddai Mr a Mrs Evans yn dod i wybod am eu campau carwriaethol yn y gwair.

Ar foreau Sul byddai Phoebe’n cyflawni ei dyletswyddau’n ddiwyd a bob nos Sul byddai yng Nghapel Bethel gyda theulu Caeau Gwylltion. Byddai Ifan hefyd yn y capel yng nghwmni pedwar gwas arall yn sedd teulu fferm Coed Isaf. Wrth iddo ef a Phoebe basio’i gilydd yn y cyntedd byddai’n rhoi winc slei iddi ac yn sibwrdd:

‘Yr un man, yr un amser nos Fercher!’

Byddai hithau’n gwenu ac yn gwneud llygaid llo arno.

*

Wrth i Phoebe fynd o gwmpas ei thasgau yn fferm Caeau Gwylltion, byddai’n meddwl wrthi’i hun pam tybed roedd Mrs Evans yn ystyried cnocio yn gymaint o bechod. Beth oedd o’i le ar fwynhau caru yn y gwely? Roedd bod rhwng y gobennydd, neu yn y gwair, gyda llanc mor ddeniadol ag Ifan yn fwynhad pur ac ni theimlai gywilydd o fath yn y byd. Sul ar ôl Sul byddai’n clywed pregethwyr yn sôn am y pwysigrwydd o garu eraill. I’w meddwl syml hi, dyna’n union roedd hi ac Ifan yn ei wneud – caru ei gilydd!

Bu'r tywydd yn sych gydag ychydig iawn o law yn ystod yr hydref hwnnw, ond er i'r dyddiau fod yn gynnes gyda'r haul braf yn peri i ddail y coed sgleinio'n aur a choch, yn enwedig yn y coed y tu cefn i Caeau Gwylltion, roedd y nosweithiau'n ymestyn ac yn oeri.

Fel arfer yn nhymor yr hydref roedd gan Phoebe a Gwen ddyletswyddau i'w cyflawni i baratoi ar gyfer misoedd y gaeaf. Roedd yn amser i gasglu ffrwythau o'r berllan ac oddi ar y gwrychoedd. Roedd digonedd o afalau coginio, afalau bwyta ac eirin damson – yr afalau i'w cadw yn y granar, bob un wedi'i lapio mewn papur a'i gadw mewn lle sych a lled oer. Yr eirin damson i'w gwneud yn jam a phwysi ohonynt i'w potelu ar gyfer gwneud pastai a theisennau yn ystod y gaeaf. Yn yr un modd, byddai'r mwya'r duon a'r mafon cochion yn cael eu potelu a chaed jariau lawer o jam o ffrwythau'r gwrychoedd.

Roedd Phoebe wrth ei bodd yn potelu ffrwythau, ond roedd yn gas ganddi biclo nionod a chabaets coch, gan y byddai pilio'r nionod yn peri i'r dagrau lifo i lawr ei gruddiau.

'Rŵan, Phoebe, rho lwy bwdin yn dy geg a chlensia dy ddannedd yn dynn amdani, bydd hynny'n atal y dagrau pan fyddi'n pilio'r nionod,' cynghorodd Gwen hi.

Ond ni chafodd Phoebe druan fawr o ryddhad o ddilyn y cyfarwyddiadau hyn, a phan fyddai'n protestio yn erbyn gorfod dal y llwy yn ei cheg, byddai Gwen yn ateb yn sarrug:

'Paid â bod yn wirion, ferch. Dylet fod yn ddiolchgar nad oes gen ti ddim byd gwaeth i grïo amdano.'

Gwaith diflas oedd paratoi'r cabaets coch. Safai Phoebe wrth fwrdd y gegin yn torri'r cabaets yn sribedi mân cyn ei osod mewn padell fawr a'i orchuddio â darnau trwchus o greighalen a oedd wedi ei falu'r diwrnod cynt. Wedi deuddydd byddai'r cabaets yn cael ei hidlo er mwyn cael gwared o'r halen, y sribedi cabaets wedyn yn cael eu gosod mewn poteli glân yn llawn fineg sbeislyd, eu cau â chapiau papur a'u cadw am ddeufis. Doedd dim mwy blasus adeg y Nadolig na chig oer â chabaets coch a nionod picl.

Yn ystod misoedd y gaeaf roedd wyau yn brin yng Nghaeau Gwylltion. I wneud yn sicr fod cyflenwad ar gael i goginio byddai Gwen yn cadw wyau mewn preserfol o'r enw *water glass*. Doedd Phoebe ddim yn gyfarwydd â'r broses pan

ddaeth gyntaf i Gaeau Gwylltion. Roedd ei mam hefyd yn synnu pan glywodd am yr arferiad.

‘Ond cofia, ar gyfer coginio’n unig, neu i wneud omled neu wyau wedi eu sgramblo, y mae wyau cadw, nid i’w berwi i frecwast Mr Evans,’ eglurodd Gwen yn wybodus.

Roedd Phoebe’n mwynhau’r Nadolig ar y fferm. Roedd cymaint o baratoadau i’w gwneud o flaen llaw, yn enwedig y gacen Nadolig a sawl pwddin.

‘Phoebe, fe ddylet fynd eleni i’r Plygain yn Lloc ar fore Nadolig,’ meddai Mrs Evans un bore. ‘Byddi’n siŵr o’i fwynhau.’

Y noson honno, a hithau’n gorwedd ym mreichiau Ifan yn y das wair gynnes, awgrymodd Phoebe i’w chariad y dylai yntau ymuno â hi a’r gweision eraill yn y gwasanaeth carolau cynnar yn Lloc.

‘Iawn,’ atebodd Ifan, ‘Dwed wrth Gwen fod Mrs Evans wedi awgrymu iti fynd yng nghwmni Ioan Llwyd a Sacharia, ac mi wna i eich cyfarfod ar y ffordd yn Nhrefostyn. Wnaiff Gwen ddim amau dim o wybod eu bod nhw yn edrych ar dy ôl di.’

Fore Nadolig, fel y trefnwyd, cychwynnodd Phoebe, Ioan Llwyd a Sacharia am chwarter wedi pedwar ar eu taith i Lloc. Wrth iddyn nhw gerdded i fyny allt y Rhewl i gyfeiriad Trefostyn, cyfaddefodd Phoebe ei bod wedi trefnu i Ifan Lloyd ymuno â nhw, ond nad oedden nhw ddim ar unrhyw gyfrif i yngan gair wrth Gwen.

‘Wel, sut mae?’

Roedd Ifan yn eu disgwyl ac yn cuddio y tu ôl i goeden dderw ar gornel Coed Iâ ger Trefostyn. Ar unwaith rhoddodd fraich warcheidiol am ysgwyddau Phoebe.

‘Tyrd, hogan, dwi’n siŵr y liciet ti gael dy wasgu i dy gynhesu di ar fore mor oer.’

‘Hisht, Ifan, rydan ni mewn cwmni,’ atebodd Phoebe yn cochi at ei chlustiau, ond yn falch nad oedd neb yn medru’i gweld yn y tywyllwch.

‘Rydw i’n siŵr nad oes dim gwahaniaeth gennyh chi, yn nag oes, hogiau?’

‘Dim o gwbl, cariwch chi ymlaen eich dau,’ meddai’r ddau gan bwffian chwerthin.

Cafwyd llawer o chwerthin a thynnu coes wrth iddyn nhw fynd ar eu taith. Un da am ddweud stori oedd Ioan Llwyd, ond gwyddai pawb y byddai’n eu rhaffu nhw ar adegau.

O'r diwedd daethant at y capel bach ym mhentref Lloc. Am chwech y byddai'r Plygain yn cychwyn, ond roedd rhaid bod yno erbyn hanner awr wedi pump fan bellaf i gael sedd. Wrth gerdded i mewn gwelsant fod y capel bron yn llawn.

Awgrymodd Ioan i Ifan a Phoebe gymryd sedd yn yr ail res o'r sêd fawr. Roedd Phoebe'n ymwybodol fod llygaid pawb yn y capel arnyn nhw. Roedd yn siŵr iddi gael cip ar Meg Plas Uchaf, hen gariad Ifan, a hoffai petai'r llawr yn agor ac yn ei llyncu.

Ar ben chwech cododd y gweinidog i offrymu gweddi fer i ddechrau'r cyfarfod. Yna, gwahoddod aelodau'r gynulleidfa i ddod ymlaen i gymryd rhan, i ganu'n unawdwyr neu'n bartïon. Daeth distawrwydd dros y gynulleidfa a phawb yn disgwyl i rywun godi. Yn sydyn, sylwodd Phoebe fod Sacharia a Ioan Llwyd wedi codi a'u bod yn cerdded i flaen y capel. Trawodd Sacharia ei bicfforch ar ymyl y sêd fawr ac yna llanwyd y capel a sŵn hyfryd deuawd bâs a thenor yn canu'r hen garol Gymraeg, 'Wele'n gwawrio ddydd i'w gofio.'

Wedi i Ioan a Sacharia ddychwelyd i'w seddau cododd eraill a chafwyd eitem ar ôl eitem o unawdau, deuawdau a phartïon. Canwyd llawer o'r hen ffefrynnau gyda'r gynulleidfa'n ymuno yn y rhai mwyaf cyfarwydd. Gan nad oedd Ifan na Phoebe wedi bod mewn Plygain o'r blaen, roedd y ddau wedi eu cyfareddu, yn enwedig o sylwi ar rai yn mynd ymlaen yn dawel a pharchus heb i neb eu cymell.

Am wyth o'r gloch cododd y gweinidog eto i ddiolch i'r rhai a oedd wedi cymryd rhan ac i ddymuno Nadolig llawen a bendithiol i bawb. Diweddodd y Plygain trwy weddio ar i Dduw fendithio pawb oedd yn bresennol a holl deuluoedd y fro, a chan erfyn i ysbryd y Nadolig ymledu drwy'r holl fyd.

Wrth i'r gynulleidfa lifo allan i'r bore rhewllyd yn aroglau canhwylau brwyn y capel bach, clywid pawb yn cyfarch ei gilydd yn siriol ac yn dymuno Nadolig llawen, y naill i'r llall.

Ar eu taith tuag adref, heibio i fferm y Gelli a Maen Achwyfan, teimlodd Phoebe ias yn cerdded ei chorff a gofynnodd a oedd rhywun yn gwybod pwy oedd wedi codi'r groes garreg ganrifoedd ynghynt.

'Yr unig beth wn i,' meddai Sacharia, 'ydi bod sôn am ysbrydion yn dawnsio o amgylch y groes ar leuad llawn. Mae nhw'n dweud mai ysbrydion ydyn nhw y rhai a laddwyd mewn brwydrau ar y Glol gerllaw ganrifoedd yn ôl'

'Pwy oedd rheini?'

‘Does neb yn gwybod i sicrwydd,’ ychwanegodd Ioan. ‘Mae rhai yn dweud mai Llychlynwyr oedden nhw, wedi croesi’r môr o wledydd Sgandinafia. Roedd llawer ohonyn nhw wedi setlo yng Nghymru yn yr oes honno.’

Doedd gan Phoebe ddim syniad yn y byd pwy oedd y Llychlynwyr nac ymhle roedd gwledydd Sgandinafia, felly rhag dangos ei hanwybodaeth penderfynodd beidio â gofyn mwy o gwestiynau. Roedd ganddi hi lawer mwy o ddiddordeb yn Ifan Lloyd nag yn y Llychlynwyr.

Cyn iddynt ymwahanu – Ifan am Goed Isaf a’r tri arall am Gaeau Gwylltion – mynnodd Ifan gael gair preifat efo Phoebe. Tynnodd hi i’r naill ochr gan sibrwd:

‘Nos Sadwrn, yr un amser a’r un lle.’

Gwenodd Phoebe, a gwyddai Ifan ei bod hi’n mwynhau eu giamocs yn y sgubor wair gymaint ag yntau.

Rhedodd Phoebe i fuarth Caeau Gwylltion heb edrych yn ôl a chan obeithio nad oedd Gwen wedi eu gweld wrth y giât. Wrth i Ifan frasgamu i gyfeiriad fferm Coed Isaf hymiodd un o’r carolau a glywodd yn y Plygain y bore hwnnw. Teimlai’n hapus. Roedd yn hoff iawn o Phoebe Hughes. Roedd hi’n eneth ddel, a’r un mor eiddgar ag yntau i garu yn y gwair.

*

Roedd yn gas gan Ifan dymor wyna, a hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, roedd yn gorfod codi’n afresymol o gynnar, weithiau mor gynnar â hanner awr wedi tri y bore, er mwyn gwneud yn siŵr nad oedd yr un o’r defaid mewn trafferthion ac i sicrhau fod yr wŷn bach newyddanedig yn gysurus yn ystod y nosweithiau oer. Yr ail reswm oedd fod wyna yn drysu ei drefniadau efo Phoebe. Yn aml byddai’n cyrraedd yn hwyr am iddo orfod mynd gyda’r nos i fwrw golwg ar y ddiadell. Yr oedd trydydd rheswm hefyd. Wrth iddynt orwedd yng nghynhesrwydd y gwair byddai Phoebe’n cwyno’n arw fod aroglau defaid yn gryf arno, a byddai hynny’n amharu ar ei hawydd. Methiant truenus oedd eu caru ar nosweithiau o’r fath.

Wedi swper ar ryw nos Fercher ym mis Mawrth 1875 taflodd Ifan hen sach dros ei ysgwyddau i’w gadw’n sych cyn dechrau cerdded i gyfeiriad Caeau Gwylltion. Roedd y glaw’n pistyllio wrth iddo groesi Cae Penrhewl lle roedd y ddiadell yn setlo’i lawr am y nos. Yn sydyn, clywodd oen yn breffu yng nghornel bella’r cae. Gyda’i lantern yn un llaw aeth i chwilio am yr oen.

Safodd a gwranddo. Roedd yn sicr fod y breffu'n dod o gyfeiriad y cae hir. Oedodd gan ei holi ei hun. A ddylai anwybyddu'r breffu a mynd i Gaeau Gwylltion er mwyn mwynhau awr neu fwy gyda Phoebe? Roedd breffiadau'r oen yn awgrymu ei fod mewn helbul, felly penderfynodd y byddai'n ddoethach iddo fynd i chwilio am yr anifail bach. Roedd o'n gwybod yn iawn beth fyddai Jones y ffermwr yn ei edliw iddo pe bai'r oen yn marw.

Camodd yn dawel a gofalus drwy'r defaid. Yna gwelodd yng ngolau ei lantern oen bach newydd ei eni yn sefyll yn druenus wrth gorff ei fam oedd yn amlwg wedi colli'r dydd wrth roi genedigaeth iddo. Roedd yr un bach mewn cyflwr enbydus, prin yn gallu sefyll ar ei goesau gwan ac arwyddion ei eni anodd yn amlwg ar ei gorff. Gan fod y ddfad wedi marw, doedd yr oen bach ddim wedi cael ei lyfu'n lân, felly cododd Ifan ef a'i lapio yn y sach oedd am ei ysgwyddau ei hun i'w warchod rhag y glaw. Rhedodd yn ôl i fferm Coed Isaf a'r oen yn ei freichiau. Galwodd ar Anne y forwyn i baratoi potel i fwydo'r un bach ac i'w gadw'n gynnes wrth y tân agored.

Erbyn iddo gychwyn allan am yr eildro roedd yr oen ar lin Anne ac yn sugno'n braf ar y botel laeth a gadwai hi ar gyfer argyfyngau o'r fath.

Wrth gerdded eto tua'r Caeau Gwylltion, roedd Ifan yn ofni mai croeso llugoer fyddai'n ei ddisgwyl gan Phoebe. Gwelodd hi'n sefyll yn disgwyl amdano wrth gornel y beudy a golwg fel y fall ar ei hwyneb. Roedd yn amlwg wedi ei chynddeiriogi.

'Dwi wedi bod yn sefyll yma yn y glaw am oesoedd!' brathodd. 'Ti a dy hen ddefaid!'

Trodd wysg ei chefn fel pe bai am gerdded yn ôl am y tŷ, ond gafaelodd Ifan yn ei braich a'i harwain i gyfeiriad y sguor gyda hithau'n protestio ac yn cymryd arni bod o'i cho. Gwthiodd Ifan hi i fyny'r ysgol a'i thynnu i'r gwair cynnes.

'Na, na! Does gen i ddim awydd heno, ac rwy'ti'n drewi o ddefaid,' cwynodd.

Ond ni chymrodd Ifan unrhyw sylw o'i phrotestiadau. Rhoddodd ei freichiau amdani a'i chusanu'n nwydus. Teimlodd Phoebe ei ddwylo'n ymwithio o dan ei dillad ac mewn dim amser yr oedd yn ymateb yn awychus i'w gyffyrddiadau a'i gusanau. Bu'n noson o garu brwd – noson oedd i aros yn hir yng nghof y ddau.

*

‘Rydw i wedi dweud wrthot ti o’r blaen – rho dy feddwl ar dy waith. Rwyt ti’n hel meddyliau. Rhaid i’r bastai afal yna fod yn y popty o fewn hanner awr. Rwyt ti’n gwybod sut fydd hi pan ddaw’r dynion llwglyd o’r caeau gwair yn disgwyl pryd da o fwyd.’

Clywodd Phoebe lais Gwen yn dwrdio. Am ryw reswm roedd yn fwy blin pan oedd yn rhwbio lard i’r blawd i wneud y toes, ond i Phoebe roedd ei geiriau miniog fel dŵr oddi ar gefn hwyaden.

Erbyn mis Mehefin roedd y caru dirgel rhwng Phoebe ac Ifan Lloyd wedi bod yn mynd ymlaen ers rhai misoedd. Roedd eu perthynas wedi dyfnhau. Er i Phoebe yn ei diniweidrwydd fod yn boenus o swil ar y dechrau, buan iawn y bwriodd ei swildod ac roedd hi’n edrych ymlaen at ei nosweithiau nwydwyllt gydag Ifan yn y sguor wair. Gŵr ifanc golygus oedd Ifan ac roedd Phoebe yn gwybod fod ei ffrindiau yn eiddigeddus ohoni.

Ond er mor bleserus oedd eu perthynas ni fedrai roi heibio’i hofn y byddai pethau’n mynd o chwith rhyngddynt ac y byddai Ifan rhyw ddiwrnod yn torri ei chalon.

Wrth sefyll o flaen bwrdd y gegin yn paratoi’r toes ar gyfer y bastai afal y bore hwnnw, yn sydyn dechreuodd deimlo’n benysgafn. Roedd wedi taflu i fyny ar ôl ei brecwast ac wedi gorfod rhedeg allan i’r buarth ar ganol golchi’r llestri. Beth yn y byd oedd yn bod arni? Mae’n rhaid ei bod wedi bwyta rhywbeth a oedd wedi achosi diffyg traul, neu ei bod wedi cael oerfel, ond sut y gallai hynny fod wedi digwydd a hithau’n haf. Wrth iddi gydio yn ochr y bwrdd i sadio’i hun sylwodd fod Gwen yn syllu arni a golwg sarrug ar ei hwyneb.

‘Rydw i’n gwybod yn iawn be sy’n bod arnat ti. Allan hanner y nos ym mhob tywydd efo’r hogyn diarth yna. Rydw i wedi’ch gweld chi’ch dau yn sleifio ar draws y buarth yn hwyr y nos,’ datganodd Gwen yn hunangyfiawn.

Trodd Phoebe’n wyn fel y galchen. Roedd Gwen wedi bod yn sbecian arni. A hithau wedi cymryd gofal mawr wrth groesi’r buarth yng nghysgod y sguor, yn enwedig ar noson olau leuad. Roedd hi’n deall felly fod yr hen ferch wedi bod yn ei gwylio rhwng llenni les ffenestr ei hystafell wely.

Aeth Gwen ymlaen i fytheirio.

‘Os na roi di’r gorau i’r hogyn yna mi fyddai’n dweud wrth Mrs Evans amdanat ti. Fydd hi ddim yn hir cyn rhoi stop ar dy gastiau di.’

‘Does gen i ddim syniad am be dach chi’n rwdlan. Mae’n rhaid eich bod chi’n gweld pethau,’ atebodd Phoebe’n chwyrn.

‘Paid ti â fy ateb i’n ôl fel yna, y gnawes fach bowld. Rydw i’n gwybod yn union be rydw i wedi’i weld dros y misoedd dwythfa. Ac rydw i wedi sylwi hefyd ar y marc yna ar dy wddw di, er iti drïo’i guddio fo efo dy sgarff.’

Erbyn hyn roedd Gwen yn barod am gweryl go iawn, ond penderfynodd Phoebe ei hanwybyddu wrth iddi rwbio’r lard yn galetach fyth i’r blawd. Wedi’r cwbl, hen ferch oedd Gwen, a hen ferch fyddai hi am byth. Barnodd Phoebe mai eiddgedd oedd yn peri iddi fod mor gul a chondemniol. Ond serch hynny, roedd rhywbeth yn ei phoeni. Aeth tri mis heibio ers y noson gofiadwy honno ym mis Mawrth pan gyrhaeddodd Ifan yn hwyr yn drewi o aroglau defaid. Cofiodd am y modd y taflodd hi ar y gwair, y caru tanbaid fu rhyngddynt. Bu nosweithiau eraill o gydgaru clòs, ond bu’r noson honno’n arbennig.

Roedd yn ddechrau Mehefin ar Phoebe’n dechrau teimlo’n ddi-hwyl yn y boreau. Byddai’n cael pyliau penysgafn a bu’n cyfogi nifer o weithiau. Yn ffodus, doedd neb wedi sylwi arni’n rhedeg allan o’r gegin i ben pella’r buarth i daflu fyny. Yn ddiweddar aeth pethau mor ddrwg fel iddi benderfynu cael gair efo’i ffrind, Lisa Morris. Roedd Lisa’n adnabyddus am ei meddyginiaethau llysieuol. Hwyrach y gallai hi roi potelaid o rywbeth iddi i setlo’i stumog.

Roedd Phoebe’n fwy na hapus pan ofynnodd Mrs Evans iddi un prynhawn Iau fynd draw ar neges i fferm Pentreffynnon.

‘Gofynnodd Mrs Edwards, Pentreffynnon, i mi gael defnydd iddi o Felin Treffynnon. Mae wedi’i lapio yn y papur sidan yma. Ei di a fo draw iddi, Phoebe? Mi wnaiff ddaioni iti fynd am dro, rwyt ti wedi bod yn edrych ddigon cwla’n ddiweddar. Cymer dy amser a mwynha’r tywydd braf,’ meddai.

‘Neis i rai pobl cael dianc o’r hen gegin boeth yma a chael awyr iach,’ cwynodd Gwen.

‘Taw!’ meddyliodd Phoebe wrthi’i hun.

Yr oedd yn ddiwrnod braf, yr awyr yn las a heulwen haf hyfryd. Cerddodd Phoebe ar hyd y briffordd, o dan y Bont Sych gyda’r ddau dŷ bach ar ben y bont a’r ffordd breifat yn arwain i Blas Mostyn. Wrth fynd o dan y bont cofiodd am y ddamwain a ddigwyddodd yn yr union fan yn gynharach yn y flwyddyn. Collodd Huw Hughes o Drelogan feistrolaeth ar ei ferlen afreolus a lladdwyd y ddau wrth i’r ferlen wyllt fynd i wrthdrawiad ag ochr y bont.

Taith esmwyth oedd i Bentreffynnon, heibio i Drefostyn gyda'i glwstwr o fythynnod gwyngalchog. Yno, safodd i gael gair â Sydney Jones oedd yn torri tusw o bys pêr o'i gardd. Ymlaen â hi wedyn, heibio i'r fynedfa i'r Wern, cartref y teulu Davies, ac i fyny'r allt tuag at dyddyn y Caeau. Safai'r tŷ yng nghornel bella'r cae ac wrth gerdded tuag ato gwelai'r lleiaf o'r teulu niferus yn chwarae y tu allan. Pan gododd ei llaw rhuthrodd y pedwar ohonynt tuag ati.

'Be wyt ti'n neud yma? Wyt ti wedi dod i weld mam, Phoebe?' holodd y plant yn gyffro i gyd.

Eglurodd ei bod ar ei ffordd i Bentreffynnon efo neges i Mrs Edwards ac nad oedd ganddi amser i aros.

Wedi iddi adael y plant ni allai Phoebe ddim peidio â sefyll i edmygu'r olygfa. Oddi tani roedd aber eang yr afon Ddyfrdwy. Yn y pellter gwelai ynys Hilbre, Cilgwri, ac ymhellach eto dyrau dinas Lerpwl. Doedd hi ei hun erioed wedi bod ymhellach na Threffynnon.

Y prynhawn hafaidd hwnnw addunedodd iddi ei hun y byddai, rywbryd yn y dyfodol, yn ymweld â Lerpwl. Gallai groesi ar y llong bost a hwyliai unwaith yr wythnos o Fostyn i Lerpwl.

Wrth iddi sefyll yno'n synfyfyrio, sylwodd ar long stêm fawr yn croesi'r bae i harbwr prysur Lerpwl. Doedd ganddi ddim syniad o ble y deuai'r llongau mawr. Dywedodd Sacharia, y gwas, wrthi eu bod yn hwylio ar draws y moroedd o wledydd pell, pell, fel America, Awstralia, Affrica a'r India. Ond gan na chafodd fawr o addysg doedd hi mymryn callach. Wyddai hi ddim ble roedd y gwledydd hynny; enwau yn unig oedden nhw i Phoebe.

Wedi iddi gyrraedd Pentreffynnon gwelai Mrs Edwards yng ngardd y ffermddy.

'Helo, Phoebe, croeso iti; mae'n braf dy weld,' meddai Mrs Edwards yn ffeind. 'Rwyt ti wedi dod â'r defnydd newydd imi oddi wrth Mrs Evans. Wnei di ddiolch iddi drosta'i? Rydw i wedi talu iddi yn barod. Dwi'n siŵr yr hoffet ti gael diod oer ar ôl dy daith. Dos i'r gegin at Lisa ac fe gei di lasiad o lemonêd ganddi.'

Roedd Phoebe'n falch o'r cyfle i eistedd wrth fwrdd y gegin. Wrth yfed ei lemonêd dechreuodd rannu ei gofid efo Lisa.

'Tybed fedri di gymysgu un o dy feddyginiaethau llyseuol i mi – rhywbeth i setlo fy stumog. Rydw i'n taflu i fyny yn y boreau a dwn i ddim be sy'n bod arna'i? Gobeithio nad ydi'n ddim byd seriws.'

Eisteddodd Lisa gyferbyn â hi gan edrych i fyw ei llygaid.

‘Mae’n bosib ei fod yn seriws, ond ddim yn rhy seriws i ferch ifanc gref ddygymod ag o. Dwed i mi, pryd ges di dy ymwelydd ddwytha?’

‘Ymwelydd?’ gofynnodd Phoebe mewn dryswch. ‘Pa ymwelydd?’

‘Dy fisglwyf, wrth gwrs, y lolen,’ eglurodd Lisa.

Cafodd Phoebe sioc ei bywyd. Doedd neb erioed o’r blaen wedi siarad â hi am bethau o’r fath: pethau preifat, na wyddai hi fawr ddim amdanyn nhw. Fedrai hi ddim cofio pa bryd y cafodd fisglwyf ddiwethaf.

Yna dechreuodd y gwirionedd arswydus wawrio arni. Cyn i Lisa ddweud gair ymhellach llanwyd llygaid Phoebe â dagrau ac wrth iddynt bowlio i lawr ei gruddiau dechreuodd grynu.

‘Mae gen i ofn dy fod ti’n disgwyl, a hynny ers tri mis, synnwn i ddim. Does gen i ddim perlysiâu all wella’r cyflwr yna, ’ngeneth druan i!’ meddai Lisa gan godi i roi ei breichiau am ei ffrind trallodus.

Gadawodd Phoebe Bentreffynnon mewn cyflwr enbyd. Cerddodd yn ôl i Gaeau Gwylltion yn bensiyrddan.

Beth oedd i ddod ohoni? Byddai ei rhieni’n gandryll. A beth am Mr a Mrs Evans? A fydden nhw’n ei gyrru o Gaeau Gwylltion? Ond yr un a ofnai fwyaf oedd Gwen. Roedd ganddi ofn honno’n fwy na neb. Gallai glywed ei thafod miniog yn barod yn traethu am bechodau’r cnawd ac yn bygwth barn a thân uffern.

Doedd dim rhaid dyfalu pwy oedd y tad. Doed dim dwywaith am hynny. Beth fyddai ganddo fo i’w ddweud? A oedd hi ei hun am briodi Ifan Lloyd?

Doedd hi ddim yn gwbl sicr ei bod.

Cerddodd ymlaen yn araf a phryderus nes iddi gyrraedd rhan o’r ffordd oedd yn cael ei adnabod fel y Coed Iâ. Yno eisteddodd ar foncyff hen goeden er mwyn hel ei meddyliau cyn cyrraedd yn ôl i Gaeau Gwylltion.

Roedd wedi trefnu cyfarfod ag Ifan Lloyd yn y sgubor y noson honno ac felly penderfynodd y dylai dorri’r newydd yn ddiymdroi y byddai’n dad cyn y Nadolig. Yna, byddai’n awgrymu’n gryf y dylai unrhyw gwpl parchus yn eu sefyllfa hwy briodi mor fuan â phosibl cyn dangos gerbron y byd fod babi ar y ffordd. Dyna fyddai’r peth iawn i’w wneud o ran y plentyn bach hefyd. Gallent ddweud bod y plentyn wedi’i eni’n fuan.

Ie, dyna’r ffordd ymlaen. A’i meddwl wedi tawelu rhywfaint cerddodd i gyfeiriad y ffermdy i helpu Gwen i baratoi’r pryd nos.

Pennod 2

‘Be sy’n bod arnat ti heno? Rwyt ti mor oer â chraig. Mae’n union fel caru efo delw.’

Doedd Ifan yn amlwg ddim wedi’i blesio efo’u cydgaru y noson honno. Gorweddaï’r ddau ochr yn ochr ar y gwair yn y lloft stabl ar noson gynnes, braf, yn nechrau Gorffennaf 1875. Cododd Phoebe ar ei heistedd, cydiodd yn nwy law Ifan ac edrychodd i fyw ei lygaid. Roedd y foment wedi dod – roedd rhaid torri’r newydd iddo heb oedi dim mwy.

Gan wenu’n dyner arno, meddai:

‘Ifan, rwyt ti yn fy ngharu i yn dwyt ti? Mae gen i rywbeth pwysig i’w ddweud wrthot ti. Rydw i’n disgwyl babi. Fe fyddi di’n dad, a hynny ychydig cyn y Nadolig. Rhaid inni briodi mor fuan ag y medrwn ni, cyn imi ddechrau dangos.’

Aeth Ifan yn welw. Neidiodd ar ei draed gan geisio codi’i drowsus yr un pryd.

‘Dy briodi di? Wyt ti’n meddwl y baswn i am funud yn meddwl priodi dy deip di? Pan fydda i’n dewis merch i’w phriodi mi fydd hi’n rhywbeth efo dipyn o glás, nid rhyw forwyn fach geiniog a dimai fel ti. A sut gwyddost ti mai fi ydi ei dad o? Yr hwren! Arnat ti dy hun mae’r bai – paid ti â meiddio rhoi’r bai arna’ i.’

Yna rhedodd Ifan o’r stabl, heb droi i edrych arni.

Eisteddodd Phoebe yn ei hunfan, wedi ei syfrdanu a’i pharlysu, yn union fel cnwigen wedi ei chornelu gan wenci, dan gawod geiriau creulon Ifan. Methodd godi ar ei thraed. Sut y gallai Ifan fod wedi dweud pethau mor enbyd o gas wrthi? Yng ngolau’r lleuad llawn a daflai gysgodion iasol i’r llofft, dechreuodd Phoebe grïo. Crynodd yn ddi-reol o ddechrau sylweddoli ei sefyllfa. Roedd yn disgwyl babi. Ifan oedd y tad. Roedd yn gwrthod ei phriodi! Roedd wedi’i defnyddio er mwyn ei bleser ei hun! Yn waeth na dim, roedd wedi ei galw’n hwren a gwrthod derbyn mai fo oedd tad y plentyn.

Doedd hi erioed wedi bod efo dyn arall. Dyna oedd y gwir. Bu’n ddigon gwirion i gredu fod Ifan yn ei charu. Ac roedd hithau wedi rhoi ei hun yn llwyr iddo heb gwestiwn. Teimlodd yn fudr ac yn flin â hi ei hun am fod mor ddall.

Eisteddodd yn ei hunfan yn y lloft stabl tan oriau mân y bore a’r dagrau’n powlio i lawr ei hwyneb. Beth oedd i ddod ohoni? Edrychodd i fyny at do a distiau trymion y stabl a oedd erbyn hyn fel y fagddu, ar wahân i ambell lygedyn o olau lleuad yn torri drwy’r tyllau rhwng llechi’r to. Ond ni welai fymryn o olau ar ei hargyfwng truenus hi ei hun.

A ddylai rhoi terfyn ar bopeth drwy ei thaflu ei hun i'r afon Ddyfrdwy? Ond gwyddai mai pechod difrifol fyddai lladd y person bach diniwed oedd yn tyfu o'i mewn. Ni allai byth feddwl am wneud y fath beth.

O'r diwedd, llusgodd ei hun ar draws y buarth ac i mewn i gegin y ffermdy drwy'r drws cefn, ymhell cyn i neb arall godi. Llanwodd bwced o ddŵr oer o'r pwmp y tu allan a'i gario i fyny i'w lloft fach er mwyn ymolchi drosti a sgwrio ei hun â lwmp o sebon carbolig.

Er syndod, sylwodd wrth ymolchi fod chwydd bychan yn ffurfio ar ei stumog. Byddai'n sicr o ddechrau dangos o fewn mis!

'O! Dduw mawr, maddau i mi a helpa fi,' gweddiodd.

Y dydd Sadwrn canlynol, ar ddiwedd wythnos hunllefus, penderfynodd Phoebe ymweld â'i rhieni oedd yn byw yn un o'r bythynnod gyferbyn â thafarn y Swan. Roedd rhaid iddi siarad â'i mam. Gwyddai y byddai'r newydd yn achosi siom a gofid iddi, ac roedd yn barod am ffrwdrad gan ei thad. Ond gwell fyddai wynebu'r storm orau y medrai a hynny heb oedi mwy.

'Wel, helo fy nghariad i. Dyma syrpreis hyfryd! Doeddwn i ddim yn dy ddisgwyl di y pnawn 'ma, ond mi rydw i'n flach o dy weld di. Rwyt ti fel arfer at dy glustiau mewn gwaith ar brynhawn Sadwrn yn coginio ar gyfer y Sul,' meddai ei mam gan ei dsl yn ei breichiau a'i chusanu ar ei boch.

O weld ei mam ni fedrai Phoebe ddal ei dagrau'n ôl. Suddodd i gadair wrth fwrdd y gegin, rhoi ei phen yn ei dwylo a chrïo a chrïo.

'Be yn y byd sy'n bod arnat ti?' gofynnodd ei mam yn bryderus. 'Does bosib fod pethau mor drwg â hynna. Wyt ti mewn rhyw fath o drwbwl?'

Rhoddodd ei mam ei breichiau a am ei hysgwyddau a'u teimlo'n crynu.

'Tyrd, Phoebe fach, rhaid iti ddweud wrtha'i. Paid â bod ofn.'

'Mae pethau'n ddrwg arna'i, yn ddrwg iawn,' mwmiodd Phoebe rhwng ei dagrau.

'Tyrd rwan. Sut fedra' i dy helpu di heb dy fod yn dweud wrtha i'n iawn be sydd wedi digwydd,' atebodd ei mam yn garedig.

'Wyt ti'n gwybod am Ifan Lloyd sy'n was ar fferm Coed Isaf? Wel, mae o wedi bod yn edrych amdana i ddwywaith yr wythnos ers Ffair Ffyliaid y llynedd...'

Cyn i Phoebe fedru dweud mwy, torrodd ei mam ar ei thraws:

'Paid â deud dy fod ti'n disgwyl babi!'

Amneidiodd Phoebe, gan gadarnhau ofnau gwaethaf ei mam.

Syllodd y ddwy ar ei gilydd – y fam a'r ferch - yn union fel pe baent yn ddieithriaid.

O'r diwedd cafodd ei mam hyd i'w llais.

‘O'r ferch wirion, wirion, be wnaeth iti roi dy hun i hwnnw, o bawb? Oeddet ti ddim yn gwybod fod y gwalch yna'n beryg bywyd efo merched?’

‘Ond, Mam, ddaru chi erioed egluro mai fel yna roedd gneud babis,’ wylodd Phoebe.

Cododd ei mam a chroesi'r gegin at y sinc garreg a dechrau golchi ei dwylo. Syllodd ar draws y caeau trwy ffenestr fechan y gegin â golwg bell yn ei llygaid. Eisteddodd Phoebe'n llonydd wrth y bwrdd a'r dagrau distaw yn dal i lifo i lawr ei gruddiau. Roedd wedi siomi pawb. Wedi ei siomi ei hun, ei rhieni a Mr a Mrs Evans, Caeau Gwylltion. Gallai ddychmygu Gwen yn traethu'n huawdl am beryglon cnocio a chanlyniadau erchyll pechod. Methodd â gweld unrhyw waredigaeth. Beth oedd i ddod ohoni?

Yn araf a phwyllog trodd ei mam tuag ati a cherdded at y bwrdd. Eisteddodd gyferbyn â hi gyda lled y bwrdd fel math o 'dir neb' rhwng y ddwy.

‘Rŵan, rho'r gorau i'r swffian yna a 'drycha arna' i. Pa gyn belled wyt ti wedi mynd? Wyt ti wedi deud wrth Ifan Lloyd? Mae un peth yn siŵr, fe fydd rhaid i'r ddau ohonoch chi briodi cyn iti ddechrau dangos.’

‘Mae Lisa Pentreffynnon yn meddwl 'mod i wedi mynd tua thri mis. Ydw, rydw i wedi dweud wrth Ifan Lloyd am y babi, ond dydi o ddim eisiau gwybod. Mae o'n dweud mai rhywun arall ydi'r tad. Ond wir, Mam, dydw i ddim wedi bod efo neb arall, naddo'n wir. A phan es efo fo, doeddwn i ddim yn gwybod y gallwn i gael babi ganddo fo,’ griddfannodd Phoebe.

‘Be wyt ti'n feddwl, nad ydi Ifan Lloyd ddim eisiau gwybod?’

Er mawr ddychryn iddi cerddodd ei thad i mewn i'r gegin yr eiliad honno. Bu wrthi yn yr ardd yn torri'r gwrych a daeth i mewn gan ddisgwyl cwpanaid o de. Rhewodd Phoebe o glywed ei lais.

‘Dowch eich dwy. Be ydi'r gyfrinach fawr? Pwy sydd ddim eisiau gwybod be?’

Trodd ei mam at Phoebe a meddai:

‘Wyt ti'n ddigon dewr i ddweud wrtho, neu wyt ti am i mi ddweud?’

Claddodd Phoebe ei phen yn ei dwylo gan grio a chrynu eto. Roedd yn amlwg na allai ddweud yr un gair wrth ei thad. Cododd ei mam i wynebu ei gŵr ac meddai:

‘Mae hi wedi dod â gwarth arnom ni i gyd. Mae hi wedi cael ei hun yn feichiog. Ifan Lloyd, gwas Coed Isaf, ydi’r tad, ond y mae o’n gwrthod cydnabod hynny ac yn dweud nad ydi o ddim am ei phriodi hi.’

Suddodd ei thad i’r gadair agosaf a’r lliw yn cilio o’i wyneb. Tynnodd yr hances boced fawr goch oedd wedi ei lapio am ei ben i’w arbed rhag gwres yr haul a sychodd y chwys o’i dalcen. Ni ddywedodd ddim am rai munudau. Yna, dychwelodd y lliw i’w ruddiau a chyda’i lygaid yn fflachio meddai:

‘O! felly, dydi’r gwylch ddim eisiau gwybod! Dydi o ddim am wynebu ei gyfrifoldeb! Gawn ni weld am hynny! Mi gaiff dy frawd Bob dalu ymweliad ag o. Mi ddaw at ei goed erbyn i Bob orffen efo fo! Ddim am dy briodi di, wir – does ganddo ddim dewis.’

Efo hynny o eiriau, safodd a brasgamu allan drwy ddrws y cefn.

Er mawr syndod i Phoebe, nid oedd wedi beio dim arni hi. Y fo, Ifan Lloyd oedd ar fai am gael merch ifanc ddiniwed i drwbl, a byddai’n rhaid iddo wynebu’r canlyniadau.

Gwyddai Bob yn union ble i gael hŷd i Ifan Lloyd. Roedd ganddo ysbŷwyr yn y pentref oedd wedi canfod fod Ifan erbyn hyn yn mynd i gnocio eto yn fferm Plas Uchaf a bod un o’r morynion ifanc yno yn fwy na bodlon agor drws y cefn iddo a rhoi ei hun yn ei freichiau.

Penderfynodd Bob, efo un neu ddau o’i ffrindiau mwyaf cyhyrog, ddisgwyl am Ifan Lloyd un noson pan fyddai’n cerdded yn ôl i Goed Isaf yn yr oriau mân o fferm Plas Uchaf. Y ddealltwriaeth oedd i roi cweir go iawn iddo, a’i ddychryn gymaint fel y deuai at ei goed a chytuno i briodi Phoebe.

Gwnaed trefniadau gan y ffrindiau i gyfarfod un nos Sadwrn yn niwedd Medi 1875 wrth y Bont Sych. A hithau’n noson glir, olau leuad, awgrymodd un ohonynt mai coedlan rhwng y Bont Sych a Threfostyn fyddai’r lle gorau i ymguddio a disgwyl.

‘Fe allwn ni fod yma’n disgwyl am hydoedd, ac felly rydw i wedi dod â brechdanau wy a photel o ddiod dail,’ cyhoeddodd Bob wrth iddynt swatio yng nghysgod y coed ffawydd.

‘Yn ôl Ned Tŷ Coch, mae’n aml yn un o’r gloch y bore arno fo’n cychwyn am adre. Mae nhw’n deud fod ganddo ofn y twyllwch a’i fod yn canu neu’n chwibanu’n uchel i gadw’r bwganod draw.’

‘Mae’n siŵr ei fod o’n canu ar ôl cael amser da efo’r forwyn fach yna sy ganddo fo,’ meddai Ted y Roc.

Chwarddodd y criw - pawb ond Bob.

‘Mi fydd wedi ei ddychryn gan fwy na bwgan heno ar ôl i ni orffen efo fo,’ meddai yntau rhwng ei ddannedd.

‘Un twp fu Ifan erioed,’ meddai Ted. ‘Meddyliwch amdano, o ddifri, yn cael merch i drwbl fel hyn. Iawn cael dipyn o sbort efo genod, ond peth arall ydi cael eich rhwydo a gorfod priodi. Y ffŵl gwirion!’

Aeth awr heibio yn cuddio yn y coed, gan rannu storïau digrif a hanesion am y merched y buon nhw’n eu caru.

‘Sh... mae rhywun yn dod. Dach chi’n ei glywed o’n canu?’ gofynnodd Bob.

Daeth y sŵn yn nes. Cododd Bob ei ben i wneud yn siŵr yng ngolau’r lleuad mai Ifan Lloyd oedd yn dod i lawr y ffordd. Ie, Ifan oedd o. Cerddai gyda’i swagr arferol, ei ddwylo yn ei bocedi ac yn canu ar dop ei lais.

‘Codwch ofn arno, hogiau. Peidiwch ag anafu gormod arno fo, dim ond digon i’w ddychryn o’i groen. Mae’n rhaid dysgu gwera i’r diawl haerllug,’ rhybuddiodd Bob.

Wrth i Ifan nesáu neidiodd yr ymladdwyr allan o’r coed o’i flaen. Tynnwyd Ifan o’r ffordd i ganol y coed a daliwyd ef yn dyn gan ddau ohonynt. Safodd Bob o’i flaen.

‘Ara deg, hogiau bach. Be sy arnoch chi yn rhoi’r fath ddychryn i ddyn diniwed ar ei ffordd adre? Be ydw i wedi neud i chi?’ methodd llais crynedig Ifan â chuddio’i ofn.

‘Diniwed wir, Ifan Lloyd! Dwyt ti ddim yn gwybod ystyr y gair. Ti sy’n gyfrifol fod fy chwaer fach wedi llyncu pry, ac rwyd ti’n trïo osgoi dy gyfrifoldeb ac yn gwrthod ei phriodi,’ gwaeddodd Bob.

Dechreuodd Ifan ysgwyd ei ben a phrotestio.

‘Nid y fi ydi tad y plentyn. Mae’n rhaid fod rhywun arall wedi bod hefo hi. Fuost ti, Ted, ar ei hôl hi un adeg. Falle mai ti ydi’r tad.’

Roedd hynny’n ormod i Ted. Heb feddwl rhoddodd y fath ergyd i Ifan fel bod gwaed yn ffrydio o’i drwyn.

‘Rwyd ti’n haeddu honna. Faswn i byth wedi cymryd maintais arni; mae gen i ormod o feddwl ohoni. Yn anffodus, doedd ganddi ddim diddordeb ynof fi,’ taranodd Ted.

O glywed Ifan yn meiddio cyhuddo'i gyfaill collodd Bob ei limpîn.

'Cythraul drwg wyt ti, Ifan Lloyd,' a rhoddodd yntau glusten iddo a'i gyrodd ar ei hyd ar lawr.

Cododd Bob ef gerfydd ei goler a'i droi tuag ato fel eu bod yn syllu wyneb yn wyneb ar ei gilydd.

'Rwyd ti'n mynd i briodi Phoebe o fewn y mis, wyt ti'n dallt? Os na wnei di, fe gei di'r fath gweir y tro nesa fel na fydd yr un ferch am edrych arnat ti byth eto.'

Disgynnodd Ifan yn swp ar y llawr.

'Iawn, iawn, mi wna i ei phriodi hi. Rydw i'n addo. Fe alwa'i heibio fory i drafod trefniadau,' cytunodd Ifan, a'r gwaed yn dal i lifo o'i drwyn ac i lawr ei ên.

'Ydi honna'n addewid go iawn?' gofynnodd Bob yn amheus.

'Wyt ti o ddifri? Ga'i ddweud wrthi y byddi'n galw fory i drafod y dyfodol efo hi?'

'Cei, rydw i'n addo,' atebodd Ifan.

'Reit, hogiau, gadwch iddo fynd. Cawn weld fydd o'n cadw ei air. Ac Ifan, os na wnei di gadw dy addewid fe ddown ni ar dy ôl di eto. A'r tro nesa bydd fy nhad yn dod hefyd. Mae o'n gandryll, ac mae o am hanner dy ladd di.'

'Na, na, fydd dim angen! Rydw i'n addo cadw 'ngair.'

Sychodd Ifan y gwaed oddi ar ei wyneb â hances boced fudr. Pe bae Bob a'i ffrindiau wedi medru'i weld yn iawn yng nghysgod y coed ffawydd fe fydden nhw wedi sylwi ar y grechwen ar ei wyneb.

Wrth i Ifan gerdded ar draws cae Penrhewl i gyfeiriad fferm Coed Isaf, yn simsan fel petai wedi cael gormod i yfed, gwnaeth addewid iddo'i hun drosodd a throsodd na fyddai neb yn ei orfodi i briodi Phoebe Hughes.

'Mi fydda i wedi meddwl am ryw ddihangfa erbyn y bore,' meddai'n uchel wrth ddafad gysglyd a symudodd o'i ffordd wrth iddo fynd heibio iddi.

Yn y cyfamser roedd Bob yn diolch i'w ffrindiau am eu help.

'Diolch yn fawr i chi, hogiau. Rydw i'n gobeithio ei fod wedi cael y neges, er does gen i ddim mymryn o ffydd yng ngair Ifan Lloyd, chwaith.'

Rai dyddiau wedi hynny gwirededwyd ofnau gwaethaf Bob. Daeth adref o'i waith a deall nad oedd Ifan wedi bod ar gyfyl Phoebe na'i rhieni.

'Mae o'n dwyllwr celwyddog,' gwaeddodd Bob yn ei dymer, 'roeddwn i'n amau na fyddai'n cadw at ei air. Y cythraul drwg! Mi welais i Ted ar y ffordd adre, a

dywedodd o fod Ifan wedi diflannu ac nad oes gan neb y syniad lleiaf ble mae o. Mae o wedi'i heglu hi i rywle, y llwfrgi diawl!'

Awgrymodd ei dad y dylent ymweld â Choed Isaf i gael gwybod drostynt eu hunain a oedd yna unrhyw wybodaeth am Ifan Lloyd. Ar ôl swper cychwynnodd Bob a'i dad ar y daith ddwy filltir a hanner ar draws y caeau a thrwy'r coed i Goed Isaf. Roedd yn noson hafaidd braf.

'Wyddost ti be, Bob, mae'n berffaith wir be mae'n nhw'n ddeud - y mae gwaed yn dewach na dŵr. Os ca'i afael ar y gwalch Ifan Lloyd yna, mi fydda' i'n hanner ei ladd o am gymryd mantais ar Phoebe druan fel y gwnaeth o.'

Wedi iddyn nhw gerdded ymlaen ychydig, gwelsant na fyddai angen mynd fawr pellach gan fod Jones y ffermwr a'i weision wrthi'n brysur yn gweithio yng Nghae Cocsydd, o flaen Plas Brychton a'r bythynnod gerllaw. Wrth iddynt nesu at y gweision a oedd yn llwytho'r troliau, neidiodd Jones i lawr oddi ar un ohonynt a cherdded tuag atynt.

'Wel, dyma ymweliad annisgwyl. Be alla i neud i chi'ch dau?'

'Mae'n siŵr eich bod chi'n dallt pam rydan ni yma. Wedi dod i holi hanes Ifan Lloyd ydan ni. Oes gennych chi unrhyw syniad ble mae o? Mae'n bwysig iawn ein bod ni'n cael gair efo fo,' eglurodd Bob ar ei ran ei hun a'i dad.

'Peidiwch â sôn am y gwalch yna! A ninnau dros ein pennau mewn gwaith yn y cynhaeaf – yr amser prysura o'r flwyddyn – mae o'n hel ei draed o'ma, heb ddweud gair wrth neb a heb eglurhad o fath yn y byd, a hynny ers deuddydd. Mae'n rhaid gen i ei fod wedi mynd i helbul o ryw fath. Yn ôl un o'r gweision eraill fe ddaeth adre nos Sadwrn a golwg ddychrynllyd arno – ei lygad dde wedi chwyddo, ei drwyn yn gam, a gwaed drosto, fel petae wedi cael crwbins go iawn gan rywun.'

'Oes ganddo chi ryw syniad i ble allai o fod wedi dianc?' holodd Bob.

'Na, mae'n ddrwg gen i. Does gen i ddim syniad. A bod yn onest â chi, doedd gen i ddim tryst yn yr hogyn o'r dechrau. Llygad slei ganddo, meddai'r wraig. Ydach chi'n gwybod, ydi o mewn helynt mawr?'

Edrychodd Bob a'i dad ar ei gilydd a chodi eu hysgwyddau cyn ateb:

'Ydi, mae o mewn helynt – helynt mawr iawn.'

Heb egluro dim mwy, na thrafod y mater ymhellach efo gŵr Coed Isaf, trodd Bob a'i dad i gychwyn ar eu taith adre ac i ystyried eu cam nesaf.

‘Fe wnes i dy rybuddio di, on’ d do? Fwy nag unwaith fe soniais i am beryglon cnocio. Ond na, fe wrthodaist ti wrando. Mi welais i ti’n sleifio ar draws y buarth ar ôl i bobl eraill barchus fynd i’w gwllâu. Ac mi wyddwn i ar y pryd dy fod i fyny i ryw ddrwg. Rhag dy gwilydd di!’

A Phoebe druan yn ei dagrau, safodd Gwen uwch ei phen yng nghegin Caeau Gwylltion gan ei ffraeo’n ddirugaredd am ei hanfoesoldeb a’i hatgoffa o ganlyniadau erchyll ei phechod yn y byd hwn a’r byd a ddaw, a gwnaeth hynny gyda chryn fesur o hunanfodddhad.

‘Bydd rhaid iti ddweud wrth y feistres. Fe fydd hi o’i cho. Bydd rhaid iti ddweud wrthi heddiw. Mi fydd yn siŵr o dy hel di o’ma. Mi fyddi allan ar dy ben erbyn fory, gei di weld!’

‘Dweud be wrth bwy? Be sy’n bod, Phoebe, rwyt ti’n edrych wedi ymlâdd. Be yn y byd mawr sy arnat ti?’

Roedd Mrs Evans y feistres yn cerdded i mewn i’r gegin i roi gorchmynion am y dydd i Gwen, pan glywodd beth o bregeth filain y forwyn hŷn a chrïo torcalonnus Phoebe.

‘Dwed wrthi, iddi gael gwybod am dy fisdimanars anfoesol di,’ dwrdiodd Gwen.

Claddodd Phoebe ei phen yn ei dwylo gan feichio wylo a chrynu. Teimlai’r fath gywilydd ei bod wedi dod â gwarth ar deulu Caeau Gwylltion, a hwythau wedi bod mor garedig wrthi. Yn fwy na dim, roedd hi’n enbyd o ddig wrth Ifan am ddianc a’i gadael i wynebu’r byd ar ei phen ei hun ac i fagu’r babi bach heb gymorth gŵr a thad. Ond daeth caredigrwydd a thynerwch Mrs Evans i’r amlwg ar unwaith. Aeth i eistedd nesaf at Phoebe wrth fwrdd mawr y gegin a rhoddodd ei breichiau am ei hysgwyddau.

‘O! Mrs Evans, rydw i mewn trwbl, trwbl mawr iawn!’ llefodd Phoebe.

‘Faswn i feddwl wir! Rwyt ti dros dy ben a dy glustiau mewn trwbl, y gnawes fach ddrwg,’ meddai Gwen o gyfeiriad y sinc.

‘Ust, Gwen, gad i’r ferch ddweud drosti ei hun be sy’n ei phoeni,’ rhybuddiodd Mrs Evans.

Yna, trodd at Phoebe ac meddai:

‘Fe awn ni i’r parlwr i ni gael siarad yn breifat.’

Ystafell eang, braf oedd y parlwr. Yn un pen safai dresel Cymreig gyda phlatiau glas a gwyn o batrwm helyg. Roedd yn ddresel hen iawn, wedi dod lawr o genhedlaeth i genhedlaeth ar ochr Owen Evans o'r teulu. Gyferbyn â'r dresel safai cloc wyth niwrnod a elwid yn gloc Dinbych, gan mai un o deulu Joyce, gwneuthurwyr clociau o'r dref honno, a'i gwnaeth. Byddai'r hen gloc yn taro'n uchel bob hanner awr ac ar yr awr. Gellid ei glywed drwy'r tŷ, hyd yn oed yn ystafell wely Phoebe yn y nenfwd. Gwaith Phoebe oedd dwstio a chwyro'r dresel a'r cloc mawr. Hi hefyd a oedd yn cwyo'r setl ger y tân, yn ogystal â'r bwrdd hirgrwn mahogani a safai ar ganol yr ystafell gyda chwe chadair â seddau melfed coch o'i amgylch. Ar y dresel gorweddai'r Beibl teulu mawr ac ar ganol y bwrdd lamp baraffin a gwydr glôb hardd o liw piws yn goron iddi.

Er bod Phoebe'n gwbl gyfarwydd â'r ystafell a'i dodrefn, ar y diwrnod arbennig hwn teimlai'n wahanol a dieithr. Yn ei nerfuswydd safai'n stond wrth y setl gan chwarae ag ymylon ei ffedog a theimlo'i stumog yn troi. Teimlai'n ddiymadferth ac yn gwbl annheilwng i fod yno yn y parlwr mawr efo Mrs Evans.

'Rŵan ta, Phoebe, stedda ar y setl a dwed wrtha' i'n union be sy'n dy boeni,' meddai'i meistres yn garedig.

Tywalltodd ei stori allan fel llifeiriant. Unwaith y dechreuodd, doedd dim taw arni.

'Ifan Lloyd ydi'r broblem. Mae o wedi ngadael i'n feichiog. Rydw i wedi mynd dri mis. Mae'n gwrthod yn lân fy mhriodi, ac i wneud pethau'n waeth, mae wedi diflannu a does neb yn gwybod i ble. Does gan Mr Jones, Coed Isaf, ddim syniad yn y byd ble mae o. Rydw i wedi'ch gadael chi i lawr, Mrs Evans, ac wedi gadael fy rhieni i lawr hefyd a wn i ddim be i wneud na ble i fynd,' llefodd Phoebe.

'Mi rwyt ti wedi gadael dy hun i lawr yn fwy na neb arall. Wyt, rwyt ti mewn trybini mawr. Ddylet ti ddim fod wedi ymhél â gwalch drwg fel Ifan Lloyd. Mae gan hwnnw enw drwg am fercheta. Beth bynnag am hynny, cyn imi ddweud na gwneud dim, rhaid imi gael gair â Mr Evans. Ond beth bynnag a ddigwydd, fyddi di ddim yn mynd i unman. Er iti fod yn ferch wirion, ac yn wir yn ferch ddrwg, dydw i ddim am dy hel di o'ma. A phaid ti â gwrando ar Gwen. Mae ei thafod hi yn llawer rhy finio ac nid y hi ydi meistres y tŷ yma. Cofia di hynny. Rŵan, dos yn ôl i'r gegin ac at dy waith. Fe ga'i air efo ti yfory wedi imi siarad â'r meist'r.'

'Wel, be ddeudodd hi wrthat ti? Gest ti ordors i hel dy bac a mynd o'ma?' holodd Gwen, yn fusnes i gyd.

‘Na. Rydw i i ddal ati efo ngwaith a bydd yn siarad efo fi eto fory ar ôl iddi gael gair â Mr Evans,’ atebodd Phoebe’n swta.

‘O! gei di weld mai allan fyddi di ar dy ben, y slwten fudr. Bydd y meistr yn dy yrru i bacio dy fagiau. Fyddi di wedi mynd erbyn nos fory, a gwynt teg ar dy ôl di, ddyweda’ i.’

Roedd trybini Phoebe druan yn fêl ar fysedd Gwen. Ac eto, roedd y feistres wedi bod yn hynod o garedig tuag ati. Pam nad oedd hi wedi gorchymyn iddi adael? Dyna oedd ei haeddiant. Roedd wedi dwyn gwarth ar y teulu a byddai’n sicr o gael ei thorri allan o’r capel. Fyddai blaenoriaid Capel Bethel ddim am gael ei siort hi yn aelod, roedd hynny’n sicr.

Am ddeg bore trannoeth cafodd Phoebe ei galw i’r parlwr unwaith eto. Yno yn disgwyl amdani, ac yn eistedd o boptu i’r bwrdd hirgrwn, roedd y meistr a’r feistres. Suddodd calon Phoebe. Doedd dim amheuaeth yn ei meddwl na chât orchymyn i gasglu ei phethau a gadael fferm Caeau Gleision yn syth. Rhoddodd Owen Evans arwydd iddi eistedd wrth y bwrdd mawr.

‘Rydw i’n deall, Phoebe Hughes, eich bod wedi ymddwyn yn ffôl iawn, yn anfoesol yn wir, a’ch bod chi mewn helynt mawr o ganlyniad,’ meddai Mr Evans, gan edrych yn chwyrn dros ei sbectol ymylon aur.

Nodiodd Phoebe ei phen, ond heb edrych i’w wyneb.

‘Phoebe, rydan ni wedi bod yn trafod eich sefyllfa anffodus ac wedi dod i benderfyniad. Rydan ni’n flin iawn efo Ifan Lloyd am wrthod wynebu ei gyfrifoldebau, ac rydan ni’n siomedig hefyd ynoch chi am i chi ymddwyn mor anfoesol ac anghyfrifol. Fodd bynnag, rhaid inni rhoi’r gorffennol heibio a symud ymlaen.’

Oeddodd Owen Evans am rai eiliadau, cyn cymryd anadl ddofn a dal ymlaen efo’i araith.

‘Fel y gwyddoch chi, un plentyn yn unig sydd gennym ni, sef ein mab, Edward. Hoffem fod wedi cael mwy o blant i gadw cwmni i Edward, ond doedd hynny ddim i fod a rhaid inni blygu i’r drefn. Oherwydd hynny, ac oherwydd eich sefyllfa chi, rydan ni wedi penderfynu y gallwch chi aros yma a chario mlaen yn dawel efo’ch dyletswyddau.’

Trodd at ei wraig. Amneidiodd hithau. Yna trodd Mr Evans at Phoebe eto.

‘Chewch chi ddim mynd i lawr i’r pentref, yn enwedig pan fydd hi’n amlwg eich bod yn feichiog. Wrth gwrs, bydd eich rhieni a’ch teulu yn cael dod i edrych

amdanoch. Wedi i'r babi gael ei eni fe fyddwn ni'n edrych ar ei ôl ac yn ei fagu fel plentyn i ni. Ein plentyn ni fydd o, neu hi. Byddwn yn trefnu i'w fabwysiadu'n swyddogol a bydd yn cael dim ond y gorau, yn union fel pe bai'r feistres ei hun wedi rhoi genedigaeth iddo fo, neu hi. Byddwch chi'n parhau i weithio yma. Ymhen amser bydd y plentyn yn cael gwybod ei fod wedi ei fabwysiadu. Ydych chi'n deall yr hyn rydw i'n ei ddweud?'

Amneidiodd Phoebe, ond heb allu edrych arnynt.

'O, ydw. O, diolch i chi'ch dau. Rydach chi mor ofnadwy o ffeind. Rydw i'n sylweddoli pa mor dwp rydw i wedi bod, ac yn gwybod hefyd na fedrwn i byth fagu plentyn ar fy mhen fy hun. A fyddai Mam ddim yn gallu fforddio ei fagu. Wn i ddim sut mae diolch i chi am eich caredigrwydd.'

'Nid i mi mae'r diolch,' atebodd Owen Evans. 'I'r feistres ddylech chi ddiolch. Bu'n pledio hefo mi gyda'r nos neithiwr, yn wir tan yr oriau mân!'

Yna ychwanegodd:

'Fel y gwyddoch chi, rydw i'n flaenor yng Nghapel Bethel, a gan eich bod yn aelod bydd rhaid imi hysbysu'r blaenoriaid eraill o'r hyn sydd wedi digwydd. Mi fyddan nhw'n siŵr o fynnu eich bod yn cael eich torri allan o'r capel dros gyfnod.'

Doedd cael ei thorri allan o'r capel yn poeni fawr ddim ar Phoebe.

Penderfynodd y byddai'n gweithio'n galed ar y fferm am y chwe mis nesaf. Roedd yn fwy na pharod hefyd i Mr a Mrs Evans fabwysiadu ei plentyn. Ar ben hynny, addunedodd iddi hi ei hun na fyddai byth eto yn ildio i bechodau'r cnawd.

*

Erbyn diwedd Medi 1875 roedd y dyddiau'n byrhau. Daeth Owen Evans, Caeau Gwylltion, adref o seiat Capel Bethel un nos Fawrth. Siglo'i hun yn ôl ac ymlaen yn yr hen gadair siglo yng nghornel y gegin a wnâi Phoebe. Agorodd y drws a gwahoddodd Mr Evans hi i mewn i'r parlwr mawr. Erbyn hyn roedd yn gwbl amlwg i bawb ei bod yn feichiog. Cododd yn afrosgo o'r gadair. Ni fedrai'r meistr edrych arni. Roedd wedi dwyn gwarth arnynt fel teulu. Y ferch wirion wan, yn caniatu i fachgen ifanc gor-nwydus ac anghyfrifol gymryd mantais ohoni!

Dilynodd Phoebe ef i mewn i'r parlwr. Yno, yn eistedd wrth y tân yn edrych yn anghyfforddus roedd Mrs Evans.

'Eistedda, Phoebe, mae gennym ni rywbeth i'w ddweud wrthot ti,' meddai hi.

Pesychodd Mr Evans wrth eistedd yn dalsyth yn y gadair Brenhines Anne. Edrychai yntau'n ffwdanus, fel pe byddai'n well ganddo fod yn unrhyw le ond yn ei dŷ ei hun yn gorfod egluro i'w forwyn y sefyllfa anffodus a oedd wedi dod i'w rhan.

‘Ym! Phoebe, rydw i newydd ddod adre o'r seiat. Gan eich bod yn aelod o'r capel fy nyletswydd boenus i oedd hysbysu'r brodyr a'r chwiorydd i chi ildio i demtasiwn a chael eich hun yn feichiog.’

Pesychodd eto a chodi o'i gadair i brocio'r tân yn ffyrnig cyn suddo i'w gadair drachefn.

‘Fel y gallech ddisgwyl, roedd pawb oedd yno wedi eu synnu a'u siomi gan eich ymddygiad. Wedi iddynt ystyried eich achos, penderfynwyd eich torri allan o aelodaeth Capel Bethel. Wedi i'r babi gael ei eni, bydd disgwyl i chi ymbresenoli yn y seiat i syrthio ar eich bai, i edifarhau am eich trosedd ac i bledio am faddeuant. Wedyn, a dim ond wedyn, cewch eich derbyn yn ôl yn aelod.’

Ni wyddai Phoebe beth i'w ddweud. Roedd y cyfan yn gymhleth ac annheg. Doedd dim sôn am Ifan Lloyd yn camymddwyn nac yn cael ei ddiarddel. Felly, pan ofynnodd Owen Evans iddi a oedd ganddi gwestiwn ac a oedd hi wedi deall y sefyllfa, sibrydodd Phoebe o'i chwman, a dagrau'n llifo i lawr ei gruddiau:

‘Ydi hyn yn golygu nad ydi Duw ddim yn fy ngharu i ddim mwy?’

O glywed hynny, cododd Jane Evans o'i chadair ar unwaith a chroesi'r ystafell i roi ei breichiau amdani.

‘Fy merch annwyl i, wrth gwrs fod Duw yn dy garu di. `dydi o ddim yn hapus dy fod wedi torri un o'i reolau, ond dydi hynny ddim yn golygu ei fod wedi cefnu arnat ti. Dim ond ar ôl iddyn nhw briodi y dylai merched fynd yn feichiog. Os wyt ti'n edifarhau mae Duw yn sicr o faddau iti. Ffordd y capel o ddysgu gwrs i ferched dy oed di i ymddwyn yn barchus a chyfrifol ydi dy dorri di allan dros dro. Mi wn i'n iawn ei fod yn edifar gennyf fod hyn wedi digwydd, a rydan ni'n edifar hefyd. Dyna pam yr ydan ni'n awyddus i dy helpu di orau y medrwn ni, a dyna pam yr ydan ni am fabwysiadu'r babi,’ meddai gan geisio cysuro'r ferch ddagreuol yn ei breichiau.

‘Fe ddywedais i sut y byddai pobl y seiat yn ymateb, on'd do? Paid â dod i chwilio am gydymdeimlad na maldod gen i,’ brathodd Gwen yn ei llais miniog arferol.

Doedd fawr o ots gan Phoebe am bobl y capel, ond roedd hi'n poeni am ei rhieni, oherwydd gwyddai fod ots gan ei mam. Byddai hi'n siŵr o fod yn gofyn, ‘Be fydd pobl yn feddwl ohonon ni? Fydda i ddim yn medru wynebu pobl y pentre yn y

siop, a be ddyweda i wrth ein ffrindiau a'n cymdogion rŵan dy fod wedi cael dy dorri allan a'r capel?'

Roedd achosi'r fath gywilydd i'w mam o bawb yn loes calon iddi.

Drannoeth, ar ddydd Sadwrn, roedd disgwyl i'w rhieni ymweld â hi am hanner awr wedi dau y prynhawn. Erbyn hyn, roedd Phoebe'n ymwybodol iawn o'i maint. Nid oedd wedi gweld ei rhieni ers deufis, felly merch wahanol iawn a gerddodd i mewn i'r parlwr i dreulio hanner awr o amser gyda'i thad a'i mam. Eisteddodd y ddau ochr yn ochr ar y sofffa gyferbyn â'r tân. Roedd maint a chrandrwydd yr ystafell yn ychwanegu at eu nerfusrwydd a'u hymdeimlad o israddoldeb. Ond pan gerddodd Phoebe i mewn cafodd ei mam sioc o'i gweld. I ble'r aeth ei merch ddel, fain? Doedd dim dwywaith nad oedd yn edrych yn iach, ond yr oedd yn feichiog – yn feichiog iawn!

Ei thad a siaradodd gyntaf.

'Phoebe fach, yr wyt ti mewn helbul, a ninnau i'th ganlyn. Rwyt ti'n gwybod mae'n siŵr, dy fod ti'n destun siarad drwy'r pentre, yn enwedig a thithau wedi dy droi allan o'r capel. Ac am yr Ifan Lloyd yna, mae o wedi diflannu heb falio botwm corn am neb. A does neb â'r syniad lleiaf be sy wedi dod ohono fo. Hyd y gwyddom ni, fe all fod hanner ffordd i Awstralia erbyn hyn.'

Suddodd Phoebe i'r gadair agosaf gan grïo. Y ffaith iddi eu siomi mor enbyd ac achosi'r fath gywilydd iddyn nhw o fewn y gymdogaeth a barodd iddi dorri ei chalon. Ond roedd ganddi hefyd ofn yr enedigaeth ei hun.

'Tyrd yma, 'mach i. Paid â phoeni,' meddai'i mam gan dynnu ei merch i'w breichiau. 'Fe fyddi di'n iawn. Ydan, rydan ni wedi cael siom, ac mae'n gas gennym ni orfod wynebu pobl eraill. Ond ti sy'n bwysig, ac rwyt ti'n ffodus fod Mrs Evans yn gefn iti ac yn barod i fabwysiadu'r babi. Ac mae dy dad a minnau wrth law i wneud be fedrwn ni i helpu.'

'Wrth gwrs ein bod ni,' ategodd ei thad.

Yna meddai, a nodyn milain yn ei lais:

'Rydw i'n siomedig iawn ym mhobl Capel Bethel. Fydda' i ddim yn tywyllu'r lle byth eto. Mae gen i flys symud i Gapel Cysegr. Maen nhw'n bobl ffeindiach o lawer yn y fan honno.'

'O! paid â dweud hynna, Wil,' atebodd ei mam, 'Mae'n teulu ni wedi bod yng Nghapel Bethel ers cyn co. Fedrwn ni ddim cefnu ar y lle rŵan, neu mi fydd pobl yn meddwl ein bod ni'n llwfr. Rhaid i ni gadw'n pennau'n uchel a'u hwynebu nhw i gyd.'

A mae'n well gen i weddio dros Phoebe ym Methel nag yn unman arall. Yn y fan honno y ca' i nerth.'

Byddai Wil Hughes bob amser yn teimlo'n anghyfforddus pan fyddai'i wraig yn siarad crefydd, a thorrodd ar ei thraws i ddweud wrth Phoebe fel roedd Bob ei brawd a'i ddau ffrind wedi ymosod ar Ifan Lloyd.

'Ew, fe roeson nhw andros o gweir iddo fo. Fe arhoson nhw amdano fo yng Nghoed Iâ. Roedden nhw wedi cael gwybod ei fod wedi dechrau mynd i edrych am Sarah Jane, morwyn Plas Uchaf, wedi iddo glywed dy fod ti'n disgwyl plentyn. Wrth iddo fynd heibio'r coed, mi neidiodd Bob a'r ddau arall arno a rhoi crasfa iawn iddo. Fe addawodd alw i dy weld y bore wedyn i drafod priodi. Ond doedd o ddim yn bwriadu gwneud y fath beth. Cywilydd arno fo. Roedd o'n haeddu gwaeth na dau lygad du a thrwyn wedi'i dorri.'

Doedd Phoebe ddim wedi clywed am y cweir a gafodd Ifan.

'Gafodd o'i frifo'n arw?' gofynnodd.

'Ddim hanner mor arw â phetawn i wedi cael fy nwylo arno,' atebodd ei thad. 'Maen nhw'n dweud fod golwg mawr arno fo ar ôl i'r hogiau orffen.'

'Peidiwch â dweud dim mwy! Fedra'i ddim dioddef meddwl amdano'n cael ei frifo,' meddai Phoebe, gan sylweddoli ar unwaith ei bod wedi dweud y peth anghywir.

'Wel, mae hynny'n dangos dy fod ti mor ddrwg â fynte!' gwaeddodd Wil Hughes gan godi ar ei draed a dechrau camu am y drws.

'Na, peidiwch â mynd. Mae'n wirioneddol ddrwg gen i fod wedi achosi cymaint o helynt i bawb, ac i chi'ch dau yn fwy na neb. Rydw i'n falch fod Bob a'r hogiau wedi cymryd fy ochr i ac wedi dysgu gwers i Ifan. Rydw i'n addo o ddiffri na fydda i byth yn edrych ar ddyn arall eto tra bydda'i byw,' plediodd Phoebe.

'Na wnei'n wir, gobeithio,' taranodd Wil, gan ychwanegu, 'Dydan ni ddim eisiau *Ready Mary* arall yn y pentre yma. Mae gan honna bedwar o blant gan bedwar tad gwahanol!'

Roedd iddi gael ei gosod yn yr un dosbarth â merch a ystyrid yn butain y pentref yn loes calon i Phoebe.

'Mae'n well i ni fynd rŵan,' meddai ei mam, yn ymwybodol y gallai ei gŵr wneud y sefyllfa'n waeth efo'i siarad byrbwyll.

'Fe ddown ni heibio i dy weld ti yr wythnos nesa, i weld sut mae pethau'n dod ymlaen.'

‘Fe gei di roi’r hanes i mi ar ôl i ti fod. Fydda i ddim yn dod yn agos i’r lle yma am dipyn,’ sgythrodd Wil Hughes ar ei wraig.

Wedi iddyn nhw fynd aeth Phoebe’n ôl i’r gegin a’i phen yn troi. Methai’n lân â deall pam roedd ei themladau mor gymysg. Roedd agwedd ei thad wedi ei brifo. Fedrai hi ddim peidio â gofidio am Ifan Lloyd druan, efo’i ddau lygad du wedi chwyddo o ganlyniad i ymosodiad Bob. Cofiodd fel y byddai ei lygaid glas tywyll bob amser yn ei mesmereiddio. Ond teimlai’n falch hefyd fod Bob a’r criw wedi gwneud eu gorau i gael Ifan i ddod i’w gweld i drafod priodi. Pam na ddaeth o, ac yntau wedi addo?

A’i mam a’i thad druan; roedd hi wedi achosi cymaint o bryder a phoen meddwl iddyn nhw.

A beth oedd i ddod ohoni hi wedyn? Fyddai’r enedigaeth yn ddifrifol o boenus? Eisteddodd wrth fwrdd y gegin, ei phen yn ei dwylo, ei themladau’n bendramwnwgl, ac yn crïo nes bod ei llygaid yn goch a chwyddedig.

‘Diar annwyl, be ydi hyn? Rhaid rhoi’r gorau i’r crïo mawr yma neu fe fyddi’n ypsetio’r babi, a wnaiff hynny mo’r tro o gwbl.’

Heb i Phoebe ei chlywed, roedd Mrs Evans wedi cerdded i mewn i’r gegin. Eisteddodd gyferbyn â hi a dweud yn garedig:

‘Yli, Phoebe. Rwyd ti wedi gwneud clamp o gamgymeriad, ond dydi hi ddim yn ddiwedd y byd. Wedi i’r un bach gael ei eni byddi’n medru ailafael yn dy fywyd a chychwyn o’r newydd. Pan ddaw’r amser, fe fydda’ i yma i ddal dy law, a bydd Mari Ifans, y fydwraig yma hefyd. Mae ganddi hi flynyddoedd o brofiad ac mae hi’n gwybod popeth sydd i wybod am eni babi. Mi fyddi di mewn dwylo da. Ac ar ôl yr enedigaeth fe fyddwn ni’n edrych ar ôl y plentyn bach, a chei di barhau i weithio yma a mwynhau ei weld o, neu hi, yn tyfu. Felly, dydi pethau ddim mor ddrwg. Nid ti fydd y cyntaf na’r olaf i fod mewn trybini fel hyn, ond rhyngom ni fe ddown drwyddi.’

Rhyfeddodd Phoebe fod Mrs Evans mor garedig wrthi, a llwyddodd i wenu’n wan drwy ei dagrau.

Pennod 3

Ar fore dydd olaf Tachwedd 1875 deffrôdd Phoebe'n sydyn efo poen miniog yn ei hochr. Teimlodd y gynfas oddi tani. Roedd yn wlyb diferol! Oedd hi wedi gwlychu'r gwely? Daeth cywilydd a dychryn drosti. Yna, ergyd arall o boen yn ei hochr. Sylweddolodd yn sydyn pam roedd y gwely'n socian; roedd Mrs Evans wedi'i rhybuddio beth i'w ddisgwyl. Roedd ei dwr hi wedi torri! Ond sut hynny? Roedd rhai wythnosau eto cyn y dylai'r babi gyrraedd. Beth oedd yn digwydd iddi?

Cododd yn araf, araf o'i gwely a llusgo'i hun at ddrws yr ystafell wely. Roedd pobman fel y fagddu a baglodd wrth iddi groesi'r landin. Gwyddai fod ystafell Gwen gyferbyn â'i hystafell hi. Yn araf a phoenus, gan deimlo'i ffordd yn y tywyllwch, anelodd am ddrws ystafell Gwen i alw am help. Ond cyn iddi fedru cyrraedd cafodd bwl arall o boen dirdynnol a syrthiodd yn ei dyblau ar lawr y landin. Yn y tywyllwch, y boen, ac oherwydd ei maint afrosgo, ni allai symud modfedd.

'Help! Help! O mam bach, helpwch fi,' gwaeddodd.

Agorodd Gwen ei drws ar unwaith. Safodd y forwyn hŷn uwch ei phen mewn coban wen, siaced wely binc a chap nos cotwm ar ogwydd doniol ar dop ei phen. Ond roedd Phoebe mewn gormod o boen i sylwi ar ddigrifwch yr olygfa. Yng ngolau'r gannwyll yn ei llaw dde gwelodd Gwen Phoebe'n gorwedd ar draws y landin. Rhoddodd sgrech o ddychryn, a rhedeg i lawr y grisiau i'r llawr nesaf gan guro'n wyllt ar ddrws ystafell wely Mr a Mrs Evans, a gwaeddi,

'Mrs Evans! Mrs Evans! Dowch ar unwaith! Mae Phoebe ar lawr y landin, wedi syrthio ac yn methu codi!'

Cyn iddi fedru gwneud mwy o ddrama o'r sefyllfa agorodd drws yr ystafell.

'Brensiach pawb! Be yn y byd mawr sy'n digwydd? Ydi'r tŷ ar dân?'

Ymddangosodd Owen Evans yn ei gryd nos yn nrws eu hystafell wely a golwg blin ar ei wyneb. Doedd o ddim yn gwerthfawrogi cael ei ddeffro yn oriau mân y bore.

'Plis, syr, wnewch chi ofyn i Mrs Evans ddod ar unwaith? Mae Phoebe ar ei hyd ar y landin, a synnwn i ddim nad ydi'r babi ar ei ffordd,' plediodd Gwen.

Roedd Jane Evans wedi neidio o'r gwely a tharo dillad amdani. Daeth allan o'r ystafell a rhoi gorchymyn i'w gŵr i anfon un o'r gweision ar unwaith i nôl Mari Ifans, y fydwraig, i helpu gyda'r enedigaeth.

‘Gwen, cerwch chi i wisgo. Does dim amser i’w golli. Bydd angen eich help chi hefyd. Cerwch i’r gegin i ferwi digon o ddŵr ac i nôl swp o dywelion glân.’

Doedd Gwen ddim yn or-hoff o gael ei hordro ganol nos fel hyn. Pam oedd eisiau cymaint o ffys efo merch wirion oedd wedi gadael i fachgen drwg gael ei ffordd efo hi? Ond roedd y feistres wedi dweud wrthi am frysio a doedd fiw iddi ddechrau dadlau a chwyno. Ar ben y grisiau ar y llawr uchaf roedd Phoebe druan yn gorwedd lle y disgynnodd ac yn gweiddi mewn poen, a phob pwl o boen yn peri iddi weiddi’n uwch.

‘Fe fydd raid inni dy gael yn ôl i’r gwely. Tyrdd, mi wna i dy helpu di i godi.’

Yn araf a phoenus llwyddodd Jane Evans i godi Phoebe ar ei thraed a’i chael i gamu’n araf i’w lloft fechan. Suddodd ar ei gwely. Mae hyn yn uffern, meddai wrthi ei hun, pam nad oedd rhywun wedi dweud wrtha i fod esgor mor felltgedig o boenus?

‘Na, paid â gwithio, ddim eto, mae’n rhy fuan. Anadla’n ddwfn pan ddaw’r pyliau poenus,’ cynghorodd Jane Evans yn dawel.

Ond daeth pwl gwaeth o lawer, a rhoddodd Phoebe sgrech oedd i’w chlywed drwy’r tŷ. O’r diwedd cyrhaeddodd Mari Ifans gyda’i bag o feddyginiaethau llysieuol ac ambell eli defnyddiol.

‘Mae popeth yn iawn, Phoebe fach, tria di ymlacio, fe gymerwn ni ofal ohonot ti,’ meddai Mari Ifans gan geisio ei chysuro.

Ond er gwaethaf geiriau calonogol Mari, erbyn wyth o’r gloch y bore trannoeth roedd pethau ymhell o fod yn iawn. Trwy’r diwrnod cynt a thrwy’r nos bu Mari a Jane Evans yn gweithio’n galed gyda Phoebe, ond heb ddim llwyddiant. Erbyn chwarter wedi wyth ar yr ail o Ragfyr cyfaddefodd Mari Ifans fod rhaid galw’r meddyg o Dreffynnon.

Yn flinedig ac anniben yr olwg, yn dilyn pedair awr ar hugain o straen a phryder, aeth Jane Evans i lawr y grisiau i ddweud wrth ei gŵr fod rhaid cael meddyg. Yn ôl Mari Ifans doedd y babi ddim yn y lle iawn. Gwnaeth sawl ymgais yn ystod y nos i’w droi ond yn ofer. Yn y cyfamser roedd cyflwr Phoebe wedi mynd o ddrwg i waeth, gyda’r gwithio, y boen a’r straen yn ei gwano.

‘Mae meddygon yn costio’n ddrud,’ cwynodd Owen Evans yn flin.

Synnodd Jane Evans fod ei gŵr yn gallu bod mor ddideimlad a chrintachlyd.

‘Wel, arian neu beidio, colli’r fam a’r plentyn wnawn ni os na chawn ni help yn fuan. Does dim amser i ddadlau. Gyrrwch am y doctor ar unwaith, Owen,’ meddai Jane yn ddiamynedd.

Erbyn i'r meddyg gyrraedd roedd Phoebe wedi gwano'n arw. Yn lle'r sgrechfydd a ysgydwai'r tŷ ers oriau, ni chlywid ond griddfan ac ambell ebychiad gwan. Rhedodd y chwys i lawr ei hwyneb. Gorwedddai ei gwallt coch hardd yn wlyb domen ar y gobennydd a chrynai ei chorff gyda phob pwl o boen.

Rhedodd y meddyg i fyny'r grisiau ac i mewn i'r ystafell wely fechan. Gwyrodd i edrych yn fwy manwl ar Phoebe.

'Mae hi mewn cyflwr gwael. Fe ddylech fod wedi galw amdana i ymhell cyn hyn. Gallwn golli'r fam a'r babi,' meddai'n flin.

Edrychodd Jane a Mari Ifans ar ei gilydd mewn braw. Roedd y ddwy wedi gwneud eu gorau glas ac wedi blino'n llwyr. Beth petaen nhw'n colli Phoebe druan wedi'r cwbl?

Gwyddai Dr Jones yn union sut i droi'r babi, a hanner awr yn ddiweddarach rhoddodd Phoebe enedigaeth i ferch fach, er bod straen yr esgor hir i'w weld ar ei chorff eiddil. Aeth cryndod drwy gorff Phoebe a gollyngodd ochenaid dawel.

'Tydi hi ddim yn anadlu,' sibrydodd Mari mewn braw, yn amau ei bod wedi bod yn dyst i farwolaeth yn ogystal â genedigaeth.

Cydiodd y meddyg yng ngarddwn Phoebe i deimlo'i phyls ac ysgydwodd ei ben.

'Rydan ni wedi'i cholli hi. Bu straen yr oriau diwetha'n ormod iddi ac fe gollodd lawer iawn o waed.'

Doedd dim amser i'w wastraffu. Os oedd un bywyd wedi'i golli, roedd bywyd bach arall i'w achub. Cafodd y ferch fach ei hymolchi mewn dŵr cynnes. Taenwyd olew dros ei chorff bach a'i lapio mewn tywel glân.

'Rhowch hi ym mreichiai'i mam am eiliad neu ddwy,' awgrymodd Mari Ifans. Cododd Jane y fechan a'i gosod i orwedd gyda braich ei mam amdani. Roedd dagrau'n llenwi llygaid y feistres a'r fydwraig.

'Phoebe druan!' orchneidiodd Jane Evans. Rhoddodd y ferch fach floedd sydyn a

chariodd Jane hi i lawr y grisiau i'r gegin.

Safodd Gwen yn welw, wedi deall oddi wrth wyneb ei meistres fod Phoebe wedi colli'r dydd.

'O Phoebe druan! Fedra i ddim coelio'r peth! Er i mi ddweud y drefn wrthi'n aml – yn rhy aml o bosib – doedd hi ddim yn haeddu hyn chwaith! A'r plentyn bach yma'n dod i'r hen fyd yma heb na thad na mam. Ac am yr hogyn Ifan Lloyd yna! Mae

hwanna wedi cael ei draed yn rhydd heb falio dim am neb. Sut fedrai o? Bydd rhaid iddo dalu am hyn! O bydd! Yn siŵr i chi, Mrs Evans.'

'Llefrith cynnes sydd arni ei eisiau rŵan, Gwen.'

Roedd Gwen yn barod wedi cael hyd i'r botel babi fu gan Edward. Bu'n chwilota drwy gypyrddau'r gegin amdani tra oedd pawb arall yn brysur i fyny'r grisiau efo Phoebe. Yna roedd wedi ei throchi mewn sospan i'w glanhau'n llwyr.

'Diolch i chi, Gwen, am fod mor feddylgar. Gan fod Phoebe wedi'n gadael ni â merch fach amddifad, mi fydda' i'n dibynnu llawer arnoch chi i helpu i'w magu. Rydw i'n gwybod y medra' i ddibynnu arnoch chi.'

'Pam? Fydd hi'n aros yma hefo ni?' gofynnodd Gwen a gwên yn ymledu ar draws ei hwyneb.

'Bydd, mae Mr Evans a minnau wedi penderfynu ei mabwysiadu. Fydd hi ddim yn amddifad yn hir.'

'Mi wna' i fy ngorau glas i'ch helpu, gwnaf yn siŵr,' atebodd Gwen, yn falch yn ei chalon y câi gyfle i wneud rhywfaint o iawn am y driniaeth greulon a roddodd i Phoebe druan, ddiniwed pan oedd fwyaf angen cydymdeimlad a help arni.

Eisteddodd Jane Evans yn y gadair siglo yn y gegin gynnes gan fwydo'r ferch fach o'r botel. Roedd yn rhyfeddol ei gweld yn sugno'n reddfol. Llifai'r dagrau i lawr ei gruddiau wrth feddwl am ddigwyddiadau erchyll y pedair awr ar hugain diwethaf. Plygodd dros y plentyn bach a thristwch y sefyllfa, yn ogystal â'i blinder, bron â'i llethu.

'Roedd hi mor ifanc, Gwen, ac mor ddel a diniwed. Roedd yn hogan iach, gref. Dipyn yn wirion a difeddwl ar adgeau, ond yn weithreg fach dda. Dydi merched ifanc, iach ddim i fod i farw!'

Roedd pawb yng Nghaeau Gwylltion wedi eu syfrdanu o glywed fod Phoebe wedi colli ei bywyd wrth roi genedigaeth i ferch fach. Y dasg boenus a wynebai Owen a Jane Evans yn awr oedd torri'r newydd i rieni Phoebe. Roedden nhw wedi addo gadael iddyn nhw wybod y funud y byddai'r babi wedi cyrraedd. Sut yn y byd oedden nhw i wynebu'r ddau?

Roedd Mari Ifans, y fydwraig, wedi addo peidio ag yngan gair wrth neb yn y pentref, nac wrth ei chymdogion, nes y byddai Mr a Mrs Evans wedi bod yn gweld rhieni Phoebe. Doedd dim amdani ond mynd mor fuan â phosib ar ôl brecwast.

Roedd hi'n fore Sul, cyn i bobl ddechrau cychwyn am y capel, pan gerddodd y ddau i fyny'r llwybr tuag at fythynnod y Swan. Roedd mwg yn codi o'r simdde a'r drws yn lled agored.

'Y creaduriaid! Dydyn nhw ddim yn gwybod ein bod ni ar fin chwythu eu byd diogel nhw'n deilchion,' sibrydodd Jane.

'Oes yma bobol?' galwodd Owen Evans wrth guro ar y drws.

Safodd Wil Hughes o'u blaenau yn gwenu'n braf o weld y ddau, y meist'r a'r feistres, ar garreg eu drws.

'Dowch i mewn eich dau. Croeso i chi.'

Daeth Ann Hughes i'r golwg drwy ddrws y gegin fach.

'Oes gennych chi newydd inni?'

'Eisteddwech, eich dau,' gorchmynodd Owen Evans.

'Oes, mae gennym ni newydd. Yn gyntaf, mae gennych chi wyres fach, y beth fach ddela welsoch chi erioed, wedi ei geni ryw ddwyawr yn ôl, ychydig wythnosau ynghynt na'r disgwyl.'

Roedd Ann wrth ei bodd, ond yr unig beth oedd gan Wil i'w ddweud oedd:

'Hy! Plentyn siawns!'

'Ond rwan, rhaid i chi'ch dau fod yn ddewr.'

Aeth Owen Evans yn ei flaen.

'Mae'n ddrwg gen i orfod dweud, ond fe fu Phoebe farw wrth roi genedigaeth i'r un fach. Fe fu straen yr esgor yn ormod iddi, a doedd dim yn gallwn i, na Mari Ifans na'r doctor ei wneud i'w hachub hi.'

Roedd y newydd brawychus wedi ei dorri. Am eiliad neu ddwy roedd yr ystafell yn gwbl ddistaw a dim ond tipiadau'r cloc i'w glywed.

Yna, a'i dwylo am ei phen, gollyngodd Ann Hughes waedd ingol o ddychryn a thorcalon. Aeth crynodod drwy ei chorff, a thrwy lifeiriant ei dagrau gwaeddodd,

'O! Phoebe fach! Fy ngeneth annwyl i! Be wna i? O! Mrs Evans, be wna i?'

Rhoddodd Jane Evans ei breichiau amdani, ond doedd dim cysuro arni.

Eisteddodd Wil Hughes yn llonydd ac yn welw, ei ddwylo wedi eu cau yn ddyrnau tyn, a'i figurnau'n wyn. Sibrydodd yn dawel a milain:

'Bydd y diawl yn talu am hyn! Cyn wired â mod i'n eistedd fan hyn. Fe â i ar ei ôl o, a phan ga i hyd iddo fo, hyd yn oed os cymerith hi flynyddoedd, mi fala'i bob asgwrn yn ei gorff o. Dydi'r cythraul drwg ddim yn mynd i fedru cuddio am byth. Fe gaiff dalu am be mae o wedi'i wneud!'

Arhosodd Owen a Jane Evans yn dawel i roi cyfle i'r dicter a'r dagrau ostegu, yna rhoddodd Jane ei llaw ar ysgwydd Ann, oedd yn dal i grïo'n hidl, ac meddai:

'Fe fyddwn ni'n dau yn cadw at ein gair. Fe fagwn ni'r fechan fel tae'n ferch i ni. Chi, wrth gwrs, ydi ei thaid a'i nain, a chewch ddod i edrych amdani unrhyw amser. Chi hefyd ddylai ei henwi hi.'

'Na, na, na! Dydan ni ddim eisiau gwneud dim â hi. Fydd hi'n ddim ond atgof parhaus o'r cythraul Ifan Lloyd yna. Cadwch hi o'n golwg ni. Dydan ni ddim eisiau'i gweld hi na gwneud dim hefo hi,' gwaeddodd Wil Hughes.

'O! paid â siarad fel yna Wil,' meddai Ann Hughes yn codi ei phen o'i dwylo. 'Mae Mr a Mrs Evans mor garedig, yn gwneud eu gorau drosom ni. Ac mi fydda' i eisiau gweld yr un fach beth bynnag. Wrth iddi dyfu bydd yn fy atgoffa i o Phoebe druan.'

'Fydda i ddim isio'i gweld hi byth,' mynnodd Wil Hughes yn chwerw.

'Byddai'n well i ni'n dau eich gadael chi rŵan,' meddai Owen Evans, yn ymwybodol fod angen amser ar y ddau i alaru efo'i gilydd. 'Rydach chi eisiau amser ar ben eich hunain. Ond cyn inni fynd, fe wna i drefniadau'r angladd, os ydi hynny'n dderbyniol gennych chi. A chofiwch, y ni fydd yn talu am bopeth. Dyna'r peth lleiaf y medrwn ni ei wneud.'

Nodiodd y ddau mewn cytundeb. Doedd ganddyn nhw ddim syniad sut i fynd ati i drefnu angladd beth bynnag.

Angladd tawel a gafwyd. Teulu Phoebe, Owen a Jane Evans a rhai o weision Caeau Gwylltion. Cafodd Owen Evans gryn drafferth wrth wneud y trefniadau. Pan siaradodd â gweinidog Capel Bethel, cafodd ei atgoffa fod Phoebe Hughes wedi ei thorri allan o'r seiat ac o ganlyniad ni allai gael gwasanaeth angladdol yn y capel.

'Ond rydw i a'r wraig yn aelodau. Rydw i'n flaenor, ac roedd Phoebe'n rhan o'n teulu ni ac yn ein tŷ ni y bu hi farw,' dadleuodd Owen.

Ond doedd dim symud ar y gweinidog.

'Mae'n ddrwg gen i, Owen Evans, ond fedra' i ddim torri'r rheolau i chi, fwy na neb arall. Ewch i gael gair â Ficer Chwitffordd. Roedd hi'n byw o fewn ei blwyf o. Fydd o'n siŵr o gytuno i arwain gwasanaeth byr ar lan y bedd a chaiff ei chladdu ym mynwent yr eglwys.'

Ac felly y rhoddwyd Phoebe i orwedd ym mynwent y llan yn Chwitffordd. Gwasanaeth byr a gafodd. Hyd yn oed yng ngolwg yr eglwys yr oedd yn ferch oedd wedi pechu'n ddirfawr. Ond yng ngolwg ei rhieni a theulu Caeau Gwylltion, merch

ifanc ddiniwed a gafodd ei chamarwain a'i thwylo oedd hi. A dyna hi, o ganlyniad, yn ei bedd a hithau ond yn ddwy ar bymtheg oed.

Wedi'r gladdedigaeth cerddodd pawb ar draws y caeau i fferm Caeau Gwylltion i gael te, sgons a bara brith. Roedd Gwen wedi gwrthod mynd i'r angladd, gan fynnu mai ei lle hi oedd aros yn y ffermdy i baratoi'r te ac i warchod y babi. Ond y gwir oedd na allai wynebu'r profiad o weld y forwyn fach yn cael ei gollwng i'r bedd. Roedd yn dal o'r farn fod Phoebe wedi ymddwyn yn anghyfrifol a byddai'n dweud wrth ei hun:

'Mi wnes i ei rhybuddio hi o beryglon cnocio, ond fe wrthododd wrando. Dyna fai y merched ifanc yma sy'n hel bechgyn.'

Ar ôl te gofynnodd Ann Hughes am gael dal ei hwyres fach a rhoi'r botel iddi. Eisteddodd yn y gadair siglo ger y popty yn siglo'r fechan yn ôl a blaen. Roedd hi mor ddel, mor ddiniwed, mor fregus, heb wybod dim am y storm a dorrodd yn sgil ei geni.

'Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a gymerodd ymaith,' sibrydodd Ann.

'Mae hi'n dlws, ac yn fabi bach mor dda,' meddai Jane. 'Ydach chi wedi dewis enw iddi eto? Y chi sydd i wneud hynny; chi ydi ei thaid a'i nain go iawn.'
'Wel, enw fy mam oedd Esther. Fe fyddwn i wrth fy modd pe bae'n cael ei henwi'n Esther Hughes Evans. Gan eich bod chi'n ei mabwysiadu fe fydd yn Evans, ond byddai'r Hughes yn arwyddo ei bod yn rhan o'n teulu ninnau hefyd,' meddai Ann yn swil.

'Ydi Wil yn hapus efo'r enw?'

'Dydi o'n malio dim. Dydi o ddim eisiau gwneud dim â hi. Ddaru chi sylwi nad ydi o ddim wedi edrych arni o gwbl heddiw?'

Roedd y dagrau'n llifo o lygaid Ann.

'Fedra' i ddim ond gobeithio y daw o i'w derbyn hi ymhen amser. Fe allai fod o gysur mawr iddo fo, ac yn sicr yn help i mi.'

Roedd Owen yn siarad â'r ficer ac yn talu iddo am ei wasanaeth pan alwodd Jane arno i ddod ati hi ac Ann oedd yn dal i fagu'r fechan. Eglurodd eu bod ill dwy wedi cytuno ar enw i'r ferch fach, sef Esther Hughes Evans. Roedd Owen wrth ei fodd. Enw hyfryd i blentyn bach hyfryd.

'Cymrwch hi rŵan, Jane. Chi bia hi,' sibrydodd Ann drwy ei dagrau.

‘Fe fydd Owen yn mynd ati ar unwaith i’w mabwysiadu’n swyddogol. Ac rydw i’n addo y bydd yn cael ei charu a’i magu fel plentyn i ni. A rhaid i chi ddod draw mor aml ag y medrwch chi er mwyn iddi dyfu i’ch nabod chi fel ei nain.’

Cododd Jane Esther fach i’w breichiau a’i rhoi yn ôl yn ofalus yn ei chrud.

‘Fe ga i air efo Wil i ddweud wrtho be ydi enw’r ferch fach,’ meddai Owen.

Ond roedd Wil heb ei blesio.

‘Hy, rois i ddim caniatâd iddi gael yr enw Hughes. Ond pa enw bynnag rowch chi arni, fydd hynny’n newid dim ar y ffaith mai plentyn siawns ydi hi – a phlentyn siawns fydd hi i ddiwedd ei hoes.’

‘Fydd hi ddim yn blentyn siawns ddim mwy, Wil Hughes. Fe fydd yn rhan o’n teulu ni – yn Evans. Mi fydda i’n mynd i weld fy nhwnai yn Nhreffynnon fory nesa i roi cychwyn i’r mater o’i mabwysiadu, i wneud yn siŵr y bydd popeth yn cael ei wneud mewn trefn.’

Roedd Owen wedi hen flino ar agwedd bigog Wil.

Y noson honno yn y gwely gofynnodd Jane i’w gŵr a fyddai anhawster cael bedyddio Esther fach yn y capel. A fyddai’r ffaith fod ei mam wedi ei thorri allan o’r seiat a bod y babi wedi ei geni’n anghyfreithlon yn debyg o greu problem?

Roedd yn fis Mawrth 1876 ar Owen Evans yn dechrau gwneud trefniadau i fedyddio Esther. Bu angen gwneud cymaint o bethau ers ei dyfodiad dramatig hi i’r byd. fel hyn y darllenai ei Thystysgrif Geni:

Esther	2nd December	Mother	Father
Hughes Evans	1875	Phoebe Hughes	Unknown

Roedd Jane Evans yn anfodlon iawn â’r ‘Father Unknown.’ Ond yn ôl y cofrestrydd, dyna oedd rhaid ei nodi. Er i Phoebe honni’n bendant mai Ifan Lloyd oedd y tad, doedd dim prawf o hynny. Doedd ei gair hi ddim yn ddigon, yn enwedig a hithau bellach wedi marw.

Wedyn roedd ymweliadau â thwrnai Owen Evans. Roedd papurau i’w harwyddo. Roedd gofyn i Ann a Wil Hughes fel perthnasau agosaf Esther fach arwyddo i’r perwyl eu bod yn cydsynio i ollwng eu hwyres i’w mabwysiadu. Ar y dechrau gwrthododd Wil yn lân â mynd ar gyfyl swyddfa’r twrnai. Doedd ganddo fo mor amser na’r diddordeb mewn pethau o’r fath, meddai. Yn y diwedd cafodd Ann

berswâd arno i ddod efo hi ac Owen a Jane Evans yn y trap i Dreffynnon ‘i setlo pethau unwaith ac am byth.’

Ar y ffordd gofynnodd Wil yn ddiamynedd pam oedd rhaid dod â chyfreithwyr i mewn i’r busnes. Ond roedd Owen yn ddi-droi. Roedd rhaid i bopeth gael ei wneud yn swyddogol ac yn gyfreithiol gywir. Y fo a Jane fyddai rhieni Esther, a byddai hithau’n ferch swyddogol iddyn nhw ac yn chwaer i’w hunig fab, Edward. Byddai’n cael ei bedyddio yn Esther Hughes Evans, ac ni fyddai dim rhagor o sôn amdani fel plentyn anghyfreithlon.

Roedd Esther i gael gwasanaeth bedydd iawn; byddai Jane yn gwneud yn siŵr o hynny. Anfonwyd Owen i gael gair â gweinidog Capel Bethel i egluro iddo ei fod, fel tad mabwysiedig Esther, yn dymuno cael ei bedyddio yn y capel fel y bedyddiwyd eu mab, Edward.

‘Wel, wn i ddim wir a fydd y brodyr yn caniatâu. Wedi’r cwbl, roedd yn blentyn anghyfreithlon, wedi ei geni oddi allan i rwymau priodas,’ meddai’r parchedig, yn rhagweld problemau efo swyddogion y capel.

‘Mae hi erbyn hyn yn ferch i mi, ac y mae hynny wedi’i arwyddo a’i setlo’n gyfreithlon. Felly rydan ni’n gofyn am gael bedyddio ein plentyn ni yn y capel ble’r ydan ni fel teulu’n aelodau a lle rydw i’n flaenor. Ac fe hoffem ni gael y bedydd yn ystod oedfa’r bore ar y Sul cyntaf o Fai,’ ychwanegodd Owen yn bendant.

Gan mai ef a Jane oedd rhieni cyfreithlon y plentyn bach, credai fod ganddyn nhw’r hawl i gael ei bedyddio yn y capel. Bu rhywfaint o wrthwynebiad o blith rhai o’r swyddogion hŷn, ond llwyddodd y gweinidog i’w hargyhoeddi fod popeth bellach mewn trefn ac y dylid caniatâu’r bedydd.

Roedd bore Sul cyntaf mis Mai yn fore hyfryd. Gwisgwyd Esther mewn gŵn fedydd a oedd yn eiddo etifeddol, wedi ei gwisgo gan genedlaethau o deulu Jane Evans mewn gwasanaethau bedydd dros y blynyddoedd. Yn dilyn bedydd Edward, golchwyd y wisg yn ofalus a’i phlygu mewn papur sidan a’i lapio mewn cas gobennydd cyn ei chadw yn yr hen gist bren yn un o’r llofftydd sbâr. Wrth i Jane ddadbacio’r wisg ar gyfer bedydd Esther sylwodd mai rhubanau glas oedd ar y llewys ar ôl bedydd Edward. Rŵan, o’r diwedd, câi eu newid am rubanau pinc.

Rhoddodd orchymyn i Gwen i’w smwddio’n ofalus.

‘Mae’n hen iawn a rhaid cymryd gofal rhag iddi gael ei llosgi.’

‘Ie, wrth gwrs, meistres,’ atebodd Gwen, yn biwis braidd.

Roedd hi'n dal yn ffroenuchel tuag at deulu Phoebe. Pam yn y byd roedd Mr a Mrs Evans yn mynd i'r fath drafferth a ffwdan dros blentyn oedd wedi ei chenhedlu mewn tas wair gan gwpl dibriod?

Pan ddeallodd fod disgwyl iddi baratoi cinio Sul arbennig yng Nghaeau Gwylltion i bymtheg o bobl - gan gynnwys yr Hughesiaid - yn dilyn y gwasanaeth bedydd, roedd hi'n ddistaw bach o'i cho.

'Rŵan, gwnewch eich gorau, Gwen. Buaswn i'n gwerthfawrogi petaech chi'n gwneud ymdrech. Mi wn i'n iawn nad ydach chi yn cytuno â'r hyn yr ydan ni wedi'i wneud yn mabwysiadu Esther fach, ond er ei mwyn hi, rhaid inni anghofio'r gorffennol. Plentyn bach diniwed ydi hi. Ofynnodd hi ddim am gael ei geni'n blentyn siawns. A rŵan ei bod hi'n swyddogol yn ferch i ni, rhaid inni wneud ein gorau drosti.'

Yna aeth ymlaen i fanylu ar fwydlen y cinio bedydd.

'Fe gawn ni gig oen gwanwyn efo saws mintys, tatws newydd, moron, pys a bresych. I bwdin fe gawn bastai mwyar duon a phastai afal a hufen. Os ydw i'n cofio'n iawn mae gennym ni falau coginio dros ben ers yr Hydref diwetha, a mwyar duon hyfryd wedi eu potelu ers mis Medi.'

'Oes, meistres,' atebodd Gwen yn bwdlyd.

Cychwynnodd Owen, Jane, Edward ac Esther fach yn y trap i'r oedfa fore Sul ar Sul braf yn y gwanwyn. Owen a ddaliai'r awenau. Roedd golwg smart arnyn nhw bob un, yn enwedig Edward a oedd yn gwisgo siwt las dywyll, crys sidan gwyn, coler startsh a thei-b. Edrychai'n ŵr bonheddig bach a theimlai Jane yn falch ohono. Roedd yn ddisgybl yn Ysgol Rhuthun - ysgol breifat - ac felly roedd oddi cartref am ran helaeth o bob tymor. Ond cafodd ddod adref dros y Sul ar gyfer bedydd Esther.

Roedd o wedi dotio'n lân â'i chwaer fach newydd, ac eisteddai'n agos at ei fam yn y trap er mwyn dal ei llaw fach.

'Mam, mae hi'n ddel, yn tydi? Edrychwch ar ei chyrls bach cringoch,' meddai'n swil.

Fel arfer roedd Jane yn smart mewn gwisg sidan o liw glas golau gyda gwddf hir a llewys llawn wedi eu haddurno â botymau bychain o'r un lliw. Ar ei phen gwisgai het wellt newydd a honno wedi'i haddurno â blodau o'r un lliw â'i gwisg. Roedd yn dal a gosgeiddig, gyda gwallt du, naturiol gyrllog a llygaid glas.

Gyda'r ferlen fach yn mynd ar drot i fyny allt y Rhewl, aethant heibio i Dafarn y Swan, bythynnod y Swan, Ivy House a siop y pentref. Wrth iddynt nesâu at y capel

roedd golwg fod nifer o aelodau eraill yn cyrraedd ar gyfer yr oedfa. Camodd Jane o'r trap gan gymryd gofal mawr o'r bwndel bach gwerthfawr yn ei breichiau.

Sylweddolodd wrth iddi gerdded i mewn i'r capel fod rhai o'r gwragedd yn gwgu arni, yn amlwg o'r un farn â Gwen ar fater babis siawns. Ond roedd eraill yn amlwg yn falch o'u gweld ac yn gwenu o weld Esther fach.

Y bore arbennig hwnnw roedd mwy o gynulleidfa nag arfer yng Nghapel Bethel.

'Taclau bysneslyd,' meddai Jane wrthi'i hun.

Capel hardd oedd Bethel, wedi'i sefydlu yn 1825 a'i helaethu yn 1867. Safai ar ben allt y Rhewl. Gofalwr y capel oedd Elis Roberts oedd yn byw gyda'i wraig yn y tŷ capel gerllaw. Roedd y capel yn lân bob amser ac yr oedd sglein ar bopeth. Bob nos Sadwrn yn ystod misoedd y gaeaf byddai Elis yn mynd i lawr i'r seler i danio'r boiler er mwyn i'r capel fod yn gynnes ac yn glyd erbyn bore trannoeth. Byddai Elis yn gorfod gosod ei gloc larwm am bedwar o'r gloch y bore i fynd i lawr eto i'r seler i roi mwy o danwydd ar y tân, neu byddai wedi diffodd a'r capel yn oer.

Roedd y gwasanaeth bedydd yn hyfryd. Roedd Ann a Wil Hughes yn bresennol efo Owen a Jane Evans. Pan daenodd y gweinidog ddŵr ar dalcen Esther, dywedodd:

'Esther Hughes Evans, rwyf yn dy fedyddio di yn enw'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân.'

Rhedodd y dagrau i lawr gruddiau Ann. Iddi hi roedd yn achlysur hapus a thrist yr un pryd. Ni fedrai beidio â meddwl am Phoebe, ei merch ifanc hardd ei hun, a gafodd gam ac a gollodd ei bywyd.

Wedi'r gwasanaeth, aethant allan i haul hyfryd y gwanwyn. Casglodd nifer o wragedd y capel o amgylch Jane ac Esther fach, yn awyddus i weld y fechan ac i ddymuno'n dda iddynt fel teulu. Yn eu plith roedd Mari Ifans a wnaeth ei rhan yng ngenedigaeth Esther. Cydiodd ym mraich Ann Hughes ac meddai:

'Cymer gysur, Ann. Er iti golli merch y mae hi wedi gadael wyres fach brydferth i ti, ac o gael ei mabwysiadu gan deulu Caeau Gwylltion fe gaiff y gorau o bopeth.'

Nodiodd Ann mewn cytundeb, ond sibrydodd:

'Nid y ni piau hi rŵan, ond nhw.'

Roedd y cinio a baratowyd gan Gwen a Jini, y forwyn fach newydd, yn ardderchog. Er gwaetha'i hwyliau drwg fe wnaeth Gwen ymdrech arbennig.

Wrth iddynt gerdded i mewn i ystafell fwyta Caeau Gwylltion sylwodd pawb mor hardd yr edrychai'r bwrdd gyda llieiniau a llestri tseina gorau Jane Evans wedi eu gosod allan. Bu canmol mawr ar y bwyd ac aeth Jane i'r gegin i basio'r ganmoliaeth i Gwen a'i

chynorthwy-ydd. Jane yn unig a oedd yn gwybod pa mor flin a fu Gwen o orfod wynebu golchi mynydd o sosbenni a llestri budron ar ôl y pryd. Ond o gael ei chanmol ymledodd gwên dros ei hwyneb.

'Rydw i'n falch fod pawb wedi mwynhau. Mae Jini wedi bod o help mawr,' meddai.

Fel syrpreis, roedd Owen Evans wedi trefnu i ffotograffydd o Dreffynnon dynnu llun o bawb i gofio'r achlysur. Wedi i'r gwesteion orffen eu pryd gwahoddwyd hwy i ymgynnull ar lawnt y ffermdy. Hwn oedd y tro cyntaf i'r rhan fwyaf ohonyn nhw gael tynnu eu lluniau. Achosodd hyn gyffro mawr ymysg y merched gyda phob un yn unioni eu hetiau a'u sioliau.

'Ydw i'n edrych yn iawn? Ydi fy het i'n syth?' holodd Jane.

'Rwyt ti'n edrych yn hyfryd, fy nghariad i,' sicrhaodd Owen.

Tynnwyd tri llun. Un gyda Jane yn eistedd ac Esther ar ei glin. Safodd Owen y tu ôl iddi gyda'i law dde ar ei hysgwydd ac Edward yn sefyll yn stond i'r chwith iddi a'i law ar ysgwydd ei fam. Roedd pawb yn edrych yn barchus a difrifol. I'r ail lun gwahoddwyd rhieni Phoebe i ymuno yn y grŵp teulu. Ar y dechrau gwrthododd Wil Hughes, ond llwyddodd Owen i'w berswadio.

'Meddyliwch am y dyfodol, ddyn. Rhyw ddiwrnod bydd Esther wrth ei bodd fod ganddi lun o'i thaid a'i nain, peidiwch â'i hamddifadu o hynny.'

Roedd y trydydd llun yn cynnwys y gwesteion i gyd wedi ymgasglu'n stiff o urddasol o amgylch y teulu. Wedi i'r ffotograffydd osod pawb yn eu lle, rhoddodd orchudd du dros y camera a thros ei ben ei hun a gorchmynnodd ar i bawb gadw'n berffaith llonydd ac i beidio â gwenu na dangos eu dannedd.

Bu mater y tynnu lluniau yn destun trafod yn y pentref a'r ardal am wythnosau. Addawodd Owen Evans y byddai pawb yn cael cyfle i weld y lluniau ar unwaith wedi iddyn nhw gael eu datblygu.

'Rydan ni wedi cael diwrnod ardderchog a phopeth wedi mynd yn esmwyth. Diolch i Owen am drefnu popeth mor wych, a diolch yn arbennig am drefnu'r ffotograffydd. Byddwn yn trysori'r lluniau am byth,' meddai Jane o'r gadair siglo yn y gegin lle'r oedd hi'n bwydo Esther fach.

‘Do, fe aeth popeth yn foddhaol iawn,’ atebodd Owen. ‘Rydan ni wedi’n bendithio fel teulu, a rŵan fod yr un fach yma wedi’i bedyddio, rydw i’n teimlo mai ein merch fach ni ydi hi mewn gwirionedd. Mae’n ddrwg ofnadwy gen i fod Phoebe druan wedi colli ei bywyd. Byddem wedi mabwysiadu Esther hyd yn oed pe bai Phoebe wedi byw, a byddai wedi bod yn hyfryd iddi hi fod yn dyst i’w bedydd heddiw.’

Gwahanol iawn oedd y teimladau yn y bwthyn gyferbyn â thafarn y Swan. Roedd Ann Hughes yn y felan, a doedd agwedd feirniadol, gwynfanllyd Wil, ei gŵr, o ddim help.

‘Does ots gen i pa mor grand ydi teulu Caeau Gwylltion, na faint o arian warian nhw ar fagu’r plentyn yna i fod yn ledi, plentyn siawns fydd hi drwy’r cwbl – plentyn anghyfreithlon.’

‘Paid â dweud y gair yna. Mae’n air cas, ac erbyn hyn dydi o ddim yn wir ei bod yn anghyfreithlon; mae hi wedi ei mabwysiadu, ac Owen a Jane Evans biau hi rŵan,’ oedd ateb diamynedd Ann.

‘O! na, nid y nhw biau hi. Ein gwaed ni sy’n llifo drwy ei gwythiennau, a chofia hyn, mae gwaed yn dewach na dŵr!’

Ers iddynt glywed fod Phoebe’n feichiog bu pethau’n ddrwg rhwng Wil ac Ann Hughes. Gwrthododd Wil fynychu Capel Bethel ar ôl i’r blaenoriaid dorri Phoebe allan. Roedd yn ddryslyd ei deimladau. Ar y naill law, teimlai ryddhad nad oedd y cyfrifoldeb o fagu Esther yn disgyn arno fo. Ar y llaw arall, fedrai o ddim peidio â theimlo ei fod wedi’i dwyllo rhywfodd gan Owen a Jane Evans wrth iddynt ei mabwysiadu’n swyddogol. Methodd yn lân ag egluro i Ann mor gymysglyd oedd ei feddwl. Roedd yn ddyn balch, a bu’n rhaid wrth gryn berswâd gan Ann i’w gael i gytuno i ddod i’r bedydd o gwbl. Yn ddwfn yn ei galon roedd yn galaru am Phoebe, a phe digwyddai ddod o hyd i Ifan Lloyd, fe fyddai’n hanner ei ladd.

Pennod 4

Roedd Ifan Lloyd wedi penderfynu ei fod am ddianc. Roedd am anghofio popeth am ardal Mostyn, a Phoebe Hughes a fferm Caeau Gwylltion yn arbennig. Roedd am wneud yn sicr na allai neb gael gafael arno na'i orfodi i briodi Phoebe. Y hi o bawb!

Roedd y syniad o fod ynghlwm wrth ryw fymryn o forwyn a threulio'i oes mewn bwthyn bach ym mhentref Rhewl yn wrthun ganddo. Bu hi'n iawn am dipyn o sbort ac roedd hithau wedi gwirioni arno fo. Arni hi ei hun roedd y bai iddi fynd yn feichiog. Dylai merched fod yn cymryd gofal i sicrhau nad oedd y fath beth yn digwydd. Dywedodd wrthi'n hollol blaen na allai byth ei phriodi. Aeth hithau i feichio crïo, wrth gwrs, ond chafodd hynny ddim effaith arno. Gadawodd hi yn ei dagrau yn y sgorbor. Roedd wedi dechrau blino arni erbyn hynny, beth bynnag, ac wedi dechrau troi ei sylw at forwyn Plas Uchaf.

Cerdded adre o Blas Uchaf yn yr oriau mân yr oedd o pan ymosododd y tri llabwst arno. Roedd yn cerdded yn hapus braf heibio i'r fynedfa i Blas Mostyn pan lamodd y tri o'r coed. Rhoddodd un ergyd iddo yn ei lygad, un arall ergyd yn ei stumog, ac wrth iddo geisio codi i'w amddiffyn ei hun, cafodd y fath glustan ar ei drwyn fel y clywodd yr asgwrn yn crensiar. Yna, clywodd lais Bob Hughes yn gweiddi yn ei wyneb fod rhaid iddo wynebu ei gyfrifoldeb a phriodi Phoebe. Doedd dim diben dadlau. Cytunodd i fynd drannoeth i edrych amdani i wneud y trefniadau.

O'r diwedd, cafodd fynd o'u gafael. Roedd mewn cyflwr gwael; ei drwyn yn gwaedu, ei lygad yn chwyddedig, a phoen enbyd yn ei gyllau o'r ergydion a gafodd i'w ganol.

Yn araf a phoenus roedd wedi dringo i'r llofft stabl, gan obeithio na fyddai'n aflonyddu ar y ddau was arall yr oedd yn rhannu'r llofft â nhw. Ond wrth ddringo'r grisiau cul daeth pwl o bendro drosto ac roedd wedi syrthio'n ôl i'r llawr. Roedd y sŵn yn ddigon i ddefro'r ddau, a hithau'n ddau o'r gloch y bore.

Ymddangosodd Ted a Sacharia ar ben y grisiau fel dau ddrychiolaeth. Goleuodd Sacharia gannwyll a galw:

'Be'n y byd sy'n digwydd? Ai ti sydd na, Ifan Lloyd?'

Yr unig ymateb a gafodd oedd griddfan uchel. Daeth y ddau was i lawr y grisiau. Roedd golwg enbyd ar Ifan, yn waed ac yn gleisiau i gyd.

'Be ddigwyddodd iti? Trio dy lwc efo'r forwyn fach newydd yna, a hithau wedi dy wrthod di? Yr hen gocwyllt drwg!' chwarddodd Ted.

Llwyddodd y ddau i godi Ifan a'i lusgo'n boenus i ben y grisiau a'i ollwng i orwedd ar ei wely. Ysgydodd ei ben yn araf. Cadwodd ei lygaid ar gau. Gan fod ei geg a'i dafod wedi chwyddo cymaint methodd ddweud dim.

'Gwlycha'r gadach yma yn y basn dŵr a rho fo dros ei lygad,' cynghorodd Sacharia.

Deuai griddfannau poenus o enau Ifan bob tro y cyffyrddai'r cadach â'i lygad. Ceisiodd Ted dywallt mymryn o ddŵr rhwng ei wefusau, ond pesychodd ac ysgwyd ei ben.

'Wel, Ifan druan, mae rhywun wedi rhoi curfa iawn i ti y tro yma,' meddai Ted.

Mwmiodd Ifan yn ffwdrus:

'Bob Hughes a dau o'i ffrindiau, wrth ymyl Coed Iâ.'

O glywed hynny nodiodd Sacharia ei ben, 'O ie, dy dalu di'n ôl am gael ei chwaer i drwbl. Wel, fedri feio neb ond ti dy hun am hynny.'

Ceisiodd Ifan ysgwyd ei ben, ond wrth wneud teimlai'r llofft stabl yn troi o'i gwmpas, a phenderfynodd anwybyddu sylwadau Sacharia am y tro.

Bu Ifan yn gorwedd ar ei wely haearn cul yn methu'n lân â chodi ei ben. Yr eglurhad a roddodd Ted a Sacharia i'r meistr am ei absenoldeb oedd ei fod wedi yfed yn ormodol y noson gynt ac wedi bod mewn sgarmes efo rhywun. Pan fethodd Ifan ymddangos yn ei waith, aeth y meistr i fyny i'r llofft stabl yn barod i roi pryd o dafod i'w was diog. Ond pan welodd Ifan yn gorwedd fel corff marw ar ei wely, a gwaed wedi sychu dros ei wyneb a'i freichiau, meddai:

'Wel, wel, Ifan Lloyd! Mae nhw wedi dy gael di o'r diwedd. Rwy'ti wedi bod yn gofyn am hyn ers misoedd. Paid â disgwyl dim cydymdeimlad gen i. Os nad wyt ti'n ôl yn dy waith erbyn fory fe gei di hel dy draed o'ma.'

Trodd ar ei sawdl a gollwng ei hun i lawr y grisiau.

Buan yr aeth y sôn ar led drwy'r pentref a'r ardal fod Ifan Lloyd wedi cael ei haeddiant am wneud Phoebe Hughes yn feichiog. Gwyddai pawb am ei swagr a'i hunan-frolio parhaus y medrai gael unrhyw ferch o'i ddewis ar unrhyw adeg a'u bod i gyd yn awchu amdano.

Am bump o'r gloch y bore wedyn galwodd y meistr ar waelod y grisiau:

'Lloyd,styria o'r diogi yna. Dydw i ddim yn dy dalu di am orweddian yn dy wely. Mae'n amser iti godi a thynnu'r gwinedd o'r blew!'

Roedd Ifan yn stiff fel procer ac yn teimlo'n gant oed. Llwyddodd i godi'n araf o'i wely ac ymlwybro'n boenus i gegin y ffermdy i gael ei frecwast. Pan eisteddodd wrth y bwrdd cafodd Mrs Jones fraw o'i weld.

'Mae'n amlwg i ti gael cweir a hanner. Mae'n rhaid fod gan Bob Hughes ddyrnau caled i wneud y fath lanast o dy wyneb,' meddai.

Ond doedd Ifan ddim mewn hwyliau i siarad. Bwytodd ei uwd heb ddweud gair, ac yna esgusododd ei hun a chychwyn ar draws y buarth at ei waith. Roedd wedi gwneud ei benderfyniad. Roedd am ymadael â fferm Coed Isaf. Yn wir, roedd am gefnu'n gyfan gwbl ar bentref y Rhewl a sir y Fflint, ac ar ogledd Cymru. Roedd wedi cael mwy na digon o'r herian a'r cyhuddiadau. Oedd, roedd wedi mwynhau ei garwriaeth â Phoebe Hughes, ond doedd o ddim yn ei charu. Yn sicr, doedd o ddim am ei phriodi. Merch fach wledig, ddel, oedd Phoebe ond heb fawr yn ei phen. Pan fyddai Ifan yn barod i briodi byddai'n bachu merch rhywun pwysig a chefnog – nid rhyw lefren fach o forwyn.

Bob wythnos byddai Jones y meistr yn derbyn y papur lleol, y *Flintshire Observer*. Wedi iddo'i ddarllen byddai'n ei basio ymlaen i'r gweision yn y llofft stabl. Dim ond tudalen neu ddwy yr oedd Sacharia yn gallu ei ddarllen, ond byddai Ifan yn darllen pob gair yng ngolau'r gannwyll frwyn. Ddyddiau wedi ei ysgarmes â Bob Hughes, sylwodd ar hysbyseb yn yr *Observer* – cwmni chwarel yn Kirkby-in-Furness, sir Gaerhirfryn, yn awyddus i gyflogi gweithwyr ifanc ymroddgar yn Chwarel Burlington.

Penderfynodd Ifan ysgrifennu at reolwr y chwarel i gynnig ei hun fel Cymro ifanc cyfrifol, nad oedd ganddo ofn diwrnod o waith, oedd yn barod i gychwyn ar unwaith. Gyda'r troad cafodd lythyr yn cynnig iddo swydd fel *clog river*. Er nad oedd gan Ifan yr un syniad beth oedd *clog river*, na beth y byddai disgwyl iddo'i wneud mewn swydd o'r fath, roedd wrth ei fodd o gael y cynnig. Gallai ddianc o afael pawb a phopeth, a chychwyn bywyd newydd heb fod neb yn ei adnabod. Gallai anghofio am Phoebe Hughes a'i babi. Er mai profiad fel gwas fferm yn unig a oedd ganddo, gallai ddysgu sgiliau newydd heb fawr o drafferth. Edrychai ymlaen at yr antur o fudo i gylch newydd a chychwyn ar waith newydd a gwahanol. Bore niwlog oedd hi pan gychwynnodd Ifan ar ei daith. Penderfynodd beidio â dweud gair wrth neb am ei fwriad i ymadael â fferm Coed Isaf. Roedd am ddiplannu heb adael i neb wybod ymhle i gael hyd iddo.

Doedd ganddo ddim syniad ymhle roedd Kirkby-in-Furness, ar wahân i'r ffaith ei fod rhywle yn sir Gaerhirfryn. Ond pan gafodd gyfle aeth i Siop y Cei gyferbyn â stesion Mostyn a chael hyd i atlas yn yr adran lyfrau. Wrth edrych drwyddo, cafodd fod Kirkby-in-Furness yng ngogledd sir Gaerhirfryn, heb fod ymhell iawn o dref ddiwydiannol Barrow-in-Furness. Penderfynodd Ifan y byddai'n teithio i Lerpwl ar y paced cynnar o Gei Mostyn.

Cododd am hanner awr wedi tri y bore, tra oedd preswylwyr eraill y llofft stabl yn dal i gysgu'n sownd. Roedd eisoes wedi rhoi dillad glân yn ei hen fag teithio, nid ei fod wedi teithio ymhell erioed, ond erbyn hyn roedd ei gyfle wedi dod i weld y byd. Gadawodd y gweddill o'r dillad na fyddai eu hangen arno yn y gist bren ar waelod ei wely. Roedd yn bwriadu teithio'n ysgafn.

Wrth iddo ymestyn o dan y fatras am y cwdyn bach lleddr a oedd yn dal ei arian, chwyrnodd Sacharia'n uchel wrth droi yn ei gwsg. Cafodd Ifan y fath fraw fel y bu bron iddo ollwng y cwdyn i'r llawr, ond llwyddodd i ddal ei afael ynddo.

Yn ddistaw ac yn araf aeth i lawr y grisiau cul i'r stabl ac yna allan ac ar draws y buarth. Cododd y ddau geffyl gwedd eu pennau a snwffian arno wrth iddo sleifio heibio fel drychiolaeth. Er ei bod yn fore oer, rhewllyd, roedd yr awyr yn glir a lleuad fain a myrdd o sêr fel pe baent yn goleuo'r ffordd iddo.

Lapiodd Ifan ei scarff wlân yn dynn am ei war, cododd goler ei gôt, a thynnu ei gap yn isel dros ei glustiau a'i dalcen. Gwthiodd ei law chwith i'w boced, a chododd ei fag gyda'i law dde a dechrau cerdded yn sionc ar draws y cae.

Aeth trwy'r coed heibio Plas Bychton a'r bythynnod ger llaw. Sylwodd fod golau yn ffenest rhif pedwar.

'Glyn Evans ar ei ffordd i'r shifft cynnar yng Ngwaith Haearn Mostyn,' meddylodd.

I lawr Allt y Rhewl, heibio i Gapel Bethel, a edrychai'n adeilad anferth yng ngolau'r lleuad, a thafarn y Swan, a oedd yn ei atgoffa o'i gyfarfyddiad cyntaf â Phoebe Hughes. Ond doedd dim eisiau iddo boeni amdani hi ddim mwy. Ymlaen heibio i'r Llew Gwyn, Capel Cysegr, ac ar waelod yr allt, tafarn y Feathers. Cofiodd iddo dreulio oriau difyr yno yn yfed ac yn sgwrsio efo'i fêts. Trodd i lawr Penlan a phasio Gwaith Brics Davies. Pan glywodd sŵn hisian a shyntio, gwyddai ei fod yn nesu at y Gwaith Haearn ac at gei prysur Mostyn.

Rhynnodd yn nannedd y gwynt oer a chwythai o gyfeiriad yr afon Ddyfrdwy, a theimlai'n bryderus wrth i arogleuon yr afon lenwi ei ffroenau. A fyddai'n donnog,

tybed, wrth groesi'r aber? A fyddai'n dioddef o salwch môr? Nid oedd wedi morio erioed o'r blaen. Ymlwybrodd tuag at y cwt pren oedd yn fath o swyddfa docynnau.

'Pa amser fydd y Paced yn hwylio am Lerpwl?'

'Saith o'r gloch y bore 'ma,' atebodd y cleric.

'Ydi hi'n stormus allan yna y bore 'ma?' holodd Ifan gan gydio'n dynn yn ei arian tocyn yn ei law dde.

'Wyt ti eisiau tocyn neu beidio? Dydw i ddim yma i roi gwybodaeth am y tywydd!' atebodd y cleric yn biwis.

'Oes, os gwelwch yn dda. Tocyn i un i Lerpwl.'

'Wyt ti ddim eisiau tocyn dwy-ffordd? Wyt ti ddim yn bwriadu dod yn d'ôl?'

'Na,' meddai Ifan. 'Tocyn un ffordd.'

Doedd o ddim am ddweud dim am ei gynlluniau wrth yr un swyddog bach boliog, hunan-bwysig.

Wrth iddo gerdded hyd yr harbwr i gyfeiriad y llong, sylwodd fod y môr yn dymhestlog. Sylwodd hefyd mai enw'r llong oedd Swiftsure, a gobeithiai'n fawr ei bod mor ddiogel a chyflym ag yr awgrymai ei henw. Ond yr oedd yn gostwng ac yn curo yn erbyn wal yr harbwr dan ergydion y gwynt a'r tonnau. Roedd Ifan yn ystyried troi ar ei sawdl ac anghofio'i fwriad i ddianc pan waeddodd un o'r morwyr:

'Dowch, brysiwch, fe fyddwn yn hwylio o fewn y munudau nesa. Os ydych am sedd yn y salon fe ddylech fordio rŵan.'

Gwyddai Ifan na fedrai newid ei feddwl. Ar ben saith o'r gloch roedd y llong yn gadael harbwr Mostyn. Er gwell neu er gwaeth, roedd bellach ar ei ffordd.

Hanner ffordd ar draws aber y Ddyfrdwy, gwaethygodd y tywydd. Hwylodd y Swiftsure i ddannedd y storm. Fedrai Ifan ddim goddef bod yn y salon cynnes, felly penderfynodd fentro i fyny'r grisiau troellog haearn at y dec. Roedd rhaid iddo ddal ei afael yn dynn wrth ganllaw haearn. Ar un ymchwydd disgynnodd y llong yn sydyn a syrthiodd Ifan yn erbyn gwraig fawr dew a oedd yn ceisio dal ei gafael yn ei boned ag un llaw ac â basged o wyau yn y llaw arall.

'Gwylia be ti'n neud, y llabwst di-sut! Drycha, mae'r wyau 'ma wedi malu bob un a finnau wedi bwriadu mynd â nhw i fy chwaer yn Lerpwl,' sgrechiodd y wraig wrth i felynwy'r wyau ddiferu drwy'r faged ac ar ei siôl paisley grand.

Ond roedd gwaeth i ddod. Yn sydyn, llithrodd y wraig ar y dec gwlyb a'i breichiau a'i choesau'n chwyrlio uwch ei phen. Aeth yn holics gwyllt. Ceisiodd rhai o'r teithwyr helpu'r wraig i godi, ond sglefriodd eraill ar felynwy'r wyau. Gyda phob

ymchwydd llithrodd eraill o'r teithwyr ar wastad eu cefnau, a bu eraill yn swp sâl a chwydu dros y canllaw i'r môr.

Llwyddodd Ifan i ddianc o'r cynnwrf drwy ei lusgo'i hun i fyny i'r dec uchaf, ond dechreuodd deimlo'i stumog yn troi a chwydodd yntau dros y rheiliau i'r tonnau oddi tano. Yn raddol, dechreuodd deimlo rhywfaint yn well, a phenderfynodd aros ar y dec uchaf am y gweddill o'r fordaith.

Wedi i'r llong ddod i ddiwedd ei thaith a docio yn Lerpwl rhedodd Ifan i lawr y bompren ac anelu am swyddog mewn iwnifform a safai ar y cei.

'Esgusodwch fi, syr. Fedrwch chi ddweud wrtha'i sut mae mynd o yma i Kirkby-in-Furness?' gofynnodd yn ei Saesneg gorau.

'A! Cymro wyt ti. Rydw i'n dod o Sir Ddinbych.'

Roedd gan y swyddog wyneb caredig a gwisgai wisg swyddogol y cwmni llongau. Cynghorodd Ifan i gymryd tram i orsaf Lime Street, ac yno i ddal trê'n i'r gogledd trwy Preston, Grange-over-Sands, Ulverston, Dalton, Barrow, ac yna Askem a Kirkby-in-Furness.

'Os wnei di frysio fe ddylet ddal trê'n fydd yn dy gael i Kirkby erbyn tua chwech heno,' ychwanegodd.

I Ifan, nad oedd erioed wedi teithio ymhellach na Threffynnon, yr oedd hon yn antur fawr. Syllodd drwy'r ffenestr wrth i'r trê'n chwyrlïo drwy wlad a phentrefi sir Gaerhirfryn. Gan fod y trê'n yn mynd mor gyflym, ofnai na welai'r enw pan ddeuai i'r orsaf nesaf. Wedi cyrraedd Askem, teimlai Ifan ei hun ar bigau'r drain, a gwnaeth ei ffordd at ddrws y cerbyd.

'Paid â phoeni, was, mae gennym ni ychydig funudau eto cyn inni gyrraedd Kirkby. Yno rydw innau'n mynd hefyd. Rwyd ti'n newydd i'r ardal, wyt ti ddim?' holodd gwraig oedrannus oedd yn eistedd yn ei ymyl yn y cerbyd.

'Rydw i'n dechrau gweithio yn y chwarel ddydd Llun.'

'Rydw i'n clywed o dy acen dy fod ti'n Gymro. Be sy'n dod â thi yr holl ffordd yma i chwilio am waith? Mae gennych chi ddigon o chwareli yng Nghymru.'

Ar ôl diwrnod mor hir roedd Ifan wedi blino gormod i ateb cwestiynau dynes fusneslyd. P'run bynnag, doedd o ddim wedi dod yr holl ffordd i hel atgofion am ei orffennol. I'r gwrthwyneb. Ei fwriad oedd datod pob cwlwm a oedd yn ei rwymo wrth sir y Fflint a Phoebe Hughes yn arbennig.

'Kirkby. Kirkby-in-Furness,' gwaeddodd y giard.

Gan anghofio’i fanars am adael i ferched fynd gyntaf, neidiodd Ifan trwy ddrws y cerbyd i osgoi mwy o gwestiynau, a chamodd yn gyflym ar hyd y plattform i noson o niwl trwchus. Golau gwan a digroeso a daflai lampau nwy yr orsaf wrth iddo wneud ei ffordd i’r stryd dywyll oddi allan.

Teimlai’n gwbl ar goll. Ble yn y byd y câi lety am y noson? Roedd yn llwgu eisiau pryd cynnes i’w fwyta a gwely cyfforddus i’w gorff blinedig. Gwelodd res o fythynnod ar draws y ffordd a goleuadau gwan yn ffenestr ambell un. Roedd ar fin croesi i guro wrth ddrws un o’r tai, pan ddaeth dyn allan o’r niwl tuag ato.

Mentrodd Ifan ofyn iddo a wyddai am rywle lle y gallai aros dros nos.

‘Rydw i ar fy ffordd i Dafarn y Ship. Tyrd hefo fi. Mae nhw’n siŵr o dy gymryd i mewn a rhoi pryd o fwyd iti yno. Mae’r tafarnwr a’i wraig yn bobl glên.’

Treuliodd Ifan ei noson gyntaf yn Kirkby yn cysgu ar wely cul mewn lloft fechan uwchben y bar yn Nhafarn y Ship. Cyn noswyllo treuliodd ddwyawr neu fwy yn y bar yng nghwmni rhai o’r chwarelwyr lleol a chwsmeriaid ffyddlon y Ship.

Roedd gwraig y dafarn wedi ei fwydo â phastai datws a chig blasus a llond powlen o bwdin reis. Llencodd yntau dri pheint o’r cwrw lleol. Erbyn iddo gyrraedd ei ystafell wely roedd yn rhy flinedig i dynnu ei ddillad oddi amdano. Disgynnodd yn swp ar y gwely ac mewn dim roedd yn chwyrnu’n braf.

Deffrodd Ifan am saith y bore wedyn i sŵn trêen yn clecio heibio. Rhwbiodd ei lygaid. Ble’n y byd oedd o? Yna gwawriodd arno ei fod yn Nhafarn y Ship yn Kirkby-in-Furness, filltiroedd lawer o Fostyn, ac ar fin cychwyn bywyd newydd mewn lle newydd.

Golchodd ei wyneb, smwddiodd ei ddillad crychlyd orau y gallai a chribodd ei wallt. Roedd y dŵr yn y badell ymolchi yn oer iawn – yn ddigon oer i yrru’r cwsg o’i lygaid. Eisteddodd ar gadair fechan wrth ffenestr y lloft i feddwl pa gamau nesaf y dylai eu cymryd.

Roedd ei gyd-yfwyr yn y bar y noson gynt wedi rhoi cymaint o gynghorion iddo fel na fedrai gofio eu hanner. Ond cofiodd iddyn nhw roi enw a chyfeiriad un wraig yn Long Row a oedd yn cymryd lojars. Deallodd mai Long Row oedd y rhes o fythynnod a welodd ryw hanner milltir o’r orsaf.

‘Mi wnaiff hi edrych ar d’ôl di. Mi fydd yn dy besgi di fel mochyn ar gyfer lladd-dŷ,’ heriodd un o’r chwarelwyr.

Wedi brewast, seimllyd braidd, yn y Ship talodd Ifan am ei lety, a dilynodd gyfarwyddiadau’r tafarnwr gan anelu am Long Row. Roedd yn fore Sul braf a gwynt

ysgafn yn chwythu o gyfeiriad y mynydd ar draws y gors. Ymhen amser cafodd wybod mai Black Combe oedd enw'r mynydd.

Doedd fawr o daith o'r Ship i'r bythynnod, ac yn y pellter clywodd gloch eglwys yn canu yn galw pobl i'r gwasanaeth un-ar-ddeg. Aeth rhai heibio iddo yn eu dillad gorau, yn amlwg ar eu ffordd i'r eglwys. Cafodd ei gyfeirio gan y chwarelwyr at ddrws y bwthyn cyntaf yn y rhes. Roedd gwraig weddw yn byw yno o'r enw Mrs Bates. Ar riniog y drws meddyliodd tybed a oedd hi hefyd wedi mynd i'r eglwys, ond na, safodd o'i flaen â gwên lydan ar ei hwyneb.

'A be fedra'i wneud i ti, ddyn ifanc? gofynnodd.

Yn ei Saesneg gorau eglurodd Ifan ei fod yn chwilio am lety a'i bod hi wedi ei chymeradwyo iddo fel gwraig tŷ lojin ardderchog. Tybed a oedd ganddi le iddo?

'Wel, fel mae'n digwydd rwyd ti mewn lwc. Symudodd un o'm lojars allan echdoe ac felly mae gen i stafell wag yng nghefn y tŷ. Tyrd i mewn i gymryd golwg arni. Os ydi hi'n plesio cawn drafod y pris.

'Be ydi dy enw di?' holodd.

Heb ystyried ymhellach atebodd Ifan: '.

'David Bennett, ond Dai mae pawb yn fy ngalw i.'

Arweiniwyd Ifan i'r llofft fach gefn. Roedd yn hyfryd o lân, ac er fod y dodrefn yn hen, roedd sglein ar bob dim. Braidd yn gul oedd y gwely, ond roedd yn ddigon mawr gyda chwilt clytiog glas a gwyn drosto. Yn y gornel roedd wardrob cul wedi'i baentio'n ddu fel y bwrdd gwisgo nesaf ato. Roedd ôl polish ar y ddau ac arogl lafant yn llenwi'r ystafell. Gyferbyn â'r wardrob roedd bwrdd ymolchi gyda thop marmor gwyn a jwg a phadell borslen las a gwyn arno.

I Ifan, a oedd wedi arfer â chysgu mewn llofft stabl, roedd fel ystafell mewn palas.

'O! mi fydde'r stafell yma'n gneud i mi i'r dim,' meddai.

Cytunwyd ar bris fyddai'n cynnwys brechwast sylweddol bob bore, a phryd poeth bob nos ar ôl gwaith a phob penwythnos.

'Wyt ti am imi wneud dy olchi hefyd? Mi fyddai hynny'n costio ychydig mwy.'

'Os gwelwch chi'n dda,' atebodd Ifan, yn falch na fyddai rhaid iddo olchi ei ddillad ei hun.

Wrth orwedd ar ei wely y noson honno a meddwl am ei ddiwrnod cyntaf yn Chwarel Lechi Burlington y bore trannoeth, teimlodd Ifan ei fod wedi glanio ar ei

draed. Roedd wedi cael llety ardderchog, gwell o lawer na'r llofft stabl yn fferm Coed Isaf, a digon pell oddi wrth Phoebe Hughes a'i phroblemau. A doedd gan ei thad na'i brawd ddim gobaith caneri o gael hyd iddo mor bell i ffwrdd.

*

Aethai mis heibio ers i Ifan gyrraedd Kirkby-in-Furness. Roedd yn mwynhau ei fywyd newydd. Roedd wrth ei fodd yn rhif un Long Row efo Mrs Bates, ac yn y chwarel roedd wedi dechrau meistroli ei grefft newydd fel *river*, sef holhti llechi tenau o dalpiau mawr o lechfaen.

'Mi ddoi di iddi, ond rhaid iti fod yn amyneddgar,' meddai Fisher, chwarelwr profiadol oedd yn gyfrifol am gyfarwyddo Ifan.

Ar y cychwyn roedd Ifan wedi malu mwy o lechi na'u naddu. Ond un bore Iau pan oedd yn eistedd yn y cwt eang drafftio gyda'r drysau ar agor yn y naill ben a'r llall, llwyddodd i naddu swp o lechi a oedd yn ddigon da i'w hanfon i lawr i'w storio, a chafodd ei ganmol gan Fisher.

Y noson honno yn Long Row soniodd Ifan wrth Mrs Bates am y ganmoliaeth a gafodd.

'Wyddost ti be, Ifan, mae ganddo chi Gymry ddawn naturiol i drin llechi. Er mai gwas ffarm oeddet ti, rwyd ti'n dysgu'n gyflym. Cymro oedd un o'r chwarelwyr gorau fu yn Chwarel Burlington erioed ac fe ddringodd hwnnw i fod yn un o'r penaethiaid.'

'Ara deg, Mrs Bates! Un cam ar y tro!' meddai Ifan gan chwerthin.

'Oes gen ti awydd dod i ornest ymladd ceiliogod i fyny ar y rhos pnawn Sadwrn nesa? Mae o'n cael ei gynnal mewn lle dirgel, o olwg yr heddlu, ac mae dipyn o hwyl i gael yno. Tyrd hefo ni.'

John Rowlands, un o'r criw oedd yn gweithio efo Ifan, a oedd yn ei wahodd. Ond doedd dim angen llawer o berswâd ar Ifan i ymuno mewn sbort.

'Rwyd ti'n gwybod fod y peth yn erbyn y gyfraith, felly paid ag yngan gair wrth neb.'

Roedd yn brynhawn Sadwrn oer pan ddringodd Ifan yr allt serth i'r rhos yng nghwmni John Rowlands a nifer o chwarelwyr eraill. Gallai Ifan glywed y gweiddi a'r chwerthin wrth iddynt gyrraedd y gweundir uchel, moel, ond doedd dim sôn am neb.

'Ble maen nhw? Fedra' i ddim gweld neb, ond rydw i'n clywed eu sŵn nhw.'

‘A! Dyna’r gamp. Cael hyd i le diarffordd gwahanol bob tro, a lle y gellir ei heglu hi o’no’n sydyn,’ eglurodd John.

Mewn dim fe ddaethant i’r fan. Pant eang, llydan, yn union fel petai natur wedi llunio talwrn hwylus ar gyfer y dwsin a mwy o ddynion swnllyd oedd yno’n gosod eu betiau ac yn gweiddi eu hanogaeth ar eu hoff geiliogod. Doedd Ifan erioed wedi gweld ymladd ceiliogod o’r blaen, er ei fod yn gwybod ei fod yn digwydd mewn talwrn go iawn y tu ôl i Dafarn yr Hawk and Buckle yn Ninbych.

Roedd yr olygfa’n atgas, gyda cheiliogod gwyllt yn gwisgo sbardunau miniog yn mynd am waed ei gilydd. Doedd Ifan ddim yn gallu ymuno yn y difyrrwch, ac ysgydwai ei ben pan geisiodd John ei annog i osod bet ar un o’r adar.

‘Na, na, tydw i ddim yn cydfynd â hyn o gwbl; rydw i’n gweld yr holl beth yn greulon iawn.’

‘Tyrd, Jo. Be sy’n bod arnat ti – stumog wan, neu wyt ti’n ddyn capel?’

‘Na. yr un o’r ddau. Rydw i’n mwynhau dipyn o hwyl, ond dydw i ddim yn gweld hyn yn sbort o gwbl.’

Safodd yn gwyllo’r dynion eraill. Roedd enillydd y rownd gyntaf yn mynd ymlaen i’r rownd nesaf, a’r gweiddi a’r chwerthin yn mynd yn uwch.

‘Plismyn!’ gwaeddodd rhywun. ‘Brysiwch, mae nhw’n dod i fyny’r allt.’

‘Reit, mae’n amser ei heglu hi,’ gwaeddodd John.

Heliwyd y ceiliogod i’w cawellau, a’r cawellau i drol. Taflwyd hen sachau drostynt a gwellt dros y sachau, ac i ffwrdd â’r drol ar hyd y lôn i gyfeiriad Ulverston. Diflannodd y dynion i gilfachau a thu ôl i greigiau a pherthi. Erbyn i’r plismyn gyrraedd doedd neb na dim i’w weld, ar wahân i drol o un o ffermydd yr ardal yn araf ymlwybro i gyfeiriad Ulverston yn cario llwyth o wellt!

Cuddiodd Ifan a John yn eu cwrcwd y tu ôl i berth lydan. Erbyn iddi ddechrau tywyllu ac i wynt oer godi o gyfeiriad mynydd Black Combe, rhoddodd y plismyn y gorau i chwilio am olion gornest ymladd ceiliogod. Penderfynodd y ddau ei bod yn ddiogel iddyn nhw ddod allan o’u cuddfan a dechreuon nhw gerdded i lawr yr allt a’u dwylo yn eu pocedi gan anelu am y Ship i fwynhau peint a sgwrs yng nghwmni eu cyd-chwarelwyr.

Pentref prysur oedd Kirkby-in-Furness. Yn gynnar bob bore, ac eto ar ddiwedd shifft y prynhawn, clywid cloncian clocsiau'r gweithwyr ar eu ffordd yn ôl ac ymlaen i'r gwaith. Yn ystod y dydd roedd y ffrwydriadau a dwndwr cyson y wagenni yn gefndir i fywyd y pentref. Yn nistawrwydd y nos, sŵn y tipiau'n symud oedd i'w glywed. Roedd clywed seiniau yn y nos yn anghyfarwydd i Ifan a oedd wedi arfer â distawrwydd cefn gwlad, ar wahân i alwad iasoer ambell i lwynog yn crwydro'r caeau.

'Mi fydda i'n deffro weithiau yn ystod y nos ac yn clywed sŵn rhyfedd fel ryw fath o rwmban. Be allai o fod?' gofynnodd i Fleming, un o'i gydweithwyr, un bore.

'Sŵn y tipiau'n symud rwyf ti'n ei glywed. Maen nhw'n setlo ar ôl gwaith y diwrnod cynt. Mae gan y pentre yma ei seiniau unigryw ei hun. Croeso i bentref y Pennau Crwn.'

'Pennau Crwn?'

Wyddai Ifan ddim am beth oedd Fleming yn sôn. Penderfynodd fynd i'r Ystafell Ddarllen ar waelod yr inclein pan gâi gyfle er mwyn canfod pwy neu beth oedd y Pennau Crwn.

Eiddo'r chwarel oedd yr Ystafell Ddarllen ac roedd hi'n digwydd bod gyferbyn â Long Row. Roedd yn ystafell eang, braf, gyda llond lle o lyfrau, cylchgronau a phapurau newydd. Roedd Ifan am wybod mwy am hanes y pentref a'r ardal. Chafodd o erioed lawer o ysgol, ond roedd yn medru darllen, er na chafodd fawr o gyfle i wneud hynny ar y fferm.

Ym mhle tybed y dylai ddechrau chwilio am wybodaeth? Gwyddai fod 'Pennau Crwn' yn enw ar fyddin fu'n ymladd mewn rhyfel cartref ganrifoedd ynghynt. Ond go brin fod a wnelo hynny â Kirkby-in-Furness.

'Rwyf ti'n edrych ar goll, gyfaill,' meddai llais caredig.

Isaac Roberts, un o fformyn y chwarel, oedd yno. Roedd Ifan wedi ei weld o gwmpas y chwarel ond heb fod wedi ei gyfarfod.

'Rydw i'n dallt dy fod ti'n dod o ogledd Cymru. Wyt ti'n setlo i lawr yma?'

'Ydw, ydw,' atebodd Ifan yn frwd, yn falch o'r cyfle i siarad Cymraeg unwaith eto. Cafodd y ddau sgwrs ddifyr am hyn a'r llall. Mentrodd Ifan ofyn i Isaac Roberts a wyddai am lyfr fyddai'n rhoi hanes y pentref a pham roedd y bobl yn cael eu galw'n Bennau Crwn.

'Dwyt ti ddim angen llyfr. Mi fedra' i roi'r hanes iti'n iawn. Tyrdd i eistedd fan acw wrth y tân.'

Rhoddodd Isaac Roberts amlinelliad o hanes y Rhyfel Cartref yn yr ail ganrif ar bymtheg, gan egluro mai'r Brenhinwyr oedd yr enw a roddwyd ar gefnogwyr y Brenin Siarl, a Phennau Crwn ar gefnogwyr Oliver Cromwell, gelyn y brenin, a'r un fu'n gyfrifol yn y diwedd am ei ddienyddiad.

Ond aeth ymlaen i ddweud nad oedd a wnelo 'Pennau Crwn' Kirkby ddim oll â'r Rhyfel Cartref. Yn hytrach, nod arwydd y chwarel a marc a welid ar lechi gorffenedig oedd Pen Crwn. O ganlyniad, cafodd pobl y pentref eu galw'n Bennau Crwn. Rhyfeddodd Ifan at yr hanes ac at wybodaeth Isaac Roberts, a phenderfynodd ei fod yntau am dreulio amser yn yr Ystafell Ddarllen yn ehangu ei wybodaeth ac yn ei addysgu ei hun.

Bu'r Nadolig yn Kirkby-in-Furness yn amser pleserus i Ifan. Roedd Mrs Bates wedi paratoi cinio Nadolig heb ei ail iddo fo a Joe a Sam, y ddau letywr arall: gŵydd, pwdin Dolig, ac i ddilyn, mins peis arbennig Mrs Bates ei hun. Y noson gynt aeth y pedwar ohonynt, Mrs Bates a'r tri lletywr, i wasanaeth carolau'r eglwys.

'Tydw i ddim yn eglwysreg ffyddlon iawn, mae gen i ofn,' cyfaddefodd Mrs Bates. 'Ond rydw i'n gwneud ymdrech i fynd ar y Nadolig, y Pasg ac ar Ddiolchgarwch, a baswn i'n gwerthfawrogi'n fawr petaech chi'ch tri yn dod hefo fi noswyl y Nadolig.'

Rhag siomi dim ar Mrs Bates, a chan edrych ymlaen yn ddisgwylgar at y cinio Nadolig, cytunodd Ifan, Joe a Sam, fynd yn gwmni iddi i'r gwasanaeth.

Sylwodd Ifan fod siop Co-op tua chwarter milltir o Long Row, wrth ymyl gorsaf y rheilffordd. Fwy nag unwaith roedd wedi taro ei ben i mewn a sylwi fod ganddyn nhw stoc dda o nwyddau. Pnawn noswyl Nadolig aeth Ifan yno gyda'r bwriad o brynu siocled a fferins i Mrs Bates i ddymuno Nadolig llawen iddi ac i ddiolch iddi am ei charedigrwydd. Ar un o'r silffoedd gwelodd focs o siocledi Fry's. Pan ofynnodd i ferch y siop amdanyn nhw, atebodd hi yn bryfoclyd,

'O! A phwy ydi'r ferch lwcus, te?'

'Neb rydach chi'n ei nabod,' meddai Ifan yn swta.

Wrth gerdded allan o'r siop a'r siocledi wedi eu lapio'n dwt mewn papur brown, meddyliodd Ifan:

'Roedd honna'n bishyn ddigon handi.'

Synnodd o feddwl nad oedd wedi bod allan efo'r un ferch ers gadael Cymru. Gwyddai nad oedd wedi colli ei ddawn i swyno merched. Addawodd iddo'i hun:

'Y tro nesa y gwela i honna, mi ofynnai iddi ddod efo fi am dro.'

Ychydig ddyddiau wedi'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn nesáu, cafodd Ifan wybod gan Joe a Sam fod dawns nos galan i'w chynnal yn Ysgol Becksie.

'Dai, hoffet ti ddod efo ni?' gofynnodd y ddau.

'Mi faswn i wrth fy modd,' atebodd Ifan yn eiddgar, oedd erbyn hyn yn dechrau arfer cael ei gyfarch fel Dai.

Pan ddaeth nos calan bu Ifan, Joe a Sam, yn brysur yn ymolchi, ellio, gwisgo'u siwtiau gorau a chribo'u gwalltiau cyn cychwyn am y ddawns flynyddol yn Ysgol Becksie.

'Mae nhw'n galw'r ddawns yma'n Ddawns y Clochyddion,' esboniodd Sam, 'am mai'r clochyddion, ar hanner nos, fydd yn canu'r clychau i groesawu'r flwyddyn newydd. Gobeithio y byddi di'n medru dal ati, achos mae'r ddawns yn debyg o barhau am rai oriau wedi hanner nos.'

'Rydw i wedi hen arfer â nosweithiau hwyr,' atebodd Ifan. 'Dwed i mi, fydd yna rai merched del yno?'

'Faint fynnir. Bydd digon o ddewis iti.'

Roedd yn noson rewlyd wrth iddynt wneud eu ffordd am Ysgol Becksie. Yng ngolau'r lleuad roedd eu hanadl yn ffurfio cymylau bychain gwyn yn yr oerni. Cyn hir clywsant fiwsig o gyfeiriad yr ysgol yn eu cyrraedd ar draws y caeau.

'Mae'n amlwg fod pethau'n cychwyn. Gwell inni frysio,' awgrymodd Sam.

Wrth iddyn nhw gerdded i mewn i neuadd eang yr ysgol sylwodd Ifan ar unwaith fod sawl pâr o lygaid merched wedi troi i'w gyfeiriad. Ym mhen pella'r neuadd safai Bil Hughes yn canu ei ffidil a Meic ei acordion. Goleuwyd y neuadd gan glystyrau o ganhwyllau, a theimlid gwres croesawgar yn dod o stof enfawr yn un gornel o'r neuadd. Yn y gegin roedd merched y pentref yn prysur baratoi te, brechdanau a chacennau.

Sythodd Ifan ei dei a dechreuodd ef a'i ddau gyfaill gerdded yn hamddenol o amgylch y neuadd gan edmygu'r doniau lleol. Bron ar unwaith tynnwyd sylw Ifan gan un ferch ifanc. Gwisgai ei gwallt du trwchus yn dorch ar ei phen, ac roedd ei ffrog felfed goch yn tynnu sylw at ei chorff siapus. Doedd hi ddim yn dawnsio pan ddaeth Ifan i mewn, ond safai gyda dwy o'i ffrindiau yn chwerthin a sgwrsio. Cododd ei phen a gwelodd Ifan, ac am eiliad roedd y ddau yn syllu ar ei gilydd. Yna dechreuodd y miwsig unwaith eto a sibrydodd Joe:

'Paid â bod yn swil rwan, Ifan. Ti di'r hogyn newydd yma heno a bydd y merched i gyd isio dawnsio efo ti.'

Roedd un peth yn siŵr, doedd dim rhithyn o swildod yn perthyn i Ifan lle roedd merched yn bod. Cerddodd yn dalog ar draws y llawr i sŵn y ffidil a'r acordion, gan anelu am y ferch yn y ffrog felfed goch. Gofynnodd iddi a hoffai ddawnsio. Cytunodd hithau heb betruso eiliad, ac mewn dim roedd y ddau'n chwyrlïo o amgylch y neuadd ym mreichiau'i gilydd. Cafodd Ifan ddeall mai Rebecca Rigg oedd ei henw a'i bod yn ferch i oruchwyliwr y chwarel.

'Rydw i'n falch iawn o'ch cyfarfod chi, Rebecca,' meddai Ifan yn gwrteisi i gyd. 'Rydw i'n newydd ddod i'r cylch i weithio yn y chwarel. Gobeithio y cawn ni ddod i nabod ein gilydd yn well. David Bennett ydi fy enw ond mae pawb yn fy ngalw'n Dai.'

Gwenodd Ifan arni gyda'r wên ddengar honno oedd wedi cyffwrdd calon sawl merch.

Bu'r ddau'n dawnsio â'i gilydd drwy gydol y noson, gan aros yn unig am hanner nos i wrando'r clychau'n cyhoeddi fod blwyddyn newydd 1876 wedi cyrraedd. Roedd yn un o'r gloch y bore arnynt yn cychwyn am adre.

'Ga i'ch hebrwng chi adre, Rebecca?' gofynnodd Ifan.

Heb ateb, gafaelodd hi yn ei law a cherddodd y ddau i gyfeiriad Long Row a thŷ'r goruchwyliwr.

'Mae'r tŷ wrth ymyl yr Ystafell Ddarllen.'

'Ga' i'ch gweld chi nos Fercher?' holodd Ifan yn obeithiol.

'Cewch, wrth gwrs. Galwch amdan'a i am hanner awr wedi saith ac fe awn ni am dro i gyfeiriad Sandside.'

'Wel, yr hen lwynog slei! Pwy fasa'n meddwl y baset ti'n bachu merch y goruchwyliwr yn dy ddawns gynta,' meddai Joe dros frecwast y bore trannoeth.

'Bydd yr hogia eraill yn berwi o eiddigedd. Mae nhw i gyd wedi'i thrio hi efo Rebecca Rigg, ond heb gael dim hwyl,' meddai Sam yn dalp o edmygedd.

Ddywedodd Ifan yr un gair am ei gynlluniau i gyfarfod Rebecca eto nos Fercher, neu fyddai dim diwedd ar yr holi a'r tynnu coes.

'Fe gawn nhw wybod mewn amser,' meddyliodd wrtho'i hun.

Doedd o ddim yn bwriadu gwneud manylion ei garwriaeth newydd yn hysbys i neb. P'run bynnag, roedd wedi penderfynu peidio â rhuthro pethau efo Rebecca. Roedd wedi llosgi ei fysedd fwy nag unwaith efo merched eraill. Doedd o ddim am wneud hynny eto.

‘Mae hon yn hogan a hanner,’ meddyliodd. ‘Mewn clás dipyn uwch na Phoebe Hughes!’

Pennod 5

Bu Ifan yn gweithio yn y chwarel yn Kirkby-in-Furness ers blwyddyn. Roedd yn weithiwr diwyd, a buan y dysgodd grefft y *river* o hollti llechi i'r maint a'r trwch cywir ar gyfer llechi tōi. Gweithiai yn y tîm yn un o'r siediau mawr.

'Ifan Lloyd, rwyt ti'n un o'r goreuon,' meddai Jack Jackson, un o'r fformyn. 'Mi ei di ymhell. Mi fydda i'n dweud gair da drostat ti.'

Credai Jack mai'r ffordd orau i gael gwaith da o'i dîm oedd eu canmol rŵan ac yn y man. Wedi'r cyfan, roedd cael criw o weithwyr da yn adlewyrchu'n ffaithiol arno yntau fel fforman.

Roedd pethau ar i fyny i Ifan. Bu'n canlyn Rebecca'n gyson ers y ddawns nos calan 1875. Penderfynodd gymryd pethau'n hamddenol efo hi. Dipyn o gusanu a chofleidio, ond dim caru yn y gwely na'r das wair, er i hynny fod yn demtasiwn gref ar fwy nag un achlysur. Ond gwyddai Ifan o'r foment iddyn nhw gyfarfod fod Rebecca'n foneddiges. Roedd hefyd wedi dod yn fwyfwy sicr mai hi oedd yr un iddo fo, ac roedd yn barod i aros a gadael i'w perthynas aeddfedu'n araf, yn hytrach na rhuthro pethau. Wedi'r cyfan roedd wedi cael ei sbri efo Phoebe Hughes, a sawl un arall, o ran hynny.

Wedi diwrnod caled yn y gwaith yn hollti llechi ac yntau'n cerdded yn ôl i Long Row, dechreuodd feddwl fel roedd pethau wedi troi allan iddo er gwell. Beth fyddai ei hanes pe bai wedi priodi Phoebe Hughes ac wedi aros yn was fferm yn sir y Fflint? Diolch ei fod wedi medru dianc a datod y cwlwm a allai fod wedi ei rwymo am byth i fywyd o dlodi ac anhapusrwydd.

O dan ddylanwad Rebecca, dechreuodd roi'r gorau i ymweld â Thafarn y Ship. Roedd hi hyd yn oed wedi ei berswadio i ymuno yng ngorymdaith flynyddol y 'Band of Hope' o amgylch yn pentref i gyfeiliant Band Millom i dystio yn erbyn y ddiod gadarn. Cynhelid te parti blynyddol y 'Band of Hope' bob mis Gorffennaf. Roedd yn achlysur hwyliog gyda phobl o bob capel yn yr ardal yn cymryd rhan. Doedd rhoi'r gorau i yfed ddim yn broblem fawr i Ifan. Byddai'n barod i wneud unrhyw beth a fyddai'n plesio Rebecca a'i theulu, gan ei fod eisoes wedi dod i'r penderfyniad ei fod am ei phriodi. Wrth gwrs, byddai'n rhaid iddo ofyn caniatâd ei thad. Byddai'n rhaid iddo hefyd fod yn siŵr y gallai fforddio rhentu bwthyn, a bod â digon wrth gefn i'w ddodrefnu'n gyfforddus.

Wrth iddo gyrraedd giât ei dŷ lojin, clywodd sŵn traed yn cerdded yn gyflym ar ei ôl. Isaac Roberts oedd yno, a phapur newydd wedi'i lapio o dan ei gesail.

'Sut wyt ti, 'ngwas i? Rydw i'n cael y *Flintshire Observer* drwy'r post gan fy chwaer bob hyn a hyn. Meddwl y baset ti'n licio'i ddarllen o i gael dipyn o hanes yr hen ardal. Mae yna ddiipyn o hanes lleol ynddo fo,' meddai wrth roi'r papur yn llaw Ifan.

'Diolch i chi, Isaac. Bydd yn dda cael dal i fyny â'r newyddion. Fe'i ddarllena i o heno ar ôl swper.'

Wedi cael ei wala a'i weddill o lobscows ardderchog Mrs Bates, eisteddodd Ifan wrth y tân i ddarllen y papur. Darlennodd am y ddigwyddiadau dros y Nadolig a'r calan – cyngherddau, partiön a gwasanaethau yn y capeli a'r eglwysi. Adroddwyd hanes storm enbyd o rew ac eira oedd wedi cau rhai ffyrdd. Yna, wrth droi at yr adran 'Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau,' tynnwyd ei sylw at y pennawd 'Er Cof', a darlennodd, 'Hughes – er cof am ein hannwyl ferch, Phoebe, a fu farw ar enedigaeth merch fach ar 2 Rhagfyr 1875, yn ddwy ar bymtheg mlwydd oed. Gorffwysed mewn hedd. Yn angof ni chaiff fod.'

Eisteddodd Ifan, gan syllu'n syn ar y papur, ei ddwylo'n crynu a'i geg yn sych.

'Wyt ti'n iawn, Dai?' holodd Sam. 'Rwyd ti'n edrych yn swp sâl.'

Ddywedodd Ifan yr un gair, dim ond dal i edrych ar y papur o'i flaen.

Edrychodd Sam a Mrs Bates ar ei gilydd. Yna, gofynnodd Sam am yr eildro:

'Wyt ti'n iawn,? Be sy'n bod arnat ti?'

Yr unig ateb a gawson nhw oedd:

'Mae ffrind imi yng ngogledd Cymru wedi marw.'

Cododd Ifan, estynnodd am ei gap, ei fyffler a'i gôt fawr, a cherddodd allan o gynhesrwydd y tŷ i ddannedd y gwynt a'r glaw.

'Ydi'n well imi fynd ar ei ôl o, dach chi'n meddwl?' gofynnodd Sam.

'Na, na. Eisiau amser iddo'i hun y mae o. Fe ddaw ato'i hun, ond iddo gael llonydd,' cynghorodd Mrs Bates.

Cerddodd Ifan i fynu'r allt a'r gwynt fel petai'n bwrw ei gynddaredd arno. Aeth heibio'r Ship ac i gyfeiriad y felin a'r eglwys. Roedd ei feddwl yn troi a theimlai'i hun mewn dryswch llwyr. Roedd Phoebe druan wedi marw, ac yr oedd yntau'n dad.

O fod yn onest â'i hun, gwyddai mai ef oedd tad y plentyn. Ni fedrai wadu hynny. Doedd Phoebe erioed wedi cael cariad cyn iddo fo ymddangos. A gwyddai hefyd nad oedd wedi bod efo'r un bachgen arall ond y fo. Roedd wedi ceisio gwadu hynny wrth bobl eraill – wrth Bob, ei brawd, a'i ffrindiau – ond yn ei galon gwyddai mai ef oedd yn gyfrifol. Merch ifanc, ddiniwed oedd hi ac yr oedd wedi cymryd mantais ohoni. Fu o erioed mewn cariad â hi, ond roedd yn ferch ddel ac yn barod iawn i'w rhoi ei hun iddo, ar y gwely cul yn ei lloft fechan ac wedyn yn y gwair yn y stabl. Ac yr oedd y ddau ohonynt wedi mwynhau eu caru dirgel.

Ond ni fyddai wedi ystyried ei phriodi byth.

Teimlai don o gywilydd yn dod drosto. O feddwl ei bod wedi marw! Ni fyddai erioed wedi dymuno hynny iddi, chwaith, y greadures fach.

Teimlai Ifan yn wlyb ac yn oer wrth iddo wneud ei ffordd i lawr o'r rhos uwchben Kirkby i gyfeiriad Long Row. Roedd yn y felan, ond ni fedrai rannu ei ofid â'r un creadur byw.

Perthyn i'r gorffennol yr oedd ei berthynas â Phoebe, ond er hynny teimlai'n euog. Ef, wedi'r cwbl, oedd tad ei phlentyn.

O'r diwedd cafodd ei hun yn ôl wrth ddrws ffrynt Mrs Bates.

'Diolch i'r drefn, rwyd ti'n ôl. Rydan ni wedi bod yn poeni amdanat ti. Rwyd ti'n wlyb at dy groen!'

Roedd Mrs Bates yn amlwg yn bryderus amdano. Daeth Sam i lawr o'i lofft a holi:

'Be sy'n dy flino di, was? Rydan ni'n dau wedi bod y gofidio amdanat ti.'

Tynnodd Ifan ei gap a'i gôt fawr ac aeth at y tân i gynhesu. Cymerodd Mrs Bates ei ddillad gwlyb.

'Fe ro i'r rhain dros yr hors ddillad wrth y tân. Fe fyddan nhw wedi sychu erbyn y bore.'

Roedd Ifan wedi dod i benderfyniad. Doedd o ddim am ddweud gair wrth neb am farwolaeth Phoebe, na'r ffaith ei fod yn dad i ferch fach yn sir y Fflint. Roedd y pethau yna'n perthyn i'r gorffennol, ac yn y gorffennol yr oedd eu lle nhw. Roedd wedi cychwyn ar fywyd newydd, a doedd dim – dim oll – i amharu ar ei berthynas â Rebecca na'i gynlluniau am y dyfodol.

'Gweld wnes i yn y *Flintshire Observer* fod hen ffrind imi wedi marw ac fe ges i dipyn o sioc. Cafodd ei ladd yn y pwll glo ac yntau ond yn dair ar hugain oed.'

Digwyddodd Ifan sylwi fod rhywun o'r enw Zeb Evans wedi cael damwain dan ddaear. Roedd wedi gweld Zeb sawl gwaith yn rhai o dafarndai'r pentref, ond doedd o ddim yn un o'i ffrindiau agos. Cysurodd ei hun o feddwl na fyddai neb yn Kirkby-in-Furness yn dod i wybod y gwir.

'Stedda ac yfa hwn, mae'n beth da i'w gymryd mewn sioc,' meddai Mrs Bates wrth estyn gwydraid o frandi iddo. Doedd Ifan heb gyffwrdd â diod gadarn ers amser, a rhwng y brandi a'r tanllwyth tân teimlai ei hun yn cynhesu drwyddo.

Y prynhawn Sadwrn canlynol, wedi iddo ymolchi, eillio, cribo'i wallt a gwisgo crys glân, edrychodd Ifan Lloyd arno'i hun yn y drych bychan ar wal ei ystafell wely. Oedd, roedd yn fachgen golygus, gyda'i ysgwyddau llydan, ei wallt du cyrliog a'i lygaid glas tywyll. Doedd ryfedd yn y byd ei fod mor boblogaidd efo merched.

A ddylai ddweud wrth Rebecca am fabi Phoebe Hughes, neu a ddylai gadw'r gyfrinach iddo'i hun? A oedd unrhyw bosibilrwydd y byddai Rebecca, rhyw ddydd, yn dod i wybod am y babi? Edrychodd drwy ffenestr fechan ei lofft i gyfeiriad Black Combe. Gwelodd gymylau glaw yn symud gan wynt cryf o'r gogledd. Teimlodd gymylau ei bryderon ei hun yn codi hefyd a gwyddai'n union beth a ddylai'i wneud. Byddai'n cael gwared o'r papur newydd. Byddai'n anghofio'n llwyr am Phoebe Hughes. Wedi'r cyfan, roedd hi chwe troedfedd dan y ddaear bellach. Ni fyddai ei phlentyn byth yn dod i chwilio amdano, ac felly gallai anghofio amdani hithau. Doedd dim tystiolaeth gadarn mai ef oedd y tad, a chyda Phoebe yn ei bedd ni allai neb ddod i wybod dim am eu carwriaeth.

Roedd ef a Rebecca wedi trefnu i gyfarfod y prynhawn hwnnw, a gyda'r nos, byddai'n gofyn iddi ei briodi. Byddai'n cau'r drws am byth ar yr hyn a fu. 'Ymlaen i'r dyfodol rŵan,' meddai wrtho'i hun. 'Dyfodol efo Rebecca.'

Wesleaid pybr oedd teulu Rebecca, yn addoli'n ffyddlon yn y Capel Wesle newydd a godwyd yn 1870. Ni fu Ifan Lloyd erioed yn fawr o gapelwr yng Nghymru, ond wedi iddo ddyweddio â Rebecca, ac mewn paratoad ar gyfer eu priodas, roedd i'w weld yn eistedd yn barchusrwydd i gyd gyda Rebecca a'i mam yn sedd y teulu. Eisteddai ei thad, a oedd yn un o stiwardiaid y capel, mewn sedd fwy amlwg gyda'r swyddogion eraill.

Penderfynwyd cynnal y briodas ar yr ail ddydd Sadwrn ym mis Hydref gyda'r neithior yn dilyn yn neuadd Ysgol Becksid. Roedd cryn chwilfrydedd yn y pentref

pan gyhoeddwyd eu dyweddiad, a'r briodas arfaethedig oedd prif destun y sgwrsio yn siop Co-op Kirkby.

Bu Ifan yn cynilo'n ofalus am sbel cyn gofyn i Rebecca ei briodi. Roedd yn benderfynol o wneud pethau'n iawn. Felly, un nos Sadwrn, wedi iddi gytuno i'w briodi, gwahoddwyd Ifan i swper a chafodd gyfle y noson honno i ofyn i'w thad a gâi briodi ei ferch. Roedd wedi hanner ofni na fyddai ei rhieni'n cytuno iddi briodi *river* cyffredin o'r chwarel, a hwnnw'n Gymro. Ond er mawr ryddhad iddo, roedd y ddau yn hapus iawn ac ar unwaith dechreuwyd paratoi ar gyfer y briodas.

'Rŵan ein bod ni wedi cael sêl bendith dy rieni, rydw i am brynu modrwy dyweddiad iti. Dwi'n gwybod nad ydi'r rhan fwyaf o ferched ifanc ffordd hyn yn cael modrwy, ond rwy'ti'n spesial, ac mae'n mynd yn ffasiwn erbyn hyn i wisgo modrwy dyweddiö,' sibrydodd Ifan yng nghlust Rebecca.

Y dydd Sadwrn canlynol aeth y ddau yn y trê'n i Barrow, a dewisodd Rebecca fodrwy ddiemwnt hardd, gyda dwy res o saffirau bach o amgylch y diemwnt. Aethant adref ar unwaith i ddangos y fodrwy i rieni Rebecca ac i fwynhau swper efo nhw.

'Dai, rwy'ti wedi bod yn hynod o hael,' meddai mam Rebecca, 'Mae'r fodrwy yma'n hyfryd.'

Teimlai Ifan ar ben y byd. Roedd pethau'n ymddangos yn addawol iawn iddo. Gan ei fod wedi dyweddiö â merch goruchwyliwr y chwarel, chafodd o ddim anhawster rhentu tŷ. Bwthyn digon cyffredin oedd rhif 1 Marshside. Roedd tŷ-bach ym mhen draw'r ardd. Lampau olew a chanhwyllau oedd yn goleuo'r tŷ, a roedd cwt yn y cefn i storio mawn a choed tân.

Yn dilyn marwolaeth ei nain ar ochr ei mam, cafodd Rebecca ddodrefn a llestri ar ei hôl. Er nad oedd yn hapus iawn â'r dodrefn hen ffasiwn, addawodd Ifan y bydden nhw'n prynu dodrefn newydd pan fydden nhw'n gallu fforddio gwneud hynny.

'Rhaid imi gyfaddef fy mod i yn hoffi'r bwrdd bwyta hirgrwn mahogani efo'r cadeiriau cefnau crwn, a'r cwpwrdd cornel,' cyfaddefodd Rebecca. 'Unwaith y bydda'i wedi rhoi sglein go iawn iddyn nhw, mi 'drychan yn hardd yn y stafell ffrynt.'

Roedd y gist Georgaidd a'r bwrdd bach erchwyn gwely hefyd yn cymryd eu lle yn yr ystafell wely. Ond roedd pawb yn unfryd fod rhaid prynu gwely haearn newydd a matres blu.

‘Ydi, mae cael gwely newydd yn hanfodol,’ meddai mam Rebecca â gwên awgrymog.

Trwy gydol yr haf bu prysurdeb mawr wrth i’r ddau gael eu tŷ yn barod. Paentiwyd y waliau a’r gwaith coed. Er nad oedd Ifan erioed wedi dal brwsh paent yn ei law cyn hynny, buan y meistrolodd y grefft. Ac roedd Ifan yn awyddus i ddangos ei ochr orau i Rebecca a’i rhieni.

Gwnaeth ei orau glas i wthio pob atgof o Phoebe Hughes a’i phlentyn o’i gof.

‘Rydw i wedi cychwyn pennod newydd. Rydw i wedi anghofio popeth am Phoebe Hughes. Na, tydw i ddim yn dad i blentyn siawns yn sir y Fflint,’ meddai wrtho’i hun wrth iddo olchi ei ddwylo a’i freichiau o baent gwyn ar ôl bod yn addurno’r tŷ.

Ond er iddo wneud ei orau i ymlid rhith Phoebe Hughes o’i feddwl, byddai’n dod yn ôl yn hunllef i aflonyddu ar ei gwsg. Yn achlysurol byddai’n deffro’n sydyn yn chwys oer i gyd o freuddwyd frawychus, yn gweld Phoebe’n gwenu arno, neu’n pwynto’i bys ato, neu’n gorwedd yn ei harch, neu ohono’i hun yn ei briodas â Rebecca, a Rebecca’n sydyn yn troi yn Phoebe Hughes!

Ar ddiwrnod y briodas roedd mymryn o frath ar yr awel. Edrychai’r coed ger Plas Kirkby ar eu gorau, yn goch, oren ac aur, yn creu môr o liw, ac yn y manau lle’r oedd y dail wedi casglu’n sypiau ar ochr y ffyrdd roedd carpedi amryliw trwchus.

Safodd Ifan Lloyd yn ei ystafell wely fechan yn Long Row, gan edrych ar y Black Combe wrth i’r haul estyn ei belydrau aur ar draws y gors. Edrychai’r hen fynydd yn rhadlon braf yn heulwen yr hydref. Ar un o’i ymweliadau â’r Ystafell Ddarllen roedd Ifan wedi gweld cyfeiriad at fynydd arall o’r enw Black Combe ger Whistler yng Nghanada. Roedd copa’r mynydd hwnnw wedi’i orchuddio ag eira am y rhan fwyaf o’r flwyddyn. Tybed a oedd rhywun o Ardal y Llynnoedd wedi ymweld â’r fan flynyddoedd yn ôl ac wedi rhoi’r enw Black Combe i fynydd oedd filoedd o filltiroedd o Kirkby?

Ond roedd gan Ifan bethau eraill ar ei feddwl. Heddiw oedd dydd ei briodas! Heddiw byddai Rebecca’n dod yn wraig iddo! Y Rebecca hardd oedd wedi ennill bryd sawl chwarelwr ifanc. Teimlai Ifan yn falch ac yn hapus ei bod wedi dweud ‘gwnaf’ pan ofynnodd iddi ei briodi. Fedrai o ddim disgwyl ei chael hi i’r gwely. Byddai’n gwneud ei orau i wneud eu noson gyntaf yn gofiadwy i’r ddau ohonyn nhw, un i’w chofio am byth. Llongyfarchodd ei hun am fod mor ddisgybledig am gyhyd o amser, er iddo gael ei demtio sawl gwaith i chwilio am das wair gynnes i gydgaru â hi

o dan y sêr. Ond roedd yn falch iawn nad oedd wedi difwyno dim ar eu perthynas na chael Rebecca'n feichiog cyn eu priodas.

'Hwn yw diwrnod cyntaf fy mywyd newydd,' meddai'n uchel wrth iddo roi crys gwyn newydd amdano gyda choler pigau.

Wrth iddo ymbalfalu â'i goler sylwodd fod ei ddwylo'n crynu, ond llwyddodd i osod ei goler a'i dei yn eu lle cyn gwisgo'r siwt newydd ddu a brynodd yn arbennig ar gyfer yr achlysur pwysig.

Gyda Sam ei was priodas wrth ei ochr, cerddodd yr ychydig lathenni o Long Row i'r Capel Wesle bychan. Wrth fynd i lawr eil y capel i'r sedd flaen sylwodd fod y lle yn llawn o bobl oedd wedi troi i mewn i ddymuno'n dda iddyn nhw ill dau. Roedd y gwesteion a phobl y pentref fel ei gilydd yn awyddus i gael cip ar ferch y goruchwyliwr ar ddydd ei phriodas. Wedi eistedd yn y sedd flaen dechreuodd Sam chwilota drwy ei bocedi.

'O'r nefi!' ebychodd, 'rydw i wedi gadael y fodrwy yn y drôr wrth fy ngwely.'

Cododd a rhuthrodd allan heibio i'r gwahoddedigion a'r pentrefwyr, a rhedeg nerth ei draed am Long Row, gan adael Ifan yn syfrdan yn eistedd yn llonydd fel delw o flaen y gynulleidfa.

'Be sy'n bod? Pam mae o wedi rhedeg allan?' holodd y G=gweinidog.

Prin y gallai Ifan yn ei bryder ddweud gair. Beth pe bai Rebecca'n cyrraedd cyn i Sam ddod yn ôl?

'Os digwydd hynny fe ro i arwydd iddyn nhw ei chadw hi yn y cyntedd,' sicrhaodd y gweinidog ef.

Ond aeth yr argyfwng heibio. Eiliadau cyn i'r organ ddechrau canu 'Ymdeithgan y Briodferch' roedd Sam yn ôl wrth ymyl Ifan.

'Wel, roedd hynna'n agos,' sibrydodd, a'i wyneb yn goch fel tomato.

Roedd Rebecca'n cerdded i lawr yr eil ar fraich ei thad. Roedd hi'n brydferth ryfeddol, doedd dim dwywaith am hynny. Gellid clywed merched y gynulleidfa'n sibrwd 'Ah!' wrth ei gilydd. Fedrai Ifan ddim credu'i lygaid, roedd hi mor drawiadol mewn gŵn felfed o liw hufen gyda chlogyn o'r un defnydd dros ei hysgwyddau. Gwisgai dair rhes o berlau am ei gwddf, yn anrheg oddi wrth ei rhieni. Disgleiriodd ei chlustysau perl yn haul yr hydref. Yn goron ar y cyfan roedd ei het lydan, eto o liw hufen, wedi'i addurno â blodau a phlu estrys. Cariai dusw o flodau'r hydref o liw hufen ac aur gydag ambell gudyn o redyn gwyrdd golau yn gymysg â nhw. Marie, ei ffrind gorau o ddyddiau ysgol, oedd ei morwyn briodas, a gwisgai hi ŵn felfed o liw

dail yr hydref, yn debyg o ran steil i wŷn Rebecca, ond heb glogyn. Het fechan oedd ar ei phen a honno wedi'i haddurno â phlu o liw coch ac aur. Cariai hithau dusw bychan o flodau'r hydref.

Pan drodd Ifan i groesawu'i briodferch i'r sedd flaen, rhoddodd ebychiad, a sibrwd wrthi:

'Rwyd ti'n edrych yn fendigedig.'

Teimlodd hithau ei hun yn gwrido. Gwnaeth Ifan ei addunedau priodasol gan ddefnyddio'r enw David Bennett. Roedd y twyll yn gweithio, ac fel yna roedd pawb yn ei adnabod. Wnaeth o erioed feddwl ei fod yn torri'r gyfraith. Roedd o'n hapus a difeddwl yn ei dwyll.

Bu'n ddiwrnod godidog. Roedd yr haul yn tywynnu pan gerddodd y pâr ifanc hapus allan o'r capel i gymeradwaeth perthnasau a ffrindiau, a chawodydd o reis priodas. Roedd tad Rebecca wedi trefnu coets i'w cludo i Becksidde i'r neithior, a c'roedd rhubanau gwyn yn addurno clustiau'r ceffylau. Cafwyd gwledd heb ei hail. Cawl cennin i gychwyn, yna lobjóws wedi'i baratoi gan ferched y capel ac wedi'i gario o'u ceginau mewn crochennau. Cafwyd tafellau o fara ffres cynnes, eto wedi'i bobo gan y merched lleol, a llond gwlad o bicls, siytni cartref a chabets coch. I orffen, cafwyd treiffl gyda digonedd o hufen a darn o'r gacen briodas i bawb.

Mam Rebecca a wnaeth y gacen gan ei haddurno â dwy res o eisin. Yfodd y saith deg o westeion lwnc-destun i'r pâr priod gyda gwin blodau ysgaw.

'O! am ddiwrnod godidog,' sibrydodd Rebecca wrth iddi orwedd yn mreichiau Ifan ar eu gwely newydd sbon yn Marshside y noson honno.

'Ie, ac yfory, diolch i garedigrwydd dy dad, cawn fynd ar ein mis mêl i Morecambe,' atebodd Ifan.

Bu'r ddau yn cydgaru am y tro cyntaf ar noson eu priodas. Anwesodd Ifan Rebecca yn araf a thyner rhag ei brifo mewn unrhyw ffordd. Ond roedd yn eiddgar amdano, ac mewn dim roedd y ddau wedi ymgolli yn ei gilydd.

Awr yn ddiweddarach, wrth iddynt orwedd yn dawel ochr yn ochr, ceisiodd Ifan ei orau glas i gau allan yr atgofion am y caru amrwd a chynhyrfus a fwynhaodd â Phoebe Hughes yn y Caeau Gwylltion. Roedd wedi penderfynu mai gwell oedd peidio â sôn dim wrth Rebecca am ei orffennol. Roedd Phoebe Hughes yn perthyn i fyd arall ac i oes arall. Ac eto, ni fedrai gael gwared o'r darlun o'i hwyneb o'i gof. A oedd yr atgof amdani i fod yn hunllef iddo ar hyd ei oes?

Aeth y naw mis wedi'r briodas heibio'n gyflym, ac roedd canfod ei bod yn feichiog yn syndod pleserus ac annisgwyl i Rebecca, a hefyd Dai, fel yr oedd hi yn ei alw.

'O! dyna newydd da! Rydan ni'n mynd i fod yn daid a nain. Bydd y babi'n cael ei eni yn yr haf, yr amser gorau o'r flwyddyn i roi genedigaeth,' meddai mam Rebecca, wedi gwirioni'n lân o glywed fod ei merch wedi beichiogi; er hynny, roedd barn y gymdeithas yn dal i'w phoeni. 'Ond be fydd pobl yn ei ddweud? Bydd yn fabi mis mêl Bydd rhai yn siŵr o gyfri'r misoedd, yn enwedig os bydd y babi'n cyrraedd wythnos neu ddwy'n gynnar!'

'Mam, paid â bod yn wirion. Fe gân nhw gyfri faint fynnon nhw. Doedd Ifan a finnau ddim wedi cael cyfathrach o gwbl tan noson ein priodas,' mynnodd Rebecca'n ddifrifol.

'O! paid â siarad yn goman, Rebecca! Doeddwn i ddim yn awgrymu dim byd o'r fath.'

Dros swper y noson honno bu Ifan yn rhwlio chwerthin pan glywodd am ymateb ei fam-yng-nghyfraith i eiriau Rebecca.

Yn ôl amcangyfrif Rebecca, ar y pymthegfed o Orffennaf y disgwyliid y babi. Pan soniwyd wrth Mary Lewis, y fydwraig leol, y byddai angen ei gwasanaeth tua'r adeg hynny roedd wrth ei bodd.

'Wrth gwrs y bydda' i ar gael. Roeddwn i yno pan gest ti dy eni, ac rydw i wedi dod â'r rhan fwyaf o blant y pentre yma i'r byd dros y pum mlynedd ar hugain dwytha,' atebodd Mary Lou, fel roedd pawb yn ei hadnabod.

Roedd Ifan wedi cael cyfarwyddiadau manwl i roi gwybod i Mary a'i fam-yng-nghyfraith y funud y byddai arwyddion fod y babi ar y ffordd.

Ar fore'r pumed ar hugain o Fehefin deffrôdd Rebecca'n sydyn. Roedd wedi ei haflonyddu gan boen yn ei stumog. Teimlodd yn anghyfforddus a sylweddolodd fod y gwely'n wlyb! Yna, poen sydyn eto! Doedd dim amheuaeth yn ei meddwl; poenau esgor oedd y rhain.

'Dai, Dai deffra! Mae'r babi'n dwad. Brysia, cer i nôl Mary Lou. A dos i ddweud wrth Mam.'

'Na, does bosib! Mae gen ti dair wythnos arall i fynd.'

'Gwrandda arna'i. Rydw i'n dweud wrthyti, mae ar ei ffordd. Mae'r dŵr wedi torri. Teimla'r gwely, mae'n wlyb!'

Doedd dim angen mwy o berswâd arno. Llamodd o'r gwely a neidio i'w ddillad. Roedd allan drwy'r drws fel mellten. Gan fod Mary Lou yn byw yn agos yn un o'r bythynnod yn Long Row roedd Ifan yn curo wrth ei drws mewn dim amser.

'Mary Lou, mae'r babi ar ei ffordd, dowch ar unwaith,' gwaeddodd.

Cyn i'r drws agor clywodd lais Mary Lou yn ei annog i beidio â chynhyrfu.

'Paid â mynd i banig, Dai bach! Rydach chi ddarpar-dadau i gyd yn debyg! Mi fydda i efo Rebecca mewn ychydig funudau. Bydd popeth yn iawn.'

Erbyn iddi agor y drws roedd yn barod â'i chyfarwyddiadau.

'Dos adre, a berwa ddigon o ddŵr poeth. A bydd angen llieiniau a thywelion glân.'

O fewn hanner awr roedd Mary Lou a mam Rebecca wedi cyrraedd, ac roedd Ifan wedi llenwi sawl tegell ac wedi dod â llieiniau a thywelion o'r cwpwrdd dan grisiau. Yna dechreuodd gerdded yn ôl a blaen ar hyd llwybr yr ardd gefn. Gallai glywed griddfannau Rebecca, ac ambell sgrech, gan fod ffenestr yr ystafell ar agor. Yn pwyso ar ei feddwl roedd y ffaith fod Phoebe Hughes wedi marw wrth roi genedigaeth i'w merch fach. A oedd yr un drychineb yn debyg o ddigwydd eto? Fyddai o'n cael ei gosbi rŵan am gamdrin Phoebe ac am droi ei gefn arni? Wrth iddo gerdded y llwybr gweddïodd Ifan Lloyd am y tro cyntaf yn ei hanes, a gweddïodd yn galed.

'O Dduw mawr, paid â gadael i fy annwyl wraig Rebecca farw. Rydw i'n gwybod imi wneud cam â Phoebe druan, ac rydw i'n gofyn am faddeuant am hynny. Ond plis, plis, gad i Rebecca fyw.'

Adroddodd ei weddi drosodd a throsodd, ei ddwylo'n ddyrnau a'i figyrnau'n wyn gan densiwn.

'Arglwydd da, mae'n edifar gen i am y gorffennol, ond rydw i wedi newid fy ffordd. Yn enw Iesu bydd yn drugarog wrtha'i ac wrth Rebecca. Amen.'

Oedd o'n credu mewn gweddi? Oedd, wrth gwrs ei fod. Roedd rhaid iddo.

Yn sydyn, roedd mam Rebecca yn galw arno drwy'r ffenestr agored.

'Dai tyrd, brysia, brysia!'

Roedd gwên fawr ar ei hwyneb. Gallai dyngu iddo glywed babi'n crïo. Carlamodd i fyny'r grisiau ac i mewn i'r ystafell wely. Yn ei wynebu roedd golygfa roedd wedi gobeithio a gweddïo y câi ei gweld. Roedd Rebecca ar ei heistedd yn pwyso ar ddwy neu dair clustog ac yn gwisgo coban lân, ei hwyneb gwelw yn wên i

gyd. Yn ei breichiau, wedi'i lapio mewn lliain gwyn, roedd y babi delaf a welodd Ifan erioed, ei wallt yn ddu a'i geg yn chwilio'n daer am y llaeth yr ysai amdano.

'Dai, mae gennym ni fachgen bach hyfryd,' meddai Rebecca a'r dagrau'n llifo i lawr ei gruddiau.

Roedd Ifan dan gymaint o deimlad fel na wyddai be i ddweud. Eisteddodd ar erchwyn y gwely, cusanodd Rebecca a rhoddodd ei freichiau am ei deulu bach. Yr unig beth y gallai'i ddweud oedd:

'O'r ferch hardd a chlyfar! Rydan ni wedi'n bendithio.'

'Ydan, rydan ni wedi'n bendithio fel teulu – chi fel rhieni a ninnau fel nain a thaid,' meddai mam Rebecca.

'Rydw i wedi bod yn meddwl am enw iddo fo,' meddai Rebecca. 'Enw fy nhaid ar ochr fy nhad oedd Thomas. Gawn ni ei alw fo'n Thomas?'

Cytunodd Ifan ar unwaith, ond gofynnodd a fyddai'n fodlon iddo gael ei enwi'n Thomas Wynne. Eglurodd mai Wynne oedd ei fam cyn priodi.

'Mae Thomas Wynne Lloyd yn swnio'n addas iawn. Bydd dy dad wrth ei fodd,' meddai mam Rebecca.

'Pwy fydd wrth ei fodd?' Roedd tad Rebecca ar ei ffordd i fyny'r grisiau.

'O! Dad, edrycha ar dy wŷr bach newydd di,' meddai Rebecca drwy ei dagrau. 'Rydan ni wedi penderfynu ei enwi'n Thomas Wynne Lloyd – Thomas ar ôl taid a Wynne ar ôl mam Dai.'

Roedd pawb mor falch fod genedigaeth Thomas bach wedi bod mor esmwyth a bod y fam a'i babi'n dod yn eu blaenau. Yn naturiol, roedd Rebecca wedi blino ac am wythnos neu fwy bu'n gorffwys bob prynhawn a'i mam yn cadw golwg ar Thomas. Ond roedd yn ferch iach, gref, ac yn benderfynol o fod yn fam a gwraig dda. Roedd Ifan yntau mor falch o fod yn dad ac yn barod i wneud beth allai i Rebecca a Thomas wedi iddo ddod adre o'i waith.

'Paid â chodi. Jest dwed wrtha'i be wyt ti isio.'

'Dai, rwyt ti'n gariad i gyd, ond rydw i'n iawn; tydw i ddim yn sâl,' fyddai ateb Rebecca dro ar ôl tro.

Cafodd Ifan dynnu'i goes yn ddirugaredd yn y chwarel.

'Tyrd hefo ni i'r Ship ryw noson i wlychu pen y babi,' meddai un o'i fêts.

'Gwlychu pen y babi? Be wyt ti'n feddwl?'

Doedd Ifan erioed wedi clywed am y fath beth. Roedd yn cael ei demtio i fynd am beint efo'r hogiau, ond gwyddai hefyd na fyddai Rebecca ddim yn hapus pe bai'n croesi trothwy'r dafarn.

'O! mae Dai dan y fawd yn barod! Ofn troi'r drol efo'r musus, mae o! A'r teulu'n gapelwrs mawr!'

Ond llwyddodd Ifan i anwybyddu'r herian, a bob gyda'r nos byddai'n anelu'n syth adre o'r gwaith. Roedd clecwyr y pentre hefyd wedi dechrau cyfri'r misoedd ers y briodas.

'Mae nhw'n deud fod y babi wedi cyrraedd dair wythnos yn gynnar. Babi mis mêl yn ôl Mrs Rigg. Ond pwy wŷyr? Babi cyn-mis mêl, ddwedwn i.'

'Ie, synnwn i ddim nad oedd hi wedi llyncu pry cyn dydd ei phriodas!'

'A hithau'n priodi yn y Capel Wesle!'

'Mae na olwg merchetwr ar y Dai 'na.'

'Mae gan y Cymry i gyd enw am fod yn rhai cocwyllt!'

'Mae dynion yr un fath ym mhob man! Un peth sydd ar eu meddwl nhw: cael merch i'r gwely! Does dim dowl nad oedd Dai wedi cael practis neu ddau efo Rebecca cyn eu mis mêl.'

'Faswn i ddim yn meindio bod yn ei lle hi!'

Ar glywed hyn, dechreuodd y criw merched y tu allan i'r Co-op yn Kirkby glochdar yn uchel ac yn fras.

Pennod 6

Roedd yn ddiwedd Tachwedd 1898. Yng Nghaeau Gwylltion roedd Esther Hughes Evans yn brysur yn rhoi help llaw i'w mam, Jane Evans, yn y gegin. Roedd y ddwy'n paratoi pwдинаu Nadolig. Roedd Gwen, y forwyn hŷn fu'n teyrnasu dros gegin Caeau Gwylltion am flynyddoedd, wedi ymddeol ddeng mlynedd ynghynt. Wedi iddi hi ymadael, penderfynwyd peidio â phenodi neb arall i goginio gan fod Esther wedi tyfu'n gogyddes ragorol ac wrth ei bodd yn paratoi prydu ac yn goruchwylio'r gegin. Gwnaed trefniant i un o ferched y pentref ddod i mewn ddwywaith yr wythnos i olchi dillad a smwddio. Polly, morwyn fach pymtheg oed yn byw i mewn, oedd yn gyfrifol am lanhau'r tŷ. Gweithwraig fach ddiwyd oedd Polly a chadwai'r lle fel pin mewn papur.

Yn un o'r lloffttydd bach yn y nenfwd yr oedd Polly'n cysgu, lle bu Gwen a Phoebe Hughes yn cysgu flynyddoedd ynghynt. Siarsiwyd hi i ymddwyn yn weddus bob amser a gwnaed yn eglur iddi nad oedd byth, byth, i wahodd ymwelwyr i'w hystafell wely.

Doedd cegin tŷ fferm Caeau Gwylltion heb newid fawr dros y blynyddoedd. Yn erbyn un wal roedd y grât a'r popty mawr oedd yn gofyn am gael ei flacledio'n gyson. Ar y wal gyferbyn oedd y cwpwrdd mawr. Yno roedd y llestri a'r cyllyll a'r ffyrc yn cael eu cadw. Hongiai'r sosbenni a'r llestri coginio o'r nenfwd yn ymyl y popty, ac yn y gornel safai'r sinc garreg ddofn. Fel ymhob tŷ fferm roedd y pantri yn ymyl y gegin ac ynddo roedd slaben o lechen las i gadw llefrith, wyau, caws, menyn a llysiau yn ffres. Yn y pantri hefyd roedd silffoedd i gadw poteli o ffrwythau a diodydd cartref.

Roedd y tŷ golchi yn y buarth, a bob dydd Llun roedd angen cynnau tân o dan y boiler i ferwi'r llieiniau, y cynfasau a'r dilladau gwyn. Safai'r mangl trwm wrth ochr y boiler, a hongiai lein ddillad hir rhwng dwy goeden afalau yn y berllan – lle da i ddal y gwynt ysgafn o gyfeiriad yr afon. Yn y gaeaf plygid y dillad dros yr hors ddillad a'u gosod o flaen y tân ac yna eu crasu ar roden bres a ollyngid i lawr o'r nenfwd. Roedd dyletswyddau Polly yn troi o gwmpas y gegin a'r tŷ golchi yn bennaf.

Roedd Esther erbyn hyn yn ddwy ar hugain oed. Gwyddai pwy oedd ei rhieni go iawn, ac mai Phoebe oedd enw ei mam ac mai dyn o'r enw Ifan oedd ei thad: dyn drwg a diegwyddor a orfododd ei hun ar ei mam, cyn dianc o'r ardal cyn iddi hi gael

ei geni. Cadwai gysylltiad agos â'i thaid a'i nain o ochr ei mam ac roedd yn ymweld yn aml â nhw.

Ond yng ngolwg Esther, ei rhieni iawn, a'r unig rieni iddi eu nabod erioed, oedd Jane ac Owen Evans. Roedd ganddi feddwl y byd ohonyn nhw a byddai wrth ei bodd pan fyddai Edward, eu mab a'i brawd hithau, yn dod adref o'i waith yn gyfrifydd yn yr Wyddgrug.

Cafodd Esther addysg elfennol dda yn Ysgol Lime Bank, ysgol Babyddol, a noddid gan Iarll Dinbych. Lleianod oedd yr athrawon, ac roedd Esther yn hoff ohonynt. Gwnaeth gamau breision o dan eu hyfforddiant. Gallai ddarllen ac ysgrifennu Saesneg yn ardderchog. Disgleiriai mewn rhifyddeg a châi ganmoliaeth am ei doniau gwnïo. Dysgodd ganu'r piano, a phrynodd ei thad biano mawr yn arbennig iddi hi. Safai'r piano mewn lle amlwg yn ffenestr y parlwr. Bob tro y byddai ymwelwyr yn dod i Gaeau Gwylltion, byddai ei thad yn mynnu bod Esther, ar ôl swper, yn rhoi datganiad iddyn nhw ar y piano newydd. Ymfalchiai Owen Evans yn noniau cerddorol ei ferch, ac er nad oedd Esther yn or-awyddus i berfformio o flaen eu gwesteion, roedd yn barod i blesio'i thad.

Pan gyrhaeddodd Esther dair ar ddeg oed penderfynodd ei rhieni y dylai newid o Ysgol Lime Bank i ysgol y pentref – Ysgol Lady Augusta. Ymhen dwy flynedd yn ei hysgol newydd gwnaed hi'n fonitor. Byddai'n helpu athrawes y babanod trwy adrodd storïau, cyfeilio iddynt ar y piano yn y dosbarth ac yn y gwasanaeth boreol. Roedd y dyletswyddau hynny'n rhoi boddhad mawr iddi, a dechreuodd feddwl yr hoffai fynd yn athrawes. Gwyddai y gallai fod yn athrawes-fyfyriwr ac yna'n athrawes ddigymhwyster, yn ôl yr arfer y pryd hynny. Ond roedd Esther yn awyddus i gael hyfforddiant a dod yn athrawes go iawn.

Pan ddywedodd hynny wrth ei rhieni, cafodd siom o ddeall fod ganddyn nhw gynlluniau eraill ar ei chyfer. Roedd Jane Evans wedi penderfynu fod digon iddi'i wneud adref yn y Caeau Gwylltion.

'Priodi fydd dy hanes di ryw ddydd ac y mae'n bwysicach iti ddysgu bod yn wraig tŷ dda. Gwastraff ydi rhoi mwy o addysg i ferch,' meddai ei thad.

'Ond mi hoffwn i fod yn athrawes a chael fy hyfforddi'n iawn. Y Coleg Normal ym Mangor ydi'r lle gorau i fynd i ddysgu bod yn athrawes,' atebodd Esther.

Ond ofer fu pob dadl. Roedd Owen a Jane Evans wedi penderfynu nad oedd i fynd i'r coleg, ac felly fe adawodd Esther Ysgol Lady Augusta yn anfoddog a hithau'n bymtheg oed.

Erbyn hynny, roedd wedi dechrau tyfu'n ferch hardd gyda gwallt melyngoch hir a wisgai'n glwstwr ar dop ei phen, gan ddynwared steil y Dywysoges Alexandra. Roedd hi'n dlws gyda llygaid glas dwfn. Yn bum troedfedd a hanner o daldra, gyda gwasg denau, cerddai'n osgeiddig, wedi dysgu osgo gweddus gan y lleianod. Yn Ysgol Lime Bank roedd rhaid i bob un o'r merched gerdded yn ôl a blaen ar draws yr ystafell ddoarth gan ddal dau neu dri o lyfrau ar eu pennau er mwyn cerdded yn unionsyth.

Credai Jane Evans mewn cadw'r ffasiynau newydd. Byddai hi ac Esther yn ymweld yn gyson â Siop y Cei. Yno roedd hi'n bosib prynu sanau sidan, dillad isaf, menyg, hetiau, ffrogiau, blowsiau a chotiau gaeaf, heb sôn am bob math o offer tŷ.

Byddai'r ddwy yn cymryd eu hamser pan yn ymweld â'r siop gyda Jane yn gwneud yn sicr eu bod yn dewis dillad i Esther oedd yn gweddu i'w lliw ac i siâp ei chorff. Gwnaed ymweliadau cyson â melin wlân Treffynnon hefyd. Yno gellid prynu defnydd lliwgar, hardd, addas i wneud dillad hydref a gaeaf. Gyferbyn â'r felin roedd gwniadwraig ardderchog, ac wedi prynu defnydd newydd byddai Jane yn mynd ati hi i drefnu iddi wnïo dilladau o'r ffasiwn diweddaraf i'r ddwy ohonynt.

Ni bu'n edifar gan Owen a Jane Evans iddynt fabwysiadu Esther. Tyfodd yn ferch annwyl a meddyliai'r byd o'i rhieni. Ond wrth iddi dyfu roedd yn naturiol iddi gael ei thynnu tuag at fechgyn, a bechgyn tuag ati hi. Yn Hydref 1897 roedd wedi cyfarfod, ac wedi dod yn hoff o'wr ifanc o'r enw Isaac Hughes, mab i arwerthwr lleol. Roedd Isaac mewn prentisiaeth gyda'r bwriad o ddilyn ei dad yn y busnes arwerthu. Gan fod Owen Evans yn adnabod tad Isaac yn dda ers nifer o flynyddoedd, roedd Jane ac yntau'n hapus fod Esther ac Isaac yn amlwg yn dod yn fwy na ffrindiau.

Tua mis cyn y Nadolig, a hwythau'n paratoi'r pwdinau Nadolig, mentrodd Esther ofyn i'w mam a allai Isaac gael gwahoddiad i'w parti calan blynyddol.

'Mi fydd dy dad a minnau yn hapus i'w wahodd. Mae o'n ŵr ifanc dymunol tu hwnt. Efallai fod dyfodol i chi'ch dau hefo'ch gilydd!' meddai Jane yn ddiridus.

'Ydi, mae o'n hyfryd, ond braidd yn rhy ddifrifol a di-sbonc i mi. Wn i ddim a fedrwn i dreulio 'mywyd hefo fo,' atebodd Esther.

Petrusodd Jane ac aeth rhyw bryder drosti. A oedd Esther yn chwilio am hwyl a chynnwrf, fel ei thad a'i mam gynt? Fe dalodd ei mam yn ddrud am dipyn o gyffro yn y gwair. Gobeithio nad oedd Esther yn tynnu ar ei hól hi.

Ar y cyntaf o Ragfyr dathlodd Esther ei phenblwydd yn dair ar hugain oed. Cafwyd parti teuluol i ddathlu'r achlysur ac ymunodd ei brawd, Edward, a'i wraig, Sophia, ac Owen bach â nhw dros y Sul.

Wrth i'r Nadolig agosáu penderfynodd nifer o bobl ifanc o Gapel Bethel fynd i'r plygain yng Nhapel Lloc yn gynnar ar fore Nadolig.

'Bydd raid inni ddysgu carol i'w chanu. Fedrwn ni ddim mynd yno heb ganu,' meddai Esther.

Cytunodd pawb, a dechreuwyd ymarfer o amgylch y piano yn y Caeau Gwylltion bob nos Sul.

Bore Nadolig canodd cloc larwm Esther am bedwar o'r gloch. Aeth i lawr i'r gegin i gynhesu llefrith i'w dywallt dros dafell o fara, a rhoi llwyaid go dda o siwgr ar ei ben. Byddai'r bara llefrith yn ei chadw'n gynnes nes iddi gyrraedd adref tua hanner awr wedi wyth pan gâi frecwast Nadolig blasus.

Rhedodd i fyny'r grisiau a gwisgo pâr o sanau trwchus amdani, esgidiau hirion, het gynnes, sgarff a menig. Clywodd sŵn ei ffrindiau'n nesu at y tŷ ac agorodd y drws cyn iddyn nhw guro a deffro gweddill y teulu.

Roedd pawb yno. Sara, Catherine, Jethro a Sam. Ond pwy oedd y chweched yn y grŵp? Edrychodd Esther arno gyda diddordeb.

Roedd rhaid cychwyn yn brydlon i fod yn y capel bach dim hwyrach na hanner awr wedi pump er mwyn iddyn nhw gael sedd. Erbyn iddyn nhw fynd heibio Trefostyn sylwodd Esther fod Sam a'r gŵr ifanc dieithr yn cerdded ochr yn ochr â hi.

'Dydw i ddim wedi cael cyfle i gyflwyno fy ffrind iti, Esther. Dyma Tom Bennett. Mae'n aros acw hefo ni dros y Nadolig. Mae Tom yn dod o sir Gaerhirfryn ac y mae'n rhy bell iddo fynd adre.'

Cyfarchodd Esther y gwr ifanc prydwedol.

'Cyfrifydd ydi o, 'run fath â finnau,' aeth Sam yn ei flaen. 'Mae o'n gweithio i gwmni ym Mhrestatyn. Trwy'r gwaith y daethon ni i nabad ein gilydd,' ychwanegodd Sam.

'Mae'n dda iawn gen i'ch cyfarfod chi,' meddai Tom yn gwrtais.

Gwenodd Esther yr un mor gwrtais.

'Mae Tom wrth ei fodd yn gwranddo ar ganu Cymraeg yn enwedig ein carolau,' eglurodd Sam. 'Am ei fod o'n methu dweud y geiriau'n iawn, mae o am sefyll y tu ôl i Jethro!'

Erbyn iddyn nhw gyrraedd roedd y capel bach yn rhwydd lawn. Roedd Esther yn ymwybodol fod llygaid llawer o'r gynulleidfa arni hi ac ar y gŵr ifanc golygus wrth ei hochr. Pan ddaeth yn amser iddyn nhw ganu, cododd y saith a symud i'r set fawr i ganu'r garol adnabyddus, 'Ar gyfer heddiw'r bore.'

Wrth iddyn nhw gychwyn am adre ar ôl y gwasanaeth, cerddodd Tom wrth ei hochr. Roedd yn un hawdd sgwrsio hefo fo. Gwnaeth iddi chwerthin wrth ddynwared acen sir Gaerhirfryn. Sylwodd Esther ei fod yn arbennig o ddeniadol, gyda'i wallt tywyll cyrliog a'i lygaid glas. Roedd yn dal hefyd, tua chwe troedfedd. Oedd o ychydig yn iau na hi, efallai? Roedd ei ddillad yn raenus ac yn llawer mwy ffasiynol na'r gwŷr ifanc eraill roedd hi'n eu nabod.

Achlysur teuluol hapus gafwyd yng Nghaeau Gwylltion y Nadolig hwnnw. Roedd mwy na digon i'w fwyta i bawb. Gŵydd, tatws rhost, tatws stwnsh, moron, pys a sbrowts. Yna pwdin Nadolig efo digon o saws gwyn. Roedd y goeden Nadolig yn sefyll yn y cyntedd, a chafodd Esther bleser mawr yn ei haddurno gyda chanhwyllau a chadwyni papur o bob lliw.

'Wel, am goeden Nadolig hardd,' meddai ei chwaer-yng-nghyfraith. 'Ble gest ti'r syniad?'

'Mae'n nhw'n dweud mai'r Tywysog Albert a gychwynnodd yr arferiad rai blynyddoedd yn ôl. Mae nhw'n boblogaidd iawn yn yr Almaen, yn ôl pob sôn. Fe lwyddais i berswadio Nhad i dorri un o'r goedwig ac wedyn fe es i ati i'w haddurno,' eglurodd Esther.

Ychydig wythnosau wedi'r flwyddyn newydd, cafodd Esther syndod o dderbyn llythyr drwy'r post. Ac nid syndod yn unig, ond pleser o'r mwyaf a theimlad o gyffro.

Ar ôl y parti calan roedd wedi penderfynu roi'r gorau i Isaac, mab yr arwerthwr. Roedd yntau wedi cael siom ofnadwy pan ddywedodd hi wrtho fod eu perthynas ar ben. Roedd am wybod pam, ac yntau wedi credu ei fod wedi cael ei draed o dan y bwrdd yng Nghaeau Gwylltion.

Doedd gan Esther ddim atebion boddhaol i'w gwestiynau. Fedrai hi ddim dweud wrtho ei fod yn llawer rhy sych a difrifol, a'i bod hi eisiau rhywun mwy hwyliog fyddai'n gwneud iddi chwerthin.

'Pam wyt ti wedi torri dy berthynas ag Isaac?' gofynnodd Jane. 'Mae o'n ddyn ifanc parchus, dymunol. Rydan ni'n hoff ohono fo ac roedden ni wedi gobeithio y byddai dyfodol i'ch carwriaeth chi.'

‘Mam, does gen i ddim ond un rheswm. Mae o mor ddiflas!’

‘Tydi’r rhai difrifol ddim yn debyg o d’adael di i lawr, fy ngeneth i,’ rhybuddiodd Jane.

Pan agorodd Esther ei llythyr roedd hi wrth ei bodd yn ei ddarllen.

3 Rhodfa Bryntirion,

Prestatyn,

15fed Chwefror 1898

Annwyl Esther,

Maddeuwch i mi am ysgrifennu atoch, ond ryda chi wedi bod ar fy meddwl ers inni gyfarfod bore Nadolig. Dechreuais sgwennu atoch fwy nag unwaith, ond collais fy hyder. Fodd bynnag, wedi imi gael eich cyfeiriad oddi wrth fy ffrind Sam, penderfynais roi cynnig arall arni. Fyddech chi’ch fodlon cyfarfod â mi yn stesion Prestatyn pnawn Sadwrn nesaf? Gallem fynd am dro ar hyd lan y môr ac wedyn cael te mewn caffî y gwn i amdano.

Gallaf fynd â chi’n ôl i’r stesion i ddal y trêen chwech i Fostyn. Rwyf wedi edrych ar amserau’r trenau ac y mae un yn gadael stesion Mostyn am un o’r gloch ac yn cyrraedd Prestatyn am hanner awr wedi.

Buaswn wrth fy modd yn eich gweld. Gobeithio y gwelwch eich ffordd yn glir i ddod.

Gyda chofion gorau,

Tom (ffrind Sam).

Roedd Esther wedi’i chyffroi a fedrai hi ddim disgwyl am ddydd Sadwrn. Dywedodd wrth ei mam am ei chyfarfyddiad â Tom yn y Plygain. Roedd yn llawn afiaith wrth egluro iddi ei fod yn ffrind i Sam, ei fod yn hanu o sir Gaerhirfryn, a’i fod yn hyfforddi i fod yn gyfrifydd gyda chwmni ym Mhrestatyn.

‘Wel, mae’n edrych i mi fel taet ti wedi penderfynu ei gyfarfod o,’ ochneidiodd Jane. ‘Ond cymer di ofal. Dim ond unwaith rwyf ti wedi’i gyfarfod o. Mi drefna i i Dai y gwas fynd efo ti i’r stesion yn y trap ac i dy gyfarfod di am hanner awr wedi chwech gyda’r nos.’

Cymerodd Esther amser i benderfynu beth i'w wisgo i'w chyfarfyddiad cyntaf â Tom. Dewisodd flows efo gwddf hir, sgert wllân goch, het wedi'i haddurno â blodau a cheirios ffug a chôt gynnes.

Fel yr addawodd, roedd Tom yn disgwyl amdani ar y stesion a gwenodd yn braf o'i gweld.

'Diolch i ti am ddod. Rwyt ti'n edrych yn ddel iawn a dwi'n hoffi'r het yn fawr iawn.'

Cydiodd yn ei braich, a dechreuodd y ddau gerdded yn hamddenol i gyfeiriad glan y môr gan sgwrsio'n rhwydd ac Esther yn chwerthin ar rai o'i storïau smala. Wedi cerdded ar hyd y promenâd ac yn ôl, ac eistedd am hanner awr ar sedd yn edrych allan i'r môr, aeth y ddau i gyfeiriad y stryd fawr i gaffi bychan clyd i gael te.

Gwibiodd yr amser, ac roedd Esther yn ymwybodol y byddai raid iddyn nhw droi am y stesion cyn hir iddi ddal y trê'n chwech. Roedd dros ei phen a'i chlustiau mewn cariad gyda'r dyn ifanc, golygus!

Hwn oedd y cyntaf o nifer fawr o gyfarfyddiadau rhwng y ddau ar brynhawniau Sadwrn. Tua dechrau Awst 1898 dywedodd Tom fod ei chwaer, oedd yn athrawes yn Dalton yn Ardal y Llynnoedd, yn bwriadu dod i edrych amdano y dydd Sadwrn canlynol. Roedd yn awyddus iawn i Esther ei chyfarfod.

'Fe gawn de yn ein caffi arferol. Rydw i'n sicr y byddi di a May yn cymryd at eich gilydd.'

Roedd Tom yn berffaith iawn. O fewn dim amser, roedd y ddwy wedi asio, a Tom wrth ei fodd, gan ei fod mor awyddus iddyn nhw fod yn ffrindiau. Bu'r tri yn sgwrsio drwy'r prynhawn a dywedodd May ei bod wrth ei bodd fod Tom ac Esther wedi dod yn ffrindiau mor agos. Byddai'n sicr o ddweud wrth eu rhieni am Esther unwaith y byddai'n ôl yn Ardal y Llynnoedd.

'Wyt ti erioed wedi meddwl gadael cartref ac ail-afael mewn dysgu fel athrawes ddigymhwyster? Rwyt ti wedi cael addysg dda a phrofiad fel monitor, ac y mae gennyt ti ddigon o allu,' meddai May.

'Na, fyddai fy rhieni ddim yn fodlon imi adael cartre. A mae yna fwy na digon o waith i'w wneud ar y fferm,' atebodd Esther gyda dadleuon ei rhieni.

'Wel, rwyt ti'n ifanc, yn ddawnus ac yn berson dymunol. Mae gen ti lawer i'w gynnig ac rydw i'n siŵr y byddet ti'n gwneud athrawes wych,' awgrymodd May.

Wrth iddyn nhw ffarwelio, addawodd y ddwy ysgrifennu at ei gilydd.

Aeth y misoedd heibio, a daeth y gaeaf ar eu gwarthaf eto. Unwaith eto eleni, arhosodd Tom ym Mhrestatyn dros y Nadolig er mwyn mynd eto efo'i ffrindiau i'r plygain ar fore Nadolig. Dros y misoedd roedd ei berthynas ag Esther wedi dyfnhau, ac o ganlyniad cafodd ei wahodd i ymuno â theulu'r Caeau Gwylltion i ginio Nadolig.

'Rydan ni'n hoff iawn o Tom, wyddost ti, ond faint wyt ti'n ei wybod am ei gefndir?' holodd Jane, ychydig yn amheus, wrth iddi hi ac Esther gario'r llestri i'r gegin ar ôl y cinio.

Roedd Jane ac Owen wedi bod yn trafod Tom yn gyson ers iddynt ei gyfarfod.

'Rydw i'n gwybod ei fod yn dod o ogledd Lloegr, fod ei chwaer May yn athrawes ysgol mewn tref o'r enw Dalton, a bod ei dad yn dal swydd gyfrifol mewn chwarel. Cymro ydi ei dad o, cofiwch,' ceisiodd Esther ddarbwyllio ei mam ynghylch rhinweddau Tom. 'Ond mae o wedi colli ei Gymraeg bron i gyd!'

'Beth ddaeth â Tom i Brestatyn o bob man?' holodd Jane wedyn.

'O, rhywun yn y cwmni yn perthyn o bell i'w fam,' atebodd Esther.

Roedd Esther yn dechrau blino efo'r holi parhaus am gefndir Tom a methai'n lân â deall pam yr oedd y pwnc o gymaint o ddiddordeb i'w mam.

Ym mhen deufis cafodd ysgytwad hollol annisgwyl. Un prynhawn Sadwrn ym mis Mawrth 1899 roedd hi a Tom wedi cyfarfod, yn ôl eu harfer. Wedi iddo'i chyfarfod ar y stesion, awgrymodd iddyn nhw gerdded i fyny Stryd Fawr Prestatyn yn hytrach na throi am lan y môr gan fod y gwynt yn fain. Ond wrth iddyn nhw gerdded fraich ym mraich i fyny'r ffordd fedrai Esther ddim peidio â sylwi fod Tom yn fwy tawel nag arfer, fel pe bai rhywbeth ar ei feddwl. Dim hel atgofion doniol, dim straeon trwstan, dim newyddion am ddigwyddiadau'r wythnos, dim byd tebyg iddo fo'i hun.

Wedi iddyn nhw gyrraedd eu caffi arferol ac eistedd i ddisgwyl eu te prynhawn, cydiodd Tom yn nwy law Esther ac edrychodd i fyw ei llygaid. Meddai wrthi'n dyner:

'Mae gen i rywbeth i'w ddweud, ond wnei di addo peidio â chynhyrfu? Rydw i wedi cael cynnig swydd newydd gyda chwmni cyfrifwyr yn y gogledd mewn tref o'r enw Millom. Mae'r cyflog yn llawer uwch na'r hyn rydw i'n ei gael rwan, a rydw i'n cael fy nhemtio'n gryf i dderbyn.'

Aeth Esther yn fud. Syllodd ar Tom. Teimlodd ei cheg yn sychu a dechreuodd grio. Wedi rhai eiliadau cafodd hyd i'w llais.

'Ond Tom, beth amdanon ni? Mi fydda i'n dy golli di'n ofnadwy. Mi fyddi mor bell i ffwrdd.'

‘Rydw i wedi meddwl am hynny. Dyma fy syniad. Rydw i wedi cael gwybod gan fy chwaer fod ysgol yn Dalton yn chwilio am athrawes ddigymhwyster i ddysgu’r plant lleiaf. Pam na wnei di gais am y swydd? Mae digon o le yn y tŷ lle mae May yn aros; mi allet ti aros yno hefyd. Mae’n canmol y ddynes tŷ lojin yn arw. Ar ben hynny, mi allen ni’n dau gyfarfod bob dydd Sadwrn fel rydan ni’n ei wneud rŵan. Wyt ti’n gweld, Esther, rydw i wedi teimlo ers amser mai ti ydi’r un i mi, ac felly pwy ŵyr be sy’n ein disgwyl yn y dyfodol? Mi allwn gynilo, ac wedi inni roi digon heibio, gallwn briodi a phrynu’n tŷ bychan ein hunain.’

Wedi i Tom ddod i ben ei araith wyddai Esther ddim beth i’w ddweud. Symud i’r gogledd pell? Lloegr? Mynd yn athrawes? Gadael cartref, cynilo, priodi! Beth oedd hi am ei wneud?

‘Ond dydw i erioed wedi bod yn gyfrifol am ddsbarth mewn ysgol. Monitor bach ifanc, di-brofiad oeddwn i yn Ysgol Lady Augusta ac athrawes yn yr Ysgol Sul.’

‘O! paid â phoeni am hynny. Fe allet ti wneud y gwaith yn hawdd, ac mi fyddai May ar gael i roi help llaw iti. Dysgu plant bach pump a chwech oed i gyfri, i wybod yr wyddor ac i sgwennu eu henwau fyddet ti. Fe elli di wneud hynny’n iawn,’ atebodd Tom yn hyderus. Roedd yn siarad fel pe bai’r cyfan mor hawdd.

Oedodd Esther.

‘Pryd fyddi di’n gadael Prestatyn?’

‘Ymhen mis. Rydw i wedi rhoi fy notis i mewn. Mae nhw angen athrawes newydd yn Dalton i gychwyn ar ôl y Pasg, meddai fy chwaer.’

Teithiodd Esther yn ôl i Fostyn y noson honno mewn gwewyr llwyr. Teimlai’n bryderus, ond yn gynhyrfus ac eiddgar yr un pryd. Wrth gwrs, roedd hi am fod efo Tom. Ond sut oedd torri’r newydd i’w rhieni? Roedd penderfyniad mawr yn ei hwynebu a allai droi ei byd wyneb i waered.

*

‘Fedra i yn fy myw ddallt be sy’n bod ar Esther. Mae hi wedi bod mor dawel ers dydd Sadwrn. Mae fel pe bai yn ei byd bach ei hun. Gobeithio’r nefoedd nad ydi ddim wedi cael ei hun i drwbwl fel ei mam gynt. Mi faswn i’n marw o gwilydd,’ sibrydodd Jane wrth Owen yn y gwely ar y nos Fawrth.

‘O be rydw i wedi’i weld o Tom, dydi o ddim yn ymddangos fel y math o fachgen fyddai’n cymryd mantais o ferch ifanc,’ atebodd ei gŵr. ‘Ond o gofio’n amheuon ni, Jane...’

Trodd at ei wraig, ond ysgydwodd hi ei phen.

‘Wel, fedri di ddim dweud, Owen, be all fod yn mynd ymlaen rhwng dau o rai ifanc.’

Yr wythnos ganlynol, ar y nos Iau, fel roedd swper yn dod i ben, magodd Esther ddigon o blwc i dorri ei newydd i’w rhieni.

‘Mae gen i rywbeth i’w ddweud wrthoch chi’ch dau, ac rydw i am i chi wrando arna’i yn ofalus.’

‘O diar, dyma ni!’ sibrydodd Jane, yn fwy wrthi’i ei hun na neb arall.

‘Dwed wrthon ni, ngeneth i, roedden ni’n dau yn gwybod bod rhywbeth yn pwyso ar dy feddwl di,’ meddai Owen wrth geisio ysgafnu ychydig ar y tensiwn oedd i’w deimlo’n codi yn y gegin.

‘Ar ôl y Pasg, mi fydda i’n gadael cartref i gymryd swydd fel athrawes yn Dalton yn Ardal y Llynnoedd. Mi fydda i’n athrawes ddigymhwyster yn yr un ysgol â May, chwaer Tom.’

Rhythodd ei rhieni arni’n gegrwth. Carlamodd Esther yn ei blaen.

‘Mae Tom hefyd yn gadael y cwmni ym Mhrestatyn. Mae o wedi cael cynnig swydd fel cyfrifydd yn nhref Millom sydd heb fod ymhell o Dalton. Fe fydda i’n aros yn yr un tŷ â May. Erbyn y flwyddyn nesaf rydan ni’n gobeithio y byddwn wedi cynilo digon i briodi ac i rentu newydd inni’n dau.’

Daeth y cyfan allan yn un llifeiriant. Teimlodd Esther ei hwyneb yn boeth a’i dwylo’n crynu. Am rai eiliadau, doedd dim ymateb oddi wrth ei rhieni – dim ond distawrwydd llethol. Sylwodd fod dagrau’n dechrau cronni yn llygaid ei mam, tra bo’i thad yn amlwg yn gwneud ei orau i reoli ei dymer.

‘Peidiwch ag ypsetio, Mam. Mi fydda i’n iawn. Fydd May yn rhoi help imi efo’r gwaith ysgol,’ mentrodd Esther.

‘Wyt ti wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i’n teimladau ni? Ni sydd wedi dy fagu di ac wedi rhoi’r gorau o bopeth iti dros y blynyddoedd? Duw a wŷr be fyddai wedi dod ohonot ti heb i ni fod wedi dy fabwysiadu di! Ai fel hyn rwyt ti’n talu nôl inni?’ taranodd Owen Evans.

‘Nhad!’ ebychodd Esther.

‘Rydan ni wedi’n siomi,’ ceisiodd ei mam egluro’n dawel, ond roedd Esther eisoes wedi gadael yr ystafell.

Y noson honno crïodd Jane Evans ei hun i gysgu wedi oriau o droi a throsi.

‘Y dyn ifanc ‘na sydd wedi troi ei phen hi, y fo a’i Saesneg mawr a’i ddillad crand,’ cwynodd Owen. ‘Mae o’n fy atgoffa i o rywun, ond fedra’i yn fy myw a meddwl pwy. Rhaid imi ddweud mod i wedi’n siomi’n ofnadwy yn Esther. Roeddwn i wedi meddwl yn siŵr y byddai’n aros yn yr ardal yma i roi ychydig o gefnogaeth a help llaw inni wrth inni fynd yn hŷn, Mae pobl ifanc heddiw wedi mynd yn hunanol iawn, mi wn i hynny...’

Wyddai Jane ddim beth arall i’w ddweud; roedd ei meddwl yn troi fel peiriant.

‘Ddaw dim da o hyn i gyd,’ meddai’n ddistaw, a rhyw ragargoel yn ei chorddi.

Pennod 7

Roedd dydd cyntaf y tymor ysgol yn dilyn gwyliau'r Pasg fel diwrnod o haf, yr haul yn gwenu a'r awel yn dyner. Safai Esther o flaen dosbarth o bump ar hugain o blant pump a chwech oed yn Ysgol Gynradd Dalton. Er ei bod yn teimlo'n enbyd o nerfus a dihyder, roedd yn llwyddo i gadw trefn ar y dosbarth ar ôl iddi gael ei rhoi ar ben ffordd gan Miss Cook, athrawes brofiadol oedd yn bennaeth yr adran fabanod.

‘Rhoi digon iddyn nhw i'w wneud ydi'r gyfrinach,’ meddai.

Yn ystod y dydd, buon nhw'n adrodd yr wyddor, yn ymarfer cyfrif o un i ddeg, ac yn dysgu dwy hwiangerdd Saesneg y byddai Esther yn eu canu pan oedd yn ferch fach yn Ysgol Lime Bank, Mostyn. Erbyn i'r gloch ganu am bedwar y prynhawn, roedd hi wedi blino'n lân. Wedi i bawb adrodd y weddi brynhawn, aeth y plant allan yn dawel a threfnus.

‘Sut aeth pethau?’ gofynnodd May o ddrws yr ystafell ddosbarth. ‘Fu raid iti ddefnyddio'r gansen?’

‘Na, ond bu raid imi ddyrnu'r ddesg fwy nag unwaith,’ gwenodd Esther.

Roedd y dosbarth ar gynllun hen ffasiwn, gyda rhesi o ddesgiau a thyllau ymhob desg i ddal potyn inc a silffoedd oddi tanynt i ddal llyfrau.

Roedd y plant yn nosbarth Esther yn rhy fach i ysgrifennu ag inc. Roedd rhaid iddyn nhw fodloni ar lechi a sialc. Ar y wal yn wynebu'r plant roedd siart o'r wyddor mewn llythrennau bras du, a byddai Esther yn mwynhau eu clywed yn llafarganu'r llythrennau.

Ar ôl swper y noson honno, bu hi a May yn sgwrsio'n hir a chafodd Esther lawer o fudd o gynghorion a chyfarwyddiadau ei ffrind.

‘Diolch, May. Rydw i'n gwerthfawrogi dy help yn fawr iawn. Rydw i'n siŵr y dof i fwynhau bod yn athrawes, a rydw i'n siŵr hefyd mod i wedi gwneud y penderfyniad iawn yn symud yma i'r gogledd. Mi fydd pethau'n well yfory.’

Gyda thywydd braf misoedd Mehefin a Gorffennaf, llithrodd yr wythnosau heibio'n gyflym. Byddai Tom yn dod draw yn y trê'n o Millom i Dalton bob pawns Sadwrn i gyfarfod ag Esther. Yn ystod yr wythnos bydden nhw'n sgwennu at ei gilydd bob yn eilddydd, gyda phob llythyr yn llawn newyddion a chyfarchion cariadus. Cymerodd Tom at ei swydd newydd heb ddim trafferth, a chan fod ei gyflog wedi codi'n sylweddol roedd yn gallu cynilo mwy.

‘Rydw i’n medru rhoi rhywfaint heibio bob wythnos ar gyfer ein cynlluniau ni’n dau i’r dyfodol,’ meddai wrth Esther un pnawn Sadwrn.

Tua diwedd Mehefin cafodd Esther wahoddiad i ginio Sul efo rhieni Tom a May. Roedd Tom yn awyddus i’w chyflwyno i’w rieni fel ei ddarpar wraig. Roedd hithau’n anarferol o nerfus wrth fynd i mewn i’r tŷ crand gyda’i ffenestri bwa o boptu’r drws ffrynt. Wynebai’r tŷ y foryd a mynydd y Black Combe. Yn y lolfa sylwodd Esther fod y dodrefn yn chwaethus a lliwiau’r llenni a’r carpedi yn cyd-fynd yn berffaith. Cafodd groeso cynnes a charedig gan rieni Tom.

‘Awn i mewn i’r stafell fwyta; mae’r cinio’n barod,’ meddai mam Tom, ‘bydd cyfle am sgwrs dros ein pryd bwyd.’

Coch oedd lliw amlycaf yr ystafell fwyta: y llenni o felfed coch a charped Axminster coch, drudfawr ar y llawr. Roedd y bwrdd mawr ar ganol yr ystafell wedi’i osod yn hyfryd gyda lliain lês gwyn, a’r cyllyll a’r ffyrce a’r gwydrau grisial yn disgleirio yng ngolau’r canhwyllau a osodwyd yng nghanol y bwrdd.

‘Rydan ni wedi dyweddïo’n answyddogol, er nad ydw i ddim eto wedi gofyn am ganiatâd tad Esther i’w phriodi. A dydw i ddim wedi prynu modrwy dyweddïo iddi,’ cyhoeddodd Tom.

Doedd Esther ddim wedi clywed Tom yn sôn dim am fodrwy, ac felly roedd clywed am ei fwriad yn ei phlesio’n fawr.

Ymhen dim roedd Esther yn teimlo’n gwbl gartrefol efo teulu Tom. Roedd ei dad yn hynod o ddymunol, gyda’i lygaid glas tywyll tanbaid. Sylwodd Esther fwy nag unwaith ei fod yn edrych arni’n syn. A hithau’n eneth ddel roedd wedi hen arfer â dynion yn syllu arni’n edmygus, ond roedd edrychiad tad Tom yn wahanol rywffodd. Oedd hi’n ei atgoffa o rywun? Neu a oedd o’n trio penderfynu a wnâi hi wraig dda i’w fab?

Mentrodd Esther ofyn iddo o ble oedd o’n dod yn wreiddiol. Cochi wnaeth Dai Bennett.

‘Yma ac acw - o bobman,’ oedd ei ateb swta.

Ni ofynnodd yr un gair i Esther ynglŷn â’i bro enedigol hi, nac am ei theulu. Ac fel petai’n awyddus i droi’r sgwrs, gofynnodd a oedd hi wedi setlo yn ei gwaith newydd yn yr ysgol ac a oedd hi’n hoffi dysgu plant bach.

Wrth iddi hi a Tom godi i fynd rhoddodd ei fam ei breichiau amdani a dweud:

‘Esther, rydw i am i ti feddwl am y tŷ yma fel dy ail gartref. Mae croeso iti yma bob amser.’

Yn ystod yr haf bu'r ddau yn ymweld yn gyson â chartref Tom. Bob prynhawn Sul byddai Tom a hithau'n mynd am dro yn y wlad, a Tom yn falch o fedru dangos iddi'r manau y byddai'n chwarae ynddynt efo'i ffrindiau yn yr hen ddyddiau. Wrth orwedd ochr yn ochr yng nghysgod coeden dderw fawr roedd cyfle i drafod y dyfodol.

'I ble'r awn ni i fyw?' gofynnodd Esther.

Roedd Tom yn bendant.

'Bydd rhaid inni gael hyd i le yn Millom. Unwaith y byddwn ni wedi priodi, mi fydd raid iti roi'r gorau i ddysgu,' eglurodd Tom.

Teimlodd Esther bwl o siom. Roedd wrth ei bodd yn yr ysgol, a doedd hi ddim wedi meddwl y byddai Tom yn disgwyl iddi roi'r gorau i'w gwaith. Ar y llaw arall, os mai dyna oedd ei ddymuniad, byddai'n siŵr o gael digon i'w wneud fel gwraig tŷ.

'Yr unig beth sy'n bwysig i mi ydi cael bod hefo ti. A rhyw ddiwrnod - pwy a wŷyr? - cael cychwyn teulu,' meddai'n siriol.

Gwelodd Tom yr hapusrwydd yn serennu yn ei llygaid.

Daeth tymor yr ysgol i ben a gwyliau'r haf yn ymestyn o'u blaenau. Roedd Esther wedi penderfynu mynd adref i Gaeau Gwylltion i weld ei rhieni ac i rannu'r newyddion da.

'Mi fydda i'n rhybuddio Nhad dy fod ti am gael gair efo fo pan ddoi di i Gymru y tro nesa. Rydw i'n addo y byddai'n ôl ymhen deng niwrnod. Fedra i ddim meddwl y byddwn ar wahân am fwy na hynny,' addawodd Esther wrth iddynt ffarwelio â'i gilydd yn stesion Dalton. 'Cofia sgwennu ata i bob dydd,' galwodd drwy'r ffenestr agored wrth i'r trêen symud yn araf o'r orsaf.

'Rydw i'n addo – bob dydd,' gwaeddodd Tom uwch sŵn yr injan.

Cafodd Esther groeso gwresog pan gyrhaeddodd adre i Gaeau Gwylltion, yn gwbl groes i'r diwrnod pan adawodd ym mis Ebrill i gychwyn ar ei thaith i Dalton bell. Y diwrnod hwnnw bu Jane yn biwis ac Owen mewn hwyliau drwg. Cofiodd Esther am eiriau olaf ei mam cyn iddi gychwyn am y stesion:

'Rwy'ti'n gwneud camgymeriad mawr yn rhedeg ar ôl y gŵr ifanc yna. Mae yna ddigon o bysgod yn y môr ffor' hyn. Pam na setli di'i lawr efo Cymro ifanc? Mae gen ti ddigon o edmygwyr yma!'

'Mam, rydach chi'n gwybod yn iawn fod Tom yn fachgen hyfryd. Fydd o byth yn fy ngadael i lawr,' atebodd Esther a'i thymer yn codi.

Roedd ffrae ac awyrgylch atgas y diwrnod hwnnw wedi'u hen anghofio yng nghyffro'r croeso a'r mwynhad o'i chael yn ei hôl.

'Rwyd ti'n edrych yn dda. Mae'n amlwg fod bywyd yng ngogledd Lloegr yn dy siwtio di,' meddai Jane a dagrau o lawenydd yn cronni yn ei llygaid.

Yn y gwely y noson honno sibrydodd Jane wrth Owen:

'Efallai fod y newid wedi gwneud daioni iddi. Mae hi'n edrych yn hapus ac yn llawn bywyd. Does dim dwywaith nad ydi hi'n mwynhau ei gwaith yn yr ysgol.'

'Tydw i ddim mor siŵr. Mae gen i f'amheumon o hyd am y bachgen yna,' cwynodd Owen cyn rhoi cusan nos-da i'w wraig, a throi ar ei ochr i gysgu.

Roedd Esther wedi bod adref am bron i wythnos. Wyddai hi ddim sut i dorri'r newydd i'w rhieni ei bod hi a Tom yn bwriadu priodi ymhen blwyddyn a rhentu tŷ yn Millom.

Magodd ddigon o blwc i ddweud wrth ei mam am eu cynlluniau pan oedd y ddwy yn cerdded i lawr i'r pentref i'r siop un bore. Synnodd Esther at ymateb cynnes ei mam.

'Mi ddoi di adre i briodi yma yn y capel, wnei di?'

'Wrth gwrs y gwna i,' atebodd Esther, yn falch o fod wedi medru torri'r newydd heb unrhyw ddadlau na chwyno.

'Wel, rydw i'n edrych ymlaen at baratoi ar gyfer priodas yn yr haf. Wn i ddim pryd fyddai'r amser gorau i ddweud wrth dy dad. Dros swper heno? Mae'n iawn iddo fo gael gwybod ar unwaith, cyn inni ddechrau'n cynlluniau.'

Aeth y ddwy yn y blaenau am y pentref heb sôn dim mwy am y briodas am weddill y dydd. Gwyddai Esther y byddai torri'r newydd i'w thad yn dasg anoddach, ond roedd yn benderfynol o wneud hynny y noson honno ar ôl swper. Ar ôl y prif gwrs, trodd at ei thad ac meddai:

'Nhad, mae gen i newyddion da i chi a Mam. Mae Tom a finnau'n meddwl priodi y flwyddyn nesa. A dweud y gwir, rydan ni wedi dyweddio'n answyddogol.'

Cyn iddi fedru yngan gair ymhellach torrodd Owen Evans ar ei thraws:

'Dyweddio'n answyddogol, wir! Dydi o ddim wedi gofyn caniatâd gen i eto. Dyna ydi'r drefn arferol – i ŵr ifanc ofyn i dad y ferch am ei llaw mewn priodas. Mae hyn yn dangos sut un ydi o mewn gwirionedd. Dyweddio'n answyddogol! Gawn ni weld am hynny!'

'Ond, Nhad, rydw dros un-ar-hugain oed. Ac mae Tom yn bwriadu cael gair hefo chi pan gaiff amser i ddod yma.'

Teimlodd Esther ei thymmer yn codi.

‘Un-ar-hugain neu beidio, fe ddylai pethau gael eu gwneud yn iawn – nid rhyw drefniadau rywsut-rywsut, ffwrdd-â-hi!’

Roedd Owen erbyn hynny’n goch yn ei wyneb ac yn dechrau cynhyrfu.

‘Rydw i’n cymryd fod ei deulu o’n gwybod am y trefniadau i gyd. Sut mae nhw’n teimlo ynglŷn â’r dyweddio answyddogol bondigrybwyll ’ma?’ ychwanegodd, a thinc o goegni yn ei lais.

‘Ydyn, fel mater o ffaith, maen nhw *///* gwybod, ac yn groes i chi, maen nhw wrth eu boddau.’

‘Mae’n mynd i gymryd amser i ni arfer â’r syniad ohonot ti’n priodi ac yn symud o’ma i fyw. Mae Tom yn fachgen dymunol tu hwnt, ond be am ei deulu? Dydan ni’n gwybod dim byd amdanyn nhw,’ meddai Jane yn siriol, mewn ymgais i dawelu’r dyfroedd.

‘Wel, mae ei dad yn ddyn hyfryd, ac mae o wedi cymryd ata i’n arw. Mae ganddo swydd uchel yn y chwarel ym mhentref Kirkby in Furness. Mae’n flaenor yn y capel lleol ac yn gynghorydd plwy. Cymro ydi o, yn wreiddiol, ond dydw i ddim yn gwybod o ble.’

Dychmygodd am funud bod ei rhieni’n dechrau meirioli, ac aeth yn ei blaen ar wib:

‘Am ryw reswm, dydi o ddim yn barod iawn i sôn am ei gefndir. Mae o wedi byw yn Lloegr cyhyd, a heb fod yn siarad fawr o Gymraeg erbyn hyn.’

Roedd Esther yn ymwybodol ei bod yn siarad gormod, ond daliodd ati gan fod ei rhieni’n gwrando’n astud. Yn rhy astud, rhywsut.

‘Mae mam Tom yn ddynes smart, bob amser yn gwisgo dillad chwaethus o siop yn Ulverston. Felly, dach chi’n gweld, maen nhw’n deulu parchus iawn a phawb yn y gymdogaeth yn meddwl yn uchel ohonyn nhw.’

‘Dydw i ddim yn amau nad ydyn nhw’n bobl barchus,’ meddai Owen yn anfoddog.

Roedd yn amlwg ei fod yn dechrau meddalau.

‘Pwy ydi’r dyn yna, tybed? Bennett ydi’r cyfenw, ynte? Efallai ein bod ni’n ei nabod o.’ trodd at ei wraig. ‘Be ydi ei enw fo, Esther?’

‘Rydach chi’n gwybod yn iawn mai Bennett ydi syrnam Tom!’

Ond roedd ei thad yn ysgwyd ei ben yn rhyfedd.

Ei mam a siaradodd nesaf.

‘Dwed wrtha i, Esther, oes gan y dyn lond pen o wallt du, a llygaid glas?’

Roedd Esther yn dechrau mynd yn flin o orfod ateb yr holl gwestiynau. Dechreuodd ateb yn bigog, ond torrodd ei thad ar ei thraws gyda chwestiwn hurt.

‘Oes ganddo fan geni coch ar ei fraich chwith?’

Beth yn y byd mawr oedd yn digwydd? Sut wydden nhw am y marc coch yr oedd hi wedi ei weld ar fraich tad Tom?

Teimlai Esther ei hun yn dechrau crynu. Aeth ei cheg yn sych. Roedd e rhieni’n edrych mor od a gwelw. Roedd rhywbeth mawr o’i le.

‘Oes, mae ganddo lond pen o wallt! Ond gwyn ydi’i wallt o!’

‘Esther...’ dechreuodd ei mam.

‘Plis, dwedwch wrtha i be sy’n bod. Ydach chi’n ei nabod o?’

Nodiodd Owen Evans, gan ddweud o dan ei wynt:

‘Ifan Lloyd ydi o. Nid Mr Bennett. Twyllwr o’r radd flaena.’

Cododd ei thad ac aeth at Esther a gafael yn ei dwy law.

‘Esther, rhaid iti fod yn ddewr iawn. Mae gen i rywbeth i’w ddweud sy’n mynd i fod yn sioc iti.’

Prin y gallai Esther ddeall beth yr oedd ei thad yn ei ddweud.

‘Ydan, rydan ni yn nabod tad Tom. Roedden ni wedi amau ers dipyn.’

Edrychodd ar ei wraig. Roedd ei lais yn gryg.

‘Roedd o’n was ar fferm Coed Isaf. Un garw am y merched. A dweud y gwri, mi fu’n gariad i dy fam go iawn di - Phoebe Hughes. A phan glywodd ei bod hi’n disgwyl babi mi redodd i ffwrdd.’

Roedd Esther yn ysgwyd ei phen. Cododd ei golygon at ei thad. Beth oedd a wnelo hyn i gyd â hi?

‘Fi oedd y babi?’

Amneidiodd ei thad. Ond ei mam oedd yn siarad yn awr.

‘Wyt ti’n gweld, Esther... roedd rhai yn amau bod yr Ifan Lloyd yma wedi mynd i guddio yn rhywle yng ngogledd Lloegr. Mae’n amlwg ei fod wedi newid ei enw, rhag i neb wybod pwy oedd o.’

‘Na...!’ ebychodd Esther.

Dechreuodd y gwirionedd wawrio arni. Ni siaradodd ei rhieni am sbel, yna mentrodd ei thad ddweud yr hyn yr oedd Esther wedi brawychu rhag ei glywed.

‘Mae’n debyg iawn, weli di, dy fod ti a Tom yn frawd a chwaer.’

‘Na!’ gwaeddodd Esther. ‘Dydw i ddim yn credu gair! Rydw i’n caru Tom! Rydan ni’n bwriadu priodi!’

‘Tyrd yma, ’nghariad i,’ meddai Jane, gan geisio rhoi ei breichiau amdani.

Ysgydwodd Esther hi i ffwrdd.

‘Na, tydi hynny ddim yn wir!’

Ochneidiodd ei mam. A thrwy ei dagrau, edrychodd Esther arni.

‘Dydw i ddim yn eich credu chi! Rydw i’n eich casáu chi, y ddau ohonoch. Doeddech chi ddim am imi briodi Tom o’r cychwyn, felly rydach chi wedi gwneud y stori yma i fyny!’

Roedd Esther wedi colli arni ei hun llwyr. Cododd o’i chadair a rhedeg allan o’r ystafell fwyta gan gau y drws yn glep a charlamu i fyny’r grisiau i’w hystafell. Tafloodd ei hun ar y gwely gan bwnio’r clustogau â’i dyrnau.

Na, doedd y stori ddim yn wir! Roedden nhw wedi dweud celwydd wrthi! Roedd hi’n caru Tom ac roedd yntau’n ei charu hi. Fe fyddai hi yn ei briodi, doed a ddelo, beth bynnag a ddywedai ei thad a’i mam. Fe fydden nhw wedi teimlo bod rhywbeth o’i le petaen nhw’n frawd a chwaer!

*

Gorweddodd Esther ar y gwely am oriau. Roedd wedi cloi’r drws i’w hystafell, ac er i Jane ddod i fyny’r grisiau sawl gwaith i geisio’i chysuro, gwrthodai’n lân ag agor iddi.

‘Cerwch o’ma. Dydw i ddim eisiau’ch gweld chi!’

‘Be fedrwn ni wneud?’ gofynnodd Jane drwy ei dagrau wrth ochr Owen yn y gwely, a chlywed y beichio crio yn dod o’r ystafell nesaf atyn nhw. ‘Mae’n ein beio ni.’

Ysgydwodd Owen ei ben.

‘Rhaid inni roi amser iddi i ddygymod. Mae wedi bod yn ergyd sobor iddi. Rydw i’n teimlo i’r byw drosti, ydw’n wir.’

Ganol dydd trannoeth cytunodd Esther i ddatgloi drws ei hystafell wely a daeth Jane a chwpanaid o de cryf a melys iddi.

‘Esther fach, rydw i’n deall yn iawn dy fod wedi cael sioc. Ond rydw i am iti wybod fod dy dad a minnau yma i dy helpu.’

Nid oedd gan Esther y nerth i ateb ei mam, ond gwyddai yn ei chalon fod Jane yn ei charu ac y gallai droi ati am help.

‘Mi fasen ni wedi cael cymaint o hwyl yn paratoi ar gyfer y briodas,’ sibrydodd.

*

Dros y pum niwrnod canlynol derbyniodd Esther bedwar llythyr llawn cariad oddi wrth Tom. Plediodd arni i sgwennu ato. Beth oedd yn bod arni? Oedd hi’n sâl? Wrth iddi orwedd ar ei gwely yn darllen ei lythyr diweddaraf dywedodd wrthi’i hun yn uchel:

‘Ydw, rydw i yn sâl, yn sâl fy nghalon a’ m meddwl, yn sâl iawn!’

Doedd dim rhyfedd fod tad Tom wedi cymryd ati. Roedd cwlwm yn eu clymu. Ond sut oedd dweud wrth Tom?

‘Fedra i ddim sgwennu at Tom. Ond fedra i mo’i weld o chwaith, byth eto,’ meddai Esther pan allodd ddechrau siarad am ei gwewyr efo’i thad a’i mam.

Wedi hir drafod fe benderfynwyd y dylai Owen Evans sgwennu at Tom ac at Dai Bennett (neu’n hytrach Ifan Lloyd) i egluro’r sefyllfa.

Roedd y llythyr a ysgrifennodd at Tom yn garedig ac yn llawn cydymdeimlad, yn egluro fel yr oedd ef a Jane wedi sylweddoli fod Esther ac yntau yn hanner brawd a chwaer. Eglurodd hefyd fod Esther yn torri’i chalon yn lân, ei bod yn dal i’w garu ac nad oedd dim modd ei chysuro. Ond plediodd arno i beidio â chysylltu â hi gan y byddai hynny’n tarfu’n fwy arni. Llonydd oedd ei angen arni ar hyn o bryd i’w helpu i ddygymod. Eglurodd hefyd mai Ifan Lloyd oedd enw cywir ei dad.

Roedd y llythyr a ysgrifennodd at Ifan Lloyd yn bur wahanol ei naws. Fe’i galwodd yn llwfrgi, ac er ei fod bellach yn wŷr priod, uchel ei barch yn ei gymdogaeth, roedd ei orffennol wedi dal i fyny ag o i aflonyddu ar ei gydwybod.

Roedd Owen am iddo sylweddoli ei fod nid yn unig wedi torri calon Phoebe Hughes flynyddoedd ynghynt, ond ei fod hefyd yn gyfrifol am dorri calon ei merch, Esther. Roedd wedi byw celwydd am flynyddoedd ac wedi twyllo ei deulu.

Postiwyd y ddau lythyr a phan gyrhaeddodd y ddau i ben eu taith torrodd helynt allan na fu ei debyg.

Rhedodd Tom fel corwynt i mewn i gegin ei rieni yn Kirkby a’r llythyr yn ei law.

‘Ydi o’n wir? Ai chi ydi tad Esther?’ gwaeddodd. ‘Rydach chi wedi chwalu’n bywydau ni’n dau yn llwyr!’

Roedd ei fam yn eistedd wrth fwrdd y gegin, ei hwyneb yn welw a dagrau’n llifo’n dawel i lawr ei gruddiau. Roedd hi’n amlwg wedi cael gwybod cynnwys y llythyr a dderbyniodd ei gŵr wedi ei gyfeirio at ryw Ifan Lloyd. Cerddai hwnnw yn ôl ac ymlaen ar draws llawr y gegin yn mwmian iddo’i hun, fel pe bai’n siarad iaith ddieithr.

‘O! rydach chi wedi cofio’ch Cymraeg yn sydyn rŵan fod eich gorffennol wedi dod yn ôl i’ch poeni,’ bytheiriodd Tom. ‘Ond rydach chi mewn twll rŵan. David Bennett yn wir!’

Daliodd Ifan i gerdded yn ôl ac ymlaen ar draws y gegin gyda’i lythyr yn ei law, fel pe bai heb glywed gair o’r hyn ddywedodd Tom. Ond roedd Tom o’i go yn llwyr. Cydiodd ym mraich ei dad a gweiddi arno,

‘Rhowch gorau i’r cerdded yma ac atebwch fi. Edrychwch arna’i, ddyn, a dwedwch y gwir. Oeddech chi’n nabod y Phoebe Hughes yna? Oeddech chi’n gwybod iddi farw wrth roi genedigaeth?’

Ysgydwodd ei dad yn ffyrnig.

‘Dwedwch rywbeth wrtha’i, neno’r Tad!’

Tynnodd Ifan Lloyd ei hun yn rhydd o afael ei fab, ond roedd Tom yn gryfach na’i dad, dilynodd ef i ben pellaf y gegin fawr. Gafaelodd ynddo gerfydd ei ysgwyddau a’i wthio i lawr i eistedd ar gadair. Gan edrych i fyw ei lygaid gwaeddodd:

‘Dwedwch y gwir! Ydi Esther yn hanner chwaer imi?’

Suddodd Ifan Lloyd yn llipa yn ei gadair a chan sibrwd yn isel cyfaddefodd:

‘Oeddwn, roeddwn i yn nabod Phoebe Hughes.’

Clywodd Tom ei fam yn gollwng ochenaid ac yn dechrau wylo’n ddistaw ym mhen arall yr ystafell.

‘Mi ges i’r fath ddychryn... roedden ni’n dau mor ifanc ac mor wirion... Meddyliais, petawn i’n dianc o ogledd Cymru y gallwn gychwyn bywyd newydd. Anghofio’r gorffennol...’

Cododd ei ben i edrych ar ei wraig, ond nid oedd hi’n edrych arno.

‘Dy fam ydi’r unig un yr ydw i wedi’i charu erioed...’

Diflannodd ei lais mewn un ochenaid ddofn. Rhoddodd ei ben yn ei ddwylo a wylo’n ddirolaeth.

Doedd Tom erioed o'r blaen wedi gweld dyn yn wylo mor druenus ac am eiliad pylodd ei ddicter a theimlodd drueni dros y dyn hwn mewn oed oedd yn eistedd yn swp yn ei gadair yn beichio crio. Wedi'r cyfan, roedd wedi gweithio'n galed i roi'r gorau i'w deulu.

Gan droi at ei fam, gofynnodd Tom:

'Ydach chi'n meddwl y medrwch chi faddau iddo, Mam?'

'Mae'n mynd i gymryd amser,' sibrydodd hi trwy ei dagrau.

Safodd Tomi fyny yn syth.

'Rhaid inni beidio sibrwd gair am y peth wrth neb,' meddai ymhen munud.

Aeth saib heibio, ac meddai'n fwy cryg:

'Mae 'mreuddwydion a 'nghynlluniau i wedi eu malu'n yfflon. Fydd bywyd byth yr un peth i Esther nac i minnau.'

*

Caeodd Esther ei hun yn ei hystafell am ddyddiau yn gwrthod bwyta dim ac yn dioddef pyliau hir o grio direolaeth. Aeth i edrych fel drychiolaeth: ei hwyneb yn glaer wyn a chysgodion duon o dan ei llygaid. Cerddai'n ôl a blaen ar draws ei hystafell a gallai Jane ac Owen ei chlywed yn bloeddio bob hyn a hyn:

'Does bosib ei fod yn wir!'

Roedd y ddau yn poeni gymaint am ei chyflwr meddyliol fel yr awgrymodd Owen y dylid galw'r meddyg i gael golwg arni.

'Hwyrach y medrai o roi ryw fffisig iti fyddai o help,' awgrymodd Jane ryw fore ac Esther yn gorwedd yn ei gwely'n syllu ar y nenfwd.

Tynnodd Esther y dillad gwely dros ei phen gan ddweud yn swta,

'Dydw i ddim isio'r un meddyg ar fy nghyfyl i, ydach chi'n clywed? Mae angen rhywbeth mwy na thonig arna'i. Mae mywyd i drosodd.'

'Mae hynna'n beth creulon iawn i'w ddweud, Esther,' atebodd Jane yn chwyrn gan gau drws y stafell wely'n glep.

Beth oedden nhw i'w wneud? Roedd mis wedi mynd heibio ac Esther yn dal yn ddigalon ac mor enbyd o bigog efo nhw i gyd. Roedd wedi peidio gofalu amdani'i hun ac wedi mynd i edrych yn flêr. Yn achlysurol byddai'n diflannu o'r tŷ am oriau heb i neb wybod i ble roedd hi wedi mynd. Roedd Jane ac Owen ar ben eu tennyn, heb wybod be i neud nac at bwy i droi.

Un bore aeth Jane i lawr i siop y pentref a digwydd taro ar Mari Ifans. Roedd Mari'n adnabyddus drwy'r ardal am ei meddyginiaethau llyseuol. Byddai llawer iawn o'r pentrefwyr yn troi ati am gyngor pan fyddai gwahanol afiechydon yn eu blino.

'Rydw i'n clywed fod Esther acw yn y felan,' mentrodd Mari.

'Mae hi wedi torri ei chalon,' meddai Jane.

'Y peth gorau ar gyfer cyflwr fel yna ydi eurinllys. St John's Wort mae'r Saeson yn ei alw fo,' meddai Mari. Blodyn bach melyn. Sychwch y blodau a gwneud diod o de efo nhw. Rhaid iddi yfed hanner cwpaned deirgwaith y dydd.'

'Mae'n werth ei drïo,' cytunodd Jane.

Wedi iddi orffen ei siopa galwodd Jane ym mwythyn Mari Ifans yn Rhes y Capel a chael cyflenwad mis o eurinllys.

Gwrthododd Esther yr awgrym ar ei ben.

'Hen wrach ydi'r Mari Ifans yna. Yr unig beth fedr fy ngwella i ydi cael Tom yn ôl!'

Gwelodd Jane nad oedd unrhyw ddiben dadlau â hi. Byddai'n rhaid iddi fod yn amyneddgar a rhoi amser iddi ddod at ei choed. Ond roedd hi ac Owen yn mynd yn fwyfwy pryderus amdani.

Aeth wythnosau heibio, ond un bore cerddodd Jane i mewn i'r gegin a gweld fod Esther yn sipian cwpanaid o de.

'Oes rywfaint ar ôl yn y tebot?' gofynnodd yn siriol.

'Te Mari Ifans ydi o, Mam,' meddai Esther yn dawel. 'Rydw wedi bod yn cymryd peth ers pythefnos.'

Aeth Jane at ei merch a'i dal yn ei breichiau. Edrychodd y ddwy ar ei gilydd.

'Fe fydd dy dad mor falch,' wylodd Jane.

'Mae'r cwmwl wedi dechrau codi,' meddai Esther yn dawel. 'Ond rydw i yn teimlo'n ddig, efo pawb - gan gynnwys fi fy hun. Rydw i wedi bod mor greulon. Gobeithio y medrwch chi'ch dau faddau imi.'

Roedd Esther erbyn hynny'n foddfa o ddagrau.

'Mae'r gorffennol wedi pasio,' meddai Jane a'i theimlad o ryddhad yn amlwg yn ei hwyneb.

Aeth rhai misoedd heibio cyn i Esther deimlo ei bod yn goresgyn yr ysgytwad oedd wedi chwalu ei gobeithion ac wedi'i chlwyfo mor ddwfn. Ni allai byth anghofio Tom Bennett. Ond er iddo anfon dwsinau o lythyrau iddi gan erfyn arni i ysgrifennu'n ôl ato, ac iddi ei ystyried fel ffrind o leiaf, ni atebodd Esther gyda'r un gair. Os oedd rhyw fath o gwllwm yn eu clymu, roedd bellach yn rhy boenus o greulon i'w arddel.

Ym mis Ionawr 1900 cafodd Esther gynnig swydd fel athrawes gynorthwyol yn Ysgol yr Eglwys ym mhentref Chwitffordd. Cymerodd ofal am ddsbarth o blant pump a chwech oed. Plant o'r ffermydd cyfagos, yn llawn bywyd ac yn bleser pur i'w dysgu.

'Wel, sut mae pethau'n mynd yn Ysgol Chwitffordd,' gofynnodd Beth Lewis, hen ffrind iddi ers dyddiau ysgol, yn siop y pentref rhyw fore Sadwrn. 'Wyt ti'n mwynhau dysgu'r plant? Mae pawb yn falch o dy gael di'n ôl yn yr ardal.'

'Ydw, rydw i yn falch o fod yn ôl adre,' atebodd Esther. 'Mae pawb mor garedig ac mor gefnogol - rydw i hyd yn oed yn cael fy nghario mewn trap i Chwitffordd ac yn ôl bob dydd gan Mr Parry, athro'r plant hyn.'

*

Roedd dwy flynedd wedi mynd heibio. Ei mam oedd yn iawn wedi'r cwbl. Roedd Esther wedi gallu symud ymlaen, diolch i gefnogaeth ei rhieni a'i chyfeillion. A bellach, roedd rhywun newydd yn ei bywyd, a'r gorffennol yn ddim ond breuddwyd i'w anghofio.

'Wyt ti'n hapus cariad'? holodd ei chariad newydd wrth ddal Esther yn ei freichiau a syllu'n ddwfn i'w llygaid.

'Ydw.'

Mwythodd Esther dalcen Isaac, a rhedeg ei bys at ei wallt cyrliog trwchus.

Roeddynt wedi priodi yng Nghapel Bethel gyda llond gwlad o berthnasau a ffrindiau yn bresennol. Cafwyd y neithior mewn pabell fawr ar lawnt Caeau Gwyltton. Roedd pawb mewn hwyliau ardderchog ac Esther yn edrych yn bictiwr mewn gwisg o sidan gwyn, het fawr flodeuog o'r un defnydd, â thusw o rosynnau lliw pinc a hufen yn ei llaw.

Trwy ddamwain y bu iddynt gyfarfod yn Nhreffynnon un prynhawn Sadwrn gwlyb. Pan welodd hi Isaac yr ochr arall i'r stryd fe synnodd Esther pa mor falch oedd hi o'i weld unwaith eto. Yn fuan, sylweddolodd Esther mor ffyddlon a dibynadwy yr

oedd Isaac. Roedd hi'n hapus iawn yn ei gwmmi, a phan ddaeth y cwestiwn mawr, heb oedi dim addawodd Esther ddod yn wraig iddo.

Am fisoedd wedi hynny bu Esther yn holi ei hun beth yn union oedd hi wedi ei weld yn y Tom Bennett yna. Isaac oedd ei dyfodol hi bellach. Isaac, ei theulu a'i ffrindiau. Roedd y cwlwm creulon - a fu'n ei dal mor dynn cyhyd - o'r diwedd yn graddol ymddatod.

TRAFODAETH AR Y BROSES O YSGRIFENNU'R DDWY NOFEL

Ddoe a Heddiw'n Un

CRYNODEB

Dyma nofel sy'n olrhain hanes boddi dyffryn Efyrnwy ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae cefndir y stori yn ffeithiol wir, ond erbyn heddiw mae hanes y digwyddiad wedi mynd yn angof, i bob pwrpas, gan Gymry'r unfed ganrif ar hugain. Yn wir, gellir dweud i drigolion yr hen Lanwddyn gael eu hanwybyddu i raddau helaeth gan bobl Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg hefyd, a hynny pan oeddynt yng nghanol eu gwewyr. Does fawr o dystiolaeth i gadarnhau bod unrhyw wrthdystiad na dadlau ar lefel genedlaethol wedi digwydd yn gwrthwynebu'r hyn oedd yn mynd ymlaen yng nghanolbarth Cymru. Pwrpas y nofel, felly, yw cywiro hyn trwy archwilio profiadau rhai o drigolion yr hen Lanwddyn ar y pryd, a thrwy gymeriad Meira daw'r gwewyr yn fyw eto i Gymraes ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Mae'r stori yn symud rhwng y presennol a'r gorffennol, sef rhwng yr unfed ganrif a'r hugain a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hynny trwy fywydau dychmygol y prif gymeriadau. Mae Meira Owen yn byw yn Lerpwl yn y presennol, ac mae Ann Elis yn byw yn yr hen Lan yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma ddau brif gymeriad y nofel.

O safbwynt Meira, mae hi'n briod â Wil, ac maent yn gweithio yn ninas Lerpwl. Mae'r naill yn dal swydd bwysig yn un o fanciau'r ddinas a'r llall yn bennaeth ar un o ysgolion cynradd Lerpwl. Ar ddechrau'r nofel mae anghydfod rhwng y ddau. Y maent yn ystyried dyfodol eu priodas, ac fel canlyniad i ffræ chwerw, mae Wil, sydd wedi cynhyrfu, yn neidio i'w gar ac yn cael damwain angheuol ar ei ffordd i'r gwaith. Mae Meira, tra'n dioddef o effeithiau'r brofedigaeth ac o euogrwydd hefyd, yn penderfynu treulio penwythnos yng ngwesty'r 'Lake' Llanwddyn a hynny oherwydd fod Wil yn enedigol o'r pentref a'u bod wedi treulio amser hapus yno yn ystod deng mlynedd o fywyd priodasol. Mae'r ymweliad hwn yn dyngedfennol yn hanes Meira: dyma pryd y daw yn 'ymwybodol' o gymeriad Ann Elis sydd hefyd wedi colli ei gŵr. Datblygir cysylltiad rhwng y ddwy o fewn y nofel ar sail eu profiadau cyffredin.

Sylfaen y cysylltiad arbennig rhwng Meira ac Ann yw'r hanesion a glywodd Meira gan Wil am ei gyn-deidiau a oedd yn byw yn yr hen Lan. Trwy'r hanesion hyn down i adnabod Ann Elis, ei gŵr, Twm, a'u teulu lluosog. Mae brawd Twm, Ned, sy'n ddi-briod, yn byw gyda'i fam yn ymyl Twm ac Ann yn Fishing Street yn yr hen Lan. Fel ym mywyd Meira, mae trychineb yn digwydd yn hanes Ann. Un diwrnod gaeafol yn nyffryn Efyrynwy mae Twm yn cael ei ladd o ganlyniad i ddamwain erchyll. Saer maen ydy Twm, ac mae'n mynd i Blas Eunant, plasty cyfagos, i adeiladu corlan ym mhen pellaf un o'r caeau. Ned ei frawd sy'n dod o hyd i'w gorff o dan luwch o eira. Mae Ned yn torri ei galon ac ni ellir ei gysuro. Mae Ann hefyd yn hollol ddigysur. Oherwydd hyn mae'r babi y mae hi'n ei ddisgwyl yn cael ei eni'n gynnar ac yna'n marw ymhen ychydig ddyddiau.

Cam pellach yn y cysylltiad rhwng Meira ac Ann yw bod y ddwy yn ailbriodi ac yn dioddef cyfyng-gyngor moesol ac emosiynol oherwydd hynny. Bwriad Meira tra bo hi ar ei hymweliad â Llanwddyn yw gwneud trefniadau gyda'r Person i chwalo llwch Wil ar lan Llyn Efyrynwy gyferbyn â'r fan lle bu'r hen Lan. Tra bo hi'n aros yn y gwesty mae hi'n cyfarfod â Dafydd sydd yno ar ran Prifysgol Caerdydd yn ymchwilio i hanes boddi'r dyffryn. Daw'n amlwg bod yna atyniad rhwng y ddau ac mae'r cyfarfyddiad yn newid byd y ddau am byth. Cawn fod perthynas Meira a Dafydd hefyd yn datblygu, ac nid yw Dafydd yn poeni am y ffaith fod Meira yn disgwyl babi Wil.

Yn yr hen Lan mae Ann yn ffurfio perthynas glòs gyda'i brawd yng nghyfraith, Ned. Nid yw pob un o'i theulu yn hapus am hyn, yn enwedig Jo, ei mab hynaf. Cefndir helynt Ann yw cynlluniau Lerpwl i adeiladu argae fawr a boddi'r dyffryn. Mae Jo wedi ei apwyntio ei hun yn brif ysbïwr ar yr hyn sy'n digwydd. Fodd bynnag, mae pethau'n mynd o ddrwg i waeth yn yr hen Lan pan yw Ned ac Ann yn gorfod priodi, a Jo yn gwrthwynebu'n ffyrnig. Mae gan Ann hefyd ei hamheumon. A ddylai hi fod yn priodi ei brawd yng nghyfraith mor fuan wedi marwolaeth ei gŵr? Mae helyntion mawr yn y capel, a sibrwd o fewn y gymdogaeth. Mae Jo yn penderfynu ymfudo i America oherwydd ei fod mor anhapus, ond mae profedigaeth lem arall, o golli ei frawd Tomos bach o'r diptheria, sy'n mynd trwy'r dyffryn fel tân gwyllt, yn golygu fod rhaid iddo ohirio mynd dramor am gyfnod o amser.

Yn rhan ganol y nofel, mae bywyd Meira yn Lerpwl yr unfed ganrif ar hugain, yn brysur. Gwelwn fod Dafydd wedi dod yn rhan bwysig iawn o'i bywyd, yn ogystal

â'i baban, Wil bach, sydd wedi cipio ei chalon. Fel Ann, mae ei pherthynas â Dafydd yn codi amheumon mawr yn ei meddwl. Ydi hi'n bosib caru dau berson, sef Wil ei phriod a oedd wedi ei ladd, a Dafydd, ei chariad newydd? Fodd bynnag, fel yn hanes Ann, mae ei hawydd i gael cartref sefydlog, yn ogystal â thad a mam i Wil bach, yn goresgyn ei phryderon.

Effaith Lerpwl ar fywydau'r ddwy

Yn nyffryn Efyrynwy gwelwn fod awdurdodau Lerpwl wedi cwblhau eu cynlluniau. Mae'r argae fawr wedi ei hadeiladu. Mae'r dŵr wedi cronni ac mae'r pentrefwyr o'r hen Lan wedi colli'r cwbl. Mae symud i bentref newydd Llanwddyn yng nghysgod yr argae fawr yn drawma i bentrefwyr yr hen Lan. Ond rai misoedd wedi'r mudo, gwelwyd rhyw gymaint o oleuni yn ymdreiddio i'w bywydau. Mae babi arall i'w ddisgwyl ar aelwyd Ned ac Ann yn eu cartref newydd yng Nglyndu, Llanwddyn.

Mae Meira a Dafydd hwythau yn penderfynu bod angen wynebu'r dyfodol gyda hyder. Rhaid symud i ffwrdd o gysgod Lerpwl a effeithiodd gymaint ar y presennol a'r gorffennol. Yng Nghymru y bydd eu plentyn bach yn cael ei eni. Rhaid ysgwyd llwch Lerpwl oddi ar eu traed. Rhaid newid cyfeiriad, newid byd. Nid yw Lerpwl yn bwysig rhagor.

DEHONGLI'R NOFEL

Perthynas yr hanesyddol a'r cyfoes

Y rheswm i mi ddewis adrodd hanes dau gwpl – y naill yn Lerpwl yn yr unfed ganrif ar hugain a'r llall yn Llanwddyn, Sir Drefaldwyn, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg – oedd er mwyn dangos bod profiadau dynol yn eu hanfod yr un fath beth bynnag fo'r amgylchiadau.

Colled a phrofedigaeth sy'n dod i ran Ann a Meira fel ei gilydd, y ddwy yn colli eu priod trwy ddamwain. Yr un yw'r torcalon. Yr un yw'r dryswch a'r benbleth, ac yn y diwedd mae'r naill fel y llall yn gweld goleuni yn treiddio i'w tywyllwch. Rheswm arall imi osod y stori yn erbyn cefndir boddi dyffryn Efyrynwy yw fod boddi'r dyffryn, dinistrio'r pentref, chwalu'r gymuned a'r holl golledion o ran iaith, diwylliant a chrefydd y fro, nid yn unig yn gefndir i hanes Ann ond hefyd yn cyferbynnu colli etifeddiaeth ac ardal â cholledion personol dwfn. Y mae cysgod yr

argae a'r llyn yn cronni a boddi'r hen Lan yn symbol o'r cysgodion a phrofiadau bywyd, a'r modd y mae cynlluniau a gobeithion yn cael eu boddi gan amgylchiadau tu hwnt i'w rheolaeth. Mae hyn yn wir hefyd yn hanes Meira, ac mae dinas Lerpwl ei hun yn chwarae rhan bwysig ym mywydau'r ddwy ohonynt, ond mewn ffyrdd gwahanol.

Roedd cynlluniau Meira am fywyd esmwyth braf gyda Wil yn hollol wahanol i'r hyn ddigwyddodd ac i'r hyn yr oedd hi'n ei obeithio. Gellir hawlio fod dinas Lerpwl yn gymeriad ynddo'i hun yn y nofel. Yng nghyfnod Ann Elis mae grym awdurdod, pwerau ac arian y ddinas yn goddiweddyd bywydau pobl dlawd, ddi-lais a diymadferth. Yn hanes Meira mae'r ddinas yn golygu cyfnod o gydfyw hapus gyda Wil, ond mae hyn yn troi yn ddiflastod wedi iddo gael ei ladd yn y ddinas honno. Wedi iddi briodi Dafydd mae Cymru yn galw unwaith eto.

Yn ei lyfr, *How to Write a Novel*, mae John Braine yn dweud ei bod yn briodol weithiau i gymeriadau ymweld â'r gorffennol: 'It is absolutely legitimate for your characters to remember what happened in the past.'¹ Wrth gwrs, sôn am brofiadau personol y cymeriadau y mae Braine. Fodd bynnag, gellir dadlau bod y gorffennol yn gallu effeithio ar y presennol a dyna pam, yn y nofel hon, y mae merch o'r unfed ganrif ar hugain yn cael ei heffeithio gan ddigwyddiadau'r gorffennol ac yn gallu cydymdeimlo â phrofiadau merch o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cwyd hyn y cwestiwn i ba raddau y mae cynnwys ac ansawdd bywyd y ddau brif gymeriad yn cael ei effeithio a'i reoli gan ffactorau y tu hwnt iddynt hwy.

Ystyriaeth arall yn hanes y ddwy a'u teuluoedd yw fod y ddwy, er gwaethaf yr amgylchiadau, ac er y gwrthwynebiad personol yn achos Ann, yn llwyddo i ddod drwy'r profiadau anodd ac i weld gobaith i'r dyfodol. Mae Ann yn priodi Ned, yn creu teulu newydd ac yn symud i bentref newydd. Yn achos Meira, mae hi'n priodi Dafydd, yn cychwyn teulu newydd ac yn cynllunio symud o Lerpwl i Gymru. Felly, er gwaethaf y llyn, yr argae a chysgod dinas Lerpwl, mae'r ysbryd dynol yn codi eto ac mae fflam gobaith yn gwrthod cael ei diffodd.

Cymhlethdodau cariad dynol

¹ John Braine, *How to Write a Novel* (Methuen, 2000), 58.

Er bod y nofel hon yn delio â cholledion personol a chymdeithasol, a'r rheiny wedi eu gwreiddio mewn digwyddiadau hanesyddol a phenodol, sef boddi dyffryn Efyrynwy, y mae yma gariad hefyd. Ceisiwyd mynd i'r afael â nifer o gwestiynau dyrys ynglŷn â natur cariad.

- A oes modd caru dau berson yr un pryd: un wedi marw ar llall wedi dod i'r amlwg or newydd?
- Sut mae delio ag atgofion o'r gorffennol?
- A oes angen gollwng gafael ar y gorffennol?
- A oes lle i gymharu yr hyn a fu â'r hyn sy'n datblygu yn y presennol?
- A oes modd caru person arall heb deimlo pigiad cydwybod ynglŷn â'r cariad cyntaf?
- I ba raddau y mae'r berthynas yn dderbyniol neu yn waharddedig gan gymdeithas?

Mewn ateb i'r cwestiynau hyn mae'n amlwg yn y nofel bod cariad at yr un a gollwyd yn parhau. Mae'r teimladau cryf sy'n datblygu at y person arall ym mywydau Ann a Meira yn ychwanegu at y cariad cyntaf, heb gymryd ei le. Nid yw'n bosib yn hanes yr un o'r ddwy i anghofio'r teimladau a'r emosiynau cryf am Twm a Wil. Bydd y rheini'n parhau am byth. Mae'r ddwy fel ei gilydd yn troedio llwybr newydd yn eu perthynas â Ned a Dafydd. Rhaid byw i'r dydd heb anghofio'r gorffennol. Mae'n nhw'n gyplau newydd, ac yn bobl wahanol wedi iddynt fod trwy brofiadau erchyll. Er i'r ddwy fel ei gilydd ar y dechrau gael yr un teimladau o fradychu eu gwŷr oedd wedi eu lladd, nid ydynt yn cymharu eu perthynas newydd â'r un a fu. Mae'r ddwy, er yn byw mewn cyfnod o amser ac mewn ardaloedd cwbl wahanol, yn synnu eu bod yn dod i garu person arall mor angerddol ac mewn byr amser.

Yn y nofel mae yna ymgais i fynd i'r afael â theimladau dwys a dyrys ond real iawn, ac i archwilio cwestiynau nad oes ateb iddynt ond oddi mewn i ferw'r teimladau a'r profiadau dirfodol hynny. Mae'r nofel yn ymgais i fynd o dan groen profiadau'r ddau brif gymeriad, Ann a Meira. Mae'r ddwy'n sylfaenol debyg er bod eu hamgylchiadau mor wahanol.

Mae Ann yn wynebu anawsterau mawr wrth i'w pherthynas hi â Ned dyfu ac aeddfedu. Yn naturiol, y mae un o'i phlant yn gwrthwynebu. Fe all hyn ddigwydd mewn unrhyw oes. Mae Jo, mab hynaf Ann, yn ystyried ei pherthynas â'i ewyrth yn frad am i Ned gyfaddef iddo garu Ann ers blynyddoedd pan oedd Twm yn fyw. Ond i Ned y mae hyn yn profi bod ei gariad at Ann yn real a diffuant.

Cwestiwn perthnasol sy'n codi o hyn yw faint o amser y dylid ei ganiatáu rhwng i Ann gollu ei phriod Twm ac ail briodi gyda Ned. I rai o bobl y capel roedd y syniad o briodi brawd yng nghyfraith yn wrthun yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hyn oherwydd gwaharddiad yn yr Hen Destament yn Llyfr Lefiticus. Yn ogystal â hyn, yn hanes Ann mae hi'n beichiogi gyda phlentyn Ned cyn ei briodi. Ystyriwyd hyn hefyd yn bechod mawr ac fe arweiniodd at ei diarddel o'r seiat. Yn ein cymdeithas gyfoes y mae bron pob un o'r ystyriaethau yma bellach yn amherthnasol. Eto, mae'r cyfyng-gyngor moesol yn debyg. Yn hanes Meira mae hi'n poeni ei bod yn bradychu Wil. Mae yn ei holi ei hun a yw'n normal caru dyn arall mor fuan wedi i'r cariad cyntaf gael ei ladd. Mae ei chwaer Margied hefyd, o glywed ei bod hi a Dafydd yn cynllunio priodi, yn holi a yw hi'n berffaith sicr o'i phenderfyniad. Yn hanes Ann a Meira, rhaid ystyried hefyd a yw syrthio mewn cariad yr ail waith yn dilyn yr un patrwm a'r un llwybr yn hanes dau berson aeddfed sydd eisoes â phrofiad o gariad a phriodas ers nifer o flynyddoedd? A yw'n debyg i brofiadau dau ifanc yn eu harddegau neu eu hugeiniau, dyweder? Ai yr un yw'r teimladau, yr emosiwn, yr angerdd a'r nwydau? Gellid hawlio bod cariad rhwng dau berson hŷn yn fwy aeddfed ac yn cyfarfod â'u hanghenion a'u dyheadau. Y mae'n amlwg nad yw cariad Meira a Dafydd ar y naill law, ac Ann a Ned ar y llaw arall, fymryn yn llai angerddol ac emosiynol na'u perthynas o fewn eu priodasau cyntaf.

Yn achos y ddwy berthynas ceir rhyw tu allan i briodas. Mae Ann a Ned yn cael eu dal gan Jo yn caru yn y gwely yng nghartref Ned. Er nad yw rhyw yn cael ei ganiatáu oherwydd beichiogrwydd Meira pan mae Dafydd yn ymweld â hi yn Lerpwl yn ystod misoedd cyntaf eu carwriaeth, mae'n amlwg eu bod yn byw fel 'gŵr a gwraig' wedi i Wil bach gael ei eni a chyn iddynt briodi. Yn achos Ann a Ned, does dim cwestiwn nad yw'r weithred yn cael ei hystyried yn anfoesol gan gymdeithas y capel. Fodd bynnag, erbyn cyfnod Meira a Dafydd nid oes condemniad o'u perthynas rywiol hwy, na'r ffaith eu bod yn cyd-fyw cyn priodi.

Yng nghyfnod Ann a Ned, y gwir creulon oedd fod merch yn cael ei disgyblu a'i diarddel o'r capel. Mae Ned yn gynddeiriog yn y cyfarfod yn y capel pan basiwyd i ddiarddel Ann. Mae'n troi at y Parchedig Puw, y gweinidog, ac yn dweud: "Rwy'ti'n edrych ar y brycheuyn yn llygad dy frawd heb weld y trawst yn dy lygad dy hun, barchus Weinidog!" Y mae'r sôn am ddiarddel rhai o'r capel am y pechod o feichiogi cyn priodi yn dangos pa mor gryf oedd teimladau pobl ar y mater yn y cyfnod hwnnw. Yn ei llyfr *Arferion Caru*, dywed Catrin Stevens, 'Dull arall a ddefnyddiai'r

diwygwyr oedd trwy ddiarddel y troseddwr o'r capel.² Yn ei lyfr ar hanes yr achos yn Nhŵr Gwyn, Bangor, mae Ambrose Bebb yntau yn cyfeirio at yr arferiad o ddiarddel am bechodau: 'Dyna ydyw ystyr y geiriau drwg eu blas - diarddel, disgyblu, gwrthgilio - a welir yn rhy fynych ar ei llyfrau.'³

Yn *Hanes Methodistiaeth Liverpool* gan John Hughes Morris cawn hanes Pegi Jones yn y seiat pan gafodd ei diarddel am 'gynnwys merched athroddgar yn ei thŷ', ond un enghraifft ymhlith nifer oedd Pegi. Mae Hughes Morris yn llawn o enghreifftiau o ddynion a merched yn cael eu diarddel, gan gynnwys neb llai na Pedr Fardd a gafodd ei dorri allan oherwydd ei hoffter o sgwrsio gyda merched ifanc y capel: 'Rhodio yn rhy agos i dir y cnawd – a chellwair gyda merched'.⁴

Gwyddom hefyd erbyn hyn am yr arferiad o 'garu yn y gwely' lawer blwyddyn yn ôl wedi i'r bachgen ifanc ddod i 'gnocio'. Os byddai'r ferch yn beichiogi, yna roedd yn ofynnol iddynt briodi cyn iddi ddechrau 'dangos', er mwyn cadw at ofynion parchusrwydd yr oes. Roedd rhai, wrth gwrs, yn llwyddo i gadw'r gyfrinach eu bod yn feichiog, a phan aned babi, yna roedd rhaid dweud mai genedigaeth gynnar oedd hi. Y cwestiwn sy'n codi o hyn oll yw pa agwedd sydd fwyaf anfoesol mewn gwirionedd? Ai agwedd ragrithiol oes Fictoria ynteu agwedd fwy agored yr oes fodern?

Cofiw'n fod Comisiynwyr 1847 wedi hawlio bod Cymru yn wlad arbennig o anfoesol, fel y nododd yr hanesydd John Davies: 'Cafwyd gan y rheini yr argraff fod y Cymry'n unigryw o ran anfoesoldeb.'⁵ Roedd elfennau yn y gymdeithas Gymreig, felly, yn ceisio brwydro yn erbyn y cyhuddiadau hynny. Wrth godi'r cwestiwn ynglŷn ag agweddau ar foesoldeb yng Nghymru'r cyfnod, dywed Russell Davies: 'If sex was an obsession which the Victorians sought to keep quiet, their obsession with statistics was made public.'⁶ Roedd rhai o Gymry oes Fictoria yn amlwg yn ceisio profi nad oedd yr hyn a gafwyd yn adroddiad Comisiynwyr 1847 yn wir, a cheisient ddefnyddio ystadegau i gadarnhau bod Cymru'n fwy moesol na Lloegr.

² Catrin Stevens, *Arferion Caru* (Gomer, 1977), 61.

³ W. Ambrose Bebb, *Canrif o Hanes y Tŵr Gwyn* (dim dyddiad nac enw cyhoeddwr), 201.

⁴ Daw'r ddau ddyfyniad o J. Hughes Morris, *Hanes Methodistiaeth Liverpool* (Hughes a'i Feibion, 1929) 92.

⁵ John Davies, *Hanes Cymru* (Penguin, 1990), 377.

⁶ Russell Davies, *Secret Sins: Sex, Violence and Society in Carmarthenshire 1870 – 1920* (University of Wales Press, 2012), 61.

Safle'r ferch mewn cymdeithas

Er bod Ann a Meira yn rhannu profiadau tebyg o golled, galar a syrthio mewn cariad yr ail waith yn o fuan wedi eu profedigaethau, mae'r ddwy yn perthyn i ddau gyfnod cwbl wahanol. Merch o'r unfed ganrif a'r hugain yw Meira. Mae hi'n dal swydd gyfrifol fel prifathrawes ysgol gynradd yn Lerpwl, yn annibynnol i raddau helaeth o ran ei statws a'i barn ac yn gyfforddus ei byd. Cafodd addysg Brifysgol a chyfle i deithio'r byd ac ennill profiad mewn gwahanol ysgolion cyn ysgwyddo cyfrifoldeb pennaeth ysgol fawr yn y ddinas. Wedi ei geni a'i magu a'r lannau Dyfrdwy mewn ardal boblog, ddiwydiannol ond ar aelwyd Gymraeg, a hynny pan oedd y rhan fwyaf o'i chyfoedion yn Saeson, golygai hyn ei bod yn gwbl rugl yn y ddwy iaith. Cafodd ei magu yn y 'pethe'. Roedd mynychu'r capel yn rhan o'i bywyd, ond cefnu yn raddol ar gapel a chrefydd fu ei hanes hi a'i phriod wrth iddynt ddod ymlaen yn y byd ac ymgartrefu mewn dinas fawr Seisnig.

Yn y brifysgol y cyfarfu hi â Wil, ei gŵr, a oedd wedi ei fagu yng nghefn gwlad Maldwyn. Roedd yntau wedi dringo yn ei faes ac yn dal swydd gyfrifol yn un o fanciau Lerpwl. Mae'r ddau yn mwynhau safon byw uchel, yn berchen car bob un, ac yn gyfartal o ran eu safleoedd. Mae hyn yn peri rhyw gymaint o dyndra gan fod Wil yn awyddus i gychwyn teulu, ond mae Meira fel merch fodern yn penderfynu drosti ei hun fod ei gyrfa yn fwy pwysig, ac mai rhywbeth i'r dyfodol oedd magu plant. Mae marwolaeth Wil, yn dilyn ffræ rhwng y ddau ar gwestiwn cychwyn teulu, yn chwalo bywyd Meira'n deilchion. Nid yw swydd na safle na chyfoeth yn gallu cymryd lle Wil y mae hi wedi ei garu a'i gollu. Ar ben hynny, mae hi'n beio'i hun am y ddamwain ac am ei hunanoldeb yn gwrthod dymuniad ei gŵr i gael plant. Mae'r brofedigaeth yn dangos pa mor frau ac annigonol yw bywyd dinesig esmwyth.

Mewn cyferbyniad i Meira, y ferch fodern, soffistigedig, seciwlar, dda ei byd, y mae Ann yn perthyn i oes gwbl wahanol pan yw safle'r ferch yn isel a di-freintiedig. Y mae'n cychwyn ei gyrfa fel morwyn fach mewn plasty cyfagos wedi'r nesaf peth i ddim o addysg ffurfiol. Pan yw'n estyn am gopi o *Faner ac Amserau Cymru* a gafodd gan y person plwyf, mae'n gofyn i'w merch hynaf ddarllen yr erthygl iddi gan nad oedd ganddi 'grap ar y llythrennau.'

Saer maen yw ei gŵr, Twm, ond nid yw yntau chwaith wedi cael fawr o ysgol. Yn ffair y Bala mae'r ddau yn cyfarfod ac mae Twm yn gofyn iddi am gael dod i 'gnocio'. Y canlyniad yw i Ann fynd yn feichiog a hithau ond yn ddwy ar bymtheg oed. Mae hyn yn golygu gorfod priodi cyn i Ann ddangos. Roedd yr arferiad o

‘gnocio’ yn dderbyniol ac fel y dywed Russell Davies: ‘The male inhabitants of rural Britain, because of the long hours of work involved in farming, developed the habit of courting late at night.’⁷

Yr arferiad oedd bod y llanc ifanc yn taflu cerrig mân at ffenestr y forwyn er mwyn gadael iddi wybod ei fod yno. Byddai hi yn ei ddisgwyl ac yn ei adael i mewn i gael sgwrs. Yn fwy aml na dim, roedd yna gyfle am gyfathrach rhywiol. Dywed Catrin Stevens: ‘Geneth anonest felly, oedd yr un a arferai’r hen ddull o dderbyn ei chariad ati i garu ar y gwely.’⁸ Ond yn yr oes honno roedd safonau o fewn cymdeithas yn amrywio, a’r merched gan amlaf yn cael eu beio am gamarwain y llanciau ifanc. Fel y dywed Russell Davies: ‘This double standard, whilst stressing the importance of sexual restraint for girls and young women, allowed young men the freedom of their senses.’⁹

Bwthyn bach ar rent yn Fishing Street, Llanwddyn, yw eu cartref ac yno y magwyd eu teulu lluosog. Roedd arian yn brin iawn a chael dau ben llinyn ynghyd yn broblem wythnosol. Ned y saer, brawd Twm, sy’n gwneud y dodrefn ar gyfer eu cartref gyda Twm yn ei gynorthwyo.

Pan ddaeth awdurdodau dinas Lerpwl i’r dyffryn a phan glywodd Twm, Ann a’r gweddill o’r pentrefwyr am y cynlluniau i foddï’r dyffryn, roeddent mewn penbleth llwyr ac yn methu dirnad beth yn union oedd ar fin digwydd i’w byd cyfyng, diogel.

Gwelwn fod marwolaeth sydyn Twm trwy ddamwain yn taflu Ann druan i sefyllfa o anobaith a thlodi, a hynny mewn oes pan nad oedd budd-dal na chymorth ar gael. Yr ofn mawr y dyddiau hynny oedd gorfod dibynnu ar y plwyf. Oni bai am gymorth Ned, ei brawd yng nghyfraith, byddai’r teulu mewn sefyllfa druenus. Fodd bynnag, gwelwn fod gan Ned resymau personol arbennig dros ddod i’r adwy.

Y mae’r hyn sy’n digwydd yn y dyffryn – adeiladu’r argae fawr, bygwth cronni’r dŵr o’r afonydd lleol, boddi’r dyffryn ac ymadawiad Jo, y mab hynaf, i America – yn creu dryswch a thrallod i Ann.

Ceir darlun o gymdogaeth yn cael ei chwalu heb neb o ddifrif yn gwrthdystio nac ychwaith yn cefnogi’r pentrefwyr. Gan mai cymdeithas batriarchaidd oedd hi, roedd y merched hyd yn oed yn llai tebygol o wrthdystio na’r dynion. Ffigwr trist,

⁷ Ibid., 165.

⁸ *Arferion Caru*, 57.

⁹ *Secret Sins: Sex, Violence and Society in Carmarthenshire 1870 – 1920*, 160.

mewn dyffryn o dan fygythiad, yw Ann, a'r un sy'n dwyn unrhyw obaith a llawenydd iddi yw Ned sydd wedi bod mewn cariad â hi ers blynyddoedd. Nid yw ei pherthynas newydd, fodd bynnag, heb ei chymhlethodau. Gwelwn gulni eithriadol yr oes yn y ffaith fod y ddau o dan lach y capel a chonfensiwn, yn enwedig pan yw Ann yn feichiog cyn priodi Ned. Mae'r olygfa hon yn portreadu rhagfarnau'r oes yn gryf iawn. Mae Ann yn cael ei thorri allan o'r capel, ond serch hynny, mae cryfder mewnol Ann yn ei chynnal trwy'r holl dreialon ac fe brofir bod cariad Ned yn troi sefyllfa drasig yn bennod newydd gyda theulu newydd mewn pentref newydd.

Daw hyn â ni at y tebygrwydd rhwng Meira ac Ann. Er mor wahanol yw eu cefndir a'u safle yn eu cymdeithas a'u cyfnod, mae'r ddwy yn dioddef yr un ysgytwad emosiynol ym marwolaeth drist eu gwŷr. Mae'r ddwy yn gorfod ymdopi â bywyd gwahanol ac â'r gwacter a'r gofid sy'n deillio o'u colled. Er bod amgylchiadau materol Meira yn llawer gwell na rhai Ann, y mae'r ddwy fel ei gilydd yn gorfod dygymod â'u sefyllfa newydd, a hynny ar fyr rybudd.

Yn achos y ddwy, y maent fel ei gilydd yn canfod cariad newydd sy'n dwyn gobaith i ganol eu byd tywyll. Fel y mae Meira a Dafydd, ei chariad newydd, yn symud ymlaen gyda'i gilydd, y mae Ann a Ned hwythau yn llwyddo i dorri cwys newydd tua'r dyfodol, a hynny, nid trwy anghofio'r hyn a fu, ond trwy drysori eu hatgofion heb gael eu caethiwo gan dristwch a galar. Nid yw'r un rhagfarnau cymdeithasol yn amharu ar Meira, o'i chymharu ag Ann. Y mae hyn yn dilyn llawer iawn o gwestiynu mewnol ar ran Meira ac Ann. A yw eu cariad newydd yn golygu bod Meira'n bradychu Wil, a bod Ann yn bradychu Twm? A yw eu cariad newydd yn fwy na dihangfa o'u galar? A yw'n real? A yw yr un mor angerddol â'u cariad cyntaf? Ac yn achos Ann, a yw'r cariad hwnnw yn ddigon cryf i herio gwng cymdeithas a chapel?

Er gwaethaf y gwahaniaethau rhyngddynt, mae'r ddwy yn dangos eu bod yn gymeriadau cryfion sy'n llwyddo i godi uwchlaw eu hamgylchiadau a rhagfarnau cymdeithas. Mae eu cariad newydd, er yn wahanol oherwydd oedran, aeddfedrwydd, a phrofiadau bywyd, yr un mor emosiynol a dwfn â'r cariad cyntaf.

Pam ysgrifennu'n greadigol?

Rwyf wedi bod yn ysgrifennu'n greadigol ers saithdegau'r ugeinfed ganrif. Cefais lwyddiant gyda dwy gyfrol o storïau ar gyfer plant bach. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf, *Ffrindiau*, o dan nawdd Cynllun Llyfrau Cymraeg y Cyd-Bwyllgor Addysg

Cymreig yn 1971, ac yna *Stori neu Ddwy* yn 1975; roedd y ddwy gyfrol wedi eu cyhoeddi gan Christopher Davies, Llandybïe.

Storïau ar gyfer plant 4-7 oed oedd y rhain. Yn y lle cyntaf, bûm yn eu hadrodd i'm mab a'm merch fach fel storïau cyn mynd i gysgu. Yna, fel athrawes yn adran y babanod, Ysgol Hiraddug, Dyserth, bûm yn eu hadrodd 'amser stori' ar ddiwedd y prynhawn i fy nosbarth o blant 5-6 oed. Roedd y storïau yn amlwg yn dderbyniol gan y disgyblion. Un prynhawn cerddodd y prifathro i mewn i'r dosbarth 'amser stori'. Oeddoddi wrando ar yr hyn a oedd yn cael ei adrodd ar y pryd, yna holodd a oedd gen i fwy o storïau tebyg. Pan atebais bod nifer ar gael ond nad oeddwn wedi eu cofnodi, awgrymodd y dylwn feddwl am eu cyhoeddi. Dyna ddechrau'r broses o ysgrifennu'n greadigol. Fodd bynnag, rhaid cyfaddef imi ers yn blentyn fod â dychymyg byw, ac roeddwn wrth fy modd yn ysgrifennu am gymeriadau fel anifeiliaid bach yn y coed a'r wlad o'm cwmpas.

Storïau digon syml am anifeiliaid gwyllt ac anifeiliaid fferm a geir yn *Ffrindiau* a *Stori neu Ddwy*, er enghraifft, hanes Cono'r Ceiliog yn mynd i ffair y Nadolig a Twm y llo yn mynd i'r ysgol, ac anturiaethau Wat y wiwer, ac ati. Yn y cyfnod hwn roedd hanesion o'r fath yn dderbyniol gan blant, yn enwedig plant cefn gwlad. Credaf fod plant heddiw'n fwy soffistigedig ac yn disgwyl anturiaethau llawer mwy cynhyrfus a chyfoes.

Tua'r un cyfnod bûm yn cyfrannu'n rheolaidd i gylchgrawn yr Urdd, *Deryn*, ac fel yn yr ysgol roedd anturiaethau anifeiliaid yn dderbyniol ac fe gyhoeddwyd sawl un o'r storïau. O ddiwedd y saithdegau ymlaen bu cyfnod hesb o ddeng mlynedd ar hugain, cyn belled ag yr oedd ysgrifennu creadigol yn y cwestiwn. Y prif reswm am hyn oedd cyfrifoldebau bywyd teuluol a phrysurddeb gyrrfa.

Cefais yrfa brysur iawn fel athrawes gynradd, pennaeth ysgol, arolygydd / ymgynghorydd (sef swyddog addysg yng Nghlwyd) ac yna Arolygydd Ysgolion. Fel swyddog addysg arweiniais dimau o athrawon i gynhyrchu deunyddiau megis llawlyfrau a deunydd fideo ar gyfer athrawon, yn ogystal â pharatoi cyrsiau, nid yn unig yng Nghlwyd ond mewn sawl sir arall yng Nghymru. I raddau helaeth dyna'r rheswm am i mi beidio ag ysgrifennu'n greadigol yn ystod y cyfnod hynod brysur yna yn fy mywyd. Eto, gallais ddefnyddio'r holl brofiadau hyn yn *Ddoe a Heddiw'n Un* wrth drafod bywyd proffesiynol Meira.

Eto, dro ar ôl tro, yn ystod y deng mlynedd ar hugain, roedd awydd cryf ynof i ysgrifennu. Fel y dywed John Braine, 'The ability to write is a gift, there have been

some very fancy explanations of why some should have the gift and not others.¹⁰ Yn bendant, roedd awydd ynof i ysgrifennu'n greadigol. Roedd gen i ddigon o ddychymyg, ac rwyf i'n sicr y byddwn wedi llwyddo i roi pin ar bapur petai amser wedi caniatáu. Ond roedd ysgrifennu ffeithiol a phroffesiynol a oedd yn ymwneud â'm gyrfa yn cymryd drosodd o hyd. Roeddwn i hefyd yn ymbalfalu am destun i'm sbarduno.

Ar ddiwedd y saithdegau bûm yn dysgu yn Ysgol y Castell, Rhuddlan. Mae'r ysgol o fewn tafliad carreg i gastell mawreddog Edward I, a hefyd i'r bryn sydd yn awr yn gorchuddio tomen a beili Robert o Ruddlan, y Norman creulon. Un noson yn ystod y cyfnod hwn, cefais freuddwyd rhyfedd a realistig iawn. Roedd fel nofel ynddo'i hun. Breuddwydiais am ferch ifanc o'r ugeinfed ganrif yn cerdded ar hyd prif stryd tref hynafol Rhuddlan. Baglodd ar garreg, taro ei phen, ac fe'i cipiwyd hi'n ôl i'r unfed ganrif ar ddeg, sef cyfnod Gruffudd ap Cynan a Robert o Ruddlan. Morwyn oedd y ferch i Robert yn ei gastell pren, ac roedd hi'n dyst i ddigwyddiadau erchyll y dydd. Carcharwyd Gruffudd yng Nghaer gan y Normaniaid. Erbyn 1090 roedd wedi dianc a hynny, yn ôl pob sôn, mewn sach ar ddiwrnod marchnad yn y ddinas. Yn ôl *Gwyddoniadur Cymru*, Gruffudd a oedd yn gyfrifol am farwolaeth Robert o Ruddlan maes o law.¹¹ Dyna hi, stori ardderchog! Fodd bynnag, ar y pryd, nid oedd amser yn caniatáu i mi lunio nofel yn seiliedig ar fy mreuddwyd. Methu a wnes i y tro hwnnw, ond rwy'n dal i gofio'r freuddwyd! Roedd yr awydd i ysgrifennu'n greadigol bron â'm mygu fwy nag unwaith yn ystod y blynyddoedd hesb hynny.

Yn ystod yr un cyfnod dechreuais ddarllen o ddifrif. Fy mhrif ddiddordeb hyd heddiw yw nofelau gyda chefnidir hanesyddol. Yn y rhan sy'n dilyn, hoffwn ystyried y gwahaniaeth rhwng y nofel hanesyddol a'r nofel hanes.

Y nofel hanes/ Y nofel hanesyddol

Gellid diffinio'r gwahaniaeth rhwng nofel hanes a nofel hanesyddol, fel a ganlyn: credaf y gellir diffinio'r *nofel hanes* fel gwaith creadigol sy'n ymdrin â digwyddiadau ym mywydau pobl sydd wedi byw mewn cyfnod arbennig. Er enghraifft, yn y Gymraeg, ceir nofelau Marion Eames am y Crynwyr yn yr ail ganrif ar bymtheg sydd yn seiliedig ar y cymeriadau real a oedd yn rhan o'r hanes hwnnw (ynghyd â'r ffaith

¹⁰*How to Write a Novel*, 36.

¹¹*Gwyddoniadur Cymru* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2008), 395.

iddynt ymfudo i'r Byd Newydd i osgoi erledigaeth). Yn yr un modd, mae *Dygwyl Eneidiau*, Gwen Pritchard Jones, wedi ei gosod yn yr ail ganrif ar bymtheg ac yn sôn am bobl 'go iawn'. Yn Saesneg cawn waith Philippa Gregory, sydd â Rhyfel y Rhosynnau yn gefndir, ond sy'n plethu ei storïau o amgylch bywydau ac ymgyrchoedd y brenhinoedd Plantaganet. Gellir dweud yr un peth am nofelau Bernard Cornwell, Antonia Fraser, Robert Harris, Jean Plaidy, ac yn ddiweddar, Hilary Mantel sy'n ymdrin â gyrfa a thynged Thomas Cromwell ac Anne Boleyn. Fel y dywedir yn y cyflwyniad ar siaced lwch ei nofel hi, *Bring Up the Bodies*, 'Hilary Mantel explores one of the most mystifying and frightening episodes in English history: the destruction of Anne Boleyn. This new novel is a speaking picture, an audacious vision of Tudor England.'¹²

Ar y llaw arall, cawn y *nofel hanesyddol*. Dyma waith creadigol sydd yn portreadu cyfnodau penodol mewn hanes, ond dychmygol yw'r cymeriadau. Dywed Jerome Groot yn ei gyfrol, *The Historical Novel*, 'The figures we meet in historical fiction are identifiable to us on the one hand due to the conceit of the novel form, in that they speak the same language, and their concerns are often similar to ours, but their situation and their surroundings are immensely different.'¹³ Hynny yw, ym marn Groot, y mae hanes a phrofiadau y cymeriadau real a gyfarfyddwn yn y nofel hanes yn fwy pwysig na'u cefndir, gan eu bod yn mynegi profiadau a dyheadau sy'n cyfateb i'n profiadau ni heddiw. Ond mae'r cefndir hanesyddol yn bwysig hefyd, ac yn gallu profi bod profiadau dynol yr un fath ymhob cyfnod.

Enghreifftiau adnabyddus o'r nofel hanesyddol yn y Gymraeg yw *I Hela Cnau*, Marion Eames, *Eira Gwyn yn Salmon*, Dafydd Ifans a *Rhannu'r Ty*, Eigra Lewis Roberts, sy'n ymwneud â streic fawr Bethesda ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Yn Saesneg, ceir nofelau megis eiddo Colleen McCullough, *Thorn Birds* a *The Touch*, nofelau gydag Awstralia'r ddeunawfed ganrif ar bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gefndir iddynt. Hefyd gellid enwi *The Raging Fire* gan Constance Heaven, sef nofel sydd yn seiliedig ar y chwyldro yn Rwsia yn 1917.

Gallwn yn ystod yr unfed ganrif ar hugain hefyd ystyried yn nofelau hanesyddol nofelau sydd wedi eu hysgrifennu yn ystod oes a chyfnod arbennig heb fod yn rhy bell yn ôl yn y gorffennol, ond sydd erbyn heddiw yn darlunio cyfnodau ag arferion, agweddau, safonau a chymdeithas sy'n ddiethr i ni. Er enghraifft, yn y

¹² Hilary Mantel, *Bring Up the Bodies* (Harper Collins, 2012), cas llwch.

¹³ Jerome Groot, *The Historical Novel* (Routledge, 2010), 3.

Gymraeg, mae gwaith Kate Roberts yn darlunio cyfnod gwahanol iawn i ni heddiw o ran arferion, moesoldeb a symrlwydd bywyd, fel y gwelir mewn cyfrolau megis *Te yn y Grug*, *Traed Mewn Cyffion*, *Deian a Loli* ac ati. Yn yr un modd, mae Daniel Owen yn rhoi inni ddarlun o Sir y Fflint yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn *Rhys Lewis*, *Enoc Huws* a *Straeon y Pentan*, fel y rhydd nofelau Islwyn Ffowc Elis am Leifior ddarlun inni o Gymru cefn gwlad ar ganol yr ugeinfed ganrif. Mae'r awduron hyn yn ysgrifennu am gyfnodau y maent hwy eu hunain wedi byw drwyddynt, ond mae'r cyfnodau hynny bellach yn ddieithr i ni, ac mae'r nofelau, felly, o ddiddordeb hanesyddol i ddarllenwyr cyfoes. Yn Saesneg, gellid crybwyll gwaith y Brontës. Maen nhw'n disgrifio eu hardal yn Swydd Efrog yn ystod blynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n amlwg fod eu profiadau yn yr oes a'r ardal honno wedi gwneud argraff ddofn arnynt ac y mae hyn yn amlwg yn eu gwaith creadigol. Roedd bywyd Jane Austen hithau (yn ne Lloegr) yn troi o amgylch boneddigion y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er nad oedd hi'n un ohonynt, roedd hi wrth ei bodd yn ysgrifennu amdanynt. Dywed David Cecil am Jane Austen: 'Indeed she was in most respects startlingly unlike most authors of genius. In particular, she differed from them in that she was at ease in the world she was born into.'¹⁴ Roedd arsylwi ar y byd o'u cwmpas yn rhan annatod o dalent greadigol yr holl awduron hyn, fel yr oedd yn achos Catherine Cookson hefyd (hithau o ogledd ddwyrain Lloegr). Mae'n amlwg fod profiadau plentyndod wedi eu hargraffu'n ddwfn arni hithau ac mae hyn yn amlwg yn ei nofelau sy'n disgrifio cyfnod o galedi a thlodi. Pan ysgrifennwyd nofelau a storïau Kate Roberts, Daniel Owen, y Brontës, Jane Austen a Cookson, ni fwriadwyd iddynt ar y pryd fod yn nofelau hanesyddol. Yn hytrach, ysgrifennu am fywyd bob dydd fel yr oeddynt yn ei weld a'i brofi ar y pryd yr oedd y nofelwyr hyn. Ond mae eu dawn wrth wneud hynny yn golygu bod y portreadau a geir ganddynt yn ddogfennau hanesyddol gwerthfawr heddiw. Fel y cyfeiria Wiliam Owen Roberts at waith Daniel Owen: 'y mae yna un eithriad go drawiadol sy'n cynnig ei hun fel patrwm i ni heddiw sy'n ceisio ymrafael â'r nofel hanes, ac efallai y dylem fwrw golwg fanylach arno. Yr eithriad hwnnw ydi Daniel Owen a lwyddodd i raddau i godi rhyddiaith Gymraeg i lefel realaeth.'¹⁵

Yn yr iaith Saesneg, dyma sut y mae Herbert Butterfield yn diffinio'r berthynas rhwng hanes a'r nofel hanesyddol: 'The text is an engaging study of the interrelation

¹⁴ David Cecil, *A Portrait of Jane Austen*, (Book Club Associates, 1978), 10.

¹⁵ John Rowlands (gol.), *Sglefrio ar Eiriau* (Gomer, 1992), 94.

between the novel and the study of history.¹⁶ Mae'n disgrifio'r *nofel hanesyddol* fel hyn: 'The historical novel is a form of fiction as well as history . . . yet a true historical novel is one that is historical in its intention and not simply by accident, one that comes from a mind steeped in the past.'¹⁷

Er i mi ddarllen llawer o nofelau hanesyddol fwy nag unwaith a'u mwynhau cymaint yr ail waith â'r tro cyntaf, y cyfnod sydd fwyaf hoff gennyf yw oes y Frenhines Fictoria. Wrth gwrs, dyma gyfnod gwleidyddion lliwgar megis Palmerston, Gladstone, Disraeli, Wilberforce a William Pitt, ac mae'n gyfnod sy'n dal yn fyw yn ein dychymyg ni ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Fel y dywed A. N. Wilson: 'The Victorians are still with us.'¹⁸ Eglurhad Wilson dros hyn yw'r ffaith fod y darganfyddiadau a wnaethpwyd yn ystod teyrnasiad Fictoria wedi newid y byd. Er bod Philippa Gregory wedi ysgrifennu cyfresi o lyfrau am y Plantaganets a'r Tuduriaid, mae un o'i nofelau mwyaf poblogaidd, *A Respectable Trade*, yn stori sy'n seiliedig ar gaethwasiaeth ac ymgais Wilberforce i ddod â'r diwydiant afiach a chreulon i ben yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'n rhaid i minnau gyfaddef bod fy nghysylltiad gyda hen fodryb (chwaer fy nhaid) a aned yn 1875 wedi cael dylanwad mawr arnaf. Cefais gyfle i dreulio sawl min nos yn ei chwmmi pan oeddwn yn blentyn. Roedd hi'n arbennig o dda am adrodd hanesion yr oes a fu, ac mae'r hyn a ddysgais ganddi wedi ei amlygu yn fy ail nofel, *Cwlwm Creulon*.

Rwyf wedi mwynhau yn fawr ddarllen gwaith Marion Eames, ac mae'n debyg mai hi yn y Gymraeg sydd wedi dylanwadu fwyaf arnaf cyn belled ag y mae 'dweud stori' yn bod. Ar y llaw arall, gallaf ddweud yr un peth am arddull storïol Cookson yn y Saesneg. Y mae ei nofelau hithau'n ddarlun o gyfnod, gyda'r ferch fel arfer yn cael ei thrin yn wael, a'r cymeriad gwrywaidd sydd wedi gwneud tro gwael â hi yn cael ei ddal. Gwelir hyn yn *Cwlwm Creulon* gyda'r cymeriad Ifan Lloyd. Ond fel yr awgrymwyd yn gynharach yn y drafodaeth hon, mae fy hoffter o'r nofel hanesyddol yn deillio'n bennaf o waith rhai megis Philippa Gregory, Hilary Mantel ac Alison Weir. Mae eu hymdriniaeth ffuglennol hwy ag oes y Tuduriaid yn creu darlun byw a diddorol, yn fy marn i. Pan oeddwn yn hyfforddi i fod yn athrawes, fy mhrif bwnc yn

¹⁶ Herbert Butterfield, *The Historical Novel* (Cambridge University Press, 1924), 4.

¹⁷ *Ibid.*, 5.

¹⁸ A. N. Wilson, *The Victorians* (Arrow Books 2002), 1.

y coleg oedd hanes, ac yn fy oriau hamdden fy mhrif ddiddordeb oedd ymweld â manau o ddiddordeb hanesyddol yma ym Mhrydain a hefyd ar gyfandir Ewrop.

Ers fy arddegau bu gennyf ddiddordeb mawr ym mro fy mebyd, sef Glannau Dyfrdwy. Dyma ardal lofaol a diwydiannol. Mae hanes ar gael bod y Rhufeiniaid wedi bod yn cloddio am ‘yr aur du’ yn yr ardal, ac ers y Chwyldro Diwydiannol datblygodd diwydiant ar lannau’r Ddyfrdwy. Yn ei lyfr *The History of the Parishes of Whitford and Holywell* (1796) y mae Thomas Pennant yn crybwyll y ffaith bod mwyn copr a glo ar gael yn yr ardal. Yn ogystal â hyn, roedd melin wlân yn Nhreffynnon, a phorthladd prysur ym Mostyn. Erbyn heddiw mae llawer o’r diwydiannau hyn wedi diflannu, ond mae porthladd Mostyn yn dal ei dir ac yn allforio adenydd yr *Airbus* i Ffrainc.

Yn y 1990au, oherwydd natur fy ngwaith, cefais gyfnod o deithio’n rheolaidd i Lundain. Pan fu farw fy nhad etifeddais fodrwy ddyweddio fy nain. Roedd Nain wedi gadael yr ysgol yn ddeuddeg oed ac wedi ei chyflogi fel morwyn fach ym mhlas Mostyn, ond pan oedd yn bedair ar bymtheg oed gadawodd ei swydd yn y Plas a symudodd i Lundain i weithio yn ‘town house’ y Mostyniaid yn y ddinas fawr. I Nain roedd hyn fel mynd i bellafoedd daear. Un min nos, wrth deithio o Euston i’r Rhyl, wedi diwrnod o bwyllgora sych, a minnau yn digwydd bod yn gwisgo modrwy Nain, dechreuais feddwl am y ferch bedair ar bymtheg oed yn cychwyn ar yr antur fawr o gymdogaeth glôs Gymreig i Lundain bell. Pan ddywedodd Nain wrth ei rhieni fod yr Arglwyddes am ei hanfon i Lundain roeddent o dan yr argraff mai rhywle y tu draw i Gaer oedd y brifddinas! Yn ogystal â’r fodrwy ddyweddio, etifeddais hefyd lyfr cofnodi penblwyddi a oedd yn eiddo i Nain, sef anrheg a gafodd gan ei meistres adeg y Nadolig 1887. Wedi ysgrifennu ynddo mae’r geiriau: ‘Mary Roberts, from the Hon, Katherine Mostyn, Dec 25th 1887.’ Yn y llyfr bach hwn y mae Nain wedi cofnodi penblwyddi ei theulu, hanes personol, a manion bob dydd, a hefyd hanes dau o’i meibion yn mynd i ymladd yn Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ar gyfer pob diwrnod o’r flwyddyn yn y llyfr bach y mae dyfyniadau o *Canwyll y Cymry*, y Ficer Pritchard. I mi, mae hwn yn drysor. Ond bu hefyd yn sbardun imi ysgrifennu’n greadigol. Yn ystod y daith honno rhwng Llundain â’r Rhyl euthum ati i gynllunio fy nofel gyntaf. Y rhyfeddod oedd mai yn Saesneg yr ysgrifennais, yn rhannol, mi gredaf, ar gyfer aelodau o’r teulu sydd erbyn hyn yn ddi-Gymraeg ac yn byw yn Lloegr.

Stori yw hon am Gymraes ifanc, ei bywyd yn Llundain fel morwyn yn ystod wythdegau'r bedwaredd ganrif a'r bymtheg, ei phriodas, symud i fyw i Lerpwl ac yna ymsefydlu efo'i gŵr, Thomas, a'i theulu o fechgyn, yn ôl yn ei milltir sgwâr ar lannau Dyfrdwy. Wnes i erioed gyfarfod â Nain; roedd hi wedi marw flynyddoedd cyn fy ngeni, ond yn ystod y broses o ysgrifennu amdani daeth yn fyw yn fy meddwl. Roeddwn yn gwybod sut y byddai'n ymateb i wahanol sefyllfaoedd. Roeddwn yn cydymdeimlo â hi yn ei gwahanol brofiadau, y melys a'r chwerw. Roedd hyn i gyd oherwydd y cofnodion yn y llyfr penblwyddi a'r hyn yr oedd fy nhad wedi ei ddweud wrthyf am ei fam. Ar y trê'n y noson honno gwawriodd arnaf fod gen i destun i ysgrifennu amdano o'r diwedd.

Cyhoeddwyd fy nofel gyntaf o dan y teitl, *Six Sapphires and a Diamond*, yn 2007 ac fe gafwyd dilyniant, sef *Devotion*, yn 2008 – y ddwy wedi eu cyhoeddi gan Gwmni Nereus y Bala. Yn y ddwy gyfrol ceir hanesion gwir am Nain a'i theulu. Mae'r gwewyr a ddiodefodd pan laddwyd ei mab, Edward, yn y Rhyfel Mawr yn ystod ymladdfa Passchendaele ym mis Gorffennaf 1917, ac yntau heb gyrraedd ei un ar hugain oed, wedi ei gofnodi yn y llyfr penblwyddi.

I mi roedd y profiad o ysgrifennu 'stori Nain' yn garthasis. Mi wnes i gyd-fyw y profiadau hapus a chwerw drwyddi hi fel prif gymeriad. Hefyd, er bod Nain wedi ei dwyn i fyny i fynychu'r capel, roedd yna dipyn go lew o ysbryd ei thad ynddi ac roeddwn angen ei phortreadu fel un a oedd yn mwynhau ychydig o hwyl. Felly, roedd piwritaniaeth y Jonesiaid, sef teulu Thomas ei gŵr, ambell waith yn mynd o dan ei chroen. Wrth ysgrifennu'r hanes roeddwn eisiau trosglwyddo'r hyn yr oeddwn i wedi ei glywed gan fy nhad a hefyd gan chwaer fy nhaid am hanes y teulu, a hynny ar gyfer fy nghefnodryd, fy nghyfeitherod, fy mhlant a fy wyrion. Roeddwn i wedi cael fy magu yn yr 'hen gartref', felly roedd yn ddyletswydd arnaf i roi 'pin ar bapur'. Hefyd, roedd yna deimlad cryf ynof fod angen darlunio bywyd bob dydd pobl gyffredin yng ngogledd ddwyrain Cymru yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

Rydw i o'r farn nad oes digon o nofelau ar gael sy'n adlewyrchu bywyd pobl gyffredin yng ngogledd ddwyrain Cymru yn ystod oes Fictoria. Yn hyn o beth, rydw i ar genhadaeth. Er y llwyddiant a gefais gyda fy nwy nofel Saesneg, roeddwn yn awyddus i ysgrifennu am yr un ardal yn y Gymraeg, a hyn oherwydd mai'r Gymraeg yw fy iaith gyntaf a Chymry oedd y bobl yr oeddwn yn dewis ysgrifennu amdanynt.

Gwyddwn am drychineb a ddigwyddodd yn un o byllau glo Mostyn, Gorffennaf 24, 1884, pan lifodd yr afon Ddyfrdwy i mewn i Bwll y Traeth yn ystod shifft nos. Estynnai'r pwll o dan aber yr afon i gyfeiriad y môr. Yn ffodus, nid oedd yn y dyddiau hynny fawr o neb yn gweithio yn ystod y shifft nos, a thrwy drugaredd achubwyd y rhai a oedd i lawr yn y dyfnderoedd. Fodd bynnag, yn ddiweddarach anfonwyd dau i lawr y shaft i weld beth oedd y rheswm am y gorlifiad. Bu ffrwydrad mawr, collodd un ei fywyd ac anafwyd y llall yn ddifrifol. Fel canlyniad i hyn, caewyd y pwll, ac oherwydd diffyg gwaith fe chwalwyd y gymdeithas, gyda'r dynion a'r bechgyn yn symud i ardaloedd eraill yng Nghymru a dros y ffin i Loegr. Aeth rhai dramor gan gymryd eu teuluoedd gyda nhw. Dywedwyd ar y pryd mai dim ond gwragedd a genethod a oedd ar ôl yn y pentref. Nid yn unig roedd y capeli yn wag, ond roedd y tafarndai yn wag hefyd, gan fod y dynion wedi symud i ffwrdd.

Ymysg papurau fy nhad deuthum o hyd i lyfryn bach yn olrhain hanes y boddiaid, sef traethawd a enillodd gystadleuaeth Dydd Gwener y Groglith ym Mostyn yn 1889. Ffugenw'r buddugol oedd 'Un o'r Glowyr', a theitl y traethawd oedd, *Boddiad Gloyfeydd Mostyn a gwasgariad y Bobl*. Mae'n ddiddorol sylwi mai un o'r beirniaid oedd y Dr E. Pan Jones, gweinidog capel yr Annibynwyr yn y pentref ar y pryd. Mae'r traethawd yn olrhain hanes y drychineb a'r modd y bu'n rhaid i'r gweithlu adael y pentref i chwilio am waith. Enwir llawer o'r dynion, er enghraifft, Thomas Thomas a'i deulu a symudodd i Prescot, a William Roberts a aeth i Hanley, ac yn y blaen.

Fel canlyniad i'r ymchwil i'r chwalfa yn dilyn boddi'r pwll, euthum ati i ysgrifennu fy nofel gyntaf yn y Gymraeg o dan y teitl, *Cysgod yr Aur Du*. Mae'r nofel hon yn seiliedig ar foddiaid Pwll y Traeth yn 1884 ac yn dilyn hanes teulu dychmygol o Fostyn sydd yn ymfudo i Batagonia bell, a hynny o achos mwy nag un ddamwain angheuol yn y pwll. Ceisiais ddarlunio fel roedd y pwll wedi taflu cysgod dros y fro, yn ogystal â darlunio bywyd ardal ddiwydiannol Gymraeg ei hiaith, ac fel y bu i'r chwalfa adael craith am byth ar gymeriad y gymdeithas. Lanswyd y nofel yn Llyfrgell Treffynnon ar y trydydd o Dachwedd, 2010, a bu'r gwerthiant yn foddhaol iawn.

Yn ogystal ag ysgrifennu tair nofel, rydw i wedi cyfrannu o bryd i'w gilydd i'r *Wawr* a hefyd i *Golwg* – hyn am i mi gael sawl cyfle i deithio dramor dros gyfnod o bum mlynedd ar hugain bellach.

Beth a'm sbardunodd i ysgrifennu'r nofel *Ddoe a Heddiw'n Un?*

Ym mis Rhagfyr 1961 cyfarfûm â gŵr o Lanwddyn, Sir Drefaldwyn. Ar y pryd roeddem ein dau yn athrawon ifanc yn Sir y Fflint. Ar ddydd Sadwrn y Pasg, 1963 fe wnaethom briodi. Er i'm priod dreulio bron i hanner can mlynedd yng ngogledd ddwyrain Cymru, roedd hi'n amlwg bod ardal ei febyd wedi gadael argraff ddofn arno. Dros bedwar deg wyth o flynyddoedd o fywyd priodasol hapus, atgofion am Lanwddyn, y cymeriadau gwerinol a oedd yn byw yno, a hanes plentyndod yn y pentref yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a oedd yn fwyaf byw yn ei gof. Yn ystod y cyfnod hwn adroddodd i mi a hefyd i'n plant lawer o hanesion am ei gefndir. Roedd hi'n amlwg, fodd bynnag, fod yr hanes a gafodd gan ei nain am foddi dyffryn Efyrynwy hefyd yn real iawn iddo. Roedd ei daid a'i nain, ar ochr ei fam, wedi byw yn yr hen Lan ac roedd ganddynt atgofion lu am y digwyddiad. Adleolwyd y teulu o'r hen Lanwddyn i'r pentref newydd pan foddwyd y dyffryn gan ddinas Lerpwl yn wythdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Pan oedd Tecwyn yn blentyn ac yn gwrandao ar ei nain yn adrodd yr hanes, roedd dan yr argraff mai hen, hen hanes oedd boddi'r dyffryn. Wedi iddo dyfu'n oedolyn, syndod iddo oedd sylweddoli mai dim ond rhyw drigain mlynedd a oedd wedi mynd heibio ers y boddi.

Gweddnewidiwyd dyffryn Efyrynwy pan grewyd y gronfa ddŵr. Newidiwyd hefyd wëad y boblogaeth a gwanychwyd safle'r Gymraeg, a hynny oherwydd fod nifer o'r gweithwyr a gyflogwyd gyda'r 'Gwaith' wedi dewis aros yn y fro. Ceir tystiolaeth yng Nghyfrifiad 1911 bod sawl cyfenw dieithr ar gael yn y dyffryn yn sgil codi'r gronfa, er enghraifft, McIntyre, Brice, Ormesher, Luc, Getson, Henderson, Erasmus, Carter ac ati. Does dim tystiolaeth, fodd bynnag, fod y gweithwyr hyn wedi dysgu'r iaith Gymraeg, ond fe dybir bod rhai o'u plant wedi dysgu'r iaith ar fuarth yr ysgol gyda'u cyfoedion, er mae'n bur debyg mai Saesneg oedd cyfrwng yr addysg. Yn gyffredinol, ystyrir dyffryn Efyrynwy hyd heddiw yn llawer mwy Seisnig na dyffrynnoedd cyfagos. Saesneg yw iaith gyntaf llawer o'r rhai sydd â chyfrifoldeb am y gwaith dŵr, hyd yn oed yn y presennol. Yn y gwesty moethus uwchben y llyn ni chlywir fawr iawn o Gymraeg gan y staff sy'n gweini.

Trwy'r hanesion a adroddwyd i mi fe glywais am yr ofn, yr ansicrwydd a'r teimlad o fod yn hollol ddiymadferth heb neb yn barod i gefnogi'r pentrefwyr. Oedd yna unrhyw beth y gallent fod wedi ei wneud i wrthwynebu'r bygythiad? Pa hawliau oedd ganddynt fel tenantiaid? A oedd yna drafodaethau a gwrthdystio? Mae yna sôn,

er nad oes tystiolaeth, bod tri chant yn barod i arwyddo tysteb, ond nid oedd pobl Lerpwl yn barod i gymryd sylw – wedi'r cwbl tenantiaid yn unig oeddynt.

Pan adleolwyd y pentrefwyr o'r hen lan i'r pentref newydd, syndod a siom iddynt oedd deall fod eu cartrefi nid yn unig wedi eu tynnu i lawr, ond hefyd wedi eu deinameitio. Dyna beth oedd halen ar y briw. Rydw i o'r farn nad yw hanes boddi dyffryn Efyrynwy wedi cael digon o sylw gan haneswyr na llenorion fel ei gilydd. Mae hanes pentref Llanwddyn wedi ei anghofio'n llwyr, ynghyd â gwewyr y pentrefwyr. Heddiw, mae'r llyn yn hardd ac yn edrych fel pe bai wedi bod yno erioed. Ond er yr harddwch, mae yna ymdeimlad o dristwch. Fel y dywed John Evans yn ei awdl fuddugol, 'Yr Argae', yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol 1954:

A llwyd cen y llediaith – a dorrodd
Ar gwm dewr ac uniaith;
Rhy drwm fu gorthwm 'Y Gwaith'
A chost yr oer orchestwaith.

Drycin y Cwm yn crino – o'i werthu,
Briw y morthwyl arno;
Rhoi i brudd oreugwyr bro
Yr hawl i ofer wylo.

Ym mis Ionawr 2011 bu farw fy annwyl briod, Tecwyn, yn sydyn. Er cof amdano a'i deulu rhaid oedd ysgrifennu nofel gyda hanes trist boddi dyffryn Efyrynwy yn gefndir iddi. Mae hon yn stori sydd angen ei dweud. Mae angen atgoffa Cymru am yr ing, y gwewyr a'r anobaith a ddiodefwyd gan bentrefwyr dyffryn diarffordd. Dyma a'm sbardunodd, felly, i ysgrifennu *Ddoe a Heddiw'n Un*.

Teimlais dros gyfnod o dair blynedd fod y gwaith o ysgrifennu dwy nofel hanesyddol wedi elwa'n fawr o'r gefnogaeth academiaidd a gefais. Mae hyn yn arbennig o wir am fy nofel gyntaf, sef *Ddoe a Heddiw'n Un*, yn enwedig wrth i mi geisio clorianu'r dystiolaeth hanesyddol / ffeithiol, neu yn hytrach y diffyg tystiolaeth yng nghylchgronau a phapurau'r cyfnod yng Nghymru. Ai priodol, tybed, oedd defnyddio dychymyg pur mewn perthynas â rhai agweddau ar y nofel hon?

Gan mai ysgrifennu nofel yr oeddwn ac nid llyfr hanes, teimlwn yn dawel fy meddwl y gallwn seilio'r nofel ar hynny a wyddom am gefndir hanesyddol / ffeithiol boddi Dyffryn Efyrynwy gan ddatblygu, yn erbyn y cefndir hwnnw, stori a oedd i

raddau yn ffrwyth dychymyg. Roedd y cymorth a'r cyfarwyddyd academiaidd o gymorth mawr i mi wrth geisio cadw cydbwysedd rhwng ffaith a ffuglen.

Prif gymeriadau'r nofel

Fel y nodwyd eisoes, mae dau brif gymeriad yn y nofel hon, sef Ann Elis a Meira Owen. Gwelir hefyd bod chwe chymeriad arall yn chwarae rhan bwysig yn y stori: Twm, Ned, Jo mab hynaf Twm ac Ann, Dafydd, a Mr Hamilton, syrfeiw'r corfforaeth Lerpwl. Yn ogystal â'r rhain fe ellir ystyried dinas Lerpwl ei hun fel 'cymeriad' sydd yn chwarae rhan bwysig ym mywydau'r cymeriadau yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar unfed ganrif ar hugain.

Yn y nofel fe gawn hanes Ann a Meira. Maent yn wynebu amgylchiadau anodd a dirdynnol, ac i raddau y mae tebygrwydd yn sefyllfa'r ddwy. Eto, mae yna gant ac ugain o flynyddoedd yn eu gwahanu ac mae eu cefndir a'u ffordd o fyw yn hollol wahanol.

Rhaid ystyried y canlynol wrth ymdrin â'r prif gymeriadau:

- (a) Sut bobl oeddynt o ran pryd a gwedd ac o ran personoliaeth a natur cymeriad?
- (b) A yw'r cymeriadau yn rhai credadwy?

Ann Elis

Mae Ann Elis yn gadael ysgol Llanuwchllyn pan yn ddeuddeg oed ac yn mynd i weithio fel morwyn fach i Blas Hirnant. Mae hi'n ferch dlws iawn. Gwallt cyrliog du wedi ei wisgo y rhan amlaf mewn un cwdyn ar dop ei phen. Mae ei llygaid yn danbaid o las. Mae ei chorff yn siapus, ac er ei bod ond pum troedfedd a dwy fodfedd o daldra, mae hi'n dal ei hun yn unionsyth ac yn cerdded yn osgeiddig. Mae sawl un wedi ei llygadu o hirbell, felly does ryfedd yn y byd pan gyfarfu â Twm yn ffair y Bala ei fod wedi colli ei ben yn lân. Dau nwydus a gawn ni yma, ac mae eu perthynas yn datblygu'n un rywiol yn fuan wedi iddynt gyfarfod, gyda Twm yn gofyn am gael caniatad i 'gnocio' ac Ann yn cytuno'n syth.

Yn y nofel gwelwn fod Ann yn ferch emosiynol iawn. Mae trasiedi marwolaeth Twm, a'r ffaith fod Jo yn ei throi hi am y Byd Newydd, yn brofiadau erchyll i Ann ac yn gadael craith ddofn ar ei phersonoliaeth. Mae arni hi angen person arbennig yn ei bywyd i'w chynnal a'i chefnogi. Dyma un rheswm pam iddi ganiatau i'w pherthynas â'i brawd yng nghyfraith, Ned, ddatblygu, er gwaethaf tafodau maleisus y pentrefwyr ac aelodau parchus y capel. Yng nghymeriad Ann cawn

gryfder a gwendid. Mae hi angen cymar sy'n cynnig iddi gefnogaeth a chariad emosiynol a chorfforol, ac eto mae hi'n ddigon cryf i allu anwybyddu beirniadaeth cymdeithas wledig gul.

Mae Ann yn wynebu llawer o dreialon yn ystod ei bywyd. Mae'n gorfod priodi'n ifanc, yn cael ei gadael yn wraig weddw, ac yn colli plentyn wedi i sioc marwolaeth ei gŵr ddod â'r enedigaeth ymlaen. Yn y dyddiau hynny, ychydig iawn o ddealltwriaeth a oedd o effeithiau ergydion emosiynol ar wragedd beichiog, mwy nag ar unrhyw berson bregus arall. Roedd diptheria yn y fro a bu ei thrydydd mab farw. Ar ben y cyfan, mae ei ffefryn, Jo, yn ei gadael ac yn ymfudo i'r America – hwyrach na fyddai Ann byth yn gweld Jo eto!

Y darlun yr wyf wedi ceisio'i greu o Ann yw darluno wraig sensitif ond cryf o ran cymeriad. Mae hyn yn amlwg yn y ffordd y mae hi'n ymresymu â hi ei hun cyn cytuno i briodi Ned. Mae hi'n gorfod priodi eto am yr ail waith, a hynny am ei bod yn feichiog gyda phlentyn ei brawd yng nghyfraith, o bawb. Oedd hi'n bradychu Twm? Oedd hi'n pechu, o ystyried y cyfeiriad yn yr Hen Destament bod gweithred o'r fath yn bechod? Mae Ann mewn cyfyng gyngor. Mae hi'n feichiog ac mae hi'n pwysu mwy a mwy ar ei brawd yng nghyfraith. Mae ei dibyniaeth yn un emosiynol ac ymarferol hefyd. Mae angen tad ar ei phlant. Gwelwn, felly, ei bod yn ddigon parod i'w brawd yng nghyfraith 'roi ei draed o dan y bwrdd,' a hynny'n rhyfeddol o fuan wedi marwolaeth ei phriod, Twm. Eto, mae hi'n barod i fentro, er gwaethaf ei hamheuron.

Er iddi ei holi ei hun ac ymddangos yn fregus mewn llawer ystyr, yn Ann fe welwn optimistiaeth dawel, a hynny oherwydd ei chariad tuag at Ned a'i gobraith am y dyfodol. Mae hi'n barod i dorri cwys newydd, a sefyll gyda chefnogaeth Ned i wynebu beirniadaeth. Mae ei hatgasedd tuag at ddinas Lerpwl yn amlwg ac fe gawn dystiolaeth o hyn wrth iddi gyfogi ar ben yr argae o weld yr hen Lan yn cael ei ddinistrio'n llwyr. Wrth wynebu pob anghydfod a phroblem, mae goleuni yn y pellter i Ann wrth iddi gychwyn, gyda'i phriod newydd, yn y Llan newydd a hithau'n cario bywyd newydd yn ei chroth. Dyma gryfder cymeriad Ann.

Meira Owen

Merch o lannau Dyfrdwy yw Meira. Mae hi wedi'i magu ar aelwyd Gymraeg, ac wedi arfer mynychu gwasanaethau'r capel a'r ysgol Sul. Fodd bynnag, mae'r ffin rhwng

Cymru a Lloegr yn agos ac y mae dylanwad Seisnigrwydd Lerpwl a Chaer, yn ogystal â dylanwad diwydiannau mawr y fro, yn amlwg ar y gymdeithas.

Merch hunanol yw Meira. Yn y nofel mae Margied, ei chwaer, yn teimlo iddi fod yn ‘dipyn o boen erioed’. Ar hyd y blynyddoedd, hyd at farwolaeth Wil, nid yw’r ddwy chwaer yn agos, ac ym mhennod 1 cawn ar ddeall eu bod wedi cael ffrae fawr dros ewyllys eu mam, gyda Meira ar ei hennill. Fe achosodd hyn rwyg rhyngddynt. Eto, at Margied y mae Meira’n troi pan yw hi’n wynebu colled fwyaf ei bywyd, ac o hynny ymlaen maent yn closio at ei gilydd fel dwy chwaer.

Mae Meira’n ferch fodern. O ran pryd a gwedd, mae hi tua phum troedfedd a chwe modfedd o daldra. Mae’n fain a siapus ei chorff. Fel Ann, gwallt cyrliog du a llygaid glas sydd ganddi. Fodd bynnag, mae hi’n gwisgo ei gwallt yn weddol fyr, yn ôl y ffasiwn diweddaraf. Mae bod yn ffasiynol ei gwsg yn bwysig i Meira ac mae’n prynu ei dillad fel arfer, un ai yn Tarporley neu yn Nantwich, sir Gaer, lle ceir ‘siopau bach gwahanol a mwy *upmarket*’, fel y byddai’n ei ddweud. *Clinique* neu *Clarins* yw ei cholur, a bydd yn cymryd gofal mawr wrth ei wisgo. Bob mis fe fydd yn ymweld â pharlwr harddwch i gael triniaeth i’w hwyneb ac i ymlacio.

Mae Meira’n ymddangos yn hyderus. Mae’n ymwybodol ei bod yn meddu ar sgiliau arweinyddol ac mae’n ymhyfrydu yn ei gallu i arwain athrawon mewn ysgol gynradd fawr, gan gwneud hynny’n hynod lwyddianus. Mae’r ffaith fod Meira’n dal i gymryd y bilsen atal cenhedlu yn siom i Wil. Y noson cyn i Wil gael ei ladd, mae Meira’n anghofio cymryd y bilsen, a’r bore canlynol wedi iddi sylweddoli hyn mae’r ddau’n anghytuno ac yn ffraeo’n ofnadwy. Mae Wil yn cychwyn allan am ei waith heb ffarfelio â hi. Dyna’r tro diwethaf iddi ei weld yn fyw. Mae’r digwyddiadau y bore tyngedfennol hwnnw yn newid ei bywyd am byth.

Fel pennaeth ysgol, mae Meira’n llwyddianus ac mae ei hymroddiad i’w gwaith yn gant y cant. Er ei bod yn ymddangos yn hyderus, yn fodern yn ei hagwedd a’i gwsg, mae’r hyn a ddigwyddodd iddi yn dangos ei bod yn berson gwahanol iawn o dan yr wyneb. Pan yw Wil yn cael ei ladd, mae byd Meira’n syrthio’n deilchion. Yn y lle cyntaf, mae’n troi at ei ffrind a’i dirprwy yn yr ysgol, Olwen. Yna mae’n cysylltu â’i chwaer Margied sydd, er y pellter a oedd wedi bod rhyngddynt, yn profi’n gefn i’w chwaer fach.

Mae cydwybod Meira yn ei phlagio’n ddi-drugaredd. Pam iddi ffraeo mor wyllt efo Wil? Petai wedi gallu rhagweld faint oedd hi wedi ei frifo, a pha mor bwysig i Wil oedd cael plant, mi fyddai wedi bod yn barod i gychwyn teulu. Ac wedi rhai

wythnosau, wedi iddi ganfod ei bod yn feichiog gyda babi Wil, mae hynny'n troi yn rhywfaint o gysur iddi.

Mae Wil wedi ei eni a'i fagu ym mhentref Llanwddyn ym Maldwyn, ac yn ei gofid mae Meira'n teimlo gorfodaeth i dreulio amser yn nyffryn Efyrynwy. Tra bo hi yno mae'n cael profiadau rhyfedd ond real iawn. Wrth eistedd ar lan y llyn, mae hi'n ail fyw bywyd a phrofiadau Ann Elis, a gollodd ei phriod, Twm, flynyddoedd ynghynt trwy ddamwain sydyn a thrasig.

Fel yn hanes Ann Elis, mae Meira'n cyfarfod dyn arall sy'n ddeniadol iawn iddi. Mae Dafydd a hi'n datblygu perthynas agos a maes o law. Ond yr un yw'r amheuan ag a oedd yn poeni Ann. Wrth gytuno i briodi Dafydd mae Meira'n ei holi ei hun, a oedd hi'n bradychu Wil? A oedd hi'n bosib caru dau berson mor angerddol? Mae'r ddwy – ar derfyn y nofel – yn feichiog unwaith eto.

Mae Ann a Meira'n ymateb yn debyg wrth wynebu profedigaeth. Trwy gymeriadau Ann a Meira rwyf wedi ceisio dangos bod teimladau ac emosiynau dynol yn sylfaenol debyg ymhob oes a chyfnod.

Twm Elis

Saer maen yw Twm Elis. Mae'n ŵr ifanc cyhyrog, yn dalsyth ac wedi cyrraedd taldra o bum troedfedd a naw modfedd. Gwallt syth, brown golau, a llygaid mawr brown sydd ganddo. Cyn iddo briodi roedd o'n dipyn o ffefryn gan ferched ifanc y fro. Mae Twm yn hwyliog ac yn barod bob amser i fynychu pob ffair o fewn cyrraedd. Fel brodyr, mae Twm a Ned yn agos, ac er mai prin ddeunaw mis sydd rhyngddynt o ran oedran, awgryma rhai eu bod yn debyg iawn i efeilliaid. Mae teulu Twm a Ned wedi ymgartrefu yn nyffryn Efyrynwy ers diwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Yn ôl yr hanes, a drosglwyddwyd o genhedlaeth i genhedlaeth yn y teulu, Huguenotiaid o Fflandrys oedd wedi ffoi i Gymru yn ystod erledigaeth crefyddol oedd eu cyndeidiau. Ond Cymro i'r carn yw Twm ac nid yw'n rhoi fawr o goel ar storïau o'r fath.

Saer maen oedd ei dad hefyd, a saer coed ac ymgymwrwr y pentref oedd ei daid. Fe welwn felly bod Twm wedi dysgu ei grefft gan ei dad.

Cyn i'r nofel ddechrau mae Twm, gyda'i frawd Ned, a chriw o ffrindiau'n mynd dros y mynydd i ffair y Bala. Yno, ar noson hydrefol oer, y mae'n cyfarfod Ann, y ferch ddelaaf a welodd erioed. Mae'r ddau yn treulio'r min nos gyda'i gilydd gan fwynhau ambell gusan ac mae Twm yn mentro gofyn a fyddai'n bosib iddo gael dod i 'gnocio' i Blas Hirnant lle mae Ann yn gweini. Gwelwn mai canlyniad y

'cnocio' yw bod Twm ac Ann yn gorfod priodi. Er ei syndod, pan yw Ann yn cyfaddef ei bod yn feichiog, wedi munud neu ddau o ystyried, mae Twm yn cytuno i'w phriodi. Y gwir amdani yw ei fod wedi syrthio mewn cariad gydag Ann, a hynny dros ei ben a'i glustiau. Wrth i'r stori ddatblygu rydym yn cael ar ddeall fod Ned hefyd wedi syrthio mewn cariad â hi, ond nid yw'n bosib iddo ddatgelu hynny am rai blynyddoedd.

Yn y nofel, darlunnir Twm fel gŵr cariadus a ffyddlon. Mae'n dad da a gofalus i'w blant. Mae Twm yn hollol sicr mai Ann yw'r wraig harddaf yn y fro, ac er iddi fod yn fam i chwech o blant nid yw wedi 'colli ei siap' fel amryw o famau eraill y pentref.

Mae'r ddau yn rhyfeddu nad oes gan Ned gariad, yn wir mae nhw'n methu'n glir â deall nad oes ganddo wraig a theulu. Er i Ned gyfaddef i'w frawd bod Ann yn golygu llawer iddo fel chwaer yng nghyfraith, a'i fod yn meddwl yn uchel ohoni hi, fe aeth Twm i'w fedd heb wir sylweddoli beth yn union yr oedd hynny'n ei olygu. Tybed a fyddai'r ddau wedi bod mor agos fel brodyr, neu a fyddai yna genfigen wedi codi rhwng y ddau, petai'r gwir wedi ei ddatgelu? Ond mae Ned yn cyfaddef i Ann, wedi marwolaeth Twm, ei fod ef a'i frawd yn 'dallt ei gilydd' cyn belled ag yr oedd ei deimladau tuag ati hi yn bod. Ond a yw Ned yn hollol onest ag Ann, a chyn hynny â'i frawd Twm?

Natur hawddgar sydd gan Twm ar y cyfan, ond fel ei dad a'i daid o'i flaen, nid yw'n ofni mynegi ei farn, a phan yw'n cael ei groesi mae'n bryd cymryd sylw, fel y gŵyr ei blant pan maent yn camymddwyn. Roedd pentrefwyr Llanwddyn hefyd yn gwybod am dymer y teulu Elis, yn enwedig am dymer wyllt taid Twm. Ailadroddwyd sawl tro amdano, fel saer yn colli ei dymer yn lân gydag un hen ffermwr cwynfanllyd ac yn rhedeg ar ei ôl gan ei fygwth gyda morthwyl. A dyn ei deulu yw Twm Elis. Mae'n weithiwr caled ac mae galw mawr amdano fel crefftwr. Mae'n ceisio rhoi ei blant ar 'ben y ffordd'. Maen nhw'n mynychu'r capel fel teulu, ac mae Twm yn dysgu'r bechgyn i arddio, i dyfu llyisiau, i ofalu am yr ieir a'r mochyn, ac i dorri coed fel tanwydd ar gyfer y gaeaf. Ambell dro fe fydd yn mynd am beint i'r dafarn gyda'i frawd, ond mae Ann yn hynod falch nad yw'n or hoff o'r ddiod gadarn.

Yng nghymeriad Twm fe gawn werinwr o'r math gorau. Mae'n byw ei fywyd syml yn y pentref sydd wedi bod yn gartref iddo erioed. Nid yw'n gwybod fawr ddim am y byd y tu draw i ffiniau dyffryn Efyrynwy, a phan sonnir am ddinas Lerpwl, does ganddo fawr o syniad ble yn union mae'r lle, nac ychwaith fawr o ddiddordeb ynddo,

nes ei fod yn sylweddoli bod bygythiad i'w fyd sefydlog, hapus yn dod o gyfeiriad y ddinas honno. Y mae Twm yn cael ei dorri i lawr fel canlyniad i ddamwain angheuol, yn wŷr yn ei dridegau hwyr, a hynny pan mae ei angen fwyaf fel priod, tad a brawd hoffus. Mae ei farwolaeth sydyn yn cael effaith enbyd ar ei deulu ac mae colled enfawr ar ei ôl.

Ned Elis

O'r ddau frawd mae Ned yn 'hen gog smart' fel y dywed y pentrefwyr. Pryd tywyll, gwallt du a llygaid glas. Fel ei frawd, mae'n dal, ychydig yn dalach na Twm o ryw fodfedd, ac mae hynny'n golygu ei fod wedi cyrraedd chwe troedfedd. Saer coed yw Ned ac roedd o wedi dysgu ei grefft gan ei daid a oedd hefyd yn saer coed ac yn ymgymerwr. Pan benderfynodd ei daid i ymddeol yn ddeg a thrigain oed, fe gymerodd Ned ei le fel saer coed ac ymgymerwr y pentref. Fe etifeddodd hefyd offer ei daid a'r gweithdy bychan ar gyrion y pentref. Yn ystod rhai cyfnodau o'r flwyddyn, pan fyddai'r ffliw, niwmonia neu'r diptheria yn lledu trwy'r fro, byddai Ned yn brysur iawn yn gwneud eirch.

Cyn dechrau'r nofel mae Ned yn un o'r criw ffrindiau sydd yn mentro dros y mynydd i ffair y Bala un noson hydrefol oer. Ond yn wahanol i Twm y noson honno, cerdded i fyny ac i lawr stryd fawr y Bala gyda Now ei ffrind y mae Ned. Mae'n llygadu ambell i ferch ddel ac yn aros i gael sgwrs gydag un neu ddwy, ac o gil ei lygaid mae'n gweld Twm ei frawd yn sefyll yn ymyl y stondin gacennau ac yn cael sgwrs â'r eneth dlysaf a welodd Ned erioed. Yna, ac yntau'n gwyllo o bell, mae'r ddau yn diflannu am weddill y noson. O'r funud honno ymlaen mae yna eiddigedd yn ymlwybro i mewn i feddwl Ned. Pam na fyddai o wedi sylwi ar y ferch cyn ei frawd? Byddai'n sicr o fod wedi aros i gael sgwrs â hi. Gwelwn felly fod Ned, ar hyd y blynyddoedd, yn dod i edmygu, ac yn wir i garu Ann, ei chwaer yng nghyfraith. Mae'n ceisio cuddio ei deimladau oddi wrthi hi a'i frawd Twm. Does ganddo ddim diddordeb mewn merched eraill, er ei fod ambell brynhawn Sul yn mynd am dro gyda morwyn Plas Eunant, ac wrth wahanu yn taro cusan ysgafn ar ei boch, ond byth ar ei gwefus. Ffrindiau yn unig yw'r ddau cyn belled ag y mae Ned yn bod, ond y mae'r forwyn yn coleddu syniadau a gobeithion gwahanol.

Gyda'i fam yn Fishing Street Llanwddyn y mae Ned yn byw ei fywyd mynachaid, ac mae ei gartref bron ar draws y ffordd i Twm ac Ann a'u teulu. Mae

o'n cydnabod iddo'i hun mai Ann sydd yn dwyn ei fryd, ac er iddo ar funud wan gydnabod wrth Twm ei fod yn edmygu ei chwaer yng nghyfraith, nid yw byth yn sôn bod ei deimladau'n ddyfnach nag edmygedd. Caru o hirbell y mae Ned, oherwydd ei fod yn gwybod fod ei sefyllfa'n anobeithiol. Mae'n breuddwydio bob nos amdani, a phan fydd yn ei chwmmi mae'n cymryd hunanddisgyblaeth fawr iddo beidio ei chyffwrdd â'i chusanu'n frwd. Mae'n barod bob prynhawn Sadwrn i helpu Twm i dorri coed tân neu i drin yr ardd, a hynny am ei fod, wedi'r gorchwylion, yn cael ei wahodd am gwpaned o de a bara brith ac eistedd yn hamddenol o amgylch bwrdd y gegin i sgwrsio gydag Ann a Twm. Fel brawd, mae'n caru Twm hefyd, ac o barch iddo mae'n penderfynu na fydd byth yn rhoi cyfle iddo, trwy air neu weithred, i amau ei gymhellion. Nid yw hyn yn wir am Ann, mae hi'n amau fod gan Ned deimladau cynnes tuag ati a hynny yn deillio o'r ffaith ei bod wedi sylwi ar ambell edrychiad slei ac ambell winc pan na fydd Twm o fewn cyrraedd. Mae Ned hefyd wedi etifeddu tymer byrbwyll teulu Elis. O ran hynny, mae'n cymryd ar ôl ei daid. Yn yr ardal, caed storïau doniol am Dei Elis y saer a oedd yn hawdd iawn ei dramgwyddo. Mae Ned yn danllyd ac yn frwd o ran natur. Eto, wedi i Twm gael ei ladd mor sydyn, mae'n hiraethu'n ofnadwy am ei frawd, a gwelwn ei fod yn gallu bod yn annwyl ac amyneddgar iawn gydag Ann a'r plant wedi'r ddamwain. Ond a oes ganddo obeithion cuddiedig tybed?

Mae Ann yn disgwyl ei seithfed plentyn pan yw Twm yn cael ei ladd. Mae Ned yn ymddangos yn nrws yr ystafell wely pan fydd Ann yng ngwewyr yr enedigaeth, ac mae'n cael ei anfon allan gan yr 'Hen Wraig,' sef y fydwraig leol, am nad oedd ganddo hawl i fod yno yn ei thyb hi. Mi dybiwn mai eisiau cysuro Ann yn ei phoen a'i thrafferth y mae Ned. Yn y dyddiau hynny doedd dim lle i ddynion i fod yn bresennol pan oedd merch yn rhoi genedigaeth, yn enwedig i frawd yng nghyfraith nad oedd yn dad i'r plentyn.

Fel mae'r wythnosau'n mynd heibio mae Ann yn pwyso fwyfwy ar Ned ac mae yntau wrth ei fodd. Mae Ann yn beichiogi am yr wythfed tro a Ned yw'r tad. Mae'n cael ei 'thorri allan' o'r capel. Dyma pryd y cawn dystiolaeth fod Ned wedi etifeddu tymer ei daid.

Yn Ned, fe gawn bersonoliaeth emosiynol a brwd. Er ei fod yn saer da a phrofiadol, mae gwneud arch ar gyfer ei frawd, ac yna'r babi bach a aned i Ann o flaen ei amser, yn ormod iddo. Mae ganddo safbwynt cryf ynglŷn â'r hyn a oedd ar fin digwydd i ddyffryn Efyrynwy hefyd, a phan yw Ann yn cael ei diarddel o'r capel,

mae'n cyhuddo'r gweinidog o beidio gweld y *trawst yn ei lygaid ei hun*. Gwerinwr yw Ned, fel ei frawd Twm, a'i fyd yn gyfyng, ond y mae teyrngarwch a ffyddlondeb yn bwysig iawn iddo.

Jo Elis

Mab hynaf Twm ac Ann yw Jo. Yn y nofel mae Jo yn tyfu o fod yn fachgen eiddil unarddeg oed i fod yn llanc yn ei arddegau. Mae'n 'hen gog' pryd golau, llygaid glas a gwallt crychlyd, lliw'r yd. Erbyn iddo gyrraedd ei arddegau mae'n heglog a thal, ond ddim mor dal â'i dad a'i ewyrth Ned. Mae Jo yn llawn hwyl ac wrth ei fodd yn chwarae gyda'i ffrindiau yn y coed a'r caeau o amgylch pentref Llanwddyn. Mae'n mwynhau ymladd gyda chlustogau plu i fyny yn yr ystafell wely gyda'i frodyr, Tomos a Bob, cyn clywed bloedd gan eu tad ei bod yn amser swatio a mynd i gysgu.

Bywyd braf, hapus sydd gan Jo. Mae'n helpu ei dad yn yr ardd ac yn casglu a llifio coed ar gyfer tanwydd. Mae'n cario dŵr mewn bwcedi mawr o'r ffynnon ger llaw. Bywyd digwmwl plentyn yn y wlad, nes i'r sibrydion am gynlluniau dinas Lerpwl ymledu, ac yn fwy na dim i'w dad gael ei ladd ar noson waethaf y flwyddyn o ran tywydd. Yna, ar ben y cwbl, mae'n dal ei fam yn y gwely gyda'i ewyrth Ned ac yn cael ar ddeall eu bod am briodi. I Jo, mae Ned yn ardderchog fel ewyrth, ond nid fel llystad. Mae'n penderfynu dweud ei feddwl wrth Ann a Ned. 'Be' fydde nhad yn ei ddweud? Dach chi'ch dau wedi anghofio am Dad.' A dywed wrth ei ewyrth: 'Dewyrth, dach chi wedi ei fradychu.' Does neb na'r un dyn byw yn ddigon da i lenwi esgidiau ei dad.

Yn ychwanegol at hyn, mae yna ddigwyddiadau eraill sydd yn arwain at benderfyniad Jo i fynd yn ddigon pell o Lanwddyn ac ymfudo i America. Mae Jo wedi ceisio protestio oddi ar ben y goeden pan fo pwysigion Lerpwl yn ymweld â'r fro. Chwerthin am ei ben a wnaeth y rheiny, a chwerthin am ben y werin dlawd a wnaeth 'pobl Lerpwl' dro ar ôl tro. Doedd dim parch o gwbl at y pentrefwyr, 'They are only tenants.' Dyna yn union oedd y teimlad. Doedden nhw ddim yn bwysig a doedd neb yn poeni amdanynt. Llanc ifanc wedi ei ddadrithio'n llwyr gan amgylchiadau personol a'r hyn sydd ar fin digwydd yn nyffryn Efyrynwy yw Jo. Mae yna ddiflastod wedi treiddio i mewn i'w gyfansoddiad ac mae'n ffoi: ffoi oddi wrth ei deulu a bro ei febyd.

Mr Hamilton

Un o swyddogion cynllunio Corfforaeth Lerpwl yw Mr Hamilton yn y nofel. Mae'n berson cymhleth, ac yn un sydd o dan orfodaeth ac o dan bwysau. Yn 1866 mae o'n barod i gefnogi cynllun a fyddai'n golygu bod dinas Lerpwl yn cael cyflenwad o ddŵr o Lyn Tegid. Yn ôl pob sôn mi fyddai cynllun o'r fath yn rhatach nag un fyddai'n golygu boddi dyffryn a chreu llyn artiffisial. Mae Hamilton yn barod i gytuno bod angen ffynhonnell ychwanegol o ddŵr glân i ddinas fawr Lerpwl, sydd yn cynyddu o ran ei phoblogaeth, a hynny oherwydd twf diwydiant. Mae yna dystiolaeth fod cynllun yn ardal y Llynnoedd yng ngogledd Lloegr a oedd yn cael ei alw yn gynllun Haweswater, ac yn y *Daily Liverpool Courier*, 15 Gorffennaf 1881, ceir sôn am *The Bleasdale and Wyredale Scheme*, sef cynllun ar y cyd rhwng Lerpwl a Manceinion.¹⁹ Yn y *Courier* eto, ar 14 Gorffennaf 1892, ceir y geiriau hyn sydd yn dangos mai cynllun Llanwddyn oedd yn o'r ffefrynnau erbyn hynny: 'but the fight was really between Haweswater and Vyrnwy schemes.'²⁰

Mae Mr Hamilton wedi ei seilio ar berson o'r enw Mr Duncan a oedd yn adrodd i Bwyllgor Dŵr y Gorfforaeth ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae sôn amdano yn ystod y trafodaethau a gymerodd le rhwng 1860 ac 1881. Ceir bod Mr Duncan yn cymeradwyo ystyried cynllun Llyn y Bala fel ffynhonnell ychwanegol i'r ddinas, ac mae'n paratoi adroddiad sydd yn cadarnhau hyn ac yn ei gynnig i'r Gorfforaeth yn 1866. Ond erbyn 27 Tachwedd 1877, mae'n amlwg ei fod wedi newid ei feddwl, ac mae'n awgrymu y dylid ystyried dyffryn Efyrynwy. Un o'r elfennau o blaid Efyrynwy oedd bod olion amlwg o fodolaeth rhewlyn o oes yr iâ yno, bod yno ddigon o afonydd a nentydd bychain yn rhedeg i mewn i'r brif afon, sef yr Efyrynwy, ac fe fyddai'r dŵr o'r rhain yn llenwi'r dyffryn yn fuan wedi i'r argae gael ei hadeiladu. Ystyriaeth ychwanegol oedd nad dim ond pedwar deg pump o filltiroedd, fel yr hed y frân, rhwng Lerpwl a Llanwddyn.

Fodd bynnag, dros nifer o flynyddoedd mae'n amlwg fod cryn ddadlau wedi cymryd lle yn Lerpwl cyn dod i benderfyniad terfynol. Roedd llawer o flynyddoedd wedi mynd heibio ers pasio'r '1880 Liverpool Corporation Waterworks Act' gan y senedd yn Llundain a oedd yn rhoi'r hawl i ddinas Lerpwl foddi dyffryn Efyrynwy.

¹⁹ *Daily Liverpool Courier*, 15 Gorffennaf 1881.

²⁰ *Daily Liverpool Courier*, 14 Gorffennaf 1892.

Yn Hamilton yr wyf wedi ceisio creu cymeriad sydd ag ychydig o gydymdeimlad â thrigolion dyffryn Efyrrwy. O ddarllen am Mr Duncan, does dim tystiolaeth o hynny. Ond yng nghymeriad Hamilton ceir Sais sydd wedi ei fagu yng nghefn gwlad gogledd Lloegr mewn ardal lle y mae digonedd o lynnoedd naturiol, ac felly mae'n anhapus ynglŷn â'r bwriad o ddinistrio cymdogaeth. Ceir enghreifftiau o'i ansicrwydd cudd yn y nofel. Pan yw pwysigion Lerpwl yn ymweld â'r dyffryn, nid yw'n hapus i ymuno yn y dathlu ac i yfed siampaen yn y gwesty yn Llanfyllin y noson cyn yr ymweliad. Mae hefyd yn cilwenu pan yw Jo yn gwneud ei brotest o ben y goeden pan fydd 'y bobl fawr' yn ymweld â Llanwddyn yn llawn hyder â phwysigrwydd.

Gŵr ansicr yw Hamilton, yn barod i ufuddhau, ond ddim yn barod i ddathlu. Pam i mi greu cymeriad o'r fath, a hynny heb dystiolaeth? Yn bennaf, oherwydd bod dadlau mawr ym Mhwyllgor Dŵr y Gorfforaeth dros nifer o flynyddoedd ynglŷn â pha gynllun i'w fabwysiadu, ond hefyd oherwydd bod Hamilton (Duncan) wedi newid ei feddwl dros gyfnod o amser. Dywedir bod Duncan ei hun wedi marw yn ystod y cyfnod cyn i'r penderfyniad mawr gael ei wneud, felly hwyrach fod hyn ynddo'i hun wedi gohirio'r broses rywfaint.

Lerpwl fel cymeriad yn y nofel

Mae dinas Lerpwl yn chwarae rhan bwysig iawn yn y nofel, Lerpwl y bedwaredd ganrif ar bymtheg a Lerpwl y presennol. I Ann, ei theulu a'i chymbentrefwyr, bygythiad yw dinas fawr Lerpwl dros nifer o flynyddoedd. Nid ydynt yn sicr ble y mae Lerpwl yn ddaearyddol. Ond y maent yn sicr ei bod yn real ac yn bwgwth eu ffordd nhw o fyw. Mae Lerpwl yn ymosodol, yn lleidr, yn bŵer, yn rhywbeth i'w ofni. Mae'n ariannog ac yn ariangar, ac y mae arian yn prynu tir a bywoliaeth. Mae'n dinistrio tir, tai a phentref cyfan. Mae'n gallu gorlywodraethu a maeddu bro uniaith Gymraeg. Does dim modd protestio, does yna neb yn gwrando, does gan Gymru dim diddordeb. Mae pobl yr hen Lanwddyn wedi eu hynysu'n llwyr.

I Meira Owen yn yr unfed ganrif ar hugain, mae Lerpwl yn gartref modern a chysurus iddi hi a'i phriod, Wil. Mae hi'n ddiogel yn Lerpwl ac yn adnabod ei ffordd o amgylch y ddinas yn ei char BMW crand. Mae sefydlogrwydd i'w swyddi hi a Wil yn Lerpwl. Mae eu bywyd yno'n esmwyth a braf. Dyma fel y mae pethau i Meira ar ddechrau'r nofel.

Fodd bynnag, mae pethau'n newid wedi marwolaeth Wil. Mae Llanwddyn yn galw oherwydd cysylltiadau Wil â'r fro. Yno bellach y mae esmwythâd i enaid. Yno yn Llanwddyn y mae Meira yn dod i wybod am gefndir teulu Wil ac yn dod i'w hadnabod ei hun yn well.

Ar ddechrau'r nofel mae Lerpwl yn bopeth iddi hi a Wil. Ond fel y mae profedigaeth, ac yna gariad newydd, yn cael effaith ar Meira, mae Lerpwl yn mynd yn syrffed iddi. Mae'r ddinas yn mynd yn llai pwysig iddi ac mae'n sylweddoli bod y lle yn cynrychioli agweddau mwyaf imperialaidd oes Fictoria. Gwelwn fod Meira eisiau troi ei chefn ar Lerpwl gyda'i hail ŵr, Dafydd. Maen nhw'n ymadael â'r ddinas, a chyda bywyd newydd yn ei chroth, y mae Cymru'n galw a dyfodol newydd yn ymagor o'i blaen.

Amgylchiadau ysgrifennu'r nofel

Cefais y syniad o ysgrifennu'r nofel hon, a alwn ar y dechrau yn *Efyrnwy*, pan oeddwn ar fy ngwyliau ar ynys Jersey ym mis Awst 2010. Roedd fy mhriod Tecwyn yn fyw y pryd hwnnw, ac am gyfnod o bron i hanner cant o flynyddoedd yng nghwmni ein gilydd roedd wedi dweud llawer wrthyf am hanes bro ei febyd. Er iddo ymadael â Llanwddyn i fynd i'r coleg yn 1955, a heb ddychwelyd yno i fyw, roedd yr ardal a'i hanes wedi gadael argraff ddofn arno. Roedd ei daid a'i nain o ochr ei fam wedi byw yn yr hen Lan ac roedd y 'boddi' ac effeithiau symud y boblogaeth i'r pentref newydd yn fyw iawn yn eu cof. Taid Tecwyn, a oedd yn saer coed ac yn ymgymerwr pan foddwyd y dyffryn, a gafodd y dasg annifyr o weithio eirch newydd er mwyn ail-gladdu'r cyrff yn y fynwent newydd sydd wedi ei lleoli ar draws y ffordd i'r eglwys ar ochr y bryn yn wynebu'r llyn mawr. Dywedodd mai tasg arbennig o ddiflas oedd hon, yn enwedig pan nad oedd fawr ar ôl o weddillion i'w rhoi yn yr eirch newydd cyn eu hail-gladdu.

Pan briododd taid Tecwyn, bu'n brysur yn dodrefnu ei gartref. Roedd yn saer da a llwyddodd i weithio cwpwrdd llestri mawr ar gyfer y parlwr, cwpwrdd dillad i'r brif ystafell wely a chwprdd deuddarn ar gyfer yr ystafell fyw, sydd erbyn heddiw yn fy nghartref i. Yn naturiol roedd y pren ar gyfer y dodrefn wedi tyfu yn y coedwigoedd o amgylch yr hen bentref.

Yr hyn a oedd yn syndod i Tecwyn, a hefyd i mi pan oeddym yn trafod yr hanes, oedd sylweddoli cyn lleied o amser a oedd wedi mynd heibio ers y 'boddi' pan oedd o yn tyfu i fyny yno ym mhedwardegau'r ugeinfed ganrif. Ond i fachgen roedd

yr hyn a ddigwyddodd ym mro ei febyd yn ymddangos yn bell bell yn ôl. Roedd teulu Tecwyn wedi ymgartrefu yn nyffryn Efyrynwy ers 1690. Gwehyddion oeddynt a ymsefydlodd gyntaf yn ardal Llanidloes ac yna ymledu i rannau eraill o'r hen sir Drefaldwyn. Yr hyn sydd wedi bod yn ddifyr i mi yw'r ffaith fy mod wedi cael blas, trwy'r hanesion a gefais gan Tecwyn, o'r ofn a'r dychryn a ledodd drwy'r fro pan ddaeth y sibrydion fod Lerpwl am foddî'r dyffryn a symud y pentrefwyr i bentref newydd er mwyn adeiladu argae fawr i sicrhau cyflenwad newydd o ddŵr ar gyfer y ddinas, a hwythau fel pentrefwyr yn hollol ddiymadferth i'w wrthwynebu. Dywed A. G. Bradley yn ei lyfr, *Highways and Byways in North Wales*:

Something like 500 souls, who spoke no English worth mentioning, were living here at the time when the news came upon them like a thunderclap that they were to be wiped off the face of the earth.²¹

Ym mhentref Llanwddyn yn ystod y cyfnod hwnnw roedd tri thafarn, sef y Crossguns, y Powys Arms a'r Red Lion. Roedd yna eglwys fechan, tri chapel, tri deg saith o dai, sawl fferm fach ac hefyd Plas Eunant gerllaw. Felly, gallwn gasglu nad cymuned fach oedd yn bod yn nyffryn Efyrynwy. Mae'n deg dweud ei bod yn gymuned wledig, bellennig, ac yn ynysig yn yr oes honno. Ond fe wnaeth 'y boddi' effeithio ar lawer o bobl a'u diwreiddio'n llwyr. O ystyried nad oedd ond cwta bump deg dau o flynyddoedd ers 'y boddi' pan oedd Tecwyn yn clywed yr hanes gan ei nain, does dim rhyfedd bod y digwyddiad mor fyw yn ei chof.

Fy syniad cyntaf oedd ysgrifennu'r nofel o safbwynt gŵr ifanc yr oedd ei dad wedi ei ddwyn i fyny ym mhentref Llanwddyn. Roeddwn wedi enwi'r prif gymeriad yn Myfyr, ac roedd wedi mynd i dreulio penwythnos yng ngwesty'r *Lake Vyrnwy*. Tra bu yno, roedd wedi mynd am dro o amgylch y llyn ar ei feic. Cafodd anaf difrifol i'w ben oherwydd i'r beic daro carreg a bu Myfyr yn anymwybodol am gyfnod hir. Yn y cyflwr hwn y mae hanes 'y boddi' yn fflachio o'i flaen. Yna ymhen amser, wedi iddo ddeffro a dechrau cryfhau, mae'n ysgrifennu'r holl hanes i lawr mewn ffurf dyddiadur. Ond roedd hyn yn achosi problem i mi. Beth sydd yn digwydd i'r ymennydd pan yw person yn anymwybodol? A yw digwyddiadau o'r gorffennol yn

²¹ A. G. Bradley, *Highways and Byways in North Wales* (Macmillan, 1898), 458.

eu hamlygu eu hunain ac yn ymddangos yn real? Pan yw'n deffro, a yw person yn gallu eu cofio fel cofio breuddwyd?

I mi roedd hyn i gyd yn broblem anodd i'w datrys. Nid oeddwn yn gwybod pwy i'w holi; yn wir roeddwn yn amau'n fawr a oedd y fath dystiolaeth ar gael. Ofnwn y byddai hyn yn effeithio a'r rwyddineb fy ysgrifennu creadigol. Felly, ar 30 Mehefin 2011, pan oeddwn yn teithio o Aberteifi i Abergele, penderfynais ysgrifennu'r nofel o berspectif dwy ferch. Sylweddolais y byddai manteision o wneud hyn. Roedd gennyf eisiau cadw'r cysylltiad â Llanwddyn y gorffennol a Llanwddyn y presennol. Wedi'r cwbl, dyna pam roeddwn i eisiau ysgrifennu'r nofel yn y lle cyntaf.

Lluniais gymeriad Meira Owen, sydd yn Bennaeth ysgol gynradd, am fy mod i wedi bod mewn sefyllfa debyg iddi yn ystod fy ngyrfa. Roedd hyn yn golygu y gallwn ddychmygu ei bywyd yn yr ysgol, ei chysylltiad â phlant, rhieni ac athrawon. Ar 9 Tachwedd 2011 ysgrifennais yn fy nyddiadur ysgrifennu:

Wedi ysgrifennu pedair pennod erbyn hyn. Mae pethau'n troi allan ychydig yn wahanol i'r disgwyl. Mae Wil yn cael ei ladd mewn damwain car ac er bod Meira'n ystyried ei hun yn gymeriad cryf (Pennaeth Ysgol, yn geffyl blaen), nid yw'n gallu ymdopi o gwbl. Mae ei stad meddwl yn fregus iawn. Mae'n dibynnu ar ei chwaer Margied, er nad ydynt wedi bod yn agos oherwydd yr hyn ddigwyddodd yn y gorffennol.

Rydw i yno gyda Meira, rydw i'n gallu uniaethu â hi oherwydd fod Tecwyn wedi ei gymryd yn wael yn sydyn ar y 17 Ionawr 2011. Bu farw ymhen yr wythnos yn hollol annisgwyl i mi ac i'r teulu. Cefais drafferth mawr ysgrifennu pennod tri, er enghraifft, a dyma'r hyn a gofnodais yn fy nyddiadur ysgrifennu:

Mi ges i drafferth mawr ysgrifennu pennod tri wrth ddisgrifio Meira yn dychwelyd o'r ysbyty i'w chartref wedi i Wil farw. Mae hi'n mynd o stafell i stafell yn y tŷ – popeth yn ei le fel arfer. Mae popeth yn ymddangos yn normal. Ond nid yw popeth yn normal. Mae'r hyn rydw i wedi ei ddisgrifio ar y tudalennau yma heddiw yn llawer rhy agos at yr asgwrn. Y fi sydd yn mynd o stafell i stafell wedi i Tecwyn farw. Rydw i wedi crio'n hidl wrth i mi ailddarllen yr hyn rwyf ei ysgrifennu, a bod yn hollol onest rydw i wedi crio wrth ei ysgrifennu. Rhaid cyfaddef fod y broses wedi bod i ryw raddau yn gathartig. Rhaid cyfaddef fod fy emosiynau yn sobr o frau o hyd.

Yna, rai dyddiau yn ddiweddarach yn fy nyddiadur, rydw i wedi cofnodi sylwadau pellach sydd yn taflu goleuni ar y berthynas rhwng y nofel hon a'm profedigaeth fy hun:

Heddiw, rydw i wedi bod yn ysgrifennu y rhan gyntaf o bennod pedwar. Mae Meira yn eistedd ar y fainc yn yr ardd o dan y goeden helyg wedi angladd Wil. Rydw i wedi ail fyw atgofion amdanaf i a Tecwyn yn yfed coffi ar y fainc yn ein gardd ni ar ddiwrnod braf. Rhaid cyfaddef fy mod wedi beichio crio unwaith eto wrth ddisgrifio'r olygfa. Mae'r teimladau'n ddwfn ac yn brifo.

O ddewis merch fel un o'r prif gymeriadau, roedd yn ofynnol ei chysylltu hi â'r gorffennol. Dyma sut y bu i mi lunio cymeriad Ann Elis. Mae cymeriad Ann Elis wedi ei seilio ar nain Tecwyn oedd yn byw yn yr hen Lan. Nid yw'r stori yn dilyn yr un trywydd yn union â hanes y nain. Cafodd hi bymtheg o blant. Saer oedd ei phriod, ond ni adawyd hi yn weddw gyda llond tŷ o blant. Serch hynny, mae yna debygrwydd yn y ffaith fod Ann a Sara wedi byw am rai blynyddoedd yn yr hen Lan ac wedi cael y profiad erchyll o weld eu cartrefi yn cael eu dymchwel a'u chwythu i fyny. Fel yn y nofel, mae nain Tecwyn, ei gŵr a'r pymtheg plentyn yn cael eu symud i gartref newydd yn y Llanwddyn newydd, a hynny o dan orfodaeth.

Roedd yr holl brofiadau hyn – yr ofn, y bygwth, gweld y pentref yn cael ei ddeinameitio a symud i'r llan newydd – yn fyw ym meddwl Elis a Sara a'r pentrefwyr i gyd. Roeddynt yn ailadrodd yr hanes dro ar ôl tro wrth eu hwyrion a'u hwyresau. Doedd dim posib anghofio'r fath ddigwyddiad. Roeddynt fel cymuned wedi eu brifo, a doedd y briw ddim yn gwella.

A oedd yna eglurhad am hyn? Pam nad oedd gwellhad i'w brofi? Y mae sawl rheswm. Cafodd dyffryn Efyrnwy ei foddi gan Seisnigrwydd. Yn ôl Cyfrifiadau 1881 a 1911, mae tystiolaeth am nifer o gyfenwau dieithr yn yr ardal. Fe debygir fod hyn oherwydd y nifer o fewnfudwyr a ddaeth gyda'r gwaith, er enghraifft Erasmus, McIntyre, Jervis, Brice, Henderson, Getson, Ormesher ac yn y blaen. Mae'n amlwg hefyd fod Lerpwl yn ddinas bwerus yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd y porthladd yn datblygu ac yn cynnig gwaith i lawer. Ar hyd a lled y ddinas, roedd yna waith adeiladu yn cymryd lle, a galw mawr am seiri coed a seiri maen, gyda llawer ohonynt yn symud i'r ddinas o ardaloedd eraill yn Lloegr, Iwerddon a Chymru. Roedd cannoedd yn heidio i fyw yno, a llawer o Gymry yn mwynhau bywyd da ac yn dod yn flaenllaw ym mywyd eglwysig y ddinas. Derbyniodd rhai, megis y Parchedig John

Williams a oedd yn weinidog yng Nghapel Princes Road, fraint Rhyddid y Ddinas er Anrhydedd. Gwelwn heddiw dystiolaeth yn enwau rhai o siopau Lerpwl fod ambell i Gymro yn ŵr busnes llwyddiannus (megis Owen Owen a anwyd ym Machynlleth ac a agorodd un o'r 'departmental stores' cyntaf). Dengys enwau Cymraeg nifer helaeth o strydoedd a godwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg mai adeiladwyr o Gymry a fu'n gyfrifol am eu codi.

Cymaint oedd dylanwad Cymry Lerpwl ar y ddinas fel y cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yno yn 1884. Diddorol yw sylwi ar enwau rhai o'r tanysgrifwyr. Mae'r cyfenwau'n dystiolaeth i frwdfrydedd busnesau a theuluoedd a hanai o Gymru, er enghraifft Griffiths and Davies Scotland Rd, Meredith Jones, North and South Wales Bank Liverpool, John Lloyd Sefton Park, Messrs Evans Brothers Bootle, Messrs Robert Roberts & Co Dale Street, Jones Belvedere Liverpool a John R. Pritchard (Arts Sec) Liverpool.²² Mae'r rhestr yn frith o gyfenwau megis Jones, Griffiths, Roberts, Davies a sawl enw Cymreig arall.

Yn y llyfr swmpus sy'n cofnodi hanes a chynnyrch yr Eisteddfod, mae yna adran *Press Opinions*, lle ceir adroddiadau yn Saesneg o'r *Times*, y *Liverpool Courier*, *Baner ac Amserau Cymru* a hefyd *Cerddor Cymry*, ac enwi ond ychydig. Ymhob un o'r adroddiadau hyn, fe welir mor llewyrchus oedd cymdeithas Gymraeg a Chymreig dinas Lerpwl a chymaint yr ymhyfrydai'r Cymry yno yn y llewyrch hwnnw. Dyma a ddyfynnir o'r *Times* yn y fan honno: 'The 20,000 Welshmen who have been pouring into Liverpool this week feel themselves no strangers in its streets.'²³ Meddai'r *Liverpool Courier* wedyn:

Thus far the Cambrians have cause to be well satisfied with the choice of this city for the Royal National Eisteddfod of 1884, and the great success which attending the festival adds one more to the claims which Liverpool already advanced, to be considered the 'capital of Wales'.²⁴

Roedd *Baner ac Amserau Cymru* yr un mor glodforus:

Yn Eisteddfod Liverpool yn 1884, ni ddywedwyd gair, araeth, na sill mewn englyn, ac ni chanwyd cymaint a chân a allasai beri y briw lleiaf i'r teimlad mwyaf llednais na'r chwaeth buraf.²⁵

²² *Transactions of the Liverpool National Eisteddfod 1884* (Isaac Foulkes, 1885), 668-72.

²³ *Ibid.*, 670.

²⁴ *Ibid.*, 671.

²⁵ *Ibid.*, 671.

Yn yr un modd, dywed *Cerddor y Cymry*: ‘Gellir rhestru Eisteddfod fawr Lerpwl, ar lawer cyfri, yr orau a’r fwyaf ardderchog a gynhelid eto.’²⁶

Roedd yr holl ganmoliaeth yma yn ymddangos yn y wasg yn yr union gyfnod pan oedd dinas Lerpwl yn bygwth boddi dyffryn Efyrynwy. O ddarllen yr erthyglau hyn, ynghyd â chyfansoddiadau buddugol yr Eisteddfod honno (megis y Bryddest a’r Awdl, a gweddill y cynnyrch llenyddol), mae’n ddiddorol sylwi nad oes sôn o gwbl am yr hyn a oedd yn mynd ymlaen ym Maldwyn ar y pryd. Yr unig fan y gwelir y gair ‘Vyrnwy’ yw mewn traethawd yn yr iaith Saesneg o dan y teitl, ‘The Fisheries of Wales’ gan D. C. Davies FGS, Gobowen. Ond hyd yn oed yno, ni feirnedir yr hyn a oedd ar droed yn nyffryn Efyrynwy:

Between Welshpool and Shrewsbury, at Molverley, it receives its most important Welsh tributary the Vyrnwy. This river rises in the eastern recess of the Berwyn mountains, above the present village of Llanwddyn.

Yna ceir y troednodyn canlynol:

I say the ‘present’ because the village with its church is about to be removed. The corporation of Liverpool, by building a massive masonry dam across the valley near Isa – two miles below the village - are constructing a huge Cynon reservoir or lake, five miles long which will cover the site of the present village.²⁷

Does dim condemniad, dim ond datganiad moel yn sôn am yr hyn oedd yn digwydd. Felly, gellir dod i’r casgliad bod Lerpwl fel dinas yn uchel ei pharch ymhlith y Cymry. Roedd yn ddinas gyfoethog ac yn ddinas a oedd yn hawlio ei ffordd ei hun. Pa syndod nad oedd y pentrefwyr yn cyfrif dim? Doedd ganddynt ddim siawns sefyll i fyny a phrotestio. Y rhyfeddod yw nad oedd pobl Cymru’n gyffredinol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn poeni am drigolion Llanwddyn, fel y dengys y diffyg sylw yn y wasg. Ac y mae pobl Cymru heddiw wedi hen anghofio am yr hyn a ddigwyddodd ymhell dros gan mlynedd yn ôl.

Ymchwil i’r nofel

²⁶ Ibid., 672

²⁷ Ibid., 33.

Fel y gwelir o'r draffodaeth a gafwyd eisoes, bu'n rhaid gwneud cryn dipyn o ymchwil i hanes boddi dyffryn Efyrynwy, ac i arferion bywyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cyn mynd ati i ysgrifennu'r nofel. Treuliais amser hefyd yn astudio gofynion y nofel hanes, a theimlaf fod rhaid sicrhau bod y cefndir hanesyddol yn ffeithiol gywir. Mae'r nofel hanes lwyddiannus, yn fy marn i, yn dibynnu ar gywirdeb ffeithiol cyfnod arbennig sy'n cael ei fynegi trwy fywydau cymeriadau 'go iawn' y cyfnod hwnnw. Ambell waith, mae'r cymeriadau yn bobl enwog ac wedi chwarae rôl bwysig yn ystod eu hoes, ac weithiau wedi llwyddo i newid cwrs hanes, er enghraifft ffigwr Catrin a ddarlunnir yn y nofel, *Catrin o Ferain*, gan R. Cyril Hughes.

Adwaenid Catrin o Ferain ar un adeg fel 'Mam Cymru', a hynny am iddi briodi bedair gwaith. Roedd hefyd yn ymhyfrydu yn ei chysylltiadau â'r frenhiniaeth trwy linach Harri'r VII. Dywed Cyril Hughes am ei nofel amdani fod gwneud ymchwil yn holl bwysig, er bod angen defnyddio'r ymchwil mewn modd dethol: 'Eto, fe gwyd y cwestiwn, a oes raid i nofelydd gadw at bob ffaith fach wybyddus am ei gymeriadau hanesyddol?'²⁸ Yn yr un modd, ceir yn y Saesneg nofelau Antonia Fraser am Siarl I a Cromwell, a nofelau Philippa Gregory am Ryfel y Rhosynnau a'r Tuduriaid. Yn y rhain mae cywirdeb ffeithiol am y cyfnod ac am y cymeriadau canolog yn bwysig, ond eu gogoniant i mi yw'r modd y maent yn llwyddo i roi cig a gwaed ar esgyrn y ffeithiau moel a wyddom am gymeriadau hanesyddol. Er enghraifft, mae Antonia Fraser yn ei nofel, *Cromwell our Chief of Men*, yn ceisio dangos ochr ddynol Cromwell, gan fynnu bod ganddo'i safbwyntiau a'i ragfarnau pendant. Ni ellir, fodd bynnag, osgoi ei ochr greulon ac y mae hynny'n wir am y ffordd yr ymladdodd ym 'Marston Moor', 'Naseby' a hefyd yn yr Iwerddon, er na fu mor llwyddiannus yn ystod ei ymgyrchoedd yno. Y cymhlethdod hwn a ddarlunnir mor llwyddiannus gan Fraser. Credaf fod Philippa Gregory hithau wedi llwyddo i roi darlun byw i ni drwy ei nofelau o rai o brif gymeriadau Rhyfel y Rhosynnau a chyfnod y Tuduriaid. Un o'r prif gymeriadau yn y gyfres, *The Cousins War*, yw Jacquetta, sef mam Elizabeth Woodville a briododd Edward IV. Dyma wraig a chwaraeodd ran bwysig yn y cyfnod cythryblus hwn, un a oedd yn gweithio yn y dirgel bob tro a hynny er budd i'w theulu ei hun. Fe'i portreadir yn hynod effeithiol yn nofelau Gregory. Yn ddiweddar, mae gwaith Hilary Mantel wedi dod i'r amlwg, ac edmygaf hithau hefyd am ei llwyddiant wrth bortreadu cymhlethdodau cymeriadau hanesyddol. Mae'n ysgrifennu am y

²⁸ R. Cyril Hughes, *Catrin o Ferain* (Gwasg Gomer, 1975), 219.

Tuduriaid yn ei nofel, *Bringing up the Bodies*, gan olrhain hanes cwmp Anne Boleyn a'r modd y bu Thomas Cromwell, Canghellor Harri'r VIII, yn allweddol yn hynny. Dyma'r modelau llenyddol y ceisiais innau eu hefelychu wrth ysgrifennu fy nofelau hanesyddol i, ac roedd darllen yn eang yn y maes hwn yn rhan allweddol o'r ymchwil wrth baratoi i ysgrifennu fy nofelau innau.

Dywed John Braine, 'You must never write about what you don't know.'²⁹ I mi, mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd gwneud ymchwil hanesyddol trylwyr, a chadw at y cefndir hanesyddol mor agos ag sydd yn bosibl. Dweud stori am gymeriadau dychmygol yr ydw i yn y nofel hon, er rhaid cydnabod, fel y crybwyllwyd eisoes, bod yna debygrwydd rhwng rhai o'r prif gymeriadau a chyn-dadau fy nheulu-yng-nghyfraith a oedd wedi byw trwy'r trawma o foddi'r cwm. Mae'r stori ei hun wedi ei gosod yn erbyn cefndir hanesyddol, ond oherwydd fy mod yn ymwybodol o'r ffaith mai dweud stori yr ydw i, dewisais wneud hynny gan gadw at arddull realaidd draddodiadol. Penderfynais beidio mentro yn ormodol o safbwynt arddull, gan ddewis peidio ysgrifennu'n llwyr mewn tafodiaith, er enghraifft. Ffuglen yw *Ddoe a Heddiw'n Un*, a defnyddiais fy nychmyg wrth geisio cyfleu yn realaidd yr hyn a oedd yn realiti i'r cymeriadau hanesyddol. Dyfynna Angela Wintie farn Philippa Gregory am y nofel hanesyddol, sef hyn: 'When people critique historical fiction for accuracy they forget we rarely know for sure what happened.'³⁰

Yn *Ddoe a Heddiw'n Un*, mae'r cymeriadau'n ddychmygol ac mae rhediad y stori hefyd yn ddychmygol, ond rwyf wedi ceisio cymharu'r trychinebau a ddigwyddodd ym mywydau Ann a Meira â'r drychineb fawr a ddigwyddodd i ddyffryn Efyrynwy. Mae'r drychineb o golli Wil mor sydyn mor ddirdynol i Meira â boddi'r dyffryn i drigolion Llanwddyn flynyddoedd ynghynt. Fel y dywedir mewn cyfrol fechan o'r enw *The Policeman's Story*: 'The changes wrought in Llanwddyn by the construction of Lake Vyrnwy [...], the first large reservoir in Wales, were greater than those experienced by any other Montgomeryshire Community.'³¹

'Mae perthynas agos rhwng hanes a nofel,' yw sylw Ioan Williams, ac mae hyn yn arbennig o wir yn y nofel hanesyddol.³² Fy mwriad innau yn y nofel hon oedd llunio stori ddynol ddychmygol, a'i gosod o fewn cefndir hanesyddol penodol. Er mwyn dilyn cyngor John Braine bod rhaid i awdur ysgrifennu am yr hyn y mae'n

²⁹ *How to Write a Novel*, 125.

³⁰ Angela Wintie, 'The World of Philippa Gregory', *The Telegraph Magazine*, 16 Aug 2014.

³¹ David Jones, *The Policeman's Story* (St Wddyn's Parochial Council; dim dyddiad), 1.

³² Ioan Williams, *Y Nofel* (Gwasg Gomer, 1984), 11.

gwybod amdano, roedd yn ofynnol imi ymchwilio'n fanwl i sawl ffynhonnell, ac rwyf wedi cyfeirio at rai o'r rhain eisoes yn ystod fy nhrafodaeth. Roedd cwestiynau pwysig angen eu datrys. Tybed pam y bu i Lerpwl ddewis dyffryn Efyrynwy? Pa effaith a gafodd y 'gwaith' ar y gymuned? A oedd yna ffynonellau megis cylchgronau a phapurau yn y Gymru gyfoes yn cofnodi'r digwyddiad? A oes yna sôn heddiw ymysg teuluoedd am yr hyn a ddigwyddodd? Hynny yw, a oes gwybodaeth gynradd ar gael heddiw?

Gwybodaeth gynradd.

Pan briodais i gyntaf â Tecwyn yn 1963, nid oedd ond prin saith deg pump o flynyddoedd ers boddi'r dyffryn a chreu Llyn Efyrynwy. Roedd ei rieni wedi eu geni bum mlynedd wedi'r boddi ac wrth iddynt dyfu i fyny yn y pentref newydd, fe glywsant lawer tro gan eu rhieni a phentrefwyr eraill am y chwalfa fawr, yr ofn, y teimlad o ddiymadferthedd a'r dicter a deimlid yn sgil y gwaith. Ceir gwybodaeth ar lafar am deuluoedd yn symud allan o'r dyffryn, a hynny oherwydd nad oeddynt yn hoffi'r syniad o aros i wynebu'r gofid. Roedd yr hanes llafar hwn yn allweddol yn yr ymchwil ar gyfer y nofel. Bûm yn sgwrsio â gŵr o Lansilin a oedd yn sôn fel y bu i'w daid, un o'r enw Erasmus Owen, a oedd yn of yn Llanwddyn yn ystod y gwaith, fod yn ddigon craff i sicrhau lês ar ei eiddo gan yr Arglwydd Powys. Golygai hyn iddo gael iawndal gan Lerpwl, a galluogodd hynny iddo symud i Benybontfawr a chychwyn busnes yno fel gof. Aeth rhai teuluoedd i Langynog ac eraill i Fwlch-y-Cibau gyfagos, ond aros a wnaeth y mwyafrif.

Mae 'cof gwlad', mewn perthynas â phrofiadau personol a dwys fel boddi dyffryn Efyrynwy, yn dal yn fyw. Roedd hynny'n arbennig o wir yn hanes fy nheulu-yng-nghyfraith, gyda'r stori yn cael ei hadrodd fel petai newydd ddigwydd.

Felly, pam y bu i Lerpwl foddi dyffryn Efyrynwy? Pa effaith a gafodd y gwaith ar yr ardal? A oedd pobl Cymru yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd yng ngogledd Maldwyn?

Fel yr awgrymwyd uchod, bu cyfnod maith o drafod cyn i Lerpwl wneud y penderfyniad tyngedfennol mai dyffryn Efyrynwy oedd y fan i greu cronfa ddŵr. Cychwynwyd ar y broses mor bell yn ôl â chwedegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel y nodwyd gan David Rowlands: 'The first known mention of the River Vyrnwy for water supply had been made by Bateman in 1865 and again in 1867 to the

Royal Commission on Water Supply for the Metropolis.³³ Yn y *Liverpool Courier* ar 15 Gorffennaf 1881, adroddir: ‘Mr Duncan’s first recommendation, made to the Council in July 1866, was in favour of Bala Lake.’³⁴ Ond roedd pob un o’r cynlluniau arfaethedig yn golygu nad oedd angen ffurfio llynnoedd newydd, ac o ganlyniad byddent yn llai costus.

Yn ôl y sôn, bu dadlau mawr yng Nghyngor Dinas Lerpwl ynglŷn â pha gynllun i’w dderbyn. Cael cyflenwad o ddŵr glân ar gyfer y dinasyddion oedd yn bwysig. Roedd rhai o’r farn y byddai blas drwg ar y dŵr o Gymru oherwydd y mawn yn y tir. Bu hyn yn achos trafod a dadlau hir, a bu i ddau aelod o’r Pwyllgor Dŵr ymddiswyddo. Cynhaliwyd Refferendwm, a llais y trethdalwyr a orfu o drwch blewyn gyda 21, 974 yn cefnogi penderfyniad y Cyngor i fabwysiadu cynllun dyffryn Efyrynwy a 19, 314 yn erbyn. Nid oedd hwn yn benderfyniad hawdd, a pharhaodd y dadlau am nifer o flynyddoedd. Yn y diwedd, pasiwyd *The Liverpool Corporation Waterworks Act* yn y senedd ym mis Awst 1880. ‘Liverpool’s decision to look to Wales for its water supply was thus the result of a drawn-out and highly politicized process,’ meddai Owen Roberts.³⁵ Ffactor arall o bwys oedd pwyslais oes Fictoria ar adeiladwaith dda a chadarn a gwaith gorffenedig i ymhyfrydu ynddo, a’r ffaith hefyd nad oedd dyffryn Efyrynwy yn rhy bell oddi wrth Lerpwl. Cadarnheir hynny mewn cyfeiriad gan Tecwyn Jones at adroddiad a ymddangosodd yn y *Liverpool Courier* yn 1892: ‘Mr Duncan’s first report on the Vyrnwy proposal dated 27th November 1877 was strongly in its favour. The River Vyrnwy he described as a tributary of the Severn, within 45 miles in a direct line from Liverpool.’³⁶

Hyd yn oed wedi i Duncan gefnogi cynllun Efyrynwy, parhau a wnaeth y dadlau, a hynny oherwydd y costau wedi iddynt benderfynu adeiladu argae gerrig. Credir fod y gost derfynol am yr holl waith oddeutu £2,132,867. Rhagoriaeth y gwaith oedd yn bwysig. Yn y *Montgomeryshire Collections*, cyfeirir at hyd a lled llyn Efyrynwy: ‘The part of the valley affected by the Liverpool Waterworks is 4¾ miles long and ¼ mile broad.’³⁷ Yn y *Courier* ar 14 Gorffennaf 1892, dywedir y gallai Lerpwl dynnu deugain miliwn o alwyni o ddŵr y dydd o’r llyn.³⁸ Gallwn gasglu,

³³ David Rowlands, *Llanwddyn and Lake Vyrnwy* (Dim cyhoeddwr; dim dyddiad), 11.

³⁴ *Liverpool Courier*, 15 Gorffennaf 1881.

³⁵ Owen Roberts, ‘The Politics of Health and the Origins of Liverpool’s Vyrnwy Scheme 1871-92’ (*Cylchgrawn Hanes Cymru / Welsh History Review*), vol. 20, no. 2, (2000), 331.

³⁶ Dyfynnir yn Tecwyn Jones, *Llanwddyn yn Llyn Heddiw* (Nereus, 2009), 15.

³⁷ H. R. Jones, *Montgomeryshire Collections*, vol. xxv, 116-7.

³⁸ *Liverpool Courier*, 14 Gorffennaf 1892.

felly, ei bod yn gronfa anferth, un o'r rhai mwyaf yn y byd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Cawn yn y llyfryn, *Llanwddyn and Lake Vyrnwy*, gofnod i'r perwyl fod carreg goffa wedi ei gosod yng Ngorffennaf 1882, i nodi dechrau'r gwaith: 'On the 14th July 1881 the first commemorative stone was laid by the Rt. Hon Edward James, the third Earl of Powys.'³⁹ Ond sut y bu i'r gwaith felly effeithio'r ardal a'i phobl? Does fawr o brotestio, na thrin na thrafod, ym mhapurau na chylchgronau'r cyfnod. Ym mhapurau Lerpwl ni cheir dim ond canmoliaeth i'r fenter. Ond y mae ambell gofnod yma ac acw sy'n darlunio'r effaith drist ar fywydau'r pentrefwyr *wedi'r digwyddiad*, megis y cofnod hwn gan Bradley (1898):

At any rate, when the Corporation of Liverpool, after hovering in a threatening attitude over many Welsh valleys, descended finally upon this devoted spot, the consternation among a portion of its inhabitants was very great indeed.⁴⁰

Dywed Bradley hyn eto:

The vale of Llanwddyn, however, has long ceased to exist: church, inn, vicarage and village street have all gone. Not only were the living transferred from their habitations, but the very dead, whose bones could still be found, were taken from their graves, and laid in a fresh resting place, some 300 feet nearer to heaven.⁴¹

Fe geir hefyd yn *Baner ac Amserau Cymru* eiriau go alarus yn trafod y dinistr a ddaeth yn sgil y gwaith, ond unwaith eto, protestio wedi'r boddi a wna'r erthygl hon:

Er mwyn diwallu angenrheidiau preswylwyr Llynlleifiad, wele y mae y pentref wedi ei lwyrr ddinistrio. At y tai cymmerwyd dynameit. At eglwys y plwyf cymmerwyd dynameit. Ysywaeth, nid oedd mwy o barch yn cael ei ddangos tuag at eglwys gyssegredig nag a ddangosid tuag at yr annedd-dai anghyssegredig – i lawr a'r naill fel y llall.⁴²

Roedd *Llais y Wlad*, fodd bynnag, yn gweld y peryglon hyd yn oed cyn dechrau'r gwaith:

³⁹ *Llanwddyn and Lake Vyrnwy*, 14.

⁴⁰ *Highways and Byways in North Wales*, 456-9.

⁴¹ *Ibid.*

⁴² *Baner ac Amserau Cymru*, 19 Ionawr 1889.

Maent wedi bod yma yn mesur am chwech wythnos, ac y maent yn bwriadu croni dwfr yr ardal i gyd yn y llyn, ac os daw hyny i ben, byddant yn ysbeilio dwy ar hugain o ffermydd pur dda, heblaw y pentref i gyd.⁴³

Roedd *Tarian y Gweithiwr* hefyd yn gweld bod anghyfiawnder cymdeithasol yn digwydd yma, ac y byddai'n golygu colli pentref cyfan yr oedd iddo ei hanes ei hun. Ceir awgrym cryf o feirniadaeth yn y geiriau canlynol:

Yn gymaint a bod y pentref henafol yn awr ar gael ei golli am byth, a'i gladdu o dan bedwar ugain troedfedd o ddwfr. Hwn ydyw y lle a brynodd cyngor dinasol Liverpool rai blynyddoedd yn ol i wneud cronfa ddwfr at wasanaeth y ddinas a'i thrigolion sychedig.⁴⁴

Dywed David Rowlands wrthym bod y mesur Seneddol yn 1878 wedi rhoi hawl i Lerpwl gychwyn tyrchu o gwmpas yr ardal, ac fe fu hyn yn achos i 331 o denantiaid lofnodi petisiwn a'i gyflwno i'r aelod seneddol. Ond ni chymerwyd unrhyw sylw ohono am mai tenantiaid oeddynt ac nid perchnogion tir. Ac roedd y wasg Gymraeg hithau, fel y gwelwyd, yn adlewyrchu pryder y bobl. Yn *Baner ac Amserau Cymru*, 8 Chwefror 1888, ceir erthygl gan un o'r enw 'EJW' yn sôn am bryder y bobl. Cofnodir gan EJW deimladau Elis Elis, Tŷ Uchaf, yn ei eiriau ei hun:

Cwestiwn pawb yma yn awr, I ba le yr awn ni pan chwelir y fan yma? Yr wyf wedi blino yma bellach, gwell gennyf fyned i'r nefoedd na symud o'r Tŷ Uchaf. [...] Fe gostia'r dwfr yma gryn lawer mewn arian i Gorphoraeth Liverpool, ond nid oes ond Un a wŷyr faint o bryder a thristwch y mae wedi achosi i ddynion, yn enwedig yr hen bobl yn y lle yma.⁴⁵

Cefais gyfle yn ystod haf 2008 i dreulio amser yn yr ysgol leol sydd bellach wedi cau i weld rhai o hen lyfrau log ysgol Llanwddyn. Sylwais fod yr hyn a oedd wedi ei gofnodi yn yr iaith Saesneg yn 1888 yn drawiadol ac yn mynegi pryder ac anhapusrwydd, nid yn unig i'r boblogaeth yn gyffredinol, ond i'r athro a gofnodai hefyd. Yr oedd pwy bynnag a oedd yn gyfrifol am yr ysgol ar y pryd yn teimlo bod rhaid gwneud cofnod yn y llyfr log. Mae yna awgrym o banig yn yr hyn a gofnodir, a'r dyfroedd yn codi bron wrth iddo ysgrifennu:

⁴³ *Llais y Wlad*, 21 Rhagfyr 1877.

⁴⁴ *Tarian y Gweithiwr*, 14 Chwefror 1889.

⁴⁵ *Baner ac Amerau Cymru*, 8 Chwefror 1888.

9 November 1888 – The engineers have impounded the water and it is rising very fast.
 15 November 1888 – Our way from the village has been stopped, the water having risen so high that it covers the old path from the village.⁴⁶

Fel y nodwyd eisoes, symudodd llawer allan o'r pentref a'r ardal. Yn y gyfrol *Methodistiaid Trefaldwyn Isaf* cawn y sylw canlynol: 'Daeth gweithwyr Corfforaeth Lerpwl i gymryd eu lle. Aeth yr ardal tan gyfnewidiad hollol.'⁴⁷ Gorlifwyd yr ardal gan weithwyr o bob rhan o Brydain, ac adeiladwyd cytiau a thai pren iddynt. Ond cartrefi dros dro oedd y rhain. Mae yna sôn hefyd bod capel pren wedi ei adeiladu ar gyfer y Cymry, ond fe adeiladwyd capel newydd yn y pentref newydd yn ddiweddarach.

Ym mis Tachwedd 1888 caewyd y falbiau a oedd yn rheoli cwrs yr afonydd ac erbyn 26 Awst 1889 roedd y llyn yn llawn. Roedd yna falchder mawr a chanmoliaeth yn Lerpwl a thu hwnt. Dywed erthygl yn yr *Illustrated London News* mai hwn oedd 'the grandest engineering works of modern times.'⁴⁸

Darlunio'r protestio yn y nofel ei hun

Rydym yn cyfarfod Ann, Twm a Ned pan yw Meira yn ymweld â Llanwddyn wedi angladd Wil. Mae bywyd y tri yn hamddenol braf yn nyffryn Efyrynwy. Wedi i Ann a Twm briodi a chael teulu, mae'r sibrydion yn dechrau ymledu am fwriadau dinas Lerpwl. Dros gyfnod o amser y mae dadlau yn y pentref, yn y dafarn a thu allan i'r capel wedi'r gwasanaeth un bore Nadolig.

Ceir golygfa yn y nofel lle mae dynion y pentref yn troi eu cefnau ar yr ymwelwyr o Lerpwl ac yn eu diniweidrwydd yn tybio eu bod wedi dychryn y Saeson. Dychmygais y byddai helyntion ymysg y disgyblion ar fuarth yr ysgol hefyd, rhwng y Cymry a phlant y cannoedd o newydd-ddyfodiaid. Fe welwn fod Jo, mab Ann a Twm, yn cymryd arno'i hun i fod yn brif brotestiwr. Mae'n gwneud ei brotest pan osodir y garreg a oedd yn rhoi cychwyn ar y gwaith, ac mae'r plismon lleol yn rhedeg ar ei ôl. Mae Ann yn gwaredu bod y fath beth wedi digwydd, oherwydd nad oedd neb o'i

⁴⁶ *Llyfr Log Hen Ysgol Llanwddyn*, (Tachwedd 1888).

⁴⁷ Edward Griffith, *Hanes Methodistiaid Trefaldwyn Isaf* (Caernarfon, 1914), 244.

⁴⁸ *London Illustrated News*, 23 Chwefror 1889.

theulu wedi bod mewn helynt efo'r gyfraith o'r blaen. Dyma pryd y gwelwn fod Jo wedi cael hen ddigon ac yn barod i fynd yn ddigon pell o Lanwddyn.

Diddorol yw deall na fu erioed angen presenoldeb heddlu yn nyffryn Efyrynwy nes i'r 'gwaith' gychwyn yno. Roedd y 'navvies', fel y gelwid y gweithwyr, yn dod o bob rhan o Brydain ac ar ddiwrnod tâl roedd yna yfed, meddwi ac ymladd ffyrnig, yn ogystal ag amharchu'r Sul.⁴⁹ Oherwydd hyn, apwyntiwyd David Jones i'r swydd o 'Special Constable' ar 20 Mai 1881. Ymgais oedd hyn i gadw'r heddwch, ond o ystyried poblogaeth y dyffryn yn ystod y cyfnod, rydw i'n amheus beth allai'r cwnstabl ei gyflawni ar ei ben ei hun.

Er gwaetha'r ganmoliaeth a'r balchder a fynegwyd ar y pryd, nid yn unig gan awdurdodau Lerpwl, ond hefyd gan nifer o Gymry'r cyfnod, gwahanol iawn yw barn Cymry diweddarach. Gwelir hynny yn eglur yn awdl fuddugol John Evans yn Eisteddfod Genedlaethol 1954, ar y testun 'Yr Argae', awdl y dyfynnwyd ohoni eisoes. Mae'n amlwg i mi fod y bardd wedi synhwyro ac wedi gallu mynegi mewn modd sensitif beth yn union a ddigwyddodd i'r gymdogaeth hon yng nghefn gwlad Maldwyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rhaid cofio hefyd, pan ysgrifennwyd yr awdl yn 1954, nad hen hanes oedd boddi Llanwddyn, gan mai pum deg pump o flynyddoedd yn unig a oedd wedi mynd heibio ers pan ddigwyddodd y drychineb. Beth yw hynny yn nhreigl amser?

Lle'r eigion mewn cell rugog, – ei oer boer
Ar y barrau'n llaethog:
Tros dir â'r, tros hyder og,
Trawster y tonnau trystiog.⁵⁰

Rhai o ganlyniadau ysgrifennu'r nofel

Ar ddechrau'r broses o ysgrifennu'r nofel hon yn 2011 roeddwn mewn cyflwr meddwl cythryblus ac anhapus. Er mwyn dod dros sioc marwolaeth Tecwyn, penderfynais ganolbwyntio ar brosiect arbennig gan obeithio y byddai hynny'n fy helpu i ddod i delerau â'r hyn a oedd wedi digwydd. Roeddwn eisiau tywallt fy ngofid ar bapur.

⁴⁹ *The Policeman's Story*, 17.

⁵⁰ John Evans, 'Yr Argae' (*Cyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1954*).

O'r dechrau rydw i wedi teimlo bod hanes dyffryn Efyrynwy yn un arbennig o drist. Mae'n hanes sydd wedi ei guddio ym mhlygion y blynyddoedd ac yn un yr oedd angen ei ddweud, er cof am y rhai a gafodd eu trawsblannu o'u cynefin yn erbyn eu hewyllys. Roedd pentrefwyr yr hen Lan yn teimlo yn hollol ddiymadferth wrth wynebu'r bygythiad mawr. Pobl dlawd, wledig oeddynt, a thenantiaid heb hawliau. Roedd y meist'r tir yn gorlywodraethu. Roedd rhai ohonynt yn teimlo i'r byw bod eu ffordd o fyw, eu diwylliant a'u hiaith o dan fygythiad, ac yn eu diniweidrwydd credodd nifer ohonynt eu bod wedi rhoi 'tro yng ngyddfau' y Saeson wrth iddynt droi eu cefnau ar bwysigion Lerpwl. Mwy trasig fyth yw'r ffaith fod rhaniadau wedi datblygu yn eu mysg, a dadlau mawr wedi torri allan yn aml ac yn bygwth bywyd hamddenol y dyffryn.

Oherwydd fy amgylchiadau personol ar ddechrau'r broses o ysgrifennu'r nofel, roedd y profiad o ysgrifennu'r nofel ynddo'i hun yn rhyddhad. Trwy brofiadau Meira ac Ann cefais gyfle i ysgrifennu am fy nheimpladau personol fy hun, ond hefyd i ganolbwyntio ar oes wahanol. Trwy ddisgrifio profiadau Ann, yn wraig ifanc weddw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cefais gyfle i ymdrin â rhai o ddaliadau cymdeithasol yr oes, yn enwedig ynglŷn â beichiogi cyn priodi (pan ddarganfu Ann ei bod yn disgwyl ei phlentyn cyntaf, er nad oedd ond dwy ar bymtheg oed). Er mai pobl gyffredin oedd trigolion Llanwddyn, rhaid cofio y byddai llawer ohonynt yn 'bobl capel', ac oherwydd hynny, roeddynt yn ymwybodol o ddysgeidiaeth y Beibl, neu o leiaf, yn barod i gael eu harwain gan farn y gweinidog. Roedd Ann wedi pechu ddwy waith ym marn mynychwyr y seiat. Roedd priodi brawd-yng-nghyfraith yn bechod, yn ôl cyfraith yr Iddewon, fel y dywed llyfr Lefiticus yn yr Hen Destament. Hyd yn oed ar ganol yr ugeinfed ganrif, roedd yr arferiad o 'dorri merch allan' o'r seiat am ei bod wedi beichiogi cyn priodi yn dal yn arferiad mewn ambell fan yng Nghymru. Roedd gallu trafod problemau Ann yn fath o ddihangfa i mi.

Mae byd Meira'n wahanol iawn i fyd Ann, eto, mae ambell beth yn gyffredin i'r ddwy. Enghraifft o hyn yw'r cwestiwn y bu'n ofynnol i'r ddwy fel ei gilydd ei wynebu, sef a yw hi'n bosib caru dyn arall yn weddol fuan wedi marwolaeth priod? Rydw i o'r farn bod ateb i'r cwestiwn yma'n amlwg yn y nofel, oherwydd i'r ddwy syrthio mewn cariad am yr ail waith wedi iddynt ddioddef profedigaeth, ac iddynt ddod i ddathlu hynny.

O ystyried sefyllfa'r pentrefwyr, y mae sawl rhaniad yn ei amlygu ei hun yn yr hanes. Mae rhai yn ffyrnig yn erbyn y boddi ac eraill, fel sydd wedi ei grybwyll

eisoes, yn awyddus i ymgartrefu mewn pentrefi cyfagos, yn hytrach na chael eu gorfodi i symud i'r pentref newydd. O'r rhai a gafodd eu symud i'r pentref newydd mae'r weithred o losgi a difa yr hen bentref yn ingol i ambell un. Yn y nofel rydw i'n ceisio dangos hyn trwy ddisgrifio ymateb Ann wrth iddi sefyll ar yr argae a gwyllo'r hen bentref yn cael ei ddirywiad gan ddeinameit. Mae ambell un o'r pentrefwyr yn croesawu'r ffaith fod Lerpwl fawr, yn ei charedigrwydd, yn cynnig iddynt dai newydd, capel, ysgol ac eglwys newydd. Mae'n bur debyg mai yn ystod cyfnod y 'gwaith', a'r dryswch a achoswyd gan hynny, y newidwyd cymeriad y dyffryn, y diwylliant a'r Cymreictod. Wedi dweud hyn, ac er mai Cymry uniaith oedd y rhan helaeth o'r pentrefwyr, ceid enwau Saesneg yn y pentref, sef *Fishing Street*, a'r enwau Saesneg ar ddau o'r tafarndai sef *The Powis Arms* a *The Cross Guns*.

Hen bentref ymhen draw dyffryn Efyrynwy oedd yr hen Lan. Mae adroddiadau bod cors neu weddillion rhewlyn ar gael yno. Mae gen innau yn fy meddiant hen ffotograff a dynnwyd cyn y boddi sy'n dangos bod yn ddyffryn yn doreithiog iawn yn yr haf, gyda chaeau yn llawn o ysgybau yd, a'r afon Efyrynwy yn ymlwybro'n droellog drwyddi. Sonir am y pentref yn y llyfryn, *The Policeman's Story*, fel man tawel gyda chaeau gwyrdd o'i amgylch.⁵¹ Fodd bynnag, ni fu pethau yr un fath yn nyffryn Efyrynwy wedi'r boddi, er bod yr eisteddfod leol wedi bod yn llwyddiannus ar hyd y blynyddoedd. (Mae Tecwyn Jones, yn ei lyfryn *Llanwddyn yn Llyn Heddiw*,⁵² yn cyfeirio at Eisteddfod Gadeiriol Llanwddyn yn 1882, ac yn dweud mai William Morgan, rheithor Manafon, a enillodd y gadair am ei gerdd *Dwfr*. Dyma deitl addas iawn i'r cyfnod.)

Mae'r iaith Saesneg yn gryf yn y fro heddiw, er bod yna gnewyllyn bach o Gymry da yn dal yn yr ardal. Caewyd 'capel y gwaith' ers rhai blynyddoedd bellach, ond yn dal yn agored mae drysau Capel Sardis, lle bu'r Parch Glyn Lewis (Glyn o Faldwyn), brawd yng nghyfraith Tilsli, yn weinidog am flynyddoedd lawer.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae'n amlwg fod yr hyn a ddirydweddod wedi gadael craith ddofn ar drigolion dyffryn Efyrynwy. Roedd bywyd wedi mynd ymlaen yn y dyffryn ers canrifoedd yn hollol ddigyffro. Yna disgynnodd cynlluniau dinas Lerpwl arnynt fel bollt, ac yn y cyfnod hwnnw gwelwyd ardal gyfan yn dioddef. Gellid cyferbynnu Lerpwl i anghenfil mawr yn nychymyg y trigolion. Roedd iaith, arferion a diwylliant pobl Lerpwl yn gwbl estron i'r pentrefwyr.

⁵¹ *The Policemans Story*, 4-5.

⁵² Tecwyn Jones, *Llanwddyn yn Llyn Heddiw* (Nereus, 2009), 17.

Wrth ymchwilio i hanes dyffryn Efyrynwy, roedd yn syndod darganfod nad oedd fawr o sôn ym mhapurau newyddion a chylchgronau Cymru y cyfnod am yr hyn oedd yn digwydd yng ngogledd Maldwyn ar y pryd. Does fawr o dystiolaeth fod yna ymdeimlad cryf o anghyfiawnder, ar wahân i'r cyfeiriadau y soniais amdanynt uchod mewn ambell erthygl, ac yn ddiweddarach yng ngwaith Bradley, *The Highways and Byways of North Wales*.

Fodd bynnag, er gwaetha'r ffaith fod poblogaeth dyffryn Efyrynwy wedi gorfod wynebu'r digwyddiad trawmatig o foddi eu pentref, a hynny heb gefnogaeth eraill oddi allan, credaf fod elfen o obaith yn ffynnu yn eu mysgr wrth iddynt ymdopi â'u sefyllfa newydd. Roedd y broses o adleoli yn wrthun i rai, ond yn antur i eraill. Mi gredaf fod siom a phryder cychwynol rhai teuluoedd wedi troi'n deimlad o fenter newydd, a'u bod hyd yn oed yn *ddiolchgar* i Lerpwl am roi cyfle newydd iddynt mewn pentref newydd. Ond cafwyd bod rhai wedi methu wynebu'r dyfodol yn y pentref newydd ac wedi symud. Trwy fy rhieni-yng-nghyfraith, dysgais ar lafar bod rhai o'r pentrefwyr yn croesawu gwell tai, ysgol, capel ac eglwys ond yn y lleiafrif yr oedd y rhain; fel yr wyf yn sôn yn y traethawd hwn, fe symudodd llawer allan o'r pentref pan glywsant am yr hyn oedd ar fin digwydd. Roedd eraill, megis y tyddynnwr, Elis Elis, wedi dweud y byddai'n well ganddo farw na symud o'i gartref. Ond oherwydd mai tenantiaid oeddynt, ni chymerwyd unrhyw sylw o'u protest.

Yn y nofel hon, mae Ann a Meira yn mynd drwy'r broses o symud o sefyllfa o golled a thrychineb ar y cychwyn i sefyllfa o obaith newydd am y dyfodol, a hynny trwy ddarganfod cariad newydd. Mae hyn ynddo'i hun yn codi'r cwestiwn a oes ynom fel bodau dynol reddf sy'n ymateb yn gadarnhaol, hyd yn oed wrth wynebu a goresgyn argyfwng?

Alexander Pope a ddywedodd 'Hope springs eternal in the human breast', ac mae'n wir dweud i obaith ddisodli gofid a cholled yn hanes Ann a Meira, a hefyd yn hanes rhai o bentrefwyr Llanwddyn, wrth iddynt gamu i'r dyfodol.

Cwlwm Creulon

CRYNODEB

Nid yw'r nofel hon wedi ei gosod yn erbyn unrhyw ddigwyddiad hanesyddol penodol. Mae'r hyn sy'n cael ei ddisgrifio yn y nofel, megis arferion ac agweddau cymdeithasol oes Fictoria, wedi eu seilio ar wybodaeth gefndirol am y cyfnod hwnnw a restrir isod.⁵³

Mae hon yn nofel sydd wedi ei lleoli ym Mostyn, Sir y Fflint, a hefyd yn Kirkby-in-Furness, Cumbria (er bod pentref Kirkby yn Sir Gaerhirfryn yng nghyfnod y nofel). Cawn yma hanes Phoebe Hughes, morwyn yn y Caeau Gwylltion, fferm fawr yn ardal Mostyn, yn beichiogi o ganlyniad i'w pherthynas rywiol ag Ifan Lloyd, gwas yn y Coed Isaf, fferm gyfagos. Mae Phoebe yn cyfarfod Ifan Lloyd un min nos y tu allan i dafarn y Swan yn y pentref. Wedi orig o gusanu poeth mae Ifan yn ei pherswadio i adael iddo fynd i gnocio yn hwyrach y noson honno, ac y mae eu perthynas yn datblygu yn un rywiol o'r funud y cafodd Ifan fynedfa i ystafell wely Phoebe yn y Caeau Gwylltion. Yn ei diniweidrwydd, mae Phoebe mewn sioc y tro cyntaf iddynt gael rhyw, ond fe welwn ei bod yn fuan iawn yn dod i fwynhau'r weithred ac i edrych ymlaen yn eiddgar at ymweliadau hwyrol Ifan.

Pan yw Phoebe yn sylweddoli ei bod yn feichiog, daw ofn a chywilydd mawr arni, ond er bygythiadau Gwen, y forwyn hŷn, mae Jane Evans y feistres yn tosturio wrthi ac yn addo mabwysiadu'r plentyn ei hun gan ei bod hi'n cael anhawster beichiogi am yr ail waith. Oherwydd daliadau'r oes, mae Phoebe yn cael ei thorri allan o'r capel, ond does fawr o ots ganddi am hynny. O ganlyniad i enedigaeth anodd, mae Phoebe yn colli'r dydd ac yn colli hefyd y cyfle i fagu ei geneth fach. Gwelir yma fywyd merch ifanc wedi ei ddifetha gan lanc nwydus nad oedd gan neb air da amdano.

Yn ôl eu haddewid, y mae Mr a Mrs Evans y Caeau Gwylltion yn mabwysiadu merch fach Phoebe yn swyddogol. Wedi iddo gael cweir iawn gan frawd Phoebe a'i

⁵³ Trefor M. Owen, *Welsh Folk Customs* (University of Wales Press, 1959); Russell Davies, *Secret Sins: Sex, Violence and Society in Carmarthenshire 1870 – 1920*; Jane Aaron, *Pur fel y Dur* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1998); Catrin Stevens, *Arferion Caru; Kirkby Fragments vols 1-4* (The History of Kirkby Group, 2005); R. Stanley Geddes, *A History of Slate Quarries of Kirkby-in-Furness* (Geddes, 1976); A. Lewis Jones, *Mostyn in Bygone Days* (Mostyn History Preservation Society; dim dyddiad).

ffrindiau, mae Ifan Lloyd yn penderfynu gadael ardal Mostyn am byth, ac mae'n llwyddo i gael swydd yn ardal chwareli Kirkby-in-Furness lle mae'n dysgu'r grefft o hollti llechi ac yn dod yn ei flaen yn dda yn ei waith. Pan yw'n cyrraedd Kirkby ac yn mynd i chwilio am lojin y mae'n penderfynu newid ei enw i David Bennett rhag i neb fedru olrhain ei wreiddiau. Yn wir, mae'n byw celwydd am flynyddoedd lawer. Mae'n priodi merch y bos ac yn setlo'n barchus yn yr ardal, gan gymryd arno ei fod yn gapelwr ac yn ymwrthod â'r ddiod gadarn er mwyn plesio'i wraig.

Mae merch fach Phoebe yn cael ei bedyddio yng nghapel Bethel, Rhewl Mostyn, a'i henwi yn Esther Hughes-Evans. Mae'r meistr a'r feistres yn teimlo ei bod yn bwysig cadw'r Hughes yn ei henw, er cof am ei mam. Mae hi'n cael y gorau o bopeth gan ei rhieni mabwysiedig, ac er ei bod yn blentyn cyfreithlon iddyn nhw, y mae tad Phoebe, Wil Hughes, yn dal i'w hystyried yn blentyn siawns, ac mae hyn yn cythruddo Owen Evans, sef ei thad mabwysiedig.

Cawn fod Esther yn cychwyn perthynas gyda Isaac Hughes, mab yr arwerthwr lleol. Mae Isaac hefyd yn dilyn ei dad yn y busnes a thrwy fyd ffermio mae Owen a Jane Evans yn adnabod Isaac ac yn ei groesawu ar eu haelwyd gan obeithio y byddai Esther ac Isaac yn priodi rhyw ddydd. Gŵr ifanc tawel ydy Isaac heb fawr o fflach ynddo, ond er hynny mae Esther yn mwynhau ei gwmni ac yn barod i'w wahodd i'r Caeau Gwylltion. Fodd bynnag, pan yn ei hugeiniau cynnar, mae Esther yn cyfarfod â gŵr ifanc gwahanol iawn i Isaac. Mae Tom yn ei hudo ac mae'n gwirioni cymaint arno fel ei bod yn dweud wrth Isaac fod eu perthynas ar ben. Mae Tom yn bopeth y gall merch ifanc ei ddymuno. Mae'n olygus ac yn llawn hwyl. Pan yw Tom yn symud o Brestatyn i Millom yn Cumbria i weithio fel cyfrifydd, mae Esther yn cael gwaith fel athrawes plant bach yn Dalton, tref gyfagos. Mae eu perthynas yn datblygu ac yn fuan mae yna gynlluniau i briodi. Mae Esther yn cael gwahoddiad i gartref Tom ac yn cael ei chyflwyno i'w rieni. Mae ei fam yn hynod o garedig ac am iddi feddwl am eu cartref fel ail gartref iddi hi.

Yn ystod gwyliau'r haf y flwyddyn honno, y mae Esther yn treulio amser gartref yn y Caeau Gwylltion. Wedi rhai dyddiau mae hi'n torri'r newydd i Owen a Jane ei bod am briodi Tom a setlo yn ardal y Llynnoedd. Nid yw Owen yn hapus o gwbl am nad yw Tom wedi gofyn yn ffurfiol iddo fel tad am law Esther. Pan yw Jane a hi yn cael sgwrs gyfrinachol am y briodas, mae Jane y dechrau holi Esther am deulu Tom. Mae hi'n cyfaddef i Esther fod Tom yn ei hatgoffa o rywun, ond nid yw'n siŵr pwy. O ganlyniad i'r sgwrs a'r holi, y mae Jane yn amau pwy yw tad Tom ac mae'n

dweud wrth Esther yn blaen nad yw hi'n bosibl iddi briodi Tom am ei fod yn hanner brawd iddi! Mae hyn yn achosi helynt mawr ac mae Esther yn ffrwydro ac yn cau ei hun yn ei hystafell am ddyddiau. Mae hi'n mynd yn wael iawn ac yn dioddef o'i nerfau, ac yn cyhuddo Owen a Jane o'i chamarwain. Yn ystod y cyfnod anodd yma mae hi'n cael sawl llythyr cariadus gan Tom sy'n methu deall pam nad yw hi'n ysgrifennu ato a pham nad yw hi'n dychwelyd yn ôl i ardal y Llynnoedd. Wedi rhai wythnosau mae Esther yn dygymod â'r sefyllfa, yn dechrau gwella ac yn gweld ei ffordd yn gliriach. Penodir hi'n athrawes yn ysgol y Llan, Chwitffordd, ac mae'n ymddangos yn weddol hapus yno.

Daw tro arall er gwell i ran Esther. Un prynhawn Sadwrn oer cyn y Nadolig, a hithau wedi mynd i Dreffynnon i siopa, mae'n digwydd taro ar Isaac Hughes. Syndod i Esther yw pa mor falch yw hi o gyfarfod Isaac, ac er iddi deimlo ar un adeg ei fod yn berson diflas, y mae'n sylweddoli ei fod wedi newid ac yn llawer mwy aeddfed a hyderus. O fewn dim, y maent yn penderfynu dechrau cyfarfod yn rheolaidd unwaith eto. Daw Esther i deimlo fod ganddi deimladau cynnes tuag at Isaac a'i bod yn hoffi bod yn ei gwmni.

Ar ddiwedd y nofel cawn fod Esther ac Isaac yn priodi er mawr lawenydd i'w teuluoedd. I Esther mae ei pherthynas ag Isaac a'i phriodas yn wyrth, a daw i sylweddoli pa mor glên y mae a'i fod yn ei hanner addoli. Diolch byth fod eu llygaid wedi eu hagog cyn iddi wneud y camgymeriad erchyll o briodi ei brawd ei hun!

Pam ysgrifennu nofel o'r fath?

Fel y soniais yn fy ymdriniaeth â'm nofel *Ddoe a Heddiw'n Un*, rwyf wrth fy modd yn darllen ac ysgrifennu am gyfnod y Frenhines Fictoria. Mae hyn yn deillio, mi gredaf, o brofiadau bore oes. Pan oeddwn yn blentyn ifanc roedd hen fodryb i mi, sef chwaer fy nhaid, yn byw y drws nesaf i ni. Yn y pedwar degau doedd dim teledu yn ein tŷ ni, felly, yn aml wedi swper mi fyddwn yn mynd draw i dŷ fy modryb ac yn gwrando arni'n adrodd hanes ei phlentyndod. Ganwyd hi yn 1875, ac felly, roedd yr hanesion a glywais wedi eu gwreiddio yn ddwfn yn oes Fictoria. Bu fy modryb yn 'monitor' o dan y system 'monitorial' yn ysgol y pentref, ac er iddi gyfaddef i mi lawer gwaith ei bod wedi breuddwydio am gael ei hyfforddi fel athrawes, oherwydd tlodi ni wireddwyd ei breuddwydion. Mae dymuniad Esther i gael ei hyfforddi fel athrawes yn seiliedig ar hanes fy hen fodryb. Yn ogystal â hyn, treuliais amser gyda

fy nain ar ochr fy mam. Ganwyd hi yn 1878 ac fe gafodd brofiadau tebyg i fy modryb. Cafodd Nain ei chlywed yn siarad Cymraeg gyda'i chwaer ar fuarth yr ysgol ym Mhrestatyn yn yr 1880au a bu raid iddi wisgo y 'Welsh Not' am weddill y diwrnod hwnnw.

Bu fy nain ar ochr fy nhad yn forwyn i'r Arglwydd Mostyn, ac fel rwyf wedi crybwyll eisoes yn yr adran, 'Pam Ysgrifennu'n Greadigol?' (*Ddoe a Heddiw'n Un*), fe gafodd lyfryn cadw-cofnod-penblwyddi gan ei meistres ac ynddo, o 1887 ymlaen, mae hi wedi cofnodi sawl achlysur pwysig yn hanes ei theulu. O ganlyniad, rwyf wedi fy nhrwytho, drwy'r ffynonellau cynradd ac uniongyrchol hyn, yng nghyfnod y Frenhines Fictoria. Mae'r hanesion yn fyw iawn yn fy meddwl, ac rwyf wrth fy modd yn dychmygu a chreu storïau ffuglennol ar sail fy ngwybodaeth o'r cyfnod, a hynny oherwydd yr argraff a gafodd hanesion fy hen fodryb, fy nain a chynnwys y llyfr-cofnodi-penblwyddi arnaf. Mae'n gyfnod mor wahanol i'r cyfnod presennol ac rwy'n awyddus i ddangos y gwahaniaethau hyn trwy fy nofelau. Fel y dywed A. N. Wilson am ei brofiadau yntau: 'Mine was the last generation to whom such tales were told as of an almost remembered oral tradition.'⁵⁴

Rwy'n awyddus iawn i rannu gwybodaeth am y cyfnod hwn gyda ieuenctid heddiw oherwydd roedd safle'r ferch mewn cymdeithas yn isel ac i lawer yn anodd iawn. Roedd tlodi, perygl geni plentyn yn y cartref, cyfrifoldeb magu teulu (ac yn aml roedd y teuluoedd yn fawr ac roedd cael deg neu hyd yn oed bymtheg o blant ar yr aelwyd yn gyffredin). Yn aml, os oedd gŵr ifanc yn cael ei adael yn weddw gyda theulu o bump neu chwech o blant, roedd yn ail briodi ac yn ail godi teulu gyda'r ail wraig. Yn fy nheulu i, mae tair enghraifft o hyn, gyda'r canlyniad bod y teuluoedd yn fawr a llawer o hanner brodyr a chwiorydd. Doedd dim budd-dal ar gael yn y dyddiau hynny ac roedd pawb mewn ofn mynd ar ofyn y plwy. Dywed A. N. Wilson am aelodau o'i deulu ef ei hun a oedd yn cofio oes Fictoria: 'They could remember, too, levels of poverty which to our generation's way of looking at life were almost unimaginable.'⁵⁵

Yn *Cwlwm Creulon*, mae'r cwestiwn yn codi, pam i eneth ifanc ddiniwed fel Phoebe Hughes groesawu un fel Ifan Lloyd i'w gwely. Yn y stori yma, doedd Phoebe erioed wedi cael ei chwrsio o'r blaen. Yn fwy na dim roedd Ifan ag enw o fod yn dipyn o 'dderyn'. Felly, roedd cael bachgen ifanc golygus yn cymryd diddordeb ynddi

⁵⁴ *The Victorians*, 3.

⁵⁵ *Ibid.*, 4.

hi yn rhywbeth i glochdar amdano wrth ei ffrindiau. Roedd y rheiny, wrth gwrs, yn dweud, ‘O mae Ifan Lloyd yn canlyn Phoebe. Beth sy’ mor ddeniadol ynddi hi tybed?’ Ond doedd Phoebe ddim yn deall mai cael ei ‘defnyddio’ yr oedd hi, ac fe gymerodd fod y caru gwyllt, nwydus yn golygu cariad, ac y byddai Ifan mewn amser yn ei phriodi.

Arweiniodd y camddehongliad yma o’r sefyllfa i Phoebe golli ei bywyd yn y diwedd, oherwydd yn aml nid oedd merched ifanc anaeddfed, di-brofiad yn sylweddoli mai trwy’r weithred rywiol yr oedd cenhedlu plentyn. (Roedd sgwrsio am hyn rhwng mam a merch yn aml yn ‘tabw’.) Cawn yn ‘*Cwlwm Creulon*’ Phoebe Hughes yn dweud wrth ei mam nad oedd hi’n gwybod mai fel yna yr oedd gwneud babis. Roedd Phoebe yn disgwyl i Ifan ei phriodi. Wedi’r cwbl, roedd hi o’r farn ei fod yn ei charu! Dyna oedd ei huchelgais.

Roedd rhoi addysg i ferch yn cael ei ystyried yn wastraff arian. Cawn yn y nofel fod hyd yn oed Owen Evans, a oedd yn ŵr cefnog, yn gwrthod i Esther y cyfle i fynd i’r coleg i’w hyfforddi i fod yn athrawes oherwydd mai priodi fyddai ei hanes. Dyna oedd y disgwyliad i ferch ifanc yn oes Fictoria – caru, priodi a chael nifer fawr o blant. Wrth ddisgrifio disgwyliadau’r oes mae Wilson yn dweud: ‘Everyone in the 1860s was settling down into domestic life.’⁵⁶

Mae hanes yn ein dysgu bod rhoi genedigaeth i blentyn yn oes Fictoria yn beryglus i’r fam a’r plentyn. Genid pawb adref yn y dyddiau hynny. Bydwraig y pentref a oedd yn cael ei galw, ac anaml iawn y gelwid ar y meddyg i roi help llaw. Pan sylweddolodd Jane Evans a’r fydwraig (a oedd fel arfer heb ei hyfforddi’n nyrs), fod Phoebe mewn trafferthion a bod angen galw am help Dr Jones Treffynnon, ateb Owen Evans oedd bod meddyg yn gallu bod yn ddrud!

Pan oedd merch yn beichiogi y tu allan i briodas, i ddangos nad oedd yn barod i gymryd y bai, byddai’r tad ifanc yn diflannu o’r ardal. Cafwyd enghraifft debyg yn fy nheulu-yng-nghyfraith pan aeth gŵr ifanc draw i America, yn hytrach nag ysgwyddo’r baich o briodi’r ferch a magu’r baban.

Pam dewis ardal Mostyn a Kirkby-in-Furness?

Yn y gorffennol, rydw i wedi ysgrifennu am ardal fy mebyd, sef gogledd ddwyrain Cymru. Fe geir hyn yn fy nwy nofel Saesneg (*Six Sapphires and a Diamond*,

⁵⁶ Ibid., 262.

Devotion a hefyd fy nofel Gymraeg *Cysgod yr Aur Du*). O ysgrifennu am ardal Mostyn, Sir y Fflint, rwy'n ysgrifennu am fro rwy'n gyfarwydd iawn â hi, ac y mae'r ffermydd sy'n ymddangos yn y nofel, megis Coed Isaf, Plas Uchaf, Pentreffynnon a hefyd y Caeau â'r Wern, yn enwau ffermydd sy'n dal i fodoli yn yr ardal. Er imi ddewis Y Caeau Gwylltion yn enw i'r brif fferm, rhaid cyfaddef nad oes fferm o'r enw yna, ond yn hytrach nifer o gaeau yn yr ardal yn dwyn yr un enw. Enw ar ran o'r ffordd rhwng pentref Rhewl Mostyn a Thremostyn yw'r Coed Iâ hefyd, lle cafodd Ifan Lloyd gweir iawn gan Bob, brawd Phoebe Hughes a'i ffrindiau.

Dyn ei fro oedd fy nhad hefyd, ac fe gefais lawer o wybodaeth ganddo am fywyd diwydiannol-diwylliannol Cymreig Glannau Dyfrdwy. Hyd yn oed yn ystod pedwardegau a phumdegau yr ugeinfed ganrif, pan oeddwn i'n ferch fach, roedd bywyd yn troi o amgylch y capeli, a bron pawb o genhedlaeth fy rhieni'n siarad Cymraeg. Mae fy nisgrifiadau o'r fro felly yn realaidd. Mae gogledd-ddwyrain Sir y Fflint yn ardal nad oes fawr ddim wedi ei ysgrifennu amdani. Roedd hynny hefyd yn rheswm imi deimlo'r angen i gyflwyno'r fro trwy gyfrwng nofel hanesyddol.

Mae ardal Kirkby-in-Furness hefyd yn fro rwy'n ei hadnabod yn dda. Roedd gen i berthnasau yn byw yn y pentref hynod yma, a bûm yn ymweld â'r pentref a'r ardaloedd cyfagos nifer fawr o weithiau. Pentref chwarel lechi yw Kirkby, ac er nad yw'r chwarel yn chwarae rhan mor bwysig ym mywyd y trigolion heddiw, mae'r 'Burlington Slate Quarry' yn dal i fodoli. Yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y mae sôn bod llawer o Gymry wedi symud i Kirkby i weithio yn y chwarel a'u bod yn gwybod yn iawn sut i drin y llechi. Mae'r rhes a elwir yn 'Long Row,' a hefyd 'Marshside,' yn dal yno fel y mae'r neuadd yn 'Beckside.' Mae adeilad yr ystafell ddarllen yn dal yno hefyd, ond nid yw wedi ei ddefnyddio i'r perwyl yna ers blynyddoedd bellach. Mae mynydd Black Combe i'w weld yn ei harddwch ar draws y morfa – ambell dro yn disgleirio yng ngolau'r haul, ac ambell waith yn ymddangos yn fygythiol a thywyll.

Yn ôl yr hanes, fe fu ymladd ceiliogod ar ben y mynydd rhwng Kirkby ac Ulverston. Mae'r arferiad yma, ynghyd â dawnsfeydd yn neuadd Beckside, wedi eu disgrifio yn y nofel er mwyn portreadu rhai o arferion y fro. Ar y cychwyn, wrth gynllunio'r nofel, meddyliais am anfon Ifan Lloyd i Panama, er mwyn ei wneud yn rhan o'r gweithlu fu'n adeiladu'r gamlas. Pam y cefais i'r syniad yma? Roedd hynny'n bennaf oherwydd fy mod wedi dychwelyd o'r Gamlas rhyw ddwy flynedd ynghynt a hanes ei gwneuthuriad yn dal yn fyw yn fy meddwl.

Cafwyd tair ymgais i adeiladu'r Gamlas. Dangosodd Ffrainc ddiddordeb yn y fenter a hynny wedi llwyddiant camlas Suez a agorwyd yn 1869. Fodd bynnag, aflwyddianus fu eu hymdrechion ddwy waith, a hynny'n bennaf oherwydd afiechydon ymhlith y gweithlu megis malaria, y frech wen a'r clwy melyn. Ym mlynnyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif cymerodd America y gwaith mewn llaw.⁵⁷ Pan gychwynnodd yr Americanwyr ar y gwaith o adeiladu'r gamlas, diddorol yw darllen mai gweithwyr o'r Caribî oedd y rhan fwyaf o'r gweithlu gyda rhai gweithwyr o Ewrop. Roedd y rhai o'r Caribî yn derbyn cyflog is na'r llafurwyr Ewropeaidd. Mi fyddai Ifan wedi gallu ffoi yn ddigon pell o Gymru pe bai wedi mynd i Panama, ond teimlais wrth ailystyried na fyddai'n gallu talu ei ffordd i bellafoedd daear, ac mae'n bur debyg mai marw fyddai ei hanes yn fuan wedi iddo gyrraedd yno. Ni fyddai'r nofel wedi datblygu i'r un cyfeiriad ac fe fyddai'r awgrym o losgach hefyd wedi ei golli.

Beth y mae'r nofel yn ei ddarlunio ?

Mae yma ferch ifanc yn cael ei thwylo gan lanc nwydus. Y canlyniad yw ei bod yn ysgwyddo baich gwarth y beichiogrwydd ac yn colli ei bywyd. Mae'r llanc yn diflannu ac yn gwrthod derbyn ei gyfrifoldeb. Cawn ddarlun o ŵr ifanc yn byw celwydd er mwyn achub ei groen ei hun. Ar y funud olaf, y mae'n newid ei enw i guddio'i orffennol pan yn chwilio am lety yn ardal y Llynnoedd. Mae'n ymbarchuso ac nid yw ei wraig na'i blant yn ymwybodol o'i orffennol. Oherwydd y celwydd mae sefyllfa'n codi sy'n awgrymu y byddai brawd a chwaer yn priodi.

Bod yn barchus a oedd yn bwysig yn oes Fictoria. Beth yr oedd pobl yn ei ddweud a oedd yn holl bwysig. Gellir honni mai ffug barchusrwydd, yn deillio yn bennaf o fewn ffiniau'r teulu, a gaed. Dywed Russell Davies: 'The family was central to the Christian cause and the religious household was the base from which to counter the evils of the world outside.'⁵⁸ Fe welwn hyn yn agwedd Gwen y forwyn hŷn tuag at feichiogrwydd Phoebe.

Er y gellid dweud bod y nofel hon yn hen ffasiwn o ran ei chyfnod a'i hawyrgylch (ac y mae tueddiad yn y Gymru gyfoes i feirniadu nofelau hanesyddol o'r fath), yr un yw'r natur ddynol ymhob cyfnod, a'r un hefyd yw'r problemau, yn

⁵⁷ *History of the Panama Canal* (Cyrcwyd oddi ar y we, Awst 2014).

⁵⁸ *Secret Sins: Sex, Violence and Society in Carmarthenshire 1870 – 1920*, 159.

enwedig i ferched ifanc ar stadau mawr mewn trefi a dinasoedd heddiw, ag yr oedd i ferched ifanc cefn gwlad yn oes Fictoria. Fel y dywedodd Philippa Gregory, ‘I write about women because, as a woman, my imagination runs along the lines of female imagination.’⁵⁹ Os yw agwedd cymdeithas heddiw yn wahanol, yr un yw’r profiadau emosiynol, ac mae’n werth ein hatgoffa’n hunain am wewyr y genhedlaeth a fu.

Newid iaith y nofel

Ysgrifennais y nofel hon yn Saesneg yn wreiddiol o dan y teitl *Dreams*, a hyn oherwydd breuddwyd Phoebe y byddai Ifan Lloyd yn gwneud y peth anrhydeddus ac yn ei phriodi. Mae Ifan Lloyd, ar y llaw arall, yn breuddwydio y gallai anghofio’r gorffennol a hefyd Phoebe Hughes, a hynny trwy iddo ddiflannu o’r ardal. Mae Esther yn breuddwydio am ei bywyd newydd fel gwraig i Tom yn Ardal y Llynnoedd. Yn anffodus, mae’r breuddwydion hyn i gyd yn troi yn hunllefau. Ysgrifennais y nofel yn Saesneg yn wreiddiol, oherwydd mai Saesneg fyddai iaith gyntaf y darllenwyr a oedd gennyf mewn golwg. Creu darluniau o’r gorffennol ar gyfer pobl Sir y Fflint heddiw oedd fy amcan, a dyna pam i mi eisoes gyhoeddi dwy nofel Saesneg yn seiliedig ar ogledd ddwyrain Cymru.

Ar ddiwedd y flwyddyn 2012, cefais y syniad y byddai’r nofel yn darllen yn well yn y Gymraeg. Y rheswm am hyn oedd mai Cymry oedd y prif gymeriadau, heblaw am drigolion Ardal y Llynnoedd. Iaith gyntaf Phoebe, ei rhieni, Ifan Lloyd, Mr a Mrs Evans Caeau Gwylltion, Esther a Gwen y forwyn, a’r holl gymeriadau y sonnir amdanynt yn y gymdeithas, oedd y Gymraeg. Yn ychwanegol at hyn, mae sôn bod llawer o Gymry wedi mynd i weithio i chwareli Ardal y Llynnoedd, megis ardal Kirkby-in-Furness. Mae’r Gymraeg, felly, yn fwy naturiol ac yn cyfleu awyrgylch y cyfnod a datblygiad y stori yn well, er imi newid ychydig ar y stori wrth gyfieithu. Er enghraifft, ceisiodd Ifan Lloyd guddio o dan enw newydd, sef David Bennett. Nid yw hyn yn digwydd yn y gwreiddiol. Yn y Gymraeg mae yna ychwanegiad at y diwedd glo sy’n dangos Esther yn priodi Isaac, ei chariad cyntaf, a’r un sy’n cael sêl bendith ei rhieni.

O edrych yn ôl ar y broses o gyfieithu, nid wyf yn bwrpasol wedi defnyddio acen a phriod-ddulliau sir y Fflint, a hynny oherwydd fy mod yn credu bod ysgrifennu

⁵⁹ ‘The World of Philippa Gregory’, (*The Telegraph Magazine*, 16 Awst 2014).

mewn tafodiaith yn gallu bod yn faen tramgwydd i rai darllenwyr sydd ddim o anghenrheidrwydd yn gyfarwydd â'r dafodiaith.

Mae yn y nofel hon ddwy ran bendant, sef y rhan sydd â'r cefndir yng Nghymru, a'r rhan sydd yn Lloegr. Mae'r darlun rwyf wedi ei greu o Gymru a hefyd o Loegr yn y cyfnod yma yn dangos fod parchusrwydd a dylanwad y capel yn gryf ar bentrefwyr Rhewl Mostyn, yn ogystal â phentrefwyr Kirkby-in-Furness. Er enghraifft, mae Ifan Lloyd (Dai Bennett) yn ymbarchuso, yn mynd yn gapelwr ac yn osgoi y ddiod gadarn er mwyn plesio'i wraig. Ond o dan yr wyneb mae yna anonestrwydd a chelwydd i'w gael. O gyfieithu i'r Gymraeg, cefais anhawster mewn un adran, sef pan yn disgrifio hanes yr ymladd ceiliogod ar y mynydd, a phan aeth Ifan a'i gyfoedion i'r ddawns yn Becksid. Roeddwn yn gweld y lle yn llygad fy meddwl ac yn teimlo'n fwy cyfforddus o'i ddisgrifio yn yr iaith Saesneg. Dyna pam, mi gredaf, fod yr iaith yma a thraw ychydig yn llai naturiol.

Cwlwm Creulon yw teitl y nofel yn y Gymraeg, a hynny oherwydd bod digwyddiadau creulon yn amharu ar berthynas pobl â'i gilydd. Digwyddiadau yw'r rhain sy'n clymu'r cymeriadau wrth ei gilydd mewn modd annisgwyl, ac ar yr un pryd, yn torri'r cysylltiadau rhyngddynt. I raddau, yn y Gymraeg, mae'r syniad o *gwllwm* a hwnnw'n *greulon* yn mynegi yn fwy pendant y cysylltiadau rhwng y cymeriadau, ac yn cyfleu rhywbeth cryfach na *Dreams*. Mae'r diweddglo, fodd bynnag, yn dangos bod rhai breuddwydion yn cael eu gwireddu yn hanes Esther, trwy iddi briodi Isaac, a chael ei chlymu'n dynn wrth ei bro a'i phobl.

Fy nghasgliad felly o gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yw mai stori Gymraeg yw hon, ac fe ddylwn fod wedi ei hysgrifennu'n y Gymraeg yn wreiddiol.

Prif gymeriadau'r nofel

Ifan Lloyd

Mae Ifan Lloyd, neu hwyrach yn dylem gyfeirio ato fel *Dai Bennett*, yn dwyllwr, yn ddauwynebog ac efallai y gellid ei ddisgrifio fel cymeriad tebyg i *Jekyll and Hyde*. Person ystrywgar yw Ifan, yn mynnu ei ffordd ei hun, yn defnyddio pobl eraill ac yn barod i fod yn serchus ac yna'n troi yn gas, fel y gwnaeth efo Phoebe pan ddeallodd ei

bod yn feichiog. Mae yn byw bywyd twyllodrus fel *Dai Bennett*, gan obeithio ei fod yn llwyddo i guddio ei orffennol.

Phoebe Hughes

Mae Phoebe yn enghraifft o ferch ddiniwed yn oes Fictoria, wedi ei thwyllo gan Ifan Lloyd ac yn barod i'w rhoi ei hun iddo, gan feddwl ei fod yn ei charu. Dyma gyfnod pan oedd dynion yn gorlywodraethu ar ferched. Dyma gyfnod hefyd pan oedd mamau a'u merched ddim yn trafod hanfodion bywyd. Yn ogystal â hyn, y ferch bob tro a oedd yn wynebu'r amharch. Rwyf wedi ceisio dangos hyn yng nghymeriad Phoebe Hughes.

Jane Evans

Meistres *Caeau Gwylltion* yw Jane. Mae hi'n wraig sensitif a theimladwy ac yn barod i helpu Phoebe yn ei thrafferthion. Eto, un sy'n gweld ei chyfle yw Jane. Mae hi'n awyddus iawn i gael ail blentyn ac wedi methu beichiogi am yr ail waith. Mae hi'n onest ac yn cydnabod hyn, ac yn llwyddo, am ei bod yn dipyn o *ledi*, i ddarbwylllo ei phriod Owen sydd hefyd yn barod iawn i helpu Phoebe er mwyn plesio'i wraig.

Esther

Merch Phoebe Hughes a merch fabwysiedig Owen a Jane Evans yw Esther. Y mae wedi ei difetha gan deulu *Caeau Gwylltion* ac mae hyn i'w weld yn glir yn ei hymddygiad penderfynol pan yw'n cyfarfod Tom. Mae Tom yn debyg i'w dad ac yn un sy'n gallu dylanwadu a chael ei ffordd ei hun. Mae Esther yn gwirioni arno yn union fel y gwnaeth ei mam ar Ifan Lloyd. Ac fel yn hanes ei mam, mae pethau'n troi'n chwerw. Fodd bynnag, cawn ei bod yn cael ail gyfle wedi iddi gyfarfod ag Isaac a dyma'r cwlwm wrth fro ei mebyd yn tynhau.

Fel y crybwyllais yng nghorff yr ymdriniaeth hon â *Cwlwm Creulon*, stori ddychmygol yw hon wedi ei seilio yn y lle cyntaf ar fro fy mebyd, sef gogledd ddwyrain Cymru, ac yna ardal y Llynnoedd yng ngorllewin Lloegr yn yr ail ran. Rwy'n adnabod yr ardaloedd hyn yn dda ac wedi mwynhau yn fawr ysgrifennu amdanynt.

Cyn belled ag y mae gogledd ddwyrain Cymru yn bod, rydw i ar ‘genhadaeth’, a hynny am nad oes toreth o waith ffuglennol ar gael gyda’r ardal arbennig yma fel cefndir. Yn ychwanegol at hyn, er gwybodaeth i genhedlaeth newydd, rydw i trwy’r nofel wedi ceisio creu darlun o fywyd mewn ardal ddiwydiannol / wledig a oedd yn Gymraeg o ran iaith a diwylliant yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hefyd yn ystod fy mhлentyndod i. Rwyf o’r farn mai un sydd wedi byw yn yr ardal ac wedi elwa ar gymaint o wybodaeth gynradd amdani sydd mewn sefyllfa i greu darlun cyflawn. Gwnaf hyn er cof am y rhai fu gynt yn troedio’r llwybrau o fy mlaen. Fel y dywed T. H Parry Williams yn ei gerdd ‘Hon’: ‘Duw a’m gwaredo, ni allaf ddianc rhag hon.’

Llyfryddiaeth

- Aaron, Jane, *Pur fel y Dur* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1998)
- Bowen, Geraint, gol., *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif* (Gomer, 1976)
- Braine, John, *How to Write a Novel* (Methuen, 2000)
- Bebb W. Ambrose, *Canrif o Hanes y Tŵr Gwyn* (dim dyddiad nac enw cyhoeddwr)
- Butterfield, Herbert, *A Historical Novel* (Cambridge University Press, 1924)
- Bradley A.G., *Highways and Byways of North Wales* (Macmillan, 1898)
- Cecil, David, *A Portrait of Jane Austen* (Book Club Associates, 1978)
- Canlyniad Cyfrifiad 1881-1911 (cyrchwyd oddi ar y we, Ionawr 2014)
- Davies, John, *Hanes Cymru* (Penguin, 1990)
- Davies, Morris, *Cofiant Ann Griffiths* (Dinbych, 1865)
- Davies, Russell, *Secret Sins: Sex, Violence and Society in Carmarthenshire 1870-1920* (University of Wales Press, 2012)
- Eames, Marion, *I Hela Cnau* (Gomer, 1978)
- Ellis, T. I., *Crwydro Maldwyn* (Gwasg Llandybie, 1957)
- Fox, William, *The Model Botanic Guide to Health* (Fox, 1909)
- Geddes, R. Stanley, *A History of Slate Quarries of Kirkby in Furness* (Geddes, 1976)
- Gwyddionadur Cymru* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2008)
- Griffith, Edward, *Hanes Methodistiaid Trefaldwyn Isaf* (Caernarfon, 1914)
- Groot, Jerome, *The Historical Novel* (Routledge, 2010)
- History of The Panama Canal* (cyrchwyd oddi ar y we, Awst 2014)
- Hume, Ian and Pryce, W. T. R. Pryce (eds), *The Welsh and their Country* (Gomer, 1986)
- Hughes, R. Cyril, *Catrin o Ferain* (Gomer, 1975)

Jones, A. Lewis, *Mostyn in Bygone Days* (Mostyn History Preservation Society; dim dyddiad)

Jones, Bethan Wyn, *Doctor Dail* (Carreg Gwalch, 2008)

Jones, Bill Griffith, 'Farmers & Fields in Nineteenth Century Wales: The case of Llanrhystud, Cardiganshire', *Journal of the National Library of Wales*, summer 1989, vol: xxvi/i

Jones H. R., *Montgomeryshire Collections Vol: XXV*

Jones, David, *The Policeman's Story* (St Wddyn's Parochial Council; dim dyddiad)

Jones Tecwyn, *Llanwddyn yn Llyn Heddiw* (Nereus, 2009)

Jones, Rhiannon Davies, *Fy Hen Lyfr Cownt* (Aberystwyth, 1966)

Mantel, Hilary, *Bring up the Bodies* (Harper Collins, 2012)

Morris, J. Hughes, *Hanes Methodistiaeth Liverpool* (Hughes a'i Feibion, 1929)

Mostyn Colliery (cyrchwyd oddi ar y we, Awst 2014)

Pennant, Thomas, *The History of the Parishes of Whitford & Holywell* (1796 / Cyngor Sir Clwyd, 1988)

Roberts, Owen, 'The Politics of Health & the origins of Liverpool's Vyrnwy scheme 1871-1892', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyfrol 20, rhif 2 (2000)

Rowlands, David, *Llanwddyn and Lake Vyrnwy* (dim cyhoeddwr a dim dyddiad)

Rowlands, John (gol.), *Sgleftrio ar Eiriau* (Gomer, 1992)

Stevens, Catrin, *Arferion Caru* (Gomer, 1977)

The History of Kirkby Group, *Kirkby in Furness: Fragments vol. 1-4* (The History of Kirkby Group, 2005)

Transactions of the Liverpool National Eisteddfod 1884 (Isaac Foulkes, 1885)

Wintie, Angela, 'The World of Philippa Gregory', *The Telegraph Magazine*, 16 Awst 2014

Wilson, A.N., *The Victorians* (Arrow, 2002)

Williams, Ioan, *Y Nofel* (Gomer, 1984)

Rhestr o gylchgronau a phapurau newydd y cyfeiriwyd atynt

Baner ac Amserau Cymru - 8 Chwefror 1888

Baner ac Amserau Cymru - 19 Ionawr 1889

Daily Liverpool Courier - 15 Gorffennaf 1881

Daily Liverpool Courier - 14 Gorffennaf 1892

Y Drych - 26 Tachwedd 1886

Y Dydd - 9 Mehefin 1882

Y Goleuad - 17 Gorffennaf 1903

Liverpool Mercury - 6 Tachwedd 1884

Liverpool Mercury - 7 Gorffennaf 1892

London Illustrated News - 23 Chwefror 1889

Llais y Wlad - 22 Gorffennaf 1881

Llais y Wlad - 21 Rhagfyr 1877

Tarian y Gweithiwr - 14 Chwefror 1889